

Dogfen ir Cyhoedd



**CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**

GŴYS A RHAGLEN

SUMMONS AND AGENDA

ar gyfer

for a

**CYFARFOD
RHITHIOL O GYNGOR SIR
YNYS MÔN**

**VIRTUAL MEETING OF THE
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**

ar

on

DYDD IAU, 10 MAWRTH 2022

**THURSDAY
10 MARCH 2022**

am 10.00 o'r gloch

at 10.00 am

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod.

R H A G L E N

1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

I dderbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2. COFNODION

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft o'r cyfarfodydd Cyngor Sir a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-

- 7 Rhagfyr 2021
- 21 Rhagfyr 2021 (Cyfarfod Arbennig)
- 11 Chwefror, 2022 (Cyfarfod Arbennig)

3. I DDERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR

4. CYFLWYNO DEISEBAU

I dderbyn unrhyw ddeiseb yn unol â Pharagraff 4.1.11 o'r Cyfansoddiad.

5. RHYBUDD O GYNIGIAD YN UNOL Â RHEOL 4.1.13.1 O'R CYFANSODDIAD

Cyflwyno Rhybudd o Gynigiad canlynol gan Arweinydd y Cyngor:-

Rydym fel Cyngor Sir Ynys Môn yn dangos ein cefnogaeth i bobl Wcráin gyda'r faner yn chwifio yn y Pencadlys a llaw gyfeillgar bobl Môn yn barod i roi lloches a chefnogaeth i'r rhai sydd angen.

Cyflwyno'r Rhybudd o Gynigiad canlynol gan y Cynghorydd R Meirion Jones:-

- 1. Bod Cyngor Sir Ynys Môn yn gofyn i Lywodraeth San Steffan ddatganoli i Lywodraeth Cymru yr hawl a'r grym iddynt fedru creu gwyliau banc i Gymru.*
- 2. Mae teimlad gan bobol Cymru, beth bynnag yw eu cefndir a'u traddodiad, i gefnogi nawddsant Cymru, Dewi Sant, ac i ddathlu hynny ar Fawrth y Cyntaf, yn flynyddol.*
- 3. Ar hyn o bryd mae'r hawl i greu gwyliau banc wedi'i roi i Lywodraeth yr Alban ac i Lywodraeth Gogledd Iwerddon, ond nid i Lywodraeth Cymru. Felly, gofynnir i Lywodraeth San Steffan yn yr un modd ddatganoli - drwy'r Banking and Financial Dealings Act 1971 - yr hawl i greu gwyliau banc i Lywodraeth Cymru.*

4. *Mae galwad i sefydlu Dydd Gŵyl Dewi fel gŵyl banc yng Nghymru. Mae hyn wedi ei wrthod gan Lywodraeth San Steffan ar sail ariannol, ond byddai gŵyl banc yn hwb sylweddol i Ynys Môn yn ei chefn gwlad a'i thwristiaeth. Yn sylfaenol, nid mater o gost ydi hwn ond o werth ac egwyddor.*

5. *Trwy hyn gofynnwn i holl bobol Ynys Môn anfon at Lywodraeth San Steffan efo neges debyg i un ni uchod a chopio eu Haelod Seneddol i'w neges.*

6. ADOLYGIAD RHEOLI TRYSORLYS BLYNYDDOL AR GYFER 2020/21

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, fel y cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 3 Mawrth 2022.

7. ADRODDIAD ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN RHEOLI TRYSORLYS 2021/22

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, fel y cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 3 Mawrth 2022.

8. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS 2022/23

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, fel y cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 3 Mawrth 2022.

9. Y STRATEGAETH GYFALAF

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, fel y cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 3 Mawrth 2022.

10. CYLLIDEB 2022/23

(a) Cyllideb a Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2022/23

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, fel y cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 3 Mawrth 2022.

(b) Cyllideb Cyfalaf 2022/23

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, fel y cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 3 Mawrth 2022.

(c) Gosod y Dreth Gyngor 2022/23

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, fel y cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 3 Mawrth 2022.

11. CYNLLUN TUAG AT CARBON SERO NET CYNGOR SIR YNYS MÔN 2022-2025

Cyflwyno adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr, fel y cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 9 Mawrth 2022.

12. STRATEGAETH DAI 2022/2027

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai, fel y cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 14 Chwefror 2022.

13. DEDDF RHENTU CARTREFI (FFIOEDD ETC) CYMRU 2019: TREFNIADAU GWEITHREDU

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd, fel y cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 14 Chwefror 2022.

14. ADRODDIAD ADOLYGU - CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd.

15. ADRODDIAD DRAFFT ASESIAID ANGHENION POBLOGAETH GOGLEDD CYMRU 2022

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, fel y cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 9 Mawrth 2022.

16. CÔD LLYWODRAETHIANT LLEOL

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn, AD a Thrawsnewid.

17. DATGANIAD POLISI TÂL 2022

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn, AD a Thrawsnewid.

CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2021

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Glyn Haynes (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Dafydd Roberts (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr R Dew, Jeff M Evans, John Griffith, Richard Griffiths, K P Hughes, T Ll Hughes MBE, Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones, Eric Wyn Jones, Richard Owain Jones, G O Jones, R Ll Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Bryan Owen, R G Parry OBE FRAGS, Gary Pritchard, Dylan Rees, J A Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams a Robin Williams

WRTH LAW: Prif Weithredwr,
Dirprwy Brif Weithredwr,
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,
Pennaeth Gwasanaethau Tai,
Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd,
Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo,
Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM),
Rheolwr Trwyddedu ac Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (SH),
Rheolwr Polisi a'r Iaith Gymraeg (FO),
Swyddog Cyfathrebu (GJ),
Swyddog Pwyllgor (MEH).

**HEFYD YN
BRESENNOL:** Dim

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Eric W Jones, Alun Roberts a Margaret Murley Roberts.

1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Datganodd y Cynghorydd R O Jones ddiddordeb personol sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 5 – Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Jeff M Evans ac nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar yr eitem honno.

Datganodd y Cynghorydd J Arwel Roberts ddiddordeb personol sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 5 – Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Jeff M Evans ac nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar yr eitem honno.

2. COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfodydd a ganlyn yn gywir:-

- 26 Hydref, 2021 (Arbennig)
- 22 Tachwedd, 2021 (Arbennig)

3. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR

Gwnaeth y Cadeirydd y cyhoeddiadau a ganlyn:-

- Llongyfarchwyd y rhai a oedd yn gyfrifol am drefnu'r Ffair Aeaf yn Llanelwedd a phawb o Ynys Môn a oedd yn llwyddiannus yn y Sioe.
- Llongyfarchwyd Isaac Floyd-Eve o Ysgol Uwchradd Caergybi ar gael ei ethol yn gynrychiolydd Ynys Môn ar Senedd Ieuenctid Cymru.
- Roedd y Cadeirydd yn dymuno diolch i Staff ac Aelodau Etholedig y Cyngor a staff lechyd a Gofal, yn ogystal â'r holl weithwyr allweddol mewn cymunedau lleol am eu gwaith wrth ddelio â Coronafeirws ac atal ei ymlediad.

* * * * *

Cydymdeimlwyd ag unrhyw Aelod neu Staff y Cyngor a oedd wedi cael profedigaeth.

Safodd Aelodau a Swyddogion fel arwydd o barch.

4. CYFLWYNO DEISEBAU

Ni dderbyniwyd yr un ddeiseb.

5. RHYBUDD O GYNNIG YN UNOL Â RHEOL 4.1.13.1 Y CYFANSODDIAD

- Cyflwynwyd – y Rhybudd o Gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Jeff M Evans, wedi'i ardystio gan y Cynghorwyr Robert LI Jones, Peter Rogers a Bryan Owen:-

“Fy mwriad yw ceisio cefnogaeth Cyngor Sir Ynys Môn er mwyn cael sicrwydd a gweithredu positif gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gwasanaeth Ambiwllans Cymru a Llywodraeth Cymru y bydd Gwasanaethau Cefnogi Iechyd effeithiol yn cael eu darparu, yn cynnwys y Gwasanaeth Ambiwllans, er mwyn gallu bodloni anghenion a gofynion y gymuned, gan fynd i'r afael â'r anawsterau a'r dirywiad mewn gwasanaethau iechyd, sy'n cael effaith andwyol ar iechyd a llesiant y gymuned.”

Mynegodd y Cynghorydd Jeff Evans ei bryderon dybryd am yr oedi wrth dderbyn gwasanaeth gan Wasanaeth Ambiwllans Cymru. Rhoddodd y Cynghorydd Evans enghreifftiau o brofiadau diweddar ei deulu ei hun a'r oriau maith y bu'n rhaid iddynt ddisgwyl am y Gwasanaeth Ambiwllans. Nododd ei fod wedi trafod y mater â Phrif Swyddog y Cyngor Iechyd Cymunedol a'i ymateb ef oedd bod y Rhybudd o Gynnig yn disgrifio pryderon Aelodau'r Cyngor Iechyd Cymunedol yn gywir.

Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Bryan Owen a dywedodd fod y Cynghorydd Jeff Evans wedi cyflwyno'r Rhybudd o Gynnig oherwydd ei brofiadau personol o orfod disgwyl am oriau i'r Gwasanaeth Ambiwllans roi gofal i'w deulu yn ystod eu salwch diweddar. Fodd bynnag, nododd fod y gwasanaeth o dan bwysau aruthrol a bod y pandemig wedi rhoi pwysau ychwanegol ar y Gwasanaeth Iechyd cyfan, ond nid yw'n dderbyniol bod cleifion yn gorfod disgwyl am oriau maith i'r Gwasanaeth Ambiwllans gyrraedd. Ychwanegodd ei fod o'r farn y dylid anfon llythyr at y Gwasanaeth Ambiwllans a Llywodraeth Cymru i fynegi pryder a nodi bod angen dybryd i wella'r amseroedd aros i gleifion.

Dyweddodd yr Arweinydd bod y pwysau ar y Gwasanaeth Iechyd yn fater o bryder cenedlaethol. Nododd bod y materion y cyfeiriwyd atynt yn y Rhybudd o Gynnig wedi cael eu codi gyda Chadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a thrwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar ran Arweinwyr Awdurdodau Lleol ledled Gogledd Cymru. Codwyd pryderon hefyd am y pwysau ar y Gwasanaethau Brys yng nghyfarfodydd Grŵp Arweinyddiaeth Gogledd Cymru ym mhresenoldeb cynrychiolwyr Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Dywedodd yr Arweinydd ei bod yn bwysig cydnabod y pwysau ar y Gwasanaethau Iechyd a'r Gwasanaethau Brys yn ystod cyfnod o bwysau eithriadol, ynghyd â'r gofynion ychwanegol oherwydd y pandemig.

Roedd Aelodau'r Cyngor yn unfrydol o blaid y Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Jeff Evans a:-

PHENDERFYNWYD cefnogi'r cynnig.

- Cyflwynwyd – y Rhybudd o Gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Robert LI Jones, wedi'i ardystio gan y Cynghorwyr Aled Morris Jones, Bryan Owen, Kenneth P Hughes a Peter Rogers:-

“Gofynnaf i'r Cyngor Sir wneud DATGANIAD ADEILADAU CARBON SERO NET ynghyd â RHOI CAMAU GWEITHREDU AR WAITH AR UNWAITH I GYFLAWNI'R YMRWYMIAD. MAE YFORY'N RHY HWYR.”

Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Bryan Owen.

Dyweddodd y Cynghorydd R LI Jones fod y gynhadledd COP26 a gynhaliwyd yng Nglasgow yn ddiweddar wedi gwneud ymrwymiad i fynd i'r afael â'r Argyfwng Hinsawdd. Ychwanegodd y bydd dyletswydd ar gynghorau lleol i leihau allyriadau carbon yn eu hardaloedd a gofynnod i'r Cyngor gefnogi'r cynnig i wneud datganiad adeiladau carbon sero net ar unwaith.

Dyweddodd y Cynghorydd Dafydd R Thomas, y Pencampwr Newid Hinsawdd, bod yr Awdurdod wedi datgan Argyfwng Hinsawdd ym mis Medi 2020 a'i fwriad i fod yn Awdurdod Carbon Niwtral erbyn 2030 a bod hynny'n cynnwys holl adeiladau'r Cyngor Sir. Ychwanegodd bod y Pwyllgor Gwaith wedi penderfynu datblygu a gweithredu Rhaglen Newid Hinsawdd gorfforaethol newydd a fydd yn caniatáu'r Awdurdod i drawsnewid i fod yn sefydliad carbon niwtral erbyn 2030. Mae'r Pwyllgor Gwaith hefyd wedi cymeradwyo recriwtio Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd i arwain ar ddatblygu a chyflawni'r rhaglen ac mae'r swyddog wedi cael ei benodi ac wedi dechrau ar ei waith. Dywedodd bod yr Awdurdod wedi gwario dros £2.4m i leihau'r ôl-troed carbon. Dywedodd y Cynghorydd Thomas fod y Cyngor wedi cymryd camau sylweddol yn barod tuag at fod yn Awdurdod Carbon Niwtral erbyn 2030 ac nid oedd yn ystyried bod angen cefnogi'r cynnig.

Yn dilyn pleidlais, lle pleidleisiodd 16 yn erbyn, 6 o blaid a 3 yn atal eu pleidlais:-

Ni chariwyd y cynnig.

- Cyflwynwyd – y Rhybudd o Gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Richard Dew, wedi'i ardystio gan y Cynghorydd Llinos Medi Huws:-

- *Ei gwneud yn ofynnol i bob arddangosfa tân gwyllt cyhoeddus o fewn ffiniau'r awdurdod lleol gael ei hysbysebu cyn y digwyddiad er mwyn caniatáu i drigolion ofalu am eu hanifeiliaid anwes a phobl fregus.*
- *Hyrwyddo ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus am effaith tân gwyllt ar lesiant anifeiliaid a phobl fregus – yn cynnwys y mesurau y gellir eu cymryd i liniaru'r risgiau.*
- *Annog cyflenwyr tân gwyllt yn lleol i werthu tân gwyllt 'distawach' ar gyfer arddangosfeydd cyhoeddus.*

Dyweddodd y Cynghorydd Richard A Dew bod tân gwyllt yn cael ei ddefnyddio'n llawer mwy aml i ddathlu gwahanol achlysuron ond mae'n rhaid cydnabod bod hyn yn effeithio ar bobl fregus ac anifeiliaid oherwydd y niwsans sŵn a achosir. Ychwanegodd y gallai rhoi rhybudd ymlaen llaw o ddigwyddiadau cyhoeddus ganiatáu i breswylwyr gymryd camau angenrheidiol i amddiffyn pobl fregus ac anifeiliaid.

Eiliwyd y cynnig gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Llinos M Huws.

Roedd Aelodau'r Cyngor yn unfrydol o blaid y Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Richard A Dew a:-

PHENDERFYNWYD cefnogi'r cynnig.

6. STRATEGAETH HYBU'R GYMRAEG

Cyflwynwyd i'r Cyngor ei dderbyn, adroddiad y Prif Weithredwr, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 29 Tachwedd 2021.

PENDERFYNWYD cadarnhau'r argymhellion a gynhwysir yn y Strategaeth Hybu'r Gymraeg.

7. CYNLLUN TROSIANNOL

Cyflwynwyd i'r Cyngor ei dderbyn, adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 29 Tachwedd 2021.

PENDERFYNWYD cadarnhau'r argymhellion a gynhwysir yn y Cynllun Trosiannol.

8. DATGANIAD O BOLISI GAMBLO 2022-2025

Cyflwynwyd i'r Cyngor ei dderbyn, adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 29 Tachwedd 2021.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r argymhellion a gynhwysir yn y Datganiad o Bolisi Gamblo 2022-2025.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.45pm

**Y CYNGHORYDD GLYN HAYNES
CADEIRYDD**

CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cofnodion y cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd yn rhithwir ar 21 Rhagfyr 2021

- YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Glyn Haynes (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Dafydd Roberts (Is-gadeirydd)
- Y Cynghorwyr R Dew, John Griffith, Richard Griffiths, K P Hughes, T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, Richard Owain Jones, G O Jones, R Ll Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Bryan Owen, R G Parry OBE FRAGS, Gary Pritchard, Dylan Rees, Alun Roberts, Margaret Murley Roberts, Nicola Roberts, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams a Robin Williams.
- WRTH LAW:** Prif Weithredwr,
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,
Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,
Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd,
Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo,
Pennaeth Gwasanaethau Tai,
Rheolwr Adnoddau Dynol (CW),
Swyddog Adnoddau Dynol (NH),
Swyddog Cyfathrebu (GJ),
Swyddog Pwyllgor (MEH).
- HEFYD YN BRESENNOL:** Dim
- YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Jeff Evans, Carwyn Jones, Eric Wyn Jones, J A Roberts a P S Rogers.

1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

2. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-

“O dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd.”

3. PENODIADAU STAFF – PENODI PRIF WEITHREDWR

Ystyriwyd argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Rhagfyr 2021 mewn perthynas â phenodi Prif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn.

PENDERFYNWYD cadarnhau argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Rhagfyr 2021 bod Mr Dylan Williams yn cael ei benodi'n Brif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.10am

**Y CYNGHORYDD GLYN HAYNES
CADEIRYDD**

CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2022

- YN BRESENNOL:** Cyngorydd Glyn Haynes (Cadeirydd)
Cyngorydd Dafydd Roberts (Is-gadeirydd)
- Cyngorwyr R Dew, John Griffith, Richard Griffiths, K P Hughes, T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones, Richard Owain Jones, G O Jones, Alun W Mummery, Bryan Owen, Bob Parry OBE FRAGS, Gary Pritchard, Dylan Rees, Alun Roberts, Margaret Murley Roberts, P S Rogers, Dafydd Rhys Thomas ac Ieuan Williams.
- WRTH LAW:** Prif Weithredwr,
Dirprwy Brif Weithredwr,
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro Interim,
Pennaeth Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo,
Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol
Rheolwr Gwasanaethau Pensaernïol (GT),
Swyddog Cyfathrebiadau (GJ),
Swyddog Pwyllgor (MEH).
- HEFYD YN BRESENNOL:** Dim
- YMDDIHEURIADAU:** Cyngorwyr Eric W Jones, R Meirion Jones, J Arwel Roberts, Nicola Roberts a Robin Williams.
- Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid, Pennaeth Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd.

CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Cafwyd y cyhoeddiadau canlynol gan y Cadeirydd:-

Cafodd Hannah Baguley, Warden Cymunedol y Tîm Cefn Gwlad, ei llongyfarch am ennill y gystadleuaeth ffotograffiaeth a ddarlledwyd ar S4C yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i staff Canolfannau Hamdden yr Awdurdod gan fod pyllau nofio Amlwch, Caergybi a Llangefni wedi dod y rhai cyntaf yng Nghymru i dderbyn y Safon Poolmark - Safon Genedlaethol y DU ar gyfer gweithredu pyllau iach.

* * * *

Cydymdeimlwyd â Chyn Arweinydd a Chadeirydd y Cyngor, Mr Gareth Winston Roberts, a'i deulu ar golled drasig eu mab Marc yn dilyn damwain traffig y ffordd ar Bont Britannia yn ddiweddar.

Cydymdeimlwyd hefyd ag unrhyw Aelod o'r Cyngor neu Aelod o Staff sydd wedi dioddef profedigaeth.

1. DATGANIADAU O DDIDDERDEB

Bu'r Cynghorydd Dylan Rees datgan diddordeb personol yn Eitem 3 - Canolfan Addysg y Bont - Y to. Yn dilyn derbyn cyngor cyfreithiol roedd modd i'r Cynghorydd Rees gymryd rhan a bwrw pleidlais mewn perthynas â'r eitem hon.

2. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Holodd y Cynghorydd Bryan Owen pam fod y mater yn ymwneud â tho Canolfan Addysg y Bont yn un i'w drafod o dan reolau cau allan y wasg a'r cyhoedd gan ei bod yn amlwg fod problem â strwythur y to gan fod y mater eisoes wedi'i drafod gan y Cyngor Llawn.

Ymatebodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro Interim fod y Prawf Budd y Cyhoedd wedi'i gwblhau mewn perthynas â'r eitem a bod y mater yn dod o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Fodd bynnag, mae'n benderfyniad i'r Cyngor Llawn a ddylid cau allan y wasg a'r cyhoedd ond y cyngor cyfreithiol yw y dylid gwneud hynny.

PENDERFYNWYD:-

“O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.”

3. CANOLFAN ADDYSG Y BONT – ATGYWEIRO'R TO

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo, fel sydd wedi'i adrodd i'r Cyngor Llawn eisoes, bod problemau wedi eu darganfod mewn perthynas â diffygion i strwythur y to sydd angen eu hatgyweirio yn helaeth a bod angen cyllid pellach er mwyn gallu talu am unrhyw waith ychwanegol a gwaith na ellir ei ragweld, petai'n codi.

Rhoddodd y Pennaeth Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo a'r Rheolwr Gwasanaethau Pensaernïol adroddiad llafar mewn perthynas â'r sefyllfa bresennol yng Nghanolfan Addysg y Bont gan gyflwyno'r adroddiad ysgrifenedig a oedd eisoes wedi'i ddarparu i Aelodau.

Holodd yr Aelodau gwestiynau pellach ac fe ymatebodd Swyddogion i'r cwestiynau.

Roedd Aelodau'r Cyngor Sir yn gytûn bod llesiant y disgyblion a oedd yn cael eu heffeithio gan y gwaith trwsio angenrheidiol i'r to yng Nghanolfan Addysg y Bont yn hanfodol ac y dylai unrhyw aflonyddwch i'w haddysg gael ei gadw i lefel mor isel ag sy'n rhesymol bosibl. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc bod cyswllt dyddiol yn cael ei gynnal â Phennaeth Canolfan Addysg y Bont o ran y trefniadau presennol i letya disgyblion mewn gwahanol leoliadau ac er mwyn sicrhau bod y trefniadau hynny'n dderbyniol.

PENDERFYNWYD yn unfrydol y dylid:-

- rhyddhau swm ychwanegol o £1.5 miliwn o falansau cyffredinol y Cyngor
- awdurdodi'r Pennaeth Gwasanaeth Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo i wneud y trefniadau angenrheidiol ar gyfer ymgymryd â'r gwaith atgyweirio a dyfarnu contract yn uniongyrchol i'r cyflenwr arbenigol heb yr oedi a'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â dilyn proses gaffael lawn.
- awdurdodi'r Pennaeth Gwasanaeth Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo, mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a'r

Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro, i barhau â hawliad i adennill costau'r gwaith atgyweirio a'r holl gostau cysylltiedig eraill gan unrhyw barti y bernir eu bod yn atebol am adeiladwaith diffygiol y to.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.20 pm

**CYNGHORYDD GLYN HAYNES
CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	CYNGOR SIR
Dyddiad:	10 MAWRTH 2022
Pwnc / Testun	ADOLYGIAD RHEOLI TRYSORLYS BLYNYDDOL AR GYFER 2020/21
Deilydd(ion) Portffolio:	Y CYNGHORYDD R WILLIAMS – DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	MARC JONES - CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151
Awdur yr Adroddiad:	JEMMA ROBINSON
Ffôn:	01248 752675
E-bost:	JemmaRobinson@ynysmon.gov.uk
Aelodau Lleol:	Amherthnasol
A – Argymhelliad / Argymhellion a Rheswm / Rhesymau	
<ul style="list-style-type: none"> Ystyried Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2020/21. 	
B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?	
Amherthnasol	
C – Am ba reswm mae hwn yn benderfyniad i'r Cyngor Sir?	
<ul style="list-style-type: none"> Cydymffurfio â rheoliadau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a Chynllun Dirprwyo Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2020/21 (Atodiad 8 Datganiad Strategaeth Reoli'r Trysorlys 2020/21). Yn unol â'r Cynllun Dirprwyo, craffodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar yr adroddiad hwn ar 20 Gorffennaf 2021 a Pwyllgor Gwaith ar 3 Mawrth 2022. 	
CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn?	
Ydi	
D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?	
Amherthnasol	
DD – Aseu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol)	
1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?
2	A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut:-
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhwch wybod gyda phwy:-
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-
5	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	
7	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	
E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)(gorfodol)	
2	Cyllid / Adran 151 (gorfodol)	Amherthnasol – y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad hwn.
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	
4	Adnoddau Dynol (AD)	
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	
7	Caffael	
8	Sgriwtini	
9	Aelodau Lleol	
10	Arall	<p>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Pwyllgor Gwaith:-</p> <p>(i) Nodi y bydd y ffigyrau alldro yn yr adroddiad hwn yn parhau i fod yn rhai dros dro nes bod yr archwiliad o Ddatganiad Cyfrifon 2020/21 wedi'i gwblhau a'i lofnodi; adroddir fel sy'n briodol ar unrhyw addasiadau sylweddol sy'n deillio o'r ffigyrau a gynhwysir yn yr adroddiad hwn;</p> <p>(ii) Nodi'r dangosyddion Pwylllog a Thrysorlys dros dro ar gyfer 2020/21 yn yr adroddiad hwn;</p> <p>(iii) Derbyn adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol ar gyfer 2020/21 a'i argymhell i'r Cyngor llawn heb sylwadau.</p>
F - Atodiadau:		
Atodiad A – Adolygiad Blynyddol Rheoli Trysorlys am 2020/21		
FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):		
<ul style="list-style-type: none"> • Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys am 2020/21 • Dangosyddion Pwylllog a Rheoli Trysorlys 2020/21 • Adroddiad Adolygiad Canol Blwyddyn ar Reoli Trysorlys 2020/21 • Adroddiad Alldro Cyfalaf 2020/21 		

1. Rhagarweiniad

Mae'n ofynnol i'r Cyngor, yn ôl rheoliadau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, gynhyrchu adolygiad rheoli trysorlys blynyddol o weithgareddau a'r dangosyddion darbodus a thrysorlys gwirioneddol ar gyfer 2020/21. Mae'r adroddiad hwn yn cwrdd â gofynion Côt Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys (y Côt) a Chôt Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf Awdurdodau Lleol (y Côt Darbodus).

Yn ystod 2020/21, y gofynion adrodd sylfaenol oedd y dylai'r Cyngor dderbyn yr adroddiadau a ganlyn:-

- strategaeth flynyddol ar gyfer y trysorlys cyn i'r flwyddyn gychwyn (derbyniwyd ar 10 Mawrth 2020);
- adroddiad diweddariad canol blwyddyn ar y trysorlys (derbyniwyd ar 09 Mawrth 2021);
- adolygiad blynyddol wedi i'r flwyddyn ddod i ben yn disgrifio'r gweithgaredd o'i gymharu â'r strategaeth (yr adroddiad hwn).

Mae'r amgylchedd rheoleiddio yn gosod cyfrifoldeb ar Aelodau i adolygu a chraffu ar bolisi a gweithgareddau rheoli trysorlys. Mae'r adroddiad hwn, felly, yn bwysig yn hynny o beth gan ei fod yn darparu manylion y sefyllfa alldro ar gyfer gweithgareddau trysorlys ac yn tynnu sylw at gydymffurfiaeth â pholisïau'r Cyngor a gymeradwywyd yn flaenorol gan yr Aelodau.

Mae'r Cyngor hwn yn cadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â'r gofyniad o dan y Cod bod raid i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio graffu ymlaen llaw ar bob un o'r adroddiadau rheoli trysorlys cyn yr adroddiad arnynt i'r Cyngor llawn. Rhoddwyd hyfforddiant i Aelodau ar faterion rheoli trysorlys yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20 er mwyn cefnogi rôl sgrwtini yr Aelodau.

Mae'r Swyddog Adran 151 yn cadarnhau mai dim ond at ddibenion cyfalaf y benthycwyd ac nad aethpwyd y tu hwnt i'r terfyn benthycyca statudol (y terfyn awdurdodedig).

At hynny, mae'r adroddiad yn nodi'r canlyniadau canlynol ym mlwyddyn ariannol 2020/21:-

- Ffactorau allanol – gan gynnwys adolygiad o'r economi, perfformiad cyfraddau llog yn ystod y flwyddyn a'r ansicrwydd parhaus ynghylch Brexit ac effaith Covid 19;
- Ffactorau mewnol – gan gynnwys perfformiad gwariant cyfalaf, yr effaith ar y cronfeydd wrth gefn a balansau arian parod, archwaeth risg o ran buddsoddiadau, y benthyciadau a gymerwyd gan y Cyngor a'r effaith ar y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC);
- Y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn 2020/21 – gan gynnwys rheoli dyledion y Cyngor, gweithredu'r polisi Darpariaeth Refeniw Isaf (*Minimum Revenue Provision* - MRP) newydd, a benthyciadau a buddsoddiadau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn;
- Rheoli'r Trysorlys – Beth yw'r Dangosyddion Darbodus a sut y cânt eu mesur;
- Cymharu'r Dangosyddion Darbodus – Cymharu'r Dangosyddion Darbodus gwirioneddol gyda'r rhagolygon ar ddechrau'r flwyddyn;
- Edrych ymlaen at 2021/22 a'r tu draw i hynny; a
- Casgliad.

2. Adolygiad o'r Flwyddyn – Ffactorau Allanol

2.1 Cyfraddau Llog – Cafodd y Gyfradd Banc ei thorri o 0.75% i 0.25% ac yna i 0.10% ym mis Mawrth 2020 a ni fu unrhyw newid drwy gydol blwyddyn ariannol 2020/21.

2.2 Yr Economi - y Deyrnas Unedig - bydd blwyddyn ariannol 2020/21 yn cael ei chofnodi yn y llyfrau hanes fel blwyddyn y pandemig. Oherwydd y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf ddiwedd mis Mawrth 2020, gwnaed niwed aruthrol i economi nad oedd wedi paratoi ar gyfer y fath ddigwyddiad. Achosodd hyn ddirywiad economaidd a oedd yn waeth na'r un a achoswyd gan yr argyfwng ariannol yn 2008/09. Cymharol ychydig o niwed a achoswyd gan ail gyfnod clo byr ym mis Tachwedd 2020, ond erbyn y trydydd cyfnod clo ym mis Ionawr 2021 roedd busnesau

ac unigolion wedi datblygu i fod yn fwy gwydn wrth addasu i ffyrdd newydd o weithio, felly achoswyd llawer llai o niwed na'r hyn a welwyd yn ystod y cyfnod clo cyntaf.

Roedd dechrau cyflwyno brechiadau ym mis Tachwedd 2020 yn newid y sefyllfa'n llwyr. Mae'r ffordd y mae'r DU a'r Unol Daleithiau wedi arwain y byd wrth gyflwyno rhaglen frechu gyflym sy'n addo arwain at ddychwelyd i rywbeth tebycach i fywyd arferol yn ystod ail hanner 2021, wedi bod yn allweddol o ran cyflymu'r adferiad economaidd ac ailagor yr economi. Yn ogystal, mae cyfradd cynilo aelwydydd wedi bod yn eithriadol o uchel ers y cyfnod clo cyntaf ym mis Mawrth 2020 ac felly mae digon o alw cronedig a grym prynu wedi eu cadw yn ôl ar gyfer gwasanaethau yn y sectorau hynny sydd mewn dirwasgiad megis bwytai, teithio a gwestai cyn gynted ag y byddant yn ailagor. Felly, disgwylir y gallai economi'r DU adfer i'r un lefel o weithgarwch economaidd â chyn y pandemig yn ystod chwarter 1 2022.

Cymerodd y Llywodraeth a Banc Lloegr gamau cyflym ym mis Mawrth 2020, pan oedd yr argyfwng yn ei anterth, i ddarparu cymorth i farchnadoedd ariannol er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu'n briodol, ac i gefnogi'r economi a gwarchod swyddi.

Cafodd y Gyfradd Banc ei thorri o 0.75% i 0.25% gan y Pwyllgor Polisi Ariannol ac yna i 0.10% ym mis Mawrth 2020, a chyflwynwyd rhaglen esmwytho meintiol (*quantitative easing*) gwerth £200bn (prynu giltiau er mwyn lleihau costau benthyca ym mhob rhan o'r economi drwy leihau arenillion o giltiau). Bu cynnydd o £100bn yn y rhaglen esmwytho meintiol ym mis Mehefin a £150bn ym mis Tachwedd, gan fynd â'r cyfanswm i £895bn. Er na fu newid yn y Gyfradd Banc yn ystod gweddill y flwyddyn, roedd y marchnadoedd ariannol yn pryderu y gallai'r Pwyllgor Polisi Ariannol dorri'r Gyfradd Banc a chreu cyfradd negyddol; cafodd hynny ei ddiystyru yn bendant yng nghyfarfod y Pwyllgor Polisi Ariannol ym mis Chwefror 2021 pryd sefydlwyd na fyddai banciau masnachol yn gallu gweithredu cyfraddau negyddol am o leiaf chwe mis – ond erbyn hynny roedd disgwyl y byddai adferiad cryf yn yr economi ac na fyddai angen cyfraddau negyddol.

Yr ychwanegiad allweddol ym mlaen-ganllawiau'r Banc y mis Awst oedd ymadrodd newydd yn y datganiad polisi, sef "nid yw'n bwriadu tynhau polisi ariannol nes bydd tystiolaeth glir fod cynnydd sylweddol yn cael ei wneud i gael gwared ar gapasiti gwag a chyflawni'r targed o 2% yn gynaliadwy". Ymddengys bod hynny wedi'i gynllunio i ddweud, i bob pwrpas, hyd yn oed os bydd chwyddiant yn codi i 2% mewn rhyw ddwy flynedd, peidiwch â disgwyl i'r Pwyllgor Polisi Ariannol gymryd unrhyw gamau i godi'r Gyfradd Banc - nes y byddant yn gallu gweld yn glir bod lefel chwyddiant yn mynd i fod yn gyson uwch na'r targed os na fydd yn cymryd camau i godi'r Gyfradd Banc. Mae hyn yn gosod y bar yn uchel ar gyfer codi'r Gyfradd Banc ac ni ddisgwylir unrhyw gynnydd cyn mis Mawrth 2024, ac o bosib, am gyhyd â phum mlynedd. Mae chwyddiant wedi bod ymhell o dan 2% yn ystod 2020/21; disgwylir y bydd yn codi i ychydig dros 2% tua diwedd 2021, am gyfnod byr, ond ffactor dros dro fydd hyn ac felly nid yw'n peri pryder i'r Pwyllgor Polisi Ariannol.

Mae'r Canghellor wedi darparu sawl cylch o gymorth i fusnesau drwy gyfrwng benthyciadau rhad a mesurau eraill, ac mae o wedi gwarchod swyddi drwy dalu i roi gweithwyr ar y cynllun cadw swyddi (ffyrlo). Mae'r cymorth hwn wedi costio'n ddrud yn nhermau'r diffyg yng nghyllideb y Llywodraeth, a chwyddodd y diffyg yn 2020/21 a 2021/22 fel bod cymhareb y Ddyled i Gynnyrch Gros Domestig (GDP) yn cyrraedd oddeutu 100%. Roedd y Gyllideb ar 03 Mawrth 2021 yn cynyddu cymorth ariannol i'r economi a swyddi yn ystod 2021 a 2022, gyda chynnydd sylweddol mewn trethi yn y tair blynedd wedi hynny i gynorthwyo i dalu am gost y pandemig. Bydd hyn yn helpu i gryfhau adferiad yr economi ymhellach yn dilyn y pandemig ac i adfer cyllid y Llywodraeth i sefyllfa lle bydd y gyllideb yn cydbwysu, ar sail gwariant ac incwm cyfredol, yn 2025/26. Bydd hyn yn atal cynnydd pellach yng nghymhareb y Ddyled i GDP o 100%. Un maes sy'n peri pryder, serch hynny, yw fod dyled y Llywodraeth ddwywaith mor sensitif i gynnydd mewn cyfraddau llog yn awr; felly, mae yna gymhelliant cryf i'r Llywodraeth hyrwyddo cadw'r Gyfradd Banc yn isel e.e. drwy ddefnyddio polisi ariannol ar y cyd â'r camau polisi ariannol gan Fanc Lloegr i gadw chwyddiant rhag codi'n rhy uchel, a / neu drwy ddiwygio mandad polisi'r Banc i ganiatáu targed uwch ar gyfer chwyddiant.

2.3 Brexit - Roedd y cytundeb terfynol ar 24 Rhagfyr 2020 yn cael gwared â risg gostyngiad (*downside risk*) sylweddol i economi'r DU. Dim ond masnach oedd wedi'i gynnwys yn y cytundeb cychwynnol, felly mae angen gwneud mwy o waith ar y sector gwasanaethau lle caniatawyd cyfwerthedd dros dro yn y ddau gyfeiriad rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd; mae angen ffurfioli hynny yn barhaol yn awr. Roedd llawer o darfu ar fasnach ym mis Ionawr wrth i llenwi ffurflenni greu rhwystr aruthrol i fasnach. Ymddengys bod y sefyllfa wedi lleddfu ychydig

ers hynny ond mae angen gwneud mwy o waith yn y maes hwn i leihau'r anawsterau, sy'n parhau i fod yn ddifrifol mewn rhai meysydd.

3. Adolygiad o'r Flwyddyn – Ffactorau Mewnol

3.1 Gwariant a Chyllid Cyfalaf 2020/21 – Mae'r Cyngor yn mynd i wariant cyfalaf ar asedau tymor hir. Gellir cyllido'r gweithgareddau hyn naill ai:-

- Ar unwaith trwy adnoddau cyfalaf neu refeniw (derbyniadau cyfalaf, grantiau cyfalaf, chyfraniadau refeniw ac ati), nad yw'n cael unrhyw effaith ar angen y Cyngor i fenthyca; neu
- Trwy fenthyca; Os nad oes digon o gyllid ar gael, neu os penderfynir peidio â defnyddio adnoddau, bydd y gwariant cyfalaf yn arwain at angen i fenthyca.

Mae'r gwariant cyfalaf gwirioneddol yn un o'r dangosyddion darbodus gofynnol. Mae'r tabl isod yn dangos y gwir wariant cyfalaf y sut y cyllidwyd hyn.

	Amcangyfrif 2020/21 (£'m)	Gwirioneddol 2020/21 (£'m)
Gwariant cyfalaf o'r Gronfa Gyffredinol	39	20
Gwariant Cyfalaf o'r CRT	19	13
Cyfanswm Gwariant Cyfalaf	58	33
Cronfa Gyffredinol a gyllidwyd yn y flwyddyn gan Grantiau a Chyfraniadau	23	16
CRT a gyllidwyd yn y flwyddyn gan Grantiau a Chyfraniadau	3	5
Cronfa gyffredinol a gyllidwyd yn y flwyddyn gan Adnoddau'r Cyngor	1	2
CRT a gyllidwyd yn y flwyddyn gan Adnoddau'r Cyngor	16	7
Gwariant cyfalaf o'r Gronfa Gyffredinol a gyllidwyd trwy fenthyca	15	3
Gwariant cyfalaf o'r CRT a gyllidwyd trwy fenthyca	0	0

Y prif reswm am y tanwario oedd y tanwariant mawr yn erbyn y prosiectau a restrir isod.

Cynllun	Tanwariant £'m	Sylw
Adnewyddu adeiladau ysgol	1.419	Yn ystod rhan olaf 2020/21, dyfarnwyd £1.183m o arian grant ychwanegol i'r Awdurdod ar gyfer gwaith cynnal a chadw cyfalaf mewn ysgolion. Defnyddiwyd yr arian grant i gyllido cynlluniau cyfalaf y penderfynwyd arnynt yn lleol yn 2020/21, yn lle defnyddio adnoddau'r Awdurdod ei hun. Defnyddir yr arian a arbedwyd gan yr Awdurdod o'r grant hwn yn awr i gyllido gwaith cyfalaf mewn ysgolion yn 2021/22.
Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl	0.392	Arweinir gan y galw i raddau helaeth ac mae'n rhaid cwrdd â rhai meini prawf i fod yn gymwys i dderbyn grant. Yn benodol, mae'n rhaid cynnal prawf modd i bob darpar gleient a all effeithio'n negyddol ar nifer yr achosion sy'n mynd ymlaen i dderbyn grant.
Cynlluniau Ysgolion yr 21ain Ganrif	6.800	Mae ymgynghori pellach wedi gohirio cychwyn y cynlluniau a ddewiswyd. Fodd bynnag, bwriedir cychwyn gwaith ar y safle yn gynnar yn 2021/22 mewn perthynas â'r cynllun Band A olaf.

Contract Gwastraff	2.199	Mae oedi wrth gyflenwi rhai cerbydau fflyd yn golygu y bydd hyn yn llithro i 2021/22. Disgwylir y bydd y cerbydau sy'n weddill yn cael eu cyflenwi yn gynnar yn 2021/22.
Porth Twristiaeth	1.016	Roedd oedi yn y trefniadau tendro yn golygu bod rhaid ail-dendro'r gwaith yn chwarter 4. Mae hwn yn gynllun parhaus ac mae cyllideb newydd wedi cael ei dyrannu iddo yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2021/22.
Cynlluniau Llifogydd Amrywiol	1.893	Mae rhai cynlluniau'n parhau ac yn pontio gwahanol flynyddoedd ariannol. Bu oedi mewn cynlluniau eraill a chytunwyd ar estyniad amser gyda Llywodraeth Cymru i ddwyn y cyllid ymlaen.
Adfywio Caergybi (Cam II Menter Treftadaeth Treflun)	0.866	Roedd sawl achos o oedi drwy gydol y flwyddyn yn golygu na ddatblygodd prosiectau ar y cyflymder a fwiadwyd yn wreiddiol, gan arwain at amrywiad mor fawr yn y gyllideb. Dyrannwyd cyllideb newydd ar gyfer 2021/22.
Safle Preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr	0.493	Mae gwaith yn parhau i ailgynllunio'r cynllun er mwyn lleihau'r costau i gyd-fynd â'r cyllid sydd ar gael.
Prosiectau TG	0.292	Cafwyd oedi oherwydd Covid ac yn ogystal, roedd angen adnewyddu llai o eitemau nag a ragwelwyd.
Gwaith cyfalaf ar asedau cyfredol	0.255	Oedi oherwydd diffyg ymateb i dendr ond mae gwaith ar y safle ar hyn o bryd ac yn mynd rhagddo.
Gwelliannau Hamdden	0.243	Oherwydd i'r canolfannau hamdden fod ar gau am y rhan fwyaf o'r flwyddyn a bod y tîm rheoli wedi symud i gynorthwyo gyda gwaith Covid, nid aeth y prosiectau rhagdynt. Mae prosiectau ar y gweill a chynlluniwyd i'r gwaith barhau yn 2021/22.
Grant cyfalaf gofal plant	0.523	Nid yw safleoedd ysgol eraill wedi cael eu cwblhau eto ac mae Llywodraeth Cymru wedi caniatáu estyniad hyd at fis Mawrth 2022 i wario'r grant sy'n weddill.

3.2 Cronfeydd Wrth Gefn a Balansau – mae balansau arian parod y Cyngor yn cynnwys adnoddau referniw a chyfalaf a chyllid ar gyfer llif arian. Roedd adnoddau arian craidd y Cyngor fel a ganlyn:-

Cronfeydd wrth gefn a darpariaethau y gellir eu defnyddio	Drafft 31-Maw-21 £'m	Terfynol 31-Maw-20 £'m
Cronfa wrth gefn cyffredinol Cronfa'r Cyngor	11.594	7.060
Cronfeydd wrth gefn clustnodedig	14.079	8.760
Cronfa wrth gefn y Gronfa Refeniw Tai (CRT)	9.743	8.597
Cronfeydd wrth gefn ysgolion	4.015	0.197
Cronfeydd wrth gefn derbyniadau cyfalaf	0.767	1.330
Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio	40.198	25.944
Darpariaethau	5.047	5.180
Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn a'r darpariaethau y gellir eu defnyddio	45.245	31.124

3.3 Allanol benthycu – Mae angen sylfaenol y Cyngor i fenthycu ar gyfer gwariant cyfalaf yn cael ei alw yn Ofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC). Mae'r ffigwr hwn yn fesur o sefyllfa'r Cyngor o ran dyledion. Mae'r GCC yn deillio o weithgareddau cyfalaf y Cyngor a'r adnoddau a ddefnyddiwyd i dalu am y gwariant cyfalaf. Mae'n cynrychioli gwariant cyfalaf 2020/21 a gyllidwyd drwy fenthycu, a gwariant cyfalaf a gyllidwyd drwy fenthycu yn y blynyddoedd blaenorol nad ydyw eto wedi cael ei ad-dalu trwy referniw neu adnoddau eraill. Rhan o weithgareddau trysorlys y Cyngor yw mynd i'r afael â'r gofynion cyllido ar gyfer yr angen benthycu hwn. Gan ddibynnu ar y rhaglen gwariant cyfalaf, mae'r Gwasanaeth Trysorlys yn trefnu sefyllfa arian parod y Cyngor er mwyn sicrhau bod arian parod digonol ar gael ar gyfer y cynlluniau cyfalaf a'r gofynion llif arian. Gallai hyn gael ei gyllido drwy fenthycu gan gyrff allanol (megis y

Ilywodraeth, drwy'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) neu'r marchnadoedd arian), neu drwy ddefnyddio adnoddau arian parod dros dro o fewn y Cyngor. Ni fenthycwyd unrhyw arian allanol yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21.

3.3.1 Benthycia Gros a'r GCC – Er mwyn sicrhau bod y lefelau benthycia'n ddarbodus dros y tymor canol ac y benthycir at ddibenion cyfalaf yn unig, fe ddylai'r Cyngor sicrhau nad yw ei fenthycia allanol gros, ac eithrio yn y tymor byr, yn uwch na chyfanswm y gofyniad cyllido cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrifon unrhyw ofynion cyllido cyfalaf ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol nesaf. Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu nad yw'r Cyngor yn benthycia er mwyn cefnogi gwariant refeniw.

Mae'r strategaeth fenthycia fewnol bellach wedi bod yn cael ei gweithredu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae'r benthycia gros o £124.5m ar 31 Mawrth 2021 yn llai na'r GCC a ragwelir ar gyfer y ddwy flynedd nesaf.

	Gwirioneddol 2020/21 £'m	Amcangyfrif 2021/22 £'m	Amcangyfrif 2022/23 £'m
Gofyniad Cyllid Cyfalaf	136.6	146.1	157.6

3.3.2 Benthycia mewnol - yw pan, dros y tymor canol, y disgwylir i'r cyfraddau buddsoddi barhau i fod yn is na'r cyfraddau benthycia tymor hir. Mae hyn yn golygu y byddai ystyriaethau gwerth am arian yn dangos y gellid cael gwerth am arian drwy osgoi cymryd benthyciadau allanol newydd a drwy ddefnyddio balansau arian parod mewnol i gyllido gwariant cyfalaf newydd, neu yn lle dyledion allanol sy'n aeddfedu. Byddai hyn yn sicrhau'r arbedion tymor byr gorau. Y ffigur benthycia mewnol yw'r gwahaniaeth rhwng y GCC a'r Sefyllfa Benthycia Gros. Fel y gwelir o'r tabl isod, ar ddechrau'r flwyddyn y sefyllfa fenthycia fewnol oedd gorgyllido gan £2.3m. Trwy ad-dalu'r benthyciad tymor byr o £10m gan y PWLB a gymerwyd ym mis Mawrth 2020, a chan na chymerwyd unrhyw fenthyciadau newydd yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21, y sefyllfa benthycia mewnol ar 31 Mawrth 2021 yw £12.1m:

	31 Mawrth 2020 Gwirioneddol £'m	31 Mawrth 2021 Gwirioneddol £'m
Sefyllfa fenthycia gros	139.2	124.5
GCC	136.9	136.6
(Tangyllido) / Gorgyllido'r GCC	2.3	(12.1)

3.4 Benthyciadau eraill – Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth y Cyngor gymryd unrhyw fenthyciadau tymor byr eraill.

3.5 Ad-dalu dyledion – Aeddfedodd tri benthyciad gan y PWLB yn ystod y flwyddyn. Aeddfedodd benthyciad am £3.5m ar 08 Mehefin 2020. Cymerwyd y benthyciad gwreiddiol ym mis Chwefror 1995 ar gyfradd llog o 8.625%. Aeddfedodd benthyciad am £1.0m ar 18 Ionawr 2021. Cymerwyd y benthyciad gwreiddiol ym mis mai 1995 ar gyfradd llog o 8.5%. Aeddfedodd benthyciad o £10.0m ar 18 Mawrth 2021. Cymerwyd y benthyciad gwreiddiol ym mis Mawrth 2020 ar gyfradd llog o 2.05%. Nid oes unrhyw fenthyciadau tymor byr yn ddyledus.

3.6 Buddsoddiadau - Y strategaeth fuddsoddi ddisgwyliedig oedd cadw at adneuron tymor byrrach (hyd at 364 diwrnod), er y cedwid y gallu i fuddsoddi am gyfnodau hwy. Roedd disgwyl i falansau arian parod fod hyd at £57m, yn amrywio rhwng £25m a £57m. Gosodwyd y gyllideb ar gyfer llog ar £0.053m ar ôl addasu ar gyfer y gostyngiad posib yn y gyfradd yn 2020/21 a amcangyfrifwyd ar adeg paratoi'r gyllideb. Fel y digwyddodd, dychwelodd y balansau cyfartalog o £43.7m log o £0.035m ar gyfradd llog cyfartalog o 0.079%. Cyfrannodd buddsoddiadau cyfyngedig mewn Awdurdodau Lleol eraill a'r ffaith bod cyfraddau llog wedi disgyn yn is na'r hyn a ragwelwyd pan gynhyrchwyd y gyllideb at y gostyngiad hwn yn y llog a dderbyniwyd. Plymiodd enillion ar fuddsoddiadau a oedd wedi bod yn isel yn 2019/20 i sero bron i sero yn 2020/21. Llwyddodd y rhan fwyaf o fenthyciadau i awdurdodau lleol osgoi cyfraddau negatïf. Y disgwyliad ar gyfer cyfraddau llog o fewn y strategaeth rheoli trysorlys ar gyfer 2020/21 oedd y byddai'r Gyfradd Banc yn parhau ar 0.75% ar ddechrau'r flwyddyn cyn codi i 1.25% ar ddiwedd 2022/23. Cafodd y rhagolwg ei annilysu wrth i Covid-19 ymddangos ym mis Mawrth 2020 gan achosi i'r Pwyllgor Polisi Ariannol dorri'r Gyfradd Banc ym mis Mawrth, i 0.25% yn gyntaf ac yna i 0.10%, er mwyn gwrthbwyso effaith hynod o negyddol y cyfnod clo cenedlaethol ar rannau helaeth o'r economi.

Ar 24 Ebrill 2020 aeddfedodd buddsoddiad o £3.0m gyda Chyngor Stockport Metropolitan ac fe'i had-dalwyd i Gyngor Sir Ynys Môn. Ar 01 Mai 2020 aeddfedodd buddsoddiad o £3.0m gyda Chyngor Dinas Salford ac fe'i had-dalwyd i Gyngor Sir Ynys Môn.

Roedd rhai o adneuron y Cyngor mewn cyfrifon adneuo nad oes angen rhoi rhybudd ar gyfer tynnu arian allan ac maent yn talu llog ar gyfraddau sy'n agos i'r gyfradd sylfaenol gyffredinol, £20.066m ar 0.03% ar 31 Mawrth 2021 (31 Mawrth 2020 £14.208m ar 0.48%). Roedd un benthyciad i awdurdod lleol arall ar 31 Mawrth 2021 - £5.0m ar gyfradd llog o 0.15% (£3m ar 0.76% a £3m ar 0.90%) ar 31 Mawrth 2020). Roedd yr holl fuddsoddiadau am lai na blwyddyn.

3.7 Sefyllfa'r Trysorlys ar 31 Mawrth 2021 – Mae sefyllfa dyledion a buddsoddi'r Cyngor yn cael ei threfnu gan y Gwasanaeth Rheoli'r Trysorlys er mwyn sicrhau hylifedd digonol ar gyfer y gweithgareddau refeniw a chyfalaf, sicrwydd ar gyfer buddsoddiadau ac i reoli risgiau o fewn yr holl weithgareddau rheoli trysorlys. Mae gweithdrefnau a rheoliadau er mwyn cyflawni'r amcanion hyn wedi eu hen sefydlu drwy adroddiadau i Aelodau a nodir yn y crynodeb, a thrwy weithgareddau swyddogion yn unol â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2020/21. Nid aethpwyd tu hwnt i'r terfynau uchaf ar gyfer cyfraddau sefydlog a chyfraddau amrywiol yn ystod y flwyddyn. Mae ffigyrau benthycia a buddsoddi'r Cyngor ar ddiwedd blynyddoedd ariannol 2019/20 a 2020/21 fel a ganlyn:-

	31 MAWRTH 2020			31 MAWRTH 2021		
	£'m	Cyfradd Cyfartalog (%)	Aeddfedwydd Cyfartalog (bl)	£'m	Cyfradd Cyfartalog (%)	Aeddfedwydd Cyfartalog (bl)
Dyled i'r PWLB	136.4	4.53	28.21	121.9	4.59	30.57
Dyledion eraill	2.8	0	4.04	2.6	0	3.93
Cyfanswm	139.2			124.5		
GCC	136.9			136.6		
Gor / (Tan) fenthyciad	2.3			(12.1)		
Buddsoddiadau tymor sefydlog (pob un am gyfnod llai na blwyddyn, wedi eu rheoli)	6.000	0.83		5.000	0.15	
Buddsoddiadau dim rhybudd (pob un ohonynt wedi eu rheoli'n fewnol)	14.208	0.48		20.066	0.03	
Cyfanswm buddsoddiadau	20.208	0.58		25.066	0.06	

Dadansoddiad pellach o'r benthycia yn ôl y cyfnod aeddfedu:-

	31 MAWRTH 2020		31 MAWRTH 2021	
	£'m	% o'r cyfanswm	£'m	% o'r cyfanswm
Cyfanswm benthycia	139.2	100	124.5	100
Llai na 12 mis	14.8	10.6	0.3	0.2
12 mis ac o fewn 24 mis	2.6	1.9	5.1	4.1
24 mis ac o fewn 5 mlynedd	3.2	2.3	4.5	3.6
5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd	6.2	4.5	4.8	3.9
10 mlynedd a mwy	112.4	80.7	109.8	88.2

Ni chymerwyd unrhyw fenthyciadau newydd yn ystod y flwyddyn (tymor hir na thymor byr) a disgrifiwyd y dyledion a ad-dalwyd ym mhwynt 3.5 uchod. Felly, mae'r symudiadau yn y categorïau uchod yn unol â dyddiadau aeddfedu'r benthyciadau yn unig.

4. Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor yn 2020/21

- 4.1 Aildrefnu dyledion** – Ni chafodd unrhyw ddyledion eu haildrefnu yn ystod y flwyddyn gan fod y gwahaniaeth o 1% ar gyfartaledd rhwng cyfraddau benthycia newydd y PWLB a chyfraddau ad-dalu cynamserol yn golygu nad oedd yn werth aildrefnu.
- 4.2 Benthycia cyn bod angen** – Yn ystod y flwyddyn, ni chymerodd y Cyngor fenthyc mwy nag yr oedd ei angen, na chyn bod angen, dim ond er mwyn elwa ar fuddsoddi'r symiau ychwanegol a fenthycwyd.
- 4.3 Polisi Buddsoddi** - mae polisi buddsoddi'r Cyngor yn cael ei lywodraethu gan ganllawiau buddsoddi Llywodraeth Cymru a weithredwyd yn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys blynyddol a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 10 Mawrth 2020. Mae'r polisi hwn yn nodi'r dull ar gyfer dewis gwrthbartion buddsoddi, ac mae'n seiliedig ar statws credyd a ddyfarnwyd gan y tair prif asiantaeth statws credyd ac ar ddata ychwanegol mewn perthynas â'r farchnad (megis rhagolygon ar gyfer cyfraddau, cyfnewidiadau diffyg credyd, prisiau cyfranddaliadau banc ac ati). Roedd y gweithgaredd buddsoddi yn ystod y flwyddyn yn cydymffurfio â'r strategaeth a gymeradwywyd ac nid oedd gan y Cyngor unrhyw anawsterau hylifedd. Pan fydd y Cyngor yn buddsoddi ei arian dros ben, yr elfen bwysicaf yw diogelwch y buddsoddiad, ac yna pa mor hawdd yw cael gafael ar arian parod pe bai'r Cyngor ei angen ac wedyn y llog canrannol y bydd y Cyngor yn ei dderbyn am y buddsoddiad. Y strategaeth ar fuddsoddi arian dros ben fyddai benthycia tymor byr gydag Awdurdodau Lleol eraill i sicrhau'r enillion mwyaf mewn ffordd ddiogel.
- 4.4 Y Strategaeth fenthycia a rheoli'r risg cyfradd llog** – Yn ystod 2020/21, cynhaliodd y cyngor sefyllfa o danfenthycia. Roedd hyn yn golygu nad oedd yr angen benthycia cyfalaf (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf) wedi'i gyllido'n llawn â dyled benthyciadau, gan fod arian parod a oedd yn cefnogi cronfeydd wrth gefn, balansau a llif arian y Cyngor yn cael ei ddefnyddio fel cam dros dro. Roedd y strategaeth hon yn un ddoeth gan fod enillion o fuddsoddiadau yn isel ac roedd angen ystyried lleihau risg gwrthbartion wrth fuddsoddi hefyd.
- 4.5 Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf (MRP)** – Yn ystod 2018/19 rhoddodd y Cyngor bolisi Darpariaeth Refeniw Isaf newydd ar waith ar ôl gofyn am gyngor gan ei gynghorwyr Trysorlys ac ymgynghori â'r Archwilwyr Allanol. Mae'r polisi newydd yn ddull mwy darbodus o godi ar Refeniw am gostau Cyllido Cyfalaf. Gellir gweld y polisi newydd yn Atodiad 6 o'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys am 2020/21 a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 10 Mawrth 2020.

5. Rheoli'r Trysorlys

Mae'r Dangosyddion Darbodus canlynol wedi eu cynnwys yn Atodiad 11 o'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys. Gweler isod esboniad byr o beth yw'r dangosyddion a sut y byddant yn cael eu cyfrifo. Bydd Adran 6 o'r adroddiad hwn yn dadansoddi'r gwahaniaeth rhwng y Dangosyddion Darbodus gwirioneddol a'r rhai a ragwelwyd ar gyfer 2020/21.

- **Gwariant Cyfalaf – Amcangyfrif o Wariant Cyfalaf** – Dyma ragolwg o'r Gwariant Cyfalaf rhwng 2020/21 a 2023/24, ac mae'n seiliedig ar Raglen Gyfalaf ar gyfer 2020/21 a'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2021/22.
These factors could cause an excess of demand in the economy which could then unleash stronger and more sustained inflationary pressures in the US than in other western countries. This could then force the Fed to take much earlier action to start tapering monthly QE purchases and/or increasing the Fed rate from near zero, despite their stated policy being to target average inflation. It is notable that some Fed members have moved forward their expectation of when the first increases in the Fed rate will occur in recent Fed meetings. In addition, more recently, shortages of workers appear to be stoking underlying wage inflationary pressures which are likely to feed through into CPI inflation. A run of strong monthly jobs growth figures could be enough to meet the threshold set by the Fed of “substantial further progress towards the goal of reaching full employment”. However, the weak growth in August, (announced 3.9.21), has spiked anticipation that tapering of monthly QE purchases could start by the end of 2021. These purchases are currently acting as downward pressure on treasury yields. As the US financial markets are, by far, the biggest financial markets in the world, any trend upwards in the US will invariably impact and influence financial markets in other countries. However, during June and July, longer term yields fell sharply; even the large non-farm payroll increase in the first week of August seemed to cause the markets little concern, which is somewhat puzzling, particularly in the context of the concerns of many commentators that inflation may not be as transitory as the Fed is expecting it to be. Indeed, inflation pressures and erosion of surplus economic capacity look much stronger in the US than in the UK. **As an average since 2011, there has been a 75% correlation between movements in 10 year treasury yields and 10 year gilt yields. This is a significant UPWARD RISK exposure to our forecasts for longer term PWLB rates. However, gilt yields and treasury yields do not always move in unison.**

There are also possible **DOWNSIDE RISKS** from the huge sums of cash that the UK populace have saved during the pandemic; when savings accounts earn little interest, it is likely that some of this cash mountain could end up being invested in bonds and so push up demand for bonds and support their prices i.e., this would help to keep their yields down. How this will interplay with the Bank of England eventually getting round to not reinvesting maturing gilts and then later selling gilts, will be interesting to keep an eye on.

The balance of risks to medium to long term PWLB rates: -

- There is a balance of upside risks to forecasts for medium to long term PWLB rates.

A new era – a fundamental shift in central bank monetary policy

One of the key results of the pandemic has been a fundamental rethinking and shift in monetary policy by major central banks like the Fed, the Bank of England and the ECB, to tolerate a higher level of inflation than in the previous two decades when inflation was the prime target to bear down on so as to stop it going above a target rate. There is now also a greater emphasis on other targets for monetary policy than just inflation, especially on ‘achieving broad and inclusive “maximum” employment in its entirety’ in the US before consideration would be given to increasing rates.

- The Fed in America has gone furthest in adopting a monetary policy based on a clear goal of allowing the inflation target to be symmetrical, (rather than a ceiling to keep under), so that inflation averages out the dips down and surges above the target rate, over an unspecified period of time.
- The Bank of England has also amended its target for monetary policy so that inflation should be ‘sustainably over 2%’ and the ECB now has a similar policy.
- **For local authorities, this means that investment interest rates and very short term PWLB rates will not be rising as quickly or as high as in previous decades when the economy recovers from a downturn and the recovery eventually runs out of spare capacity to fuel continuing expansion.**
- Labour market liberalisation since the 1970s has helped to break the wage-price spirals that fuelled high levels of inflation and has now set inflation on a lower path which makes this shift in monetary policy practicable. In addition, recent changes in flexible employment practices, the rise of the gig economy and technological changes, will all help to lower inflationary pressures.
- Governments will also be concerned to see interest rates stay lower as every rise in central rates will add to the cost of vastly expanded levels of national debt; (in the UK this is £21bn for each 1% rise in rates). On the other hand, higher levels of inflation will help to erode the real value of total public debt.

Crynodeb Benthycyca a Buddsoddi - Chwarteri 1 a 2 2021/22
Borrowing and Investment Summary – Quarters 1 and 2 2021/22

	30 Medi / Sept 2021		30 Mehefin / June 2021	
	£'m	% (talwyd ar fenthycyca a derbyniwyd ar fuddsoddi) / % (paid on borrowing and received on investment)	£'m	% (talwyd ar fenthycyca a derbyniwyd ar fuddsoddi) / % (paid on borrowing and received on investment)
Benthycyca – graddfa sefydlog Borrowing – fixed rate				
BBGC / PWLB	121.9	4.58	121.9	4.59
Dim BBGC / Non-PWLB	3.1	0	3.1	0
Benthycyca – graddfa amrywiol Borrowing – variable rate	Dim / Nil	d/b / n/a	Dim / Nil	d/b / n/a
Adneuon – galw hyd at 30 diwrnod Deposits – Call to 30 days	38.1	0.01	33.1	0.01
Adneuon – Tymor sefydlog < 1 bl. Deposits – Fixed Term < 1 year	Dim / Nil	d/b / n/a	5.0	0.03
Adneuon – Tymor sefydlog 1 bl. + Deposits – Fixed Term 1 year +	Dim / Nil	d/b / n/a	Dim / Nil	d/b / n/a
Cyfanswm Adneuon Total Deposits	38.1	0.01	38.1	0.01
Adneuon Uchaf yn y Chwarter Highest Deposits in the Quarter	47.1	d/b / n/a	42.1	d/b / n/a
Adneuon Isaf yn y Chwarter Lowest Deposits in the Quarter	38.1	d/b / n/a	25.1	d/b / n/a
Cyfartaledd Adneuon yn y Chwarter Average Deposits in the Quarter	42.4	0.01	36.6	0.04

ATODIAD / APPENDIX 4

Graddfeydd Credyd Gwrthbartion buddsoddi a'r adneuron a ddelir gyda phob un ar 30 Medi 2021*
Credit ratings of investment counterparties and deposits held with each as at 30 September 2021*

Grŵp Bancio/ Banking Group	Sefydliad/ Institution	Adneuron / Deposit £'000	Hyd (Galw/ tymor sefydlog) / Duration (Call / Fixed Term**)	Cyfnod (O / I) / Period (From / To)	Graddfa Dychweliad/ Rate of Return %	Graddfa Tymor Hir Fitch Long Term Rating	Graddfa Tymor Byr Fitch Short Term Rating	Graddfa Tymor Hir Moody's Long Term Rating	Graddfa Tymor Byr Moody's Short Term Rating	Graddfa Tymor Hir Standard & Poor's Long Term Rating	Graddfa Tymor Byr Standard & Poor's Short Term Rating	Lliw Sector/Hyd Awgrymedig/ Sector Colour / Suggested Duration
Lloyds Banking Group plc	Bank of Scotland plc	7.206	Galw/ Call	n/a	0.01	A+	F1	A1	P-1	A+	A-1	Coch – 6 mis / Red - 6 months
Santander Group plc	Santander UK plc	7.497	Galw/ Call	n/a	0.02	A+	F1	A1	P-1	A	A-1	Coch – 6 mis / Red - 6 months
The Royal Bank of Scotland Group plc	The Royal Bank of Scotland plc (Rhan / Gwladoli / Part / Nationalised)	0.002	Galw/ Call	n/a	0.01	A+	F1	A1	P-1	A	A-1	Glas - 12 mis / Blue – 12 months
The Royal Bank of Scotland Group plc	National Westminster Bank Deposit	23.365	Galw/ Call	n/a	0.01	A+	F1	A1	P-1	A	A-1	Glas - 12 mis / Blue – 12 months

* Ceir y Rhestr Benthycia Gymeradwy yn Atodiad 8 o'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2021/22/Strategaeth Fuddsoddi Flynnyddol/The Approved Lending List can be found at Appendix 8 of the 2021/22 Treasury Management Strategy Statement / Annual Investment Strategy

** Sef tymor ar pwynt y buddsoddi/Being term at the point of investment.

Gwledydd cymeradwy ar gyfer buddsoddi
Approved countries for investments

Yn seiliedig ar y gyfradd credyd sofran isaf sydd ar gael
Based upon lowest available sovereign credit rating

AAA

- Awstralia / Australia
- Denmarc / Denmark
- Yr Almaen / Germany
- Lwcsembwrg / Luxembourg
- Yr Iseldiroedd / Netherlands
- Norwy / Norway
- Singapôr / Singapore
- Sweden
- Y Swistir / Switzerland

AA+

- Canada
- Y Ffindir / Finland
- U.D.A. / U.S.A.

AA

- Abu Dhabi (UAE)
- Ffrainc / France


AA-

- Gwlad Belg / Belgium
- Hong Kong
- Qatar
- D.U. / U.K.


Graffiau Ychwanegol / Additional Graphs

Cymhariaeth o baramedrau benthyca â benthyca allanol gwirioneddol / Comparison of borrowing parameters to actual external borrowing

PWLB Certainty Rate Variations 1.4.21 to 30.9.2021



Bank Rate vs LIBID rates % 1.4.21 - 30.9.21



CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	CYNGOR SIR
Dyddiad:	10 MAWRTH 2022
Pwnc / Testun:	DATGANIAD AR STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS 2022/23
Deilydd(ion) Portffolio:	Y CYNGHORYDD R WILLIAMS
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	MARC JONES, CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151
Awdur yr Adroddiad: Ffôn: E-bost:	JEMMA ROBINSON 01248 752675 JemmaRobinson@ynysmon.gov.uk
Aelodau Lleol:	Amherthnasol

A – Argymhelliad / Argymhellion a Rheswm / Rhesymau

- Cyflwynir yr adroddiad hwn i sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu arferion gorau yn unol â Chôd Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar gyfer materion Rheoli Trysorlys. Mae'r côd yn argymhell y dylai'r aelodau graffu ar y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys (sy'n cynnwys y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, Datganiad ar y Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI) blynyddol, y Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys blynyddol a'r Cynllun Dirprwyo ar gyfer Rheoli Trysorlys) cyn i'r cyfryw Ddatganiad gael ei gyflwyno i'w fabwysiadu. Yn unol â chynllun dirprwyo'r Awdurdod, y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu sy'n gyfrifol am y swyddogaeth hon.
- Mae Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys (Adran 7) yn argymhell y dylid cymeradwyo, dogfennu a monitro Arferion Rheoli Trysorlys (ARhT) yr Awdurdod. Mae'n dweud hefyd mai mater ar gyfer penderfyniad lleol yw natur a maint ymwneud corff cyfrifol unrhyw sefydliad o ran cymeradwyo a monitro ei ARhT a'r atodlenni cysylltiedig, ac mae'n cydnabod hefyd y gellir dirprwyo'r swyddogaeth hon mewn rhai sefydliadau i'r swyddog cyfrifol. Ym mhob achos, dylai fod yn destun sgrwtini gan y corff cyfrifol yn dilyn argymhellion gan y swyddog cyfrifol. Mae'r Awdurdod hwn wedi cynhyrchu ARhT ysgrifenedig a awdurdodwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 11 Chwefror 2020 a Pwyllgor Gwaith ar 03 Mawrth 2022.
- O ran diweddariadau i'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys, does dim newidiadau yn cael eu cynnig i egwyddorion a pholisïau craidd Datganiad 2021/22.
- O dan y Côd Ymarfer, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi Strategaeth Gyfalaf, sy'n cymryd golwg tymor hwy ar y buddsoddiad cyfalaf angenrheidiol a sut y bydd y buddsoddiad hwnnw'n cael ei gyllido. Bydd y Cyngor Sir yn cymeradwyo'r Strategaeth hon, ynghyd â phenderfyniadau eraill ar y gyllideb. Mae'r Strategaeth Rheoli Trysorlys hon yn eistedd o dan y Strategaeth Gyfalaf, ac yn ystyried effaith y strategaeth honno ar fenthycia a buddsoddiadau'r Cyngor. Mae'n nodi sut bydd y ddwy strategaeth yn cael eu gweithredu mewn dull a reolir, sy'n unol â lefel addas o risg y mae'r Cyngor yn dymuno ei chymryd, a chan gymryd i ystyriaeth yr arweiniad a nodir yng Nghôd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys. O dan y Côd diwygiedig a fabwysiadwyd ym mis Rhagfyr 2021, bydd yr aelodau'n cael eu diweddarau ar y modd y bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar ein dull presennol a bydd rhaid i unrhyw newidiadau gael eu mabwysiadu'n ffurfiol yn yr adroddiad Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2023/24.
- **Argymhellion**
 - I gymeradwyo a mabwysiadu'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2022/23.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?		
Amherthnasol		
C – Am ba reswm mae hwn yn benderfyniad i'r Cyngor Sir?		
<ul style="list-style-type: none"> Mae'n swyddogaeth Weithredol ddynodedig. Yn unol â'r Cynllun Dirprwyo, craffwyd ar yr adroddiad hwn gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 08 Chwefror 2022 ar Pwyllgor Gawith ar 03 Mawrth 2022. 		
CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn?		
Ydi		
D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?		
Amherthnasol		
DD – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol):		
1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	
2	A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut:-	
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhwch wybod gyda phwy:-	
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-	
5	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantaidd economaidd-gymdeithasol.	
7	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	
E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)(gorfodol)	
2	Cyllid / Adran 151 (gorfodol)	Amherthnasol – y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad hwn
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	
4	Adnoddau Dynol (AD)	
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	
7	Caffael	
8	Sgriwtini	
9	Aelodau Lleol	
10	Arall	<p>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar Pwyllgor Gwaith:-</p> <ul style="list-style-type: none"> Argymhell i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad Rheolaeth y Trysorlys ar gyfer 2022/23 heb unrhyw newidiadau pellach.

F - Atodiadau:

1. Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys
2. Egwyddorion Allweddol Rheoli Trysorlys
3. Cefndir economaidd
4. Rhagolygon o ran Cyfraddau Llog
5. Proffil aeddfedrwydd benthyciadau
6. Datganiad Polisi DRI
7. Buddsoddiadau Penodol ac Amhenodol
8. Meini Prawf Gwrthbartïon
9. Gwledydd sy'n cael eu cymeradwyo ar gyfer buddsoddiadau
10. Cynllun dirprwyo rheoli trysorlys a rôl y Swyddog Adran 151
11. Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys
12. Eglurhad ar y Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys
13. Geirfa a gwybodaeth ynghylch dangosyddion Darbodus a Thrysorlys

FF – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):

- • Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2021/22, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 9 Mawrth 2021;
- • Adroddiad Alldro Rheoli'r Trysorlys 2020/21, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 20 Gorffennaf 2021;
- • Adroddiad Alldro Cyfalaf 2020/21, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 21 Mehefin 2021;
- • Monitro'r Gyllideb Gyfalaf Chwarter 2 2021/22, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 29 Tachwedd 2021; a
- • Adroddiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2021/22, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 09 Rhagfyr 2021.

DATGANIAD AR Y STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS

STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL, Y DATGANIAD AR Y POLISI DARPARIAETH REFENIW ISAF (DRI) A'R DATGANIAD AR Y POLISI RHEOLI TRYSORLYS AR GYFER 2022/23

1. CYFLWYNIAD

- 1.1. Cyhoeddodd CIPFA ei godau diwygiedig ar 20 Rhagfyr 2021 ac mae wedi datgan nad oes rhaid eu mabwysiadu'n ffurfiol nes blwyddyn ariannol 2023/24. Mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried y codau hyn wrth baratoi'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys (DSRhT) a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, ynghyd ag unrhyw adroddiadau perthnasol yn ystod y flwyddyn sy'n cael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn.
- 1.2. Bydd gan y codau diwygiedig nifer o oblygiadau a bydd yr aelodau'n cael eu diweddarau ar y modd y bydd yr holl newidiadau hyn yn effeithio ar ein dull presennol a bydd unrhyw newidiadau'n cael eu mabwysiadu'n ffurfiol yn adroddiad DSRhT 2023/24.
- 1.3. Hefyd, rhaid priodoli pob buddsoddiad ac incwm buddsoddi i un o'r tri diben canlynol - Rheoli Trysorlys, Cyflenwi Gwasanaeth ac enillion Masnachol. Gan fod y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol yma'n delio â buddsoddiadau rheoli trysorlys, ymdrinnir â'r categorïau cyflenwi gwasanaeth a buddsoddiadau masnachol fel rhan o'r adroddiad Strategaeth Cyfalaf.

2. CEFNDIR

- 2.1. Mae CIPFA yn diffinio rheoli trysorlys fel:-

“Rheoli benthyciadau, buddsoddiadau a llif arian yr awdurdod lleol, ei drafodion bancio, marchnad arian a marchnad gyfalaf; rheolaeth effeithiol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny; a cheisio'r perfformiad gorau posib sy'n gyson â'r risgiau hynny.”

Mae'r Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys yn diffinio polisiâu ac amcanion y gweithgareddau rheoli trysorlys (gweler **Atodiad 1**).

- 2.2. Rhaid i'r Cyngor redeg cyllideb gytbwys, sy'n golygu'n gyffredinol y bydd yr incwm a godir yn ystod y flwyddyn yn cwrdd â gwariant. Rhan o'r gweithgareddau rheoli trysorlys yw sicrhau bod y llif arian hwn wedi ei gynllunio'n ddigonol a bod arian ar gael pan fo angen. Caiff arian sydd dros ben ei fuddsoddi mewn gwrthbartïon neu offerynnau risg isel sy'n gydnaws ag archwaeth risg isel y Cyngor, gan roi blaenoriaeth i hylifedd digonol yn y lle cyntaf cyn yr elw o'r buddsoddiadau.
- 2.3. Ail brif swyddogaeth y gwasanaeth rheoli trysorlys yw cyllido cynlluniau cyfalaf y Cyngor. Mae'r cynlluniau cyfalaf hyn yn darparu arweiniad ynghylch anghenion benthycia'r Cyngor, sef cynllunio llif arian ar gyfer y tymor hwy mewn gwirionedd, er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gallu cwrdd â'i oblygiadau o ran gwariant cyfalaf. Gall rheoli'r arian tymor hwy olygu trefnu benthyciadau ar gyfer y tymor hir neu'r tymor byr neu ddefnyddio gwargedion llif arian tymor hwy. O bryd i'w gilydd, pan fo'n ddarbodus ac yn economaidd, gellir ailstrwythuro dyledion i gwrdd ag amcanion cost neu risg y Cyngor.
- 2.4. Mae'r cyfraniad a wna'r swyddogaeth rheoli trysorlys i'r Awdurdod yn hollbwysig oherwydd bod y cydbwysedd rhwng y gweithgareddau buddsoddi a'r dyledion yn sicrhau hylifedd neu'r gallu i gwrdd ag ymrwymadau gwariant pan fo angen, naill ai ar gyfer referniw dydd i ddydd neu brosiectau cyfalaf mwy. Bydd y gweithgareddau trysorlys yn gweld y cydbwysedd rhwng y costau llog ar dyledion a'r incwm buddsoddi sy'n codi o adneuon ariannol yn cael effaith ar y gyllideb sydd ar gael. Gan fod balansau arian parod fel rheol yn codi o gronfeydd wrth gefn a balansau, mae'n hanfodol bwysig sicrhau diogelwch digonol ar gyfer y symiau sy'n cael eu buddsoddi oherwydd gall colli prifsymiau arwain at ostwng cronfeydd wrth gefn ariannol y Cyngor.

3. CÔD YMARFER CIPFA AR REOLI TRYSORLYS

- 3.1. Yn unol â Chôd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys, rhaid i'r Cyngor baratoi a chymeradwyo'r dogfennau isod:-

- Datganiad ar y Strategaeth Gyfalaf sy'n nodi trosolwg lefel uchel, tymor hir o wariant a chyllido cyfalaf, ynghyd â manylion am unrhyw risgiau cysylltiedig â'r modd y byddant yn cael eu rheoli, yn ogystal â'r goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol. Nod y strategaeth gyfalaf hon yw sicrhau bod pob Aelod etholedig ar y Cyngor llawn yn deall yn llawn yr amcanion polisi tymor hir cyffredinol a'r gofynion strategaeth gyfalaf dilynol, y gweithdrefnau llywodraethu a'r archwaeth risg sy'n deillio o hynny.
- Strategaeth Rheoli Trysorlys sy'n amlinellu strategaeth y Cyngor o ran benthyciadau a buddsoddiadau sy'n dilyn ymlaen o'r Strategaeth Gyfalaf, sy'n nodi'r cyfyngiadau ar fenthycia, yn pennu cyfres o ddangosyddion darbodus ac yn penderfynu archwaeth risg a strategaeth y Cyngor mewn perthynas â buddsoddiadau. Yn y bôn mae'n delio â dau faes: materion cyfalaf a mateiron rheoli trysorlys. Mae'r elfennau hyn yn ateb gofynion Deddf Llywodraeth Leol 2003, Canllawiau Buddsoddi a Chanllawiau DRI Llywodraeth Cymru, Côd Darbodus CIPFA a Chôd CIPFA ar Rheoli Trysorlys.

3.2. Nodir prif egwyddorion Côt Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys yn **Atodiad 2**.

4. CYD-DESTUN ALLANOL

4.1. Ni fedrir llunio Strategaeth Rheoli Trysorlys heb ystyried y sefyllfa economaidd hefyd, a hynny oherwydd bod cyflwr yr economi'n cael effaith ar gyfraddau llog a geir o fuddsoddiadau, costau benthycia a chadernid ariannol y gwrthbartion. Mae crynodeb llawn o'r rhagolygon economaidd ar gael yn **Atodiad 3**, ond dyma'r prif bwyntiau y mae angen eu hystyried:-

- Mae'n anodd rhagweld beth fydd y cynnydd yng Nghyfradd y Banc ar ôl mis Mai gan fod chwyddiant yn debygol o ostwng yn gyflym yn ystod ail hanner 2022 ac, felly, mae risgiau sylweddol i'r rhagolygon sydd i'w gweld yn **Atodiad 4**.
- Roedd twf ariannol y byd mewn dirwasgiad yn 2020 ond fe wnaeth y sefyllfa wella yn ystod 2021, a cholli momentwm yn ystod ail hanner y flwyddyn ond, er hynny, disgwylir twf cyffredinol o tua 6% ar gyfer y flwyddyn a thwf o tua 4-5% yn 2022.
- Disgwylir i enillion ar fuddsoddiadau wella yn 2022/23. Fodd bynnag, er bod marchnadoedd yn rhagweld cyfres o godiadau yng Nghyfradd y Banc, mae'n bosib y bydd yr amgylchiadau economaidd gwirioneddol yn golygu bod yr MPC yn is na'r cynnydd a ragwelir.

4.2. Wedi ystyried y wybodaeth sydd ar gael a'r cyngor gan Ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys y Cyngor, mae'r tabl isod yn nodi barn y Cyngor ynghylch lefelau cyfraddau llog am y tair blynedd nesaf:-

Tabl 1
Rhagolygon ar gyfer Cyfraddau Llog hyd at fis Mawrth 2025

Cyfartaledd Blynnyddol	Cyfradd Banc (%)	Cyfraddau Benthycia BBGC (gan gynnwys addasiad cyfradd sicrwydd)		
		5 mlynedd	25 mlynedd	50 llynedd
Mawrth 2022	0.25	1.50	1.90	1.70
Mehefin 2022	0.50	1.50	2.00	1.80
Medi 2022	0.50	1.60	2.10	1.90
Rhagfyr 2022	0.50	1.60	2.10	1.90
Mawrth 2023	0.75	1.70	2.20	2.00
Mehefin 2023	0.75	1.80	2.20	2.00
Medi 2023	0.75	1.80	2.20	2.00
Rhagfyr 2023	0.75	1.80	2.30	2.10
Mawrth 2024	1.00	1.90	2.30	2.10
Mehefin 2024	1.00	1.90	2.40	2.20
Medi 2024	1.00	1.90	2.40	2.20
Rhagfyr 2024	1.00	2.00	2.50	2.30
Mawrth 2025	1.25	2.00	2.50	2.30

Mae'r wybodaeth a gafwyd gan Link Group, Treasury Solutions ynghlwm yn **Atodiad 4**.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae pandemig y coronafeirws wedi achosi difrod enfawr i economi'r DU ac i economiau ledled y byd. Wedi i Fanc Lloegr gymryd camau brys ym mis Mawrth 2020 drwy dorri'r Gyfradd Banc i 0.10%, penderfynodd adael y Gyfradd Banc fel ac yr oedd yn ei gyfarfodydd dilynol hyd nes ei chodi i 0.25% yn ei gyfarfod ar 16^{eg} Rhagfyr 2021.

Fel y gwelir yn y tabl rhagolygon uchod, mae'r rhagolygon yn nodi y bydd cyfraddau llog nawr yn cynnwys pedwar cynnydd, un yn Rhagfyr 2021 i 0.25%, yna i 0.50% yn ail chwarter 2022, i 0.75% yn chwarter cyntaf 2023, i 1.00% yn chwarter cyntaf 2024 ac, yn olaf, i 1.25% yn chwarter cyntaf 2025.

Gostyngodd cyfraddau llog ar fenthyciadau i gyfraddau hanesyddol isel iawn o ganlyniad i'r argyfwng Covid ac yn sgil gweithrediadau lleddfu meintiol gan Fanc Lloegr, ac maent yn dal i fod ar lefelau hanesyddol o isel. Er y cyfraddau isel yma, mae ein polisi i osgoi benthycia newydd drwy leihau balansau arian dros ben wedi gweithio'n dda i'r Awdurdod dros y blynyddoedd diwethaf.

- 4.3.** Mae'r rhagolygon presennol, sydd i'w gweld uchod, yn cynnwys y rhagolygon ar gyfer y cynnydd cyntaf yn y Gyfradd Banc ym mis Mai 2022, er gall hyn ddigwydd ym mis Chwefror. O ystyried y rhagolygon ar gyfer y gyfradd banc sylfaenol, mae'r cyfraddau elw tybiedig ar fuddsoddiadau am gyfnodau hyd at oddeutu dri mis yn ystod pob blwyddyn ariannol fel a ganlyn (mae'r rhagolwg tymor hir ar gyfer cyfnodau dros 10 mlynedd yn y dyfodol):-

2022/23: 0.50%;
 2023/24: 0.75%;
 2024/25: 1.00%;
 2025/26: 1.25%;
 Blynyddoedd y tymor hir: 2.00%.

5. SEFYLLFA GYFREDOL Y CYNGOR

5.1. Benthycia

- 5.1.1.** Nodir benthyciadau allanol cyfredol y Cyngor yn Nhabl 2 isod. Ceir dadansoddiad llawn yn **Atodiad 5**.

Tabl 2
Crynodeb o'r Benthyciadau sydd gan y Cyngor ar hyn o bryd

BENTHYCIADAU BBGC						
	BBGC / BBGC – Aeddfedu	BBGC EIP/ Blwydd- dal	Benthyciadau Marchnad	BBGC Amrywiol	Cyfanswm Aeddfedu	
Benthyciad sy'n weddill	£121,684k	£193k	£0k	£0k	£121,877k	
Oes ar gyfartaledd (blynyddoedd)	30.42	4.63	0.00	0.00	30.38	
Cyfradd ar gyfartaledd (%)	4.58	9.42	0.00	0.00	4.58	
BENTHYCIADAU ERAILL						
	Salix Benthyciad 1	Salix Benthyciad 2	Salix Benthyciad 3	Salix Benthyciad 4	Salix Benthyciad 5	Cyfanswm
Balans sy'n Weddill	£41k	£182k	£445k	£198k	£2,205k	£3,071k
Dyddiad Ad-dalu	2024/25	2025/26	2028/29	2029/30	2030/31	
Cyfradd Llog (%)	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	

5.2 Buddsoddiadau

5.2.1. Mae unrhyw arian dros ben yn cael ei fuddsoddi ar hyn o bryd mewn cyfrifon adneuron tymor byr, cyfrifon 'ar alw' a chydag awdurdodau lleol eraill yn y DU. Mae'r balans a fuddsoddir yn y cyfrifon hyn yn newid bob dydd (y balans ar 31 Rhagfyr 2021 oedd £44.7m).

5.2.2. Dan y strategaeth rheoli trysorlys gyfredol, mae'r Cyngor yn buddsoddi unrhyw arian dros ben drwy sicrhau, yn y lle cyntaf, ddiogelwch yr adneuron, eu hylifedd yn yr ail le ac yna'r enillion ar y buddsoddiad. Mewn gwirionedd, mae cyfradd yr enillion ar fuddsoddiadau'n cael ei haberthu er mwyn sicrhau'r ddwy egwyddor gyntaf ac, ar hyn o bryd, mae'r elw cyfartaleddol ar fuddsoddiadau yn 0.02% (fel ar 31 Rhagfyr 2021).

6. EFFAITH CYNLLUNIAU'R DYFODOL AR FENTHYCA

6.1. Caiff gwariant cyfalaf ei gyllido'n rhannol o fenthyciadau ac mae'r rhaglen gyfalaf, fel y nodir yn y Strategaeth Gyfalaf, i'w gweld yn Nhabl 3 isod:-

Tabl 3
Rhaglen Gwariant Cyfalaf Arfaethedig 2022/23 – 2024/25

	2022/23 £'000	2023/24 £'000	2024/25 £'000
Gwariant nad yw'n ymwneud â'r CRT	17,177	9,408	8,277
CRT	18,784	22,009	18,550
Gweithgareddau Masnachol / Buddsoddiadau nad ydynt yn rhai Ariannol	0	0	0
CYFANSWM Y GWARIANT	35,961	31,417	26,827
Cyllidir drwy			
Grantiau Cyfalaf	7,662	7,040	5,653
Derbyniadau Cyfalaf	600	100	100
Arian Wrth Gefn	2,876	0	0
Refeniw	10,099	9,849	10,290
Y Balans a Gyllidir o Fenthyciadau	14,724	14,428	10,784

- 6.2. Ffactor pwysig i'w ystyried yw effaith benthyca ar Ofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor (GCC). Y GCC yw'r mesur o angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca. Nid yw benthyca wedi'i gyfyngu i fenthyciadau allanol gan BBGC gan ei fod hefyd yn cynnwys y gallu i ddefnyddio balansau ariannol y Cyngor ei hun (benthyca mewnol) ac mae'r rhain wedi cael eu defnyddio i gyllido gwariant cyfalaf.
- 6.3. Bydd gwariant cyfalaf yn cynyddu'r GCC ond dim ond yn ôl y swm nad yw'n cael ei gyllido o grantiau, derbyniadau cyfalaf, arian wrth gefn neu refeniw. Bydd y GCC hefyd yn gostwng yn flynyddol gan swm y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (DRI) sy'n cael ei roi yn erbyn refeniw. Mae lefel y GCC yn fesur pwysig er mwyn sicrhau nad yw'r Cyngor yn ymrwymo ei hun i lefelau anfforddiadwy o fenthyca.
- 6.4. Er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor ddigon o gyllid i ad-dalu dyledion ar yr adeg briodol, rhaid i'r Cyngor sicrhau tâl i'r cyfrif refeniw bob blwyddyn, a'r enw ar y tâl hwn yw'r Ddarpariaeth Refeniw Isaf (DRI). Yn unol â'r Rheoliadau, rhaid i'r Cyngor gymeradwyo datganiad DRI cyn pob blwyddyn ariannol. Gwelir y polisi ar gyfer 2022/23 yn **Atodiad 6**. Cafodd DRI y Cyngor ei ddiwygio'n sylweddol yn 2018, ond nid oes unrhyw newidiadau i'r polisi diwygiedig hwnnw ar gyfer 2022/23. Drwy wneud y tâl DRI bob blwyddyn, mae balansau ariannol y Cyngor yn cael eu hailgyflenwi ac mae hynny, yn ei dro, yn lleihau'r lefel o fenthyca mewnol.
- 6.5. Bydd y polisi'n darparu ar gyfer tâl cyfartal ar fenthyciadau hyd at 31 Mawrth 2018 ac, yn achos yr holl fenthyciadau ar ôl y dyddiad hwnnw, bydd y tâl DRI yn seiliedig ar oes ddefnyddiol yr ased sydd wedi cael ei chyllido o'r benthyciad, e.e. os cafodd £1m ei fenthyca i gyllido gwariant cyfalaf ar ased sydd ag oes o 20 mlynedd, byddai'r DRI blynyddol ar y benthyciad hwnnw'n £50k y flwyddyn. Wrth gymryd benthyciadau newydd, bydd y tâl DRI yn cynyddu dros amser a chaniatawyd ar gyfer y cynnydd hwn mewn costau yng nghyllidebau'r Cyngor. Gall y Cyngor ddewis talu mwy o DRI mewn unrhyw flwyddyn benodol. Gellir hawlio'r gordaliadau DRI hyn yn ôl (sef gordaliadau sydd, yn achos y Cyngor, yn sicrhau digon o arian parod ar gyfer ad-dalu benthyciadau) yn y blynyddoedd diweddarach os bydd angen. Hyd at 31 Mawrth 2021, cyfanswm y gordaliadau a wnaed oedd £289k, ac roeddent yn ymwneud yn benodol â benthyciadau Salix lle mae'r DRI a godir ar y cyfrif refeniw wedi'i gyfrifo ar sail oes y benthyciad yn hytrach nag ar oes yr ased a gyllidwyd gan y benthyciad. Mae hyn yn sicrhau bod gan y Cyngor ddigon o arian parod i ad-dalu'r benthyciadau pan fydd angen gwneud hynny.
- 6.6. Dangosir effaith cynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor a'r tâl DRI ar y GCC a lefel y benthyca allanol a mewnol yn Nhabl 4 isod:-

Tabl 4
Gofyniad Cyllido Cyfalaf a Benthyciadau 2021/22 i 2024/25

	2021/22 £'000	2022/23 £'000	2023/24 £'000	2024/25 £'000
Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC)				
Balans Agoriadol y GCC	136,560	140,949	151,515	161,470
Gwariant Cyfalaf	39,068	35,961	31,417	26,827
Grantiau Cyfalaf Allanol	(18,416)	(7,662)	(7,040)	(5,653)
Derbyniadau Cyfalaf	(521)	(600)	(100)	(100)
Cyfraniad Refeniw ac Arian Wrth Gefn	(12,206)	(12,975)	(9,849)	(10,290)
Darpariaeth Refeniw Isaf	(3,536)	(4,158)	(4,473)	(4,696)
BALANS CAU'R GCC	140,949	151,515	161,470	167,558
Benthyciadau Allanol				
Balans Agoriadol y Benthyciadau Allanol	124,524	132,283	144,335	156,112
Benthycia i Gyllido Gwariant Cyfalaf	7,925	14,724	14,428	10,784
Benthycia i Gyllido Ad-daliadau ar Fenthyciadau	0	0	0	0
Benthyciadau yn lle Benthycia'n Fewnol	0	0	0	0
Ad-dalu Benthyciadau	(166)	(2,672)	(2,651)	(382)
Balans Cau Benthyciadau Allanol	132,283	144,335	156,112	166,514
Benthyciadau Mewnol				
Balans Agoriadol Benthyciadau Mewnol	12,036	8,666	7,180	5,358
Amnewid Benthyciadau Mewnol	0	0	0	0
Cyllido Ad-daliadau Benthycia o Fenthyciadau Allanol	0	0	0	0
Ad-daliadau Benthyciadau Allanol	166	2,672	2,651	382
Benthycia i Gyllido Gwariant Cyfalaf	0	0	0	0
Darpariaeth Refeniw Isaf	(3,496)	(4,156)	(4,291)	(4,590)
Balans Cau Benthyciadau Mewnol	8,666	7,180	5,358	1,044
CYFANSWM Y BENTHYCIADAU	140,949	151,515	161,470	167,558

7. STRATEGAETH FENTHYCA

- 7.1. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn parhau i gynnal sefyllfa o dan-fenthyca. Mae hyn yn golygu bod yr angen am fenthyciadau cyfalaf (sef y Gofyniad Cyllido Cyfalaf) heb ei gyllido'n llawn gan ddyledion benthyca, a defnyddiwyd arian fel mesur dros dro i gefnogi arian wrth gefn, balansau a llif arian y Cyngor. Mae gweithredu yn y fath fodd yn ddarbodus oherwydd bod enillion ar fuddsoddiadau yn isel ac mae risg gwrthbartion yn fater sy'n parhau i fod angen ei gymryd i ystyriaeth. Fel rhan o'r strategaeth hon, mae'r gallu i fenthyca'n allanol i ad-dalu'r arian wrth gefn a balansau, petai raid, yn bwysig. Mae Tabl 4 yn dangos y byddai o bosib angen benthyca £8.666m yn allanol petai angen brys. Dyma'r swm a ddefnyddiwyd o arian wrth gefn a balansau'r Cyngor yn y gorffennol i gyllido'r rhaglen gyfalaf yn lle cymryd benthyciadau.
- 7.2. Yn erbyn y cefndir hwn a'r risgiau o fewn y rhagolygon economaidd, mabwysiedir dull darbodus o ran gweithgareddau trysorlys 2022/23. Bydd y Swyddog Adran 151 yn monitro cyfraddau llog yn y marchnadoedd ariannol ac yn mabwysiadu dull pragmatig i ymateb i amgylchiadau sy'n newid:-
- Os teimlir bod risg sylweddol o GWYMP sydyn yn y cyfraddau tymor byr a thymor hir (e.e. oherwydd mwy o risg o ddisgyn yn ôl i ddirwasgiad neu risgiau datchwyddiant), yna bydd benthyciadau tymor hir yn cael eu gohirio, ac ystyrir newid o gyllido cyfradd sefydlog i fenthyca tymor byr os bydd yn gost-effeithiol i wneud hynny.
 - Os teimlir bod risg sylweddol o GYNNYDD llawer uwch yn y cyfraddau tymor hir a thymor byr nag a ragwelir ar hyn o bryd, efallai oherwydd cyflymu dyddiad cychwyn a lefel y cynnydd mewn cyfraddau canolog yn yr UDA a'r DU, cynnydd mewn gweithgareddau economaidd byd-eang neu gynnydd sydyn mewn risgiau chwyddiant, yna byddai sefyllfa'r portffolio yn cael ei hailasesu, gyda'r tebygolrwydd o gyllido tymor sefydlog tra byddai cyfraddau llog yn is nag y rhagwelir y byddant yn yr ychydig flynyddoedd nesaf.
 - Adroddir ar unrhyw benderfyniadau i'r Pwyllgor hwn cyn gynted ag y bo modd.

7.3. Benthyca Mewnol yn erbyn Benthyca Allanol

- 7.3.1 Mae'r amodau cyfredol yn nodi bod angen agwedd hyblyg o ran y dewis rhwng benthyca mewnol ac allanol. Mae llawer o'r ffactorau a oedd wrth wraidd y polisiâu blaenorol i allanoli'r holl fenthyca yn parhau i fod yn ddilys, er enghraifft:-
- Gan fod y Gyfradd Banc a chyfraddau'r BBGC yn parhau i fod yn hanesyddol anarferol o isel, erys cyfle unigryw i awdurdodau lleol reoli'n weithredol eu strategaeth o gymryd benthyciadau allanol newydd.
- 7.3.2 Fodd bynnag, mae rhai cyfyngiadau yn parhau mewn perthynas â'r dull hwn o weithredu, fel y dywedwyd eisoes, er enghraifft:-
- Gall y polisi olygu bod yn agored i risg credyd (e.e. risg y bydd y banc yn diffygdlu ar y ddyled), felly, bydd raid rheoli'r elfen hon yn ofalus iawn;
 - Rhaid parhau i roi sylw manwl i'r gwahaniaeth rhwng y cyfraddau benthyca a'r cyfraddau buddsoddi i sicrhau bod y Cyngor yn cael gwerth am arian unwaith y mae lefel briodol o reolaeth risg wedi ei chyrraedd i sicrhau diogelwch ei fuddsoddiadau.
- 7.3.3 O blaid mewnoli, dros y tymor canol, disgwylir y bydd cyfraddau buddsoddi yn parhau i fod yn is na'r cyfraddau benthyca tymor hir. Mae hynny'n golygu bod ystyriaethau gwerth am arian yn awgrymu y gellid cael gwerth gorau trwy osgoi benthyca allanol newydd a thrwy ddefnyddio balansau arian parod mewnol i gyllido gwariant cyfalaf newydd, neu yn lle dyled allanol sy'n aeddfedu (cyfeirir at hyn fel benthyca mewnol). Byddai hynny'n sicrhau'r arbedion tymor byr mwyaf posib.
- 7.3.4 Fodd bynnag, rhaid pwyso a mesur arbedion tymor byr a geid trwy osgoi benthyca allanol tymor hir yn 2022/23 yn erbyn y posibilrwydd o gael costau tymor hir ychwanegol, trwy ohirio cymryd benthyciadau allanol newydd nad oes modd eu hosgoi tan yn hwyrach ymlaen pan ragwelir y bydd cyfraddau tymor hir y BBGC yn uwch. Yn ychwanegol at hyn, bydd angen parhau i adolygu'n rheolaidd oblygiadau benthyciadau mewnol i lif arian a bydd yn cyfyngu ar lefel bosib y benthyca mewnol.

7.4 Benthycia ymlaen llawn i gwrdd ag Anghenion

- 7.4.1** Ni fydd y Cyngor yn benthycia mwy nag y mae ei angen, na chyn bod angen gwneud hynny, dim ond er mwyn elwa o fuddsoddi'r symiau ychwanegol a fenthycir. Bydd unrhyw benderfyniad i fenthycia ymlaen llaw o fewn amcangyfrifon Gofynion Cyllido Cyfalaf a gymeradwywyd ymlaen llaw a bydd penderfyniadau o'r fath yn cael eu hystyried yn ofalus i sicrhau bod modd dangos gwerth am arian a bod y Cyngor yn gallu sicrhau diogelwch arian o'r fath.
- 7.4.2** Wrth benderfynu a ddylid benthycia cyn bod angen gwneud hynny, bydd y Cyngor yn:-
1. sicrhau bod cyswllt clir rhwng y rhaglen gyfalaf a phroffil aeddfedrwydd y portffolio dyled cyfredol sy'n cefnogi'r angen i fenthycia cyn i'r angen godi;
 2. sicrhau bod cyfrifoldebau refeniw parhaus sy'n cael eu creu, a'r goblygiadau ar gyfer cynlluniau a chyllidebau'r dyfodol, wedi eu hystyried;
 3. pwysu a mesur y ffactorau economaidd a marchnad a allai gael dylanwad ar ddull ac amseriad unrhyw benderfyniad i fenthycia;
 4. ystyried manteision ac anfanteision dulliau cyllido eraill;
 5. ystyried y cyfraddau llog eraill sydd ar gael, y cyfnodau mwyaf priodol i gyllido a'r proffiliau ad-dalu i'w defnyddio; ac
 6. ystyried effaith benthycia ymlaen llaw ar falansau arian buddsoddi sy'n cynyddu dros dro (hyd nes y bydd angen cyllido gwariant cyfalaf) a'r ffaith y byddir yn fwy agored yn sgil hynny i risg gwrthbarti, a risgiau eraill, a lefel risgiau o'r fath o gofio'r trefniadau sydd wedi eu sefydlu i'w cyfyngu i'r eithaf.
- 7.4.3** Bydd y risgiau sy'n gysylltiedig ag unrhyw weithgaredd i fenthycia cyn bod angen yn amodol ar werthusiad o flaen llaw ac adroddiadau dilynol drwy'r mecanwaith adrodd canol-blwyddyn neu flynyddol.

7.5 Aildrefnu Dyledion

- 7.5.1** Mae'n annhebygol y byddir yn aildrefnu'r benthyciadau yn ein portffolio dyled ar hyn o bryd gan fod gwahaniaeth mawr iawn o hyd rhwng cyfraddau ad-dalu cynamserol a chyfraddau benthycia newydd, er bod yr elw cyffredinol o ran cyfraddau BBGC dros gynnyrch enillion gilt wedi ostwng 100 bps ym mis Tachwedd 2020.
- 7.5.2** Bydd y rhesymau dros unrhyw ad-drefnu yn cynnwys:-
- cynhyrchu arbedion arian parod ac/neu arbedion llif arian gyda disgownt;
 - cynorthwyo i gwrdd â'r strategaeth trysorlys; a
 - gwella balans y portffolio (diwygio'r proffil aeddfedu ac/neu falans yr anwadalrwydd ariannol).
- 7.5.3** Rhoddir ystyriaeth hefyd i nodi a oes unrhyw bosibilrwydd o gwbl o wneud arbedion trwy adael i falansau buddsoddi ostwng i ad-dalu dyled yn gynnar oherwydd bod cyfraddau tymor byr ar fuddsoddiadau yn debygol o fod yn is na chyfraddau a delir ar dyledion cyfredol.
- 7.5.4** Rhoddir gwybod i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am yr holl weithgareddau ad-drefnu dyled yn y cyfarfod nesaf sy'n ymarferol bosib wedi iddynt ddiwydd.

7.6 Proffil Dyledion

- 7.6.1** Fel y gwelir yn **Atodiad 5**, bydd y benthyciadau presennol yn cael eu had-dalu mewn gwahanol flynyddoedd hyd at 2068/69. Fel rhan o unrhyw benderfyniad ar fenthycia yn y dyfodol, bydd y Cyngor yn anelu at sicrhau bod y dyddiad ad-dalu'n cael ei drefnu er mwyn gwastatau'r ad-daliadau i'r graddau y mae hynny'n bosibl, ond rhoddir blaenoriaeth i'r gyfradd llog sy'n daladwy pan benderfynir y math o fenthyciad (aeddfedrwydd neu flwydd-dal) a chyfnod y benthyciad.

8. STRATEGAETH FUDDSODDI

8.1 Cyllid mewnol: Bydd buddsoddiadau'n cael eu gwneud gan gyfeirio at y balans craidd a'r gofynion llif arian a'r rhagolygon o ran cyfraddau llog tymor byr (h.y. graddfeydd ar gyfer buddsoddi am hyd at 12 mis). Fel arfer, mae modd cael enillion uwch drwy fuddsoddi am gyfnodau hirach. Er bod angen y rhan fwyaf o falansau ariannol i reoli cynnydd a gostyngiadau mewn llif arian, lle gellir dod o hyd i symiau ariannol y gellid eu buddsoddi am gyfnodau hirach, bydd y gwerth a geir o fuddsoddiadau tymor hir yn cael ei asesu'n ofalus.

- Os tybir bod y Gyfradd Banc yn debygol o godi'n sylweddol yn ystod y cyfnod amser dan sylw, yna rhoddir ystyriaeth i gadw'r rhan fwyaf o fuddsoddiadau fel rhai tymor byr neu amrywiadwy.
- Ar y llaw arall, os tybir bod y Gyfradd Banc yn debygol o ostwng o fewn y cyfnod hwnnw, ystyrir manteisio ar y cyfraddau uwch sydd ar gael ar y pryd a chadw'r buddsoddiadau i mewn am gyfnodau hwy.

8.2 Rheoli Risg

8.2.1. Mae CIPFA wedi ehangu ystyr 'buddsoddiadau' i gynnwys buddsoddiadau ariannol ac anariannol. Mae'r adroddiad hwn yn delio â buddsoddiadau ariannol yn unig (fel y cânt eu rheoli gan y Tîm Rheoli Trysorlys). Caiff buddsoddiadau anariannol, sef, yn ei hanfod, prynu asedau sy'n cynhyrchu incwm, eu cynnwys yn y Strategaeth Gyfalaf (adroddiad ar wahân).

8.2.2 Mae polisi buddsoddi'r Cyngor yn cymryd i ystyriaeth yr isod:-

- Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol ("y Canllawiau");
- Côt Ymarfer a Nodiadau Canllaw Traws-Sector CIPFA ar Reoli Trysorlys yn y Sector Cyhoeddus 2017 ("y Côt");
- Nodiadau Canllaw Rheoli Trysorlys CIPFA 2018.

8.2.3 Blaenoriaethau buddsoddi'r Cyngor yw diogelwch yn gyntaf, hylifedd y portffolio yn ail ac yna'r elw (enillion). Nod y Cyngor yw ceisio sicrhau cymaint o elw â phosib ar ei fuddsoddiadau sy'n gyson â'r lefel briodol o ddiogelwch a hylifedd ac archwaeth risg y Cyngor. Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, ystyrir ei bod yn briodol cadw'r buddsoddiadau i rai tymor byr er mwyn cwrdd ag anghenion llif arian. Fodd bynnag, lle bo hynny'n briodol (o bersbectif mewnol yn ogystal ag allanol), bydd y Cyngor hefyd yn ystyried y gwerth sydd ar gael mewn cyfnodau hyd at 12 mis gyda sefydliadau ariannol â statws credyd uchel, yn ogystal â'r opsiynau ariannol ehangach.

8.2.4. Mae'r canllawiau uchod gan Lywodraeth Cymru a CIPFA'n rhoi blaenoriaeth uchel i reoli risg. Mae'r Awdurdod hwn wedi mabwysiadu ymagwedd ddarbodus tuag at reoli risg ac mae'n diffinio ei archwaeth risg fel a ganlyn:-

1. Defnyddir **meini prawf sylfaenol o ran statws credyd** er mwyn cynhyrchu rhestr o wrthbartion sy'n addas iawn i dderbyn credyd. Mae hyn hefyd yn caniatáu arallgyfeirio ac yn osgoi'r risg sy'n gysylltiedig â chanolbwyntio ar un gwrthbarti. Y graddfeydd allweddol a ddefnyddir i fonitro gwrthbartion yw'r graddfeydd tymor byr a thymor hir.
2. **Gwybodaeth arall:** nid statws credyd yn unig fydd yn penderfynu ar ansawdd sefydliad; mae'n bwysig asesu a monitro'r sector ariannol yn barhaus, a hynny ar sail micro a macro ac mewn perthynas â'r amgylcheddau economaidd a gwleidyddol y mae sefydliadau'n gweithredu ynddynt. Bydd yr asesiad hefyd yn cymryd i ystyriaeth wybodaeth sy'n adlewyrchu barn y marchnadoedd. I gyflawni hyn, bydd y Cyngor yn ymgysylltu gyda'i ymgynghorwyr i gadw golwg ar brisiau'r farchnad megis yswirio colledion credyd ("**credit default swaps**") ac yn ychwanegu'r wybodaeth honno at y graddfeydd credyd.
3. Bydd **ffynonellau gwybodaeth eraill** a ddefnyddir yn cynnwys y wasg ariannol, prisiau cyfranddaliadau ac unrhyw wybodaeth arall sy'n ymwneud â'r sector bancio er mwyn sefydlu'r broses sgriwtini fwyaf cadarn mewn perthynas ag addasrwydd gwrthbartion y gellir bod yn buddsoddi ynddynt.

4. Mae'r Awdurdod hwn wedi diffinio'r rhestr o'r **mathau o offerynnau buddsoddi** y mae gan y Tîm Rheoli Trysorlys awdurdod i'w defnyddio. Mae dwy restr yn **Atodiad 7** dan y categorïau 'penodol' ac 'amhenodol'.
 - Mae **buddsoddiadau penodol** yn golygu'r rheini sydd â lefel uchel o ansawdd credyd ac a fydd yn aeddfedu o fewn blwyddyn, neu fod llai na blwyddyn ar ôl cyn aeddfedu petaent, yn wreiddiol, wedi eu dosbarthu fel buddsoddiadau amhenodol ond oherwydd fod y cyfnod aeddfedu yn fwy na blwyddyn.
 - **Buddsoddiadau amhenodol** yw'r rheini â lefel is o ansawdd credyd. Gallant fod am gyfnodau sydd dros flwyddyn ac/neu maent yn offerynnau mwy cymhleth y bydd angen i'r Aelodau a'r swyddogion roddi mwy o ystyriaeth iddynt cyn eu hawdurdodi ar gyfer eu defnyddio.
5. **Terfyn buddsoddiadau amhenodol.** Mae'r Cyngor wedi penderfynu y bydd yn cyfyngu cyfanswm y defnydd o fuddsoddiadau amhenodol drwy sicrhau na wneir unrhyw fuddsoddiad amhenodol heb ganiatâd ymlaen llaw gan y Cyngor. Nid yw'r Cyngor yn dal unrhyw fuddsoddiadau amhenodol, nac yn meddwl am wneud hynny yn ystod 2022/23 (gweler **Atodiad 7**).
6. Bydd **cyfyngiadau benthyca** (symiau ac aeddfedrwydd) ar gyfer pob gwrthbarti yn cael eu gosod drwy ddefnyddio'r tabl matrices fel y mae'n ymddangos yn y rhan o'r strategaeth hon sy'n ymwneud â Theilyngdod Credyd.
7. Nodir **cyfyngiadau trafodion** ar gyfer pob math o fuddsoddiad yn **Atodiad 8**.
8. Bydd yr Awdurdod hwn yn gosod cyfyngiad ar swm y buddsoddiadau y mae'n eu buddsoddi am **fwy na 365 diwrnod** (gweler **Atodiad 11**).
9. Ni fydd buddsoddiadau ond yn cael eu gwneud mewn gwrthbartion o wledydd sydd â **graddfa sofraniaeth** sylfaenol (gweler **Atodiad 9**).
10. Mae'r Awdurdod hwn wedi penodi **ymgynghorwyr allanol** i ddarparu cyngor arbenigol ynghylch sut i sicrhau'r cydbwysedd priodol gorau rhwng diogelwch, hylifedd ac elw ac yn wyneb archwaeth risg yr Awdurdod hwn yng nghyd-destun lefel ddisgwyliedig y balansau ariannol a'r angen am hylifedd drwy'r flwyddyn.
11. Bydd yr holl fuddsoddiadau'n cael eu dynodi mewn **sterling**.
12. O ganlyniad i'r newid yn y safonau cyfrifo ar gyfer 2022/23 dan **IFRS 9**, bydd yr Awdurdod hwn yn ystyried goblygiadau offerynnau buddsoddi a allai arwain at newid andwyol yng ngwerth yr arian a fuddsoddir a'r taliadau i'r Gronfa Gyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn o ganlyniad i hynny. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo darpariaeth statudol sy'n rhoi amser i awdurdodau lleol Cymru addasu eu portffolios o'r holl fuddsoddiadau cyfun trwy ohirio gweithredu IFRS 9 am bum mlynedd tan 31.03.23.

8.3 Polisi Teilyngdod Credyd

- 8.3.1** Y brif egwyddor sy'n rheoli meini prawf buddsoddi'r Cyngor yw diogelwch ei fuddsoddiadau, er bod elw neu enillion ar fuddsoddiadau hefyd yn ystyriaeth allweddol. Wedi rhoi sylw i'r brif egwyddor hon, bydd y Cyngor yn sicrhau:-
- Bod ganddo bolisi sy'n amlinellu'r categorïau o fathau o fuddsoddiadau y bydd yn buddsoddi ynddynt, y meini prawf ar gyfer dewis gwrthbartion buddsoddi a chanddynt ddiogelwch digonol, a monitro eu diogelwch. Nodir hyn yn yr adrannau isod sy'n ymwneud â buddsoddiadau penodol ac amhenodol; a
 - Bod ganddo hylifedd digonol yn ei fuddsoddiadau. I'r perwyl hwn, bydd yn amlinellu gweithdrefnau ar gyfer penderfynu am ba hyd y byddai'n ddoeth ymrwymo arian. Mae'r gweithdrefnau hyn hefyd yn berthnasol i ddangosyddion darbodus y Cyngor sy'n ymwneud â'r uchafsymiau y gellir eu buddsoddi.

- 8.3.2** Bydd y Swyddog Adran 151 yn cynnal rhestr gwrthbartion yn unol â'r meini prawf a amlinellir yn **Atodiad 8** a bydd yn adolygu'r meini prawf a'u cyflwyno i'r Cyngor i'w cymeradwyo pan fo angen. Mae'r meini prawf hyn yn wahanol i'r rhai sy'n penderfynu pa fathau o offerynnau buddsoddi sy'n offerynnau penodol neu'n amhenodol, a hynny oherwydd eu bod yn darparu cronfa gyffredinol o wrthbartion yr ystyrir eu bod o safon uchel ac y gall y Cyngor eu defnyddio, yn hytrach na'u bod yn feini prawf sy'n diffinio'r math o offerynnau buddsoddi a fydd yn cael eu defnyddio.
- 8.3.3** Caiff gwybodaeth am statws credyd ei darparu gan Link Group, ein hymgynghorwyr trysorlys, yn achos yr holl wrthbartion sy'n cydymffurfio gyda'r meini prawf isod. Bydd unrhyw wrthbartion sy'n methu â bodloni'r meini prawf yn cael eu tynnu oddi ar y rhestr gwrthbartion. Bydd manylion am newidiadau i'r graddfeydd, newidiadau tebygol i'r graddfeydd (Watches) a gwybodaeth ynghylch y duedd tymor hwy y tu allan i'r farn graddfa ganolog (Outlook) yn cael eu darparu i swyddogion bron ar unwaith wedi iddynt ddigwydd a rhoddir sylw i'r wybodaeth hon cyn delio. Er enghraifft, os ceir gwybodaeth y bydd graddfa negyddol yn berthnasol i wrthbarti sydd yn cwrrd â meini prawf sylfaenol y Cyngor, gwaherddir eu defnyddio a bydd y cyfan o'r lleill yn cael eu hadolygu yn wyneb amodau'r farchnad.
- 8.3.4** Fel haen ddiogelwch ychwanegol i'r meini prawf staws credyd sylfaenol a ddisgrifir uchod, mae'r Cyngor hwn hefyd yn defnyddio'r gwasanaeth teilyngdod credyd a ddarperir gan Link. Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithredu dull modelu soffistigedig gan ddefnyddio graddfeydd credyd gan y tair prif asiantaeth statws credyd - Fitch, Moody's a Standard and Poor's. Yn ychwanegol at hynny, cymerir y camau isod i asesu statws credyd gwrthbartion:-
- Ystyrir rhagolygon credyd (Watches) a gweithgareddau monitro credyd (Outlook) gan asiantaethau statws credyd;
 - Taenu yswirio colledion credyd (CDS) i roi rhybudd buan am newidiadau tebygol mewn graddfeydd credyd;
 - Graddfeydd sofran i ddewis gwrthbartion o'r gwledydd sydd fwyaf teilwng o gael credyd yn unig.
- 8.3.5** Mae'r dull modelu hwn yn cyfuno graddfeydd credyd, gweithgareddau monitro credyd (Outlook) a rhagolygon credyd (Watches) mewn system sgorio sydd wedi ei phwysoli ac sydd wedi ei chyfuno wedyn gyda throshaen o CDS a fydd, yn y pen draw, yn cynhyrchu cyfres o godau lliw i nodi pa mor deilwng o gredyd yw gwrthbartion. Mae'r codau lliw hyn yn cael eu defnyddio gan y Cyngor, gyda disgresiwn y Swyddog Adran 151, i gynorthwyo i benderfynu ar gyfnod amser y buddsoddiadau. Bydd y Cyngor, felly, fel arfer yn defnyddio gwrthbartion o fewn y cyfnodau canlynol:-
- Melyn: 5 mlynedd *
- Pinc tywyll: 5 mlynedd – ar gyfer bondiau tymor byr iawn gyda sgôr credyd o 1.25
- Pinc golau: 5 mlynedd – ar gyfer bondiau tymor byr iawn gyda sgôr credyd o 1.5
- Piws: 2 flynedd
- Glas: 1 flwyddyn (ond yn berthnasol i Fanciau DU a wladolwyd neu a led-wladolwyd)
- Oren: 1 flwyddyn
- Coch: 6 mis
- Gwyrdd: 100 diwrnod
- Dim Lliw: Dim i'w ddefnyddio
- 8.3.6** Mae gwasanaeth teilyngdod credyd Link yn defnyddio amrywiaeth ehangach o wybodaeth na'r graddfeydd sylfaenol yn unig a, thrwy ddefnyddio system sgorio pwysoliad risg, nid yw'n dibynnu'n ormodol ar raddfeydd un asiantaeth yn unig.
- 8.3.7** Fel arfer, y meini prawf isaf y bydd y Cyngor yn eu defnyddio ar gyfer credyd fydd graddfa Tymor Byr (Fitch neu gyfatebol) o F1 a graddfa Tymor Hir o A-. Efallai y bydd achlysuron pan fydd graddfeydd un asiantaeth ychydig yn is na'r graddfeydd hyn, ond gellir parhau i'w defnyddio. Ar yr achlysuron hyn, rhoddir ystyriaeth i'r amrediad cyfan o raddfeydd sydd ar gael, neu wybodaeth berthnasol arall am y farchnad, er mwyn cefnogi eu defnyddio.

- 8.3.8** Bydd yr holl raddfeydd credyd yn cael eu monitro'n ddyddiol. Caiff y Cyngor wybod am unrhyw newidiadau i raddfeydd y tair asiantaeth drwy ei ddefnydd o wasanaeth teilyngdod credyd Link.
- Os bydd cwmp yn y raddfa'n golygu na fydd y gwrthbarti/cynllun buddsoddi'n cwrdd â meini prawf sylfaenol y Cyngor, ni fyddant yn cael eu defnyddio eto ar gyfer buddsoddiadau newydd a bydd hynny'n dod i rym yn syth.
 - Yn ogystal â graddfeydd credyd, bydd y Cyngor yn cael gwybodaeth yn ddyddiol am symudiadau yn nhaeniad y gweithgareddau 'yswirio colledion credyd' yn erbyn y meincnod iTraxx a data arall am y farchnad drwy ei wefan 'Passport', a ddarperir yn benodol ar ei ran gan Link. Gall symudiadau eithafol yn y farchnad arwain at israddio sefydliad neu ei dynnu oddi ar restr benthycwyr y Cyngor.
- 8.3.9** Ni fyddir yn dibynnu'n gyfan gwbl ar y gwasanaeth allanol hwn. Bydd y Cyngor hefyd yn defnyddio data a gwybodaeth am y farchnad, yn ogystal â gwybodaeth am unrhyw gymorth allanol a roddwyd i fanciau i'w helpu gyda'i broses gwneud penderfyniadau.
- 8.3.10** Ni welwyd lefelau sylweddol o raddfeydd credyd Tymor Byr a Hir yn cael eu hisraddio ers yr argyfwng ym mis Mawrth 2020. Ar y cyfan, lle bu newidiadau, roeddent yn gyfyngedig i Ragolygon. Fodd bynnag, wrth i economïau ddechrau ail agor, cafodd y Rhagolygon eu gwrthdroi mewn rhai achosion.
Mae'r Canllawiau hefyd yn dweud bod unrhyw fuddsoddiad nad yw'n cwrdd â'r diffiniad ym mharagraff 5.1 yn cael ei gyfrif fel buddsoddiad amhenodol.

Yn ystod 2022/23 nid yw'r Cyngor yn bwriadu buddsoddi arian mewn gwledydd tramor, na chyda chyrff ansawdd credyd isel, nac unrhyw fuddsoddiadau a ddiffinnir fel gwariant cyfalaf gan y ddeddfwriaeth (megis cyfrandaliadau mewn cwmnïau). Bydd buddsoddiadau amhenodol felly yn cael eu cyfyngu i (i) buddsoddiadau tymor hir; a (ii) adneuo gyda banciwr y Cyngor i ddibenion trafodaethol os yw'n methu a chwedd â'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y credyd; yn yr achos hwn, caiff balansau eu cyfyngu i'r eithaf lle mae hynny'n bosib.

Mae'r tabl yn Atodiad 8 yn nodi'r meini prawf a'r cyfyngiadau buddsoddi ar gyfer y gwahanol categorïau o fuddsoddiadau y bwriedir eu defnyddio yn ystod 2022/23 ac sydd, felly'n sail ar gyfer y rhestr fenthyca a gymeradwyir.

Bydd raid i'r Cyngor Sir gymeradwyo ymlaen llaw unrhyw newidiadau arfaethedig yn ystod y flwyddyn i categorïau o fuddsoddiadau penodol ac amhenodol a ddefnyddir ac/neu i'r meini prawf graddfeydd credyd / cyfyngiadau buddsoddi.

“* Mae Adran 2.4 y Canllawiau'n diffinio buddsoddiad tymor hir fel “Unrhyw fuddsoddiad heblaw (a) un y mae disgwyl iddo gael ei ad-dalu cyn pen 12 mis i'r dyddiad y gwnaed y buddsoddiad neu (b) un y gallai'r awdurdod lleol fynnu ei fod yn cael ei ad-dalu o fewn y cyfnod hwnnw.”

** I ddibenion ansawdd credyd uchel dywed y Canllawiau “At ddibenion paragraff 5.1 (d), mae gweinidogion Cymru yn argymhell y dylai'r Strategaeth ddiffinio ansawdd credyd uchel (a lle mae'r diffiniad hwn yn cyfeirio at statws credyd, mae paragraff 6.1 (***) yn berthnasol).”

*** Mae paragraff 6.1 y Canllawiau'n argymhell “Dylai'r Strategaeth nodi dull yr awdurdod o asesu'r risg o gollu buddsoddiadau, gan egluro'n benodol ::

- (a) i ba raddau, os o gwbl, mae asesiad risg yn seiliedig ar statws credyd a gyhoeddwyd gan un neu fwy o asiantaethau statws credyd;
- (b) pan ddefnyddir statws credyd, pa mor aml y mae statws credyd yn cael ei fonitro a pha gamau sydd i'w cymryd pan fydd graddfeydd yn newid; a
- (c) pa ffynonellau gwybodaeth eraill ar risg credyd a ddefnyddir, yn ychwanegol at neu yn lle statws credyd.

Mae'r tabl yn Atodiad 8 y strategaeth hon yn nodi'r hyn y mae'r Cyngor hwn yn ei ddiffinio fel ansawdd credyd uchel a'r meini prawf a'r terfynau buddsoddi cysylltiedig ac mae adran 7.3 o'r strategaeth hon yn nodi dull teilyngdod credyd y Cyngor

Meini Prawf Gwrthbartïon

Categori	Graddfa Credyd Tymor Byr (Fitch)	Graddfa Credyd Tymor Byr (Moody's)	Graddfa Credyd Tymor Byr (Standard & Poor's)	Graddfa Credyd Tymor Hir (Fitch)	Graddfa Credyd Tymor Hir (Moody's)	Graddfa Credyd Tymor Hir (Standard & Poor's)	Terfyn Arian	Terfyn Amser
Banciau a Chymdeithasau Adeiladu (sydd heb eu gwladoli neu eu gwladoli'n rhannol)	F1+	P-1	A-1+	AAA	Aaa	AAA	£10m	5 mlynedd
	F1+	P-1	A-1+	AA	Aa2	AA	£10m	3 mlynedd
	F1+	P-1	A-1+	AA-	Aa3	AA-	£10m	364 diwrnod
	F1	P-1	A-1	A	A2	A	£7.5m	6 mis
Banciau'r Deyrnas Gyfunol sydd wedi eu gwladoli / wedi eu gwladoli'n Rhannol	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	£10m	364 diwrnod
Banc y Nat West (wedi ei wladoli'n rhannol)	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	£30m	364 diwrnod
Llywodraeth Ganolog y Deyrnas Gyfunol (waeth beth fo'r raddfa credyd)	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	Dim uchafswm	Dim uchafswm
Awdurdodau Lleol y Deyrnas Gyfunol **	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	£5m	364 diwrnod
Cronfeydd Marchnad Arian	d/b	d/b	d/b	AAA	AAA	AAA	£5m	6 mis

* fel y diffinnir yn Neddf Llywodraeth Leol 2003

Nodiadau ac Eglurhad**(1) Terfyn Arian Parod**

- (i) Mae'r terfynau arian yn berthnasol i'r gwrthbarti unigol ac i'r grŵp cyffredinol y mae'n perthyn iddo. (e.e. ar gyfer y banciau o fewn Grŵp Bancio Lloyds plc (sef Bank of Scotland plc a Lloyds Bank plc) mae'r terfyn buddsoddi yn berthnasol i'r banciau hynny'n unigol a'r grŵp bancio yn ei gyfanrwydd);
- (ii) Y terfyn arian cyffredinol ar gyfer adneuo'n dros 364 o ddyddiau yw £15m.

(2) Terfyn Amser

- (i) I fyny at, a chan gynnwys y cyfnod a nodwyd.

(3) Arian Gwledydd Tramor

- (i) Bydd buddsoddiadau mewn gwledydd tramor wedi eu cyfyngu i'r rheini a chanddynt raddfa credyd sofran AA- (Fitch) neu gyfatebol (o'r asiantaethau y cyfeirwyd atynt yn adran 4.3 or strategaeth hon) – (yn seiliedig ar y cyfenwador lleiaf) a hyd at uchafswm o £10 miliwn fesul gwlad dramor.
- (ii) Ni chaniateir buddsoddi mewn gwledydd nad yw graddfa sofran isaf yn AA- neu'n uwch. Ni fydd cyfyngiad gwlad yn berthnasol i fuddsoddiadau yn y Deyrnas Gyfunol waeth beth fo'r raddfa credyd sofran.
- (iii) Bydd is-gwmnïau o grwpiau banciau tramor fel arfer yn cael eu hasesu yn unol â mamwlad y rhiant-sefydliad. Fodd bynnag, bydd Santander UK plc (is-gwmni Banco Santander yn Sbaen) yn cael ei gyfrif fel banc yn y Deyrnas Gyfunol oherwydd ei fasnachfreintiau sylweddol yn y Deyrnas Gyfunol a natur hyd braich y berthynas rhwng y rhiant gwmni a'r is-gwmni.
- (iv) Ni fydd meini prawf graddfa credyd sofran a chyfyngiadau gwledydd tramor yn berthnasol i fuddsoddiadau mewn banciau datblygu amlochrog (e.e. Banc Buddsoddi Ewrop a Banc y Byd) na sefydliadau rhyngwladol eraill (e.e. yr Undeb Ewropeaidd).

4. Graddfa Credyd yn Gostwng

Os bydd graddfa credyd yn gostwng ac yn golygu bod y gwrthbarti yn is na'r meini prawf y mae'n rhaid cwrdd â nhw ar gyfer buddsoddi, rhoddir y gorau i ddefnyddio'r gwrthbarti cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Os bydd y Swyddog Adran 151 yn dymuno parhau i fuddsoddi gyda'r gwrthbarti hwnnw, gofynnir am ganiatâd gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac un aelod arall o ddewis y Cadeirydd a bydd raid i'r ddau ohonynt gymeradwyo. Adroddir ar hynny fel sy'n briodol cyn gynted ag y gellir.

Gwledydd wedi eu cymeradwyo ar gyfer buddsoddi [yn gywir fel ar 21 Rhagfyr 2021]

Mae'r rhestr hon yn seiliedig ar y gwledydd hynny sydd â graddfa sofran o AA- neu uwch (rydym yn dangos y raddfa isaf gan Fitch, Moody's a S&P) a hefyd, (ac eithrio - ar adeg ysgrifennu - ar gyfer Hong Kong, Norwy a Lwcsembwrg) a chanddynt fanciau sy'n gweithredu mewn marchnadoedd sterling sydd â statws credyd gwyrdd neu uwch yng ngwasanaeth teilyngdod credyd Link Asset Services.

Yn seiliedig ar y raddfa isaf sydd ar gael**AAA**

- Awstralia
- Denmarc
- Yr Almaen
- Lwcsembwrg
- Yr Iseldiroedd
- Norwy
- Singapore
- Sweden
- Y Swistir

AA+

- Canada
- Y Ffindir
- U.D.A

AA

- Abu Dhabi
- Ffrainc

AA-

- Gwlad Belg
- Hong Kong
- Qatar
- **DU**

Cynllun Dirprwyo ar gyfer materion Rheoli Trysorlys

(i) Cyngor Sir

- Cymeradwyo'r Gyllideb;
- Cymeradwyo Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys Blynyddol, Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol a'r Polisi DRI, Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys Blynyddol a diwygiadau iddynt;
- Cymeradwyo diwygiadau i'r cymalau a fabwysiadwyd gan y Cyngor;
- Derbyn ac adolygu adroddiadau monitro ar bolisiâu, arferion a gweithgareddau Rheoli Trysorlys; a
- Gweithredu ar argymhelliad a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a/neu'r Pwyllgor Gwaith.

(ii) Pwyllgor Gwaith

- Ystyried y gyllideb;
- Cymeradwyo rhannu'r cyfrifoldebau;
- Cymeradwyo dewis o ddarparwyr gwasanaeth allanol a chytuno ar delerau'r apwyntiad;
- Derbyn ac adolygu adroddiadau monitro ar bolisiâu arferion a gweithgareddau Rheoli Trysorlys a gwneud argymhellion i'r Cyngor Sir fel sy'n briodol;
- Gweithredu ar argymhellion a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

(iii) Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

- Craffu ar faterion Rheoli Trysorlys, fel sy'n ofynnol dan Gôd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys a Pholisi Rheoli Trysorlys y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys:-
 - Craffu ar y Datganiad ar y Strategaeth Flynyddol ar gyfer Rheoli'r Trysorlys, y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, y Polisi DRI Blynyddol, y Polisi Rheoli Trysorlys Blynyddol ac Arferion Rheoli Trysorlys a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir fel y bo'n briodol;
 - Craffu ar gynigion am ddiwygiadau i'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys Blynyddol, y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, y Polisi DRI Blynyddol, y Polisi Rheoli Trysorlys Blynyddol ac Arferion Rheoli Trysorlys ac i'r diwygiadau i'r cymalau a fabwysiadwyd a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir fel y bo'n briodol;
 - derbyn a chraffu ar unrhyw gynigion sy'n ymwneud â Rheoli'r Trysorlys ac sydd angen penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith neu'r Cyngor Sir;
 - derbyn a chraffu ar adroddiadau monitro ar bolisiâu, arferion a gweithgareddau Rheoli Trysorlys a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir fel y bo'n briodol.

Rôl Rheoli Trysorlys y Swyddog Adran 151

Mae rôl y Swyddog Adran 151 (y swyddog cyfrifol) yn cynnwys:

- argymhell cymalau, polisi/arferion rheoli trysorlys i'w cymeradwyo, gan eu hadolygu'n rheolaidd, a monitro cydymffurfiaeth;
- cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar y polisi rheoli trysorlys;
- cyflwyno cyllidebau ac amrywiadau i'r gyllideb;
- derbyn ac adolygu adroddiadau gwybodaeth reoli;
- adolygu perfformiad y swyddogaeth rheoli trysorlys;
- sicrhau digonolrwydd adnoddau a sgiliau rheoli trysorlys, a rhannu cyfrifoldebau'n effeithiol o fewn y swyddogaeth rheoli trysorlys;

- sicrhau digonolrwydd y gwaith archwilio mewnol, a chydgysylltu ag archwilwyr allanol; acargymell penodi darparwyr gwasanaeth allanol;
- cyfrifoldeb am weithredu a gweinyddu'r penderfyniadau trysorlys, yn cynnwys y penderfyniadau ar fenthyca, buddsoddi ac ariannu, a fônt wedi eu dirprwyo i'r Swyddog Adran 151, a fydd yn gweithredu yn unol â datganiadau polisi'r Cyngor ac Arferion Rheoli Trysorlys;
- paratoi strategaeth gyfalaf i gynnwys gwariant cyfalaf, cyllid cyfalaf, buddsoddiadau anariannol a rheoli trysorlys o fewn llinell amser tymor hir;
- sicrhau bod y strategaeth gyfalaf yn ddarbodus, yn gynaliadwy ac yn fforddiadwy yn y tymor hir a'i bod yn darparu gwerth am arian;
- sicrhau diwydrwydd dyladwy mewn perthynas â'r holl fuddsoddiadau trysorlys ac anariannol a'u bod yn unol ag archwaeth risg yr Awdurdod;
- sicrhau bod gan yr Awdurdod y pwerau cyfreithiol priodol i wario ar asedau anariannol a'u cyllido;
- sicrhau cymesuredd yr holl fuddsoddiadau fel nad yw'r Awdurdod yn buddsoddi ar lefel sy'n golygu bod yr Awdurdod yn agored i lefel ormodol o risg o gymharu â'i adnoddau ariannol;
- sicrhau bod proses lywodraethu ddigonol yn ei lle ar gyfer cymeradwyo, monitro a rheoli'r risg sy'n gysylltiedig ag unrhyw fuddsoddiadau anariannol a rhwymedigaethau tymor hir;
- rhoi i Aelodau restr o'r holl fuddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys, gan gynnwys buddsoddiadau sylweddol mewn is-gwmnïau, mentrau ar y cyd, benthyciadau a gwarantau ariannol;
- sicrhau bod Aelodau'n cael gwybodaeth ddigonol a'u bod yn deall y risgiau y mae'r Awdurdod yn agored iddynt;
- sicrhau bod gan yr Awdurdod yr arbenigedd ddigonol, naill ai'n fewnol neu'n allanol, i wneud yr uchod;
- creu Arferion Rheoli Trysorlys sy'n delio'n benodol â'r modd y bydd buddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys yn cael eu trin a'u rheoli, gan gynnwys yr isod:-
 - Rheoli risg (ARhT1 a'r atodlenni), gan gynnwys meini prawf buddsoddi a rheoli risg ar gyfer unrhyw bortffolios buddsoddi sylweddol nad ydynt yn ymwneud â'r trysorlys;
 - Mesur a rheoli perfformiad (ARhT2 a'r atodlenni) , gan gynnwys methodoleg a meini prawf ar gyfer asesu perfformiad a llwyddiant buddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys;
 - Gwneud penderfyniadau, llywodraethu a threfniadaeth (ARhT5 a'r atodlenni), gan gynnwys datganiad ar ofynion llywodraethiant ar gyfer gwneud penderfyniadau ar fuddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys; a threfniadau i sicrhau diwydrwydd dyladwy er mwyn cefnogi'r broses gwneud penderfyniadau;
 - Gwybodaeth reoli ac adrodd (ARhT6 a'r atodlenni), gan gynnwys ble a pha mor aml y cynhyrchir adroddiadau monitro;
 - Hyfforddiant a chymwysterau (ARhT10 a'r atodlenni), gan gynnwys y modd y bydd gwybodaeth a sgiliau perthnasol mewn perthynas â buddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys yn cael eu trefnu.

**DANGOSYDDION DARBODUS A THRYSORLYS
GOSOD CYLLIDEB 2022/23**

ATODIAD 11

Rhif Dangosydd

Fforddiadwyaeth		2020/21 Alldro	2021/22 Amcangyfrif	2022/23 Cynnig	2023/24 Cynnig	2024/25 Cynnig
1,2	Amcangyfrif o [neu wir] gymhareb costau dyled i ffrwd referniw net:					
	Cronfa'r Cyngor	4.75%	4.55%	4.40%	4.43%	4.44%
	Cyfrif Refeniw Tai (gan gynnwys y setliad)	16.52%	9.04%	13.40%	14.12%	13.83%
	Cyfanswm	6.12%	5.08%	5.42%	5.57%	5.56%
Darbodusrwydd						
3	Dyled gros a'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC)	✓	✓	✓	✓	✓
	<i>Ydy dyled allanol gros yn llai na'r GCC am y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrifon unrhyw gynnydd am y flwyddyn gyfredol a'r ddwy flynedd ddilynol?</i>			✓	✓	✓
Gwariant Cyfalaf			£000	£000	£000	£000
4,5	Amcangyfrif o [neu wir] Wariant Cyfalaf					
	Cronfa'r Cyngor	20,507	25,427	17,177	9,408	8,277
	Cyfrif Refeniw Tai	12,622	13,641	18,784	22,009	18,550
	Cyfanswm	33,129	39,068	35,961	31,417	26,827
6,7	Amcangyfrif o [neu wir] Gofyniad Cyllido Cyfalaf					
	Cronfa'r Cyngor	97,360	102,531	107,867	109,195	110,728
	Cyfrif Refeniw Tai	39,200	38,415	43,646	52,273	56,828
	Cyfanswm	136,560	140,946	151,513	161,468	167,556
Dyled Allanol			£000	£000	£000	£000
8	Terfyn Awdurdodedig					
	: Benthycu Cyffredinol	175,000	175,000	180,000	190,000	198,000
	: Ymrwymadau tymor hir eraill	5,000	5,000	5,000	5,000	5,000
	: Cyfanswm	180,000	180,000	185,000	195,000	203,000

9	Ffin Weithredol					
	: Benthycu Cyffredinol	170,000	170,000	175,000	185,000	193,000
	: Ymrwymadau tymor hir eraill	5,000	5,000	5,000	5,000	5,000
	: Cyfanswm	175,000	175,000	180,000	190,000	198,000
10	Gwir Ddyled Allanol	124,524				
Rheoli'r Trysorlys		2020/21 Alldro	2021/22 Amcangyfrif	2022/23 Cynnig	2022/24 Cynnig	2024/25 Cynnig
11	Bod yr Awdurdod Lleol wedi mabwysiadu Cod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus.	✓	✓	✓	✓	✓
		£000	£000	£000	£000	£000
12	Dyled Gros a Net	100%	100%	100%	100%	100%
	<i>Terfyn uchaf ar y ddyled net fel cyfran o'r ddyled gros</i>					
13	Y terfyn uchaf ar raddfeydd sefydlog : <i>(prifswm net sy'n ddyledus)</i>	155,000	155,000	160,000	170,000	178,000
14	Y terfyn uchaf ar raddfeydd amrywiol: <i>(prifswm net sy'n ddyledus)</i>	20,000	20,000	20,000	20,000	20,000
15	Terfyn cyfanswm y prifsymiau a fuddsoddir am gyfnodau dros 364 diwrnod: <i>(bydd unrhyw fuddsoddiadau tymor hir a ddygir ymlaen o flynyddoedd blaenorol yn cael eu cynnwys yn nherfyn pob blwyddyn)</i>	15,000	15,000	15,000	15,000	15,000
			2022/23 Terfyn uchaf		2022/23 Terfyn isaf	
16	Terfyn uchaf ac isaf ar gyfer strwythur aeddfedu'r benthycu graddfa sefydlog					
	• dan 12 mis		20%	0%		
	• 12 mis ac o fewn 24 mis		20%	0%		
	• 24 mis ac o fewn 5 mlynedd		50%	0%		
	• 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd		75%	0%		
	• 10 mlynedd a throsodd		100%	0%		
			Dim newid	Dim newid		

Gwybodaeth am Ddangosyddion Darbodus a Rheoli Trysorlys.**A) Fforddiadwyaeth.****1 & 2. Cymhareb y costau cyllido i'r ffrwd referiw net**

Mae'r dangosydd hwn yn nodi'r tueddiad o ran cost cyfalaf (costau benthyca a chostau ymrwymadau tymor hir eraill net o'r incwm buddsoddi) yn erbyn y ffrwd referiw net.

Mae'r amcangyfrifon ynghylch costau cyllido yn cynnwys ymrwymadau cyfredol a'r cynigion yn yr adroddiad hwn ar y gyllideb.

B) Bod yn ddarbodus**3. Dyled gros a'r GCC**

Mae angen i'r Cyngor sicrhau nad yw'r ddyled gros, heblaw yn y tymor byr, yn mynd yn uwch na'r GCC yn y flwyddyn flaenorol ynghyd â'r amcangyfrifon am unrhyw GCC ychwanegol ar gyfer 2022/23 a'r ddwy flynedd ariannol ddilynol. Mae hyn yn rhoi peth hyblygrwydd ar gyfer benthyca buan cyfyngedig yn y dyfodol, ond yn sicrhau na fyddir yn benthyca i ddibenion referiw.

C) Gwariant cyfalaf

Cynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor yw'r gyrrwyr allweddol o ran gweithgareddau rheoli trysorlys. Adlewyrchir allbwn y cynlluniau gwariant cyfalaf yn y dangosyddion darbodus, sydd wedi'u dylunio i gynorthwyo aelodau i gael trosolwg o'r sefyllfa gyfalaf a chadarnhau cynlluniau gwariant cyfalaf.

4 & 5 Amcangyfrif o Wariant Cyfalaf

Dyma'r Gwariant Cyfalaf a ragamcendir o 2021/22 hyd at 2024/25 ac mae'n seiliedig ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2021/22 a'r Strategaeth Cyfalaf ar gyfer 2022/23.

6 & 7 Anghenion benthyca'r Cyngor (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf)

Dangosydd darbodus arall yw Gofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor (GCC). Yn syml, y GCC yw cyfanswm y gwariant cyfalaf hanesyddol gweddilliol nad ydyw hyd yma wedi cael ei dalu amdano o adnoddau referiw neu gyfalaf. Yn sylfaenol, mesur ydyw o anghenion benthyca sylfaenol y Cyngor. Bydd unrhyw wariant cyfalaf nad ydyw wedi talu amdano ar unwaith, yn cynyddu lefel y GCC.

Nid yw'r GCC yn cynyddu i lefel amhenodol, oherwydd mae'r ddarpariaeth isafswm referiw (DRI) yn dâl referiw blynyddol statudol sydd, yn gyffredinol, yn gostwng yr angen benthyca yn unol ag oes pob ased ac felly'n newid dâl ar y defnydd economaidd o asedau cyfalaf wrth iddynt gael eu defnyddio.

Mae'r GCC yn cynnwys unrhyw ymrwymadau tymor hir eraill (e.e. cynlluniau PFI, prydlesau ariannol). Er bod y rhain yn cynyddu'r GCC ac o'r herwydd, yn cynyddu angen y Cyngor i fenthyca, mae'r mathau hyn o gynlluniau'n cynnwys cyfleuster benthyca ac o'r herwydd, nid oes raid i'r Cyngor fenthyca ar wahân ar gyfer y cynlluniau hyn. Ar hyn o bryd, nid oes gan y Cyngor unrhyw gynlluniau o'r fath yn y GCC.

CH) Dyled Allanol

- 8. Y terfyn a awdurdodir ar gyfer dyled allanol.** Mae dangosydd darbodus allweddol arall yn rheoli'r uchafswm benthyca. Gwaherddir dyledion allanol y tu hwnt i'r terfyn hwn ac mae angen i'r Cyngor llawn osod neu ddiwygio'r terfyn. Mae'n adlewyrchu'r lefel o ddyled allanol y gellid, er nad yw hynny'n beth a ddeisyfir, ei fforddio yn y tymor byr ond nad yw'n gynaliadwy yn y tymor hwy. Dyma'r terfyn statudol y penderfynir arno dan adran 3(1) Deddf Llywodraeth Leol 2003. Mae'r Llywodraeth yn cadw'r opsiwn i reoli naill ai'r cyfan o gynlluniau'r holl Gynhorau, neu gynlluniau Cyngor penodol, er nad ydyw hyd yma wedi defnyddio'r pŵer hwnnw.

Dywed y Swyddog Adran 151 bod y Cyngor wedi cydymffurfio gyda'r dangosydd darbodus hwn yn y flwyddyn gyfredol ac nid yw'n rhagweld anawsterau yn y dyfodol. Mae'r farn hon yn cymryd i ystyriaeth yr ymrwymadau cyfredol, y cynlluniau presennol, a'r cynigion sydd yn yr adroddiad hwn ar y gyllideb.

- 9. Y ffin weithredol.** Ffin yw hon na fyddir fel arfer yn disgwyl i ddyled allanol fynd yn uwch na hi. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai'n ffigwr tebyg i GCC ond gall fod yn is neu'n uwch gan ddibynnu ar lefelau'r ddyled wirioneddol a'r gallu i gyllido tanfenthyca trwy ddefnyddio adnoddau arian parod eraill

Geirfa**GWARIANT CYFALAF**

Gwariant ar brynu ased nad yw'n gyfredol, a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau tu hwnt i'r flwyddyn ariannol gyfredol, neu wariant sy'n ychwanegu at werth ased presennol nad yw'n gyfredol, yn hytrach na dim ond cynnal gwerth yr ased. Mae enghreifftiau'n cynnwys : adeiladu ysgol newydd, prynu offer TG, gwaith adnewyddu sylweddol ar gartref gofal.

CYLLIDO CYFALAF

Arian sydd ar gael i dalu am wariant cyfalaf. Mae nifer o ffyrdd o gyllido gwariant cyfalaf, gan gynnwys benthycu, prydlesu, cyllido refeniw uniongyrchol, derbyniadau cyfalaf y mae modd eu defnyddio, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf, cronfeydd refeniw wrth gefn a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

GOFYNIAD CYLLIDO CYFALAF

Y cyfanswm gwariant cyfalaf hanesyddol sydd heb ei dalu'n barod naill ai o adnoddau refeniw neu gyfalaf. Yn ei hanfod, mae'n adlewyrchiad o angen sylfaenol y Cyngor i fenthycu.

RHAGLEN GYFALAF

Y cynlluniau cyfalaf mae'r Cyngor yn bwriadu eu gweithredu dros gyfnod penodol o amser.

DERBYNIADAU CYFALAF

Yr elw o waredu tir neu asedau eraill nad ydynt yn gyfredol. Gellir defnyddio cyfran o'r dderbyniadau cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf newydd, o fewn y rheolau a osodir gan y llywodraeth, ond ni ellir eu defnyddio i gyllido gwariant refeniw.

CIPFA

Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth. Y prif gorff proffesiynol a rheoleiddiol ar gyfer cyfrifon llywodraeth leol.

CYFRIF REFENIW TAI (CRT)

Cyfrif ar wahân i Gronfa'r Cyngor, sy'n cynnwys yr incwm a gwariant sy'n gysylltiedig â'r Cyngor yn darparu llety tai.

LLOG A DDERBYNNIR NEU A DELIR

Defnyddir y dull cyfradd llog wirioneddol i fesur beth yw gwerth ased ariannol neu rwymedigaeth a fesurir yn ôl y gost llai amorteiddiad cronedig, ac i neilltuo incwm neu dreuliau cysylltiedig i'r cyfnod perthnasol. Y gyfradd llog wirioneddol yw honno sy'n rhoddi disgownt cysâct ar y taliadau arian parod neu'r derbyniadau yr amcangyfrifir y'u derbynnir yn y dyfodol dros oes ddisgwyliedig yr offeryn ariannol yn ôl y swm a gafodd ei gydnabod iddo'n y lle cyntaf. Mae'r gyfradd llog wirioneddol yn cael ei diwygio yn ôl y tâl llog neu'r derbyniadau gwirioneddol trwy'r Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn i sicrhau mai dim ond llog gwirioneddol a godir yn erbyn y Dreth Gyngor. Yn achos asedau a rhywymedigaethau ariannol a gludwyd yn ôl y gost, gan fod y llog wirioneddol yr un faint â'r llog cludo, mae'r gwerth cludo'n cael ei ddiwygio ar gyfer llog cronus.

DARPARIAETH REFENIW ISAF REFENIW (DRI)

Yr isafswm sydd raid ei godi ar y cyfrif refeniw bob blwyddyn er mwyn darparu ar gyfer ad-dalu benthyciadau a symiau eraill a fenthycir gan y Cyngor.

DYLED NET

Benthyciadau'r Cyngor llai arian parod ac adnoddau hylifol.

BWRDD BENTHYCIADAU GWEITHIAU CYHOEDDUS (BBGC)

Asiantaeth Llywodraeth Ganolog sy'n rhoi benthyciadau am flwyddyn a/neu fwy i awdurdodau ar raddfeydd llog sydd ond ychydig yn uwch na'r rheini y gall y llywodraeth fenthyca arnynt ei hun.

GWARIANT REFENIW A ARIENNIR O GYFALAF O DAN STATUD (REFCUS)

Gwariant y gellir ei ohirio'n briodol (h.y. ei drin fel cyfalaf o ran ei natur) ond nad yw'n arwain at ased diriaethol, na'n parhau i fod yn gysylltiedig â hi. Mae enghreifftiau o daliadau gohiriedig yn cynnwys grantiau o natur gyfalaf i sefydliadau gwirfoddol.

GRANT CYNNAL REFENIW

Grant a delir gan Lywodraeth Ganolog i awdurdodau ac sy'n cyfrannu tuag at gost gyffredinol eu gwasanaethau.

BENTHYCA GYDA CHYMORTH

Mae'r Cyngor yn benthycu arian i ariannu rhan o'i raglen gyfalaf. Cydnabyddir y benthyciad gan Lywodraeth Ganolog wrth weithio allan ei fformiwla gyllido ar gyfer y Cyngor.

BENTHYCA DROS DRO

Arian a fenthycir am gyfnod o lai na blwyddyn.

BENTHYCA DIGYMORTH

Gall y Cyngor fenthyca arian ychwanegol i'r benthycu a gefnogir gan y Llywodraeth, a hynny er mwyn ariannu ei wariant cyfalaf cyn belled a'i fod yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy. Fe lywodraethir y pŵer hwn gan Gôd Darbodus CIPFA, sef Côt y mae'r Cyngor yn llwyr gydymffurfio ag ef.

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	CYNGOR SIR
Dyddiad:	10 MAWRTH 2022
Pwnc / Testun:	Y STRATEGAETH GYFALAF
Aelod Portffolio:	Y CYNGHORYDD ROBIN WYN WILLIAMS
Pennaeth Gwasanaeth:	MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151
Awdur yr Adroddiad:	CLAIRE KLIMASZEWSKI – RHEOLWR CYLLID
Ffôn:	01248 752133
E-bost:	ClaireKlimaszewski@ynysmon.gov.uk
Aelodau Lleol:	
A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau	
<p>Dan Gôd Darbodus Ariannol diwygiedig CIPFA, Medi 2017, mae'n ofynnol bellach fod pob awdurdod yn cynhyrchu strategaeth gyfalaf. Yn y strategaeth gyfalaf hon, rhaid amlinellu'r cyd-destun tymor hir i benderfyniadau am wariant cyfalaf a buddsoddi. Pwrpas y gofyniad hwn yw sicrhau bod awdurdodau'n gwneud penderfyniadau ar gyfalaf a buddsoddi yn unol ag amcanion gwasanaethau ac yn rhoi ystyriaeth briodol i stiwardiaeth, gwerth am arian, doethineb ariannol, cynaliadwyedd a fforddiadwyedd.</p> <p>Mae CIPFA wedi cyhoeddi canllawiau ychwanegol ar Strategaethau Cyfalaf yn 2021, sy'n cynnwys enghreifftiau o arfer da. Pwrpas y Strategaeth Gyfalaf hon yw ymgorffori'r gofynion hyn cymaint â phosibl o fewn yr amserlen fer cyn y dyddiad cau ar gyfer Strategaeth Gyfalaf 2022/23. Mae'r canllawiau'n cydnabod efallai na fydd gan Gynghorau'r gallu i gwrdd â'r canllawiau'n llawn ac mae'n annog awdurdodau lleol i ddatblygu eu strategaethau cyfalaf wrth i amser fynd rhagddo. Mae'r Rheolwr Gweithredol yn arwain ar ffordd ddiwygiedig o ymdrin â'r Strategaeth Gyfalaf am y cyfnod 2023/24 ac ymlaen.</p> <p>Argymhellion</p> <p>Gofynnir i'r Cyngor Sir :-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf am 2022/23, fel y nodir yn atodiadau 1 a 2. 	
B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?	
Amherthnasol gan ei fod yn ofyniad gan CIPFA.	
C – Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Cyngor Sir?	
Yn unol â gofynion CIPFA a Chyfansoddiad y Cyngor lle gofynnir i'r Cyngor Llawn cymeradwyo y Strategaeth Gyfalaf 2022/23.	
CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn?	
Bydd y Strategaeth Gyfalaf yn cael ei thrafod yn y Cyngor Llawn, lle byddir yn gofyn iddo gymeradwyo Strategaeth Gyfalaf 2022/23.	


D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?		
Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn llywio'r hyn a gynhwysir ym mhob Cyllideb Gyfalaf flynyddol a gymeradwyir gan y Cyngor llawn.		
DD – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol)		
1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys	Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn cynnwys strategaeth tymor hir mewn perthynas â Chymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu i gael gwelliannau tymor hir i ysgolion, buddsoddiad tymor hir yn Anheddau Cyngor y CRT a chymorth tymor hir i asedau presennol y Cyngor / offer TG newydd.
2	A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-	Nac ydi
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy-	Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn cydnabod rôl bwysig gweithio mewn partneriaeth, yn enwedig mewn perthynas â bid Twf Gogledd Cymru.
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-	Ydi, yn anuniongyrchol trwy'r ymgynghoriad ar Gynllun y Cyngor a chynlluniau gweithredol perthnasol a thrwy'r ymgynghoriad fel rhan o osod cyllideb gyfalaf flynyddol.
5	Nodwch effeithiau'r penderfyniad hwn ar yr agenda cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg	Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn helpu i sicrhau bod adeiladau'n hygyrch fel bod modd i bawb gael mynediad iddynt ac mae'r strategaeth yn clustnodi cyllid ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl i unigolion ag anableddau.
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad yn ei chael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	Bydd y Strategaeth Gyfalaf yn cefnogi'r rhai dan anfantais gymdeithasol-economaidd yn uniongyrchol trwy wella cyfleusterau ysgol, cynyddu nifer y tai Cyngor a'u hadnewyddu, ymhlith prosiectau eraill.
7	Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Mae'r prosiectau cyfalaf o fudd i'r Gymraeg, y Saesneg ac unigolion sy'n siarad ieithoedd eraill. Yn fwy uniongyrchol, bydd ysgolion newydd a'r rhai sydd wedi'u hadnewyddu o fudd i siaradwyr Cymraeg gan fod y rhan fwyaf o ysgolion Ynys Môn yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn addysgu iaith a llenyddiaeth Saesneg. Mae'r gofynion i gefnogi Môn-ddaliadau yn helpu i warchod diwylliant amaethyddol Ynys Môn, gan gynnwys yr iaith Gymraeg a siaredir gan lawer o denantiaid.

E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Rheoli (UDRh) (gorfodol)	I'w drafod.
2	Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)	Adroddiad y Swyddog Adran 151.
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)	I'w drafod yn yr UDA.
4	Adnoddau Dynol (AD)	Amherthnasol – dim goblygiadau staffio.
5	Eiddo	Mae gan yr Adain Mân-ddaliadau fewnbwn i'r Strategaeth Gyfalaf.
6	Technoleg Gwybodaeth (TG)	Trafodir Strategaeth Ysgolion Digidol 2022/23 yn y Strategaeth Gyfalaf.
7	Sgriwtini	
8	Aelodau Lleol	
9	Unryw gyrrff allanol / eraill	Mae'r strategaeth hon yn cynnwys ymrwymiad i'r Cyngor weithio'n rhan o Fargen Twf y Gogledd.
F - Atodiadau:		
Atodiad 1 – Strategaeth Gyfalaf 2022/23 Atodiad 2 – Crynodeb o'r Rhaglen Gyfalaf Arfaethedig Ddrafft 2022/23		
FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):		
Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2022/23, y Pwyllgor Gwaith, 3 Mawrth 2022; Cynllun Ariannol Tymor Canol 2022/23 i 2023/24, y Pwyllgor Gwaith, 27 Medi 2021; Rhaglen Gyfalaf Ddrafft 2022/23 - Cynigion Cychwynnol, y Pwyllgor Gwaith, 24 Ionawr 2022; Adroddiad ar y Raglen Gyfalaf 2022/23, y Pwyllgor Gwaith, 3 Mawrth 2022; Cyllideb Refeniw 2022/23, y Pwyllgor Gwaith, 3 Mawrth 2022; Cynllun Trosiannol y Cyngor 2022/23.		

Cyngor Sir Ynys Môn Strategaeth Gyfalaf 2022/23

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn rhan allweddol o gynllunio strategol y Cyngor ar gyfer y tymor byr, canolig a hir. Cynllunio strategol yw'r broses y mae'r Cyngor yn ei defnyddio i helpu i nodi beth ddylai ei flaenoriaethau a'i amcanion allweddol fod ar gyfer y flwyddyn nesaf ac i'r dyfodol. Mae hyn yn golygu gwaith ac ymgynghori sylweddol gan fod angen i'r Cyngor osod ei flaenoriaethau a thargedau ei gyllid at y gwasanaethau cywir i gwrdd ag anghenion dinasyddion Ynys Môn, a'r Ynys ei hun fel lle o arwyddocâd arbennig. Amlinellir amcanion allweddol y Cyngor yng Nghynllun y Cyngor. Mae'r strategaeth gyfalaf hon yn edrych ar ba asedau newydd, neu welliannau i asedau megis adeiladau'r Cyngor, ysgolion, tai, prosiectau adfywio, cyfleusterau gofal cymdeithasol, cyfleusterau hamdden, sydd eu hangen i helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol ynghyd â'i rwymedigaethau statudol niferus.
- 1.2 Dengys y diagram cynllunio strategol isod mai'r man cychwyn yw Cynllun y Cyngor, a bod hwn wrth graidd gwaith y Cyngor. Ategir hyn gan gynlluniau strategol allweddol y Cyngor a trafodir rhai ohonynt isod. Yr haen nesaf yw'r Strategaeth Gyfalaf, y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, sydd wedi'u cysylltu'n agos iawn ac sydd oll yn rhyng-gysylltiedig. Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn cynnwys gwybodaeth a gofynion allweddol o'r holl gynlluniau hyn. Dengys y cylch hefyd yn ddwy haen allanol, rhaid i'r rhain fod yn gydnaws â'r holl ddogfennau strategol sydd ger eu bron.



- 1.3** Mae Cynllun presennol y Cyngor 2017/2022 yn dod i ben ym mis Mawrth 2022. Fel arfer, byddai cynllun pum mlynedd yn dilyn ymlaen o'r cynllun hwn. Fodd bynnag, ers mis Mawrth 2020 (yn y DU), mae Pandemig y Coronafeirws wedi achosi aflonyddwch eang ar bob lefel: byd-eang, cenedlaethol, lleol ac i unigolion. Mae llywodraethau wedi cymryd camau na welwyd mo'u tebyg o'r blaen i liniaru effaith Covid-19 ac i achub bywydau. Mae effaith y pandemig wedi'i chymharu â'r ddau Ryfel Byd, yn ariannol ac ar ei effaith ar bob agwedd ar fywyd. Mae'r Llywodraeth wedi cymryd y benthyciadau mwyaf yn ei hanes i liniaru'r argyfwng sydd, ddwy flynedd yn ddiweddarach, yn dal heb fod ar ben. Golyga hyn y gallai cyllid yn y dyfodol ar gyfer y sector cyhoeddus fod mewn perygl, yn enwedig ar gyfer buddsoddi cyfalaf. Mae'n anodd darparu cynllun tymor canolig pan fo cymaint o ansicrwydd yn bodoli oherwydd Covid-19 a'i amrywiadau. Yn lle hynny, mae'r Cyngor wedi cynhyrchu cynllun trosiannol ar gyfer 2022/23, sy'n pwysu a mesur digwyddiadau'r ddwy flynedd ddiwethaf ac yn ceisio nodi sut olwg fyddai ar normal newydd i Ynys Môn ac ar gyfer pryd y daw Covid-19 yn fwy endemig. Ochr yn ochr â hyn, bydd y Cyngor yn cwblhau gwaith helaeth i gynhyrchu Cynllun y Cyngor mwy tymor canolig ar gyfer 2023/24 a thu hwnt i hynny.
- 1.4** Dyhead y Cyngor ar gyfer Strategaeth Gyfalaf Ynys Môn yw y bydd nid yn unig yn cynllunio ar gyfer y tymor byr a chanolig, ond ei fod yn bwriadu cynllunio ar gyfer y tymor hir - 20 mlynedd. Gall asedau'r Cyngor gostio symiau sylweddol o arian sydd, yn gyfnewid am y buddsoddiad, yn tueddu i bara blynyddoedd lawer. Mae canolbwyntio ar y tymor hir yn bwysig, nid yn unig oherwydd hirhoedledd asedau'r Cyngor, ond gall cynlluniau tymor hir anelu at newid mwy trawsnewidiol a sicrhau bod cynaliadwyedd yn ystyriaeth allweddol. Mae rhai amcanion sydd mor bwysig ac sy'n gofyn am newidiadau sylweddol, megis targedau Carbon Isel yn arwain at darged Di-Garbon net y sector cyhoeddus erbyn 2030, i gyfyngu ar y newid yn yr hinsawdd. Bydd y newid hwn yn dechrau nawr gyda phrosiectau cyfalaf yn integreiddio dewisiadau amgen Carbon Isel a chydag asedau penodol, megis cerbydau trydan, ond mae'r targedau hefyd yn gofyn am newid trawsnewidiol parhaus, tymor hir. Mae Strategaeth Gyfalaf 2022/23 wedi'i chyfyngu o ran ei hamcanion tymor hir tra bod y Cyngor yn ailgyfeirio ei hun ar ei daith allan o'r Pandemig. Bydd Strategaeth Gyfalaf 2023/24 yn rhoi golwg tymor hir mwy sylweddol gyda chymorth Cynllun newydd y Cyngor 2022/27 ac wrth i normal newydd Ynys Môn ddod i rym.
- 1.5** Mae gwaith llywodraethu'r strategaeth hon yn dilyn yr un broses â Phrosesau Pennu Cyllideb Refeniw a Chyfalaf a bydd yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith, fydd yn gwneud argymhellion i'r Cyngor llawn ei chymeradwyo.

2 Sut mae'r Strategaeth yn cydweddu â dogfennau eraill

2.1 Cynllun y Cyngor

Cynllun y Cyngor yw'r brif ddogfen sy'n amlinellu'r hyn y mae'r Cyngor yn bwriadu ei gyflawni yn y tymor canol, cyfnod o bum mlynedd fel arfer. Rhaid i bob strategaeth a chynllun arall fod yn gydnaws â Chynllun y Cyngor, fel a ddangosir yn y cylch strategol yn 1.2. Mae'r Adran 1 uchod yn amlygu bod y cynllun pum mlynedd diweddaraf wedi dod i ben ym mis Mawrth 2022, a bod Cynllun Trosiannol ar gyfer 2022/23 wedi'i gyhoeddi wrth i'r Cyngor ddechrau symud ymlaen fel mae Covid-19 yn dod yn glefyd mwy endemig. Y tri amcan strategol, allweddol yn y Cynllun Trosiannol ar gyfer 2022/23 yw:-

- A.** Ailfywiogi'r economi leol a sefydlu newid economaidd cadarnhaol.
- B.** Sicrhau bod y sector ymwelwyr a lletygarwch yn gallu manteisio ar boblogrwydd cynyddol yr Ynys, tra'n gwarchod ein hasedau a'n cymunedau.
- C.** Cynnal a moderneiddio gwasanaethau cymunedol hanfodol, megis Gofal ac Addysg ar draws yr Ynys.

<https://www.ynysmon.gov.uk/documents/Dogfennau-Cy/Cyngor/Democratiaeth/Mesur-ein-perfformiad/Cynllun-Trosiannol/Cynllun-Trosiannol-Ynys-Mon.pdf>

Un o amcanion allweddol y Strategaeth Gyfalaf hon yw sicrhau bod y cyllid cyfalaf sydd ar gael i'r Cyngor yn cael ei wario ar brosiectau sy'n helpu'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau, gan gynnwys cynnal a chadw, newid a / neu uwchraddio asedau presennol. Mae nifer o ddogfennau strategol allweddol eraill yn cyd-fynd â Chynllun y Cyngor. Mae'r rhain yn pennu sut bydd yr Awdurdod yn gweithio ar agweddau penodol sy'n cael effaith ar y Cyngor.

Mae Cynllun Trosiannol 2022/23 yn amlygu rôl bwysig y Strategaeth Gyfalaf a phrosiectau cyfalaf wrth gyflawni tri amcan strategol y Cyngor. At ei gilydd, mae pedwar ar hugain o dasgau wedi'u rhestru ar draws y tri amcan. Mae hanner y rhain yn brosiectau cyfalaf gyda'r rhan fwyaf yn helpu i gyflawni amcanion A a C. Mae'r diagram isod yn dangos y prosiectau cyfalaf a grybwyllir yn benodol yn y Cynllun Trosiannol ar draws y tri amcan. Mae'r Strategaeth Gyfalaf hon, felly, yn hanfodol i gyflawni Cynllun Trosiannol y Cyngor. Dylai'r Rhaglen Gyfalaf am 2022/23, ac o bosibl 2023/24, gynnwys y prosiectau / ffrydiau gwaith isod. Mae'r rhifau ar y diagram yn cyfateb i'r rhifau yng [Nghynllun Trosiannol 2022/23 y Cyngor](#).

Dyma'r prosiectau sydd wedi'u henwi'n uniongyrchol yn y Cynllun Trosiannol. Fodd bynnag, mae prosiectau cyfalaf wedi'u cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf Ddrafft ar gyfer 2022/23 nad ydynt wedi'u henwi yng Nghynllun y Cyngor ond sy'n bwysig ac yn cyfrannu at yr amcanion hyn, megis gwelliannau cyfleusterau cyhoeddus a'r gwaith lliniaru llifogydd fydd yn helpu i gyflawni amcan B i helpu i gefnogi poblogrwydd cynyddol yr Ynys. Mae yna, hefyd, brosiectau cyfalaf wedi'u cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf Ddrafft sy'n helpu i gyflawni amcanion y Strategaeth Gyfalaf, gan gynnwys y rhai a amlygwyd mewn cynlluniau strategol eraill, megis y gofyn i fuddsoddi yn asedau'r Cyngor bob blwyddyn.

Prosiectau Cyfalaf a amlygwyd yng Nghynllun Trosiannol 2022/23 y Cyngor fel camau gweithredu allweddol i helpu i gyflawni tri amcan allweddol y Cyngor

Amcan A: Ailfywiogi'r economi lleol a sefydlu newid economaidd cadarnhaol, trwy:-

01: Adeiladu chwe uned fusnes newydd ar Barc Busnes Bryn Cefni, Llangefni a pharatoi chwe llain i'w gwerthu.

01: Adeiladu saith uned fusnes newydd ym Mhenrhos, Caergybi mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru.

02: Cryfhau rôl Caergybi a'r Porthladd fel "Porth" rhyngwladol allweddol trwy weithio gyda phartneriaid i: atgyweirio'r Morglawdd yn sylweddol; datblygiad y Porthladd, gan gynnwys adennill tir; Hyb Hydrogen Caergybi; Gwelliannau i orsafoedd.

03: Cyflawni prosiectau gydag unrhyw elfennau cyfalaf a nodir yng Nghynllun Gweithredu Adfywio Economi Gogledd Ynys Môn, er enghraifft, unedau busnes newydd posibl

04: Gweithredu prosiectau cyfalaf a fyddai'n cefnogi cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru (prosiectws Adfer Covid) i gefnogi'r meysydd blaenoriaeth i helpu ein heconomi i adfer yn y tymor byr.

06: Targeddu cyllid cyfalaf i fynd i'r afael ag adeiladau gwag a phroblemus a chyflawni unrhyw brosiectau gwyrdd cyfalaf i barhau i gyflawni fel adferiad gwyrdd, cynaliadwy ac i wella bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi.

07: Gweithredu prosiectau cyfalaf sy'n helpu i symud y Rhaglen Ynys Ynni yn ei blaen, megis y rhai sy'n cyd-fynd ag ymrwymadau newid hinsawdd ac ynni'r Llywodraeth Ganolog a Llywodraeth Cymru.

B. Sicrhau bod y sector ymwelwyr a lletygarwch yn gallu manteisio ar boblogrwydd cynyddol yr Ynys tra'n gwarchod ein hasedau, trwy:-

02: Buddsoddi i wella ansawdd a mwynhad ym Mharc Gwledig y Morglawdd, Nant y Pandy a'r isadeiledd morwrol er budd trigolion lleol ac ymwelwyr.

C. Cynnal a moderneiddio gwasanaethau cymunedol hollbwysig, megis Gofal ac Addysg ar draws yr Ynys trwy:-

01: Dod o hyd i gartrefi parhaol i unigolion sy'n byw mewn llety dros dro.

03: Adeiladu 83 o gartrefi ynni effeithlon newydd gyda pherfformiad ynni A, yn unol â Strategaeth Carbon Isel y Cyngor, a chynyddu anheddau'r Cyngor a thai fforddiadwy i ddiwallu anghenion tai unigolion.

04: Codi rhagor o Gartrefi Clyd ar Ynys Môn yn Rhos-y-bol, Caergybi a Llangristiolus i gynnig gwasanaethau seibiant a dydd i blant ag anableddau.

05: Datblygu cyfleuster Gofal Ychwanegol newydd yn Ne'r Ynys.

08: Datblygu cyfleusterau ysgol gynradd newydd yn Llangefni.

2.2 Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRhT)

Mae cysylltiad agos iawn rhwng y Strategaeth Gyfalaf hon a'r DSRhT a chaiff y ddau eu hadolygu'n flynyddol. Bydd y Strategaeth Gyfalaf yn diffinio sut mae'r Cyngor yn gwario ei gyllid cyfalaf ac mae'r DSRhT yn nodi sut y caiff hyn ei gyllido a'i effaith ar sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor. Mae benthyca'n rhan allweddol o'r strategaeth gyllido. Mae'r manylion ynghylch sut yr eir ati i fenthyca ac yna ei reoli hefyd wedi'i nodi yn y DSRhT.

2.2 Y Cynllun Ariannol Tymor Canolig

Y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) yw'r rhan sylfaenol o gynllunio ariannol sy'n amcangyfrif gofynion refeniw'r Cyngor dros y tair blynedd nesaf, a sut bydd hyn yn cael ei gydbwyso â'r cyllid sydd ar gael. Bydd gwariant cyfalaf yn effeithio ar y gyllideb refeniw drwy'r Ddarpariaeth Refeniw Isaf a'r llog sy'n daladwy ar fenthyca. Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn helpu i lywio'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Mae monitro cyllideb ac adolygu'r CATC yn rheolaidd yn helpu i fonitro effaith perfformiad a materion ariannol ar gyflawni Cynllun y Cyngor. Yn gysylltiedig â'r monitro ariannol mae monitro perfformiad a risgiau corfforaethol a gwasanaeth. Nodir rhai o'r rhain yn risgiau ariannol. Mae Framwaith Rheoli Perfformiad a Strategaeth Rheoli Risg y Cyngor yn llywodraethu sut y caiff perfformiad a risg eu rheoli.

2.3 Cynlluniau gwasanaeth a chynlluniau statudol gweithredol, penodol i wasanaethau

Er mai Cynllun y Cyngor yw'r ddogfen strategol allweddol, ategir hyn gan nifer o gynlluniau gweithredol, manylach, allweddol, y mae llawer ohonynt yn amlygu bod gwariant cyfalaf yn allweddol i gyflawni amcanion y cynllun priodol. Mae pob un o'r cynlluniau hyn yn seiliedig ar waith ymchwil, nodi'r sefyllfa bresennol, dadansoddiad i nodi anghenion a chynlluniau o'r modd y mae'r gwasanaeth yn anelu at ddiwallu'r anghenion ac ymgynghori â chydranddeiliaid.

Cynllun Tuag at Sero Net 2022/25

Bydd y Cynllun Tuag at Sero Net cyntaf yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar 3 Mawrth 2022. Mae'r cynllun hwn yn hanfodol i'r Cyngor wrth iddo ymdrechu i gyrraedd targed sero net y sector cyhoeddus erbyn 2030, fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru. Y targed ar gyfer Cymru gyfan yw sero net erbyn 2050, fodd bynnag, mae'n ofynnol i sefydliadau'r sector cyhoeddus gyflawni hyn yn llawer cynharach. Mae gan y cynllun dri chwmpas, ac mae'r ddau gyntaf yn haws gan eu bod yn ymwneud â dewisiadau glanach o ran cyfleusterau a reolir gan y Cyngor, megis swyddfeydd, ysgolion, cerbydau ac ati. Rhwystr mawr i'r ddau gwmpas hyn fydd dod o hyd i ddigon o gyllid i gyrraedd y targed. Mae Cwmpas 3 yn fwy heriol gan ei fod yn ymwneud â dewisiadau y mae eraill yn eu gwneud, megis gweithwyr cyflogedig wrth iddynt gynnal busnes y Cyngor ac a yw tenantiaid tai Cyngor neu eiddo buddsoddi yn dilyn canllawiau byw'n lân.

Mae gan y strategaeth gyfalaf hon, felly, amcan allweddol bod yn rhaid i brosiectau cyfalaf roi sylw i'r targedau sero net carbon. Bydd llawer o'r newidiadau sydd eu hangen i gyflawni'r cynllun sero net yn ymwneud â gwariant cyfalaf. O'r herwydd, mae prosiectau Sero Net yn debygol o fod yn rhan o raglenni cyfalaf y dyfodol hyd nes y bydd y targedau wedi'u cyflawni a thu hwnt ar gyfer rhaglenni newydd. Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn chwarae rhan bwysig o'r agenda hollbwysig hon.

Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol

Mae Crynodeb Gweithredol y cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol drafft ar gyfer Tir ac Adeiladau 2021 i 2026 yn nodi fel enghraifft "mae angen cyllidebau cyfalaf a refeniw sylweddol i gynnal a chadw adeiladau i'w cadw'n ddiogel ac yn y cyflwr gorau posibl ... mae gofyn cael oddeutu £27m o gyfalaf cynnal a chadw, yn seiliedig ar arolygon cyflwr a gwblhawyd yn 2019/20... Mae asedau'r Cyngor yn chwarae rhan hanfodol wrth gyflawni blaenoriaethau a gwasanaethau'r Cyngor yn effeithiol... Mae'r ymdrech i ddod yn Gyngor sero net ..yn unol â disgwyliadau'r Llywodraeth, yn golygu bod yn rhaid i ni fuddsoddi i wella ein hasedau presennol a chodi adeiladau carbon niwtral newydd...". Er mai fersiwn ddrafft yw'r cynllun strategol hwn, mae'n amlygu cyflwr asedau'r Cyngor yn sgil arolygon yn 2019/20. Felly, un o amcanion allweddol y Strategaeth Gyfalaf yw bod cyllid cyfalaf yn cael ei ddarparu bob blwyddyn ar gyfer gwelliannau i adeiladau'r Cyngor.

Polisi Rheoli Asedau Stadau Mân-ddaliadau drafft y Cyngor 2021/30

Mae mân-ddaliadau'r Cyngor yn cynnwys tua 5,800 erw, yn amrywio o 2 erw i 170 erw wedi'u parseli i 92 o denantiaethau. Mae ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar y polisi gyda chydranddeiliaid, gan gynnwys tenantiaid. "Prif nod y polisi yw cynnal a chreu buddion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol tymor byr a hir i gyfrannu at ddiogelu llesiant a chynladwyedd cymunedau gwledig Ynys Môn". Mae'r mân-ddaliadau yn helpu i gyflawni Cynllun Rheoli Cyrchfan y Cyngor a Strategaeth Twristiaeth Llywodraeth Cymru. Mae amaethyddiaeth wedi ei wreiddio yn hanes a diwylliant Môn ac, felly hefyd, yr Iaith Gymraeg a siaredir gan nifer o denantiaid y Stad. Mae amcan masnachol i sicrhau bod y stad yn parhau i sicrhau enillion ariannol cynaliadwy. Fodd bynnag, oherwydd ei amcanion ehangach, nid yw'r mân-ddaliadau yn cael eu dosbarthu fel eiddo buddsoddi sy'n ymwneud ag eiddo a ddelir ar gyfer casglu incwm a chynyddu gwerth yr eiddo'n unig. Er mwyn cefnogi amcanion y mân-ddaliadau a'u cyfraniad i Gynllun y Cyngor, mae'r Strategaeth Gyfalaf yn cydnabod bod angen buddsoddiad cyfalaf yn y mân-ddaliadau ar gyfer gwaith adnewyddu. Mae'r strategaeth uchod yn amcangyfrif bod angen £2.9m o gyllid cyfalaf dros y cyfnod 2021-30. Mae £1.9m o hwn ar gyfer systemau gwresogi, adnewyddadwy carbon isel ac effeithlonrwydd ynni drwy insiwleiddio mwy ar eiddo. Argymhellir bod unrhyw dderbyniadau cyfalaf a gynhyrchir o werthu unrhyw Stad Mân-ddaliadau yn cael eu clustnodi i'w hailfuddsoddi yn y Stad. Caiff y tîm mân-ddaliadau ei annog i wneud cais am gyllid allanol, yn enwedig gan Lywodraeth Cymru, mewn perthynas â systemau gwresogi, adnewyddadwy, carbon isel a phrosiectau effeithlonrwydd ynni.

Strategaeth Ysgolion Digidol 2022-2024

Cyflwynwyd Strategaeth Ddigidol gyntaf yr Awdurdod ar gyfer Ysgolion i'r Pwyllgor Gwaith a'i chymeradwyo ar 13 Rhagfyr 2021. Mae hyn yn allweddol i gefnogi blaenoriaethau addysgol y Cyngor ac i fodloni'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Mae'r strategaeth yn amlygu nod cyffredinol y Cyngor i greu Ynys Môn sy'n iach a llewyrchus, lle gall teuluoedd ffynnu, sy'n cynnwys sicrhau bod pobl Ynys Môn yn cyflawni eu potensial tymor hir. Mae cymhwysedd digidol yn allweddol i hyn ac mae wedi'i gynnwys fel sgil trawsgwricwlaidd gorfodol. Mae gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, y mae ei rhaglen gwerth miliynau o bunnoedd wedi cyllido'r rhan fwyaf o'r isadeiledd a Chromebooks i ddisgyblion, a llwyfan digidol Hwb ar gyfer addysgu a dysgu yng Nghymru, wedi bod yn allweddol ac yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer y Strategaeth Ysgolion Digidol.

Blaenoriaethau allweddol y strategaeth yw: bydd y Cyngor yn symud yn llwyr i HWB ac yn gwneud defnydd ohono, bydd digon o isadeiledd rhwydwaith ar gyfer pob ysgol a bydd y Cyngor yn darparu'r caledwedd sydd ei angen ar ysgolion ac ystafelloedd dosbarth fel bod modd defnyddio technolegau arloesol fydd yn cefnogi dysgwyr. Cyflwynwyd £0.343m o grant gan Lywodraeth Cymru a cyllidwyd caledwedd a gostiodd £1.536m gan Lywodraeth Cymru, rhwng 2019/20 a 2021/22. Heb y cyllid hwn ac isadeiledd, meddalwedd ac offer HWB, ni fyddai'r ysgolion wedi gallu sicrhau y gallai'r rhan fwyaf o ddisgyblion ddysgu o gartref pan oedd yr ysgolion ar gau oherwydd Covid-19.

Mae yna ganlyniadau refeniw i'r Strategaeth Ysgolion Digidol i gefnogi ysgolion ond hefyd ofynion cyfalaf yn y dyfodol. Yn gyfnewid am y cyllid sylweddol gan Lywodraeth Cymru am dair blynedd cyntaf y prosiect, roedd hyn yn amodol ar y Cyngor yn cyllido caledwedd newydd ar ddiwedd oes defnyddiadwy presennol Chromebooks, caledwedd ac isadeiledd TGCh. Mae hyn yn amrywio, yn dibynnu ar oes ddefnyddiol y caledwedd, er enghraifft, costiodd y rhwydwaith ar gyfer yr ysgolion £890k yn 2019, a bydd angen ei newid ymhenn 10 mlynedd, felly, disgwylir bid am gyllid cyn 2029. Mae'n debygol y bydd effaith am dymor hyd yn oed yn hwy gan y bydd angen newid y Chromebooks neu dechnoleg gyfatebol bob chwe blynedd.

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 i 2026

Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â Gwynedd ar y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) statudol. Mae hyn yn helpu i greu arbedion effeithlonrwydd a'r buddion anariannol a geir o gydweithio. Mae hyn oherwydd bod y ddwy sir yn rhannu nodweddion cyffredin ac mae'n fodd i'r ddwy Sir gyflawni amcanion llesiant a Dyfodol Cymru: Cynllun Cenedlaethol 2020 (2021). Adolygir y CDLI ar y cyd ar hyn o bryd oherwydd y cyfnod hir y mae'n ei gynnwys, ac ymgynghorwyd arno ym mis Tachwedd 2021. Bydd angen i bob prosiect yn y Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf gydymffurfio â'r CDLI. Mae'r adolygiad yn cynnwys cyfeiriad at Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, sydd wedi sicrhau cyllid o £240m gan Lywodraethau Cymru a'r DU. Mae'r Bwrdd hwn, fel y nodir isod, yn rhan bwysig o'r Strategaeth Gyfalaf hon.

Strategaeth Rheoli Asedau Tai Cyngor (Cyfrif Refeniw Tai) 2018-2023 a Chynllun Busnes y CRT 2021 i 2051

Rheolir Tai Cyngor gan y Cyfrif Refeniw Tai (CRT), sy'n rhan sylweddol o'r gwasanaeth Tai. Mae'r CRT yn endid hunangyllido, ond mae'n rhan hanfodol o'r Cyngor sy'n helpu'r Cyngor i gyflawni nifer o amcanion Cynllun y Cyngor mewn perthynas â thai. Adroddir ar bob agwedd o gyllid ar wahân i weddill cyllid y Cyngor (Cronfa'r Cyngor) i sicrhau bod y CRT (Cronfa CRT) yn cyllido ei wariant a bod incwm dros ben yn cael ei ailfuddsoddi yn y stoc tai. Gweledigaeth y strategaeth hon yw darparu "Cartrefi o Ansawdd: cymunedau cynaliadwy".

Mae'r chwe blaenoriaeth y cynllun 30 mlynedd presennol yn cyfrannu at amcanion allweddol y Cyngor. Y blaenoriaethau sy'n ymwneud â'r Strategaeth Gyfalaf, ac a gyflawnir yn rhan o'r rhaglen gyfalaf ac fydd yn arwain at raglen tymor hir o'r gwaith isod yw:-

- Cynyddu nifer y tai fforddiadwy ar draws Ynys Môn – mae'r CRT yn parhau i gynyddu ei stoc tai trwy dargedau bob blwyddyn i godi tai newydd a phrynu tai Cyngor yn ôl. Nid yw'r Cyngor bellach yn gwerthu Tai Cyngor ers diddymu'r cynllun Hawl i Brynu. Isod mae Stad Cyngor newydd yn Rhos-y-bol. Codwyd y tai hyn gyda gwres carbon isel a deunydd insiwleiddio modern i helpu i leihau carbon ac, fel y dangosir isod, baneli solar.



- Annog adfywiad ystadau, cynyddu cyfranogiad tenantiaid a diogelwch cymunedol – yn ogystal â chynyddu nifer y Tai Cyngor, mae'r CRT yn gwneud gwaith adnewyddu bob blwyddyn, megis darparu ceginau newydd, toi a gwaith gwella angenrheidiol i ymestyn oes y tai. Mae hyn yn arwain at adfywio stadau'r Cyngor. Mae'r CRT yn gweithio gyda thenantiaid i sicrhau bod tenantiaid yn cymryd rhan i ddylanwadu ar y gwaith ar y stad.
- Mae'r CRT hefyd yn anelu at roi llety i unigolion ag anghenion penodol, megis pobl â phroblemau iechyd meddwl, symud pobl ymlaen o lety brys i dai cymdeithasol a phobl hŷn, megis llety Llawr y Dref. Mae'r CRT hefyd yn bwriadu datblygu cyfleuster tai gofal ychwanegol yn Ne'r Ynys ar gyfer pobl hŷn.
- Gellir datblygu nod y CRT o fynd i'r afael ag effeithlonrwydd, mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a thlodi tanwydd drwy ei adeiladau newydd a'u hadnewyddu.

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (NWEAB) – Cynllun Busnes Cynllun Twf Gogledd Cymru 2020/23

Mae gweithio mewn partneriaeth yn bwysig i'r Cyngor. Wrth weithio gyda'n gilydd ar nodau cyffredin gellir cyflawni mwy ac arwain at arbedion effeithlonrwydd, gan y gellir lleihau dyblygu gwaith. Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn bartneriaeth rhwng y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru, Prifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr, Grŵp Llandrillo Menai, Coleg Cambria a phartneriaid masnachol eraill a bydd yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol fel bod pobl Ynys Môn a'r Gogledd yn gallu ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir. Y Bwrdd yw'r swyddogaeth bartneriaeth gyntaf i'w throsglwyddo i Gyd-bwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru newydd sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith ac sy'n gorff corfforaethol annibynnol.

Mae tair egwyddor allweddol y Cynllun Twf fel a ganlyn:-

- Gogledd Cymru ddoeth – yn canolbwyntio ar arloesi a sectorau economaidd gwerth uchel i hybu perfformiad economaidd;
- Gogledd Cymru gydnerth – yn canolbwyntio ar gadw pobl ifanc, cynyddu lefelau cyflogaeth a sgiliau i gyflawni twf diwydiannol;
- Gogledd Cymru gysylltiedig – yn canolbwyntio ar wella trafndiaeth ac isadeiledd digidol i wella gysylltedd strategol i'r rhanbarth ac oddi fewn iddi.

Mae'r bartneriaeth wedi sicrhau £240m o'r Cynllun Twf gyda Llywodraeth Cymru a'r Llywodraeth Ganolog a bydd yn dod i law dros gyfnod o 15 mlynedd. Nod y Cynllun Twf yw ceisio lleihau'r bwlch cynhyrchiol parhaus rhwng Gogledd Cymru a'r DU, er mwyn adeiladu economi fywiog, gynaliadwy a chynhwysol ar gyfer Gogledd Cymru.

Bydd bwlch cyllido tymor canolig (llif arian negyddol) a reolir gan yr awdurdod arweiniol, ond gyda chyfraniadau blynyddol cyfatebol gan bartneriaid. Amcangyfrifir y bydd yr hyn y mae Ynys Môn yn ei fenthycu tuag at y bwlch cyllido rhwng £0.700m i £1.00m. Byddai hyn yn arwain at dâl DRI blynyddol o rhwng £0.047m a £0.067m bob blwyddyn am y 15 mlynedd. Yn ogystal, bydd gofyn i Ynys Môn gyfrannu £90k tuag at gyllideb graidd ac atodol y Bwrdd bob blwyddyn.

Cyfanswm y proffil cyllid cyfalaf fesul rhaglen yw:-

Tabl 1 : Crynodeb Ariannol Cynllun Twf Gogledd Cymru				
Maes Rhaglen	Cyfraniad Llywodraeth (£m)	Cyfraniad Cyhoeddus (£m)	Cyfraniad Preifat (£m)	Cyfanswm Costau'r Rhaglen (£m)
Arloesi Mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel	13.0	26.5	0.0	39.5
Cysylltedd Digidol	37.0	3.1	1.6	41.7
Bwyd-amaeth a Thwristiaeth	24.5	12.4	4.4	41.3
Tir ac Elddo	79.1	1.9	274.4	355.4
Ynni Carbon Isel	86.4	140.4	441.7	668.5
Cyfanswm	240.0	184.3	722.1	1,146.4

Mae 14 o brosiectau cyfalaf trawsnewidiol, ac mae pob un ohonynt o fudd i Ogledd Cymru gyfan.

Y prosiectau sydd â chysylltiad mwy uniongyrchol ag Ynys Môn yw:-

- Safleoedd ac Adeiladau – bydd rhaglen y Cynllun Twf yn mynd i'r afael â phrinder safleoedd ac adeiladau yng Ngogledd Cymru a buddsoddiad i alluogi twf Porthladd Caerdybi;
- mae cynllun Porth Caerdybi yn gyfres o fuddsoddiadau wedi'u targedu i fynd i'r afael ag asedau sydd wedi dod i ben ac sy'n hanfodol i weithrediad y porthladd ac i gynyddu'r capasiti ar gyfer symudiadau cerbydau a llongau ar gyfer traffig teithwyr a nwyddau;
- bydd y prosiect cysylltedd digidol yn cynyddu band eang cyflym a chysylltedd symudol ar draws Gogledd Cymru. Bydd hyn o fudd i'r rhanbarth cyfan a, chan fod y pedair sir Gogledd-Orllewin Gogledd Cymru ymhlith y 25% isaf o ardaloedd y DU o ran derbyn band eang cyflym iawn, bydd hyn yn teimlo fel gwelliant mwy sylweddol i Ynys Môn, Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych;
- prosiect Morlais – adeiladu'r isadeiledd sy'n cysylltu parth Morlais â'r system grid trydan a pharatoi'r safle ar gyfer datblygiadau sector preifat gan fuddsoddi i brydlesu rhannau o'r parth ar gyfer defnyddio technolegau llanw.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y Bwrdd <https://uchelgaisgogledd.cymru/>

2.4 Gofynion Statudol

Mae'n ofynnol i'r Cyngor, ynghyd â'r holl gyrff cyhoeddus eraill, gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae hyn yn deddfu ar gyfer llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol ar gyfer pobl a'n planed. Bydd hyn yn sicrhau bod gan genedlaethau'r dyfodol o leiaf yr un ansawdd bywyd â'r cenedlaethau presennol. Mae'r Ddeddf yn annog cydweithio i gyflawni nodau'r Ddeddf. Mae Cynllun Trosiannol y Cyngor yn amlygu bod tri amcan y cynllun yn cydblethu â Nodau Llesiant Cenedlaethol a'r Cyngor, gyda datganiad cenhadaeth y Cyngor ar gyfer llesiant, yn nodi "gweithio tuag at Ynys Môn sy'n iach a llewyrchus lle gall teuluoedd ffynnu".

Bydd y Strategaeth Gyfalaf hon yn helpu'r Cyngor i gyflawni'r nod pwysig hwn trwy gyfeirio cyllid at gynlluniau sy'n cydymffurfio â Chynllun y Cyngor yn ogystal â chyfrannu'n uniongyrchol at les cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae buddsoddi mewn adeiladau, gwelliannau i ysgolion, prynu cerbydau trydan, buddsoddi mewn dewisiadau carbon isel fel generaduron pymptau gwres, codi Tai Cyngor newydd gyda gwres carbon isel ac ati, oll yn cyfrannu at les, nawr ac ymhell i'r dyfodol.

Mae deddfwriaeth a chanllawiau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth hefyd yn torri ar draws holl wasanaethau a gwaith y Cyngor. Gyda'r Strategaeth Gyfalaf, mae modd i bawb gael mynediad trwy wneud gwaith addasu penodol mewn ysgolion, adeiladau eraill y Cyngor a darparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Bydd gofyn i adeiladau sydd wedi'u hadnewyddu ac adeiladau newydd gydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb.

Yn ogystal, mae'r Strategaeth Gyfalaf yn cydnabod bod angen buddsoddiad cyfalaf i helpu'r Cyngor i redeg gwasanaethau statudol i sicrhau bod yr asedau a ddefnyddir i redeg gwasanaethau statudol megis Gofal Cymdeithasol, Ysgolion, Tai ac ati, yn ddiogel ac yn cydymffurfio â'r safonau gofynnol.

Yn y diagram isod, crynhöir sut mae'r Strategaeth Gyfalaf yn gysylltiedig â strategaethau allweddol a'r broses o bennu'r gyllideb refeniw a chyfalaf flynyddol.

Cynllun y Cyngor a Chynlluniau Gweithredol allweddol

Mae'r strategaethau a chynlluniau allweddol isod yn bwysig ac wedi'u cysylltu â'i gilydd i helpu i bennu lefel fforddiadwy o adnoddau refeniw a chyfalaf sydd ei hangen i gyflawni blaenoriaethau allweddol Cynllun y Cyngor a chynlluniau gweithredol allweddol. Mae'r rhain, hefyd, yn cyflwyno fframwaith ar gyfer rheoli adnoddau'r Cyngor yn ariannol gadarn.

Y Cynllun Ariannol Tymor Canol (CATC)

Caiff hwn ei adolygu'n rheolaidd i helpu i nodi'r adnoddau tebygol y bydd eu hangen am y tair blynedd nesaf a sut mae'r Cyngor yn bwriadu cydbwysu'r gofyn am yr adnoddau. Mae hyn yn cynnwys effaith materion refeniw a chyfalaf ar Gronfa'r Cyngor.

Y Strategaeth Gyfalaf

Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn nodi'r blaenoriaethau allweddol o ran sut dylid gwario cyfalaf i helpu i gyflawni Cynllun y Cyngor 2017/22. Mae'n cydnabod bod gwariant cyfalaf yn arwain at gostau cyllido cyfalaf refeniw a bod rhaid cadw'r rhain yn fforddiadwy. Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn cael effaith ar y CATC, Y DSRhT, y Gyllideb Refeniw Flynyddol a'r Rhaglen Gyfalaf Flynyddol ac, yn eu tro, mae'r rhain yn cael effaith ar y Strategaeth Gyfalaf.

Strategaeth Rheolaeth Trysorlys (SRhT)

Mae hwn yn gosod y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, y Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf a Datganid Polisi Rheoli'r Trysorlys am y flwyddyn. Mae'r rhain yn darparu'r fframwaith a'r rheolaethau sydd eu hangen i sicrhau bod digon o arian parod i dalu cyflenwyr am gostau refeniw a chyfalaf, bod arian dros ben yn cael ei fuddsoddi'n ddiogel a'i fod yn hygyrch ac nad yw benthyca i gyllido gwariant cyfalaf yn mynd tu hwnt i lefel fforddiadwy.

Mae'r Gyllideb Refeniw Flynyddol

yn cael ei chefnogi gan y CATC, y Strategaeth Gyfalaf a'r SRhT.
– Bob blwyddyn, caiff y costau refeniw cyllido cyfalaf eu hadolygu a'u diwygio fel rhan o'r gwaith o osod y gyllideb refeniw. Weithiau caiff cyfraniadau refeniw eu defnyddio i gyllido costau cyfalaf.

Y Rhaglen Gyfalaf flynyddol

– Mae lefel y gwariant a benthyca cyfalaf yn cael effaith ar y gyllideb refeniw oherwydd costau cyllido cyfalaf ac unrhyw gostau refeniw parhaus, megis cynnal a chadw.

3 Amcanion y Strategaeth Gyfalaf

Mae Cynllun Trosiannol 2022/23 y Cyngor, y cynlluniau gweithredol/statudol allweddol a grybwyllwyd uchod a gofynion statudol yn rhoi cyfeiriad clir ar yr hyn y dylai blaenoriaethau'r Strategaeth Gyfalaf fod er mwyn helpu'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau. Amcanion y Strategaeth Gyfalaf, felly, yw:-

Rhaid i brosiectau cyfalaf ymwneud ag asedau sy'n helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol a amlinellir yng Nghynllun y Cyngor a strategaethau gweithredol allweddol.

Bob blwyddyn, wrth adolygu'r strategaeth hon a datblygu'r Rhaglen Gyfalaf flynyddol, rhaid i'r Cyngor ystyried stiwardiaeth, gwerth am arian, darbodusrwydd, cynaladwyedd a fforddiadwyedd.

Bob blwyddyn, bydd cyllid cyfalaf yn cael ei neilltuo i sicrhau buddsoddiad mewn asedau presennol i'w diogelu i'r dyfodol.

Bydd y Cyngor yn gwneud y mwyaf o arian cyfalaf allanol lle bynnag y bo'n bosibl ac yn fforddiadwy.

Bydd cyllid cyfalaf hefyd yn cael ei flaenoriaethu ar asedau sydd eu hangen i helpu'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu a bydd yn parhau i ddefnyddio cyllid allanol Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yn llawn. Mae hon yn rhaglen sylweddol a fydd yn arwain at welliannau cyfalaf i ysgolion Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu neu adeiladau newydd yn y tymor hir.

Rhaid i brosiectau cyfalaf ystyried y targedau carbon sero net a defnyddio dulliau amgen glân lle, yn draddodiadol, y defnyddiwyd offer/ cyfleusterau/ asedau creu carbon.

Bob blwyddyn, bydd derbyniadau cyfalaf a dderbynnir o werthu Mân-ddaliadau'r Cyngor yn cael eu clustnodi ar gyfer adnewyddu mân-ddaliadau y mae'r Cyngor yn eu cadw. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod yr eiddo'n addas ar gyfer y tymor hir.

Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda'i bartneriaid strategol ac mae wedi ymrwmo i weithio fel rhan o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i gyflawni prosiectau cyfalaf ar draws Gogledd Cymru.

Mae angen ymgynghori'n flynyddol â chydranddeiliaid a dinasyddion Ynys Môn i gael eu barn ar unrhyw brosiectau cyfalaf newydd arfaethedig.

- 3.1** Bod y rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yn cael ei hystyried ar wahân i weddill rhaglen gyfalaf gyffredinol y Cyngor. Mae'r rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yn ymrwymiad sylweddol tymor hir i godi a/neu adnewyddu ysgolion fel bod ysgolion Ynys Môn yn addas i bara ac yn bodloni'r gofynion tymor hwy. Mae'r rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yn helpu'r agenda moderneiddio ysgolion ac yn cefnogi amcan allweddol y Cyngor i sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir. Mae'r egwyddor hon, hefyd, yn bodloni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 i sicrhau bod lleoliadau addysgol yn addas yn y tymor hir. Bydd elfen o'r gwariant ar y rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yn cael ei gyllido o'r derbyniadau cyfalaf o werthu ysgolion gwag, gyda'r gweddill yn cael ei gyllido o fenthycia digefnogaeth. Bydd hyn yn sicrhau bod y grant cyffredinol cyfalaf a'r benthycia â chefnogaeth ar gael i gyllido buddsoddiad mewn asedau cyfredol a newydd sydd eu hangen i gyflawni amcanion Cynllun y Cyngor a sicrhau bod asedau cyfredol y Cyngor yn cael eu cynnal.
- 3.2** Bod swm yn cael ei ddyrannu yn y rhaglen gyfalaf bob blwyddyn i gyllido'r gwaith gwella mawr i offer TG, cerbydau ac adeiladau'r Cyngor neu gael rhai newydd yn eu lle.
- 3.3** Bod swm yn cael ei ddyrannu yn y rhaglen gyfalaf i gwrdd â gofyniad statudol y Cyngor i gynnig grantiau cyfleusterau i'r anabl. Mae hyn yn helpu i gyflawni cyfrifoldebau statudol ac yn cefnogi amcan allweddol y Cyngor i gefnogi oedolion a theuluoedd bregus i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl.
- 3.4** Bod rhyw gymaint o waith gwella ffyrdd yn cael ei gyllido o'r rhaglen gyfalaf bob blwyddyn. Bydd y swm a neulltuir yn dibynnu ar y cyllid sydd ei angen i gyflawni unrhyw warantau isafswm gwerth contract, faint o gyllid sydd ar gael ac asesiad o gyflwr ffyrdd yr Awdurdod. Bydd gwelliannau i'r ffyrdd yn helpu'r Cyngor i sicrhau bod y rhwydwaith priffyrdd yn gynaliadwy yn y tymor hwy. Mae hefyd yn sail i holl flaenoriaethau allweddol y Cyngor oherwydd natur wledig Ynys Môn a phwysigrwydd y rhwydwaith priffyrdd i sawl agwedd o waith y Cyngor.
- 3.5** Bydd prosiectau sydd angen rhyw gymaint o gyllid cyfatebol er mwyn gallu defnyddio cyllid grant, yn cael eu hasesu fesul achos gan y Swyddog Adran 151, gydag argymhelliad yn cael ei wneud i'r Pwyllgor Gwaith. Bydd y penderfyniad a ddylid ymrwymo cyllid yn dibynnu ar y prosiect, sut y mae'n ffitio i mewn i flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor, unrhyw oblygiadau refeniw parhaus a'r gymhareb rhwng cyllid y Cyngor a chyllid grant.
- 3.6** Er mwyn lleihau effaith refeniw'r rhaglen gyfalaf h.y. costau cyllido cyfalaf o'r llog taladwy a'r Ddarpariaeth Refeniw Isaf (MRP) sy'n creu cyllid i helpu i ad-dalu benthyciadau, ni fyddir yn defnyddio benthyciadau digefnogaeth oni bai bod:-
- y prosiect wedi'i gymeradwyo yn un Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu;
 - y prosiect yn brosiect buddsoddi i arbed, fydd yn talu'r costau cyllido cyfalaf h.y. llog taladwy a Darpariaeth Refeniw Isaf (MRP).
 - y prosiect yn denu cyllid allanol sylweddol o 75%, o leiaf, a bydd yn helpu i gyflawni o leiaf un o flaenoriaethau allweddol y Cyngor.
- 3.7** Lle bo balansau arian parod yn caniatáu, bydd benthycia gwirioneddol yn cael ei ohirio a bydd balansau arian parod yn cael eu defnyddio i oedi a chynilo llog taladwy a thaliadau MRP i refeniw. Gelwir hyn yn fenthycia mewanol. Pan fydd angen ailgyflenwi balansau arian parod, bydd y benthyciad yn cael ei gymryd allan a bydd y benthycia mewanol yn cael ei allanoli. Lle bydd llog yn debygol o godi'n sylweddol, dylid allanoli benthycia mewanol i leihau risg ond nid cyn y bydd ei angen.

3.8 Yn y pen draw, bydd cyllid cyfalaf, ac eithrio grantiau a ddyfarnwyd ar gyfer prosiectau penodol, yn cael ei ddyrannu i leihau costau cyllido cyfalaf ac i sicrhau bod gan y rhaglen gyfalaf yr hyblygrwydd i wneud y mwyaf o gyllid. Mae hyn yn arfer cyffredin mewn awdurdodau lleol. Gallai'r cyllid gwirioneddol a ddyrennir ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol fod yn wahanol i'r hyn a adroddwyd fel rhan o'r gyllideb gyfalaf. Bydd grant cyffredinol yn cael ei ddyrannu yn gyntaf i sicrhau y caiff hwn ei wario'n llawn ar ddiwedd y flwyddyn, oni bai bod Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cario'r grant ymlaen. Mae hyblygrwydd gyda chyllid yn hanfodol i sicrhau bod y Cyngor yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cyllido, megis rheoli grantiau penodol a ddyfarnwyd yn chwarter olaf y flwyddyn, sy'n caniatáu defnyddio'r grant penodol ar wariant cyfalaf arall a bennir yn lleol yn ystod y flwyddyn os na ellir ei wario ar amodau grant penodol erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn ar y sail bod y Cyngor yn dyrannu cyllid o raglen y flwyddyn nesaf i gyllido'r prosiectau penodol y dyfarnwyd y cyllid gwreiddiol ar eu cyfer.

4. Y Strategaeth Gorfforaethol a Phroses y Rhaglen Gyfalaf

4.1 Datblygu'r Strategaeth Gyfalaf

Caiff y Strategaeth Gyfalaf ei hadolygu bob blwyddyn gan gymryd i ystyriaeth Gynllun diweddaraf y Cyngor, y Cynllun Ariannol Tymor Canol, y pwysau cyllidebol a ddisgwylir, Cynllun Rheoli'r Trysorlys a'r Cynlluniau Gweithredol a drafodir uchod. Mae hefyd yn ystyried rhaglen gyfalaf y flwyddyn flaenorol a lefel y cronfeydd wrth gefn a'r gyllideb refeniw. Mae'r strategaeth gyfalaf wedyn yn amlinellu'r amcanion a'r egwyddorion allweddol sydd wedyn yn helpu i ddatblygu'r Rhaglen Gyfalaf flynyddol bob blwyddyn. Gwariant cyfalaf yw gwariant i gaffael neu greu asedau newydd neu i adnewyddu asedau presennol lle mae oes yr ased yn fwy nag un flwyddyn ariannol. Gall yr asedau fod yn ddiriaethol (adeiladau, cerbydau ac isadeiledd) neu'n anniriaethol (trwyddedau meddalwedd). Bydd asedau anghyfredol o £10k neu fwy yn cael eu hystyried yn wariant cyfalaf. £10k yw lefel de minimis a argymhellir gan y Cyngor i fod yn gymwys fel rhan o'r rhaglen gyfalaf. Bydd asedau anghyfredol llai na £10k yn cael eu codi ar refeniw yn y rhan fwyaf o achosion. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ildio'r de minimis os yw'n briodol.

4.2 Datblygu'r Rhaglen Gyfalaf Flynyddol

4.2.1 Y Broses Bidio a Sgorio


Wrth benderfynu pa brosiectau i'w cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf, rhaid i'r bidiau fod, nid yn unig yn fforddiadwy, ond bod o gymorth hefyd i gyflawni'r blaenoriaethau allweddol yng Nghynllun y Cyngor a chwrdd ag amcanion ac egwyddorion y Strategaeth Gyfalaf. Bob blwyddyn, gofynnir i'r Gwasanaethau gyflwyno arfarniadau / bidiau cyfalaf newydd a diweddarau gwybodaeth am brosiectau sy'n parhau. Dylai'r arfarniadau ddangos sut mae pob prosiect yn bodloni'r meini prawf (a nodir isod) a byddant yn cynnwys yr holl oblygiadau refeniw parhaus a fydd yn codi o'r prosiect e.e. costau cynnal a chadw. Drwy sgorio arfarniadau / bidiau cyfalaf newydd, ceir elfen o wrthrychedd a sicheir bod y prosiectau'n berthnasol i'r amcanion allweddol yng Nghynllun y Cyngor a'r Strategaeth hon. Y maen prawf pwysicaf yw pa mor agos y bydd y prosiect yn cyfrannu at gyflawni Cynllun y Cyngor, felly, mae mwy o bwysau wedi'i roi i'r maen prawf hwn. Y Gwasanaeth Cyfrifeg sy'n gwneud y sgorio cychwynnol. Wedyn bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ac yn cadarnhau'r sgorau wrth ddrafftio'r rhaglen gyfalaf flynyddol.

Meini Prawf	Sgôr
Pa mor agos y bydd y prosiect yn cyfrannu at flaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol a chynlluniau gweithredol allweddol	20
Bydd y prosiect yn denu cyllid allanol sylweddol	10
Bydd y prosiect yn arwain at arbedion refeniw	10
Bydd y prosiect yn helpu i liniaru Risg Gorfforaethol	10
Cyfanswm y sgôr uchaf	50

Mae'r strategaeth hefyd yn dyrannu cyllid at gynnal a chadw ac uwchraddio asedau presennol. Mae Rheolwyr Asedau yn penderfynu beth yw eu hangen am gyllid a chaiff hyn ei gydbwysu yn erbyn y cyllid sydd ar gael er mwyn dyrannu cyllid i bob prif grŵp asedau (adeiladau, cerbydau, TG, ffyrdd).

4.2.2 Amserlen

Mae'r broses o gymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf yn dilyn yr amserlen ar gyfer gosod y gyllideb refereniw a datblygu'r Rhaglen Gyfalaf. Mae'r amserlen ar gyfer datblygu'r Rhaglen Gyfalaf wedi'i chrynhofio isod:-



4.2.3 Awdurdodi

Y Cyngor llawn sy'n gyfrifol am gadarnhau'r Rhaglen Gyfalaf bob blwyddyn, a hynny'n seiliedig ar yr argymhelliad a wneir gan y Pwyllgor Gwaith. Mewn achosion eithriadol, bydd prosiectau cyfalaf newydd sy'n codi yn ystod y flwyddyn yn cael eu hystyried gan Aelodau yn rhan o'r adroddiadau chwarterol i'r Pwyllgor Gwaith. Mae prosiectau sy'n codi yn ystod y flwyddyn yn debygol o gael eu cymeradwyo os ydynt yn cael eu cyllido'n sylweddol o grantiau neu gyfraniadau allanol, neu os ydynt yn ymateb i argyfwng e.e. tirlithriad, neu os bydd prosiect a gymeradwywyd yn y rhaglen yn cael ei ganslo a bod cyllid ar gael. Mae gofyn cael arfarniad cyfalaf ar gyfer prosiectau sy'n codi yn ystod y flwyddyn a bydd angen i'r prosiectau fod yn rhai sy'n helpu'r Awdurdod i gyflawni ei amcanion allweddol.

4.2.4 Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf

Bob chwarter, caiff adroddiad Monitro Cyfalaf ei gynhyrchu a'i gyflwyno i'r UDA a'r Pwyllgor Gwaith. Mae hyn yn ystyried gwariant hyd yma, gwariant a ragwelir hyd at ddiwedd y flwyddyn a naratif i egluro cynnydd neu ddiffyg cynnydd cynlluniau. Mae'r UDA wedi gofyn am fonitro'r Rhaglen Gyfalaf yn fanylach, yn cynnwys perfformiad anariannol a pherfformiad ehangach, megis effaith y prosiectau cyfalaf ar gyflogaeth, mewnfuddsoddiad, ac ati. Bydd fframwaith rheoli perfformiad uwch yn cael ei ddatblygu yn ystod y flwyddyn 2022/23, wrth i'r strategaeth hon gael ei hadolygu.

5. Edrych yn Ôl – Cyflawniadau'r Strategaeth a'r Rhaglenni Cyfalaf 2016/17 i 2020/21

Mae'r Cyngor wedi gwario bron i £160m ar brosiectau cyfalaf dros y cyfnod pum mlynedd uchod. Cyllidwyd £79m o grantiau cyfalaf, sef 49.36% o gyfanswm y gwariant cyfalaf. Mae hyn yn dangos gwerth cynnwys cyllid grant sylweddol yn un o amcanion y Strategaeth Gyfalaf. Mae'r gwasanaethau â'r gwariant mwyaf yn dangos bod prosiectau cyfalaf yn cyd-fynd â Chynllun y Cyngor 2017/2022. Tai, gan gynnwys tai i bobl fregus, Dysgu Gydol Oes i ddarparu asedau i helpu rhoi gwasanaethau i helpu unigolion i gyflawni eu potensial, a'r gofyniad cyfreithiol i adnewyddu priffyrdd a'r flaenoriaeth i wella'r Ynys. Dangosir hyn yn y tabl isod:-

Gwasanaeth	2016/17 £'000	2017/18 £'000	2018/19 £'000	2019/20 £'000	2020/21 £'000	Cyfanswm £'000
CF Tai	2,090	1,224	1,108	1,252	1,212	6,886
CRT Tai	8,607	9,291	9,028	11,812	12,622	51,360
Dysgu Gydol Oes	10,633	6,318	7,233	2,982	3,878	31,044
Economaidd ac Adfywio	1,180	788	4,017	2,993	2,714	11,692
Priffyrdd	8,747	6,004	6,055	7,176	5,382	33,364
Rheoli Gwastraff	480	66	84	180	3,213	4,023
Eiddo	1,394	786	697	990	2,405	6,272
Trawsnewid	1,353	587	448	1,297	771	4,456
Cyflog Cyfartal - Cyfarwyddeb Cyfalafu	-	2,566	-	-	-	2,566
Cynllunio	916	1,031	1,839	755	52	4,593
Gwasanaethau Oedolion	1,240	694	168	577	880	3,559
Cyfanswm Gwariant	36,640	29,355	30,677	30,014	33,129	159,815
Grantiau Cyfalaf	13,356	11,801	16,629	18,156	18,948	78,890
Canran y costau cyfalaf a gyllidir gan Grantiau	36.45%	40.20%	54.21%	60.49%	57.19%	49.36%

Yn ogystal, mae dadansoddiad o newyddion y Cyngor a gyhoeddwyd dros yr 1.5 mlynedd diwethaf yn amlygu rôl bwysig y Strategaeth Gyfalaf wrth gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor. Mae'r adran isod yn cynnwys dolenni i'r holl brosiectau cyfalaf a adroddwyd yn straeon newyddion y Cyngor yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys adeiladau, megis adeilad newydd Ysgol Santes Dwynwen a'r gwaith adnewyddu sylweddol ar Neuadd y Farchnad, Caergybi, sydd wedi ennill gwobrau am ragoriaeth.

Newyddion wedi'i gyhoeddi am Brosiectau Cyfalaf ac yn dangos eu rôl wrth ddarparu Gwasanaethau Cyngor sy'n flaenoriaeth:-

<https://www.ynysmon.gov.uk/cy/newyddion/newyddion/mwy-o-dai-cyngor-newydd-o-ansawdd-ar-y-ffordd>

<https://www.ynysmon.gov.uk/cy/newyddion/newyddion/mwy-o-unedau-busnes-yn-dod-ir-hen-safle-heliport>

<https://www.ynysmon.gov.uk/cy/newyddion/newyddion/ysgol-santes-dwynwen-yn-ennill-gwobr-adeiladu-genedlaethol>

<https://www.ynysmon.gov.uk/cy/newyddion/newyddion/gwobr-arall-i-brosiect-arloesol-neuadd-y-farchnad>

<https://www.ynysmon.gov.uk/cy/newyddion/newyddion/addewid-o-drydan-glan-yn-hwb-i-gynlluniau-ygni-newydd>

<https://www.ynysmon.gov.uk/cy/newyddion/newyddion/tenantiaid-yn-symud-i-mewn-i-bymtheg-o-dai-cyngor-newydd-yn-rhosybol>

<https://www.ynysmon.gov.uk/cy/newyddion/newyddion/cam-olaf-y-broses-ymgyngori-ar-gyfer-map-rhwydwaith-teithio-llesol-ynys-mon-ar-agor>

<https://www.ynysmon.gov.uk/cy/newyddion/newyddion/cyfle-i-drosglwyddo-ased-cymunedol-bodorgan>

<https://www.ynysmon.gov.uk/cy/newyddion/newyddion/adborth-trigolion-yn-allweddol-i-gynlluniau-lliniaru-llifogydd-traeth-coch>

<https://www.ynysmon.gov.uk/cy/newyddion/newyddion/cae-chwaraeon-3g-newydd-caerdybi-ar-agor>

<https://www.ynysmon.gov.uk/cy/newyddion/newyddion/ardal-chwarae-newydd-i-blant-ym-mharc-y-morglawdd-caerdybi>

<https://www.ynysmon.gov.uk/cy/newyddion/newyddion/seremoni-yn-nodi-dechrau-gwaith-adeiladu-ysgol-gynradd-newydd>

<https://www.ynysmon.gov.uk/cy/newyddion/newyddion/canolfan-fusnes-ynys-mon-wedii-hymestyn-yn-croesawu-tenantiaid-newydd>

<https://www.ynysmon.gov.uk/cy/newyddion/newyddion/gwaith-i-ddechrau-ar-yr-ysgol-corn-hir-newydd>

<https://www.ynysmon.gov.uk/cy/newyddion/newyddion/gwobr-arall-i-brosiect-arloesol-neuadd-y-farchnad>

<https://www.ynysmon.gov.uk/cy/newyddion/newyddion/cerbydau-graeau-newydd-yn-profi-eu-gwerth-y-gaeaf-hwn>

<https://www.ynysmon.gov.uk/cy/newyddion/newyddion/gwasanaeth-tai-i-adeiladu-ar-gynnydd-rhagorol>

<https://www.ynysmon.gov.uk/cy/newyddion/newyddion/re-fit-yn-helpur-cyngor-leihau-allyriadau-carbon-yn-sylweddol>

<https://www.ynysmon.gov.uk/cy/newyddion/newyddion/mwy-o-safleoedd-yn-barod-fel-rhan-o-brosiect-cyfalaf-cynnig-gofal-plant-mon>

6. Y Cyd-destun Ariannol Cyfredol a Chyllido

6.1 Cyfyngiadau Refeniw

- 6.1.1** Cyflwynwyd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig cychwynnol (CATC) ar gyfer 2022/23 i 2023/24 i'r Pwyllgor Gwaith ar 27 Medi 2021. Roedd hyn yn cydnabod yr anhawster gyda chynllunio ariannol y tu hwnt i un flwyddyn oherwydd diffyg rhagolygon cyllideb tair blynedd o'r Llywodraeth Ganolog a Llywodraeth Cymru. Achosodd Brexit ei hun ansicrwydd sylweddol i'r economi, ac mae'n dal i wneud. Fodd bynnag, rhoddodd Pandemig y Coronafeirws yr effaith a gâi Brexit yn y cysgod gydag economi hynod fregus ar ôl bron i ddwy flynedd o gyfyngiadau Covid-19. Mae benthycar sector cyhoeddus ar gyfer 2020/21 ar ei uchaf mewn un flwyddyn ers yr Ail Ryfel Byd.
- 6.1.2** Mae gweithred Banc Lloegr i leihau'r gyfradd llog sylfaenol i 0.1% mewn ymateb i effaith economaidd cyfyngiadau Covid-19 wedi arwain at enillion truenus ar fuddsoddiadau Rheoli'r Trysorlys. Fodd bynnag, byddai'r cynnydd diweddar i 0.25% ym mis Rhagfyr 2021 ac i 0.50% ar 3 Chwefror 2022, fel arfer yn ddangosydd o economi gwell. Mae peth o'r cynnydd i'w briodoli i hyn, ond mae chwyddiant ar ei uchaf ers 1990 oherwydd codiadau sylweddol ym mhrisiau ynni megis nwy, trydan, ac ati. Mae Banc Lloegr wedi awgrymu cynnydd pellach yn ystod y flwyddyn i geisio gostwng chwyddiant. Er y bydd hyn yn golygu gwell enillion ar fuddsoddiadau Rheoli'r Trysorlys, golyga'r pwysau chwyddiant hyn y bydd y Cyngor yn talu mwy am ei holl wariant. Yn ogystal, mae cyllid y Cyngor bob amser mewn perygl oherwydd pwysau ariannol ar y Llywodraeth Ganolog a Llywodraeth Cymru.
- 6.1.3** Mae'r CATC diwygiedig ar gyfer 2022/23, a adroddwyd yn rhan o'r broses o osod cyllideb refeniw am 2022/23 i'r Pwyllgor Gwaith ar 24 Ionawr 2022, yn amlgu setliad dros dro sylweddol gwell na'r disgwyl am 2022/23 ar 9.23%. Dyma'r setliad uchaf y mae'r Cyngor wedi'i dderbyn ers blyneddoddedd, ac mae i'w groesawu'n arbennig ar ôl bron i ddegawd o doriadau cyllid o 2010/11. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r pwysau chwyddiant sy'n parhau i gynyddu, mae'n amlwg pam y cyhoeddwyd setliad mor hael. Mae'r setliad hwn wedi golygu nad oes angen unrhyw doriadau yn y gyllideb am 2022/23, ac mae hefyd wedi bod yn fodd i roi cyllid ar gyfer mwy o staff i wasanaethau a dorrwyd yn flaenorol.
- 6.1.4** Mae setliad dros dro Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnwys manylion y cyllid cyfalaf a roddwyd i'r Cyngor ar gyfer 2022/23. Mae'n bosib bydd y Cyngor yn derbyn grant cyfalaf, cyffredinol o £1.486m a £2.157m mewn benthyciad â chefnogaeth sydd, gyda'i gilydd, yn dod i £3.643m. Er mwyn cadw costau cyllido cyfalaf yn fforddiadwy ar gyfer y gyllideb refeniw, yn enwedig gyda'r ansicrwydd ynghylch lefelau cyllid refeniw yn y dyfodol, mae'n egwyddor allweddol yn y strategaeth hon na ddylai rhaglenni cyfalaf fod yn fwy na'r cyllid sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru, ac eithrio benthycia digefnogaeth ar gyfer elfen y Cyngor o gyllido'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu. Rhagwelir y bydd Llywodraeth Cymru yn cadw'r lefel hon o gyllid yr un fath, neu'n llai, yn y dyfodol.
- 6.1.5** Cynyddu oes asedau'r Cyngor sy'n heneiddio a chadw'n gyfoes ag uwchraddio technolegol fydd yn cael yr alwad gyntaf yn erbyn y cyllid hwn. Bydd hyn, felly, yn golygu na fydd cyllid sylweddol ar gyfer prosiectau newydd. Dan y strategaeth hon, ni ddylid ystyried prosiectau newydd oni bai bod cyllid grant sylweddol i ymgymryd â phrosiectau penodol, neu y gellid eu cyllido o fenthycia digefnogaeth os yw'r prosiect yn bodloni gofyniad y Côt Darbodus o ran gallu cyllido'r costau cyllido cyfalaf o incwm ychwanegol neu arbedion gwariant osgoi costau. Gellid defnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor i gyllido prosiectau cyfalaf, ond nid yw defnyddio cronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy ac ni ddylid ei ystyried oni bai y bydd y gronfa gyffredinol yn uwch na'r isafswm a argymhellir. Gellir ystyried defnyddio arian dros ben i gyllido cyllid cyfatebol ar gyfer prosiectau a gyllidir â grant.
- 6.1.6** Fel y nodwyd yn flaenorol, bydd cyllido'r rhaglen gyfalaf yn cael effaith sylweddol ar y gyllideb refeniw, ac mae'r Strategaeth Gyfalaf yn cymryd fforddiadwyedd i ystyriaeth wrth ei lunio,, ac mae Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn sicrhau bod y Cyngor yn cadw costau benthycia cyn ised â phosib trwy wneud y defnydd gorau o falansau arian parod y Cyngor ei hun i gyllido gwariant cyfalaf.

6.2 Cyllido Gwaith Moderneiddio Ysgolion

- 6.2.1** Mae'r Cyngor ar hyn o bryd ran o'r ffordd trwy raglen uchelgeisiol i foderneiddio ysgolion trwy'r rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu (rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif gynt), gyda Band A yn dod i ben yn 2022 a Band B yn rhedeg tan 2027.
- 6.2.2** Roedd pedwar cam i'r rhaglen yn flaenorol, a nodwyd yn Fandiau A, B, C a CH. Fodd bynnag, mae Bandiau C a Band CH wedi'u diddymu mewn enw. Bydd y rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu ddiwygiedig yn parhau i ddarparu cyllid ar gyfer gwelliannau i ysgolion yn y tymor hir, ond ni fydd manylion y rhaglen newydd yn cael eu rhyddhau tan ar ôl yr etholiadau ym mis Mai 2022. Mae rhaglen Band A bellach bron â chael ei chwblhau, mae tair ysgol newydd sbon wedi eu cwblhau ac yn weithredol, Ysgol Cybi, Ysgol Rhyd y Llan ac Ysgol Santes Dwynwen. Mae gwaith adnewyddu hefyd wedi'i gwblhau yn Ysgol Parc y Bont a Brynsiencyn. Mae gwaith adeiladu ar Ysgol Corn Hir yn Llangefni wedi dechrau.
- 6.2.3** Amcangyfrifwyd yn flaenorol bod Band B yn £36m. Mae hon bellach yn rhaglen lai, sef £19m, ar gyfer prosiectau sy'n rhedeg o 2018/19 i 2027/28.
- 6.2.4** Mae Band A y rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yn cael ei gyllido drwy 50% o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a 50% trwy fenthycyca digefnogaeth. Mae'r cyllid 50% gan Lywodraeth Cymru yn rhannol trwy grant (67% o'r 50%) ac yn rhannol trwy fenthycyca â chefnogaeth (33% o'r 50%). Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi bod y gyfradd ymyrraeth ar gyfer Band B wedi cynyddu i 65%.
- 6.2.5** Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyflwyno model cyd-fuddsoddi ar gyfer Band B (MIM), lle mae cost cyfalaf y prosiect yn cael ei gyllido gan y sector preifat a bod y Cyngor wedyn yn talu ffi rhent i'r buddsoddwr am gyfnod penodedig (25 mlynedd yw'r disgwyl). Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud cyfraniad tuag at y ffi rhent bob blwyddyn (y disgwyl yw y bydd yn o leiaf 70%).
- 6.2.6** Cyflwynwyd Rhaglen Amlinellol Strategol y Cyngor ar gyfer Band B i Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf (cymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ar 17 Gorffennaf 2017). Yn y tabl isod dangosir y gwariant a'r cyllid amcangyfrifedig ar gyfer 2022/23:-

Y Cyllid Amcangyfrifedig ar gyfer 2022/23 i Fand A a Phrosiectau Arfaethedig Band B				
Band	Rhanbarth	Elfen Hunangyllidol £'m	Cymorth Llywodraeth Cymru £'m	Cyfanswm £'m
	CYFANSWM BAND A	3.8	-	3.8
	CYFANSWM BAND B	1.5	3.3	4.8

- 6.2.7** Tybir y byddai'r holl fenthycyca digefnogaeth ac â chefnogaeth yn cael ei wneud trwy fenthyciadau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus newydd dros gyfnod o amser sy'n cyfateb i oes ddisgwyliedig yr ased (50 mlynedd).
- 6.2.8** Bydd unrhyw fenthycyca ychwanegol (â chefnogaeth a digefnogaeth) yn cynyddu Gofyniad Cyllido Cyfalaf (CRF) y Cyngor. Bydd hynny, yn ei dro, yn cynyddu'r tâl MRP blynyddol a godir ar y cyfrif referniw, gan arwain at daliadau llog blynyddol ychwanegol.
- 6.2.9** Byddai'r benthyca digefnogateh ychwanegol ar gyfer Band B (yn seiliedig ar gyfnod ad-dalu o 50 mlynedd a llog blynyddol o 3.2%) yn arwain at daliadau cyllido cyfalaf ychwanegol o £0.341m y flwyddyn i'r gyllideb referniw (£0.210m o log yn daladwy a £0.131m MRP) unwaith y bydd y Rhaglen wedi'i chwblhau'n llwyr. Yn ymarferol, byddai'r costau hyn yn dod i mewn yn raddol wrth i bob prosiect gychwyn ac unwaith y byddem yn cymryd y benthyciadau i wneud y gwaith. Byddai'r tâl MRP yn cael ei godi unwaith daw'r ysgolion yn weithredol.

6.2.10 Dylid nodi y byddai cyflawni'r prosiectau Band B yn cael gwared ar yr angen i wneud gwaith cynnal a chadw sydd wedi cronni yn y gwahanol ysgolion.

6.3 Ffynonellau Cyllido – mae'r Rhaglen Gyfalaf yn cael ei chyllido o'r ffynonellau a ganlyn:-

- **Grant Cyfalaf Cyffredinol** – Mae hwn yn swm o arian sy'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru yn rhan o'r setliad blynyddol. Mae'r Cyngor yn rhydd i ddefnyddio'r grant cyfalaf ar unrhyw brosiect cyfalaf y mae'n dymuno. Rhaid i'r grant hwn gael ei wario erbyn 31 Mawrth yn y flwyddyn ariannol y mae'n berthnasol iddi.
- **Benthyca â Chefnogaeth** – Bydd y Cyngor yn benthyca gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (BBGC) i gyllido'r gwariant. Mae'r costau refeniw sy'n codi o'r benthyciadau (Costau Llog a'r Ddarpariaeth Refeniw Isaf) yn cael eu cyllido gan Lywodraeth Cymru drwy'r setliad refeniw blynyddol, sy'n egluro'r term "Benthyca â Chefnogaeth".
- **Benthyca Digefnogaeth** – Yma eto, mae'r Cyngor yn benthyca'r arian gan y (BBGC) neu o ffynhonnell arall, ond mae gofyn iddo gyllido'r costau refeniw o'i adnoddau ei hun. Ar y cyfan, mae prosiectau a gyllidir drwy fenthyca digefnogaeth yn brosiectau sy'n sicrhau arbedion refeniw, a'r arbedion hyn sy'n cael eu defnyddio i gwrdd â'r costau refeniw ychwanegol sy'n codi o'r benthyciad.
- **Grantiau Cyfalaf Penodol** – Bydd y Cyngor yn derbyn grantiau cyfalaf sy'n cyllido cost prosiect yn llawn neu'n rhannol. Fel arfer, bydd cyfyngiadau ar grantiau cyfalaf o ran y gwariant y gellir ei gyllido ac erbyn pa bryd y mae'n rhaid ysgwyddo'r gwariant.
- **Cyfraniad Refeniw** – Gall gwasanaethau gyfrannu o'u cyllidebau refeniw i gyllido prosiectau. Gan amlaf, bydd y cyfraniadau hyn ar ffurf cyllid cyfatebol ar gyfer prosiect sy'n cael ei gyllido'n bennaf o grant cyfalaf penodol.
- **Derbyniadau Cyfalaf** – Gellir defnyddio'r cyllid a gynhyrchir drwy werthu asedau i gyfrannu at gyllido'r rhaglen gyfalaf. Fel arfer, bydd derbyniadau o'r fath yn codi o werthu asedau dros ben (tir neu adeiladau gan amlaf).
- **Cronfeydd Wrth Gefn** – Gellir defnyddio cyllid sy'n cael ei ddal mewn cronfa wrth gefn, e.e. derbyniadau cyfalaf sydd heb eu defnyddio, i gefnogi'r rhaglen gyfalaf.

6.4 Effaith gwahanol cyllid cyfalaf

- 6.4.1** Nid yw cyllid a dderbynnir ar ffurf grantiau (cyffredinol neu benodol) yn cael unrhyw effaith ar sefyllfa ariannol tymor hir y Cyngor, gan fod pob grant a dderbynnir yn cael ei ddefnyddio i gyllido'r gwariant cyfalaf. Gellir cael gwahaniaethau o ran amseriad sy'n golygu na fydd grantiau'n cael eu defnyddio mewn un flwyddyn ac y byddant yn cael eu cario o un flwyddyn i'r nesaf drwy fantolen y Cyngor.
- 6.4.2** Yn sgil derbyniadau cyfalaf, trosir asedau dros ben yn arian parod sydd, yn eu tro, yn arwain at greu ased newydd. Yma eto, ychydig iawn o effaith tymor hir a gaiff y math hwn o gyllido ar sefyllfa ariannol y Cyngor, ond fe ddaw adeg pan fydd yr holl asedau dros ben wedi'u gwerthu ac y bydd lefel y cyllid sydd ar gael drwy derbyniadau cyfalaf yn gostwng.
- 6.4.3** Mae'r Cyfrif Refeniw Tai yn defnyddio'r cyllid dros ben ar y CRT (yr hyn sy'n weddill o incwm rhent ar ôl gwariant) i gyllido gwariant cyfalaf. Caiff hyn ei adlewyrchu yng nghynllun busnes y CRT ac nid yw'n cael effaith ar Gronfa'r Cyngor.
- 6.4.4** Bydd defnyddio cyllid refeniw yn lleihau gwerth y cyllid sy'n cael ei ddal yn y cronfeydd wrth gefn neu'r swm sy'n cael ei drosglwyddo i falansau cyffredinol y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn, h.y. mae'n trosi arian parod dros ben i wneud ased newydd.
- 6.4.5** Mae benthyca â chefnogaeth a benthyca digefnogaeth yn cael effaith ar Ofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor ac mae goblygiadau o hynny, yn ei dro, i'r gyllideb Refeniw gan y bydd y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (MRP) a'r taliadau llog blynyddol yn fwy.
- 6.4.6** Er bod y Cyfrif Refeniw Tai yn gweithredu ar wahân i Gronfa'r Cyngor, nid yw'r Cyngor yn benthyca ar wahân ar gyfer gwariant o Gronfa'r Cyngor a'r CRT. Mae'r holl fenthyca yn cael ei gyfuno a chaiff y costau eu neilltuo i'r ddwy gronfa ar sail lefel y gwariant a gyllidwyd o fenthyciadau ar gyfer y ddwy gronfa. Adolygir y dull neilltuo drwy'r amser i sicrhau mai hwnnw yw'r dull mwyaf teg.

6.5 Cyfyngiadau Cyllido

- 6.5.1** Mae'r cyd-destun ariannol ansicr y mae'r Cyngor yn parhau i weithredu ynddo yn cael ei drafod yn adran 5, ac mae'n amlygu bod yna gyfyngiadau ar sut mae'r Cyngor yn cyllido gwariant cyfalaf. Un o'r prif flaenoriaethau i'r Cyngor yw lleihau gwariant refeniw er mwyn cael cyllideb gytbwys, gan hefyd leihau'r gostyngiad i gyllidebau gwasanaethau cymaint ag sy'n bosib. Mae'n rhesymol i'r Cyngor geisio cadw'r cynnydd sydd ei angen i'r gyllideb cyllido cyfalaf gyn ised â phosib. Bydd rhaid darparu cyllid cyfalaf ychwanegol, ond dylid cadw hyn ar lefel sy'n cael ei gyllido trwy'r setliad (grant cyfalaf cyffredinol a benthyca â chefnogaeth) fel bod y cynnydd yn y costau cyllido cyfalaf yn cael ei gyllido trwy dderbyniadau cyfalaf ac unrhyw grantiau penodol sydd ar gael.
- 6.5.2** Ni ddylid ystyried benthyca digefnogaeth (y tu allan i'r rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu) oni bai y gellir lleihau'r gyllideb gwasanaeth perthnasol gan swm sy'n fwy na'r MRP a chostau llog neu i gyllido cyfran y Cyngor o gynllun a gyllidir yn bennaf o grant allanol.
- 6.5.3** Mae wedi bod yn bolisi gan Llywodraeth Cymru dros nifer o flynyddoedd i gynnal lefel y grant cyfalaf cyffredinol a benthyca â chefnogaeth tua'r un lefel â'r blynyddoedd cynt, gyda chyllid cyfalaf ychwanegol yn cael ei gyfeirio i ysgolion, gwelliannau ffyrdd ac ati. Codwyd y cyllid grant cyffredinol am 2019/20, 2020/21 a 2021/22. Mae'r cyllid cyfalaf wedi'i ostwng i'r lefelau gwreiddiol yn y setliad dros dro ar gyfer 2022/23. Fodd bynnag, dyfarnwyd grant cyfalaf cyffredinol ychwanegol ym mis Chwefror 2022 i bob awdurdod lleol yng Nghymru. Rhagwelir mai £1.7m fydd cyfran Cyngor Sir Ynys Môn o'r cyllid ychwanegol ac mae modd cario hwn drosodd i 2022/23 - cynnydd sylweddol am y flwyddyn.
- 6.5.4** Fel landlord stoc tai, bydd y Cyngor hefyd yn derbyn lwfans atgyweirio sylweddol ar ôl cyflwyno'r cynllun busnes 30 mlynedd ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai a chael cymeradwyaeth iddo. Caiff gwariant cyfalaf ar y CRT ei ategu gan ddefnyddio arian wrth gefn y CRT a thrwy gyfrwng y pwerau benthyca y gall y CRT eu defnyddio.
- 6.5.5** Bydd grantiau penodol sydd wedi'u cymeradwyo, sy'n debygol o gael eu cymeradwyo neu sy'n deillio o fidiâu llwyddiannus, hefyd ar gael i gyllido cynlluniau cyfalaf. Mewn rhai achosion, efallai y bydd rhaid i'r Cyngor gyfrannu swm o'i gyllid cyfalaf ei hun fel cyllid cyfatebol fel y gall sicrhau'r cyllid grant. Daw'r grantiau a chyfraniadau sydd wedi eu hadnabod hyd yma fel ffynonellau cyllido ar gyfer 2022/23 i £8m, gan gynnwys y grant cyfalaf cyffredinol. Mae'r Cyngor wedi derbyn cyllid sylweddol gan yr UE yn y gorffennol. Ni fydd y ffynhonnell hon ar gael o 2022/23 ymlaen, ond bydd y Cyngor yn ceisio cael ffynonellau amgen o gyllid lle bo hynny'n bosibl.
- 6.5.6** Fel y nodwyd yn flaenorol, rhaid i unrhyw fenthyca digefnogaeth gynhyrchu incwm ychwanegol / arbedion gwariant refeniw i gyllido'r costau cyllido cyfalaf ychwanegol (MRP a thaliadau llog) a gaiff eu codi ar y cyfrif refeniw. Bydd unrhyw gynlluniau arfaethedig a gyllidir gan fenthyca digefnogaeth yn cael eu hasesu fesul cynllun.
- 6.5.7** Yn ychwanegol at y ffynonellau cyllid a nodir uchod, mae'r Cyngor yn dal cronfa cyllido cyfalaf wrth gefn, sy'n cynnwys cyfraniadau refeniw nad ydynt wedi'u defnyddio eto. £1.207m oedd y balans yn y gronfa wrth gefn hon ar 31 Mawrth 2021.
- 6.5.8** Mae derbyniadau cyfalaf sydd heb eu dyrannu'n cael eu dal mewn cronfa wrth gefn. Roedd balans y gronfa wrth gefn ar 31 Mawrth 2021 yn £0.767m. Bydd y derbyniadau hyn yn cael eu defnyddio'n ffynhonnell gyllido ar gyfer rhaglen 2021/22, neu byddant yn helpu i gyllido gwariant sydd wedi llithro yn 2022/23 a thu hwnt, fel bo'r angen.
- 6.5.9** Yn gryno, dylai'r cyllid ar gyfer prosiectau cyfalaf newydd yn 2022/23 fod wedi'i gyfyngu i lefel y grant cyfalaf cyffredinol (£1.486m), benthyca â chefnogaeth (£2.157m) ac unrhyw dderbyniadau cyfalaf heb eu dyrannu a gynhyrchir yn y flwyddyn. Byddai cyfanswm y gyllideb sydd ar gael oddeutu £3.643m, heb gynnwys grantiau, cyllid Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu a chyllid y CRT. Bydd yr egwyddor hon yn cael ei defnyddio yn y tymor canol a'r tymor hwy i sicrhau bod y rhaglen gyfalaf yn fforddiadwy, yn enwedig yng nghyd-destun toriadau cyllid sy'n parhau.

6.6 Proffil Cyllido Amcangyfrifedig 2022/23 i 2023/24

6.6.1 Mae'r cyllid allanol gan Lywodraeth Cymru (gan eithrio Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu) am y cyfnod 2022/23 i 2024/25 i'w weld yn y tabl isod. Dylid nodi y bydd y Cyngor hefyd yn derbyn nifer o fân grantiau cyfalaf.

Amcangyfrif o'r Cyllid Cyfalaf gan Lywodraeth Cymru 2022/23– 2024/25

	2022/23 £'m	2023/24 £'m	2024/25 £'m
Grant Cyfalaf Cyffredinol	1.486	1.783	1.783
Benthyca â Chefnogaeth	2.157	2.588	2.588
Lwfans Gwaith Trwsio Mawr	2.660	2.660	2.660
Grant dadgarboneiddio		0.500	0.500
Cyfanswm Cyllid Cyfalaf Llywodraeth Cymru	6.303	7.531	7.531

6.6.2 Bydd y rhan fwyaf o brosiectau newydd y'u bwriadwyd ar gyfer 2022/23 yn cael eu cyllido o'r cronfeydd wrth gefn oherwydd y cyllid cyfalaf cyfyngedig uchod. Mae benthyca digefnogaeth yn bosibl ond, oni bai bod y prosiectau'n cynhyrchu arbedion refeniw neu gyllid grant sylweddol, yna bydd y tâl MRP ychwanegol a'r costau llog yn cynyddu'r gyllideb refeniw y mae'n rhaid ei gyllido gan gynnydd yn y Dreth Gyngor neu drwy wneud arbedion refeniw yn rhywle arall. Felly, gall y Cyngor sicrhau bod y costau cyllido cyfalaf yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy drwy gyfyngu ar wariant cyfalaf a gyllidir gan fenthyciadau digefnogaeth i'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu a phrosiectau cyfalaf sy'n arwain at arbedion refeniw uwch na'r MRP a thaliadau llog taladwy o'r cyllid cyfalaf. Mae Adroddiad Rhaglen Gyfalaf Drafft 2022/23, a grynhoir isod, yn cynnig rhaglen fforddiadwy â ddefnydd cyfyngedig o fenthyciadau digefnogaeth.

7 Rhaglen Gyfalaf Ddrafft 2022/23

7.1 Bydd y rhaglen gyfalaf ddrafft am 2022/23 yn cael ei chyflwyno ochr yn ochr â'r strategaeth gyfalaf hon i'r Pwyllgor Gwaith ar 3 Mawrth 2022 ac i'r Cyngor llawn ar 10 Mawrth 2022. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r rhaglen gyfalaf arfaethedig, gan gynnwys ffynonellau cyllido. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad 2.

Crynodeb o Raglen Gyfalaf Ddrafft 2022/23

	Cyf	£'000
Cynlluniau 2021/22 a Ddygwyd Ymlaen	Paragraff 4.1 a Thabl 2	1,322
Adnewyddu / Newid Asedau	Paragraff 4.2	5,042
Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd	Paragraff 5.2 a Thabl 3	1,432
Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd (Cyllidir o'r Cronfeydd Wrth Gefn a Benthycu Digefnogaeth)	Paragraff 5.3 a Thabl 4	783
Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif	Paragraff 6	8,598
Cyfrif Refeniw Tai	Paragraff 7	18,784
Cyfanswm Rhaglen Gyfalaf 2022/23 a Argymellir		35,961
Cyllidir gan:		
Grant Cyfalaf Cyffredinol		1,486
Benthycu â Chefnogaeth - Cyffredinol		2,157
Balansau Cyffredinol		1,681
Benthycu â Chefnogaeth Ysgolion yr 21ain Ganrif		1,168
Benthycu Digefnogaeth Ysgolion yr 21ain Ganrif		5,261
Arian Wrth Gefn CRT a Gwarged Mewn Blwyddyn		10,099
Benthycu Digefnogaeth CRT		6,000
Derbyniadau Cyfalaf		600
Grantiau Allanol		4,854
Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig		1,195
Cronfa Gyffredinol Benthycu Digefnogaeth		138
Cyllid 2021/22 a Ddygwyd Ymlaen		1,322
Cyfanswm Cyllid Cyfalaf 2022/23		35,961

7.2 Cynlluniau Gwariant Cyfalaf Tymor Hwyl

7.2.1 Mae'r rhaglen gyfalaf isod yn rhoi rhagolwg sy'n gyson â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r prosiectau a restrir yng Nghynllun Trosiannol 2022/23 y Cyngor, y cynllun gweithredol ac yn Natganiad Strategaeth Rheol'r Trysorlys. Mae'r strategaeth gyfalaf hon hefyd yn cyfleu'r bwriadau tymor hir o ran Band B Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu. Mae'n anodd gwybod a fydd prosiectau tymor hwy yn cael eu cyllido yn rhan o waith canolbwyntio newydd y Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu. Bydd y rhaglen ddiwygiedig yn cael ei chyhoeddi ar ôl yr etholiadau ym mis Mai 2022, fodd bynnag, mae'r wefan yn nodi ei bod ar gyfer cyllido gwelliannau mewn ysgolion yn y tymor hir. Anodd, hefyd, yw cynhyrchu cynlluniau tymor hwy yn rhan o'r strategaeth hon tra bod Covid-19 yn dal i gael effaith sylweddol. Bydd cynlluniau tymor hwy yn cael eu hamlinellu yn Strategaeth Gyfalaf 2023/24. Mae gan y CRT gynllun tymor hir clir o fuddsoddi mewn tai Cyngor fel rhan o'r cynlluniau busnes treigl 30 mlynedd. Mae angen rhaglen tymor hir hefyd ar gyfer adnewyddu asedau presennol

8 Strategaeth Fuddsoddi nad yw'n ymwneud â Rheoli'r y Trysorlys

- 8.1** Mae'r Strategaeth Buddsoddi Rheoli'r Trysorlys wedi'i chynnwys yn y DSRhT a drafodir isod. Yn ogystal, mae'r Cyngor yn dal nifer o fuddsoddiadau nad ydynt yn rhai Rheoli'r Trysorlys. Dyma'r eiddo buddsoddi y mae'r Cyngor yn ennill incwm rhent ohonynt. Mae'r rhain yn helpu i ddarparu ffrwd refeniw tymor hir i'r Cyngor. Roedd tua 70 eiddo yn y portffolio eiddo buddsoddi ar 31 Mawrth 2021, oedd yn werth £6.2m. Mae'r rhain yn cynnwys eiddo manwerthu, unedau swyddfa ac unedau masnachol. Yn 2020/21, casglwyd £340k o incwm rhent o eiddo buddsoddi. Gwariwyd £111k ar gynnal a chadw ac ati, a arweiniodd at incwm gweithredol net o £262k o incwm rhent ac incwm arall. O ran cynlluniau ar gyfer yr eiddo buddsoddi yn y dyfodol, bydd yr adeiladau'n parhau i gael eu cynnal i safonau cyfreithiol. Yn ogystal, adeiladwyd cyfadeilad unedau diwydiannol newydd yn ddiweddar ac mae'n weithredol yn Llangefni. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ar godi Unedau Diwydiannol ym Mhenrhos, Caerdybi. Mae'r rhain yn debygol o ddod yn weithredol yn 2022/23. Mae'r prosiect hwn wedi'i ymestyn i godi unedau ychwanegol yng Nghaerdybi a'r cynllun newydd ar gyfer unedau ychwanegol yn Llangefni, fel y nodir yn y Cynllun Trosiannol.
- 8.2** Mae gan Awdurdodau Lleol y grym i brynu neu ddatblygu eiddo fel buddsoddiadau er mwyn gwella gweithgaredd economaidd o fewn ardal y Cyngor neu fel modd o gynhyrchu incwm ychwanegol i'r Cyngor. Ar hyn o bryd, nid oes gan y Cyngor unrhyw gynlluniau i ddefnyddio'r pwerau hyn yn ehangach nag ar y cynlluniau a nodir uchod, ond mae defnyddio'r pwerau hyn yn parhau i fod yn opsiwn ac mae'r Strategaeth yn caniatáu i'r Cyngor wario ar eiddo buddsoddi er mwyn cyflawni amcanion allweddol y Cyngor neu i fanteisio ar unrhyw gyllid allanol sylweddol a allai ddod ar gael.

9 Benthycia a Rheoli'r Trysorlys

- 9.1** Mae Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRhT) ac Arferion Rheoli'r Trysorlys yn rhoi'r fframwaith i sicrhau bod digon o arian parod i dalu cyflenwyr, sicrhau bod unrhyw arian dros ben yn cael ei fuddsoddi'n ddiogel a bod benthycia i gyllido rhaglen gyfalaf 2022/23 yn fforddiadwy. Bydd y DSRhT yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ar 10 Mawrth 2022.
- 9.2** Mae Atodiad 11 DSRhT 2024/25 yn cyflwyno'r dangosyddion darbodus a thrysorlys am y cyfnodau 2020/21 i 2023/24, sy'n helpu i benderfynu a yw cynlluniau benthycia yn fforddiadwy.
- 9.3** Mae cymhareb costau cyllido i ffrydiau refeniw net yn fesur o fforddiadwyedd. Mae'r gymhareb amcangyfrifedig o gostau cyllido i ffrydiau refeniw net fel a ganlyn:-

2020/21 (Gwirioneddol)	6.12%
2021/22 (Rhagamcanol)	5.08%
2022/23 (Rhagamcanol)	5.42%
2023/24 (Rhagamcanol)	5.57%
2024/25 (Rhagamcanol)	5.56%

Yn seiliedig ar yr uchod, mae'r rhaglen gyfalaf arfaethedig yn parhau i fod yn fforddiadwy o ran y goblygiadau refeniw.

- 9.4** Yn 2018/19, adolygodd y Cyngor ei bolisi Darpariaeth Refeniw Isaf (MRP) a llwyddodd i ôl-ddyddio'r newidiadau. Cynlluniwyd yr adolygiad o'r polisi i sicrhau bod darpariaeth ddarbodus yn cael ei chodi ar y cyfrif refeniw bob blwyddyn. Fodd bynnag, canlyniad y newid hwn oedd iddo nodi gorddarpariaeth mewn blynyddoedd blaenorol a gellir defnyddio'r gorddarpariaeth hon yn y blynyddoedd i ddod i sicrhau bod y costau cyllido blynyddol yn parhau i fod yn fforddiadwy. Bydd y Swyddog Adran 151 yn cymryd hyn i ystyriaeth wrth benderfynu ar y tâl MRP blynyddol.
- 9.5** Nod Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yw defnyddio balansau arian parod mewnol y Cyngor, lle bynnag y bo modd, yn lle benthycia allanol. Wrth bennu lefel y benthycia mewnol, rhaid cynnal digon o falansau arian parod i ddiwallu anghenion arian parod dyddiol y Cyngor h.y. talu staff, cyflenwyr ac ati.

9.6 Buddsoddiadau Rheoli'r Trysorlys, 10 Chwefror 2022

Banc	Swm a Fuddsoddwyd	Cyfradd Llog
Santander	£7,406,043	0.02%
Bank of Scotland	£7,206,584	0.01%
Royal Bank of Scotland	£1,673	0.01%
NatWest	£30,000,505	0.01%
Goldman Sachs	£7,500,000	0.765%
Cyfanswm	£52,114,805	

Mae tîm Rheoli'r Trysorlys ar hyn o bryd yn y broses o drefnu dau gyfrif cyfnod sefydlog arall sydd â chyfraddau llog sylweddol uwch, yn ychwanegol at yr hyn a adnewwyd yn ddiweddar yn Goldman Sachs uchod.

10. Risgiau Posib a Gyfyd o'r Strategaeth Gyfalaf

- 10.1** Yr her a'r risg fwyaf yw'r ansicrwydd ynghylch cyllid yn y dyfodol ar gyfer referniw a chyfalaf. Mae'r Cyngor wedi tanwario'n sylweddol yn 2020/21, ac mae'n debygol o danwario yn 2021/22 sy'n helpu i roi rhwyd ddiogelwch a ddangosir gan y buddsoddiadau iach mewn banciau a ddangosir uchod.
- 10.2** Mae Strategaeth Gyfalaf y Cyngor yn seiliedig ar lefel dybiedig o gyllid gan Lywodraeth Cymru a thrwy grantiau allanol. O ystyried yr ansicrwydd parhaus ynghylch cyllidebau a cholli cyllid grant sylweddol a dderbynnir ar hyn o bryd gan yr Undeb Ewropeaidd, mae perygl na fydd y lefel dybiedig hon o gyllid grant yn dod i law fel y nodir yn y strategaeth. Bydd rhaid ailasesu'r strategaeth gyfalaf a'r rhaglen gyfalaf flynyddol os bydd unrhyw newid yn y cyllid..
- 10.3** Mae'r strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd cynnal asedau presennol y Cyngor. Mae risg nad yw'r rhaglen adnewyddu yn ddigonol a bod safon yr asedau yn disgyn i'r fath raddau fel bod angen mwy o fuddsoddiad er mwyn cynnal gwasanaethau. Efallai na fydd y buddsoddiad ychwanegol hwn yn fforddiadwy neu efallai bydd angen tynnu prosiectau newydd eraill oddi ar y rhaglen.
- 10.4** Mae'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yn rhaglen mor uchelgeisiol a sylweddol fel bod risg na fydd y Cyngor yn gallu fforddio'r rhaglenni ar ôl Band B, er y bydd y cynnydd yn y cronfeydd arian parod defnyddiadwy wrth gefn yn helpu gyda buddsoddi mewn ysgolion.
- 10.5** Mae benthyca allanol yn arwain at gost llog sylweddol bob blwyddyn. Mae'r rhan fwyaf o fenthyciadau'r Cyngor yn rhai sefydlog ac nid yw unrhyw gynnydd mewn cyfraddau llog yn cael effaith arnynt. Fodd bynnag, gallai unrhyw gynnydd sydyn mewn cyfraddau llog gael effaith ar fforddiadwyedd prosiectau yn y dyfodol a gyllidir drwy fenthyciadau. Amlinellir camau yn y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys sy'n lliniaru'r risg hon i ryw raddau. Bydd y codiadau graddedig bach presennol yn y Gyfradd Sylfaenol yn cynyddu cyfraddau benthyca y BBGC er, ar hyn o bryd, mae'r rhain i gyd ymhell islaw llawer o'r cyfraddau sefydlog ar fenthyciadau cyfredol.

11. Gwybodaeth a Sgiliau

- 11.1** Mae gan y tîm cyfrifo Adnoddau bedwar cyfrifydd cymwys, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, sy'n gofalu am y rhaglen gyfalaf a swyddogaeth Rheolaeth Trysorlys. Mae yna hefyd dechnegydd cyfrifo cymwys sydd â phrofiad sylweddol mewn cyfalaf a rheoli'r trysorlys. Mae'r tîm yn mynd ar gyrsiau CIPFA ar gyfalaf a rheoli'r trysorlys ac mae ganddynt wybodaeth gadarn o'r maes cyfrifyddu arbenigol hwn. Mae yna hefyd dîm o weithwyr proffesiynol o fewn gwasanaethau, megis penseiri, rheolwyr prosiect, peirianwyr, sy'n cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni'r Rhaglen Gyfalaf. Mae'r Cyngor hefyd yn comisiynu cyngor arbenigol gan *Link Asset Services*. Mae'r gwasanaeth hwn yn mynd i aildendr ar hyn o bryd yn unol â rheolau caffael. Mae penderfynwyr y Cyngor yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar gyfalaf a rheoli'r trysorlys a chynigir hyfforddiant rheoli'r trysorlys i'r Aelodau. Amlinellir y trefniadau llywodraethu yn y Cyfansoddiad a'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.

Atodiad 2
Rhaglen Gyfalaf Arfaethedig 2022/23

CYNLLUN	CYLLIDEB 2022/23 £'000	CYLLIDWYD GAN							
		Grantiau Allanol £'000	Grant Cyfalaf Cyffredinol £'000	Benthyca â Chefnogaeth £'000	Benthyca Digefnogaeth £'000	Cronfa wrth gefn y CRT £'000	Cronfa wrth gefn derbynebion Cyfalaf £'000	Cronfa wrth gefn a Glustnodedig £'000	Balansau Cyffredinol £'000
Cynlluniau 2021/22 a ymrwymwyd ac a ddygwyd ymlaen									
Penrhos Cam II	493	493							
Cyd-Fenter Llangefni	119	119							
Porth Twristiaeth	170	170							
Partneriaeth Tirwedd Caerdybi	190	190							
Adfywio Caerdybi (Cam II)	350	350							
CYFANSWM Cynlluniau 2021/22 a ymrwymwyd ac a ddygwyd ymlaen	1,322	1,322	-	-	-	-	-	-	-
Adnewyddu / Newid Asedau									
Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl	750		750						
Adnewyddu Ysgolion	1,000			1,000					
Adnewyddu Adeiladau nad ydynt yn Ysgolion	700		450					250	
Priffyrdd	2,000		14	876					1,110
Cerbydau	300		100					200	
Asedau TG	292						292		
CYFANSWM Adnewyddu / Newid Asedau	5,042	-	1,314	1,876	-	-	292	450	1,110

		CYLLIDWYD GAN							
	CYNLLUN £'000	CYLLIDEB 2022/23 £'000	Grantiau Allanol £'000	Grant Cyfalaf Cyffredinol £'000	Benthyca â Chymorth £'000	Benthyca Digymorth £'000	Cronfa wrth gefn y CRT £'000	Cronfa wrth gefn derbynebion Cyfalaf £'000	Cronfa wrth gefn a Glustnodwyd £'000
Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd									
Cynlluniau Lliniaru Llifogydd	281			281					
Dat Econ – Crochan o arian cyfatebol	100		100						
Uwchraddio Cyfleusterau Cyhoeddus	480		72				308	100	
Canopis Allanol (Tair Ysgol Uwchradd)	371								371
Seilwaith Morwrol	200								200
CYFANSWM Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd	1,432	-	172	281	-	-	308	100	571
Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd (Cronfeydd Wrth Gefn Gwasanaeth ac a Glustnodwyd a Benthyca Digymorth)									
Seilwaith Ymwelwyr	200							200	
Atgyweiriadau i Felin Llynnon	103				38			65	
Offer Ailgylchu	380							380	
Offer Fitrwydd (Canolfan Hamdden David Hughes)	100				100				
CYFANSWM Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd (Cronfeydd Wrth Gefn Gwasanaeth ac a Glustnodwyd a Benthyca Digymorth)	783	-	-	-	138	-	-	645	-
Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu									
Band A	3,768	-		-	3,768				
Band B	4,830	2,169		1,168	1,493				
CYFANSWM	8,598	2,169	-	1,168	5,261	-	-	-	-
CYFANSWM Y GRONFA GYFFREDINOL	17,177	3,491	1,486	3,325	5,399	-	600	1,195	1,681

		CYLLIDWYD GAN							
	CYLLIDEB 2022/23 £'000	Grantiau Allanol	Grant Cyfalaf Cyffredinol	Benthyca â Chymorth	Benthyca Digymorth	Cronfa wrth gefn y CRT	Cronfa wrth gefn derbynebion Cyfalaf	Cronfa wrth gefn a Glustnodwyd	Balansau Cyffredinol
Cyfrif Refeniw Tai									
Rhaglen Gynnal a chadw Gynlluniedig Draddodiadol SATC	9,555	2,685				6,870			
Datblygiadau Newydd a Phrynu eiddo Hawl i Brynu yn ôl	9,229				6,000	3,229			
CYFANSWM Y CYFRIF REFENIW TAI	18,784	2,685	-	-	6,000	10,099	-	-	-
CYFANSWM Y RHAGLEN GYFALAF 2022/23	35,961	6,176	1,486	3,325	11,399	10,099	600	1,195	1,681



Ynys Môn

Strategaeth Gyfalaf

2022/23



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN

ADRODDIAD I:	CYNGOR SIR
DYDDIAD:	10 MAWRTH 2022
PWNC:	Y STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOL A CHYLLIDEB 2022/23
AELOD (AU) PORTFFOLIO:	Y CYNGHORYDD R WILLIAMS
PENNAETH GWASANAETH / CYFARWYDDWR:	MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151
AWDUR YR ADRODDIAD:	MARC JONES
RHIF FFÔN:	01248 752601
E-BOST:	rmjfi@ynysmon.gov.uk
AELODAU LLEOL:	Amherthnasol

A - Argymhelliad/Argymhellion a'r Rheswm/Rhesymau**1. Y STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOL A CHYLLIDEB REFENIW 2022/23****1.1 Pwrpas**

Cytunodd y pwyllgor Gwaith a nifer o faterion allweddol mewn perthynas â chyllideb 2022/23. Bydd hynny wedyn yn golygu y gellir cyflwyno'r argymhellion terfynol i'r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 10 Mawrth 2022. Y materion a gytunwyd gan y Pwyllgor Gwaith yw:-

- Cyllideb Refeniw'r Cyngor a'r Dreth Gyngor sy'n deillio ohoni ar gyfer 2022/23;
- Strategaeth Ariannol Tymor Canol y Cyngor wedi iddi gael ei diweddarau;
- Y defnydd a wneir o unrhyw gyllid unwaith ac am byth i gefnogi'r gyllideb.

1.2 Crynodeb

Mae'r papur hwn yn dangos y cynigion manwl ar gyfer cyllideb refeniw 2022/23 i'w hadolygu a'u cytuno'n derfynol, ynghyd â'u heffaith ar gyllideb refeniw Cyngor Sir Ynys Môn. Mae'r rhain yn faterion i'r Cyngor gytuno arnynt, a gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith wneud argymhellion terfynol i'r Cyngor.

Mae'r papur hefyd yn diweddarau'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol, sy'n darparu cyd-destun ar gyfer gwaith ar gyllidebau'r Cyngor yn y dyfodol. Fodd bynnag, dylid nodi y bydd adroddiad pellach ar Strategaeth Ariannol Tymor Canol y Cyngor yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yn ddiweddarach yn y flwyddyn, pan fydd mwy o wybodaeth ar gael am gyflwr yr economi a phan fydd mwy o eglurder efallai ynghylch y setliadau ariannol a gynigir ar gyfer llywodraeth leol i'r dyfodol.

2. CYLLIDEB REFENIW 2022/23 AC ARGYMHELLION AR GYFER Y DRETH GYNGOR

Mae'r Pwyllgor Gwaith yn argymhell y canlynol i'r Cyngor Llawn :-

- Nodi'r cyfarfodydd ymgynghori ffurfiol ar y gyllideb ac ystyried yr adborth a gafwyd, fel yr amlinellir yn Adran 3 o Atodiad 1;
- Cytuno ar fanylion terfynol cyllideb arfaethedig y Cyngor, fel y dangosir yn Adran 7 o Atodiad 1 ac Atodiad 2;
- Nodi argymhelliad y Swyddog Adran 151 y dylai'r Cyngor fod yn gweithio tuag at sicrhau balansau cyffredinol o £7.9m ar y lleiaf;
- Nodi'r sylwadau a wnaed gan y Swyddog Adran 151 ar gadernid yr amcangyfrifon, fel y nodir hwy yn Adran 5 o Atodiad 1;

<ul style="list-style-type: none"> • Argymell cyllideb net o £158.367m ar gyfer y Cyngor Sir (Mae'r gyllideb terfynol yn wahanol i'r hyn a adroddwyd i'r Pwyllgor Gwaith oherwydd cynydd o £2,254 yn yr AEF yn yr setliad terfynol a ddebyniwyd) a chynnydd o 2.00% yn lefel y Dreth Gyngor yn sgil hynny (£26.82 – Band D) i'r Cyngor llawn, gan nodi y bydd penderfyniad ffurfiol, gan gynnwys praeseptau a godir gan Heddlu Gogledd Cymru a Chynghorau Cymuned, yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 10 Mawrth 2022; • Cytuno y gellir defnyddio'r gyllideb hapddigwyddiadau gyffredinol i gwrdd ag unrhyw bwysau annisgwyl ar gyllidebau a arweinir gan y galw yn ystod y flwyddyn ariannol ; • Gofyn i'r Cyngor awdurdodi'r Pwyllgor Gwaith i ryddhau hyd at £250k o'r balansau cyffredinol os yw'r gyllideb hapddigwyddiadau gyffredinol wedi'i hymrwymo'n llawn yn ystod y flwyddyn; • Dirprwyo grym i'r Swyddog Adran 151 ryddhau cyllid o'r gronfa hapddigwyddiadau gyffredinol, sef hyd at £50k ar gyfer unrhyw eitem unigol. Ni cheir cymeradwyo unrhyw eitem sy'n fwy na £50k heb gytundeb y Pwyllgor Gwaith ymlaen llaw; • Cadarnhau bod lefel Premiwm y Dreth Gyngor ar gyfer ail gartrefi yn cynyddu i 50% ac yn parhau i fod yn 100% ar gyfer cartrefi gwag. 		
B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?		
Ystyriwyd nifer o opsiynau yn dilyn cyhoeddi'r cynigion cychwynnol ar gyfer y gyllideb. Mae'r cynigion terfynol yn cymryd i ystyriaeth y setliad terfynol ar gyfer llywodraeth leol, y safbwyntiau a fynegwyd yn ystod y broses ymgynghori a sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor Sgriwtini.		
C - Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Cyngor Sir?		
Mae Cyfansoddiad yr Cyngor yn nodi fod penderfyniadau ar y gyllideb yn mater i'r Cyngor llawn ag nad ydi yn gallu cael i ddirprwyo		
CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?		
Ydi. Bydd y penderfyniad terfynol ynglŷn â chyllideb referniw 2022/23 yn cael ei wneud gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 10 Mawrth 2022.		
D - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?		
Amherthnasol		
Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):		
1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Wrth lunio'r cynigion ar gyfer y gyllideb, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi ystyried ei ddyletswyddau statudol a'r amcanion a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol.
2	A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?	Mae manylion unrhyw gynigion arbedion wedi'u nodi yn yr adroddiad.
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy.	Bu'r Cyngor yn gweithio gyda chynghorau eraill a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i bwysu ar Lywodraeth Cymru am y setliad ariannol gorau posibl.
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut.	Mae'r cynigion ar gyfer y gyllideb wedi bod yn destun proses ymgynghori, ac mae'r manylion wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi rhoi ystyriaeth i ganlyniad yr ymgynghoriad hwnnw cyn cytuno ar y cynnig terfynol ar gyfer y gyllideb.

5	Nodwch unrhyw effaith posib y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Bydd unrhyw gynigion a gynhwysir yn y gyllideb derfynol ar gyfer 2022/23 yn rhoi ystyriaeth i'r effaith ar unrhyw grwpiau a warchodir.
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith posib y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai hynny sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol.	Bydd y gyllideb yn arwain at gynnydd yn y Dreth Gyngor y bydd trethdalwyr Ynys Môn yn ei thalu. Mae'r rheiny sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol yn fwy tebygol o fod yn gymwys i dderbyn cymorth trwy Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, a dylai hynny olygu na fydd effaith ariannol ar y rheiny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol, neu bydd yr effaith ariannol yn gyfyngedig.
7	Nodwch unrhyw effaith posib y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg ddim llai ffafriol na'r Saesneg.	Ni nodwyd unrhyw effaith.
E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)	Mae'r Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth wedi bod yn rhan o'r broses gosod cyllideb o'r cychwyn ac yn cytuno â'r adroddiad ac yn cefnogi'r cynnig terfynol.
2	Swyddog Cyllid / Adran 151 (mandadol)	Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn.
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)	Mae'r Swyddog Monitro yn rhan o'r UDA, ac mae'r UDA wedi ystyried ei sylwadau.
4	Adnoddau Dynol (AD)	-
5	Eiddo	-
6	Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)	-
7	Sgriwtini	Ystyriwyd y cynigion terfynol gan y Pwyllgor Sgrwitini yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2022. Rhoddir diweddariad ar ganlyniad y cyfarfod i'r Pwyllgor Gwaith ar lafar.
8	Aelodau Lleol	Mae cyllideb y Cyngor yn berthnasol i'r holl Aelodau ac ymgynghorwyd â'r Aelodau trwy gydol y broses gosod cyllideb.
9	Unrhyw gyrff allanol / eraill	Gweler Adran 2 o'r adroddiad.
F - Atodiadau:		
<ul style="list-style-type: none"> • Atodiad 1 – Adroddiad manwl ar y Cynigion ar gyfer y Gyllideb • Atodiad 2 – Crynodeb o Ganlyniadau'r Broses Ymgynghori • Atodiad 3 – Crynodeb o'r Gyllideb Refeniw Arfaethedig ar gyfer 2022/23 fesul Gwasanaeth 		
FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):		
<ul style="list-style-type: none"> • Cynigion Cychwynnol ar gyfer Cyllideb 2022/23 – Pwyllgor Gwaith – 24 Ionawr 2022 • Cynigion Cychwynnol ar gyfer Cyllideb 2022/23 – Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol – 24 Ionawr 2022 • Cynllun Ariannol Tymor Canol ar gyfer 2022/23 i 2024/25 – Pwyllgor Gwaith – 27 Medi 2021 • Adroddiad llawn ar yr Ymgynghoriad ar y Gyllideb 		

1. RHAGARWEINIAD A CHEFNDIR

- 1.1. Mae'r adroddiad canlynol yn nodi cynigion ar gyfer cyllideb refeniw 2022/23 ac mae'n un o gyfres o adroddiadau sy'n rhoi darlun cyffredinol o sefyllfa ariannol y Cyngor ac sy'n sicrhau bod cyllid y Cyngor yn cael ei neilltuo i gwrdd â'i flaenoriaethau. Mae'r adroddiadau eraill yn y gyfres yn ymwneud â Rhaglen Gyfalaf a Strategaeth Gyfalaf y Cyngor, Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor a Ffioedd a Thaliadau.
- 1.2. Gyrrir y gyllideb refeniw a'r angen parhaus i nodi arbedion refeniw gan y Cynllun Ariannol Tymor Canol, fel y cymeradwywyd hi gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2021, a gellir ei chrynhof fel a ganlyn:-

Tabl 1
Cynllun Ariannol Tymor Canol 2022/23 i 2024/25

	2022/23 £'m	2023/24 £'m	2024/25 £'m
Cyllideb Refeniw Net a ddygwyd ymlaen	147.420	153.987	157.178
Pwysau ar y Gyllideb a Chwyddiant	6.567	3.191	3.439
Cyllideb Ddisymud Ddiwygiedig	153.987	157.178	160.617
Cyllid Allanol Cyfun (AEF) ar gyfer 2021/22	104.825	104.825	104.825
Y Dreth Gyngor	42.295	42.295	42.295
Cyfanswm Cyllido	147.120	147.120	147.120
Y Gofynion Cyllido Ychwanegol / Arbedion y mae'n rhaid eu gwneud	6.867	10.058	13.497
Prif Ragdybiaethau			
Dyfarniadau Tâl – ac eithrio athrawon	2.81%	2.00%	2.00%
Dyfarniadau Tâl – Athrawon	1.60%	2.00%	2.00%
Chwyddiant Cyffredinol	2.00%	2.00%	2.00%

- 1.3. O ystyried y diffyg gwybodaeth, roedd yn anodd amcangyfrif y newid yn lefel y Cyllid Allanol Cyfun (AEF) a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2022/23, a hyd yn oed yn anos amcangyfrif y newidiadau yn 2023/24 a 2023/25. Mae'r AEF yn swm sylweddol y mae'r Cyngor wedyn yn ei ddefnyddio fel sail ar gyfer penderfynu ar y cynnydd yn y Dreth Gyngor ac unrhyw arbedion y mae'n rhaid iddo eu gwneud bob blwyddyn.
- 1.4. Yn amlwg mae'r sefyllfa economaidd wedi newid ers mis Medi 2021, gyda chwyddiant yn cynyddu'n gyflyn i lefel na welwyd ers nifer o flynyddoedd. Mae hyn wedi cael cryn effaith ar ffactorau chwyddiant cyflogau a phrisiau ac wedi cynyddu'r gofynion cyllido amcangyfrifedig a nodwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol ym mis Medi 2021.

2. Y CYNIG CYCHWYNNOL AR GYFER Y GYLLIDEB

- 2.1. Yn ei gyfarfod ar 24 Ionawr 2022, trafododd y Pwyllgor Gwaith ei gynnig gwreiddiol ar gyfer y gyllideb a'r setliad dros dro yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i gyhoeddi ar 21 Rhagfyr 2021.
- 2.2. Roedd y setliad dros dro yn well o lawer na'r disgwyl, a byddai'n rhoi £114.549m i'r Cyngor, sy'n gynydd o £9.724m (9.27%) o ran arian parod ond, ar ôl caniatáu ar gyfer grantiau sy'n trosglwyddo i'r setliad ac effaith y newid yn sylfaen dreth y Cyngor, y cynnydd wedi'i addasu oedd £9.677m (3.23%).
- 2.3. Cynigodd y Pwyllgor Gwaith gyllideb o £158.365m ar gyfer 2022/23, ac, o ystyried yr AEF amodol o £114.549m, byddai hyn yn golygu y byddai angen cynnydd o 2.00% yn y Dreth Gyngor i gydbwysu'r gyllideb.

2.4. Wrth osod y gyllideb arfaethedig, roedd y Pwyllgor Gwaith yn cydnabod yr angen i ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau sydd wedi wynebu toriadau cyllidebol sylweddol yn ystod y cyfnod o gygni ariannol. Mae £2.86m wedi cael ei glustnodi yn y cynnig cyllideb terfynol er mwyn galluogi i wasanaethau:-

- Ddelio gyda'r cynnydd yn y galw am wasanaethau;
- Lliniaru'r risgiau yn ymwneud â diogelwch y cyhoedd;
- Cynyddu'r adnoddau sydd ar gael i fynd i'r afael â heriau economaidd-gymdeithasol yr Ynys;
- Parhau i weithio tuag at ddod yn sefydliad carbon sero erbyn 2030;
- Parhau i wella a moderneiddio systemau TG a phrosesau busnes y Cyngor;
- Parhau i wella gwasanaethau cwsmer.

2.5. Nid yw'r cynnig ar gyfer y gyllideb yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw wasanaethau wneud arbedion ar gyfer 2022/23.

2.6. Er na chafodd ei fwriadu fel mesur o'r hyn y dylai cyllideb referniw net y Cyngor fod, mae'r Asesiad Gwario Safonol (AGS) yn rhoi rhyw syniad a yw cyllideb y Cyngor ar lefel resymol i'r Cyngor. Yr AGS ar gyfer 2022/23 yw £159.692m ac, felly, mae'r gyllideb arfaethedig yn 99.2% o'r AGS.

3. CYFANSODDIAD Y CYNGOR

3.1. Cyhoeddodd y Cyngor ei gynigion ar gyfer y gyllideb ar 26 Ionawr 2022 a daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 9 Chwefror 2022. Gofynnwyd i ddinasyddion, partneriaid, cydranddeiliaid a staff ymateb i'r ymgynghoriad trwy holiadur ar wefan y Cyngor. Hysbysebwyd y broses ymgynghori yn eang ar gyfryngau cymdeithasol y Cyngor.

3.2. O ystyried y cyfnod byr a oedd ar gael i ymgynghori, a hynny oherwydd y cyhoeddiad hwyr am y setliad dros dro a'r ffaith bod y pandemig a'r cyfnod clo cysylltiedig, wedi cyfyngu ar allu'r Cyngor i gynnal cyfarfodydd gyda'i bartneriaid a'i gydranddeiliaid. Fodd bynnag, trafodwyd y cynigion ar gyfer y gyllideb yn ystod y Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned ar 7 Chwefror 2022, ac yn ystod y Fforwm Cyllid Ysgolion, a gyfarfu ar 16 Chwefror 2022. Cefnogwyd y cynigion yn ystod y ddau gyfarfod ac ni chodwyd unrhyw bryderon sylweddol neu wrthwynebiadau yn ystod y cyfarfodydd hyn.

3.3. Mae crynodeb o ganlyniadau'r broses ymgynghori ar gael isod:-

- Derbyniwyd 115 o ymatebion ac roedd bron i 30% o'r ymatebwyr yn perthyn i'r grŵp oedran 55-64. Derbyniwyd ymatebion o bob cwr o Ynys Môn, o Gaergybi i Fennech, Cemaes i Borthaethwy, Amlwch i Falltraeth, Rhosneigr, Llanfellech a Choedana, i enwi dim ond ychydig.
- Daeth 95% o'r ymatebion gan unigolion a oedd yn ymateb fel unigolion neu ar ran y teulu.
- O'r ymatebion hynny roedd 31% yn cytuno y dylid cynyddu Treth Gyngor yr ynys 2% i gyllido gweithgareddau i fynd i'r afael â'r pwysau a nodwyd fel rhan o'r ymgynghoriad. Roedd 69% o'r ymatebwyr yn anghytuno â chynnydd o'r fath.
- O'r rhai a oedd yn anghytuno â chynnydd o'r fath, pan ofynnwyd iddynt beth y dylai'r Cyngor ei flaenoriaethu roedd-
 - 34% yn cynnig y dylai'r Cyngor Sir flaenoriaethu buddsoddi mewn Gwasanaethau Plant, ac roedd
 - 32% yn credu y dylai'r Cyngor flaenoriaethu buddsoddi yn ein gwasanaeth priffyrdd, gwastraff ac eiddo, i fynd i'r afael â heriau yn ymwneud â datgarboneiddio a chlefyd coed Onnen a'r galw am fesurau glanweithdra ychwanegol yn asedau'r Cyngor o ganlyniad i'r pandemig.
- Roedd 21 o'r ymatebwyr yn credu nad oedd angen buddsoddi o gwbl ac y dylai'r Cyngor Sir barhau fel ac y mae heb unrhyw fuddsoddi pellach.

4. PWYLLGOR SGRIWTINI

- 4.1. Oherwydd yr oedi cyn derbyn y setliadau dros dro a therfynol, bu'n rhaid cywasgu amserlen y gyllideb ar gyfer 2022/23 er mwyn sicrhau bod y Cyngor mewn sefyllfa i osod y Dreth Gyngor o fewn yr amserlen a nodir yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (Adran 30 (6)). Cafodd y cynnig cychwynnol ar gyfer cyllideb 2022/23 ei ystyried gan y Pwyllgor Sgriwtini Cyllid yn ei gyfarfod ar 24 Ionawr 2022, a chafodd ei ystyried ymhellach ganddo yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2022 a bydd adroddiad llafar ar drafodaethau'r Pwyllgor yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod. Yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror 2022, edrychodd y Panel Sgriwtini Cyllid yn fanwl ar y cynigion buddsoddi ar gyfer y gwasanaethau, a chyflwynwyd sylwadau'r Panel i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2022.

5. CADERNID YR AMCANGYFRIFON

- 5.1 Yn unol ag Adran 25 Deddf Llywodraeth Leol 2003, mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid gyflwyno adroddiad ar gadernid yr amcangyfrifon cyllidebol a digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn arfaethedig.

- 5.2 Mae amcangyfrifon y gyllideb yn seiliedig ar dybiaethau ynghylch gwariant ac incwm yn y dyfodol ac maent yn cynnwys elfen o risg oherwydd rhagdybio. Gellir lliniaru effaith y risg hon drwy gynlluniau wrth gefn, cyllidebau wrth gefn ar gyfer digwyddiadau annisgwyl a chronfeydd ariannol wrth gefn.

- 5.3 Nid yw cadernid yr amcangyfrifon cyllidebol yn gwestiwn syml o p'un a ydynt wedi eu cyfrifo'n gywir ai peidio. Yn ymarferol, mae llawer o gyllidebau wedi'u seilio ar amcangyfrifon neu ragolygon, ac efallai y bydd elfen o risg ynghylch a fydd y cynlluniau'n cael eu gweithredu neu a fydd modd cyflawni'r targedau. Caiff amrywiol risgiau i'r gyllideb eu hystyried yn eu tro isod:-

- **Risg Chwyddiant** – Pan fo lefelau chwyddiant yn isel a phan fo newidiadau yn y gyfradd chwyddiant yn fach yn gyffredinol, mae'r risg chwyddiant yn isel, ac felly y bu ers nifer o fynyddoedd. Fodd bynnag mae mwy o ansicrwydd ynghylch chwyddiant cyflogau a phrisiau yn 2022/23, ac mae hyn yn cynyddu'r risg yn sylweddol. Yn hwyr yn 2021, dechreuodd chwyddiant godi'n gyflym, a rhagwelir y bydd y cynnydd hwn yn parhau yn gynnar yn 2022. Fodd bynnag, mae gwahaniaeth barn ynghylch pa un ai a yw hwn yn gynydd dros dro ai peidio, ac a fydd pethau'n dechrau sefydlogi yn ystod ail hanner 2022 neu a fydd chwyddiant yn parhau i gynyddu drwy gydol 2022. I ryw raddau, mae'r Cyngor wedi'i amddiffyn rhag y risg hwn oherwydd mae mwyafrif o'n contractau mawr (prydau ysgol, cynnal a chadw priffyrdd, casglu gwastraff ac ati) yn defnyddio mynegion chwyddiant o fis Medi, Hydref neu Tachwedd 2021 i bennu lefel y chwyddiant ar gyfer 2022/23. Gan fod y ffigurau hyn yn hysbys maent wedi'u cynnwys yn y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2022/23. Y gost fwyaf i'r Cyngor yw ei gostau tâl. Nid yw'r dyfarniad cyflog ar gyfer staff nad ydynt yn athrawon wedi'i gytuno ar gyfer 2021/22 ac nid oes cynnig wedi'i wneud ar gyfer 2022/23. Mae'r cynnig ar gyfer y gyllideb yn caniatáu ar gyfer cynnydd o 1.75% ar gyfer 2021/22 a 3.5% ar gyfer 2022/23. Byddai'n rhaid i'r Cyngor ddefnyddio ei gronfeydd wrth gefn i gyllido unrhyw ddyfarniad cyflog sy'n uwch na'r ffigur hwn. Mae'r dyfarniad cyflog i athrawon wedi'i gytuno hyd at fis Medi 2022 ac, unwaith eto, mae 3.5% wedi'i gynnwys i gwrdd â'r dyfarniad cyflog a fydd yn dod i rym ym mis Medi 2022. Rhagwelir ffactor chwyddiant o 2% ar gyfer gweddill gwariant y Cyngor ond, gan fod y rhan fwyaf o wariant y Cyngor yn gysylltiedig â thâl neu'n dod o dan gontract, mae'r risg ariannol o danbriso'r ffigur hwn yn isel ac mae modd ei lliniaru drwy sicrhau bod gan y Cyngor falansau cyffredinol digonol.
- **Risg Cyfraddau Llog** – Mae cyfraddau llog yn effeithio ar gyllideb refeniw un flwyddyn drwy'r llog a enillir – h.y. mae cynnydd yn y gyfradd llog yn beth da. Yn unol â Strategaeth Rheoli Trysorlys yr Awdurdod, yr ystyriaethau cyntaf wrth fuddsoddi fydd diogelwch a hylifedd y buddsoddiad – bydd yr elw ar y buddsoddiad yn llai o flaenoriaeth. Nid yw'r gyllideb, felly'n dibynnu ar gael elw mawr o'r buddsoddiadau a wneir. Mae cyfraddau llog yn parhau i fod yn isel iawn, ond maent yn dechrau codi ac efallai y bydd yn rhaid eu cynyddu'n fwy sydyn na'r disgwyl os ydi chwyddiant yn parhau i fod yn uchel. Mae'r rhan fwyaf o'r llog a delir gan y Cyngor yn gysylltiedig â benthyciadau cyfraddau sefydlog na fyddant yn newid pe bai'r gyfradd llog yn codi. Felly, ystyrir bod y risg o ran cyfraddau llog yn isel ac, fel yn y blynyddoedd diwethaf, mae hon yn risg y mae'r risg chwyddiant yn ei lliniaru, oherwydd os yw un yn cynyddu, yna mae'r llall yn debygol o gynyddu hefyd.

- **Risg Grantiau** - Mae'r rhain yn risgiau gyda nifer fawr o grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru, gan Ewrop neu gan gyrrff eraill sy'n cefnogi cyfran dda o wariant y Cyngor. Efallai y bydd rhai o'r rhain yn gostwng yn sylweddol neu'n cael eu dileu yn gyfan gwbl; nid oes gennym ddarlun cyflawn o'r rhain i gyd ac ni fydd y sefyllfa'n eglurach hyd yn oed wrth i'r flwyddyn ariannol gychwyn. Er mai'r ymateb naturiol yw dweud y bydd rhaid i'r gwariant sy'n gysylltiedig â'r grant ddod i ben pan ddaw'r grant i ben, mae perygl na fydd hyn bob amser yn bosib. Efallai na fydd yn bosib pan fydd telerau'r contract yn golygu na all y gwariant gael ei dorri mor gyflym â'r incwm, neu os oes costau diswyddo sydd heb eu cyllido. Efallai na fydd yn bosib os yw'r gweithgaredd a gyllidir mor bwysig ar gyfer cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor ei hun fel bod y Cyngor yn penderfynu bod rhaid iddo barhau â'r gwariant. Wrth ymdrechu i liniaru'r risg hon, rhaid sicrhau bod gennym y wybodaeth orau sydd ar gael am bob un o'r grantiau, ond ni fedrir diystyru'n gyfan gwbl y posibilrwydd y bydd newidiadau sylweddol yn digwydd yn ystod y flwyddyn.
- **Risgiau Incwm** – Mae'r gyllideb yn seiliedig ar sicrhau cynnydd cyffredinol o 3% mewn ffioedd, ac mae nifer o wasanaethau wedi rhagdybio codiadau a fydd hyd at 3%. Os bydd newid yn y galw am Wasanaethau'r Cyngor yn golygu bod lefel y galw'n disgyn, ac os na lwyddir i gyrraedd targedau incwm, gall hynny arwain at orwario ar gyllidebau net. Bydd angen monitro sefyllfa'r gyllideb net yn ofalus ac, os oes angen, bydd rhaid torri yn ôl ar wariant i gyfateb i'r gostyngiad mewn incwm.
- **Risg o fod yn rhy Optimistaidd** – Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'n debyg mai'r risg fwyaf oedd bod yr Awdurdod, Aelodau a Swyddogion wedi bod yn or-optimistaidd yn yr arbedion a gyflawnir neu na fyddai'r galw am wasanaethau, yn enwedig gofal cymdeithasol, yn cynyddu'n sylweddol. Ar gyfer 2022/23, nid oes unrhyw arbedion yn cael eu cynnig ac, o'r herwydd, nid yw'r risg hon yn berthnasol i gyllideb 2022/23.
- **Risg o fod yn rhy Ofalus** – Dyma'r gwrthwyneb i'r risg uchod: y perygl bod ein cyllidebau wedi cael eu llunio'n rhy wylidwus ac, o'r herwydd, eu bod yn fwy nag sydd ei angen, gan arwain at osod y Dreth Gyngor ar lefel uwch nag sydd raid - rhywbeth y mae Aelodau yn awyddus i'w osgoi. Mae'r Swyddog Adran 151 yn fodlon â'r broses ar gyfer gosod y gyllideb a bod y gyllideb a osodwyd yn asesiad teg o'r adnoddau sydd eu hangen ar bob gwasanaeth, yn seiliedig ar y ffactorau perthnasol fel y maent ar hyn o bryd.
- **Premiwm y Dreth Gyngor** – Wrth gyfrifo sylfaen y dreth gyngor, derbynnir y gall nifer yr eiddo gwag ac ail gartrefi newid yn ystod y flwyddyn ac, o'r herwydd, dim ond 80% o'r eiddo cymwys sydd wedi'u cynnwys yn sylfaen y dreth. Mae hyn yn gwarchod cyllideb y Cyngor pe bai gostyngiad sylweddol yn y niferoedd. Fodd bynnag, dylid nodi bod nifer yr eiddo gwag a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo sylfaen y dreth wedi gostwng o 394 eiddo ym mis Hydref 2020 i 324 eiddo ym mis Hydref 2021, a chynyddodd nifer yr ail gartrefi o 2,067 i 2,149 dros yr un cyfnod. Mae cynyddu lefel y premiwm ar ail gartrefi o 35% i 50% yn peri risg sylweddol yn 2022/23. Gall y cynnydd annog perchnogion ail gartrefi i werthu neu osod eu heiddo h.y. un o'r rhesymau dros gynyddu'r premiwm yn y lle cyntaf, fodd bynnag, fe all annog mwy o berchnogion i beidio â thalu neu osgoi talu'r premiwm drwy drosglwyddo i drethi busnes neu ddulliau osgoi eraill. I liniaru'r risg bydd staff ychwanegol yn cael eu cyflogi i ganfod achosion o osgoi'r dreth a lleihau'r colledion premiwm o ganlyniad. Gan fod y Pwyllgor Gwaith wedi ymrwymo i ddefnyddio'r premiwm ychwanegol i fynd i'r afael â'r problemau a achosir gan y nifer uchel o ail gartrefi ar Ynys Môn, byddai unrhyw ostyngiad incwm sylweddol yn golygu bod llai o gyllid ar gael ar gyfer y mentrau hyn yn y blynyddoedd sydd i ddod.

- **Incwm o'r Dreth Gyngor** – Mae'r gyllideb ar gyfer incwm o'r Dreth Gyngor yn seiliedig ar gyfrifiad sylfaen y dreth ym mis Tachwedd y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae sylfaen y dreth yn newid yn gyson yn ystod y flwyddyn, wrth i eiddo newydd gael eu hychwanegu ac wrth ganiatáu eithriadau a disgowntiau pobl sengl. Ni ellir amcangyfrif y newidiadau hyn ac, yn ddiethriad, maent yn arwain at wahaniaeth rhwng y debyd gwirioneddol a godir a'r gyllideb. Dylid nodi bod nifer yr eiddo sy'n cael eu nodi fel llety hunanarlwyo a'u trosglwyddo i'r gofrestr trethi busnes wedi cynyddu o 927 eiddo ym mis Chwefror 2021 i 1,000 eiddo ym mis Chwefror 2022, sef cynnydd o 83 eiddo. Pan fydd eiddo'n symud ar draws, bydd Asiantaeth y Swyddfa Brisió yn pennu dyddiad y daw'r eiddo yn atebol am drethi busnes, a gall y dyddiad hwnnw gael ei ôl-ddyddio nifer o flynyddoedd. Nid yn unig y mae'r Cyngor yn colli'r Dreth Gyngor ar yr eiddo, ond rhaid iddo hefyd ad-dalu unrhyw Dreth Gyngor a phremiwm a dalwyd o'r dyddiad pan roddir yr eiddo ar y gofrestr Trethi Busnes. Gall y symudiadau hyn gael effaith sylweddol ar incwm o'r Dreth Gyngor mewn unrhyw flwyddyn.

Mae'r pandemig Covid hefyd wedi arwain at gyfraddau casglu is nag mewn blynyddoedd a fu ac fe all hyn arwain at golled ariannol yn 2022/23 neu yn y blynyddoedd i ddod, pan fydd dyledion nad oes modd eu casglu yn cael eu dileu. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid grant i helpu i gwrdd â chostau yn ymwneud â dyledion nad oes modd eu casglu, a defnyddir y cyllid hwn, os oes angen, i liniaru effaith dileu mwy o ddyledion nag sy'n arferol.

- **Risgiau sy'n gysylltiedig â galw** – Fe all nifer o wasanaethau weld newid yn y galw am wasanaeth. Gellir rhagweld rhai a'u cymryd i ystyriaeth wrth osod y gyllideb e.e. newid mewn niferoedd disgyblion. Mae eraill yn fwy anos i'w darogan ac fe all newid bach mewn niferoedd gael effaith sylweddol ar gostau. Mae'r gyllideb yn caniatáu darparu gwasanaethau ar y lefel bresennol, a bydd rhaid defnyddio balansau cyffredinol y Cyngor neu, mewn rhai achosion, cronfeydd wrth gefn clustnodedig sydd wedi'u clustnodi i gwrdd ag unrhyw gynnydd yn y galw am wasanaeth.

5.4 Ar ôl ystyried yr holl risgiau a nodir uchod a'r camau lliniaru, mae'r Swyddog Adran 151 o'r farn bod y cyllidebau'n gadarn ac y gellir eu cyflawni.

6. CRONFEYDD WRTH GEFN CYFFREDINOL A PHENODOL

- 6.1 Mae'r gyllideb arfaethedig yn cynnwys nifer o ragdybiaethau o ran lefelau incwm a gwariant tebygol yn y blynyddoedd i ddod. Felly, yn anochel mae nifer o risgiau ariannol cynhenid yn y gyllideb arfaethedig, fel y nodir ym mharagraff 5 uchod.
- 6.2 O ran unrhyw arian wrth gefn a chronfeydd hapddigwyddiadau, mae angen i'r Swyddog Adran 151 adolygu'r rhain yn eu cyfanrwydd ar y cyd â'r gyllideb sylfaenol ei hun a'r risgiau ariannol y mae'r Awdurdod yn eu hwynebu. Yn ogystal, dylai'r adolygiad edrych i'r tymor canol lle bo angen a dylai gymryd i ystyriaeth ddatblygiadau allweddol a allai effeithio ar yr angen am a'r defnydd o adnoddau unwaith ac am byth.
- 6.3 Mabwysiadwyd safbwynt cadarn o ran rheoli risgiau cyllidebol a gwarchod iechyd ariannol y Cyngor yn y cyfnod hwn. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd angen diogelu cronfeydd unwaith ac am byth yn ddigonol i fedru cyllido newidiadau strategol / trawsnewidiol yn y dyfodol, yn hytrach na chyllido gorwariant sylweddol ar y gyllideb sylfaenol ei hun.
- 6.4 Ystyriwyd yr angen i gyfyngu i'r eithaf y gostyngiadau mewn gwariant sy'n digwydd ar hyn o bryd ac effaith hynny ar wasanaethau, ond rhaid cydbwysu hyn yn erbyn yr angen i sicrhau sefydlogrwydd ariannol y Cyngor yn y tymor canol a'r tymor hir, ac i wneud arbedion dros y blynyddoedd i ddod mewn ffordd raddol a strwythuredig. Yn ogystal, mae rhywfaint o risg bob amser o wariant annisgwyl neu orwariant oherwydd pwysau mwy cyffredinol ar gyllidebau gwasanaeth, a rhaid i gronfeydd wrth gefn hefyd fod yn ddigonol i ymdopi â'r fath bwysau.

- 6.5 Ar 31 Mawrth 2021, roedd cronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor yn £11.437m, sy'n cyfateb i 7.77% o gyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2020/21, 10.94% os nad yw'r gyllideb ddatganoledig ysgolion yn cael ei chynnwys. Yn ystod y flwyddyn, clustnodwyd £3m i atgyweirio to CAYB, trosglwyddwyd £1.376m i gronfeydd wrth gefn penodol a defnyddiwyd £0.150m at ddibenion eraill gyda £0.643m o arian wrth gefn clustnodedig yn cael ei drosglwyddo'n ôl i falansau cyffredinol y Cyngor. Felly, ar hyn o bryd, £7.554m ydi'r lefel ddiwygiedig.
- 6.6 Clustnodwyd £1.681m o falansau cyffredinol y Cyngor i gyllido'r rhaglen gyfalaf yn 2022/23. Fodd bynnag, rhagwelir tanwariant sylweddol yn 2021/22, a bydd hyn yn cynyddu'r balansau cyffredinol, oddeutu £2m o leiaf, ac felly ar ddiwedd y flwyddyn ariannol bydd y balansau cyffredinol oddeutu £8m, sef tua 5% o'r gyllideb refeniw net ar gyfer 2022/23.
- 6.7 Mae'r Cyngor yn penderfynu ar lefel y balansau cyffredinol ar sail argymhelliad gan y Swyddog Adran 151 ond, fel rheol gyffredinol, ystyrir bod 5% o'r gyllideb refeniw net yn lefel dderbyniol. Mater i'w drafod yw p'un ai y dylid hepgor y gyllideb ddatganoledig ysgolion o'r gyllideb refeniw net, gan fod gan ysgolion eu cronfeydd wrth gefn eu hunain er mwyn cwrdd â chostau annisgwyl. Yn seiliedig ar y sefyllfa ariannol bresennol, gallwn ddweud â chryn sicrwydd y bydd lefel y balansau cyffredinol yn fwy na 5% o'r gyllideb refeniw net ar ddechrau blwyddyn ariannol 2022/23.
- 6.8 Mae'r risgiau ariannol hefyd yn cael eu lliniaru drwy gadw cronfeydd wrth gefn clustnodedig, sydd yn cael eu cadw er mwyn lliniaru risgiau penodol neu i gyllido prosiectau penodol er budd y Cyngor. Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol roedd gan y Cyngor £15.455m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig (yn cynnwys £1.376m o gronfeydd wrth gefn ar gyfer gwasanaethau penodol). Gellid dychwelyd cyfran sylweddol o'r cronfeydd wrth gefn yn ôl i'r balansau cyffredinol os bydd sefyllfa ariannol y Cyngor yn gwaethygu'n sylweddol yn ystod 2022/23. Mae'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig yma yn rhoi haen ychwanegol o ddiogelwch ariannol yn ychwanegol i falansau cyffredinol y Cyngor.
- 6.9 Mae'r gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2022/23 yn cynnwys £0.405m o gronfa hapddigwyddiadau cyffredinol y gellid ei defnyddio i gwrdd â gwariant annisgwyl neu heb ei gyllidebu yn ystod y flwyddyn. Unwaith eto, pwrpas y cyllidebau hyn yw lliniaru'r risgiau ariannol cynhenid wrth osod y gyllideb refeniw.
- 6.10 Ar ôl ystyried lefel balansau cyffredinol y Cyngor, balansau ysgolion, cronfeydd wrth gefn clustnodedig a'r cyllidebau hapddigwyddiadau, mae'r Swyddog Adran 151 yn fodlon bod sefyllfa ariannol y Cyngor yn ddigon cadarn i'w alluogi i wrthsefyll unrhyw anawsterau a all godi yn ystod 2022/23 os na fydd y gyllideb refeniw arfaethedig yn ddigonol i gwrdd â chostau gwirioneddol y Cyngor yn ystod 2022/23.

7. Y CYNNIG AR GYFER CYLLIDEB DERFYNOL 2022/23

- 7.1 Ers cwblhau'r cynigion cychwynnol ar gyfer y gyllideb, gwnaed gwaith pellach i adolygu a diwygio'r gyllideb derfynol ar gyfer 2022/23, yn cynnwys adolygiad llawn o'r holl fuddsoddiadau mewn gwasanaethau gan y Pwyllgor Gwaith. O ganlyniad, newidiwyd y cynnig cychwynnol ar gyfer y gyllideb o ran penawdau cyllidebau unigol a'r dyraniadau cyllid rhwng gwasanaethau, ond ni wnaeth yr adolygiad effeithio ar y gofynion ar gyfer y gyllideb net derfynol, sydd dal yr un fath fel y nodir yn Nhabl 2 isod:-

Tabl 2
Addasiadau i'r Cynnig Cychwynnol ar gyfer y Gyllideb

	£m	£m
Cynnig Terfynol Cyllideb Gwariant Refeniw Net 2022/23		158.365
Cyllidir gan:		
Grant Cymorth Refeniw	89.056	
Trethi Annomestig	25.493	
Cyfanswm Cyllid Allanol Cyfun (AEF)		114.549
Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol y Cyngor		0.000
Y Dreth Gyngor (yn cynnwys Premiwm y Dreth Gyngor)		43.816
Cyfanswm Cyllid		158.365

7.2 Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei setliad terfynol ar gyfer llywodraeth leol ar 2 Mawrth 2022, a fydd yn rhy hwyr i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried yn ei gynigion terfynol. Ni ragwelir y bydd unrhyw newid sylweddol rhwng y setliad dros dro a'r setliad terfynol, ond gwneir cyfrif am unrhyw newid trwy addasu lefel y gronfa hapddigwyddiadau gyffredinol os yw'r gwahaniaeth yn fach, neu drwy gyllido o / cyfrannu at falansau cyffredinol y Cyngor pe bai'r gwahaniaeth yn fwy. O'r herwydd, ni fydd lefel arfaethedig y Dreth Gyngor yn newid hyd yn oed os yw'r AEF terfynol yn wahanol i'r ffigwr a ddangosir yn y setliad dros dro.

8. Y DRETHGYNGOR

8.1 Y Dreth Gyngor ar gyfer Band D yn 2021/22 oedd £1,340.64, a oedd yn 17eg o'r 22 Awdurdod yng Nghymru ac yn is na'r cyfartaledd trwy Gymru, sef £1,430. Yn bwysicach fyth i Ynys Môn yw'r gymhariaeth â'r 5 awdurdod arall yng Ngogledd Cymru. Dangosir hyn yn Nhabl 3 isod:-

Tabl 3
Cymharu'r Dreth Gyngor a godir gan Awdurdodau yng Ngogledd Cymru

Awdurdod	Tâl Band D 2020/21 £	Swm yn uwch / is nag Ynys Môn £	Canran yn uwch / is nag Ynys Môn %
Ynys Môn	1,341		
Gwynedd	1,483	+ £142	+ 10.6%
Conwy	1,383	+ £42	+ 3.1%
Sir Ddinbych	1,437	+ £96	+ 7.2%
Sir y Fflint	1,394	+ £53	+ 4.0%
Wrecsam	1,319	- £22	- 1.6%

8.2 Y gyllideb ar gyfer y Dreth y Cyngor yn 2022/23 (cyn cynnydd yn y Dreth Gyngor ond ar ôl addasu ar gyfer y newid yn Sylfaen y Dreth Gyngor a'r premiwm) yw £41.14m. Felly, mae pob cynnydd o 1% yn cynhyrchu £411k ychwanegol

8.3 Ar ôl cymryd i ystyriaeth y setliad dros dro o £114.549m, byddai'r gofyniad cyllideb diwygiedig o £158.365m (gweler Tabl 2) yn golygu y byddai angen £42.957m o gyllid o'r Dreth Gyngor. Er mwyn cyllido'r gofyniad cyllideb diwygiedig, y cynnydd yn lefel y Dreth Gyngor fyddai 2.00%, gan fynd â'r tâl Band D i £1,367.46, sef cynnydd o £26.82 neu £0.51 yr wythnos.

8.4 Yn y setliad dros dro, gosodwyd yr elfen dreth safonol ar gyfer y Cyngor h.y. y ffigwr Dreth Gyngor safonol ledled Cymru, a ddefnyddir i bennu'r AEF ar gyfer pob Cyngor, ar £1,452.49, sydd 3.5% yn uwch na ffigwr yn 2021/22.

9. ASESU'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEBAU

9.1 Wrth ddarparu ei wasanaethau, mae'n rhaid i'r Cyngor fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 i asesu effaith penderfyniadau ariannol allweddol ar grwpiau gwarchoddedig a rhaid rhoi sylw dyledus i ganlyniad asesiad o'r fath

9.2 Ni fydd y gyllideb cyllidebol arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchoddedig a nodir yn y Rheoliadau ac, o ganlyniad, nid ystyrir bod angen cynnal unrhyw Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

10. DIWEDDARU'R STRATEGAETH ARIANNOL TYMORCANOL

10.1 Fel y nodwyd ym mharagraff 1.4, mae'r sefyllfa economaidd wedi newid yn sylweddol ers i'r Cyngor gymeradwyo'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol (SATC) ym mis Medi 2021. Mae'r setliad llywodraeth leol dros dro ar gyfer 2022/23 hefyd yn newid y strategaeth yn sylweddol. Mae'r cynnydd a ragwelir yn yr AEF yn rhoi tipyn mwy o sicrwydd ynglŷn â chyllid y Cyngor dros y ddwy flynedd nesaf, sy'n caniatáu i ni ddiweddarau'r SATC.

- 10.2** Y maes sy'n peri'r ansicrwydd mwyaf i'r SATC wrth symud ymlaen yw chwyddiant a'i effaith ar ddyfarniadau cyflog yn y dyfodol, ac fe all Covid a Brexit hefyd gael effaith sylweddol ar economi'r wlad ac, o ganlyniad, ar gyllid y Cyngor yn 2023/24 a thu hwnt a hefyd y galw am wasanaethau'r Cyngor.
- 10.3** Fodd bynnag, yn seiliedig ar fwyaf y rhagdybiaethau a oedd wedi'u cynnwys yn y SATC a gymeradwywyd ym mis Medi 2021 ond gan ddiweddarau'r rhagdybiaethau ar gyfer cyflogau, chwyddiant a'r AEF, amcangyfrif y bydd cyllideb y Cyngor yn cynyddu £3.3m yn 2023/24 a £3.6m yn 2024/25. Bydd yr AEF yn cynyddu £4m yn 2023/24 a £2.8m yn 2024/25.
- 10.4** Mae'r ffigyrau sydd i'w gweld ym mharagraff 10.3 yn seiliedig ar nifer o ragdybiaethau a all newid dros y misoedd nesaf ac fe all hyn newid y sefyllfa ariannol yn sylweddol ond, yn seiliedig ar yr uchod efallai y bydd cyfle pellach i ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau yn 2023/24, ond mae'r sefyllfa ariannol yn gwaethygu yn 2023/25. Fodd bynnag, nid yw'r SATC diwygiedig yn awgrymu na fydd y gyllideb ar gyfer 2022/23 yn fforddiadwy yn y blynyddoedd i ddod.
- 10.5** Cyflwynir y SATC wedi'i diweddarau i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2022.

11. CASGLIADAU

- 11.1** Mae'n bwysig bod y gyllideb a osodir yn gyraeddadwy ac yn adlewyrchu'n gywir y gofynion sy'n wynebu gwasanaethau ar hyn o bryd, er nodir y bydd ail-gyflwyno cyfyngiadau Covid yn cael effaith sylweddol ar gyllideb y Cyngor. Fodd bynnag mae'r gyllideb yn rhagweld na fydd y sefyllfa ddim gwaeth nac y mae ar hyn o bryd ac y bydd y cyfyngiadau'n parhau i gael eu llacio dros y misoedd nesaf.
- 11.2** Mae'r setliad llywodraeth leol yn well na'r disgwyl ac, er ei fod yn golygu bod rhaid i'r Cyngor neilltuo cyllid ar gyfer meysydd penodol, mae hefyd yn rhoi cyfle i'r Cyngor ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau sydd wedi cael eu heffeithio fwyaf gan y gostyngiadau yn y gyllideb dros y 10 mlynedd diwethaf.
- 11.3** Mae'r cyllid grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru wedi galluogi'r Cyngor i gryfhau ei sefyllfa ariannol a'i roi mewn sefyllfa ariannol gadarnach wrth symud i 2022/23 a thu hwnt. Mae bod amser risg y gall y galw am wasanaethau'r Cyngor gynyddu ac nad ydym wedi darparu ar eu cyfer yn y gyllideb, ond mae'r cynnydd yn y balansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn clustnodedig yn lliniaru'r risg yn sylweddol.
- 11.4** Felly, ym marn broffesiynol y Swyddog Adran 151, mae'r gyllideb refeniw ar gyfer 2022/23 yn cyflawni'r amcanion canlynol:-
- Sicrhau bod yr adnoddau ariannol a neilltuir i bob gwasanaeth yn ddigon i gwrdd â'r pwysau sydd ar eu cyllidebau ar hyn o bryd ac i gwrdd â'r galw am y swyddogaethau statudol y mae'n rhaid i'r gwasanaethau eu cyflawni.
 - Mynd i'r afael â'r pwysau ariannol sylfaenol yn y Gwasanaethau sydd wedi cael eu heffeithio fwyaf gan gynnydd yn y galw am wasanaethau: Addysg, Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Oedolion, a'n caniatáu i ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau sydd wedi cael eu heffeithio fwyaf yn ystod y cyfnod o galedi ariannol.
 - Gosod y Dreth Gyngor ar lefel sy'n debyg i asesiad Llywodraeth Cymru o faint y dylai Treth Gyngor Ynys Môn fod, ac ar lefel gyffelyb hefyd i'r Dreth Gyngor a godir gan awdurdodau eraill yng Nghymru sy'n debyg o ran eu maint a'u math.

12. ARGYMHELLIAD

- 12.1** Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r cynnig ar gyfer y gyllideb derfynol, fel y nodir ym Mharagraff 7, i gyfarfod llawn y Cyngor ar 10 Mawrth 2022.

Y CYNNIG TERFYNOL AR GYFER CYLLIDEB 2022/23 FESUL GWASANAETH

	Cyllideb Arfaethedig Terfynol 2022/23 £
Addysg a Diwylliant	57,268,324
Gwasanaethau Oedolion	29,963,922
Gwasanaethau Plant	11,715,110
Gwasanaethau Tai	1,914,489
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	17,562,513
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	4,619,800
Trawsnewid Corfforaethol	6,308,016
Adnoddau	3,428,949
Busnes y Cyngor	1,857,068
Rheoli Corfforaethol	735,469
Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaeth	135,373,660
Costau Corfforaethol a Democrataidd	3,029,952
Ad-daliadau i CRT	(800,000)
Ardollau	3,957,345
Cyllido Cyfalaf	7,208,908
Budd-daliadau a Roddwyd	109,239
Rhyddhad Trethi Dewisol	72,471
Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	6,304,169
Cyfanswm y Cyllidebau a Ddyrannwyd	155,255,744
Cronfa hapddigwyddiadau cyffredinol ac eraill	2,492,347
Pwysau Cyllideb (Cynhaliwyd i ddechrau fel Cyllideb Wrth Gefn)	616,830
Cyfanswm Cyllideb 2022/23	158,364,921
Cyllidir gan	
Grant Cymorth Refeniw	(89,056,039)
Trethi Annomestig	(25,492,959)
Y Dreth Gyngor (yn cynnwys Premiwm y Dreth Gyngor)	(43,815,923)
Arian wrth Gefn y Cyngor	0
Cyfanswm Cyllid	(158,364,921)
Gwahaniaeth Cyllideb i Gyllid	-

CYNGOR SIR YNYS MÔN

Adroddiad i:	CYNGOR SIR
Dyddiad:	10 MAWRTH 2022
Pwnc:	CYLLIDEB GYFALAF DERFYNOL AR GYFER 2022/23
Aelod(au) Portffolio:	Y CYNGHORYDD R WILLIAMS
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	MARC JONES
Awdur yr Adroddiad: Ffôn: E-bost:	MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151 01248 752601 rmjfi@ynysmon.gov.uk
Aelodau Lleol:	Amherthnasol

A – Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

Mae'n gofyn i'r Cyngor Llawn cymeradwyo cyllideb gyfalaf ar gyfer 2022/23.

2. ARGYMHELLION

2.1 Argymell y rhaglen gyfalaf a ganlyn ar gyfer 2022/23 i'r Cyngor llawn:-

	Cyf. (yn yr Adroddiad Cyllideb Gyfalaf ddrafft 2022/23, Pwyllgor Gwaith, 24 Ionawr 2022)	£'000
Cynlluniau 2021/22 a ddygwyd ymlaen	Para 4.1 a Thabl 2	1,322
Adnewyddu / Amnewid Asedau	Para 4.2.	5,042
Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd	Para 5.2 a Thabl 3	1,432
Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd (wedi'u cyllido o Gronfeydd Wrth Gefn a Benthycyca Digefnogaeth)	Para 5.3 a Thabl 4	783
Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif	Para 6	8,598
Cyfrif Refeniw Tai	Para 7	18,784
Cyfanswm y Rhaglen Gyfalaf a Argymhellir ar gyfer 2022/23		35,961
Cyllidir gan:		
Grant Cyfalaf Cyffredinol		1,486
Benthycyca â Chefnogaeth Cyffredinol		2,157
Balansau Cyffredinol		1,681
Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif - Benthycyca â Chefnogaeth		1,168
Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif – Benthycyca heb Gymorth		5,261
Cronfa Wrth Gefn y CRT a Gwarged yn ystod y Flwyddyn		10,099
CRT – Benthycyca Digefnogaeth		6,000
Derbyniadau Cyfalaf		600
Grantiau Allanol		4,854
Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig		1,195
Cronfa Gyffredinol – Benthycyca Digefnogaeth		138
Cyllid 2021/22 a ddygwyd ymlaen		1,322
Cyfanswm Cyllid Cyfalaf 2022/23		35,961

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Mae nifer o gynlluniau ychwanegol i'w hystyried yn y rhaglen gyfalaf, a'r prif ystyriaethau o ran cyllido yw fforddiadwyedd a manteisio i'r eithaf ar gyllid grant allanol.

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Cyngor Sir?

Mae Cyfansoddiad yr Cyngor yn nodi fod penderfynnu ar y gyllideb yn mater i'r Cyngor Llawn ag nad ydi yn gallu cael i ddirprwyo.

CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Amherthnasol

Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):

1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel Ynys?	Mae'r gyllideb gyfalaf yn sicrhau cyllid i gynnal asedau'r Cyngor ac mae'n rhan o'r strategaeth i gyflawni'r amcanion a nodir yng nghynllun corfforaethol y Cyngor.
2	A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?	Bydd parhau i gynnal asedau'r Cyngor yn atal costau uwch yn y dyfodol.
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod â phwy.	Mae prosiectau cyfalaf mewn perthynas â Rhaglen Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif a'r CRT yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru.
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan yn y gwaith o ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut.	Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar y gyllideb cyfalaf cyn i'r Cyngor ei chymeradwyo'n derfynol ym mis Mawrth 2022.
5	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Mae'r gyllideb gyfalaf yn sicrhau cyllid i gynnal asedau'r Cyngor ac mae'n ffurfio rhan o'r strategaeth i gyflawni'r amcanion a nodir yng nghynllun corfforaethol y Cyngor.
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	Heb ganfod dim.
7	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Heb ganfod dim.

E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (gorfodol)	Mae sylwadau'r UDA wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad.
2	Cyllid / Swyddog Adran 151 (gorfodol)	Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn.
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	Mae'r Swyddog Monitro'n aelod o'r UDA ac ystyriwyd unrhyw sylwadau wrth drafod yr adroddiad hwn yn yr UDA.
4	Adnoddau Dynol (AD)	Bydd unrhyw gynigion sy'n effeithio ar staff wedi cael eu nodi a'u trafod gyda'r Tîm AD.
5	Eiddo	Bydd unrhyw gynigion sy'n effeithio ar eiddo'r Cyngor a chyllidebau cysylltiedig wedi cael eu nodi a'u trafod â'r Tîm Eiddo.
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	Bydd unrhyw gynigion sy'n effeithio ar systemau technoleg gwybodaeth y Cyngor a chyllidebau cysylltiedig wedi cael eu trafod â'r Tîm TGCh.
7	Sgriwtini	Penderfynwyd yr Pwyllgor Archwilio ar 28 Chwefror 2022 i argymhell i'r Cyngor Sir dderbyn y gyllideb cyfalaf
8	Aelodau Lleol	Mae'r cynigion yn berthnasol i'r holl Aelodau.
9	Unrhyw gyrff allanol / eraill	
F – Atodiadau:		
Atodiad 1 – Adroddiad ar y Gyllideb Gyfalaf 2022/23 Atodiad 2 - Cyllideb Gyfalaf Arfaethedig Derfynol 2022/23		
FF – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):		
Adroddiad Strategaeth Cyfalaf – Cyngor llawn, 9 Mawrth 2021 Cyllideb Gyfalaf 2021/22 – Cyngor llawn, 9 Mawrth 2021		

1. RHAGARWEINIAD

- 1.1. Yn ei gyfarfod ar 24 Ionawr 2022, argymhellodd y Pwyllgor Gwaith fod y Rhaglen Gyfalaf ddrafft a ganlyn ar gyfer 2022/23, ac a welir yn Nhabl 1 isod, yn cael ei chymeradwyo. Mae'r Gyllideb Gyfalaf ddrafft ar gyfer 2022/23, a nodir yn Nhabl 1 isod, yn ystyried yr egwyddorion a nodir yn y Strategaeth Gyfalaf a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Mawrth 2021 a'r Cyngor llawn ym mis Mawrth 2021. Mae hefyd yn bodloni egwyddorion y Strategaeth Gyfalaf Ddrafft 2022/23, fydd yn cael ei hystyried ochr yn ochr â'r Rhaglen Gyfalaf hon, ac a gyflwynir i'r Cyngor llawn ar 10 Mawrth 2022.

Tabl 1

**Crynodeb o'r Rhaglen Gyfalaf a Argymhellir ar gyfer 2022/23
a Argymhellwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 24 Ionawr 2022**

	Cyf. (yn yr Adroddiad Cyllideb Gyfalaf ddrafft 2022/23, Pwyllgor Gwaith, 24 Ionawr 2022)	£'000
Cynlluniau 2021/22 a ddygwyd ymlaen	Para 4.1 a Thabl 2	1,322
Adnewyddu / Amnewid Asedau	Para 4.2.	5,042
Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd	Para 5.2 a Thabl 3	1,432
Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd (wedi'u cyllido o Gronfeydd Wrth Gefn a Benthycyca Digefnogaeth)	Para 5.3 a Thabl 4	783
Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif	Para 6	8,598
Cyfrif Refeniw Tai	Para 7	18,784
Cyfanswm y Rhaglen Gyfalaf a Argymhellir ar gyfer 2022/23		35,961
Cyllidir gan:		
Grant Cyfalaf Cyffredinol		1,486
Benthycyca â Chefnogaeth Cyffredinol		2,157
Balansau Cyffredinol		1,681
Drwy ddilyn arferion rheoli rhaglenni a phrosiectau, byddwn yn sicrhau bod camau gweithredu'r Cynllun yma yn cael eu cyflawni.

Mae cyfleoedd cyllido allanol sylweddol (grantiau a benthyciadau) eisoes ar gael i weithredu ac i gyflawni cynlluniau sy'n ymateb i newid hinsawdd ac yn galluogi datgarboneiddio.

Rhaid i'r Cyngor fod yn uchelgeisiol, yn ddyfeisgar ac yn rhagweithiol ar lefel gorfforaethol ac ar lefel gwasanaethau i fanteisio'n llawn ar bob cyfle sydd ar gael i sicrhau adnoddau ychwanegol.

Lleihau Defnydd Ynni ac Effeithlonrwydd ynni

Pam mae hyn yn bwysig

Mae gan y Cyngor Sir portffolio eang ac amrywiol o adeiladau ac asedau sy'n cynnwys:

- swyddfeydd
- depos
- ysgolion
- canolfannau hamdden
- unedau busnes
- tai cymdeithasol ar draws yr Ynys.

Mae'r portffolio'n amrywio o adeiladau newydd ac ynni-effeithlon i adeiladau hen ac aneffeithlon, gydag allyriadau carbon sylweddol yn gysylltiedig â'u rhedeg, yn enwedig eu gwresogi.

Ynni yw un o'r allyriadau mwyaf y gall y Cyngor eu rheoli ac mae nifer o gyfleoedd i wneud arbedion. Gall defnyddio llai o ynni, a bod yn fwy effeithlon wrth ei ddefnyddio, lleihau allyriadau carbon (sgôp 1 a 2) gan arwain at arbedion ariannol a darparu gwasanaethau'n gynaliadwy.

Bydd y maes rhaglen hwn yn cyflawni gwelliannau ychwanegol ar berfformiad ynni adeiladau ac asedau'r Cyngor (o ran defnyddio llai o ynni a'i ddefnyddio'n fwy effeithlon) i sicrhau y defnyddir llai o ynni a bod yr ynni wedi'i ddatgarboneiddio.

Mae'r Cyngor yn wynebu her mynd i'r afael ag effeithlonrwydd ynni ei stoc tai cymdeithasol sy'n cael ei gyfrif dan Sgôp 3 – allyriadau asedau ar brydles.

Fel landlord, nid yw'r Cyngor yn gallu rheoli faint o ynni a gwres mae ei denantiaid yn eu defnyddio. Fodd bynnag, mae gennym ddyletswydd i sicrhau bod ein tai mor ynni-effeithlon â phosib.

Bydd ôl-osod mesurau ynni yn ein stoc tai cymdeithasol i'w gwneud yn fwy ynni-effeithlon yn arwain at leihau allyriadau carbon a gwella canlyniadau ariannol, iechyd a lles i'n tenantiaid.

Yn ogystal â gwneud ein hasedau'n fwy ynni-effeithlon, bydd pob datblygiad newydd hefyd yn cael ei adeiladu i safonau carbon-niwtral o leiaf.

Beth rydym am ei wneud

- ❖ Sicrhau bod effaith portffolio asedau'r Cyngor ar yr hinsawdd yn cael ei deall yn llawn.
- ❖ Datblygu cynlluniau i ddatgarboneiddio'r ystâd adeiledig i fod yn garbon-niwtral.
- ❖ Sicrhau bod holl adeiladau newydd y Cyngor yn cyrraedd safonau carbon-niwtral (o leiaf).
- ❖ Datblygu gwaelodlin gynhwysfawr ar gyfer stoc tai'r Cyngor i sicrhau bod gennym ddata allyriadau cynhwysfawr i gefnogi penderfyniadau yn y dyfodol.
- ❖ Cyflawni cynlluniau ôl-osod i wella effeithlonrwydd ynni ac i ddatgarboneiddio ein stoc tai.

Beth fydd yr effaith ar ein hallyriadau carbon?

Drwy sicrhau bod ein portffolio asedau'n defnyddio llai o ynni ac yn ei ddefnyddio'n fwy ynni-effeithlon, byddwn yn lleihau allyriadau carbon ymhellach.

Wrth gysylltu gyda'r waelodlin, bydd camau gweithredu o fewn y maes rhaglen yma'n cael effaith gadarnhaol ar leihau cyfanswm allyriadau'r Cyngor ac wedi ei gynnwys o fewn fframwaith monitro y Cynllun Sero Net.

Trafnidiaeth

Pam mae hyn yn bwysig

Mae gan y Cyngor 190 o gerbydau fflyd. Mae'r rhain yn amrywio o geir bach i faniau mawr a bysiau mini – mae'r rhan fwyaf ohonyn nhw'n dal i redeg ar danwyddau ffosil fel diesel ac LPG (ac eithrio 13 o gerbydau trydan).

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan, lle bo hynny'n ymarferol bosib, bod angen i'r holl geir a cherbydau nwyddau ysgafn newydd sy'n cael eu defnyddio gan y sector cyhoeddus fod yn garbon-niwtral o 2025 ymlaen, a'r holl gerbydau nwyddau trwm o 2030 ymlaen.

Mae allyriadau o gerbydau yn perthyn i sgôp 1, felly mae lleihau'r allyriadau cyffredinol yn sylweddol yn flaenoriaeth. Bydd hyn yn cael ei wneud drwy fuddsoddi i drawsnewid yr fflyd o gerbydau tanwyddau ffosil i fod yn gerbydau carbon isel iawn (e.e. hydrogen neu drydan).

Wrth i'r Cyngor a'r cyhoedd ddefnyddio cerbydau trydan yn amlach, bydd buddsoddi yn y seilwaith gwefru'n dod yn hollbwysig i sicrhau bod defnyddio'r cerbydau hyn yn gynaliadwy.

Daw allyriadau carbon o drafnidiaeth hefyd oddi wrth staff yn cymudo a thrafnidiaeth gymunedol (sy'n cael ei gyfrif dan sgôp 3) ac mae hi'n gallu bod yn anodd lleihau'r rhain. Mae ymateb i bandemig Covid-19 wedi dangos bod modd defnyddio trefniadau gweithio amgen, fel gweithio gartref neu weithio hybrid, i helpu i leihau allyriadau carbon.

Bydd datblygu atebion teithio llesol a buddsoddi i hyrwyddo'r atebion hyn yng nghanol ein trefi ac yn ein cymunedau'n allweddol i ddatblygu teithio cynaliadwy ar draws Ynys Môn.

Fel un a fabwysiadodd dechnoleg newydd i leihau ei allyriadau carbon, mae gan y Cyngor hefyd rôl arweiniol i ddangos i'r gymuned sut gall gwasanaethau newid i fod yn garbon isel / di-garbon.

Beth rydym am ei wneud

- ❖ Lleihau'r angen i deithio'n gyffredinol drwy gofleidio model gweithio rhithiol a hybrid (lle gallwn).
- ❖ Cefnogi datblygiad ffyrdd amgen ac arloesol o weithio a theithio (e.e. datblygu atebion EV cymunedol a thrafnidiaeth gyhoeddus a'u gwneud yn fwy hygyrch).
- ❖ Hyrwyddo mwy o deithio llesol ar draws cymunedau'r Ynys i leihau allyriadau sy'n deillio o gymudo a theithio.
- ❖ Buddsoddi mewn canol trefi i hwyluso pob math o deithio cynaliadwy er mwyn tynnu allyriadau o gymudo a theithio.
- ❖ Gweithredu cynlluniau i drawsnewid ein fflyd ymhellach o rai tanwydd ffosil i rai carbon isel / di-garbon.
- ❖ Cefnogi'r trawsnewid at gerbydau trydan drwy ddatblygu seilwaith gwefru newydd ar draws yr Ynys.

Beth fydd yr effaith ar ein hallyriadau carbon?

Bydd lleihau teithio ac allyriadau o gerbydau'r Cyngor yn lleihau ein hallyriadau sy'n cael eu cyfrif dan sgôp 1 (bydd hyn yn un o brif flaenoriaethau'r Cyngor).

Gan gysylltu i'r waelodlin, bydd y camau gweithredu a nodir o dan y maes rhaglen hwn yn effeithio ar allyriadau cyffredinol y Cyngor ac yn cael eu cynnwys yn y fframwaith monitro sy'n ategu'r Cynllun Sero Net.

Defnydd Tir a Bioamrywiaeth

Pam mae hyn yn bwysig

Mae gan y Cyngor bortffolio tir amrywiol, gan gynnwys:

- tyddynnod amaethyddol
- tomenni sbwriel
- tir pori
- llecynnau bach o dir (o gwmpas swyddfeydd, adeiladau ac ysgolion).

Bydd sut caiff tir ei ddefnyddio yn penderfynu a yw'n cyfrannu at ddatgarboneiddio neu'n cynyddu ein hallyriadau.

Bydd datblygu ein defnydd o dir, cynllun rheoli a'n polisïau ar gyfer dal a storio mwy o garbon i gyd yn allweddol i gefnogi'r nod o gyflawni statws carbon-niwtral.

Nod y Cynllun fydd cefnogi Cynllun Bioamrywiaeth y Cyngor i sicrhau ein bod yn gwneud popeth gallwn ni i wella bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol ar draws Ynys Môn. Bydd hefyd yn lliniaru effeithiau newid hinsawdd dros y tymor hir.

Mae'r Cynllun hefyd yn ceisio cynyddu nifer o goed sydd ar draws yr Ynys i gynyddu potensial y tir fel sinc carbon. Mi fydd yn bwysig sicrhau bod cynlluniau coetiroedd a phlannu coed yn cael eu darparu'n gynaliadwy fel eu bod yn addas i'r cynefin lleol.

Amcan hir dymor y maes rhaglen hwn yn tynnu allyriadau o'r atmosffer drwy 'gloi' carbon drwy ddulliau dal a storio carbon.

Bydd y Cyngor hefyd yn cefnogi cymunedau ar draws yr Ynys i ymateb i'r argyfwng hinsawdd (e.e. drwy'r agenda 'llunio lle' a seilwaith gwyrdd).

Lle bo angen, bydd y Cyngor yn gweithio i ddarparu prosiectau wedi'u targedu i lliniaru effeithiau newid hinsawdd drwy wella mesurau amddiffyn rhag llifogydd ar draws Ynys Môn.

Beth rydym am ei wneud

- ❖ Gwella amrywiaeth bioamrywiaeth ar dir y Cyngor
- ❖ Datblygu a chyflwyno cynllun i wella ac i gynyddu faint o goed sydd ar dir y Cyngor
- ❖ Mabwysiadu a gweithredu cynllun rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol newydd a fydd yn cyd-fynd â nod ac amcanion sero net y Cyngor.
- ❖ Mabwysiadu a gweithredu Cynllun Rheoli Cyrchfannau newydd sy'n cyd-fynd â'r ymddygiad a'r seilwaith a amlinellir yn nod ac amcanion sero net y Cyngor.
- ❖ Cefnogi datblygu seilwaith cyhoeddus gwyrdd newydd yng nghanol trefi ac mewn trefi a phentrefi arfordirol poblogaidd.
- ❖ Annog ein cymunedau i ymateb i'r argyfwng hinsawdd drwy'r agenda 'llunio lle'.
- ❖ Datblygu a gweithredu prosiectau i wella mesurau amddiffyn rhag llifogydd.

Beth fydd yr effaith ar ein hallyriadau carbon

Bydd darparu'r rhaglen defnydd tir a bioamrywiaeth yn lleihau allyriadau cyffredinol y Cyngor drwy brosiectau carbon-bositif (e.e. gwella bioamrywiaeth a chynyddu nifer y coed).

Addasiadau Sefydliadol

Pam mae hyn yn bwysig

Ni fydd lleihau allyriadau carbon y Cyngor o'i adeiladau a'i fflyd yn unig yn ddigon i gyflawni statws carbon sero-net.

Bydd angen i'r Cyngor addasu a newid sut mae'n gweithio os yw am leihau gymaint o'i allyriadau carbon â phosib. Rhaid gwneud hyn heb effeithio'n negyddol ar ei weithgareddau nac ar ei wasanaethau.

Rhaid i'r Cyngor weld moderneiddio a newid fel cyfle gan hefyd weithio'n gydweithredol ar draws y Cyngor a gyda chymunedau lleol, partneriaid rhanbarthol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru.

Bydd Addasiadau Sefydliadol yn canolbwyntio ar newid diwylliant, gwerthoedd ac arferion gweithio. Bydd yn broses hirdymor a fydd yn gofyn am arweinyddiaeth, ymrwymiad ac ymdrech.

Bydd rhai newidiadau efallai'n digwydd yn sydyn, er enghraifft:

- gwreiddio blaenoriaethau carbon isel yn y broses gaffael.
- ymgysylltu â chyflenwyr a phartneriaid i'w helpu i ddechrau trawsnewid at sero net.

Mae ymateb ac addasu'n ddi-oed i bandemig Covid-19 wedi dangos bod newid yn bosib. Bydd y Cynllun Tuag at Sero Net yn ceisio defnyddio'r gwersi sydd wedi cael eu dysgu o'r ymateb hwnnw i'n cynorthwyo i gyflwyno'r newid sefydliadol sydd ei angen.

Beth rydym am ei wneud

- ❖ Darparu cynllun cyfathrebu i ddylanwadu a chodi ymwybyddiaeth yn y Cyngor ynghylch pam a sut gall newidiadau bach gael effaith fawr.
- ❖ Darparu rhaglen llythrennedd carbon a hyfforddiant cysylltiedig.
- ❖ Gweithio gydag ysgolion i hwyluso addysg ac ymwybyddiaeth o newid hinsawdd gan hybu gweithredu lle bo'n bosib.
- ❖ Gwreiddio gweithio'n rhithiol ac yn hybrid yn niwylliant y sefydliad mewn ffordd effeithiol.
- ❖ Hyrwyddo, dathlu a chydabod cynnydd, llwyddiannau ac arferion da.
- ❖ Cydweithredu gyda, a dysgu oddi wrth bartneriaid a rhanddeiliaid.
- ❖ Adolygu a diweddarau polisïau, prosesau ac arferion mewnol ffurfiol i sicrhau bod newidiadau a phenderfyniadau ar bob lefel yn ystyried eu heffaith ar nod y Cyngor i fod yn sero net.
- ❖ Adolygu a diweddarau polisïau a phrosesau caffael (gan gynnwys y trefniadau monitro ac adrodd).

Beth fydd yr effaith ar ein hallyriadau carbon?

Bydd addasiadau sefydliadol yn cyfrannu'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol at leihau allyriadau carbon cyffredinol y Cyngor. Bydd rhai camau'n cael effaith anuniongyrchol ar allyriadau drwy hwyluso neu hybu gweithredu ar newid hinsawdd (e.e. cyfathrebu, codi ymwybyddiaeth, polisi ac integreiddio sero net yn ein gwaith o ddydd i ddydd).

Bydd camau eraill yn gallu cael effaith gadarnhaol drwy leihau allyriadau anuniongyrchol ac allyriadau ein cadwyn gyflenwi, er enghraifft;

- hyfforddiant llythrennedd carbon.
- datblygu gweithio hybrid.
- deall yn well sut mae'r ffordd rydym yn caffael nwyddau a gwasanaethau yn gallu cael effaith gadarnhaol.

Bydd effaith y camau gweithredu dan y maes rhaglen hwn yn cael ei fesur yn erbyn allyriadau cyffredinol y Cyngor ac yn cael ei gynnwys yn y fframwaith monitro sy'n ategu'r Cynllun Sero Net.

Llywodraethiant, Data, Monitro ac Adrodd

Pam mae hyn yn bwysig

Rhaid i holl swyddogion y Cyngor a'i aelodau etholedig ymdrechu ar y cyd er mwyn llwyddo i gyflawni'r Cynllun Tuag at Sero Net.

Bydd yn rhaid cael trefniadau effeithiol i reoli rhaglenni a phrosiectau er mwyn llwyddo i gyflawni'r Cynllun. Bydd hyn yn sicrhau bod yr ymyriadau a nodir dan bob maes rhaglen yn cael eu cyflawni o fewn y cerrig milltir perthnasol a'r adnoddau sydd ar gael.

Bydd cyrraedd y nod o fod yn Gyngor sero net erbyn 2030 hefyd yn dibynnu ar:

- rheoli data'n effeithiol ac yn effeithlon.
- monitro data ac adrodd ar ddata (i ddangos cynnydd a chanfod meysydd i'w datblygu ymhellach).

Bydd sicrhau bod gennym system effeithiol a thrylwyr i reoli data yn helpu'r Cyngor i adnabod pa allyriadau mae angen eu blaenoriaethu ac ar beth mae angen gwario adnoddau i gael yr effaith fwyaf.

Bydd datblygu systemau rheoli data'n gwella cywirdeb a chadernid gwaelodlin allyriadau carbon y Cyngor ac yn helpu i fonitro'r gostyngiad mewn allyriadau o ganlyniad i'r Cynllun hwn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau gofyn am ddata gwaelodlin gan holl Gyngorau Cymru er mwyn llunio gwaelodlin flynyddol ar gyfer y sector cyhoeddus. Mae'r data sy'n cael ei gasglu ar hyn o bryd ar gyfer Llywodraeth Cymru'n cynnwys allyriadau 2019/20 a 2020/21.

Bydd allyriadau sgôp 1 a 2 yn cael eu cyfrif fel data defnydd tir a gweithredol, gyda sgôp 3 o allyriadau'r gadwyn gyflenwi. Felly mae'n hollbwysig bod gwelliant mewn systemau rheolaeth data wedi ei gyflawni.

Hefyd, bydd angen trefniadau cadarn i adrodd ar gynnydd yn y meysydd rhaglen i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli a bod cyfleoedd i ychwanegu gwerth yn cael eu canfod a'u defnyddio.

Bydd pob maes rhaglen yn cael ei arwain gan uwch-berchennog cyfrifol; bydd y prosiectau a'r ymyriadau ym mhob ffrwd waith yn cyfrannu at ein nod cyffredinol o fod yn Gyngor sero net.

Bydd Bwrdd Rhaglen yn cael ei sefydlu i gefnogi ac i oruchwylio'r Cynllun Tuag at Sero Net yn strategol, fel y nodir isod.

Beth rydym am ei wneud

- ❖ Sicrhau bod y Cynllun yn cael ei wreiddio yn y trefniadau sydd eisoes ar waith o ran darparu, rheoli, perfformiad ac adrodd a hynny'n gorfforaethol ac o ran gwasanaethau.
- ❖ Sefydlu Bwrdd Rhaglen.
- ❖ Integreiddio'r camau gweithredu yn y gwahanol Gynlluniau Darparu Gwasanaeth.
- ❖ Sicrhau bod swyddogion ac aelodau etholedig yn gallu cael gafael ar ddata amser-real ar gynnydd a newid.
- ❖ Creu gwaelodlin fanwl a thrylwyr ar allyriadau carbon, a'i diweddarau bob chwarter.
- ❖ Datblygu systemau rheoli data er mwyn gallu monitro ac adrodd.
- ❖ Sefydlu targedau blynyddol gyda systemau adrodd a dangosfyrdau data awtomataidd.

- ❖ Datblygu gwaelodlin fanwl o allyriadau carbon ar gyfer asedau ar brydles (e.e. tai cymdeithasol a thyddynnod).
- ❖ Sicrhau bod holl wasanaethau'r Cyngor yn ymwybodol o'u sefyllfa allyriadau carbon ac yn ystyried sut mae gwella hynny fel rhan o brosesau rheoli rheolaidd.

Beth fydd yr effaith ar ein hallyriadau carbon?

Ni fydd rheoli data'n well yn cael effaith uniongyrchol ar y waelodlin allyriadau carbon. Fodd bynnag, bydd yn gwella ein dealltwriaeth o allyriadau cyffredinol y Cyngor er mwyn gallu blaenoriaethu a gwneud penderfyniadau effeithiol. Bydd hefyd yn ei gwneud hi'n haws adrodd a monitro am y cynnydd yn rheolaidd.

Agwedd Ariannol Newid Hinsawdd

Bydd gweithredu'r strategaeth newid hinsawdd yn effeithio ar gyllideb refeniw a chyllideb gyfalaf y Cyngor.

Ar hyn o bryd mae'r gyllideb refeniw'n cynnwys darpariaeth i dalu am gyflogi'r Rheolwr Newid Hinsawdd ac yn cynnwys swm o £50k i dalu am gostau refeniw eraill sy'n gysylltiedig â gweithredu'r strategaeth. Wrth i'r strategaeth gael ei gweithredu, mae'n annhebygol y bydd £50k yn ddigon a bydd angen mwy o arian refeniw.

Fodd bynnag, y prif wariant fydd prosiectau cyfalaf. Ar hyn o bryd mae'r arian cyfalaf a gafwyd gan Lywodraeth Cymru drwy'r setliad Llywodraeth Leol yn £3.6m yn 2022/23 ond nid yw hyn yn ddigon i fuddsoddi i gynnal asedau presennol y Cyngor, heb sôn am fuddsoddi i weithredu'r Cynllun Tuag at Sero Net. Mae rhywfaint o sgôp i fenthycy'n allanol i ariannu prosiectau ond rhaid gwneud hyn yn unol â gofynion y Cod Materion Ariannol ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol, sy'n gofyn bod y Cyngor yn sicrhau bod unrhyw arian a fenthycir yn fforddiadwy ac na fydd yn straen ariannol afresymol mewn blynyddoedd i ddod. Gallai prosiectau sy'n creu arbedion cost refeniw, neu'n golygu y gallai'r Cyngor osgoi costau yn y dyfodol, gael eu hariannu drwy fenthyciadau allanol.

Yng nghyllideb gyfalaf 2022/23, cafodd £200k ei neilltuo ar gyfer prosiectau 'gwyrd' mewn ardaloedd arfordirol, wedi'i ariannu o gronfa wedi'i chlustnodi. Ar ôl y buddsoddiad hwn, dim ond £300k sydd ar ôl yn y gronfa wedi'i chlustnodi.

Er mwyn gweithredu prosiectau cyfalaf ar y raddfa angenrheidiol, bydd angen arian allanol gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a rhaid aros i weld a fydd y rhain yn grantiau 100% neu a fydd angen elfen o arian cyfatebol gan y Cyngor. Beth bynnag fydd lefel y cyllid a dderbyniwn, bydd angen i'r Cyngor fod yn barod gyda phrosiectau hyfyw wedi eu costio i fanteisio ar unrhyw grantiau. Mae'n debyg y bydd yr holl arian grant neu rywfaint ohono'n cael ei ddyfarnu ar sail gystadleuol, gyda'r ddwy Lywodraeth yn ceisio ariannu prosiectau sy'n cyfrannu gymaint â phosib at eu hamcanion newid hinsawdd. I sicrhau bod gennym brosiectau hyfyw, bydd angen arian refeniw ychwanegol i greu'r capasiti sy'n ofynnol.

Bydd datgarboneiddio stoc tai'r Cyngor hefyd yn chwarae rôl bwysig mewn cyflawni amcanion y Cynllun Tuag Sero Net. Amcangyfrifir y bydd ôl-osod mesurau mewn 3,800 o dai i leihau eu hól-troed carbon yn costio £60m. Bydd Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai y Cyngor yn cael ei ddiweddarau i ystyried y buddsoddiad ychwanegol angenrheidiol hwn sydd i'w ariannu o adnoddau'r Cyfrif Refeniw Tai ei hun a thrwy fenthyciadau allanol. Bydd buddsoddi mewn eiddo newydd yn ystyried gofynion y strategaeth hon wrth ddylunio unrhyw ddatblygiadau tai ond eto daw hyn gyda chost ychwanegol fydd yn rhaid ei hariannu gan y Cyfrif Refeniw Tai.

This page is intentionally left blank

Cyngor Sir Ynys Môn	
Adroddiad i:	Cyngor Sir
Dyddiad:	10 Mawrth, 2022
Pwnc / Testun:	Ymateb i'r Her Dai Lleol Strategaeth Tai 2022-27
Deilydd(ion) Portffolio:	Y Cynghorydd Alun Mummery
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	Ned Michael
Awdur yr Adroddiad: Tel: E-bost:	Elliw Llŷr, Rheolwr Strategaeth, Polisi a Chomisiynu, Gwasanaethau Tai 01248 752137 ElliwLlŷr@ynysmon.gov.uk
Aelodau Lleol:	

A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau
<p>A1 Gofynnir i'r Cyngor Sir gymeradwyo'r Strategaeth Tai 2022-27</p> <p>1. Cefndir</p> <p>a) Rôl y Strategaeth</p> <p>Mae cyfrifoldeb statudol ar y Cyngor i asesu'r angen am dai ac i arwain ar waith partneriaeth i sicrhau tai o safon sy'n cwrdd ag anghenion ei ddinasyddion yn awr ac yn y dyfodol.</p> <p>Y Strategaeth Tai yw gweledigaeth y Cyngor ar gyfer sut y gellid gwella tai ar gyfer pobl Ynys Môn dros gyfnod o bum mlynedd ac mae'n cynnwys y blaenoriaethau ar gyfer cyflawni hynny. Bydd y Strategaeth yn sicrhau cyd-ddealltwriaeth o'r anghenion tai ar yr ynys, y materion y mae angen rhoi sylw iddynt a'r prif ganlyniadau y mae'r Cyngor yn dymuno eu cyflawni.</p> <p>b) Sefyllfa Gyfredol</p> <p>Mae'r Strategaeth Tai Interim 2021 yn cydnabod y newidiadau sydd wedi ein hwynebu yn ystod y flwyddyn gan flaenoriaethau'r hyn sydd oedd angen digwydd yn ystod y flwyddyn ynghyd ag gwybodaeth ar sut mae Gwasanaethau Tai a'i bartneriaid yn ymateb i bandemig y coronafeirws ac yn parhau i ymateb iddo.</p> <p>Mae hefyd yn fodd i bontio'r cyfnod i ddatblygu Strategaeth Dai a fydd yn cynnwys gofynion y Strategaeth Rhaglen Grant Cymorth Tai 2022-26.</p>

2. Amcanion Allweddol

Defnyddiwyd blaenoriaethau'r Strategaeth bresennol ar gyfer y Strategaeth Dros Dro a fydd hefyd yn sail ar gyfer ein blaenoriaethau ar gyfer 2022-27. Sef:

- Thema 1 - Codi'r cartrefi priodol ar gyfer dyfodol Môn
- Thema 2 – Gwneud y defnydd gorau o'r stoc tai presennol a gwella tai a chymunedau
- Thema 3 – Atal argyfwng tai a chynyddu opsiynau tai
- Thema 4 – Cefnogaeth i hyrwyddo annibyniaeth tai
- Thema 5 – Cartrefi ar gyfer byw'n hirach
- Thema 6 – Mae tai yn cyfrannu at yr economi leol

3. Ymgynghori

Rhodddwyd y Strategaeth ar wefan y Cyngor ar gyfer ymgynghori ar gyfer sylwadau yn ystod cyfnod o 6 wythnos a ddaeth i ben ar 20 Rhagfyr, 2021. Cafwyd 25 o ymatebion drwy'r cwestiynau ymgynghori, gyda'r ymatebion a gafwyd gan amrywiaeth o randdeiliaid. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn aelodau o'r cyhoedd yn byw ar Ynys Môn.

Gofynnodd yr ymgynghoriad:

- Ydi'r Strategaeth Dai 2022-27 wedi adnabod y materion a'r blaenoriaethau pwysicaf sydd angen sylw gan Gyngor Sir Ynys Môn yn ystod cyfnod y Strategaeth?
- Oes yna unrhyw faterion eraill sydd angen sylw gan Gyngor Sir Ynys Môn?
- A ydych yn cytuno gyda'r gweithredoedd tymor byr, canolig a hir dymor sydd wedi eu hadnabod mewn ymateb i brif themâu'r Strategaeth?
- Unrhyw sylwadau pellach sy'n ymwneud a'r Strategaeth Dai 2022-27?

Gyda'r mwyafrif, 60%, yn cytuno bod y Strategaeth wedi nodi'r materion a'r blaenoriaethau pwysicaf gyda sylwadau a gymerwyd gan y 9 nad oeddent yn cytuno mae'r fersiwn ddiwygiedig o'r Strategaeth yn cynnwys rhagor o fanylion / eglurhad ar sylwadau a oedd yn berthnasol i'r Strategaeth hon.

Roedd 5 ymatebydd yn cynnwys sylwadau ar y camau gweithredu tymor byr, canolig a hir a nodwyd ac a ymgorfforwyd, lle y bo'n berthnasol, o fewn y fersiwn ddiwygiedig.

Cyhoeddwyd Arolwg o Anghenion Tai'r un pryd â'r ymgynghoriad; diben yr holiadur hwn oedd casglu barn pobl sy'n chwilio am gartref ar Ynys Môn. Derbyniwyd 66 o ymatebion gyda 57 o'r ymatebwyr yn chwilio am gartref ar yr Ynys ar hyn o bryd. Mae 69% o'r ymatebwyr yn chwilio am gartref i'w brynu.

Roedd llawer, 21, yn rhentu'n breifat gyda 23 yn chwilio am gartref cyntaf ac 16 angen cartref mwy. Roedd 44 yn awyddus i brynu a 37 yn awyddus i brynu ar y farchnad agored gyda 14 yn dangos diddordeb mewn rhent cymdeithasol. Defnyddiwyd gwybodaeth o'r arolwg hwn ar gyfer datblygu Polisi Ecwiti a Rennir a bydd yn cyfrannu at ein gwaith ar gwblhau'r Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol yn ystod y flwyddyn nesaf.

4. Cynllun Cyfathrebu ar gyfer Strategaeth Tai 2022-27

Nod yr ymgynghoriad oedd uchafu cyfleoedd i roi adborth gan amrywiaeth o rhanddeiliaid sydd wedi ei grynhai isod.

Gwnaed cyflwyniad ar y Strategaeth ddrafft yn y cyfarfodydd canlynol:

14 Mai 2021	Cyfarfod Grant Tai Cymdeithasol
24 Mai 2021	Cyfarfod Chwarterol Landlordiaid Tai Cofrestredig
24 Mai 2021	Panel Iechyd Meddwl
22 Mehefin 2021	Fforwm Landlordiaid Preifat Ynys Môn
30 Mehefin 2021	Fforwm Darparwyr Grant Cymorth Tai
29 Medi 2021	Fforwm Cyngorau Cymuned a Thref
7 Hydref 2021	Sesiwn Briffio Misol Cyngorwyr
8 Hydref 2021	Partneriaeth Tai Môn
29 Rhagfyr 2021	Gweithdy Tai Menter Môn
14 Rhagfyr 2021	Sesiwn Gwybodaeth Staff Gwasanaethau Tai

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan gorfforaethol y Cyngor, gyda doleri i gwblhau'r holiadur ymgynghori ar 'Smart Survey'. Hyrwyddwyd yr ymgynghoriad drwy'r dulliau canlynol:

- Cyfryngau cymdeithasol corfforaethol
- Y Ddolen (cylchlythyr staff wythnosol)
- E-bost staff tai misol
- Datganiad i'r wasg (1 Rhagfyr – mwy o dai cyngor o safon ar y ffordd)
- Tudalennau cyfryngau cymdeithasol Medrwn Môn
- Baner ar dudalen we gorfforaethol

Cafodd yr holiadur ei hyrwyddo'n rheolaidd i aelodau'r cyhoedd drwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor, drwy gydol y cyfnod ymgynghori o 6 wythnos.

Cafodd yr ymgynghoriad ei gynnwys yng nghylchlythyr staff wythnosol Cyngor Môn (Medra Môn).

Anfonwyd doleri i'r holiadur ar-lein at:

- Aelodau Lleol
- Cyngorau Tref a Chymuned
- Darparwyr HSG
- Partneriaeth Tai Ynys Môn (yn cynnwys Cymdeithasau Tai, BIBC, GCMaG, HGC, NRLA)
- Age Cymru
- Medrwn Môn
- Menter Môn
- Shelter Cymru
- Gofal a Thrwsio

B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Nid yw peidio cyhoeddi Strategaeth Tai yn opsiwn gan ei fod yn greiddiol i waith partneriaid Tai a'r Cyngor ar yr Ynys

C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Er mwyn sêl bendith ar amcanion a gweithgaredd ar yr Ynys

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydi

Dd – Aseu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol):

1	Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Mae'r Strategaeth yn gosod themâu gwaith er mwyn ymateb i anghenion tai ar yr Ynys
2	A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut?	Mae 18 y cant o gartrefi yng Nghymru yn peri risg annerbyniol i iechyd, ac mae tai gwael yn costio dros £1bn y flwyddyn i gymdeithas yng Nghymru. Mae tystiolaeth gref bod tai gwael yn gysylltiedig ag iechyd corfforol a meddyliol gwael (ICC). Mae'r uchod yn tystiolaethu sut gall cartrefi gwael gael effaith ar unigolion sydd yn ei dro yn golygu ymyraethau uwch gan sefydliad gan gynnwys yr Awdurdod
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy.	Mae bob thema blaenoriaeth yn golygu bod rhaid cydweithio gyda phartneriaid allweddol o fewn Tai er mwyn cyflawni'r weledigaeth. Mae yn cynnwys Cymdeithasau Tai, Darparwyr Cefnogaeth, Trydydd Sector a

		Gwasanaethau eraill y Cyngor ac yn allanol
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.	Gweler uchod am grynodedb o'r broses ymgynghori
5	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Asesiad Effaith yn nodi effaith positif
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantaes economaidd-gymdeithasol.	Asesiad Effaith yn cymryd i ystyriaeth rhai all fod yn fregus
7	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Dim effaith negyddol wedi ei adnabod o fewn yr asesiad effaith

E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau?		
1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)	Yn gefnogol o'r argymhelliad
2	Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)	Yn gefnogol o'r argymhelliad
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)	Yn gefnogol o'r argymhelliad
4	Adnoddau Dynol (AD)	Dd/b
5	Eiddo	Dd/b
6	Technoleg Gwybodaeth (TG)	Dd/b
7	Caffael	Dd/b
8	Sgriwtini	Yn ystod Pwyllgor 17.1.22 argymhellwyd bod y Pwyllgor Gwaith yn rhoi cymeradwyaeth yn nghyfarfod 14.2.22
9	Aelodau Lleol	

F - Atodiadau:

Strategaeth Tai 2022-27

Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):

Canada Gardens, Caergybi (Tai Gogledd Cymru)



Stad Marcwis, Rhosybol (Cyngor Sir Ynys Môn)



Ynys Môn

THE ISLE OF

Anglesey

STRATEGAETH DAI YNYS MÔN 2022-27



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

www.ynysmon.gov.uk

Strategaeth Dai Ynys Môn 2022-27

Tudalen 186



Canada Gardens, Caergybi (Tai Gogledd Cymru)

1. Pwrpas y ddogfen hon yw:

- Adnabod 6 thema allweddol ar gyfer y Strategaeth
- Rhoi trosolwg o'r materion y mae teuluoedd ar yr Ynys yn eu hwynebu
- Sut mae'r Strategaeth yn mynd i ymdrin â'r materion hyn, neu ei chyfraniad wrth ddelio â'r materion hyn
- Beth sydd angen ei wneud yn ystod cyfnod y Strategaeth yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor
- Cynorthwyo gyda Datganiad o Angen bydd yn cael ei ddatblygu

Nod strategol cyffredinol y Strategaeth yw:

Sicrhau fod gan bobl Ynys Môn le y gallent alw'n gartref wedi eu grymuso a'u cefnogi i gyfrannu tuag at eu cymuned leol

2. Strategaeth ar gyfer pwy yw hon?

Bydd y Strategaeth hon yn berthnasol i lawer o bobl ar Ynys Môn gan y bydd yn darparu mynediad i dai fforddiadwy, a fydd yn cynnwys llawer o wahanol ddeiliadaethau, llety a chymorth i grwpiau cleientiaid penodol a bregus, pobl sy'n dymuno prynu cartref cyntaf eu hunain, pobl sydd angen addasiadau i'w cartrefi oherwydd salwch a phobl sydd mewn argyfwng ac sydd angen cartref ar frys.



MAE CARTREF YN FWY NA DIM OND TO UWCH EICH PEN



“Mae'r gefnogaeth yn bwysig iawn ac wedi fy helpu trwy gyfnod o ddigartrefedd ac mae'n parhau i fy nghefnogi i gynnal bywyd annibynnol yn fy nghartref newydd.”

BETH SY'N BWYSIG?



Mae nifer o denantiaid preifat yn cael trafferth fforddio bwyd neu wresog'r tŷ



Diffyg tai fforddiadwy i bobl leol eu prynu



Cynnydd mewn perchnogion ail gartrefi a'r farchnad gosod tai gwyliau



Mae 62% o bobl leol yn cael eu prisio allan o'r farchnad dai



Cynnydd posib o 70% o bobl sy'n byw dros 85 ar yr Ynys yn y 10 mlynedd nesaf

BETH YDYM YN MYND I'W WNEUD?



Datblygu'r math cywir o dai yn yr ardal gywir gyda'r darpariaethau cywir er enghraifft



Gofal Ychwanegol



Tai Gwag yn ôl i ddefnydd



Cartrefi Newydd Effeithlon o ran Ynni



Cartrefi Ailgartrefu Cyflym



Gweithio mewn partneriaeth â darparwyr cymorth a rhanddeiliaid allweddol i gyflawni'r Strategaeth Comisiynu a darparu Gwasanaethau Cefnogaeth â Thai fel ymyriad cynnar a helpu i atal digartrefedd



3. Sut ydym am gyflawni hyn?

Drwy ganolbwyntio ar 6 thema allweddol:-

- Thema 1 – Datblygu'r cartrefi cywir ar gyfer Ynys Môn yn y dyfodol
- Thema 2 - Gwneud y defnydd gorau o'r stoc dai presennol a gwella cartrefi a chymunedau
- Thema 3 – Atal argyfwng tai a chynyddu opsiynau tai
- Thema 4 – Cefnogi a hyrwyddo annibyniaeth tai
- Thema 5 – Cartrefi ar gyfer byw'n hirach
- Thema 6 – Mae tai yn cyfrannu at yr economi leol

Bydd y 6 thema allweddol hyn yn darparu sylfaen ar gyfer nodi beth yw'r materion a sut mae'r Strategaeth yn bwriadu mynd i'r afael â'r materion hyn yn ystod y tymor byr o 1 i 2 flynedd, y tymor canolig a'r hirdymor cyfnod y Strategaeth.

Bydd cyflawniadau ym maes tai yn cael eu diweddarau bob blwyddyn er mwyn dangos y cynnydd a wnaed ac i ddarparu naratif am unrhyw faterion sy'n datblygu ac angen eu cynnwys yn y Strategaeth yn ystod y 5 mlynedd nesaf.

4. Cyd-destun Cenedlaethol a Lleol

Mae Cynllun y Cyngor yn darparu fframwaith gwaith ar gyfer pob gwasanaeth y Cyngor ac mae'r Gwasanaeth Tai yn alluogwr blaenllaw ar gyfer ei gyflawni. Mae'r ddogfen hon hefyd yn darparu fframwaith i'r holl wasanaethau gydweithio gyda'i gilydd i gyflawni'r nodau ac amcanion

cyffredin. Bydd y Cynllun hwn yn cael ei adolygu ar gyfer y cyfnod nesaf 2022 ymlaen.

Mae nifer o Strategaethau yn eistedd o dan y ddogfen hon sy'n bwydo'r Cynllun uchod ac yn cynorthwyo i'w gyflawni.

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn 2011-26

Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn ym mis Gorffennaf 2017. Mae hwn yn strategaeth datblygu ar gyfer datblygu tir am gyfnod o 15 mlynedd sydd yn canolbwyntio ar ddatblygu cynaliadwy. Mae'r ddogfen hon yn llywio datblygu tai newydd ar yr Ynys, yn ogystal â defnyddiau eraill. Mae'r Cynllun hwn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd.

Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg

Gweledigaeth Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg yw:

- Trigolion yn gallu fforddio byw a phrynu tai yn eu cymunedau lleol
- Ein holl drigolion yn teimlo'n rhan ac yn falch o fyw mewn cymuned fywiog, gwirioneddol ddwyieithog
- Blaenoriaeth amlwg i'r Gymraeg mewn cynlluniau datblygu economaidd, tai a chynllunio lleol

Mae gan y Strategaeth Tai rôl hanfodol mewn cyflawni'r uchod.

Polisi Cenedlaethol:

Diwygio Lles

Fel y cyhoeddwyd yn eang, mae Diwygio Lles wedi cyflwyno rhai o'r newidiadau ac effeithiau mwyaf sylfaenol ers cyflwyno'r Systemau Lles yn 1946. Daeth Diwygio Lles i rym ar Ynys Môn ddiwedd 2018 a'i gyflwyno fesul cam. Sefydlwyd Hwb Diwygio Lles yn cynnwys Gwasanaethau allweddol y Cyngor ac asiantaethau gyda'r nod o ddarparu ymatebion a chamau lliniaru priodol ac mae wedi gwneud hynny drwy:

- Ddatblygu ymatebion i ganlyniadau uniongyrchol Credyd Cynhwysol
- Ystyried yr oblygiadau hirdymor i ddinasyddion a gwasanaeth ar Ynys Môn yn cynnwys, lle bo'n briodol, amrywiaeth eang o seyllfaoedd
- Gwella dealltwriaeth yn lleol o sut y bydd Credyd Cynhwysol yn effeithio ar wasanaethau statudol ac anstatudol
- Ymgysylltu â phartneriaid allweddol a'u diweddarau yn ôl y gofyn drwy fecanweithiau partneriaeth sefydledig a nodi a gwella meysydd lle nad yw'r fframwaith hwn yn bodoli neu lle mae'n methu â darparu ymateb priodol
- Cynhyrchu a chynnal cynllun gweithredu gyda chyfres o argymhellion pan ddaw gwaith yr Hwb i ben

Tudalen 189

Ym mis Gorffennaf 2020, comisiynwyd Asesiad Cychwynnol o'r effeithiau posib ar wasanaethau a chyllidebau CSYM yn sgil cynnydd yn nifer y bobl yn hawlio Credyd Cynhwysol. Roedd yr adroddiad hwn yn amlygu cynnydd yn nifer yr hawl wyr allan o waith mewn cyfnod byr iawn yn ystod Covid a bod hyn yn cael effaith anghymesur ar bobl ifanc a dynion. Amlygodd yr adroddiad hefyd effeithiau cymdeithasol y cynnydd mewn diweithdra sy'n cynnwys problemau iechyd meddwl, cam-drin domestig a themlo'n ynysig.



Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn disgrifio tai fel congflaen llesiant unigolion, teuluoedd a chymunedau.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi i ni uchelgais, caniatâd a rhwymedigaeth gyfreithiol i wella ein llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effeithiau hirdymor eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac i atal problemau parhaus megis tlodi, iechyd, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.

Tudalen 190
Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i geisio cyflawni'r nodau ac amcanion llesiant ym mhopeth y byddant yn ei wneud.

Grant Cymorth Tai

Daeth Grant Cymorth Tai Llywodraeth Cymru i rym ym mis Ebrill 2020 ac mae'n cymryd lle'r Rhaglen Cefnogi Pobl flaenorol. Mae'r Grant Cymorth Tai yn gyfuniad o dri grant oedd yn bodoli'n barod; Rhaglen Cefnogi Pobl, Grant Atal Digartrefedd a Gorfodaeth Rhentu Doeth Cymru.

Mae'r Grant Cymorth Tai yn rhaglen grant ymyrraeth gynnar i gefnogi gweithgareddau sydd yn atal pobl rhag dod yn ddigartref, yn sefydlogi eu sefyllfa dai, neu'n helpu pobl a allai ddod yn ddigartref i ganfod a chadw llety. Nid yw'r Grant Cymorth Tai yn cyllido dyletswydd statudol awdurdodau lleol i atal digartrefedd, ond yn hytrach mae gwasanaethau a gyllidir gan y Grant Cymorth Tai yn ehangu, atgyfnerthu a chefnogi'r gwasanaeth statudol er mwyn sicrhau bod y cynnig cyffredinol a ddarperir gan awdurdodau yn helpu pobl i gael y cartrefi cywir gyda'r cymorth cywir i lwyddo. Mae'n cynorthwyo pobl fregus i fynd i'r afael â'r problemau, sy'n niferus weithiau y maent yn eu hwynebu, megis dyledion, cyflogaeth, rheoli tenantiaeth, cam-drin sylweddau, trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a phroblemau iechyd meddwl. Mae'r cymorth yn canolbwyntio ar y person, gyda'r nod o gynorthwyo pobl i sicrhau a chynnal cartrefi addas drwy fynd i'r afael â'r problemau iechyd meddwl a/neu gam-drin sylweddau y maent yn eu hwynebu, gan gynorthwyo i wella eu hiechyd a'u lles a/neu eu helpu i symud ymlaen i waith neu gyfle hyfforddiant, neu symud yn nes at hynny, ar sail eu hamgylchiadau penodol.

Mae cymorth cysylltiedig â thai yn darparu lluo o wasanaethau i alluogi pobl fregus i gynnal eu tenantiaeth / aelwydydd ac i fyw'n annibynnol yn y cartrefi a'r cymunedau o'u dewis am gyhyd â phosib.

Datgarboneiddio

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod dyletswydd ar Lywodraethau i leihau allyriadau carbon, ac yng Nghymru'r targed yw o leiaf 80% o ostyngiad erbyn 2050. Mae'r adroddiad a gomisiynwyd yn 2019, Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell, Gorffennaf 2019, yn gwneud 7 argymhelliad i Lywodraeth Cymru eu harwain ac mae'n datgan:

'Mae gan Gymru rai o'r tai hynaf a lleiaf thermol effeithlon yn y DU ac Ewrop. Adeiladwyd 32% o'r stoc dai yng Nghymru cyn 1919, pan nad oedd unrhyw safonau adeiladu o ran perfformiad thermol. Dim ond 10% o gartrefi yng Nghymru gafodd eu hadeiladu yn ystod y 18 mlynedd diwethaf, ac yn ystod y cyfnod hwnnw mae gofynion perfformiad ynni wedi newid yn sylweddol.'

Tudalen 191
Mae Cynllun diweddar Llywodraeth Cymru "Ffyniant i Bawb: Cymru Garbon Isel" yn cynnwys pennod gyfan ar adeiladau yn seiliedig ar bob math o ddeiliadaeth a nodir bod adeiladau preswyl yn gyfrifol am y ffynonellau uchaf o allyriadau fel cyfanswm allyriadau Cymru.

Mae'r Cyngor eisoes wedi datgan argyfwng hinsawdd a bydd ein gwaith yn y maes hwn yn rhan o'r gwaith datgarboneiddio.

Ail-ddychmygu adeiladu tai cymdeithasol yng Nghymru - Strategaeth Dulliau Modern o Adeiladu Tai Cymdeithasol, Chwefror 2020

Strategaeth sy'n nodi'r disgwyliadau ynghylch cynhyrchu tai wedi eu hadeiladu gan ddefnyddio Dulliau Adeiladu Modern sy'n annog defnyddio dulliau adeiladu traddodiadol ochr yn ochr â thechnolegau a dulliau newydd.

Hen Ysgol Llaingoch, Caergybi (Cyngor Sir Ynys Môn)



Strategaeth ar gyfer Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd, Hydref 2019

Mae'n datgan yn glir nad oes modd atal digartrefedd drwy dai yn unig. Mae digartrefedd yn golygu person sydd heb lety neu ble nad yw eu tenantiaeth yn ddiogel. Cysgu allan yw ochr fwyaf gweledol a difrifol y sbectrwem digartrefedd, ond mae digartrefedd yn cynnwys unrhyw un nad oes ganddynt lety, nad ydynt yn gallu cael mynediad i'w llety neu ble nad yw'n rhesymol iddynt barhau i feddiannu llety. Byddai hyn yn cynnwys gorlenwi, 'syrffio soffas', dioddefwyr camdriniaeth a llawer mwy o sefyllfaoedd. Mae person yn ddigartref hefyd os yw eu llety yn strwythur symudol ac nad oes ganddynt unman i roi'r strwythur hwnnw. Gall digartrefedd, neu'r risg o fod yn ddigartref, gael effaith ddinistriol ar unigolion a'u teuluoedd. Mae'n effeithio ar ieuchyd corfforol a meddyliol pobl a'u lles, ac ar ddatblygiad ac addysg plant, ac mae'n rhoi unigolion mewn perygl o fod mewn sefyllfa sy'n gwaethygu a'u bod yn wynebu ffurfiau mwy difrifol o ddigartrefedd.

Tudalen 192

Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol

Mabwysiadwyd Strategaeth Ranbarthol gan Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru gyda'r nod o Leihau Digartrefedd ar draws Gogledd Cymru o dan y penawdau Pobl, Cartrefi a Gwasanaethau a oedd yn nodi themâu a oedd yn gyffredin i bob Awdurdod Lleol yn eu hadolygiadau unigol. Byddai cynllun gweithredu rhanbarthol a lleol wedyn yn ymgorffori'r materion allweddol a'r camau angenrheidiol. Y Cynllun Gweithredu ar gyfer 2020-21 oedd ein hymateb i'r pandemig.

Deddf Rhentu Tai (Cymru) 2016

Mae'r Ddeddf hon yn ceisio gwneud rhentu cartref yn fwy syml ac yn ceisio diogelu hawliau tenantiaid. Yn gyffredinol, mae'r Ddeddf yn darparu dau fath o gontract meddiannaeth yn unig (diogel a safonol) i gymryd lle'r holl denantiaethau a thrwyddedau presennol. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd angen ail gyflwyno'r holl gytundebau tenantiaeth bresennol a newydd. Mae'r Ddeddf hefyd yn creu hawliau newydd ar gyfer dioddefwyr camdriniaeth ddomestig, ar gyfer pobl mewn tai a rennir ac ar gyfer tenantiaid lle mae angen gwneud gwaith atgyweirio ar eu cartrefi.

Cynllun Gwaith Cydraddoldeb Hilio Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod ei bod yn bryd gweithredu ar frys mewn hyrwyddo gweledigaeth i Gymru lle mae pawb yn cael eu trin fel dinesydd cyfartal ac rydym fel Cyngor wedi cyfrannu i'r ddogfen ymgynghori fydd yn arwain at Gynllun Gwaith Cydraddoldeb Hiliol. Bydd ein Strategaeth Tai yn hyrwyddo'r nod cyffredinol o 'sicrhau bod bob aelod o'n Cymdeithas yn gallu byw mewn cartref sydd yn addas a fforddiadwy sydd yn cwrdd ag amrywiaeth o anghenion'

Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai

Fel un o 11 o Gynghorau Cymru sydd wedi parhau i gadw eu stoc tai Cyngor mae'n ofynnol i'r Cyngor gynhyrchu a diweddarau Cynllun Busnes CRT bob blwyddyn, a darparu adroddiad blynyddol ar ein gweithgareddau yn ogystal â throsolwg o ddatblygiadau newydd gan ein partneriaid allweddol sef y Landlordiaid Cofrestredig Cymdeithasol sy'n gweithredu ym Môn.

Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru

Mae Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru yn adolygiad o anghenion gofal a chymorth poblogaeth Gogledd Cymru, gan gynnwys anghenion cymorth gofawyr. Fe'i cynhyrchwyd gan y chwe Chyngor yng Ngogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gyda chymorth Iechyd Cyhoeddus Cymru, er mwyn cwrdd â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y ddeddf).

Fforddiadwyedd

Nid yw'r Sector Rhent Preifat ar Ynys Môn yn farchnad arbennig o fforddiadwy gyda chyfran isel iawn o eiddo ar gael o fewn lefelau'r Lwfans Tai Lleol. Mae prynu cartref yn parhau i fod tu hwnt i afael nifer o brynwyr tro cyntaf oherwydd prisiau uchel eiddo o gymharu â lefelau incwm lleol a'r blaendal sydd ei angen.

Mae hyn, yn ogystal â diffyg argaeledd tai cymdeithasol addas, wedi golygu bod nifer o'r teuluoedd hyn yn troi at y farchnad rhent. Ar hyn o bryd, mae 22% o holl boblogaeth Ynys Môn yn derbyn naill ai Cymhorthdal Tai neu gymorth ariannol gyda'r Dreth Cyngor ac mae 59.9% o'r aelwydydd hyn mewn oed gwaith ac yn cael eu heffeithio gan yr holl ystod o ddiwygiadau lles.

Dangosodd yr adroddiad Policy in Practice, 2017 bod 74.4% o'r aelwydydd hyn yn talu rhent sy'n uwch na'r gyfradd Lwfans Tai Lleol a ddefnyddir ar gyfer Budd-dal Tai. Ar gyfartaledd, y gwahaniaeth rhwng y rhent a'r Budd-dal Tai yw £25.74 yr wythnos. Mae'r rhan fwyaf o aelwydydd (79.3%) y mae'r cap ar y Lwfans Tai Lleol yn effeithio arnynt ar Ynys Môn mewn oed gweithio.

Mae adroddiad a gomisiynwyd yn edrych ar y Sector Rhent Preifat yn dangos bod landlordiaid yn codi rhwng 10% ac 20% yn uwch na lefelau'r Lwfans Tai Lleol gan wybod y bydd rhaid i aelwydydd ariannu'r rhent ychwanegol. Ymddengys bod fforddiadwyedd yn broblem, yn arbennig i aelwydydd sydd ar incwm is neu ar fudd-daliadau. Bydd rhai landlordiaid yn datgan 'dim DSS' tra bod eraill yn osgoi tenantiaid ar Gredyd Cynhwysol oherwydd eu bod yn ofni oblygiadau rhent uniongyrchol. Bydd landlordiaid sy'n derbyn tenantiaid ar fudd-daliadau yn cymryd mis o flaendal a / neu'n gofyn am warantwr all dalu'r rhent yn llawn.

Cynhaliodd Ynys Môn arolwg o landlordiaid sector preifat yn ystod 2017. Anfonwyd yr arolwg at 384 o landlordiaid preifat ac roedd y gyfradd ymateb yn 11%. I grynhoi, roedd yn dangos bod y mwyafrif yn dweud eu bod yn berchen un tŷ, roedd 74% o denantiaid yn aros rhwng 1 a 5 mlynedd, roedd 42% yn hawlio Budd-dal Tai. Edrychom hefyd ar beth fyddai'n cymell landlordiaid i osod i denantiaid ar Fudd-dal Tai. Yr ymatebion oedd y byddai 71% yn gwerthfawrogi rhyw fath o gymorth tenantiaeth ac roedd 85% eisiau rhyw fath o warant rhent. Y math o broblemau a gafodd eu hadrodd oedd ôl-ddyledion rhent, 52%, a thenantiaid yn achosi difrod i'r eiddo, 48%. Pan gynigiwyd rhestr o gymhellion, a gofyn i landlordiaid eu rhoi mewn trefn blaenoriaeth, y flaenoriaeth fyddai cymorth ariannol i wneud mân welliannau a gwarant rhent ar gyfer eiddo gwag hyd nes bod tenantiaid addas yn cael eu canfod.

Dangosodd arolwg a gynhaliwyd yn ddiweddar, ym mis Rhagfyr 2020, fod nifer o Denantiaid Preifat yn ei chael yn anodd fforddio prynu bwyd neu wresogi eu cartref. Roedd nifer yn rhoi blaenoriaeth i dalu rhent, ac roedd rhai yn gorfod benthycwyr arian gan deulu neu ffrindiau er mwyn cwrdd â'u hymrwymiaidau. Byddai'n fater o bryder bod tri o'r pumdeg dau a gwblhaodd yr arolwg wedi defnyddio benthycwyr arian er mwyn gallu talu eu rhent. Nid oedd y tenantiaid hynny a oedd yn ei chael yn anodd fforddio eu rhent, neu a oedd mewn dyled, wedi trafod y problemau hyn gyda'u landlord a dim ond un unigolyn oedd wedi cytuno ar gynllun ad-dalu.

Yn ogystal, roedd yr arolwg yn gofyn a oedd tenantiaid yn ymwybodol o'r cymorth y gellid ei gynnig ac o'r rhai a ymatebodd, roedd pymtheg yn ymwybodol o'r cyngor, gwybodaeth a'r cymorth y gallai'r Awdurdod Lleol ei ddarparu i atal teuluoedd yn yr ardal rhag dod yn ddigartref. Roedd nifer wedi gofyn am wybodaeth bellach ynghylch gwneud y mwyaf o incwm, cymorth tenantiaeth a hawliau tenantiaeth ac anfonwyd y manylion hyn at y gwasanaethau er mwyn iddynt gymryd camau pellach.

Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg

Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi bod 'niferoedd uchel o ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr wedi ysgogi teimladau cryf mewn rhai cymunedau yng Nghymru ers cryn dipyn o flynyddoedd. Yn y cymunedau hyn, yn aml, ceir ymdeimlad o anghyfiawnder bod pobl yn cael eu prisio allan o'r farchnad dai lleol gan y rheiny sy'n prynu ail gartrefi neu gartrefi i'w gosod fel llety gwyliau tymor byr.

Yn aml, lleolir ail gartrefi yn y cymunedau Cymraeg ac o'u cwmpas, a gall hyn arwain at batrymau perchenogaeth tai sy'n effeithio'n andwyol ar ddefnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau sy'n greiddiol i ffyniant hirdymor ein hiaith. Mae ail gartrefi, ynghyd ag amrywiaeth o ffactorau ehangach eraill, yn effeithio ar fforddiadwyedd ac argaeledd tai i bobl leol ac yn codi prisiau yn y farchnad dai lleol, weithiau yn sylweddol'.


Nododd adroddiad diweddar gan Wasanaeth Cynllunio ar y Cyd ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn bod 'Y pris cyfartalog ar gyfer tŷ yn Ynys Môn yw £170,000 a gydag incwm cyfartalog yn £27,445 mae'r gymhareb prisiau tai i fforddiadwyedd yn 6:2:1 gan olygu fod 62.2% o bobl leol wedi prisio allan o'r farchnad. Mae'r ystadegau yn llawer iawn uwch yn yr ardaloedd hynny sydd hefo cyfraddau uwch o ail-gartrefi. Yn Rhosneigr ble fo 35.12% o'r tai yn yr ardal cyngor cymuned yn gartrefi gwyliau, y pris tai cyfartalog yw £263,00. Gydag incwm cyfartalog aelwydydd yn £31,596 golygai fod y gymhareb prisiau tai i fforddiadwyedd yn 8:3:1'.

Mae'r Strategaeth yn cydnabod y pwysau a wynebwr gan deuluoedd ac aelwydydd wrth ddyddio cael mynediad i dai fforddiadwy yn eu cymunedau lleol yn ystod newid ddigynsail yn y farchnad dai sydd wedi gweld cynnydd enfawr ym mhrisiau tai. Amlygodd yr Arolwg Diweddar o Anghenion tai'r math o atebion tai lleol a'r angen amdanynt ac y bydd y Strategaeth hon yn hwyluso'r gwaith o ddatblygu a gweithredu amrywiaeth o opsiynau tai ar gyfer trigolion Ynys Môn.



Ty'n Coed, Moelfre (Cyngor Sir Ynys Môn)

THEMA 1



Datblygu'r cartrefi
cywir ar gyfer
Ynys Môn yn
y dyfodol

THEMA 2



Gwneud y
defnydd gorau o'r
stoc dai bresennol
a gwella cartrefi a
chymunedau

THEMA 3



Atal argyfwng tai
a chynyddu
opsiynau tai

THEMA 4



Cefnogi a
hyrwyddo
annibyniaeth tai

THEMA 5



Cartrefi ar gyfer
byw'n hirach

THEMA 6



Mae tai yn
cyfrannu at yr
economi leol



THEMA I – Datblygu'r cartrefi cywir ar gyfer Ynys Môn yn y dyfodol

Pam fod hyn yn bwysig?

Mae cyfnod Covid wedi dangos pa mor bwysig ydyw i bobl allu byw o fewn cymunedau lleol ac wedi eu cysylltu yn ddigidol.

Mae cyflogau yng Ngogledd Cymru ymhlith yr isaf ym Mhrydain a chyd cynnydd mewn rhenti yn y sector breifat a phrisiau tai yn codi mae cael mynediad i dai fforddiadwy yn anos.

Bydd prisiau tai cyfartalog yn parhau i godi gyda materion fel ail gartrefi yn cael sylw ar lefel lleol a chenedlaethol.

Mae darparu amrywiaeth o fathau o gynlluniau tai fforddiadwy yn bwysig i helpu ystod o aelwydydd ar gyfer pobl sengl, teuluoedd ac aelwydydd sydd angen cymorth ac eiddo wedi'i addasu sydd hefyd yn cynnal cymunedau Cymraeg.

Tudalen 197

Beth ydym am ei wneud?

Adeiladu cartrefi mewn cymunedau gyda'n Partneriaid Tai allweddol, mae hyn yn cynnwys gweithio gyda chymunedau gwledig i ddeall y gwir angen am dai o fewn y cymunedau.

Bydd y Gwasanaethau Tai a'i Bartneriaid Tai allweddol yn cynnig eiddo rhent cymdeithasol, rhenti canolradd, hunan adeiladu a chymorth i brynwyr tro cyntaf ar y cyd hefo ein Partneriaid Tai a gyda'n Cynllun Rhannu Ecwiti.

Sicrhau bod safleoedd addas yn cael eu darparu ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn unol ar angen sydd wedi ei adnabod yn yr Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr.

Sut ydym am wneud hyn?

Yn ystod y tair blynedd nesaf, cynyddu stoc tai'r Cyngor gan 176 o gartrefi a chartrefi Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (ein Partneriaid Tai allweddol) gan 144 o gartrefi a byddwn yn annog enwau Cymraeg ar y stadau tai newydd.

Bydd hwn yn weithred tymor hir gyda tharged wedi ei osod am y 3 blynedd nesaf fydd yn cael ei adolygu yn flynyddol.

Adolygu data er mwyn diweddarau'r Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol a fydd yn cynnwys prosiectws o'r angen am dai ar gyfer yr Ynys.

Mae hwn yn weithred tymor byr fydd yn cael ei adolygu.

Ymateb i'r Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr cyfredol yn ogystal â chynnal asesiad yn ystod 2021 ac ymateb i unrhyw angen sy'n datblygu.

Bydd hwn yn weithred tymor canolig i hir.



THEMA 2 –

Gwneud y defnydd gorau o'r stoc dai bresennol a gwella cartrefi a chymunedau

Pam fod hyn yn bwysig?

Mae cartrefi gwag hirdymor yn cael effaith ar y gymuned ac yn creu cwynion y mae'n rhaid i'r Cyngor a sefydliadau eraill ddelio â nhw.

Rhentu yn y Sector Preifat yw'r unig ddewis i rai teuluoedd.

Cynorthwyo cymunedau i fedru cynnig rhwydwaith o gyfleoedd gwirfoddoli, chynhwysol a digidol i gyfranogi neu ofyn am gymorth pryd a phan fydd pobl ei angen.

Mae'r agenda datgarboneiddio yn ceisio gwneud tai yn fwy effeithlon o ran ynni a lleihau ein ôl-troed carbon.

Bydd gofyniad Deddf Rhentu Tai Cymru yn dod yn weithredol yng Ngwanwyn 2022 fydd yn effeithio bob tenantiaeth breifat a chymdeithasol.

Tudalen 198

Beth ydym am ei wneud?

Dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd, gydag o leiaf 50 o dai yn ystod 2021-22.

Targedu'r tai mwyaf problemus o fewn cymunedau a gwella tai o fewn y sector breifat.

Hwyluso rhwydweithio cymunedol a chefnogi cynlluniau ar gyfer hyrwyddo Cynllunio Lle.

Cynhyrchu Strategaeth Datgarboneiddio.

Cydweithio i annog negeseuon cyson am Ddeddf Rhentu Tai

Sut ydym am wneud hyn?

Adolygu ein Strategaeth Tai Gwag ar gyfer y cyfnod nesaf, 2023-28.

Mae hwn yn weithred tymor byr.

Mae'r isod yn weithredoedd sydd yn barhaol gyda monitro rheolaidd:

Cynnig cyngor ac ymgysylltu â landlordiaid preifat er mwyn annog cyflenwad da o gartrefi er mwyn helpu pobl sydd yn derbyn cefnogaeth i gynnal eu tenantiaeth neu sydd â phroblemau gyda'u tenantiaeth.

Cynnig cyngor, grantiau a benthyciadau i ddod â thai gwag yn ôl i ddefnydd. Mae hyn yn cynnwys cynnig rhannu ecwiti a chymorth i brynwyr tro cyntaf drwy ddefnyddio'r Cyfrif Refeniw Tai a'r incwm Premiwm Treth Cyngor i gyllido'r mentrau yma.

Darparu cyngor ynghylch tlodi tanwydd, cynhwysiant digidol ac ariannol a materion ariannol eraill sy'n effeithio ar deuluoedd a chyfeirio pobl at fentrau megis y Fenter Garbon Isef Cartrefi Hapus.

Cymryd camau pendant i geisio cyfleoedd i leihau allyriadau ac edrych ar ffynonellau gwres amgen a chyfleoedd cyllido.

Cyflwyno newidiadau Deddf Rhentu Cymru ar gyfer ein holl denantiaid fel sydd yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru.

Mae hwn yn weithred tymor byr.



THEMA 3 – Atal argyfwng tai a chynyddu opsiynau tai

Pam fod hyn yn bwysig?

Mae arwyddion cynnar yn awgrymu na fydd y statws angen blaenoriaeth mewn perthynas â digartrefedd yn cael ei adfer a bydd y pwysau ychwanegol yn parhau i'r Timau Asesu Tai, Datrysiadau Tai a Darparwyr Cefnogaeth Tai.

Aelwydydd pobl sengl yw'r categori uchaf o hyd o ran nifer y bobl sy'n troi at ein Gwasanaeth Digartrefedd, ac mae gan nifer o'r rhai sy'n gofyn am gymorth anghenion cymhleth.

Mae ansicrwydd yn parhau ynghylch gwir effeithiau Covid wrth i gyfyngiadau ar ryngweithio cael eu cyflwyno yn fyr rybudd gan olygu bod teuluoedd ac aelwydydd yn gorfod delio â thensiynau, trais domestig a phroblemau iechyd meddwl yn ystod cyfnodau hirach o gael eu hynysu ynghyd a llai o ryngweithio cymdeithasol.

Tudalen 199

Beth ydym am ei wneud?

Bydd angen cael darpariaeth ar gyfer llety argyfwng i sicrhau bod y rheiny sy'n ddigartref yn cael mynediad i lety. Drwy weithio yn unol ag egwyddorion ailgartrefu yn gyflym rhoddir pwyslais ar sicrhau llety addas ynghyd â chymorth i gyd-fynd ag anghenion y person neu'r teulu fel eu bod yn gallu cynnal eu tenantiaeth yn y dyfodol.

Bydd ein Cronfa Atal Ddigartrefedd yn cynorthwyo i atal digartrefedd ymysg y rhai sydd â'r risg mwyaf o golli eu tenantiaeth neu a fyddai'n dod yn ddigartref.

Bydd parhau i weithio a datblygu cysylltiadau gyda landlordiaid y sector rhent preifat yn parhau i fod yn nodwedd allweddol o'n gwaith dyddiol yn ystod cyfnod y Strategaeth.

Bydd delio gyda phroblemau'n ymwneud â thlodi yn dod yn un o brif nodweddion yr agenda Corfforaethol o fewn y Cyngor er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu targedu at aelwydydd er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu cael cymorth yn ôl y gofyn.

Gweithredu'r Strategaeth Rhaglen Grant Cymorth Tai 2022-26.

Sut ydym am wneud hyn?

Targedir ein Grant Cymorth Tai tuag at wasanaethau sy'n hyrwyddo cynaliadwyedd tenantiaeth gan osgoi digartrefedd drwy sicrhau bod teuluoedd mewn llety addas ac atal digartrefedd drwy ein gwasanaethau cymorth.

Mae hwn yn weithred tymor hir.

Darparu o leiaf 33 cartref sy'n cynnig dull ailgartrefu cyflym wrth ddelio gyda digartrefedd yn ystod y flwyddyn i ddeunaw mis nesaf.

Mae hwn yn weithred tymor byr sydd yn cael ei adolygu bob blwyddyn wrth i ni weithio tuag at yr egwyddor hon dros y tymor hir.

Datblygu cynllun cyfathrebu Gogledd Cymru ar gyfer Tenantiaid Preifat er mwyn hyrwyddo cyngor amserol ynghylch sut y gall Timau Asesu a Datrysiadau Tai gynorthwyo gyda phroblem barhaus cyn iddi ddatblygu'n argyfwng digartrefedd

Mae hwn yn weithred tymor canolig.

Hyrwyddo mentrau lleol megis Bwyd Da Môn.

Mae hwn yn weithred tymor byr i canolig.

Mae'r Cyngor wedi sefydlu Bwrdd Ataliol Corfforaethol er mwyn hyrwyddo cydweithio i atal teuluoedd rhag mynd i sefyllfa o argyfwng sydd hefyd yn arbed ar gostau gwasanaethau statudol drwy ddarpariaeth o wasanaethau yn lleol.

Mae hwn yn weithred barhaol.



THEMA 4 – Cefnogi a hyrwyddo annibyniaeth tai

Pam fod hyn yn bwysig?

Mae cynorthwyo pobl i fyw'n annibynnol yn cael ei adlewyrchu yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor ac mae gwaith a gweithgareddau nifer o Wasanaethau Tai a'i bartneriaid yn cyfrannu tuag at hyn, o Gyfranogiad Tenantiaid i'r Grant Cymorth Tai, gan rymuso pobl fel eu bod yn gallu cyfrannu a chymryd rhan yn eu cymuned.

Mae cynorthwyo pobl i gael mynediad at wasanaethau er mwyn derbyn cefnogaeth yn allweddol er mwyn atal argyfyngau ac ymyrraeth drwy ymyrraeth statudol.

Tudalen 200

Beth ydym am ei wneud?

Dosbarthu'r Grant Cymorth Tai i'n darparwyr sy'n adlewyrchu'r anghenion a nodwydd yn yr asesiad o anghenion.

Darparu gwasanaeth cyflawn ar gyfer dioddefwyr trais domestig.

Rydym yn awyddus i hyrwyddo cyfleoedd i bobl allu cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol a digidol er mwyn atal unigrwydd.

Sut ydym am wneud hyn?

Mae'r data mapio anghenion yn parhau i lywio gwasanaethau yn y dyfodol ac mae iechyd meddwl, digartrefedd, cam-drin alcohol a chyffuriau yn parhau i fod yn broblem.

Mae hwn yn weithred tymor byr sydd yn bwydo fewn i gynllun tymor hir.

Drwy weithio gyda Gwasanaethau Plant mae Gwasanaethau Cam-drin Domestig yn cael eu darparu mewn modd cydlynol drwy gynnig mynediad i wasanaethau drwy'r gwasanaeth Un Drws Blaen.

Mae hwn yn weithred tymor hir.

Adolygu ein Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid 2018-23 gan gynnwys y cyfle i gynyddu cynhwysiad digidol.

Mae hwn yn weithred tymor byr.



THEMA 5 – Cartrefi ar gyfer byw'n hirach

Pam fod hyn yn bwysig?

Mae pobl yn byw'n hirach ac o'r herwydd, rydym yn disgwyl gweld cynnydd o thua 70% yn nifer y bobl dros 85 oed sy'n byw ar yr Ynys yn ystod y 10 mlynedd nesaf.

Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi datblygu fframwaith Cymunedau Cyfeillgar.

Mae hyrwyddo annibyniaeth yn agwedd allweddol o Gynllun Corfforaethol y Cyngor.

Tudalen 201

Mae pobl a theluoedd yn wynebu argyfyngau fel rhyfel a thrais mewn gweledydd eraill ac rydym yn barod i gynorthwyo gyda chynlluniau ail sefydlu teuluoedd yma ym Môn.

Beth ydym am ei wneud?

Sicrhau bod ein darpariaeth Tai â Chymorth yn parhau i gynnig tai priodol a bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o'r stoc yn ogystal â chynnig cymhellion i symud i dŷ llai.

Cwblhau achos busnes ar gyfer trydydd Cynllun Tai Gofal Ychwanegol yr Ynys a chytuno ar ffordd ymlaen ar gyfer datblygu'r cynllun trwy'r Cyfrif Refeniw Tai.

Hyrwyddo model o bresgripsiwn cymdeithasol drwy Wasanaethau Oedolion a chynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth fel sydd ei angen o dan Ddeddf Cymru Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles.

Bydd gwaith yn parhau o ran gweithio tuag at gynnig gwasanaeth cyson pan fydd teulu neu unigolyn yn gwneud cais i addasu eu cartrefi, ni waeth beth yw'r ddeiliadaeth ar eu cartref, h.y. hunan berchnogion neu denantiaid.

Bydd Gwasanaethau Tai a'i Bartneriaid Tai allweddol yn cydweithio gyda Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd (Gwasanaethau Di-dor i bobl ag Anableddau Dysgu) i ddarparu'r ddarpariaeth orau ar gyfer pobl ag anableddau drwy drefniadau grant ar gyfer tai presennol a thai newydd.

Cydweithio gyda'r Swyddfa Gartref ar gynlluniau Adleoli Cenedlaethol.

Sut ydym am wneud hyn?

Datblygu'r math cywir o dai yn yr ardal gywir gan wneud darpariaethau ar gyfer pobl hŷn mewn datblygiad gofal ychwanegol yn ogystal ag edrych ar yr opsiwn o lety ar gyfer pobl hŷn.

Mae hwn yn weithred tymor byr i ganolig.

Bydd cael therapydd galwedigaethau yn y Gwasanaethau Tai yn cynorthwyo o ran darparu cyngor a datrysiadau addasu ac amserol i'r rheiny sydd angen mynediad i eiddo rhent cymdeithasol yn ogystal â sicrhau bod datblygiadau newydd yn addas ar gyfer teuluoedd neu unigolion sydd angen cartrefi wedi eu hadeiladu'n bwrpasol.

Mae hwn yn weithred tymor byr.

Byddwn yn gweithio gyda Gwasanaethau Oedolion i wireddu eu Strategaeth Letya Pobl Hyn.

Mae hwn yn weithred tymor hir.

Cynnig set cytunedig o Safonau Gwasanaeth ar gyfer addasiadau, yn ddiwahaniaeth ar y math o ddeiliadaeth unigolion ar eu cartref er mwyn sicrhau bod rhai sydd yn derbyn addasiadau i'w cartrefi yn cael y safon gorau o wasanaeth.

Mae hwn yn weithred tymor byr.

Cydweithio gyda Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd i rannu gwybodaeth am ddarpariaeth ar gyfer pobl ag Anableddau Dysgu a lleoliadau posib i gael llety.

Mae hwn yn weithred tymor canolig.

Cytuno ar gynlluniau Adsefydlu Ffoaduriaid.

Mae hwn yn weithred tymor hir.



THEMA 6 – Mae tai yn cyfrannu at yr economi leol

Pam fod hyn yn bwysig?

Gall buddion Cymdeithasol, Economaidd ac Amgylcheddol ddeillio yn uniongyrchol o adeiladu cartrefi newydd a chyfarpar byw'n ddoeth (smart living). Gall y Cyngor a phartneriaid Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig gael effaith uniongyrchol ar hyn drwy adeiladau tai fforddiadwy newydd yn ogystal â derbyn Grant Tai Arloesol sy'n hyrwyddo'r defnydd o fesurau sy'n gwneud cartrefi yn fwy effeithlon o ran y defnydd o ynni.

Mae angen datblygu tai fforddiadwy a thai marchnad agored addas er mwyn cefnogi twf yn yr economi mewn trefi ac ardaloedd gwledig.

Mae gwybodaeth ddiweddar wedi tynnu sylw at y ffaith bod y diffyg cartrefi fforddiadwy sydd ar gael i bobl leol eu prynu wedi'i gysylltu â phobl sydd bellach yn gallu gweithio gartref ac felly'n ail/leoli i Ynys Môn ynghyd â chynnydd mewn ail gartrefi a'r farchnad gwyliau fel Air B&B.

Mae cyferbyniad yn bodoli o hyd rhwng ffyniant economaidd a lefelau amddifadedd cymdeithasol mewn rhai o'r cymunedau mwyaf ffyniannus a'r rhai tlotaf.

Bydd rôl tai yn ystod yr adfer yn dilyn Covid a'r adferiad gwyrdd yn holl bwysig.

Beth ydym am ei wneud?

Mae gan Fwrdd Uchelgais Gogledd Cymru nod i wella effeithiolrwydd ynni cartrefi yng Ngogledd Cymru.

Mae'r Cyngor yn parhau i annog mentrau sy'n cefnogi busnesau lleol i dendro am gontractau gwaith ac annog cyfleoedd am ddulliau adeiladau sy'n lleihau carbon ac ôl-osod.

Ymateb i'r heriau mae ail gartrefi yn cyflwyno o ran darpariaeth tai fforddiadwy a chynlluniau gan LLC i ymateb i'r materion hyn.

Mae Gwasanaethau Tai a'i Phartneriaid yn cyfrannu yn helaeth at yr economi yn lleol drwy nifer o gontractau gwaith, adeiladu ac adnewyddu ynghyd ag contractau gwasanaeth sydd yn cefnogi darparwyr cefnogaeth leol a rhoddi cyfleon gwaith.

Sut ydym am wneud hyn?

Parheir i gefnogi Prosiectau Adfywio megis dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd tra bydd cyllid ar gael.

Mae hwn yn weithred tymor canolig.

Mae'r Gwasanaethau Tai a'i Phartneriaid Tai allweddol yn parhau i gefnogi nifer o gwmnïau lleol drwy gynnig cytundebau gwaith drwy ei gynlluniau gwaith cynnal a chadw cynlluniedig, gwaith ôl-osod, rhaglenni adeiladu tai newydd ac adnewyddu hen dai Cyngor sy'n cael eu prynu'n ôl. Mae gan ein contractau gwasanaethau hefyd gyfraniad pwysig i'w wneud yn lleol gan gefnogi swyddi a chreu cyfleoedd.

Mae hwn yn weithred barhaol.

Byddwn yn annog cyfleoedd i gydweithio i ymateb i'r her o ddatgarboneiddio a chyfleoedd lleol i annog cyfleoedd gwaith ac ail-sgilio unigolion e.e. drwy gydweithio gydag MSparc a cholegau lleol.

Mae hwn yn weithred barhaol.

Drwy'r Grŵp Tasg a Gorffen Ail Gartrefi byddwn yn edrych ar ddatrysiadau i liniaru sgil effeithiau ail gartrefi ar ein cymunedau a thrigolion .

Mae hwn yn weithred tymor canolig.

Cyngor Sir Ynys Môn	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith Strategol; Cyfarfod Busnes y Pwyllgor Gwaith; Pwyllgor Gwaith ac Cyngor Sir Llawn
Dyddiad:	24.01.2022 – (Pwyllgor Gwaith Strategol) 31.01.2022 – (Pwyllgor Gwaith - Busnes) 14.02.2022 – (Pwyllgor Gwaith) 10.03.2022 – (Cyngor Sir (llawn))
Pwnc / Testun:	Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019; trefniadau gweithredu ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn a Rhentu Doeth Cymru
Deilydd(ion) Portffolio:	Cynghorydd Richard Dew
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	Christian Branch Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio ac Datblygu Economaidd
Awdur yr Adroddiad: Tel: E-bost:	Trystan Owen Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd 2835 trystanowen@ynysmon.gov.uk
Aelodau Lleol:	Perthnasol i holl aelodau

A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Argymhellir:

- 1. Dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd er mwyn awdurdodi swyddogion perthnasol i arfer, yn ôl yr angen, gweithredu'r pwerau gorfodi statudol hynny o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019 ar ran y Cyngor yma.**
- 2. Rhoi'r hawl i'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd ddirprwyo swyddogion Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd i gymryd camau priodol ar ran y Cyngor hwn i orfodi darpariaethau'r Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019, drwy'r gwasanaeth a elwir yn Rhentu Doeth Cymru.**

Crynodeb Gweithredol:

Mae Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019 (yr Ddeddf) yn ei gwneud yn drosedd i fynnu bod tenant neu ddeiliad contract yn gwneud unrhyw daliad sydd ddim yn cael ei nodi fel 'taliad a ganiateir' yn y ddeddfwriaeth. Mae hyn yn cynnwys gwaith gweinyddol sydd ynghlwm â chreu neu adnewyddu contract meddiannaeth, ffioedd ymadael, cynnal ymweliadau i edrych ar eiddo a gwirio geirdaon.

Mae'r Ddeddf yn diffinio taliadau a ganiateir y gall asiantau gosod a landlordiaid sy'n rheoli eu heiddo eu hunain ofyn amdanynt fel:

- rhent
- blaendaliadau cadw
- blaendaliadau sicrwydd
- taliadau mewn cysylltiad â darparu cyfleustodau (e.e. treth gyngor, teledu, trwydded a gwasanaethau cyfathrebu)
- taliadau yn achos diffyg daliad (os yw tenant yn gwneud rhywbeth o'i le e.e. colli allweddi, talu rhent yn hwyr)

Bydd grym gan awdurdod gorfodi i roi hysbysiadau cosb penodol. Bydd gan awdurdodau lleol y gallu i orfodi gofynion y Ddeddf, ar y cyd â Rhentu Doeth Cymru – gwasanaeth a gynhelir gan Gyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd (Cyngor Caerdydd) fel yr awdurdod trwyddedu lleol – gan fod y ddeddf yn awdurdodi awdurdod trwyddedu ar gyfer yr ardal i wneud y gwaith gorfodaeth.

Dynodwyd Cyngor Caerdydd fel awdurdod trwyddedu dros Gymru gyfan gan Weinidogion Cymru yn 2015, o dan Gorchymyn Rheoleiddio Tai Rhent Preifat (Dynodi Awdurdod Trwyddedu) (Cymru) 2015.

Er hynny, nid oes modd i Gyngor Caerdydd gymryd unrhyw gamau gorfodaeth heb ganiatâd ysgrifenedig gan y awdurdod lleol.

Ar hyn o bryd mae'r ddeddfwriaeth hon tu allan i gwmpas y ddirprwyaeth bresennol. Gofynnir i'r Cyngor llawn nodi gweithrediad y ddeddfwriaeth newydd, sef Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd ect.) (Cymru) 2019, a diwygio'r cynllun dirprwyo i swyddogion drwy ddirprwyo swyddogaethau'r Ddeddf yn arferadwy gan Gyngor Sir Ynys Môn i'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

Gofynnir hefyd i ddirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd i ddirprwyo ymhellach i swyddogion Cyngor Caerdydd drwy ei wasanaeth a elwir yn Rhentu Doeth Cymru (RhDC) waith gorfodi'r Cyngor hwn dan ddarpariaethau'r Ddeddf. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y pwerau gorfodi statudol perthnasol o dan y Ddeddf yn cael eu defnyddio'n briodol.

Bydd Rhentu Doeth Cymru'n dim ond yn cymryd camau gorfodi yn lle Awdurdodau Lleol o dan amgylchiadau cyfyngedig canlynol:

- pan fo Rhentu Doeth Cymru'n yn cynnal archwiliad ar asiant gosod a rheoli ac yn canfod tystiolaeth o beidio â chydymffurfio
- pan fo Rhentu Doeth Cymru'n cymryd camau gorfodaeth am droseddau o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (e.e. heb gofrestru â Rhentu Doeth Cymru) ac yn canfod achosion o dramgwyddo rheolau ynghylch ffioedd tenantiaid
- amgylchiadau eithriadol eraill i'w cytuno fesul achos gyda'r Awdurdod Lleol perthnasol

Mae hon yn ddeddf newydd ac felly angen trefniadau o'r newydd i ddelio â'r gofynion.

B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Ystyriwyd yr opsiwn o orfodi darpariaethau'r Ddeddf ein hunain yn hytrach na defnyddio Cyngor Caerdydd.

Fodd bynnag, bydd rhannu'r gyfrifoldeb gorfodi gyda Rhentu Doeth Cymru yn caniatáu i ni weithio'n fwy effeithiol mewn partneriaeth. Mae Rhentu Doeth Cymru wedi derbyn pwerau dirprwyedig gan awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, fel Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Chyngor Bro Morgannwg.

C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Gan mai'r argymhelliad yw diwygio'r Cynllun dirprwyo, yna mae honno'n swyddogaeth a gedwir yn ôl i'r Cyngor llawn, ond yn amodol ar argymhelliad blaenorol gan y Pwyllgor Gwaith.

Rhesymau am benderfyniadau (1 a 2 bocs A), sicrhau bod y pwerau gorfodi statudol perthnasol o dan y Ddeddf yn cael eu defnyddio'n briodol.

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Yndi – 3.2.3.1 o'r Cyfansoddiad

D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Mae baich rheoleiddio ychwanegol y ddeddfwriaeth hon wedi bod yn destun asesiad ariannol gan Lywodraeth Cymru. Ystyrir y bydd y gosb benodedig (£1000 fesul trosedd) neu ddyfarniadau costau llys yn cwrdd â'r costau ariannol a geir.

Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol):

1	Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Amherthnasol
2	A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut?	Amherthnasol
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy.	Do – Rhentu Doeth Cymru. Mae Rhentu Doeth Cymru yn wasanaeth sy'n cael ei gynnal gan Gyngor Caerdydd fel yr awdurdod trwyddedig dros Gymru. Dynodwyd Gyngor Caerdydd fel yr awdurdod trwyddedu gan Weinidogion Cymru dros Gymru gyfan yn 2015
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.	Amherthnasol
5	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Amherthnasol
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantaidd economaidd-gymdeithasol.	Amherthnasol
7	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	<p>Mae Rhentu Doeth Cymru yn ddarostyngedig i'r safonau sydd wedi eu gosod ar Gyngor Caerdydd dan ddarpariaethau Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015. Felly, yn sicrhau nad yw'r iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth orfodi'r ddeddfwriaeth yma.</p> <p>Mae'r trywydd gweithredu sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth hon yn targedu landlordiaid tai rhent preifat ac asiantau gosod tai yn benodol. Felly, mae'r effaith ar boblogaeth ehangach Ynys Môn yn llai arwyddocaol.</p>

E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau?		
1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)	Derbyn yr argymhelliad
2	Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)	Derbyn yr argymhelliad
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)	Dim sylw
4	Adnoddau Dynol (AD)	Amherthnasol
5	Eiddo	Amherthnasol
6	Technoleg Gwybodaeth (TG)	Amherthnasol
7	Caffael	Amherthnasol
8	Sgriwtini	Amherthnasol
9	Aelodau Lleol	Amherthnasol

F - Atodiadau:
Dim

Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):
<p>1. Cefndir</p> <p>1.1 Daeth Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019 i rym ar 5 Mai 2019. Ers 1 Medi 2019, mae asiantiaid gosod a landlordiaid sy'n rheoli eu heiddo eu hunain yn cael eu hatal rhag codi unrhyw ffioedd cyn, yn ystod ac ar ôl tenantiaeth oni bai eu bod yn cael eu heithrio yn benodol yn y Ddeddf. Mae taliad o'r fath sy'n cael ei wahardd yn cael ei alw'n 'daliad gwaharddedig'. Mae asiantiaid gosod a landlordiaid sy'n rheoli eu heiddo eu hunain yn cael eu gwahardd hefyd rhag ei gwneud yn ofynnol i denant gymryd benthyciad neu ymrwymo i gontract am wasanaethau.</p> <p>1.2 Gall y Cyngor neu Rhentu Doeth Cymru gymryd camau gorfodaeth mewn perthynas â'r gofynion newydd hyn (fel yr Awdurdod Trwyddedu Sengl). Byddant yn cyfrannu at brofiad tecach a mwy tryloyw ar gyfer tenantiaid sy'n dibynnu ar y sector rhent preifat. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Tai Lleol i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd, yn cynnwys manylion am sut y gellir adennill taliadau gwaharddedig a blaendaliadau cadw. Bydd y wybodaeth ofynnol yn cael ei rhoi ar wefan yr awdurdod i sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni'r ddyletswydd honno.</p> <p>1.3 Mae unrhyw daliadau ac eithrio'r rhai hynny a restrir uchod yn cael eu gwahardd. Pan fo unrhyw daliad rhent, ar gyfer un cyfnod, yn fwy na swm y rhent sy'n daladwy mewn unrhyw gyfnod arall yn ystod y contract, mae'r gwahaniaeth ('amrywiad ar y rhent') yn cael ei ystyried yn daliad</p>

gwaharddedig hefyd. Ceir eithriad pan fo'r landlord a'r tenant yn cytuno ar 'amrywiad a ganiateir'.

1.4 Mae 'blaendaliadau cadw' yn cael eu cyfyngu i un wythnos o rent a rhaid eu had-dalu o fewn saith niwrnod ar ôl cytuno ar y contract. Os na chytunir ar gontract tenantiaeth, mae'n rhaid ad-dalu'r blaendal, yn amodol ar eithriadau cyfyngedig, o fewn 15 diwrnod. Ni fydd unrhyw newid yn y ddeddfwriaeth bresennol mewn perthynas â 'blaendaliadau sicrwydd'.

2. Prif Faterion i'w Hystyried

2.1 Mae troseddau'n cael eu cyflawni pan fo landlordiaid a/neu asiantiaid yn methu â chydymffurfio â'r Ddeddf. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am orfodi'r ddeddfwriaeth hon mewn partneriaeth â Rhentu Doeth Cymru. Mae'r ddeddfwriaeth yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol i orfodi'r ddeddfwriaeth hon, gyda'r grym i rannu'r cyfrifoldeb â Rhentu Doeth Cymru. Mae hwn yn ddarn newydd o ddeddfwriaeth sy'n gwneud darpariaeth i warchod tenantiaid ac ar hyn o bryd nid yw o fewn cwmpas y ddirprwyaeth sydd eisoes yn bodoli. Gofynnir i'r Cyngor Llawn ddirprwyo'r swyddogaethau hyn i'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd er mwyn sicrhau bod y pwerau statudol perthnasol o dan y Ddeddf yn cael eu dirprwyo i'r swyddogion perthnasol a fod yr pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r argymhelliad yma. Yn ogystal, mae'r awdurdodau lleol eraill yng Nghymru yn awr wrthi'n gwneud cynlluniau, yn unol â'u trefniadau cyfansoddiadol, i awdurdodi Rhentu Doeth Cymru i orfodi darpariaethau'r Ddeddf.

2.2 Awdurdodau Lleol sy'n bennaf gyfrifol am orfodi'r gofynion ac mae dyletswydd arnynt i hysbysu Rhentu Doeth Cymru os ydynt yn cymryd camau gorfodi. Bydd dyletswydd ar Rhentu Doeth Cymru hefyd i hysbysu Awdurdodau Lleol os ydynt yn rhoi hysbysiad cosb benodedig neu'n erlyn o dan y Ddeddf newydd. Mae dau opsiwn gorfodi ffurfiol:

2.3 Rhoi hysbysiad cosb benodedig o £1,000, a byddai talu'r ddirwy yn golygu bod modd osgoi erlyniad. Defnyddir derbynebaw talu'r gosb benodedig ar gyfer y swyddogaeth orfodi hon.

2.4 Erlyn am droseddau o dan y Ddeddf, a allai arwain at ddirwy nad yw'n ddarostyngedig i isafswm ar y raddfa safonol ar gyfer dirwyon (ac eithrio am fethiant i ddarparu gwybodaeth sy'n ofynnol drwy hysbysiad statudol, ac mewn achos o'r fath gellir gosod dirwy hyd at lefel 4 ar y raddfa safonol).

3. Sut mae'r cynigion yn cyfrannu at ein Hamcanion Llesiant?

3.1 Mae'r Sector Rhent Preifat wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y ddegawd ddiwethaf a bydd yn parhau i chwarae rôl bwysig yn y farchnad

dai yng Nghymru yn y dyfodol, yn enwedig wrth ystyried y cynnydd a rhagwelir yn y boblogaeth a'r duedd tuag at gynnydd hyd yn oed yn fwy yn nifer yr aelwydydd dros gyfnod amser. Mae ymchwil wedi nodi bod ffioedd asiantiaid gosod wedi bod yn cynyddu'n sylweddol dros amser, a'u bod felly'n debygol o greu mwy o rwystr i ddarpar denantiaid yn y dyfodol nag y maent ar hyn o bryd. Bydd gwneud y Sector Rhent Preifat yn ddaliadaeth o ddewis sy'n ddeniadol ac yn fforddiadwy yn helpu i ymdrin â'r galw cynyddol am dai yr ydym yn disgwyl eu gweld yn ystod yr 20 mlynedd nesaf.

- 3.2 Mae ymchwil ddiweddar wedi dangos ei bod yn arbennig o anodd i bobl ddigartref neu bobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref ganfod yr arian angenrheidiol i sicrhau llety yn y sector rhent preifat. Bydd y ddeddfwriaeth yn cefnogi gwaith digartrefedd trwy ei gwneud yn haws i bobl nad ydynt yn gallu cael gafael ar lwmp swm mawr i gael mynediad i'r sector rhent preifat.
- 3.3 Mewn perthynas â'r pum ffordd o weithio, mae gan y Cyngor gysylltiadau cryf sydd wedi hen sefydlu â Rhentu Doeth Cymru sy'n gallu gweithio ar y cyd i sicrhau cyfundrefn orfodi fwy effeithiol i warchod defnyddwyr ac mae'r cynigion yn yr adroddiad hwn yn cynnig dull integredig ar gyfer delio â chynnydd yn y galw am dai yr ydym yn disgwyl ei weld yn ystod yr 20 mlynedd nesaf.

4. Ystyriaethau'n ymwneud ag Adnoddau ac Agweddau Cyfreithiol

Cyflogaeth

- 4.1 Ni ragwelir y bydd angen unrhyw adnoddau staff ychwanegol ar hyn o bryd. Bydd y ddeddfwriaeth yn cael ei gorfodi ar sail adweithiol yn dilyn cwyn ac yn cael ei blaenoriaethu'n unol â hynny, neu fel rhan o ymchwiliad achos parhaus.

Cyfreithiol (yn cynnwys Cydraddoldeb)

- 4.2 Yr awdurdod tai lleol a'r awdurdod trwyddedu ar gyfer yr ardal, i bwrpasau'r ddarpariaeth berthnasol a gynhwysir yn 'y Ddeddf', yw'r awdurdod gorfodi mewn perthynas ag ardal yr awdurdod tai lleol.
- 4.3 Ni chaiff awdurdod trwyddedu sydd, yn rhinwedd y ddarpariaeth berthnasol a gynhwysir yn 'y Ddeddf', yn awdurdod gorfodi ar gyfer ardal yr awdurdod tai lleol, ymarfer unrhyw swyddogaeth awdurdod gorfodi mewn perthynas â'r ardal honno, na dwyn achosion llys o dan adran 19 'y Ddeddf' mewn perthynas â'r ardal honno, heb gael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr awdurdod tai lleol ar gyfer yr ardal honno.
- 4.4 Gellir rhoi caniatâd cyffredinol o dan ddarpariaeth berthnasol 'y Ddeddf' neu ganiatâd mewn perthynas ag achosion neu swyddogaethau penodol.



Cyngor Sir Ynys Môn	
Adroddiad i:	Cyngor Llawn
Dyddiad:	10 Mawrth 2022
Pwnc / Testun:	Adroddiad Adolygu - Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd
Deilydd(ion) Portffolio:	Cynghorydd Richard Dew
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	Christian Branch – Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
Awdur yr Adroddiad: Tel: E-bost:	Rebeca Jones Rheolwr Polisi Cynllunio rebecejones@gwynedd.llyw.cymru
Aelodau Lleol:	Yn berthnasol i bob aelod etholedig

A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau	
Argymhelliad	
Bod y Cyngor Llawn yn:	
Cytuno i gyhoeddi'r Adroddiad Adolygu (gweler Atodiad 1) a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru, fel y gellir cychwyn ar y broses o baratoi Cynllun Diwygiedig.	
Rhesymau	
1.0	Cefndir
1.1	Mae'r Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn nodi fod angen adolygu Cynllun Datblygu Lleol 4 mlynedd yn dilyn ei fabwysiadu. Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLI ar y Cyd) ar 31 Gorffennaf 2017 ac felly, yn unol â'r gofyn statudol, y 31 Gorffennaf 2021 oedd y dyddiad ar gyfer cychwyn y broses adolygu.
1.2	Cyn cychwyn ar baratoi CDLI diwygiedig mae'n rhaid adolygu'r cynllun presennol a pharatoi Adroddiad Adolygu. Mae'n ofyn statudol i Gyngor Llawn gytuno i gyhoeddi Adroddiad Adolygu er mwyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, cyn y gellir cychwyn ar y broses o baratoi CDLI diwygiedig.
1.3	Pwrpas yr Adroddiad Adolygu yw edrych ar yr holl dystiolaeth sydd yn berthnasol i'r CDLI ar y cyd, a dod i gasgliad ynglŷn â'r math o adolygiad bydd yn cael ei ddilyn. Gall hyn fod yn adolygiad ffurf lawn, sydd gyfystyr a pharatoi Cynllun newydd, neu adolygiad ffurf fer, sydd gyfystyr ag addasu rhannau penodol o'r Cynllun cyfredol. Pwysleisir nad diben yr Adroddiad Adolygu yw manylu ar unrhyw newidiadau y bydd yn cael eu gwneud i'r Cynllun.

1.4 Mae Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Llywodraeth Cymru) yn nodi y dylai'r Adroddiad Adolygu fod yn gryno a chynnwys yr isod:

- Pa wybodaeth sy'n cael ei hystyried i lywio adolygiad o'r cynllun a pham.
- Sut mae'r canfyddiadau'n effeithio ar weledigaeth, nodau ac amcanion y cynllun, gan gynnwys rhoi'r strategaeth ar waith.
- Adolygiad o bob maes pwnc yn y cynllun gan nodi'n glir beth sydd angen ei newid, a pha rannau o'r sail dystiolaeth y mae angen ei ddiweddarau i gefnogi'r newidiadau.
- Ailystyried yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd.
- Archwilio ac esbonio'r cyfleoedd i baratoi CDLI ar y Cyd-gyda ACLlau cyfagos a chynyddu gweithio traws-ffiniol.
- Casgliadau clir ynghylch pam mae angen dilyn y drefn adolygu ffurf lawn (sydd gyfystyr a pharatoi Cynllun newydd), neu'r weithdrefn adolygu ffurf fer (sydd gyfystyr ag addasu rhannau o'r Cynllun cyfredol).

1.5 Mae'r Adroddiad Adolygu sydd yn Atodiad 1 yn cynnwys 6 rhan sef:

Rhan 1 – Cyflwyniad a chefnidir, sydd yn cynnwys y cyd-destun deddfwriaethol ac yn gosod allan beth yw pwrpas yr Adroddiad Adolygu a beth sydd yn rhannau 2 i 6 o'r Adroddiad Adolygu

Rhan 2 - Yn cynnwys y prif newidiadau mewn deddfwriaeth, polisi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sydd mewn grym ers mabwysiadu'r cynllun presennol, a materion eraill sydd yn dylanwadu ac felly angen ystyriaeth bellach.

Rhan 3 – Yn cynnwys adolygiad o'r Cynllun cyfredol ac yn gosod allan newidiadau posib fydd angen eu gwneud i'r strategaeth, amcanion a pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

Rhan 4 – Yn cynnwys y gofynion ar gyfer adolygu neu ddiweddarau'r sail tystiolaeth i gefnogi neu lywio unrhyw newidiadau i'r CDLI ar y Cyd.

Rhan 5 - Yn cynnwys yr ystyriaeth sydd wedi ei roi i gydweithio a pharatoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, gan ei fod yn ofynnol rhoddi ystyriaeth i hyn o fewn yr Adroddiad Adolygu.

Rhan 6 - Gosod allan y casgliadau ynglŷn â ffurf yr adolygiad o'r Cynllun (adolygiad ffurf fer neu llawn) y bydd angen ei ddilyn.

1.6 Mae'r dystiolaeth yn yr Adroddiad Adolygu yn tanlinellu'r angen am **Adolygiad Ffurf Lawn o'r Cynllun, ac fe welir o'r trosolwg isod fod ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn cytuno gyda hynny.**

2. Ymgynghoriad Cyhoeddus

2.1 Rhyddhawyd yr Adroddiad Adolygu Drafft ar gyfer cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 5ed Tachwedd a 20fed Rhagfyr 2021, ac hefyd cynhaliwyd sesiynau briffio aelodau ym mis Tachwedd 2021 ar gyfer holl Aelodau'r Cyngor er mwyn egluro'r broses. Atodir y llythyr ymgynghori yn Atodiad 2 er gwybodaeth, oedd yn cadarnhau pwrpas yr Adroddiad, sef edrych ar yr holl dystiolaeth sydd yn berthnasol i'r CDLI ar y Cyd, a dod i gasgliad ynglŷn â'r math o adolygiad bydd yn cael ei ddilyn. Roedd y llythyr ymgynghori'n pwysleisio hefyd **“nad diben yr Adroddiad Adolygu yw manylu ar unrhyw newidiadau y bydd yn cael eu gwneud i'r Cynllun”**.

Trosolwg o sylwadau a dderbyniwyd

2.2 Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus derbyniwyd 329 o sylwadau gan 48 unigolyn/sefydliad. Mae'r sylwadau a dderbyniwyd ar yr Adroddiad Adolygu ynghyd ac ymateb y Gwasanaeth i'w weld yn Atodiad 3. Mae'r sylwadau yn gallu cael ei categoreiddio i 3 categori fel sydd wedi nodi isod:

- i) Sylwadau sydd yn arwain at newid
- ii) Sylwadau sydd ddim yn berthnasol i'r cam yma o'r broses
- iii) Sylwadau sydd ddim yn berthnasol i'r CDLI (sef ddim yn faterion cynllunio defnydd tir)

2.3 Mae sylwadau sydd yn disgyn i mewn i gategori (i) wedi arwain at y newidiadau sydd i'w gweld yn yr Adroddiad Adolygu terfynol mewn ysgrifen drom, wedi ei danlinellu gyda llinell ddwbl (gweler Atodiad 1). Mae'r prif newidiadau wedi eu gosod allan isod.

- i) Cynnwys cyfeiriad yn rhan 2 o'r ddogfen i:
 - a. Canllawiau Ddeddf Teithio Llesol (Gorffennaf 2021) (cyhoeddiad Llywodraeth Cymru)
 - b. Croeso i Gymru: Blaenoriaethau i'r Economi Ymwelwyr 2020-2025 (cyhoeddiad Llywodraeth Cymru)
 - c. Datganiad Ardal Morol (cyhoeddiad Cyfoeth Naturiol Cymru)
 - d. Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru
- ii) Iawn mCynnwys testun sydd yn rhoi diweddariad ynghylch a'r oedi gyda chyhoeddi Nodyn Cyngor Technegol 15 diwygiedig yn Rhan 2
- iii) Cynnwys testun sydd yn cyfeirio at yr ymgynghoriadau gan Llywodraeth Cymru ar newidiadau bosib i drethi lleol ar ail gartrefi a llety hunan darpar, a diwygiadau i'r rheoliadau a polisi cynllunio yn gysylltiedig â ail-gartrefi a llety hunan-ddarpar
- iv) Man newidiadau i'r testun er mwyn cywirdeb.

2.4 Roedd nifer fawr o'r sylwadau a dderbyniwyd yn disgyn i gategori (ii) gan eu bod yn gofyn am newidiadau penodol i'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, neu yn gofyn am waith/tystiolaeth bellach ar feysydd penodol. Fel sydd wedi ei nodi yn "Ymateb y Gwasanaeth i'r sylwadau", mi fydd cyfle i ystyried y materion yma fel rhan o'r broses o baratoi cynllun diwygiedig sef y camau fydd yn digwydd nesaf. Gweler isod materion godwyd fel rhan o'r Ymgynghoriad Cyhoeddus, sydd yn faterion sydd i gyd wedi cael eu trafod yn yr Adroddiad Adolygu, ond byddant yn cael yn cael ystyriaeth lawn yn ystod y broses o baratoi'r Cynllun diwygiedig.

- Iaith Gymraeg a Pholisi PS1
- Tai Fforddiadwy i bobl leol
- Tai Marchnad Lleol a Pholisi TAI5
- Ail Gartrefi a Thai Haf
- Twristiaeth, yr economi ymweld a gor dwristiaeth
- Y Ddeddf Llesiant

2.5 Fel y nodir yn para 4.2 o'r Adroddiad Adolygu: "***ystyrir y bydd diwygio neu ddisodli'r sail dystiolaeth yn rhoi cyfle i gael gwell dealltwriaeth o'r gofynion defnydd tir y ddwy sir yn ystod oes y Cynllun Diwygiedig, yn ogystal ag ystyried oblygiadau'r pandemig Cofid ac unrhyw newidiadau cyd-destunol neu bolisi sydd wedi digwydd ers mabwysiadu'r cynllun presennol.***" Pwysleisir hefyd y bydd hyn yn cynnwys rhoi ystyriaeth lawn i'r holl faterion sydd wedi codi mewn ymateb i'r Adroddiad Adolygu.

2.6 Mae'r sylwadau sydd yn disgyn i gategori (iii) yn rhai sydd ddim yn berthnasol i'r broses o baratoi'r CDLI neu ddim yn faterion sydd yn berthnasol i'r weithdrefn cynllunio. Er nad yw'r rhain yn faterion sydd yn berthnasol i gynllunio, gall rhain fod yn berthnasol i feysydd gwaith Adrannau / Gwasanaethau eraill y Cyngor.

2.7 Gan nodi mai prif bwrpas yr Adroddiad Adolygu yw dod i gasgliad ynglŷn â pha fath o adolygiad y dylid ei ddilyn (adolygiad ffurf fer neu ffurf lawn), mae'r dystiolaeth gefnogol a'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus yn cefnogir angen i **gynnal adolygiad llawn** o'r Cynllun. Mae Atodiad 4 yn dangos y camau fydd angen eu dilyn ar gyfer cynnal adolygiad llawn – sef paratoi Cynllun diwygiedig.

3. Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd

3.1 Mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd a gynhaliwyd ar yr 22ain Hydref 2021 gwnaeth aelodau'r Pwyllgor ystyried ac yna cymeradwyo'r Adroddiad Adolygu drafft, i fynd allan am y cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus y cyfeirir at yn rhan 2 o'r adroddiad yma.

3.2 Cyflwynwyd y sylwadau a dderbyniwyd yn sgil yr ymgynghoriad cyhoeddus yn ogystal ac ymateb y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd, gyda'r Adroddiad Adolygu oedd yn cynnwys newidiadau yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, i gyfarfod o'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar y 4ydd o Chwefror 2022. Penderfyniad y Pwyllgor Polisi ar y Cyd oedd:

<ul style="list-style-type: none"> i. Derbyn y newidiadau i'r Adroddiad Adolygu (sef Atodiad 1) ii. Cymeradwyo yr Adroddiad Adolygu fel yr adroddiad terfynol a fydd yn cael ei gyhoeddi a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth Cyngor Llawn Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn. <p>3.3 Fel y nodwyd eisoes, mae'n ofyn statudol i gael cytundeb Cyngor Llawn i gyhoeddi'r Adroddiad Adolygu er mwyn ei gyflwyno i Llywodraeth Cymru, cyn y gellir cychwyn ar y broses o baratoi CDLI Diwygiedig.</p> <p>4. Camau Nesaf</p> <p>4.1 Yn ddarostyngedig i gytundeb y Cyngorau, y cam nesaf bydd paratoi Cytundeb Cyflawni a Chynllun Cynnwys Cymunedau, fydd yn gosod allan y camau ac amserlen ar gyfer paratôï cynllun diwygiedig, ynghyd a sut bydd y Cyngor yn Cynnwys Cymunedau wrth lunio'r Cynllun Diwygiedig. Mi fydd y Cytundeb Cyflawni yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ag yn derbyn ystyriaeth gan y Cyngor cyn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Unwaith mae'r Cytundeb Cyflawni wedi ei gytuno efo Llywodraeth Cymru mae gwaith yn cychwyn yn ffurfiol ar y broses o baratoi Cynllun Diwygiedig. Mae gwaith rhag paratoi yn mynd rhagddi o fewn y Gwasanaeth ac mi fydd y gwaith yma yn parhau tan i'r Cytundeb Cyflawni gael ei gytuno.</p>

B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Dim yn berthnasol oherwydd fod paratoi a cyflwyno Adroddiad Adolygu i Lywodraeth Cymru yn gam statudol.

C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Fel y nodwyd ym mharagraff 3.1 a 3.2 mae'r Cydbwyllgor Polisi Cynllunio wedi ystyried yr Adroddiad Adolygu cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus ac wedi ystyried y newidiadau a wnaed i'r Adroddiad Adolygu yn dilyn yr Ymgynghoriad Cyhoeddus a Penderfyniad y Pwyllgor Polisi ar y Cyd oedd:

- i. Derbyn y newidiadau i'r Adroddiad Adolygu (sef Atodiad 1)
- ii. Cymeradwyo yr Adroddiad Adolygu fel yr adroddiad terfynol a fydd yn cael ei gyhoeddi a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth Cyngor Llawn Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn.

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

d/b

D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

d/b

Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol):

1	Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Mi fydd Cyflwyno Adroddiad Adolygu i Lywodraeth Cymru golygu gallu symud ymlaen efo'r paratoi Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig
2	A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut?	d/b
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhwch wybod gyda phwy.	Y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y cyd sydd wedi paratoi'r Adroddiad Adolygu. Mae'r Gwasanaeth yn wasanaeth ar y cyd rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Cyngor Gwynedd.
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.	Mae'r Adroddiad Adolygu wedi bod yn destun Ymgynghoriad Cyhoeddus, gweler paragraff 2.1 – 2.7 yn Rhan A uchod.
5	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	d/b
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	Unwaith y bydd Adroddiad Adolygu wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru, gall gwaith gychwyn ar baratoi cynllun diwygiedig. Bydd y Cynllun Diwygiedig yn ymateb i'r materion economaidd-gymdeithasol sy'n wynebu'r Ynys drwy, er enghraifft, sicrhau cyflenwad digonol o dai fforddiadwy, cyfleoedd cyflogaeth drwy ddyraniadau tir cyflogaeth, a sicrhau bod datblygiadau mewn lleoliadau cynaliadwy sy'n hygyrch i bawb.
7	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â	d/b

	thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	
--	--	--

E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau?		
1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)	
2	Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)	
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)	
4	Adnoddau Dynol (AD)	
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth (TG)	
7	Caffael	
8	Sgriwtini	
9	Aelodau Lleol	

F - Atodiadau:
<p>Atodiad 1: Adroddiad Adolygu Atodiad 2: Llythyr Ymgynghori Atodiad 3: Sylwadau yn dilyn yr ymgynghori a ymateb y Gwasanaeth Atodiad 4: Camau ar gyfer paratoi Cynllun Diwygiedig</p>

Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):
d/b

**Adroddiad Adolygu
Terfynol
Cynllun Datblygu Lleol
ar y Cyd Gwynedd a
Môn**

(yn cynnwys y newidiadau yn dilyn yr ymgyhoriad cyhoeddus)

Mawrth 2022

Cynnwys

1.0	Cyflwyniad	2
	Cefndir.....	2
	Beth yw Adroddiad Adolygu	2
2.0	Gwybodaeth a materion perthnasol	4
	Arwyddocâd newidiadau cyd-destunol.....	4
	Newidiadau Deddfwriaethol	4
	Diwygiadau i arweiniad Polisi Cynllunio Cenedlaethol	5
	Y cyd-destun rhanbarthol.....	12
	Y cyd-destun lleol	13
	Materion eraill sydd yn dylanwadu ac angen ystyriaeth	17
	Canfyddiadau'r Adroddiadau Monitro Blynyddol	23
3.0	Adolygiad o'r CDLI a'r newidiadau posib	26
	Gweledigaeth ac amcanion strategol.....	26
	Strategaeth.....	26
	Polisiau'r Cynllun.....	27
	Mapiau Cynigion, Mapiau Mewnosod a'r Mapiau Cyfyngiadau	47
	Canllawiau Cynllunio Atodol	48
4.0	Gofynion adolygu'r sail dystiolaeth	49
	Casglu dystiolaeth	49
	Asesiadau Effaith.....	51
5.0	Cyd-weithio a pharatoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd	52
6.0	Casgliadau a chamau nesaf	54

1.0 Cyflwyniad

Cefndir

- 1.1 Mae'r Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn nodi'r angen i adolygu Cynllun Datblygu Lleol ar ôl cyfnod o 4 mlynedd yn dilyn ei fabwysiadu. Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLI ar y Cyd) ar 31 Gorffennaf 2017, ac felly, mae'r cyfnod o adolygu'r Cynllun wedi cychwyn ar 31 Gorffennaf, 2021.
- 1.2 Y Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 a Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2015 sydd yn gosod allan y camau statudol sydd rhaid ymgymryd wrth adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r rheoliadau yn gosod allan camau gwahanol i ymgymryd ag adolygiad ffurf fer neu adolygiad llawn o Gynllun Datblygu Lleol. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn amlinellu'n glir yr amgylchiadau ar gyfer dilyn naill neu'r llall o'r gweithdrefnau. Noder fod y ddwy drefn yn dra gwahanol ac nid yw'n ddewisol pa un y bydd rhaid ei ddilyn. Yn dilyn rhoi sylw i'r ystyriaethau perthnasol yn yr Adroddiad canlynol fe fydd yr Adroddiad yn dod i gasgliad ynglŷn â pha weithdrefn adolygu a fydd angen ymgymryd, hynny yw boed yn adolygiad ffurf fer neu yn adolygiad llawn. Bydd y CDLI ar y Cyd diwygiedig yn cwmpasu cyfnod cynllun hyd at 2036, sef diwedd cyfnod o 15 mlynedd a fydd yn dechrau yn 2021.
- 1.3 Mae'r Adroddiadau Monitro Blynyddol (AMB) yn rhan allweddol o'r broses o adlewyrchu ar berfformiad gan gynnwys lwyddiannau a methiannau'r Cynllun cyfredol. Ymhellach mae canfyddiadau'r AMB yn cyfrannu at lywio datblygiad y Cynllun Diwygiedig. Mae'r AMB sydd wedi ei gyhoeddi (3 mewn nifer) yn nodi pryderon ynglŷn â rhai meysydd polisi ble mae'r targed polisi â osodwyd o fewn y dangosydd wedi ei fethu. Nid oedd y methiannau hyn ynddynt eu hunain yn cyfiawnhau'r angen i gynnal adolygiad cynnar o'r Cynllun gan fod y Cynllun yn gyffredinol yn perfformio'n dda. Fodd bynnag maent yn faterion a fydd angen eu hystyried fel rhan o'r Cynllun Diwygiedig. Gweler rhan 2.89 am fwy o fanylion.

Beth yw Adroddiad Adolygu

- 1.4 Paratoi a derbyn cymeradwyaeth o'r Adroddiad Adolygu yw'r cam cyntaf yn y broses o baratoi Cynllun Diwygiedig. Bydd yr Adroddiad Adolygu yn rhan allweddol o sail dystiolaeth y Cynghorau pan gyflwynir yr CDLI ar y Cyd Diwygiedig i Lywodraeth Cymru i'w archwilio.
- 1.5 Mae'r Adroddiad Adolygu hwn, yn cyflwyno meysydd lle mae'r CDLI cyfredol yn cyflawni ac yn perfformio'n dda, yn ogystal â'r meysydd hynny lle gall fod angen newidiadau. **Pwysleisir nad diben yr Adroddiad Adolygu yw manylu ar unrhyw newidiadau y bydd yn cael eu gwneud i'r Cynllun.** Dim ond wrth ddilyn y broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig a chasglu'r wybodaeth

a thystiolaeth berthnasol y bydd posib adnabod manylion y newidiadau sydd angen eu gwneud i'r Cynllun.

1.6 Bydd yr Adroddiad Adolygu yn:

- crynhoi canfyddiadau'r Adroddiadau Monitro Blynyddol hyd yma;
- adolygu'r polisiau presennol o fewn y CDLI ar y Cyd yn unol â'r penawdau a osodir o fewn y Cynllun;
- ystyried os oes yna newidiadau cyd-destunol yn arwain at yr angen i newid agweddau o'r Cynllun;
- nodi pa ymchwil pellach/casglu gwybodaeth sydd ei angen ar gyfer paratoi Cynllun Diwygiedig.
- asesu Cynlluniau/Strategaethau/Deddfwriaeth genedlaethol, ranbarthol a lleol perthnasol sydd wedi dod i rym ers mabwysiadu'r Cynllun gwreiddiol ac ystyried yr angen i sicrhau fod y Cynllun yn cyd-fynd gyda'r arweiniad cyfredol;
- dod i gasgliad ynglŷn â'r weithdrefn briodol er mwyn ymgymryd â'r adolygiad a pharatoi Cynllun Diwygiedig (adolygiad ffurf fer yn neu ffurf llawn).

1.7 Mae'r Adroddiad yn cynnwys y rhannau isod:

Rhan 2

Mae rhan 2 yn gosod allan y prif newidiadau mewn deddfwriaeth, polisi cenedlaethol, ranbarthol a lleol sydd mewn grym ers mabwysiadu'r cynllun presennol. Ystyrir fod yn newidiadau sydd yn cael eu hamlygu yn y rhan yma rhai pwysig i'w hystyried wrth ddiwygio'r CDLI ar y Cyd. Mae prif ganfyddiadau'r tri Adroddiad Monitro Blynyddol sydd wedi cael ei baratoi yn cael ei nodi ynghyd a materion eraill gall dylanwadu.

Rhan 3

Mae'r rhan yma yn gosod allan adolygiad o'r Cynllun cyfredol ag yn gosod allan newidiadau posib fydd angen ei wneud i'r strategaeth, amcanion a pholisiau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

Rhan 4

Mae'r rhan yma yn gosod allan y gofynion ar gyfer adolygu neu ddiweddarau'r sail tystiolaeth i gefnogi neu lywio unrhyw newidiadau i'r CDLI ar y Cyd.

Rhan 5

Mae'r rhan yma yn gosod allan yr ystyriaeth sydd wedi ei rhoi i gyd weithio a pharatoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

Rhan 6

Mae rhan 6 yn gosod allan y casgliadau a ffurf o adolygiad y bydd angen ei ddilyn.

2.0 Gwybodaeth a materion perthnasol

Arwyddocâd newidiadau cyd-destunol

- 2.1 Yn y cyfnod ers mabwysiadu'r CDLI ar y Cyd (31 Gorffennaf 2017) mae yna ystod o ddeddfwriaeth/polisiau a strategaethau cenedlaethol, lleol a rhanbarthol wedi eu cyhoeddi. Er mwyn sicrhau fod y Cynllun ai gynnwys yn gyfredol, bydd angen sicrhau fod ystyriaeth yn cael ei roddi i'r materion cyd-destunol hyn sydd yn dylanwadu ar gynnwys y Cynllun. Bydd angen i'r Cynllun Diwygiedig gymryd i ystyriaeth yr amrywiol Ddeddfau newydd, fframweithiau polisi, canllawiau wedi'u diweddarau a thystiolaeth sydd wedi dod i'r amlwg ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol.
- 2.2 Er nad yw'n hollgynhwysol, mae'r canlynol yn nodi'r elfennau hynny fydd yn cael y dylanwad mwyaf arwyddocaol wrth baratoi'r Cynllun Diwygiedig.

Newidiadau Deddfwriaethol

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2019.

- 2.3 Ar 1 Ebrill 2019 daeth diwygiad i'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir (GDPO) i rym sy'n ymwneud yn benodol â datblygiadau ynni, telathrebu a gwasanaeth. Y diwygiad mwyaf arwyddocaol yw diwygiad i Atodlen 2, rhan 2 'Mân Weithrediadau' sy'n cyflwyno Dosbarthiadau D ac E ac yn sefydlu hawliau datblygu ar gyfer offer a seilwaith ar gyfer "ailwefru cerbydau trydan" cyn belled â bod y cynigion yn cydymffurfio â'r meini prawf rhagnodedig.

Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

- 2.4 Derbyniodd Deddf Cynllunio (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ym mis Gorffennaf 2015 a daeth i rym fesul cam rhwng Hydref 2015 ac Ionawr 2016. Er ei bod mewn grym cyn i'r CDLI ar y Cyd gael ei fabwysiadu a chyn yr ymchwiliad cyhoeddus, ystyrir ei bod yn ddefnyddiol cyfeirio ato gan ei fod yn darparu sylfaen ar gyfer newidiadau cyd-destunol eraill y mae angen eu hystyried wrth baratoi'r Cynllun Diwygiedig a'r camau monitro dilynol. Mae'n cyflwyno sail gyfreithiol ar gyfer paratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) a Chynlluniau Datblygu Strategol (SDP).

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

- 2.5 Derbyniodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol ar 21ain Mawrth 2016, gan ddarparu deddfwriaeth newydd i reoli adnoddau naturiol Cymru yn rhagweithiol ac yn gynaliadwy. Mae'r Ddeddf yn

cynnwys dyletswydd bioamrywiaeth newydd sy'n anelu at gynorthwyo i wrthdroi dirywiad a sicrhau gwytnwch a dyfodol bioamrywiaeth tymor hir yng Nghymru. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi tasg i Weinidogion Cymru osod targedau i leihau allyriadau tŷ gwydr a gosod cyllidebau carbon. Mae'n cyflwyno pwerau newydd i gynyddu faint o ddeunyddiau i'w hailgylchu, ynghyd â gwella ansawdd y deunyddiau i'w hailgylchu. Mae'r ddeddf hefyd yn rhoi dyletswydd ar Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i baratoi Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol a Datganiadau Ardal.

Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

2.6 Er mai dyddiad y Ddeddf hon yw 2015, daeth i rym ar ôl i'r CDLI ar y Cyd-gael ei gyflwyno i'w archwilio (Ebrill 2016). Derbyniodd Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2015 a daeth i rym ar 1 Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn cryfhau'r trefniadau llywodraethu presennol ar gyfer gwella lles Cymru trwy sicrhau bod datblygu cynaliadwy wrth wraidd penderfyniadau llywodraeth a chyrff cyhoeddus. Ei nod yw gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl yng Nghymru mewn perthynas â nifer o nodau llesiant gan gynnwys gwella iechyd, diwylliant, treftadaeth a defnyddio adnoddau'n gynaliadwy. Mae'r Ddeddf yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer paratoi Cynlluniau Llesiant Lleol, sy'n disodli Cynlluniau Integredig Sengl.

2.7 Mae saith nod llesiant y Ddeddf fel a ganlyn:

1. Cymru lewyrchus
2. Cymru gydnerth
3. Cymru iachach
4. Cymru sy'n fwy cyfartal
5. Cymru o gymunedau cydlynus
6. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

2.8 Yn ystod archwiliad cyhoeddus o'r CDLI ar y Cyd, aethpwyd i'r afael â goblygiadau'r Ddeddf er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn adlewyrchu'r nodau a gynhwysir yn y Ddeddf.

Diwygiadau i arweiniad Polisi Cynllunio Cenedlaethol

Cynlluniau a Pholisïau Cenedlaethol

Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (2021)

- 2.9 “Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040” yw'r fframwaith datblygu cenedlaethol, sy'n gosod y cyfeiriad ar gyfer datblygu yng Nghymru hyd at 2040. Mae'n gynllun datblygu gyda strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol trwy'r system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi fywiog, cyflawni datgarboneiddio a gwytnwch yn yr hinsawdd, datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd a lles ein cymunedau.
- 2.10 Mae'r Cynllun Cenedlaethol yn nodi pedwar rhanbarth ar gyfer datblygu polisi yng Nghymru yn y dyfodol - Gogledd Cymru, Canolbarth Cymru, De Orllewin Cymru a De Ddwyrain Cymru. Rhaid bod gan bob rhanbarth Gynllun Datblygu Strategol (CDS) sy'n cydnabod y cryfderau a'r heriau yn y rhanbarth hwnnw, ac sydd hefyd yn ategu'r cynlluniau a'r gwaith sy'n digwydd mewn rhanbarthau eraill. Mae hyn yn golygu y dylai rhanbarthau weithio'n dda gyda'i gilydd i ddelio â materion sy'n digwydd ar draws y rhanbarthau a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd ar gyfer twf. Yn fras bydd CDS yn cael eu paratoi mewn ffordd debyg i Gynlluniau Datblygu Lleol, ond ni fyddant yn eu disodli. Bydd CDLI yn parhau i ganolbwyntio ar bolisiau cynllunio lleol ond gallant fod yn fwy cryno a chael mwy o ffocws unwaith y bydd y CDS wedi'i fabwysiadu. Ar y cyfan, disgwylir fod y Cynlluniau (CDS a'r CDLI) yn unol â Chynllun Cymru'r Dyfodol.

Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 11 (Chwefror 2021)

- 2.11 Mae gan y ddogfen hon oblygiadau sylweddol i'r system gynllunio yng Nghymru ac mae'n nodi mai'r system gynllunio yw un o'r prif ddulliau o greu lleoedd cynaliadwy, a bod egwyddorion creu lleoedd yn arf i gyflawni hyn drwy lunio cynlluniau ac yn y broses o wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Ers i'r CDLI gael ei fabwysiadu ym mis Gorffennaf 2017, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o Bolisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 10) ym mis Rhagfyr 2018. Ail-ddrafftwyd y ddogfen er mwyn sicrhau bod y saith nod llesiant a phum ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 wedi'u hintegreiddio'n llawn i bolisi cynllunio. Mae hefyd yn sicrhau fod y cysyniad o greu lle yn greiddiol yng nghanol polisi cynllunio cenedlaethol. Mae'r newid hyn yn sicrhau bod penderfyniadau cynllunio yn ystyried pob agwedd yn gysylltiedig â lles, ac yn darparu datblygiadau newydd sy'n gynaliadwy ac sy'n darparu ar gyfer anghenion pawb. Cyhoeddwyd diweddariad ffeithiol o Bolisi Cynllunio Cymru ym mis Chwefror 2021 (Argraffiad 11) er mwyn ei alinio â chyhoeddi Cymru'r Dyfodol a chynnwys diweddariadau deddfwriaethol, polisi a chanllawiau ehangach ers cyhoeddi Argraffiad 10 ym mis Rhagfyr 2018.
- 2.12 Yn ogystal, mae'r Nodiadau Cyngor Technegol newydd neu ddiwygiedig canlynol wedi'u cyhoeddi ynghyd a dileu rhai ohonynt ers i'r CDLI ar y Cyd gael ei fabwysiadu ym mis Gorffennaf 2017.

Nodyn Cyngor Technegol (NCT 1): Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar y Cyd ar gyfer Tai (Ionawr 2015)

- 2.13 Mae Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 1 wedi'i ddiddymu yn ei gyfanrwydd o ganlyniad i'r newid polisi yn PCC sydd bellach yn disgwyl i awdurdodau cynllunio ddefnyddio eu taflwybr tai fel sail ar gyfer monitro'r broses o gyflawni eu gofyniad tai.

Nodyn Cyngor Technegol (NCT 8): Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy (Gorffennaf 2005)

- 2.14 Yn dilyn cyhoeddiad o Gymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (2021) cafodd NCT 8 ei ddiddymu.

Nodyn Cyngor Technegol (NCT 15) Datblygu, Llifogydd ac erydu arfordirol

- 2.15 **Roedd fersiwn newydd o NCT 15 i fod i ddod i rym ar 1 Rhagfyr 2021. Mae parthau llifogydd newydd yn cael ei amlinellu o fewn y ddogfen ag bydd parthau gwahanol ar gyfer risg llifogydd o afonydd, môr a dŵr wyneb. Mae'r NCT yn rhoi llawer mwy o bwyslais ar newid hinsawdd a sut i sicrhau fod y materion sydd yn gysylltiedig â hyn yn cael ei osgoi, cyfyngu neu liniaru. Mae'r ddogfen yn rhoi mwy o bwyslais ar y broses o baratoi Cynlluniau Datblygu a'r angen am asesiadau strategol o ganlyniadau llifogydd. Mi fydd mapiau cyngor datblygu yn cael ei disodli gyda map llifogydd Cymru newydd. Ym mis Tachwedd 2021 cyhoeddwyd gan Weinidog Cymru y byddai'r NCT15 newydd a Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn cael ei oedi tan 1 Mehefin 2023. Amlinellodd y Gweinidog hefyd y gofyniad i bob ACLI gwblhau gwaith i adolygu, o fewn y 12 mis nesaf, yr Asesiadau Canlyniadau Llifogydd Strategol (ACLIS) ar gyfer eu hardal, naill ai'n unigol neu'n rhanbarthol. Ar ôl cyhoeddi, bydd NCT 15 newydd a'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio bydd yn cael eu defnyddio i lywio'r Cynllun Diwygiedig a bydd yr ACLIS a adolygwyd yn llywio'r strategaeth, polisïau a chynigion y CDLI.**

Mi fydd fersiwn newydd o NCT 15 yn dod i rym 1 Rhagfyr 2021. Mae parthau llifogydd newydd yn cael ei amlinellu o fewn y ddogfen ag bydd parthau gwahanol ar gyfer risg llifogydd o afonydd, môr a dŵr wyneb. Mae'r NCT yn rhoi llawer mwy o bwyslais ar newid hinsawdd a sut i sicrhau fod y materion sydd yn gysylltiedig â hyn yn cael ei osgoi, cyfyngu neu liniaru. Mae'r ddogfen yn rhoi mwy o bwyslais ar y broses o baratoi Cynlluniau Datblygu a'r angen am asesiadau strategol o ganlyniadau llifogydd. Mi fydd mapiau cyngor datblygu yn cael ei disodli gyda map llifogydd Cymru newydd. Mi fydd rhaid rhoi ystyriaeth drwyadl i'r canllawiau sydd wedi cynnwys yn y fersiwn newydd wrth baratoi'r Cynllun Diwygiedig i sicrhau fod unrhyw newidiadau yn cyd-fynd a'r arweiniad sydd wedi cael ei osod o fewn NCT 15.

Nodyn Cyngor Technegol (NCT 20): Cynllunio a'r Gymraeg (Hydref 2017)

- 2.16 Mae NCT 20 yn darparu arweiniad wrth ystyried y Gymraeg fel rhan o'r broses o baratoi cynlluniau datblygu lleol. Mae NCT 20 yn cynnwys cyngor ar ymgorffori'r Gymraeg mewn cynlluniau datblygu trwy Asesiadau Cynaliadwyedd. Oni bai bod y datblygiad arfaethedig yn ddatblygiad annisgwyl mawr, ni ddisgwylir i geisiadau unigol gynnwys asesiad unigol gan y bydd materion a themâu allweddol wedi cael eu hystyried ar adeg paratoi'r cynllun. Mae'n

cynnwys gweithdrefnau ar gyfer datblygiadau annisgwyl mawr mewn meysydd lle mae'r iaith yn arbennig o arwyddocaol, ac mae'n cynnwys arweiniad ar arwyddion a hysbysiadau.

- 2.17 Yn unol â'r fersiwn flaenorol o'r NCT hwn, rhoddwyd ystyriaeth i'r Gymraeg yn yr Asesiad Cynaliadwyedd parhaus o'r CDLI ar y Cyd. Yn wahanol i ddisgwyliadau NCT20 Hydref 2017, mae Polisi PS 1 y CDLI ar y Cyd yn gosod disgwyliad priodol ar geisiadau unigol sy'n cyrraedd trothwyon penodol i gynnwys asesiad unigol a'i gyflwyno fel Datganiad Iaith Gymraeg gyda'r cais cynllunio, yn ogystal â meini prawf ar gyfer cyflwyno asesiad effaith iaith. Cymeradwywyd hyn oherwydd yr angen i sicrhau bod y datblygiad arfaethedig yn unol â'r materion a'r themâu allweddol a ystyriwyd yn yr Asesiad Cynaliadwyedd ar adeg paratoi'r CDLI. Yn ogystal, mae'r dull hwn o weithio yn sicrhau bod effaith y datblygiad ar y Gymraeg yn cael ei hystyried, pan fydd yn berthnasol i'r cais cynllunio. Nid yw'r arweiniad yn cael unrhyw effaith uniongyrchol gyfredol ar y CDLI ar y Cyd gan fod Polisi PS1, sy'n seiliedig ar dystiolaeth bresennol, yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau, pan fydd yn berthnasol i'r cais.

Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 21: Gwastraff (Chwefror 2017)

- 2.18 Mae NCT 21 wedi'i ddiwygio i adlewyrchu newidiadau i'r cyd-destun polisi gwastraff a nodir yn y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff diwygiedig (Cyfarwyddeb 2008/98 /EC ar wastraff) a pholisi Llywodraeth Cymru 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' a'r Cynllun Sector Casglu, Seilwaith a Marchnadoedd (CIMS). Gwnaed y newidiadau hyn i ddiweddarau'r ffordd y mae'r broses gynllunio yn hwyluso cyflwyno seilwaith rheoli gwastraff cynaliadwy. Mae hefyd yn ystyried egwyddorion penodol sy'n ganolog i reoli gwastraff yn gynaliadwy, gan gynnwys yr hierarchaeth gwastraff, hunangynhaliath a'r cysyniad o'r sefydliad priodol agosaf.

Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (Hydref 2017)

- 2.19 Mae NCT 24 yn darparu arweiniad ar sut mae'r system gynllunio yn ystyried yr amgylchedd hanesyddol wrth baratoi cynllun datblygu a gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio ac adeiladau rhestredig. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno Asesiadau Effaith ar Dreftadaeth, cyngor newydd ar Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig a chynnwys cyngor a gafwyd yn flaenorol mewn amrywiaeth o ddogfennau.

Polisi System Draenio Drefol Cynaliadwy (SuDS)

- 2.20 Mae Atodlen 3 o'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn gwneud SuDS yn ofyniad gorfodol ar bob datblygiad newydd sy'n cynnwys mwy nag un annedd neu ardal adeiladu mwy na 100m. Ers y 7fed o Ionawr 2019, bu angen i bob datblygiad newydd o fwy nag 1 tŷ annedd neu lle mae'r ardal adeiladu yn 100 metr sgwâr neu fwy defnyddio SuDS ar gyfer gwaredu dŵr wyneb. Rhaid i'r SuDS gael eu dylunio a'i adeiladu yn unol â Safonau Statudol SuDS (a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru) a rhaid i gynlluniau SuDS gael eu cymeradwyo gan yr awdurdod lleol sy'n gweithredu yn ei rôl Corff Cymeradwyo SuDS (SAB), cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau.

Ynni: Papur Gwyn Llywodraeth y DU (Rhagfyr 2020)

2.21 Mae'r Papur Gwyn yn manylu ar sut y bydd ailwampio i drafndiaeth, ynni a seilwaith yn darparu "pŵer sydd wedi'i ddatgarboneiddio'n aruthrol yn yr 2030au" ac ar y ffordd tuag at sero-net erbyn 2050. Mae'r Papur Gwyn yn ceisio dod â pholisi cysylltiedig ag ynni ar draws nifer o sectorau at ei gilydd (h.y. o ynni a'r amgylchedd adeiledig, i drafndiaeth a'r sectorau diwydiannol). Yn ogystal, mae'n ystyried materion yn ymwneud â llywodraethu ac yn dechrau ystyried sut mae angen i systemau a marchnadoedd ynni addasu i gyflawni targed sero net 2050 y DU. Mae'r Papur yn atgyfnerthu ymrwymiad y Llywodraeth i ynni niwclear gan ei gwneud yn glir ei bod yn parhau i fod yn rhan allweddol o'r strategaeth ynni cenedlaethol. Bydd y papur (ac unrhyw fersiwn terfynol) yn ystyriaeth ar gyfer unrhyw gynllun gorsaf bŵer Wylfa Newydd yn y dyfodol.

Adeiladu Lleuedd Gwell (Gorffennaf 2020)

2.22 Mae'r ddogfen hon yn nodi blaenoriaethau polisi cynllunio Llywodraeth Cymru i gynorthwyo yn y cyfnod adfer ar ôl argyfwng pandemig Covid-19. Dylai'r system gynllunio fod yn ganolbwynt wrth ystyried materion amgylchedd naturiol adeiledig sydd wedi codi o'r pandemig. Mae'r ddogfen yn tynnu sylw at y polisiau a'r offerynnau cynllunio allweddol presennol y dylid eu defnyddio gan bob sector yn adferiad amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Cymru, gan gydnabod yr angen parhaus i Gynllunwyr weithredu o fewn cyd-destun ehangach o flaenoriaethau a gweithredu ar bob graddfa.

Polisi Adnoddau Naturiol (Awst 2017)

2.23 Yn unol â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bolisi Adnoddau Naturiol (PAN) ym mis Awst 2017. Ffocws y PAN yw rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy, er mwyn cynyddu eu cyfraniad at gyflawni nodau'r Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r PAN yn nodi tair Blaenoriaeth Genedlaethol: Dod o hyd i atebion seiliedig ar natur; cynyddu ynni adnewyddadwy a dulliau o ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon; a mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar leoedd. Mae'r PAN hefyd yn gosod y cyd-destun ar gyfer Datganiadau Ardal (a fydd yn cael ei gynhyrchu gan Adnoddau Naturiol Cymru), gan sicrhau bod y blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn llywio'r dull o ddarparu lleol. Bydd rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol ystyried y datganiad ardal berthnasol wrth baratoi CDLI. **Mae Datganiad Ardal y Gogledd Orllewin a'r Datganiad Ardal Forol yn berthnasol i ardal y CDLI ar y Cyd.** Bydd goblygiadau'r PAN a'r Datganiad Ardal berthnasol yn cael eu hystyried wrth baratoi'r Cynllun Diwygiedig.

Ffyniant i Bawb: Cymru Garbon Isel (Mawrth 2019)

2.24 Mae'r ddogfen yn gosod allan dull Llywodraeth Cymru tuag at dorri allyriadau a chynyddu effeithlonrwydd mewn ffordd sy'n sicrhau'r buddion ehangach i Gymru, gan sicrhau cymdeithas decach ac iachach. Mae'n nodi polisiau a chynigion sydd â'r nod o leihau allyriadau

a chefnogi twf yr economi carbon isel. Yn arbennig o bwysig mewn perthynas â chynllunio yw'r targedau a'r polisiâu a gyflwynir yn y sectorau a ganlyn: pŵer; adeiladau; trafndiaeth; diwydiant; defnydd tir, newid defnydd tir a choedwigaeth; amaethyddiaeth; a rheoli gwastraff. Bydd goblygiadau'r Cynllun yn cael ei hystyried wrth baratoi'r Cynllun Diwygiedig.

Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (Tachwedd 2019)

2.25 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun morol cyntaf Cymru ym mis Tachwedd 2019. Mae'n nodi polisi cenedlaethol ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf ar gyfer defnyddio rhanbarthau cynllun morol Cymru a'r glannau a'r môr. Fe'i paratowyd a'i fabwysiadu o dan Ddeddf Mynediad Morol ac Arfordirol (MCAA) 2009. **Noder fod ardal Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (CMCC) ac ardal y CDLI ar y Cyd yn gorgyffwrdd, gyda'r CMCC yn cael dylanwad hyd at gymedr penllanw'r gorllanw.** Dylai ymgeiswyr ddefnyddio'r Cynllun **CMCC** a deunydd ategol i lunio cynigion a thrwyddedu ceisiadau, a gan awdurdodau cyhoeddus ac eraill i lywio'r broses o wneud penderfyniadau ac i ddeall polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu cynaliadwy yn ardal y Cynllun.

Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru (Hydref 2020)

2.26 Mae'r Strategaeth yma yn disodli Strategaeth 2011. Fe'i paratwir o dan delerau Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Mae'r Strategaeth yn nodi sut bydd risgiau o lifogydd ac erydiad arfordirol ledled Cymru yn cael eu rheoli. Mae'n gosod amcanion a mesurau i'r holl bartneriaid weithio tuag atynt dros oes y Cynllun hwn, a fydd yn 10 mlynedd oni bai bod angen diweddariadau polisi sylweddol cyn yr amser hwnnw.

Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (2021)

2.27 Strategaeth drafnidiaeth newydd sy'n nodi gweledigaeth ar gyfer sicrhau bod y system drafnidiaeth yn gallu helpu i gyflawni blaenoriaethau ar gyfer Cymru, gan helpu rhoi ni ar y llwybr tuag at greu cymdeithas fwy ffyniannus, cyfartal a gwyrddach. Y weledigaeth yw creu system drafnidiaeth hygyrch, gynaliadwy ac effeithlon.

2.28 Dyma'r tair prif flaenoriaeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

- Blaenoriaeth 1: Dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio;
- Blaenoriaeth 2: Galluogi pobl a nwyddau i symud yn hawdd o ddrws i ddrws gan ddefnyddio gwasanaethau a seilwaith trafndiaeth sy'n hygyrch, cynaliadwy ac effeithlon;
- Blaenoriaeth 3: Annog pobl i newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy.

2.29 Yn ogystal â phennu cyfeiriad strategol mae'n datblygu naw cynllun bach, gan esbonio sut y bydd cyflawni ar gyfer gwahanol ddulliau teithio a sectorau.

Canllawiau Deddf Teithio Llesol 2021

2.29a Mae'r canllawiau hyn yn rhoi gwybodaeth bwysig am sut y dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol ystyried Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol. Dylid defnyddio Mapiau Rhwydwaith teithio llesol a gynhrychir gan Awdurdodau Lleol i lywio dyraniadau safleoedd er mwyn sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i safleoedd y gellir eu cysylltu â llwybrau teithio presennol ac yn y dyfodol.

Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL)

2.30 Ym mis Tachwedd 2015, comisiynodd Llywodraeth San Steffan adolygiad cenedlaethol annibynnol o'r Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL) er mwyn:

'Asesu i ba raddau mae CIL yn neu'n gallu darparu mecanwaith effeithiol ar gyfer ariannu seilwaith, ac i argymhell newidiadau a fyddai'n gwella ffordd mae'n gweithio i gefnogi amcanion tai a thwf ehangach y Llywodraeth.'

2.31 Edrychodd yr adolygiad ar faint o reffeniw mae CIL yn creu, y mathau o ddatblygiad sy'n talu CIL, effeithiau ar hyfywedd, a sut mae'r cyfan cymunedol o CIL yn cael ei weithredu. Cyflwynodd y grŵp adolygu annibynnol ei adroddiad ym mis Hydref 2016 ac fe gafodd ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2017. Enw'r adroddiad ydi "A New Approach to Developer Contributions to Ministers". Roedd hwn yn argymhell newidiadau i system Ardoll Seilwaith Cymunedol. Fel rhan o Ddeddf Cymru 2017, daeth CIL yn fater a ddatganolwyd gyda phwerau'n cael eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2018.

2.32 Yn hyn o beth, mae angen Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau i ganiatáu i Weinidogion Cymru addasu deddfwriaeth eilaidd bresennol. Ar ôl hynny, os fydd Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i ailysgrifennu'r Rheoliadau CIL, yna mae'n bosibl bydd angen deddfwriaeth ychwanegol er mwyn caniatáu hynny ddigwydd. Fodd bynnag, hyd yma ni chadarnhawyd hyn.

2.33 O ystyried yr uchod, nid yw'n glir ar hyn o bryd sut fydd Llywodraeth Cymru yn dymuno delio efo CIL, ac yn benodol a ydynt am barhau gyda beth sydd yn y Rheoliadau CIL cyfredol, neu ydynt am ddatblygu gwelliannau penodol neu roi'r gorau iddo yn gyfan gwbl. Penderfynodd Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn ym Medi 2018 i ohirio ymgymryd â'r gwaith a fyddai'n angenrheidiol i roi CIL yn ei le yn ardal y Cynllun, hyd nes ceir dealltwriaeth glir am ddyfodol CIL yng Nghymru. Nodir hefyd yng nghyd-destun gwaith a wnaethpwyd yn rhanbarthol ar gyfer CIL bod tebygrwydd na fyddai'n hyfyw i'w weithredu yn ardal y Cynllun.

Croeso i Gymru: Blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020-2025

2.33a Mae'r cynllun hwn yn egluro'r blaenoriaethau ar gyfer Croeso Cymru, sef y tîm o fewn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu a hyrwyddo'r economi ymwelwyr yng

Nghymru, ac yn amlinellu'r weledigaeth ar gyfer y dyfodol. Noder fod Croeso Cymru yn un o nifer o bartneriaid sydd â rhan i'w chwarae er mwyn cyflawni'r nodau hyn.

2.33b Noder mai'r uchelgais yw i dyfu twristiaeth er budd Cymru gan olygu cyflawni twf economaidd sy'n sicrhau budd i bobl a lleoedd gan gynnwys cynaliadwyedd amgylcheddol, cyfoethogi cymdeithasol a diwylliannol a buddiannau iechyd. Prif nod y cynllun yw i ddefnyddio'r potensial ar gyfer twristiaeth i wella llesiant economaidd ehangach Cymru.

Y cyd-destun rhanbarthol

Cais Bargaen Twf Gogledd Cymru

- 2.34 Ym mis Rhagfyr 2017 cyflwynodd Bwrdd Twf Gogledd Cymru (partneriaeth o Awdurdodau Lleol a phartneriaid ehangach e.e. Addysg Uwch, Addysg Bellach a Chyngor Busnes Gogledd Cymru Merswy Dyfrdwy) gais Bargaen Twf i Lywodraethau Cymru a'r DU am arian prosiect £383m ar gyfer Gogledd Cymru.
- 2.35 Bydd y cynigion yn gatalydd ar gyfer buddsoddiad cyfan o £1.3 biliwn yn economi Gogledd Cymru, elw o £3.40 am bob punt gaiff ei wario. Disgwylir y gallai dros 5,000 o swyddi gael eu creu o'r buddsoddiadau posib o fewn y Fargaen Twf yn y meysydd technoleg ac arloesi, safleoedd ar gyfer busnes, cysylltedd digidol, sgiliau, trafnidiaeth a chefnogaeth Busnes.
- 2.36 Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi llwyddo i sicrhau ymrwymiad o £240m gan Lywodraethau Cymru a'r DU.
- 2.37 Llofnodwyd y cytundeb Fargaen Twf yn Rhagfyr 2020. Bydd gwaith nawr yn dechrau ar y pum rhaglen sy'n ffurfio'r Fargaen gwerth £1bn dan arweiniad Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.
- 2.38 Mae'r CDLI ar y Cyd yn cynnwys darpariaeth yn ei bolisiau a'i gynigion ar gyfer datblygiad cynaliadwy, gyda'r economi yn rhan bwysig o'r strategaeth. Bydd yr ymrwymiad i'r Fargaen Twf a goblygiadau dilynol, angen derbyn ystyriaeth lawn yn ystod y broses o ddiwygio'r Cynllun er sicrhau fod y cyfleoedd posib sydd yn deillio ohono yn cael ei uchafu.

Datganiad Ardal Ogledd-orllewin Cymru a'r Datganiad Ardal Forol - Cyfoeth Naturiol Cymru

- 2.39 Mae'r Datganiadau hyn yn ddau yn o gyfres o saith Datganiad Ardal sydd wedi eu paratoi ar gyfer Cymru gyfan er cynorthwyo i ddatrys amrediad o heriau cymhleth mae'r gymdeithas, a'r amgylchedd naturiol, nawr yn eu hwynebu. Dyma'r ddau Ddatganiad Ardal sydd yn berthnasol i ardal y CDLI ar y Cyd.

- 2.40 Mae'r Datganiadau Ardal hyn yn amlinellu'r heriau allweddol sy'n wynebu'r ardal a'r ardal forol o'i amgylch, yr hyn y gellir ei wneud i wynebu'r heriau hynny a sut gellir rheoli ein hadnoddau naturiol yn well er lles cenedlaethau'r dyfodol. Bydd y Datganiadau Ardal yn cael ei ddiweddar'u'n rheolaidd a'u gwella o un flwyddyn i'r llall wrth ymgysylltu â mwy o bobl, casglu tystiolaeth newydd, cyflwyno syniadau, a gweithio ar draws ffiniau i greu cyfleoedd.
- 2.41 Mae'r Datganiadau Ardal hyn, ynghyd a'r chwe pum datganiad arall yn ymateb cydweithredol i'r hyn a elwir yn Bolisi Adnoddau Naturiol, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2017, sy'n nodi'r prif heriau a chyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn modd cynaliadwy yn y dyfodol. Ystyrir fod cynnwys y Datganiadau Ardal yn ffynhonnell dystiolaeth bwysig wrth fynd ati i adolygu polisiau'r Cynllun.

Y cyd-destun lleol

Cynlluniau Llesiant Lleol

- 2.42 Dywed Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ei bod yn ofynnol i'r Cynghorau, fel cynrychiolwyr y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, baratoi Cynllun Llesiant. Ym mis Mai 2017 cyhoeddwyd Asesiad o Lesiant Lleol ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn. Wedi ystyried y data a barn pobl yn lleol, daeth y Bwrdd i gasgliad ar brif negeseuon yn yr asesiad. Mae yna 9 brif neges.
1. Yr angen i gynnal ysbryd cymunedol iach.
 2. Pwysigrwydd gwarchod yr amgylchedd naturiol.
 3. Deall effaith newidiadau demograffeg.
 4. Gwarchod a hyrwyddo'r iaith Gymraeg.
 5. Hybu defnydd adnoddau naturiol i wella iechyd a llesiant yn yr hir dymor.
 6. Gwella cysylltiadau trafndiaeth i alluogi mynediad at wasanaethau a chyfleusterau.
 7. Yr angen am swyddi o safon uchel a chartrefi fforddiadwy i bobl leol.
 8. Effaith tlodi ar lesiant.
 9. Sicrhau cyfle i bob plentyn lwyddo.
- 2.43 Cafodd Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn ei gwblhau gan osod allan y 9 prif neges uchod. Mae'r cynllun yn nodi 2 amcan llesiant sef 'Cymunedau sy'n ffynnu ac yn llewyrchus i'r hir- dymor' a 'Thrigolion sy'n iach ac yn annibynnol gyda safon bywyd da'. Mae 6 blaenoriaeth wedi cael eu hadnabod er mwyn gwireddu'r ddau amcan llesiant. Caiff y Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn, gan gynnwys unrhyw gynllun gweithredu ei fonitro i sicrhau cysondeb o ran pwrpas a chynnwys gyda'r CDLI ar y Cyd. Yn y cyswllt hwn, bydd angen ystyried a thrafod y Nodau Llesiant Cenedlaethol a Nodau Llesiant y Cyngor fel rhan o ddadansoddiad cysondeb gyda nodau'r CDLI.

Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn (Ebrill 2019)

- 2.44 Yn dilyn ansicrwydd economaidd yn gysylltiedig a Wylfa ynghyd a cyflogwyr mawr megis Rehau yn dirwyn i ben, fe luniwyd Cynllun Adfywio Gogledd Ynys Môn. Mae'r Cynllun Adfywio'n nodi gweledigaeth ar gyfer ardal Gogledd Ynys Môn ac yn nodi pum thema flaenoriaeth o ran buddsoddiad gan y Cyngor Sir, ei bartneriaid a gan Lywodraeth Cymru. Mae'r ddogfen yn nodi ystod eang o fesurau arfaethedig a allai fod o fudd i'r ardal yn y tymor byr, canolig a hirdymor. Mae'r Cynllun yn nodi:-
- Materion allweddol sy'n effeithio ar Ogledd Ynys Môn fel y nodwyd gan y gymuned;
 - Gweledigaeth ar gyfer Gogledd Ynys Môn;
 - Pum Thema Flaenoriaeth ar gyfer adfywio; ac
 - Ystod o brosiectau adfywio a nodwyd yn lleol

Cynllun Bioamrywiaeth Gorfforaethol 2021-2022 - Cyngor Sir Ynys Môn

- 2.45 Mae'r Cynllun hwn wedi'i ddatblygu i sicrhau bod buddion amgylcheddol yn deillio o'r ffordd mae'r Cyngor Sir yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau wrth sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion adran 6 (a6) Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sef cynnal a gwella bioamrywiaeth ac, wrth wneud hynny, hyrwyddo gwytnwch ecosystemau, wrth ymgymryd â'i weithgareddau dydd i ddydd.
- 2.46 Nod y Cynllun yw helpu i gynnal a gwella nodweddion Bioamrywiaeth unigryw Ynys Môn, gan nodi amcanion clir a chryno a fydd yn cael eu cyflawni gan y Cyngor rhwng 2021 a 2022.
- 2.47 Mae'r Cynllun yn dilyn canllawiau a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn ystyried amcanion Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru (sy'n adnabod gweithredoedd gall eu gwaredu yn y tymor byr) gan osod trywydd i waredu ymrwymadau tymor hir tu draw i 2020. Cyhoeddwyd y Datganiad Ardal ar gyfer Gogledd Orllewin Cymru gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn ddiweddar ac ystyriwyd y Datganiad Ardal hwnnw wrth baratoi'r Cynllun hwn.

Strategaeth Tai Interim 2021 – Cyngor Sir Ynys Môn

- 2.48 Cafodd y Strategaeth Tai Interim 2020-21 ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith 25/01/21. Mae'r Strategaeth yn disodli'r Strategaeth Dai blaenorol 2014-19 ac yn ymgeisio i ymateb i newidiadau mewn amgylchiadau. Mae'r Strategaeth Dros Dro hon yn fodd i bontio'r cyfnod i ddatblygu Strategaeth Dai, a fydd yn cynnwys gofynion y Grant Cymorth Tai a'r Strategaeth Ddigartrefedd gan Lywodraeth Cymru. Yn ogystal bydd yn rhoi gwybodaeth am sut mae Gwasanaethau Tai a phartneriaid yn ymateb i bandemig y coronafeirws ac yn parhau i ymateb iddo.
- 2.49 Mae'r Strategaeth Interim yn amlinellu 6 thema benodol, sef:
- Thema 1 - Codi'r cartrefi priodol ar gyfer dyfodol Môn
Thema 2 - Gwneud y defnydd gorau o'r stoc tai presennol a gwella tai a chymunedau

- Thema 3 - Atal argyfwng tai a chynyddu opsiynau tai
- Thema 4 - Cefnogaeth i hyrwyddo annibyniaeth tai
- Thema 5 - Cartrefi ar gyfer byw'n hirach
- Thema 6 - Gwireddu'n llwyr y cysylltiadau rhwng tai a'r economi ehangach

Strategaeth Tai Cyngor Gwynedd (2019)

2.50 Mabwysiadwyd Strategaeth Tai Cyngor Gwynedd yng Ngorffennaf 2019. Gweledigaeth y Strwythur Tai yw:

“Sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd.”

2.51 Mae'r Strategaeth yn nodi pum amcan sydd angen ceisio eu cyfarch os yw'r Cyngor am gyflawni'r weledigaeth hon:

1. Neb yn ddigartref yng Ngwynedd
2. Tai cymdeithasol ar gael i bawb sydd angen un
3. Cartref pawb yng Ngwynedd yn fforddiadwy iddynt
4. Tai Gwynedd yn amgylcheddol gyfeillgar
5. Cartrefi yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant pobl Gwynedd.

Asesiad Marchnad Tai Lleol 2018-23 Cyngor Gwynedd (2019)

2.52 Cafodd Asesiad Marchnad Tai Lleol Cyngor Gwynedd ei gyhoeddi yn Mai 2019. Prif neges yr asesiad yw bod angen cyflenwad ychwanegol o dai fforddiadwy i gymunedau Gwynedd nag sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae canfyddiadau allweddol eraill yn dangos y bydd galw cynyddol am dai fforddiadwy ar draws Gwynedd yn y sectorau perchenogaeth breifat, rent preifat a rhent cymdeithasol, na all y cyflenwad presennol eu bodloni. Mae'r AMTLI hefyd yn canfod:

- Mae tai gwerth canolrif a chwarterl isaf yn anfforddiadwy i aelwydydd gydag incwm canolrif;
- Mae'r sector rhentu preifat wedi tyfu'n sylweddol yng Ngwynedd dros y degawd diwethaf;
- Mae lefelau rhent preifat yn anfforddiadwy i lawer o gartrefi incwm isel;
- Mae'r galw am dai cymdeithasol yn parhau'n uchel ar draws yr ardal;
- Nid yw'r galw am dai cymdeithasol gydag 1 ystafell wely yn cael ei fodloni gan y stoc Bresennol;
- Rhagwelir y bydd nifer aelwydydd yn cynyddu, a'u maint i ostwng dros y degawd nesaf;
- Gall eiddo gwag hirdymor a safleoedd datblygu wedi eu rhwystro gallu darparu cyflenwad ychwanegol ar gyfer y farchnad;
- Yn seiliedig ar ragamcanion poblogaeth, bydd 303 o aelwydydd newydd yn cael eu sefydlu bob blwyddyn yng Ngwynedd dros y 5 mlynedd nesaf;

- Mae angen 707 unedau tai cymdeithasol ychwanegol bob blwyddyn am 5 mlynedd i gwrdd â'r galw presennol a'r galw a ragwelir;
- Mae angen 104 tai canolraddol ychwanegol bob blwyddyn am 5 mlynedd i gwrdd â'r galw presennol a'r galw a ragwelir.

Cynllun Gweithredu Tai Cyngor Gwynedd 2020/21 – 2026/27

2.53 Cymeradwywyd y Cynllun Gweithredu ym mis Rhagfyr 2020. Pwrpas y Cynllun Gweithredu yw amlinellu sut bydd y Cyngor yn mynd ati i geisio cyfarch yr amcanion Strategaeth Tai Cyngor Gwynedd (2019) nawr a hyd at 2026/27.

2.54 Amlinellir dros 30 o gynlluniau ar draws y sir fydd yn galluogi'r Cyngor i:

- hwyluso dros 500 o dai fforddiadwy newydd i'w gwerthu neu osod i drigolion Gwynedd gan gynnwys adeiladu 100 o dai newydd;
- cynnig benthyciadau ar gyfer 250 o brynwyr tro cyntaf lleol;
- sicrhau dros 600 o dai cymdeithasol newydd i Wynedd yn cynnwys prynu 72 cyn-dŷ cymdeithasol er mwyn eu rhentu i bobl leol yn unol â pholisi gosod lleol newydd y Cyngor;
- ymestyn cynllun grantiau i ddod a 250 o dai gwag yn ôl i ddefnydd ar draws y sir;
- buddsoddi mewn cartrefi ecogyfeillgar fel y cynllun arloesol sydd ar waith ar hyn o bryd yn ardal Segontium, Caernarfon;
- datblygu 150 o unedau byw i bobl ddigartref yn y sir a chreu 130 o unedau newydd ar gyfer trigolion bregus.

2.55 Er mwyn gwireddu'r cynlluniau, bydd y Cyngor yn ail-fuddsoddi £22.9 miliwn o bremiwm treth Cyngor ar ail dai o hyn hyd 2026/27, ynghyd a defnyddio ffynonellau ariannol eraill gan gynnwys grantiau tai cymdeithasol a'r arian a ddyrannir drwy Gynllun Rheoli Asedau'r Cyngor.

Safle Treftadaeth y Byd – Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru

2.56 Arysgrifwyd Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru yn Safle Treftadaeth y Byd (STyB) UNESCO yng Ngorffennaf 2021. Y dirwedd yw'r 33ain safle o Safleoedd Treftadaeth y Byd UNESCO yn y DU, a'r pedwerydd yng Nghymru, gan ddilyn Traphont Ddŵr Pontcysyllte, Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon a Chestyll a Muriau Trefi Edward I yng Ngwynedd. Mae CCA drafft wedi ei baratoi gan Gyngor Gwynedd ar y Cyd efo Parc Cenedlaethol Eryri. Pwrpas y CCA ydi rhoi arweiniad pellach i'r rhai sydd yn gwneud penderfyniadau a datblygwyr ar y materion pwysig sydd angen ei ystyried y gysylltiedig efo'r STyB.

- 2.57 Bydd Cynllun Diwygiedig angen sicrhau fod cyfeiriadau priodol yn cael ei wneud i'r STyB ynghyd a sicrhau nad yw unrhyw ddynodiadau yn cyfaddawdu ar werth a rhinweddau'r dynodiad.

Cynlluniau sydd ar y gweill

- 2.58 Wrth ddiweddarau sail tystiolaeth yn gysylltiedig â pharatoi'r Cynllun Diwygiedig rhagwelir y bydd y cynlluniau canlynol yn cael ei weithredu neu wedi'i mabwysiadu ac felly bydd angen rhoi ystyriaeth i'r cynnwys:

- Cynlluniau Rheoli Cyrchfan Ynys Môn a Gwynedd
- Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd
- Fframwaith Adfywio Gwynedd fydd yn cynnwys Cynlluniau Adfywio Ardal

Materion eraill sydd yn dylanwadu ac angen ystyriaeth

Newid Hinsawdd

- 2.59 Mae effeithiau pell gyrhaeddol newid hinsawdd a digwyddiadau tywydd eithafol eisoes yn amlwg ar draws ardal y Cynllun. Gyda'r disgwyl fod yr effeithiau yn mynd i waethygu a bod yn fwy eithafol dros y blynyddoedd mae'r Awdurdodau wedi ymrwmo i geisio ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd.
- 2.60 Yn Mawrth 2019 fe ddatganwyd Cyngor Gwynedd Argyfwng Newid Hinsawdd, gyda Chyngor Sir Ynys Môn hefyd yn datgan argyfwng newid hinsawdd yn Medi 2020. Golygai'r datganiadau fod y Cyngorau yn ymrwmo i geisio ymateb mewn modd positif i'r heriau sydd yn wynebu'r Cyngorau nawr ac yn y dyfodol, ac yn ymrwmo i baratoi Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd er mwyn cyrraedd amcanion penodol. Nod y Cyngorau yw sicrhau fod yr ardal yn parhau i fod yn gartref bywiog, hyfyw a chynaliadwy i'n plant ac i blant ein plant am genedlaethau i ddod.
- 2.61 Bydd yn hanfodol plethu'r amcanion a amlygir yn y Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd o fewn y Cynllun Diwygiedig er mwyn sicrhau fod y Cynllun yn hwylusydd i gyflawni'r amcanion hynny.
- 2.62 Mae Scottish Power yn cymryd rôl flaenllaw er mwyn ceisio cyflawni ymgyrch arloesol, Cymunedau Carbon Sero. Amcan yr ymgyrch ydi cynorthwyo cymunedau lleol i gyflawni'r nod o fod yn net sero. Mae Ynys Môn yn un o'r cymunedau gwledig sydd yn rhan o'r ymgyrch. Bydd angen rhoi ystyriaeth i'r ymgyrch yma wrth baratoi'r Cynllun Diwygiedig.

Wylfa Newydd

- 2.63 Yn ystod y broses o lunio'r Cynllun gwreiddiol roedd yna fwriad i ddatblygu safle niwclear newydd (Wylfa Newydd) ger safle presennol Wylfa ar ymyl arfordirol gogledd Ynys Môn, wedi i Lywodraeth y Deyrnas Unedig ddatgan ei fod yn un o'r opsiynau fel safle addas i gynhyrchu ynni niwclear. Oherwydd natur y bwriad fe fyddai wedi bod ym Mhrosiect Isadeiledd o Bwysigrwydd Cenedlaethol, a olygai'r angen i gyflwyno Cais Gorchymyn Datblygu (CGD) er mwyn derbyn hawl cynllunio.
- 2.64 Yn sgil yr angen i gynllunio ar gyfer prosiect isadeiledd mawr a ragwelwyd y byddai'n cael ei wireddu yn ystod oes y Cynllun, roedd yn ofynnol darparu fframwaith bolisi lleol a fyddai'n galluogi'r Awdurdod i ymateb i'r heriau a fyddai'n deillio o'r prosiect ynghyd a manteisio ar y cyfleoedd economaidd a chymdeithasol.
- 2.65 Ar yr 27ain Ionawr 2021 fe dynnwyd y CGD yn ôl gan Horizon Nuclear Power. Tynnwyd y cais yn ôl yn sgil diffyg buddsoddwr i'r prosiect ynghyd a'r diffyg polisi ariannu newydd gan y Llywodraeth.
- 2.66 Yn sgil y diffyg buddsoddiad/sicrwydd yn gysylltiedig â Wylfa Newydd, ystyrir y bydd hynny'n newid cyd-destunol arwyddocaol wrth baratoi'r Cynllun Diwygiedig ac fe allai cael effaith sylweddol ar strategaeth ac opsiynau twf y Cynllun o'i gymharu â'r Cynllun gwreiddiol.
- 2.67 Nodir ym Mholisi 24 - 'Gogledd-orllewin Cymru ac Ynni', Cymru'r Dyfodol fod y Llywodraeth yn cefnogi Gogledd-orllewin Cymru fel lleoliad ar gyfer datblygiadau ynni newydd a buddsoddiad. Cefnogir datblygiadau arfaethedig sy'n gysylltiedig â Rhaglen Ynys Ynni Môn a Wylfa Newydd mewn egwyddor, fel dull o greu buddiannau economaidd sylweddol i'r ardal yn ogystal â chynhyrchu ynni adnewyddadwy neu garbon isel.

Y Grid Cenedlaethol

- 2.68 Yn gysylltiedig â datblygiad Wylfa Newydd ar gyfer atomfa niwclear newydd fe gyflwynodd y Grid Cenedlaethol gais GCD ar 7 Medi, 2018. Roedd y cais hyn yn rhan o Brosiect Cysylltu Gogledd Cymru ar gyfer gosod cysylltiad trydanol 400kV o ddatblygiad arfaethedig Wylfa Newydd.
- 2.69 Oherwydd penderfyniad Hitachi i oedi gyda'r bwriad i ddatblygu'r Orsaf Bŵer Niwclear Newydd, ar 20 Chwefror, 2019 fe dynnwyd y Grid Cenedlaethol ei gais am GCD yn nôl yn ffurfiol. O ganlyniad, ni ystyriwyd y cais ymhellach gan yr Awdurdod Archwilio na'r Arolygaeth Cynllunio.

Pandemig Covid

- 2.70 Ar drothwy 2020, tarwyd y byd gan pandemig Covid-19. Yn sgil lledaeniad y firws a'r angen i warchod bywydau fe arweiniodd hyn at gyfyngiadau yn cael ei osod ar fywydau trigolion Cymru. Golygai'r cyfyngiadau hyn fod yna orchymyn i bobl fod yn aros adra a dim ond teithio ble fo wirioneddol angen (hynny yw, i weithio ble nad oedd bosib gweithio o adra ac i siopa am fwyd). Ers i'r cyfyngiadau llym ddod i rym yn Mawrth 2020, mae yna lacio o'r rheolau wedi bod dros gyfnod o amser a olygai fod rhai o weithgareddau bywyd arferol (cyn Covid) wedi gallu parhau. Mae'r pandemig yn parhau i effeithio ar bob rhan o'r byd a bydd ei sgil effeithiau yn llywio trafodaethau cyhoeddus a phenderfyniadau am flynyddoedd i ddod.
- 2.71 Yn sgil y pandemig mae'r gallu i bobl fod yn gweithio o adra wedi dod i'r amlwg, mae yna fwy o alw wedi bod i bobl fod yn treulio ei gwyliau yng Nghymru (oherwydd cyfyngiadau teithio) ac mae yna fwy o alw cyffredinol am ofod tu allan i bobl allu fwynhau, boed hynny'n ofod ar y stryd neu yn ofod o amgylch ei gartref sydd yn caniatáu i bobl allu cymdeithasu yn yr awyr agored yn ddiogel. Mae pwysigrwydd ansawdd a hygyrchedd ein hardaloedd lleol i iechyd a llesiant pobl wedi ei hamlygu hyd yn oed fwyfwy yn ystod cyfnodau gwaethaf y pandemig.
- 2.72 Mae'r pandemig yn debygol o effeithio ar agweddau o fywydau pawb am flynyddoedd i ddod ac yn debygol o fod yn arwain at alw ar gyfer newid yn y ffordd yr ydym yn byw a gweithio. Bydd ystyried effaith y pandemig a chynllunio ar gyfer y dyfodol yn rhan hanfodol o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig.
- 2.73 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru dogfen 'Ail-greu ar ôl COVID-19: Yr Heriau a'r Blaenoriaethau' sy'n nodi'r materion y mae rhaid ymateb iddynt yn sgil y pandemig. Mae gan y dull o ymateb i'r heriau hyn oblygiadau i'r system gynllunio wrth i bobl ddefnyddio lleoedd yn wahanol, teithio llai a threulio mwy o amser yn gweithio o gartref. Rhaid i'r system gynllunio ymateb i'r newidiadau nawr ac yn y dyfodol a chyfrannu at adferiad cynaliadwy.

Brexit (Porthladd)

- 2.74 Er bod yr effeithiau tymor byr yn gysylltiedig â Brexit yn wybyddus, prin mewn gwirionedd yw'r wybodaeth/data gwaelodlin ynglŷn â'r effeithiau hirdymor.
- 2.75 Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig mae'n debyg y byddai'n fuddiol cynnal gwaith ymchwil manwl er mwyn edrych ar effeithiau Brexit ar yr economi leol.
- 2.76 Un o effeithiau amlwg Brexit yn y tymor byw yw'r effaith ar Borthladd Gaergybi. Yn sgil y ffaith fod y Deyrnas Unedig wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd heb gytundeb mae'n ofynnol cynnal archwiliadau ychwanegol ar nwyddau a fydd yn teithio allan o'r DU cyn iddynt gael mynd i mewn i'r UE. Golygai hynny'r angen i gynnal archwiliadau ychwanegol ar nwyddau trwm sydd yn cael ei drosglwyddo o Gaergybi i Ddulyn. Mae'n debygol y bydd y weithdrefn hon yn arwain

at oedi, sy'n golygu bod angen cynlluniau yn eu lle i fynd i'r afael â'r cerbydau nwyddau trwm a fydd yn aros eu tro i deithio i lwerddon.

- 2.77 Mae Porthladd Caergybi yn cael ei gydnabod fel Porth Strategol sydd yn hwyluso cysylltedd rhyngwladol ym mholisi 10 o Gymru'r Dyfodol ac mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i weithio *gyda gweithredwyr, y buddsoddwyr a'r awdurdodau lleol er mwyn cefnogi Porth Strategol a chynnal eu rolau cysylltedd rhyngwladol ei rôl yn cael ei adnabod*. Yn unol â Chymru'r Dyfodol er mwyn uchafu'r budd mwyaf yn lleol, i'r rhanbarth ac i Gymru, mi fydd rhaid i'r Cynllun Diwygiedig sicrhau ei fod yn cefnogi Porthladd Caergybi.

Ffosffad

- 2.78 Mae ardal y CDLI ar y Cyd yn cael ei nodweddu gan ei rhinweddau amgylcheddol cyfoethog ac mae'n gartref i nifer o ardaloedd a nodweddion sydd wedi'u dynodi oherwydd eu pwysigrwydd amgylcheddol, gan gynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) Afon Gwyrffai ac Afon Glaslyn.
- 2.79 Yn dilyn tystiolaeth newydd am effeithiau amgylcheddol ffosffad mewn cyrsiau dŵr mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi asesu'r 9 ACA afonol yng Nghymru. Roedd yr asesiad hwn a oedd yn seiliedig ar dargedau tynnach ar gyfer ansawdd dŵr cyrsiau dŵr yn dangos bod ymlediad ffosfforws yn gyffredin yn afonydd ACA Cymru gyda dros 60% o'r cyrff dŵr yn methu'r targedau heriol.
- 2.80 O ganlyniad i'r methiant hwn, mae CNC wedi cyhoeddi 'cyngor cynllunio i sicrhau nad yw'r capasiti amgylcheddol yn dirywio ymhellach. Mae'r 'cyngor' hwn yn ymwneud â phob ACA Afonol y mae ei dalgylch yn ymestyn iddo yn ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd gan gynnwys Afon Glaslyn ac Afon Gwyrffai.
- 2.81 Bydd ystyried goblygiadau'r arweiniad a dderbynnir gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn rhan hanfodol wrth lunio'r polisiau yn y Cynllun Diwygiedig ynghyd ac ystyried goblygiadau'r arweiniad ar y dynodiadau arfaethedig o fewn y Cynllun.

Bioamrywiaeth

- 2.82 Mae bioamrywiaeth yn sail i'n bywydau a'n bywoliaeth ac mae'n cefnogi'r ffordd y mae ecosystemau'n gweithio a'u cydnherthedd mewn moroedd ~~cefnoroedd~~, gwlypdiroedd, llynnoedd, afonydd, mynyddoedd, coedwigoedd a thirweddau amaethyddol. Mae ein heconomi, ein hiechyd a'n llesiant yn dibynnu ar ecosystemau iach a chydnerth, sy'n rhoi ein bwyd inni, dŵr ac aer glân, y deunyddiau crai a'r ynni ar gyfer ein diwydiannau ac mae'r ecosystemau hyn yn ein diogelu rhag peryglon, megis llifogydd a newid yn yr hinsawdd.
- 2.83 Mae pwysau amgylcheddol yn achosi dirywiad byd-eang mewn bioamrywiaeth ar gyfraddau na welwyd yn flaenorol mewn hanes dynol ac mae cyfradd y rhywogaethau sy'n diflannu yn

cyflymu. Yn dilyn y chwyldro diwydiannol, mae'r DU wedi dod yn un o'r gwledydd sydd a'r cyfraddau uchaf o leihad natur ar draws y byd.

- 2.84 O fewn y Cynllun Diwygiedig, bydd angen rhoi ystyriaeth briodol i wella gwytnwch ein hecosystemau a'r budd y maent yn ei ddarparu. Mae'r Cynllun Cenedlaethol yn ceisio pwysleisio'r angen i'r system gynllunio sicrhau bod bywyd gwyllt yn gallu ffynnu mewn cynefinoedd iach ac amrywiol, mewn ardaloedd trefol a gwledig, gan gydnabod a gwerthfawrogi'r manteision lluosog i bobl a natur.
- 2.85 Mae gwella bioamrywiaeth, gwytnwch ecosystemau a darparu seilwaith gwyrdd yn un o nodau allweddol y Cynllun Cenedlaethol, gyda chyflwyno Coedwig Genedlaethol Cymru a chreu mwy o orchudd coetiroedd yn ffordd o sicrhau ecosystem gydnherth. **Ymhellach, mae gwella a gwytnwch ecosystemau morol yn un o amcanion Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru sy'n nodi'r gofyniad i gynnal a gwella gwytnwch ecosystemau morol a'r manteision y maent yn eu darparu er mwyn diwallu anghenion cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.**

Rhagamcanion aelwydydd a phoblogaeth

- 2.86 Wrth gyfeirio tuag at Gofyniad Tai o fewn Cynllun Datblygu mae paragraff 4.2.6 o Bolisi Cynllunio Cymru yn datgan:

“Bydd yr Amcanestyniadau Aelwydydd Iefel awdurdod lleol diweddaraf i Gymru gan Lywodraeth Cymru, ochr yn ochr â'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (AFDLI) diweddaraf, a'r Cynllun Llesiant ar gyfer ardal y cynllun, yn rhan sylfaenol o'r sylfaen tystiolaeth ar gyfer y cynlluniau datblygu. Dylid ystyried y rhain ynghyd â thystiolaeth allweddol arall mewn perthynas â materion fel beth mae'r cynllun yn ceisio ei gyflawni, cysylltiadau rhwng tai a swyddi, yr angen am dai fforddiadwy, ystyriaethau'r Gymraeg, ac ymarferoldeb y cynllun er mwyn nodi strategaeth briodol ar gyfer darparu tai yn ardal y cynllun. Rhaid rhoi ystyriaeth briodol hefyd i'r ffactorau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ehangach mewn cynllun datblygu er mwyn sicrhau y caiff lleoedd cynaliadwy a chymunedau cydlynus eu creu.”

- 2.87 Yn bellach rhaid cofio fod amcanestyniadau aelwydydd yn amcangyfrif nifer yr aelwydydd yn y dyfodol ac maent yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth a rhagdybiaethau yn ymwneud ag aelodau a nodweddion aelwydydd. Bydd angen i awdurdodau cynllunio asesu a yw elfennau gwahanol yr amcanestyniadau yn briodol i'w hardal, ac os nad ydynt, dylent wneud gwaith modelu, ar sail tystiolaeth gadarn, i nodi dewisiadau amgen.
- 2.88 Ers mabwysiadu'r Cynllun mae Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd ar gyfer 2014 (a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2017) ac ar gyfer 2018 (a gyhoeddwyd ym mis Awst 2020). Mae'r newidiadau allweddol i Wynedd ac Ynys Môn fel a ganlyn:

Amcanestyniadau Sail-2014

- Mae amcanestyniadau poblogaeth 2014 yn dangos y bydd lefelau poblogaeth Gwynedd yn cynyddu o 124,835 i 131,416 rhwng 2021 a 2036, mae hyn yn gynydd o 5.3%. Ar gyfer Ynys Môn ceir gostyngiad yn y boblogaeth o 70,162 i 68,803 rhwng 2021 a 2036, mae hyn yn lleihad o 1.9%.
- Mae amcanestyniadau aelwydydd 2014 yn dangos cynnydd yng Ngwynedd o 55,078 i 58,831 rhwng 2021 a 2036 sef cynnydd o 6.8%. Ar gyfer Ynys Môn ceir cynnydd o 31,376 i 31,456, sef cynnydd o 0.2%.

Amcanestyniadau sail-2018

- Mae amcanestyniadau poblogaeth 2018 yn dangos y bydd lefelau poblogaeth Gwynedd yn cynyddu o 124,936 i 130,219 rhwng 2021 a 2036, mae hyn yn gynydd o 4.2%. Ar gyfer Ynys Môn ceir gostyngiad yn y boblogaeth o 69,879 i 69,468 rhwng 2021 a 2036, mae hyn yn lleihad o 0.6%.
- Mae amcanestyniadau aelwydydd 2018 yn dangos cynnydd yng Ngwynedd o 55,006 i 58,340 rhwng 2021 a 2036 sef cynnydd o 6.1%. Ar gyfer Ynys Môn ceir cynnydd o 31,314 i 31,856 sef cynnydd o 1.7%.

2.89 Roedd Hoff Strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (Mai 2013) yn rhoi ystyriaeth i rhagamcanion sail-2008 Llywodraeth Cymru (yn ogystal â senarios twf eraill). Wrth symud ymlaen i'r Cynllun Adnau (2015) roedd rhagamcanion sail-2011 Llywodraeth Cymru ar gael. Roedd canfyddiadau'r amcanestyniadau sail-2011 i Wynedd ac Ynys Môn fel a ganlyn:

Amcanestyniadau sail-2011

- Mae amcanestyniadau poblogaeth 2011 yn dangos y bydd lefelau poblogaeth Gwynedd yn cynyddu o 121,523 i 127,557 rhwng 2011 a 2026 mae hyn yn gynydd o 5%. Ar gyfer Ynys Môn ceir gostyngiad yn y boblogaeth o 69,913 i 69,877 rhwng 2011 a 2026 mae hyn yn lleihad o 0.1%.
- Mae amcanestyniadau aelwydydd 2011 yn dangos cynnydd yng Ngwynedd o 52,411 i 56,711 rhwng 2011 a 2026 sef cynnydd o 8.2%. Ar gyfer Ynys Môn ceir cynnydd o 30,655 i 31,541 sef cynnydd o 2.9%.

2.90 Dylid nodi fod newidiadau sail-2011 ar gyfer y cyfnod 2011 i 2026 tra bod ffigyrau diweddaraf sail-2014 a sail-2018, a amlygir uchod, ar gyfer y cyfnod 2021 i 2036. Yn ogystal mae'r ffigyrau uchod ar gyfer Gwynedd gyfan, bydd rhaid ystyried effaith y rhan o boblogaeth ac aelwydydd Gwynedd sydd yn disgyn o fewn y Parc Cenedlaethol ac felly ddim yn rhan o Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd.

2.91 Yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru fe fydd amcanestyniadau Llywodraeth Cymru yn ffynhonnell bwysig o dystiolaeth wrth ystyried lefel twf dros gyfnod y Cynllun Diwygiedig.

Ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr

2.92 Yn sgil y cynnydd yn y galw a'r ddarpariaeth o lety gwyliau ar draws ardal y Cynllun ac ar draul hynny'r effaith mae'n ei gael ar y farchnad dai, mae'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi arwain ar ddarn o waith yn ymwneud a 'Rheoli'r defnydd o Dai fel Cartrefi Gwyliau'. Nod y papur ymchwil oedd ystyried opsiynau posib ar gyfer rheoli'r defnydd a wneir o dai fel llety gwyliau. Cyflwynwyd y gwaith hwn i sylw'r Llywodraeth gan erfyn arnynt i'w hystyried a gweithredu ar rhai o'r argymhellion oedd yn deillio o'r gwaith. Yn dilyn cyflwyno'r gwaith hynny mae yna waith pellach ar y pwnc wedi cael ei baratoi ar ran y Llywodraeth, gydag addewid fod y Llywodraeth yn mynd i roi ystyriaeth bellach i fecanwaith rheoli uchelgeisiol tair elfen y gellir ei weithredu yn y dyfodol.

2.93 Bydd y dull tair elfen yn canolbwyntio ar y canlynol:

1. Cefnogaeth – rhoi sylw i fforddiadwyedd ac argaeledd tai
2. Fframwaith a system rheoleiddio – edrych ar y gyfraith gynllunio a chyflwyno cynllun cofrestru statudol ar gyfer llety gwyliau
3. Cyfraniad tecach - defnyddio systemau treth leol a chenedlaethol i sicrhau bod perchnogion ail gartrefi yn gwneud cyfraniad teg ac effeithiol i'r cymunedau lle maen nhw'n prynu.

2.94 **Yn ystod hydref 2021 fe ymgynghorwyd y Llywodraeth ar newidiadau bosib i drethi lleol ar ail-gartrefi a llety hunan darpar. Ymhellach yn dilyn yr ymgynghoriad yma fe lansiwyd ymgynghoriad sydd yn ymwneud a diwygiadau i'r weithdrefn gynllunio yn gysylltiedig â ail-gartrefi a llety hunan-ddarpar.** Bydd angen sicrhau fod unrhyw ddatblygiadau yn y maes hwn yn derbyn ystyriaeth yn ystod y broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig a bod ystyriaeth yn cael ei roddi i sut allai unrhyw fecanwaith rheoli sydd mewn grym neu a fwriedir ei weithredu yn gallu dylanwadu ar y polisiâu a gynhwysir o fewn y Cynllun Diwygiedig.

2.94a Ynghyd a'r newidiadau posib yn gysylltiedig â'r weithdrefn gynllunio a'r system drethu leol mae'r Llywodraeth wedi cadarnhau fod ardal Dwyfor wedi cael ei ddewis fel ardal beilot. Bydd cam cyntaf y cynllun peilot yn adeiladu ar y cymorth ymarferol y mae Llywodraeth Cymru eisoes yn ei ddarparu i fynd i'r afael â fforddiadwyedd a faint o dai sydd ar gael a bydd yn cael ei deilwra i ddiwallu anghenion pobl yr ardal. Disgwylir i ragor o fanylion mewn perthynas â'r Cynllun peilot gael ei ryddhau yn dilyn y Gyllideb, ond yn unol â dyheadau'r Gweinidog disgwylir eu bod yn cynnwys edrych ar gynlluniau rhannu ecwiti, opsiynau rhentu, a chartrefi gwag.

Canfyddiadau'r Adroddiadau Monitro Blynyddol

- 2.95 Yn y cyfnod ers mabwysiadu'r Cynllun gwreiddiol, mae yna dri Adroddiad Monitro Blynyddol wedi cael ei gyhoeddi a'i chyflwyno i'r Llywodraeth. Adroddiadau Monitro Blynyddol yw'r prif fecanwaith er mwyn asesu'r gwaith o gyflawni a gweithredu ar strategaeth y Cynllun. Mae casgliadau'r Adroddiadau Monitro Blynyddol yn nodi perfformiad y Cynllun yn unol â chyfres o ddangosyddion penodol sydd wedi cynnwys yn y fframwaith fonitro. Ymhellach fe amlygir unrhyw lwyddiannau, heriau a methiannau.
- 2.96 Ar y cyfan mae canlyniadau'r tri AMBau yn nodi, fod polisiâu'r Cynllun yn perfformio'n effeithiol. Fodd bynnag amlygir fod yna newidiadau cyd-destunol arwyddocaol, megis cyhoeddi Cymru'r Dyfodol, y pandemig byd eang, Brexit a thynnu CGD Wylfa Newydd yn nôl, wedi digwydd ers mabwysiadu'r Cynllun a chan hynny cydnabyddir fod angen ymateb i oblygiadau'r materion hyn fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig. Er y newidiadau cyd-destunol, fe ystyrir fod polisiâu'r CDLI ar y Cyd yn parhau'n berthnasol ac yn darparu fframwaith gynllunio gadarn ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio ar draws ardal y Cynllun. Mae rhai o'r prif gasgliadau sydd yn deillio o'r Adroddiadau Monitro Blynyddol fel a chanlyn:-

Perfformiad cyffredinol y Cynllun

- Nid oes unrhyw bolisiâu wedi'u nodi fel rhai sy'n methu â chyflawni amcanion y cynllun;
- Mae rhai o'r dangosyddion adroddir arnynt yn ymwneud a phenderfyniadau a wnaed cyn mabwysiadu'r Cynllun;
- Ers mabwysiadu, mae'r Cynghorau wedi mabwysiadu 9 Canllaw Cynllunio Atodol;
- Ar y cyfan mae penderfyniadau apeliadau sydd wedi ei gwneud ers mabwysiadu'r Cynllun wedi cefnogi polisiâu a strategaeth y Cynllun. Nid yw penderfyniadau apeliadau yn tanseilio polisiâu CDLI ar y Cyd.

Materion Tai

- Rhoddwyd caniatâd ar gyfer 1325 o unedau preswyl newydd (gan gynnwys ceisiadau i ailystyried neu ymestyn y dyddiad y daw'r caniatadau presennol i ben) ers mabwysiadu'r Cynllun. Roedd 511 uned (38.6%) ar gyfer tai fforddiadwy;
- Mae 476 o unedau tai fforddiadwy wedi'u cwblhau ers mabwysiadu'r Cynllun;
- Roedd y banc tir ar gyfer tai (safleoedd â chaniatâd presennol) yn 2021 yng Ngwynedd ac Ynys Môn gan eithrio unedau mae'r CDLI wedi nodi sydd yn annhebygol o gael eu datblygu yn ystod oes y Cynllun yn 1,994 o unedau (1,451 heb ddechrau a 543 yn cael eu hadeiladu) ac roedd 512 ohonynt ar gyfer unedau fforddiadwy (397 o unedau heb ddechrau a 115 uned wrthi yn cael eu hadeiladu);
- Nodir bod 3924 o unedau wedi'u cwblhau yn ardal y Cynllun rhwng y dyddiad cychwyn 2011 a 2021, tra bod y taflwybr yn y Cynllun yn nodi ffigwr o 4475 o unedau hyd at y cyfnod hwn. Felly, mae hyn 12.3% (551 uned) yn is na'r ffigwr yn y taflwybr. Mae rhan o'r diffyg hwn yn deillio o'r oedi wrth weithredu prosiectau seilwaith mawr yn ardal y Cynllun. Mae

- taflwybr diwygiedig wedi ei baratoi ar gyfer gweddill cyfnod y Cynllun ar sail gwybodaeth hyd at ddiwedd cyfnod AMB 3 ynghyd a mewnbwn gan Grŵp Rhanddeiliaid Tai;
- Ers mabwysiadu'r Cynllun mae caniatâd wedi ei roddi ar gyfer 5 tŷ marchnad leol, sef yr unig enghraifft yng Nghymru o weithrediad Polisi Tai Marchnad Leol;
 - Mae 47% o'r unedau tai^[1] a ganiatawyd ers mabwysiadu'r Cynllun o fewn y Ganolfan Isranbarthol a'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol. Mae 23% o'r unedau wedi'u caniatáu o fewn y Canolfannau Gwasanaeth Lleol gyda 30% pellach wedi'u caniatáu mewn Pentrefi, Cystyrau ac yng Nghefn Gwlad Agored;
 - Yn y cyfnod ers mabwysiadu'r Cynllun, mae 34.3% o'r unedau tai a gwblhawyd yn ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd wedi'u lleoli ar safleoedd sydd wedi'u clustnodi ar gyfer tai;
 - Dwysedd cyfartalog y caniatadau tai Newydd yn ardal y Cynllun (ers mabwysiadu'r Cynllun) yw 29.5 o unedau fesul hectar;
 - Allan o'r unedau gafodd ganiatâd a'u cwblhau ers mabwysiadu'r Cynllun mae'r canran o dai fforddiadwy ychydig yn is na 50%.

Materion Eraill

- Mae 3 Asesiad ieithyddol wedi cael ei gyflwyno ynghyd a 81 datganiad ieithyddol. Ers mabwysiadu'r Cynllun nid oes unrhyw gais sydd yn groes i bolisi PS 1 wedi cael ei ganiatáu;
- Un o amcanion strategol y CDLI ar y Cyd yw hwyluso amrywiaeth yn yr economi wledig, mae'r amcan hynny wedi bod yn llwyddiannus, gyda caniatadau wedi cael ei roi ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau cyflogaeth;
- Rhoddwyd Caniatâd Cynllunio i gynlluniau adnewyddadwy sydd â'r potensial i gyfrannu cyfanswm o 52.4 GWh o fewn ardal y CDLI ar y Cyd.

[1] Caniatâd newydd am dai neu ganiatâd i ailasesu ac ymestyn y dyddiad pan fo caniatâd blaenorol yn dod i ben

3.0 Adolygiad o'r CDLI a'r newidiadau posib

Gweledigaeth ac amcanion strategol

3.1 Pan luniwyd y weledigaeth ar gyfer y Cynllun gwreiddiol, ystyriwyd ei fod yn cyfleu'r math o le y mae ardal y Cynllun yn ceisio'i fod. Ynghyd a'r amcanion strategol fe osodir y cyd-destun cyffredinol i'r Cynllun ac mae'n dangos sut mae modd cydbwysu ystyriaethau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i hwyluso datblygiadau cynaliadwy. Nodir gweledigaeth y Cynllun fel a chanlyn:-

“Erbyn 2026, bydd Ynys Môn a Gwynedd yn cael eu cydnabod am eu cymunedau ffyniannus llawn bywyd sy'n dathlu eu diwylliant, treftadaeth a'u hamgylchedd unigryw ac yn rhywle y bydd pobl yn dewis byw, gweld ac ymweld.”

3.2 Cafodd y weledigaeth a'r amcanion strategol y Cynllun eu llunio gan roddi ystyriaeth i bolisiau, cynlluniau a rhaglenni cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ynghyd a'r sail dystiolaeth a baratowyd wrth lunio'r Cynllun.

3.3 Yn ogystal â chael gweledigaeth, bu hefyd yr angen i ddatblygu nifer o amcanion sydd yn rhestru camau yr oedd angen eu cymryd er mwyn gwireddu'r weledigaeth honno. Mae'r amcanion gofodol strategol yn diffinio'r hyn a ddymunir ei gyflawni. Maent yn dangos sut y gallai datblygiadau'r dyfodol ein helpu i wireddu'r weledigaeth ofodol a mynd i'r afael â'r prif ystyriaethau. Maent yn ymateb i elfennau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y weledigaeth ac wedi llywio datblygiad polisiau strategol a manwl yn y Cynllun.

3.4 Bydd angen ail-ymweld a'r weledigaeth a'r amcanion fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig gan sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol ac yn gyfredol ac yn ymateb i'r heriau a chyfleoedd ardal y Cynllun.

Strategaeth

3.5 Yn gyffredinol mae Strategaeth y Cynllun yn ymateb i'r angen a dystiolaethir i wneud darpariaeth ar gyfer cartrefi a swyddi newydd yn ogystal â gwarchod cymeriad cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol unigryw'r ardal. Mae'n darparu ar gyfer defnyddiau tir sydd eu hangen am gyfnod penodol o amser, gan hwyluso defnyddiau etifeddiaeth amgen sy'n cydymffurfio â pholisi yn y tymor hir. Gosodir lefel o dwf yr ystyrir sy'n cynrychioli'r dull mwyaf cadarn, cytbwys a phriodol, o ystyried yr holl ffactorau perthnasol, yn cynnwys gwaith a wnaed gan ragolygon tai ac economaidd annibynnol.

3.6 Mae gan ardal y Cynllun batrwm anheddu gwasgaredig o drefi, pentrefi a grwpiau eraill o adeiladau, a lefelau uchel o ddefnydd o geir preifat, felly mae'r angen i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a charbon yn heriol. Cyfeiria'r dystiolaeth at bum categori bras o aneddleoedd o fewn ardal y Cynllun, fel yr adlewyrchir hwy yn elfen ofodol Gweledigaeth y Cynllun. Y rhain yw;

- i. Canolfan Isranbarthol
- ii. Canolfannau Gwasanaeth Trefol
- iii. Canolfannau Gwasanaeth Lleol
- iv. Pentrefi
- v. Clystyrau

- 3.7 Er mwyn ymateb i gyfleoedd a heriau'r ardal ac i gyflawni Gweledigaeth ac Amcanion cyffredinol y Cynllun, mabwysiadwyd y strategaeth ofodol uchod ar gyfer dosbarthu datblygiad ar draws ardal y Cynllun. Mae'n sicrhau bod datblygiad yn cael ei gyfeirio at leoliadau sy'n gynaliadwy o ran eu maint, swyddogaeth, cymeriad, cyfleusterau, cysylltiadau trafniadaeth, cynhwysedd cymdeithasol ac amgylcheddol. Cefnoga'r defnydd o bolisiau sy'n annog y lefel datblygiad mwyaf priodol i bob anheddle.
- 3.8 Mae yna bwyslais a dyletswydd i sicrhau fod strategaeth ofodol y Cynllun yn cyflawni amcanion datblygu cynaliadwy. Wrth ymgymryd â'r Cynllun Diwygiedig bydd yn hanfodol sicrhau fod y strategaeth dwf yn darparu ar gyfer anghenion yr ardal, wrth gyflawni'r nod o hyrwyddo datblygiadau yn y lleoliadau mwyaf cynaliadwy o ran gwasanaethau a chysylltiadau trafniadaeth amgen a gwarchod gwerthoedd diwylliannol cymunedau Cymreig yr ardal.

Polisiau'r Cynllun

Adran 6.1 - Rheoli Tŵf a Datblygu – Cymunedau Diogel, Iach, Nodedig a Bywiog

Yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig

- 3.9 Mae Polisi PS 1 (Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig) yn rhoi arweiniad ar yr angen i geisiadau cynllunio yn yr ardal fod yn rhoddi ystyriaeth tuag at hyrwyddo a chefnogi'r iaith Gymraeg.
- 3.10 Mae PCC (2021) yn datgan fod rhaid i awdurdodau cynllunio ystyried effeithiau tebygol ei cynlluniau datblygu ar y defnydd o'r Gymraeg fel rhan o'r Arfarniad Cynaliadwyedd. Ym mhellach mae'n amlygu ni ddylai polisiau a phenderfyniadau gyflwyno unrhyw elfen o wahaniaethu rhwng unigolion yn seiliedig ar eu gallu ieithyddol, ac ni ddylent geisio rheoli deiliadaeth tai ar sail ieithyddol. Mae paragraff 3.29 yn datgan gellir cynnal asesiadau o'r effaith ar yr iaith mewn perthynas â datblygiadau mawr na ddynodwyd mewn cynllun datblygu sy'n cael ei gynnig mewn ardaloedd o sensitifrwydd neu bwysigrwydd arbennig i'r iaith.
- 3.11 Mae'r Cynllun yn cydnabod fod yr iaith Gymraeg yn rhan o wead cymdeithasol a diwylliannol holl ardal y Cynllun. Lle mae bwriad i ddatblygu, rhaid ystyried gwella a diogelu'r iaith a diwylliant ac mae cynnal cymunedau presennol yn allweddol i hyn. Cafodd Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg a oedd yn hysbysu'r Arfarniad Cynaliadwyedd ei baratoi ar gyfer y Cynllun. Roedd yr asesiad ieithyddol yma yn ystyried addasrwydd y cyflenwad tai dangosol i Ganolfannau a Phentrefi unigol. Mae polisi PS 1 yn golygu y gellir gofyn am Ddatganiad pan

fydd datblygiad yn unigol neu'n gronol yn darparu mwy na'r ddarpariaeth tai dangosol i'r anheddle. Bydd angen i'r adolygiad ail-edrych ar y Strategaeth a/neu ddsbarthiad twf tai o fewn y Cynllun, ac yn sgil hyn bydd hefyd angen adolygu addasrwydd a ffurf bresennol polisi PS 1.

- 3.12 Mabwysiadwyd Canllaw Cynllunio Atodol: 'Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy' sydd yn rhoi methodoleg benodol ar baratoi asesiad a datganiad ieithyddol. Mae'r AMBau yn monitro sawl Datganiad ac Asesiad ieithyddol sydd wedi cael ei gyflwyno ers mabwysiadu'r Cynllun. Yn y cyfnod yma mae yna 3 Asesiad ieithyddol wedi cael ei gyflwyno ynghyd a 81 datganiad ieithyddol. Mae'r AMBau yn adrodd ar ganiatadau cynllunio lle mae angen mesurau lliniaru iaith Gymraeg efo lefel sbardun pan ganiateir un cais yn groes i Bolisi PS 1. Hyd yma nid oes unrhyw gais sydd yn groes i bolisi PS 1 wedi cael ei ganiatáu. Bydd unrhyw newidiadau i Bolisi PS1 yn sgil ei adolygu hefyd yn golygu'r angen i adolygu'r CCA .

Isadeiledd a Chyfraniadau Datblygwyr

- 3.13 Nod Polisi Strategol PS 2 (Cyfraniadau Seilwaith a Datblygwyr) yw sicrhau bod digon o seilwaith hanfodol naill ai eisoes ar gael neu'n cael ei ddarparu mewn modd amserol. Cefnogir y polisi cyffredinol hwn gan bolisiau manylach sy'n ymwneud â darparu seilwaith.
- 3.14 Mae'r polisiau sy'n ymwneud â chyfraniadau seilwaith a datblygwyr yn y CDLI ar y Cyd yn gyson ar y cyfan â'r rhifyn diweddaraf o Bolisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11, 2021). Ystyrir bod y polisiau presennol yn y Cynllun yn adlewyrchu'r gofynion a amlinellir ym Mholisi Cynllunio Cymru wedi'i ddiweddarau yn ogystal â Chanllawiau Llywodraeth Cymru a nodir yn y canllawiau "Adeiladu Lleoedd Gwell". Mae Polisi Cynllunio Cymru a Chymru'r Dyfodol wedi'i ddiweddarau yn canolbwyntio ar fathau newydd o seilwaith, gan gynnwys seilwaith gwefru cerbydau trydan, seilwaith digidol a thelegyfathrebu symudol. Er bod y CDLI ar y Cyd yn cynnwys canllawiau ar seilwaith digidol a thelegyfathrebu symudol, bydd angen ystyried cynnwys canllawiau/polisiau sy'n ymwneud â seilwaith gwefru cerbydau trydan yn ystod yr adolygiad.
- 3.15 Er hynny, mae perfformiad y dangosyddion sy'n ymwneud â pholisiau seilwaith y Cynllun yn perfformio'n dda, sy'n golygu y credir bod y polisiau perthnasol yn parhau i gael eu gweithredu'n effeithiol. Nid oes unrhyw geisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo lle maent yn groes i'r polisiau sy'n ymwneud â seilwaith ers i'r Cynllun gael ei fabwysiadu. Felly, mae'r targed i atal datblygiadau rhag cael eu cymeradwyo lle nad oes digon o seilwaith mewn unrhyw flwyddyn yn cael ei gyrraedd. Yn ogystal, nid oes unrhyw ddatblygiadau wedi'u cymeradwyo yn groes i bolisiau'r Cynllun a arweiniodd at golli cyfleusterau cymunedol hyfyw. Mabwysiadwyd canllawiau Cynllunio Atodol ar Rwymedigaethau Cynllunio ym mis Medi 2019 a'i nod yw sicrhau bod datblygiadau'n cyfrannu at ddarparu'r seilwaith a'r mesurau angenrheidiol sydd eu hangen i liniaru eu heffaith ac i roi eglurder i ddatblygwyr, asiantau a rhanddeiliaid eraill ynghylch ar ba sail y sicheir rhwymedigaethau cynllunio.

- 3.16 Bydd y sylfaen dystiolaeth a oedd yn llywio'r gwaith o lunio'r polisiâu hyn yn cael ei hail-asesu fel rhan o'r broses adolygu. Fel rhan o'r adolygiad, cynhelir asesiad o'r ddarpariaeth seilwaith a'r anghenion i nodi capasiti ac argaeledd seilwaith presennol ac arfaethedig. Mae'r angen am eglurhad a chanllawiau pellach ynghylch y polisiâu seilwaith (ISA1, ISA2, ac ISA3) i gynorthwyo yn y broses o wneud penderfyniadau wedi'u nodi.

Llecynnau Agored

- 3.17 Mae'r CDLI ar y Cyd wedi mabwysiadu safon Fields in Trust o 2.4 hectar o lecyn agored hamdden fesul pob 1000 o'r boblogaeth er mwyn diwallu'r amcan o gynyddu cyfleoedd i bobl gyfranogi mewn cymunedau gweithgar ac iach.
- 3.18 Mae Cymru'r Dyfodol , Polisi Cynllunio Cymru ac Adeiladu Lleoedd Gwell yn cydnabod pwysigrwydd creu lleoedd a gwerth lleoedd agored cyhoeddus yn ein dinasoedd, trefi a phentrefi.
- 3.19 Nid yw'r AMB wedi adnabod unrhyw faterion gyda gweithrediad y polisi llecynnau agored mewn perthynas â diogelu llecynnau agored cyhoeddus presennol, wrth sicrhau darpariaeth llecynnau agored newydd na chyfraniad ariannol mewn perthynas â datblygiadau preswyl newydd.
- 3.20 Rhagwelir y bydd angen diweddarau'r Asesiad Llecynnau Agored wrth baratoi'r Cynllun Diwygiedig er sicrhau fod y wybodaeth gywir a chyfredol wedi ei gasglu yng nghyswllt y ddarpariaeth.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

- 3.21 Yn bresennol mae yna bolisi strategol (PS 3) sydd yn datgan cefnogaeth i ddatblygiadau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn amodol ar fesurau amddiffyn priodol a bod gwifrau newydd uwchben yn cael eu gosod tan ddaear os nad yw'n cael effaith ar ddi-ddordebau eraill. Yn unol efo'r canllaw ym Mholisi Cynllunio Cymru (PCC) ar adeg paratoi'r CDLI ar y Cyd ni chafodd y polisi rheoli datblygu cenedlaethol am systemau telathrebu ei haildrodd o fewn y cynllun yn hytrach croes gyfeiriwyd tuag atynt.
- 3.22 Mae PCC (Rhifyn 11 Chwefror 2021) yn amlygu cefnogaeth y Llywodraeth i seilwaith cyfathrebu electronig yn enwedig o ystyried cynnydd mewn gweithio o adref. Dylid cynllunio yn rhagweithiol ond ystyriol i ddiogelu cymeriad ardaloedd arbennig. Dylai cynlluniau datblygu amlinellu polisiâu yn cynnwys rhai yn seiliedig ar feini prawf i arwain datblygiad i leoliadau addas. Mae Polisi 14 yng Nghymru'r Dyfodol yn cefnogi mwy o ddarpariaeth ffonau symudol. Bydd y Llywodraeth yn adnabod Parthau Gweithredu Telathrebu Symudol ble ceir gwasanaeth gwael yn bresennol efo ymrwymiad i'r Llywodraeth, awdurdodau cynllunio a gweithredwyr telathrebu gydweithio er mwyn gwella'r gwasanaeth mewn fath leoliadau.
- 3.23 Yng ngoleuni'r newid o fewn PCC a chyhoeddi Cymru'r Dyfodol bydd angen diwygio'r rhan yma o'r Cynllun gan ystyried anghenion tua'r dyfodol o fewn ardal y Cynllun a pharatoi polisi efo meini prawf ar gyfer arwain datblygiad i leoliadau addas.

Trafnidiaeth gynaliadwy, datblygiad a hygyrchedd

- 3.24 Mae Polisi PS 4 (Trafnidiaeth Gynaliadwy, Datblygiad a Hygyrchedd) yn cefnogi gwelliannau trafndiaeth sydd yn uchafu hygyrchedd yn enwedig ar gyfer teithio ar droed, beic a chluant cyhoeddus; TRA 1 (Datblygiadau Rhwydwaith Cludiant) polisi sydd yn cynnwys meini prawf ar gyfer gwelliannau i'r rhwydwaith cludiant, amlygu'r math o ddatblygiadau caiff gefnogaeth ar gyfer trosglwyddo rhwng gwahanol dulliau o gludiant, pryd fydd angen asesiadau cludiant efo ceisiadau ac amlygu cynlluniau cludiant i'w gwarchod; TRA 2 (Safonau parcio) polisi yn datgan dylai darpariaeth parcio fod yn unol efo Safonau Parcio'r Cynghorau; TRA 3 (Diogelu Rheilffyrdd Segur) polisi sydd yn gwrthod cynigion sydd yn atal y posibilrwydd o ail agor isadeiledd hen reilffyrdd neu reilffyrdd segur at ddibenion rheilffyrdd neu ddibenion cludiant amgen; TRA 4 (Rheoli Ardrawiadau Cludiant) polisi sydd yr hyrwyddo dulliau mwyaf cynaliadwy o deithio.
- 3.25 Mae PCC (2021), fel y PCC oedd mewn bodolaeth pan gafodd y Cynllun ei baratoi, yn parhau i ategu lleihau teithio efo car preifat drwy hybu mwy o deithiau ar droed, beic a thrafnidiaeth gyhoeddus. Ceir hierarchaeth trafndiaeth gynaliadwy sydd bellach yn cynnwys cyfeiriad tuag at gerbydau allyriadau isel iawn ac mae'n cael ei adnabod fod ganddynt rôl bwysig i'w chwarae o ran datgarboneiddio trafndiaeth yn enwedig mewn ardaloedd gwledig sy'n brin o wasanaethau trafndiaeth gyhoeddus. Anogir y system gynllunio i gefnogi datblygu pwyntiau gwefru fel rhan o ddatblygiadau newydd. Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi'r gofynion ar gyfer darparu pwyntiau gwefru cerbydau trydanol ar gyfer datblygiadau nad ydynt yn ddatblygiadau preswyl. Dylai manau parcio efo datblygiadau adlewyrchu'r cyd-destun lleol. Rhaid cael Aseiad Trafnidiaeth efo ceisiadau cynllunio am ddatblygiadau sy'n perthyn i gategoriâu a nodir yn NCT 18. Mae Cymru'r Dyfodol yn cynnwys polisiâu Cysylltedd Rhyngwladol, Cenedlaethol a Rhanbarthol (Polisiâu 10 i 12) mae hyn yn ategu'r arweiniad yn PCC (2021) a hefyd yn cyfeirio tuag at ddatblygu metro'r Gogledd sef system trafndiaeth integredig newydd sy'n darparu gwasanaeth unedig amlach a chyflymach gan ddefnyddio trenau, bysiau a rheilffyrdd ysgafn. Yn 2021 mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi 'Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru' a 'Strategaeth gwefru cerbydau trydan ar gyfer Cymru'. Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi ym Mehefin 2021 eu bod yn rhewi prosiectau ffyrdd newydd tra bod adolygiad yn cymryd lle.
- 3.26 Dylai'r Cynllun Diwygiedig ystyried y newidiadau cyd-destunol o fewn polisi a chanllaw Cenedlaethol a amlygir uchod i sicrhau bydd polisiâu trafndiaeth yn y Cynllun yn gyd fynd a rhain.

Adran 6.2 - Rheoli Tŵf a Datblygu - Byw'n gynaliadwy

Datblygiad Cynaliadwy a Newid Hinsawdd

- 3.27 Mae Polisi Strategol PS 5 (Datblygu Cynaliadwy) yn bolisi cyffredinol sy'n ceisio sicrhau bod datblygiad yn gyson ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Nod Polisi Strategol PS 6 (Lliniaru

ac Addasu i Effeithiau Newid yn yr Hinsawdd) yw sicrhau bod yr holl ddatblygiadau'n ystyried yr effaith ar newid yn yr hinsawdd. Mae newid yn yr hinsawdd yn parhau i fod yn fater pwysig iawn ers mabwysiadu'r CDLI ar y Cyd gydag effeithiau a goblygiadau'n dod yn fwy amlwg wrth i amser fynd heibio.

- 3.28 Mae Cymru'r Dyfodol yn ailddatgan pwysigrwydd newid yn yr hinsawdd, gan ddweud bod y Cyngor a Pholisi Cynllunio Cymru yn anelu at sicrhau bod y system gynllunio'n canolbwyntio ar sicrhau Cymru ddatgarboneiddio a gwydn drwy "sbarduno twf cynaliadwy a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd drwy arwain datblygiad strategol dros yr 20 mlynedd nesaf".
- 3.29 Dylid ystyried hefyd oblygiadau'r Polisi System Draenio Drefol Cynaliadwy (Ionawr 2019), lle bydd angen systemau draenio cynaliadwy ar gyfer dŵr wyneb ar gyfer pob datblygiad newydd o fwy nag 1 tŷ annedd neu lle mae'r ardal adeiladu yn 100 metr sgwâr neu fwy. Yn ogystal, mae Cymru Carbon Isel (Mawrth 2019) yn nodi dull Llywodraeth Cymru o leihau allyriadau a chynyddu effeithlonrwydd mewn ffordd sy'n sicrhau'r manteision ehangach mwyaf posibl i Gymru, gan sicrhau cymdeithas decach ac iachach. Mae'n nodi polisiau a chynigion sydd â'r bwriad o leihau allyriadau a chefnogi twf yr economi carbon isel. Dylid ystyried addasu polisiau perthnasol fel eu bod yn cyd-fynd â'r dogfennau uchod.
- 3.30 Yn gyffredinol, mae perfformiad dangosyddion y Cynllun sy'n ymwneud â Pholisi PS 6 yn perfformio'n dda sy'n golygu y credir bod y polisiau perthnasol yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Mae'r prif fater a nodwyd yn yr AMBau yn ymwneud â dangosydd D21 lle nad yw'r targedau o 50% o botensial ynni adnewyddadwy sy'n cael eu cyflawni erbyn 2021 wedi'u cyflawni. Gallai adolygiad o'r Cynllun nodi rhwystrau mewn rhai sectorau adnewyddadwy a darparu targed posibl mwy ymarferol mewn unrhyw Gynllun diwygiedig. Dengys monitro ar gyfer y polisiau perygl llifogydd mai dim ond un cais am ddatblygiadau agored iawn i niwed a ganiatawyd ym mharth llifogydd C2 ers i'r Cynllun gael ei fabwysiadu (trosi capel yn annedd). Caniatawyd y cais cynllunio hwn gan y Pwyllgor Cynllunio yn groes i argymhelliad swyddogion. Nodir hefyd bod ceisiadau cynllunio llawn yn cael eu caniatáu ar safleoedd a oedd yn gyfan gwbl/rhannol o fewn parth llifogydd C1; fel rhan o'r broses o asesu'r ceisiadau cynllunio casglwyd gwybodaeth ynghylch cydymffurfio â'r ceisiadau cynllunio â'r profion a geir yn Nodyn Cyngor Technegol 15 (Llifogydd); penderfynwyd eu bod yn cydymffurfio â gofyniad y profion a nodir yn NCT 15. Nodir y bydd angen ystyried y NCT 15 diwygiedig sy'n dod i'r amlwg fel rhan o broses y Cynllun.
- 3.31 Mae polisi PCYFF 1 (Ffiniau Datblygu) yn nodi'r gwahaniaeth rhwng delio efo ceisiadau y tu fewn i'r ffin datblygu a rhai y tu allan; PCYFF 2 (Meini Prawf Datblygu) polisi sy'n amlygu meini prawf blaenoriaeth nad ydynt yn cael ei chyfarch mewn rhannau eraill o'r Cynllun; PCYFF 3 (Dylunio a Siapiau Safle) a PCYFF 4 (Dylunio a Thirweddu) yn amlygu ystyriaethau dylunio y dylid ei bodloni efo datblygiadau; PCYFF 5 (Rheoli Carbon) polisi sydd yn disgwyl i ddatblygiadau ddangos sut rhoddwyd sylw i gyfraniad o dechnoleg ynni adnewyddadwy neu garbon isel i

fodloni gofynion y cynnig am drydan a gwres; PCYFF 6 (Cadwraeth Dŵr) polisi sydd yn sicrhau fod cynigion yn cynnwys mesurau cadwraeth dŵr ble bo hynny yn ymarferol.

- 3.32 Mae'r rhain yn faterion cyffredinol sydd yn cael eu hystyried ar gyfer y rhan helaeth o geisiadau cynllunio. Bydd yn rhaid adolygu unrhyw newidiadau o fewn polisi a chanllawiau cenedlaethol a lleol yn y meysydd yma yn ogystal ag addasrwydd y polisiâu presennol mewn Cynllun Diwygiedig.

Technoleg Adnewyddadwy

- 3.33 Mae'r Polisi Strategol (PS 1) a Pholisiâu ADN 1 (Ynni Gwynt ar y Tir), ADN 2 (Ynni PV Solar) ac ADN 3 (Technoleg Ynni Adnewyddadwy a Carbon Isel Arall) yn ceisio sicrhau bod yr ardal yn cyflawni ei botensial fel ardal arweiniol ar gyfer mentrau wedi'u seilio ar dechnolegau adnewyddadwy neu garbon isel yn ogystal â chydbwysio effaith datblygiadau ynni adnewyddadwy ar yr amgylchedd a chymunedau.
- 3.34 Mae'r deipoleg tyrbîn gwynt a chefnogi'r o fewn polisi ADN 1 yn seiliedig ar ganfyddiadau Astudiaeth Capasiti a Sensitifrwydd y Dirwedd yn ardal y Cynllun. Yn unol efo'r ddogfen Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel - Llawlyfr i Gynllunwyr (2015) gan Lywodraeth Cymru fe wnaeth y Cynllun adnabod safleoedd cyfle posib ar gyfer ffermydd PV solar o 5MW neu fwy.
- 3.35 Yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) (Drafft) (2019) gan Lywodraeth Cymru roedd yna Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer solar a gwynt wedi ei adnabod o fewn ardal y Cynllun. Pan gyhoeddwyd Cymru'r Dyfodol (2021) roedd y rhain wedi cael ei thynnu allan. Mae Adroddiad yr Ymgynghoriad ar y FfDC (Medi 2020) yn egluro fod rhai o'r ardaloedd blaenoriaeth gwynt wedi cael ei mireinio yn dilyn pryderon gan y Weinyddiaeth Amddiffyn oedd eisio diogelu ei hystâd a'i hardaloedd hyfforddi strategol. Ar gyfer ardaloedd blaenoriaeth solar fe ddaru'r diwydiant solar nodi'r angen am hyblygrwydd o ran y safbwynt polisi am ei fod yn fwy ystwyth wrth ymateb i gapasiti'r grid ac am nad yw ceisiadau ar gyfer ffermydd solar yn cael cymaint o effaith ar y dirwedd ehangach â thyrbinau gwynt. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru dderbyn hyn a phenderfynu dileu'r ardaloedd a nodwyd ar gyfer datblygiadau solar o'r FfDC.
- 3.36 Wrth fabwysiadu Cymru'r Dyfodol yn 2021 a chyhoeddi PCC diwygiedig i adlewyrchu hyn, mae NCT 8 'Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy' wedi cael ei ddisodli.
- 3.37 Mae PCC (2021) yn cynnwys hierarchaeth ynni a thargedau ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddol. Mae disgwyl i'r system gynllunio wneud gyfraniad gweithredol i helpu sicrhau darpariaeth y targedau hyn o ran capasiti cynhyrchu ynni adnewyddadwy newydd a hyrwyddo mesurau effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau. Mae holl geisiadau ynni gwynt ar y tir o faint 10MW neu fwy a holl safleoedd cynhyrchu ynni eraill sy'n cynhyrchu rhwng 10 a 350MW yn ddatblygiad mawr, ac yn cael eu cyflwyno yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru o dan y broses

Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS), ac yn cael ei ystyried o dan bolisiâu yng Nghymru'r Dyfodol.

- 3.38 Mae paragraff 5.9.14 o PCC (2021) yn datgan y dylai awdurdodau cynllunio asesu'r cyfleoedd ar gyfer ynni adnewyddadwy a charbon isel yn eu hardal a defnyddio'r dystiolaeth i sefydlu polisiâu gofodol yn eu cynllun datblygu, sy'n nodi'r lleoliadau mwyaf priodol ar gyfer datblygiadau ynni islaw 10MW.
- 3.39 Mae Dangosydd D21 yn gosod targedau ar gyfer cyfarch yr adnoddau ynni adnewyddadwy posib sydd wedi cael ei adnabod yn y Cynllun. Roedd disgwyl y buasai 50% o hyn sef 1,113.35 GWh ar gyfer trydan a 23.65 GWh am wres wedi cael ei gyfarch erbyn 2021. Fodd bynnag hyd at 2021 dim ond 52.4 GWh ar gyfer trydan a dim GWh ar gyfer gwres sydd wedi cael ei baratoi.
- 3.40 O ran ynni gwynt ar y tir nid oes yna unrhyw safleoedd sylweddol o'r newydd wedi cael ei gynnig ers i'r Cynllun gael ei fabwysiadu. Mae yna gais presennol i ymestyn caniatâd ar fferm wynt presennol sydd ar Ynys Môn. Ar gyfer ffermydd solar fe gafodd safleoedd cyfle posib ei adnabod, fodd bynnag mae ceisiadau sydd wedi cael caniatâd megis Rhyd y Groes Rhosgoch (49.99MW) ac ymholiadau cyn cais diweddar i gyd wedi cael ei lleoli y tu allan i'r safleoedd cyfle posib yma. Mae'r dystiolaeth efo'r bwriadau yma yn amlygu pwysigrwydd mynediad i gapasiti ar y grid cenedlaethol fel ffactor allweddol ar gyfer dewis safle a bod elfen o'r safleoedd yma yn cynnwys tir amaethyddol o safon uchel. Roedd tir amaethyddol o safon uchel yn un rheswm pam nad oedd rhai ardaloedd yn cael ei adnabod fel safleoedd cyfle posib yn y Cynllun.
- 3.41 Bydd rhaid diwygio'r polisiâu presennol sydd yn ymwneud ac ynni adnewyddadwy i adlewyrchu'r newidiadau cyd-destunol Cenedlaethol sydd wedi cymryd lle ers mabwysiadu'r Cynllun.

Rheoli newid arfordirol

- 3.42 Yn dilyn cyhoeddi fersiynau diwygiedig o Bolisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 10 yn 2018 ac yna Argraffiad 11 yn 2021), bellach mae yna arweiniad polisi cynllunio cenedlaethol wedi ei gynnwys mewn perthynas â pherthnasedd Cynlluniau Rheoli Traethlin i Gynlluniau Datblygu Lleol.
- 3.43 Nodir Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11, 2021) fod Cynlluniau Rheoli Traethlin yn pennu fframweithiau polisi lleol hirdymor ar gyfer rheoli risg arfordirol. Amlygir y ffaith y dylai'r blaenoriaethau a gynhwysir yn y Cynllun Rheoli Traethlin ddylanwadu ar y gwaith o baratoi cynlluniau datblygu a'u llywio. Yn yr amgylchiadau hynny pan nodir yn eglur na fydd amddiffynfeydd arfordirol yn cael eu cynnal mwyach, dylai cynlluniau datblygu gynnwys polisiâu clir a phenodol i reoli datblygiad mewn ardaloedd o'r fath, yn cynnwys ble maent yn teimlo y byddai datblygiad yn anaddas neu y dylid ystyried nodweddion penodol.
- 3.44 Ymhellach yn Hydref 2019 fe ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar fersiwn diwygiedig o Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 15: Datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol. Mae'r fersiwn

diwygiedig o'r Nodyn Cyngor Technegol yn cwmpasu arweiniad o ran erydu arfordirol a llifogydd yn yr un ddogfen. Ategir y fersiwn drafft o NCT 15 yr arweiniad a gynhwysir ym Mholisi Cynllunio Cymru gan bwysleisio ar yr angen i ddefnyddio'r dystiolaeth a gynhwysir yn y Cynllun Rheoli Traethlin wrth lunio, ystyried strategaeth ofodol a safleoedd datblygu posib yn y Cynllun Datblygu Perthnasol.

- 3.45 Yn Hydref 2020 cyhoeddwyd y Strategaeth Genedlaethol newydd ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Strategaeth yn nodi'r polisiau hirdymor ar gyfer rheoli llifogydd, yn ogystal â'r mesurau y bydd sefydliadau megis Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol a chwmnïau dŵr yn eu rhoi ar waith dros y degawd nesaf er mwyn gwella'r ffordd maent yn cynllunio, yn paratoi ac yn addasu i newid yn yr hinsawdd dros y ganrif, gan gynnwys ystyried yr arweiniad a gynhwysir o fewn y Cynllun Rheoli Traethlin.
- 3.46 Nid oes yna adolygiad o'r Cynllun Rheoli Traethlin (SMP) 2 wedi cynnal yn y cyfnod ers mabwysiadu'r CDLI ar y Cyd **ond mae phrosiect adnewyddu ac archwiliad iechyd yn cael eu cynnal ar hyn o bryd. Bydd unrhyw newidiadau i'r CRhT yn dilyn y prosiect adnewyddu yn rhan bwysig o sail tystiolaeth y Cynllun Diwigiedig i liwio unrhyw bolisiau yn y dyfodol.** a chan hynny mae'r arweiniad a gynhwysir yn y ddogfen hynny sydd wedi ei ymgorffori o fewn y CDLI ar y Cyd yn parhau i fod yn gyfredol. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, bellach mae yna fwy o bwyslais ar Awdurdodau Lleol i fod yn ymgorffori ac yn gweithredu ar yr arweiniad a gynhwysir yn y Cynllun Rheoli Traethlin, gan hynny fe fydd yn briodol sicrhau fod y Polisi perthnasol a gynhwysir yn y CDLI ar y Cyd (Polisi ARNA 1: Ardal Rheoli Newid Arfordirol) yn cyd-fynd gyda'r arweiniad Polisi Cynllunio Cenedlaethol.

Adran 6.3 - Rheoli Tŵf a Datblygu – Economi ac Adfywio

Prosiectau isadeiledd o bwysigrwydd cenedlaethol a datblygiadau perthynol

- 3.47 Yn ystod y broses o baratoi a mabwysiadu'r CDLI ar y Cyd roedd yna ddau Brosiect Isadeiledd o Bwysigrwydd Cenedlaethol (PloBC) ar y gweill, sef:-
- Adeiladu gorsaf bŵer niwclear newydd ger Wylfa (Wylfa Newydd);
 - Cynnig gan y Grid Cenedlaethol i wneud gwelliannau / gwaith newydd i Linellau Trawsgludo'r Crid Cenedlaethol a fyddai'n cysylltu safle Wylfa Newydd i is-orsaf pentir a thu hwnt.
- 3.48 Ystyriwyd yn bwysig sicrhau fod y Cynllun yn gosod fframwaith bolisi clir er mwyn cynorthwyo'r Cynghorau i roi sylw i ac ymateb i gynigion PloBC. Oherwydd, fe gynhwyswyd ystod o bolisiau a oedd yn ymwneud a'r PloBC ynghyd a datblygiadau perthynol o fewn y Cynllun.
- 3.49 Bellach mae Adran 43 o Ddeddf Cymru 2017 a gyhoeddwyd ar 1af o Ebrill 2018 yn caniatáu i ddatblygiadau perthynol gael ei gynnwys o fewn y Cais Gorchymyn Datblygu (CGD) . Yn sgil y

newid deddfwriaethol ers y broses o baratoi a mabwysiadu'r CDLI ar y Cyd nid yr Awdurdod Cynllunio Lleol fyddai bellach yr awdurdod penderfynu mewn perthynas â cheisiadau perthnasol. Yn sgil y newid deddfwriaethol hwn, mae rhai o'r polisïau a gynhwysir o fewn y Cynllun un ai yn rhannol neu yn gyfan gwbl ddiangen (Polisi Strategol 9 i Bolisi Strategol 12).

- 3.50 Fe gyflwynwyd Horizon gais (GCD) er mwyn datblygu atomfa niwclear (Wylfa Newydd) ar y 1af o Fehefin, 2018. Roedd y cais yn destun archwiliad gan Banel o Arolygwyr Cynllunio, a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Daeth yr Archwiliad Cyhoeddus i ben (cau) ar 23ain Ebrill 2019. Ar ddiwedd yr archwiliad, roedd gan y Panel 3 mis i gyflwyno adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn amlinellu eu casgliadau a'u hargymhelliad ynglŷn â ph'un a ddylid rhoi caniatâd i'r bwriad, gyda'r penderfyniad terfynol i'w wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar neu cyn y 23 Hydref 2019 (6 mis ar ôl dyddiad cau'r archwiliad).
- 3.51 Ailbennwyd y dyddiad gwneud penderfyniad i 31 Mawrth 2020 er mwyn caniatáu derbyn rhagor o wybodaeth am effeithiau amgylcheddol a materion eraill a oedd heb eu datrys.
- 3.52 Yn dilyn y cyfyngiadau yn gysylltiedig â phandemig firws Covid-19 penderfynwyd yr Ysgrifennydd Gwladol ailbennu'r dyddiad cau statudol ar gyfer y cais hwn i 30 Medi 2020, gan nad oedd y Senedd yn eistedd. Y bwriad oedd y byddai datganiad yn cadarnhau'r dyddiad cau newydd ar gyfer penderfyniad yn cael ei wneud i Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi yn unol ag adran 107(7) o Ddeddf Cynllunio 2008 cyn gynted ag y bo modd ar ôl i'r Senedd ailddechrau.
- 3.53 Ar yr 22ain o Fedi, 28ain o Fedi a 18fed o Ragfyr 2020 fe anfonwyd Horizon ohebiaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn am ohiriad i benderfyniad Cais Gorchymyn Datblygu (CGD) Wylfa Newydd. Nodwyd mai'r rheswm am ofyn i ohirio'r penderfyniad oedd yn sgil trafodaethau oedd yn mynd rhagddi hefo thrydydd parti oedd wedi mynegi diddordeb mewn bwrw ymlaen â datblygu gorsaf bŵer niwclear newydd ar ôl i Hitachi dynnu'n ôl. Ar yr 27ain o Ionawr 2021 fe dynnwyd y CGD yn ôl gan Horizon Nuclear Power. Tynnwyd y cais yn ôl yn sgil diffyg buddsoddw'r prosiect ynghyd a'r diffyg polisi ariannu newydd gan y Llywodraeth. O'r herwydd, fe arweiniodd y penderfyniad hynny at Hitachi yn penderfynu dirwyn Horizon i ben fel endid datblygu gweithredol erbyn 31 Mawrth 2021.
- 3.54 Yn gysylltiedig â datblygiad Wylfa Newydd ar gyfer atomfa niwclear newydd fe gyflwynodd y Grid Cenedlaethol gais Gorchymyn Caniatâd Datblygu (CGD) ar 7 Medi, 2018. Roedd y cais hyn yn rhan o Brosiect Cysylltu Gogledd Cymru ar gyfer gosod cysylltiad trydanol 400kV o ddatblygiad arfaethedig Wylfa Newydd.
- 3.55 Yn dilyn penderfyniad Hitachi i oedi gyda'r bwriad i ddatblygu'r Orsaf Bŵer Niwclear Newydd, ar 20 Chwefror, 2019 fe dynnwyd y Grid Cenedlaethol ei gais am GCD yn nôl yn ffurfiol a ni ystyriwyd ymhellach gan yr Awdurdod Archwilio na'r Arolygaeth Cynllunio.
- 3.56 Oherwydd yr amgylchiadau a nodir uchod, bellach mae yna ansicrwydd ynglŷn â dyfodol Wylfa Newydd yn sgil y diffyg datblygwr a buddsoddiad. Ystyrir yn briodol cynnal adolygiad llawn o'r

polisiau o fewn y Cynllun sydd yn ymwneud a Phrosiect Isadeiledd o Bwysigrwydd Cenedlaethol. Mi fydd hefyd angenail ymweld â Strategaeth y Cynllun a oedd yn rhannol ymateb i'r cyfleoedd a'r galw a fyddai'n deillio o wireddu datblygiad o bwysigrwydd cenedlaethol.

- 3.57 Yn unol â'r arweiniad a gynhwysir yng Nghymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi menter Arc Niwclear y Gogledd-orllewin sy'n weledigaeth a rennir (â Llywodraeth y DU, prifysgolion a'r Labordy Niwclear Cenedlaethol) i sicrhau'r effeithiau cadarnhaol y gallai'r sector niwclear eu cael o ran buddsoddi, sgiliau a hyfforddiant. Nodir fod rhaglen 'Ynys Ynni Môn' hefyd yn ceisio cydgysylltu camau gweithredu mewn perthynas â datblygiadau ynni newydd er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf posibl i'r ardal. Bydd angen sicrhau fod y cynllun diwygiedig yn cynnwys polisiau a fydd yn hwyluso gweledigaeth Cymru'r Dyfodol ag amcanion Rhaglen Ynys Ynni.
- 3.58 Yn ystod y broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig, bydd angen bod yn ystyriol o unrhyw newidiadau yn gysylltiedig â Wylfa Newydd gan alluogi'r Cynllun i ymateb i'r newidiadau hynny yn ôl yr angen. Mi fydd angen i'r Cynllun Diwygiedeig adlewyrchu'r amcanion a gweledigaeth Cymru'r Dyfodol, Rhaglen Ynys Ynni a Cyngor Sir Ynys Môn yn gysylltiedig a datblygiadau ynni er mwyn dylanwadau a uchafu ar y budd i'r ardal.

Darparu Cyfleon ar gyfer Economi ffyniannus

- 3.59 Un o brif amcanion y Cynllun oedd hwyluso strategaethau'r ddau Gyngor i dyfu ac arallgyfeirio economi ardal y Cynllun. Cafodd y fframwaith polisi ei lywio gan Adolygiad Tir Cyflogaeth (2014) a gynhaliwyd i asesu safleoedd cyflogaeth gyfredol sydd wedi'u lleoli yn yr awdurdodau lleol a rhagamcanu'r gofyniad yn y dyfodol am dir cyflogaeth yn ystod cyfnod y Cynllun.
- 3.60 Mae dangosyddion perfformiad yn yr AMB wedi asesu effeithiolrwydd y tir cyflogaeth a ddiogelir ac sydd wedi ei gwarchod. O ran safleoedd cyflogaeth a warchodir, amlygwyd y dangosyddion, er bod y polisiau'n effeithiol wrth ddiogelu'r safleoedd rhag rhai nad ydynt yn B1 (Busnes), B2 (Diwydiant Cyffredinol) a B8 (Gwasanaethau Storio neu Ddosbarthu), roedd y gyfradd ar gyfer caniatâd cynllunio ar gyfer defnydd cyflogaeth newydd yn is na'r disgwyl. Yn yr un modd, amlygwyd y dangosydd perfformiad mewn perthynas â safleoedd a warchodwyd fod cyfanswm y tir cyflogaeth a ganiateir yn disgyn yn is na'r gofyniad cronol a nodwyd yn y Targed Polisi. Mae'r Cynllun yn hwylusydd o ran darparu safleoedd cyflogaeth. Ymhellach mae polisiau'r Cynllun yn sicrhau fod datblygiadau cyflogaeth yn cael eu tywys i'r lleoliadau mwyaf priodol/addas. Rhaid pwysleisio fod yr hinsawdd economaidd (h.y. goblygiadau Wylfa Newydd, Brexit, pandemig Covid) yn sylweddol wahanol i pan gafodd y Cynllun ei fabwysiadu ac ystyrir bod hyn wedi cael cryn effaith ar y nifer o dir cyflogaeth sydd wedi ei gymryd i fyny.
- 3.61 Cafodd effeithiolrwydd polisi'r Cynllun mewn perthynas ag arallgyfeirio gwledig (CYF 6) ei fonitro hefyd yn yr AMB. Mae'r dangosydd hwn yn awgrymu bod y polisi wedi'i weithredu'n effeithiol i gymeradwyo ceisiadau busnes ar raddfa fach newydd ac, felly, gyfrannu at sicrhau ffyniant economaidd a chyfleoedd cyflogaeth mewn ardaloedd gwledig.

3.62 Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig, bydd angen astudiaeth Adolygu Tir Cyflogaeth newydd a bydd angen i hwn ystyried effaith Brexit, Covid a'r sefyllfa cyfredol (ar yr adeg) yn gysylltiedig â Wylfa Newydd. Bydd angen hefyd i'r Adolygiad Tir Cyflogaeth ystyried amcanion Cymru'r Dyfodol ar gyfer ardal y Cynllun.

Yr Economi Ymwelwyr

3.63 Mae'r polisiâu twristiaeth yn y cynllun yn ceisio cefnogi datblygu'r diwydiant twristiaeth drwy gydol y flwyddyn, wrth sicrhau cydbwysedd priodol rhwng ystyriaethau economaidd, cymunedol (gan gynnwys yr iath a'r diwylliant) a sicrhau y gwarchodir yr amgylchedd naturiol, adeiledig a hanesyddol.

3.64 Mae PCC yn cydnabod bod swyddogaeth twristiaeth yn hanfodol i ffyniant economaidd a chreu swyddi mewn sawl man yng Nghymru, ac yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau ddarparu fframwaith i gynnal a datblygu cyfleusterau twristiaeth o safon uchel sydd wedi'u lleoli'n dda. Mae Cymru'r Dyfodol yn cydnabod pwysigrwydd y sector twristiaeth i economi'r Gogledd, a phwysigrwydd cyfleoedd i gefnogi cyrchfannau arfordirol, cyn-safleoedd diwydiannol megis chwareli ac atyniadau, a chyfleusterau newydd awyr agored ac actif.

3.65 Nid yw'r AMB wedi adnabod unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r modd y gweithredir polisiâu twristiaeth, ac ni nodwyd unrhyw gamau gweithredu. Fodd bynnag, codwyd pryderon cyffredinol am faterion nad ydynt yn rhan o unrhyw ddangosyddion penodol sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth llety gwyliau hunanarlwyo a safleoedd carafanau dros-dro/parhaol.

3.66 Yn sgil y pandemig Covid-19 a Brexit, bu cynnydd yn nifer y bobl sy'n dewis aros am wyliau yn eu gwlad eu hunain ('staycation') yn hytrach na theithio dramor. O ganlyniad bu cynnydd yn y galw am lety gwyliau hunanarlwyo yn ardal y cynllun, sydd hefyd wedi rhoi straen ar y farchnad dai lleol, gyda nifer o dai yn yr ardaloedd twristiaeth draddodiadol wedi cael eu prynu fel ail gartrefi. Mae hyn wedi arwain at densiynau rhwng y sector twristiaeth a'r gymuned leol o ganlyniad i'r cynnydd anferth yn nifer y twristiaid sy'n ymweld â rhannau o ardal y cynllun.

3.67 Mae polisi TWR 2 (Llety Gwyliau) yn ymdrin â mater gormodedd llety gwyliau hunangynhaliol mewn rhai cymunedau ac mae'r CCA Cyfleusterau a Llety Twristiaeth a fabwysiadwyd yn pennu trothwy ar gyfer gormodedd, ac wedi cynnig rhagor o ganllawiau ar y mater.

3.68 Yn ddiweddar mae'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi cynnal gwaith ymchwil "Rheolaeth o dai fel cartrefi gwyliau" i ennyn gwell dealltwriaeth o'r mater. Bydd angen defnyddio'r ymchwil ac unrhyw waith ymchwil arall fel tystiolaeth wrth ddiwygio'r polisi er mwyn cynorthwyo i ymdrin â'r newidiadau a'r effeithiau ar y sector.

3.69 Mae llety gweryslla amgen ('glampio') yn ddiwydiant sy'n esblygu yn barhaus, gyda mathau newydd o lety ar gael ar y farchnad. Ystyrir gweryslla heb deithio ymhell fel dewis rhatach na mathau eraill o lety gwyliau, a gall lawer o safleoedd sydd eisoes yn bodoli fod mewn lleoliadau amlwg ar hyd yr arfordir ac mewn cefn gwlad agored. Mae Polisiâu TWR 3 (Safleoedd Carafanau Sefydlog, Sialé a Llety Gweryslla Amgen Parhaol) a TWR 5 (Safleoedd Carafanau

Teithiol, Gwersylla a Llety Gwersylla Dros Dro) yn caniatáu gwelliannau i safleoedd presennol, ac yn ceisio annog datblygiadau newydd o ansawdd uchel o ran eu graddfa, dyluniad, gosodiad ac edrychiad yn y dirwedd.

- 3.70 Bydd angen ail-edrych ar y polisiâu gweryslla yn y cynllun fel rhan o'r adolygiad gan roi ystyriaeth i faterion cymunedol (gan gynnwys iaith a diwylliant), amgylcheddol a gofynion y sector gweryslla. Efallai y bydd angen adolygu'r Astudiaeth Sensitifrwydd Tirwedd a Chapasiti (2014) i gyfrannu at y polisiâu yn y cynllun newydd.
- 3.71 Yn ystod y broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig, ystyrir ei bod yn angenrheidiol adolygu'r polisiâu yn y CDLI ar y Cyd sy'n ymwneud â thwristiaeth er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol ac yn cydymffurfio â'r cyd-destun polisi cynllunio perthnasol a'r newidiadau cyd-destunol ynghyd a rhoi ystyriaeth i gynnwys Cynlluniau Rheoli Cyrchfan (Ynys Môn a Gwynedd) ag unrhyw strategaethau eraill sydd yn gysylltiedig. gysylltiedig.

Canol Trefi a Datblygiadau Manwerthu

- 3.72 Mae Polisi strategol PS12 (Canol Trefi a Manwerthu) a pholisiau MAN 1 (Datblygiadau Arfaethedig mewn Canol Trefi), MAN 2 (Prif Ardaloedd Manwerthu) a MAN 3 (Manwerthu tu allan i Ganol Trefi Diffiniedig ond oddi mewn i Ffiniau Datblygu) yn ceisio gwarchod, gwella a chefnogi canol trefi/canolfannau manwerthu ar draws ardal y cynllun, ac mae polisiâu MAN 4 (Diogelu Siopau a Thafarndai mewn Pentrefi), MAN 5 (Datblygiadau Manwerthu Newydd mewn Pentrefi) a MAN 6 (Manwerthu yng Nghefn Gwlad) yn ceisio darparu cyfleoedd manwerthu ar raddfa fach mewn ardaloedd gwledig.
- 3.73 Mae Cymru'r Dyfodol yn cynnwys polisiâu sy'n ceisio cefnogi canolfannau trefol a sicrhau bod datblygiadau arwyddocaol yn cael eu lleoli o fewn canol trefi a dinasoedd, ac mae PCC yn hyrwyddo canolfannau manwerthu a masnachol fel y lleoliad mwyaf addas ar gyfer amrediad o weithgareddau sy'n ychwanegol i wasanaethau manwerthu. Mae'r pwyslais ar greu lleoedd yn PCC hefyd yn arwyddocaol o ran rheoli newid ac wrth ddatblygu canolfannau manwerthu a masnachol.
- 3.74 Mae'r sail tystiolaeth sy'n cyfrannu at ddatblygu polisiâu'r cynllun yn cynnwys yr Astudiaeth Manwerthu a'r Papur Testun Manwerthu. Yn y blynyddoedd ers paratoi'r dogfennau hyn (2013/14), mae'r hinsawdd manwerthu wedi newid yn sylweddol gyda'r twf cynyddol mewn siopa ar y we a'r pandemig Covid-19 sydd wedi cyfrannu at gau nifer sylweddol o fusnesau manwerthu a masnachol cenedlaethol a lleol o bwys. Mae Adeiladu Lleoedd Gwell – Creu Lleoedd a'r Adferiad Covid-19 (Gorffennaf 2020) yn galw ar y system gynllunio i ymateb i'r sefyllfa hon drwy sicrhau y gall ein canolfannau manwerthu a masnachol weithredu mor hyblyg â phosib.
- 3.75 Mae'r CDLI ar y Cyd yn sefydlu hierarchaeth fanwerthu ac mae'r Astudiaeth Fanwerthu yn adnabod angen ychwanegol am:
- 7913m² o arwynebedd llawr nwyddau cymhariaeth ym Mangor
 - 200m² o arwynebedd llawr nwyddau cyfleus a 176m² o arwynebedd nwyddau cymhariaeth yng Nghaernarfon

- 172m² o arwynebedd llawr nwyddau cyfleus a 772m² o arwynebedd nwyddau cymhariaeth ym Mhwillheli
- 492m² o arwynebedd llawr nwyddau cyfleus yn Llangefni.

- 3.76 Er nad yw'r Adroddiadau Monitro Blynyddol (AMB) wedi adnabod unrhyw faterion penodol gyda gweithrediad y polisi manwerthu, ers mabwysiadu'r CDLI ar y Cyd, bu nifer y ceisiadau cynllunio am ddefnydd manwerthu newydd (A1 - Siopau) ym Mangor, Llangefni a Phwillheli yn gymharol isel; yn wir, ceisiadau i newid o ddefnydd A1 (Siopau) i ddefnyddiau eraill, megis A2 (Gwasanaeth Ariannol a Phroffesiynol), A3 (Bwyd a diod) neu C3 (Tai) a gyflwynir. Yn sgil diffyg cynnydd a phwysau am ddatblygiadau A1 yn y canolfannau manwerthu penodol hyn, mae'n ymddangos nad yw'r galw am ddatblygiadau manwerthu yn cyd-fynd â chasgliadau'r Astudiaeth Fanwerthu. O ganlyniad i'r newidiadau cyd-destunol, wrth i'r broses o ddiwygio'r Cynllun barhau, mae'n debygol y bydd angen Astudiaeth Fanwerthu newydd er mwyn penderfynu a yw casgliadau'r astudiaeth flaenorol (2013) yn parhau i fod yn berthnasol.
- 3.77 Wrth ddatblygu sail tystiolaeth ddiwygiedig dylid ystyried materion eraill, megis newid ffocws cyffredinol y pwnc i ganolbwyntio ar ddatblygiadau manwerthu a masnachol a'r thema creu lle, yn unol â pholisi a chanllawiau cenedlaethol mwy diweddar.

Adran 6.4 - Rheoli Twf a Datblygu – Cyflenwad ac Ansawdd Tai

Graddfa Tai

- 3.78 Mae'r Cynllun wedi nodi lefel twf o 7,184 o unedau preswyl yn y cyfnod 2011-26. Cafodd y sail i'r ffigwr hwn ei nodi ym Mhapur Testun 4 'Disgrifio'r Twf Tai'. Mae'r ffigwr yn seiliedig ar ystyriaethau demograffeg, cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd ochr yn ochr â ffactorau mewn perthynas â gofynion polisiau cenedlaethol ac agweddau ymarferol megis capasiti aneddleoedd i dderbyn y twf.
- 3.79 Mae gwybodaeth o'r Adroddiadau Monitro Blynyddol yn dangos fod y ddarpariaeth tai blynyddol a chronnol yn gyson wedi disgyn o dan y ffigyrau targed a nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Erbyn diwedd cyfnod AMB 3 (2020/21) roedd 551 yn llai o unedau wedi eu cwblhau o'i gymharu â'r ffigwr a ragwelwyd yn nhaflywbr tai'r Cynllun mabwysiedig (-12.3%) neu 866 yn llai o unedau os yn cymharu â'r gyfradd datblygu flynyddol cyfartalog (-18.1%).
- 3.80 Nid yw'r lefel datblygu blynyddol wedi cwrdd â'r ffigwr cyfatebol yn y taflwybr tai'r un flwyddyn ers mabwysiadu'r Cynllun ac mae ond wedi cwrdd â'r ffigwr datblygu cyfartalog unwaith yn unig (yn 2018/19). ~~Dylid ystyried os yw'r rhesymeg a'r gwahanol elfennau oedd ynghlwm a sefydlu'r ffigwr twf yn parhau'n addas gan asesu hefyd os oes agweddau o'r newydd sydd angen eu hystyried yn ogystal.~~ Byddai'n bwysig ymgymryd â'r gwaith hwn yng nghyd-destun gofynion y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3, Mawrth 2020) **a PCC (Argraffiad 11, Chwef 2021)**, o safbwynt ystyried agweddau megis, er enghraifft, yr amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd diweddaraf, cyfraddau datblygu'r gorffennol, patrymau mudo ac ystyriaethau mewn perthynas â'r iaith Gymraeg. Byddai'n bwysig hefyd

ystyried dylanwad y Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru fel hybir yng Nghymru'r Dyfodol.

- 3.81 Mae'r broses o ddiwygio'r cynllun yn rhoi cyfle i ail edrych ar y lefelau twf mwyaf priodol gan ystyried drwy hynny'r ffactorau cysylltiedig. Mae'r lefel y twf yn elfen hollol graidd o strategaeth gyffredinol y Cynllun. Wrth adolygu'r ffigwr twf a'r strategaeth tai bydd yn hollbwysig ystyried effaith Brexit a phandemig Covid-19. Agwedd arall fydd yn rhaid ei ystyried yw'r ansicrwydd mewn perthynas dyfodol Wylfa Newydd yn dilyn tynnu'r CGD yn ôl.

Lleoliad Tai

- 3.82 Nid yw'r Adroddiadau Monitro Blyneddol wedi amlygu problemau o ran y modd mae'r twf yn cael ei rannu rhwng y gwahanol haenau yn y Cynllun. Fodd bynnag, bydd angen i'r Cynllun Diwygiedig ystyried y modd o ddosbarthu'r twf arfaethedig yn effeithiol ar sail y strategaeth aneddleoedd. Bydd angen ystyried y twf arfaethedig ym mhob anheddle perthnasol ar sail unrhyw ddiwygiad i ffigwr twf y Cynllun a hefyd o safbwynt strategaeth y Cynllun. Mae rhai aneddleoedd eisoes wedi cyrraedd eu lefel twf ac mae angen i'r Cynllun Diwygiedig roi ystyriaeth i'r dosraniad o dai rhwng y gwahanol aneddleoedd. Credir yn hyn o beth y dylid hefyd ail-edrych ar y modd mae gwahanol aneddleoedd wedi eu categorio er mwyn sicrhau fod y twf tai yno yn cyd-fynd yn effeithiol â strategaeth y Cynllun. Mae'n debyg fod y sefyllfa fewn rhai aneddleoedd unigol wedi newid ers mabwysiadu'r Cynllun o safbwynt y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd yn amlwg ynddynt. Bydd angen felly ail-ystyried y wybodaeth a'u hamlygir ym Mhapur Testun 5, 'Datblygu'r Strategaeth Aneddleoedd' er mwyn sicrhau fod aneddleoedd penodol yn derbyn twf tai sydd yn gynaliadwy.
- 3.83 Ynghyd â ystyried dosbarthiad tai fesul aneddleoedd, credir fod angen i'r Cynllun Diwygiedig hefyd ystyried y modd o ddarparu tai newydd. Bydd angen sicrhau fod y twf yn cael ei sicrhau mewn modd cynaliadwy sydd yn cyd-fynd â strategaeth y Cynllun. Byddai hyn yn golygu mwy o sicrwydd o ran darparu'r twf mewn modd fyddai'n cynnal ac yn hybu agweddau ieithyddol, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.
- 3.84 Un agwedd bydd yn rhaid i'r Cynllun Diwygiedig ystyried yw addasrwydd dynodiadau tai i gwrdd â chyfran o'r ffigwr twf. Mae gwybodaeth i'r cyfnod hyd at ddiwedd 2020/21 yn amlygu fod 655 yn llai o unedau (-44.6%) wedi eu cwblhau ar ddynodiadau tai na'r hyn a oedd yn ddisgwyliedig yn unol â'r taflwybr tai tra bod 300 yn fwy o unedau (+21.5%) wedi eu datblygu ar safleoedd ar hap mawr (5+ o unedau) o'i gymharu â'r ffigwr yn y taflwybr. Noder yn ogystal erbyn diwedd cyfnod AMB 3 nad oedd caniatâd cynllunio yn bodoli ar gyfer 30 o'r 69 dynodiad tai yn y Cynllun. Mae gwaith mewn perthynas â'r taflwybr tai yn Adroddiad Monitro Blyneddol 3 yn rhagweld y byddai 930 o unedau ar safleoedd sydd wedi eu dynodi yn cael eu datblygu yn dilyn diwedd cyfnod y Cynllun (h.y. ar ôl 2026). Tra bod disgwyl oediad rhwng dynodi safleoedd a'u datblygu, mae'n rhaid ystyried addasrwydd y dynodiadau tai presennol. Fel nodir yn Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3, Mawrth 2020) bydd angen cyfiawnhad gofalus i gynnwys dynodiadau sy'n cael eu parhau o gynllun blaenorol mewn cynllun

diwygiedig. Nodir y bydd angen newid sylweddol mewn amgylchiadau i ddangos y gellir cyflawni safleoedd a chyfiawnhau iddynt gael eu cynnwys eto. Bydd angen tystiolaeth gadarn y gellir cyflawni safleoedd o'r fath.

- 3.85 Mi fydd yn bwysig ystyried y lleoliadau gorau posib ar gyfer y dynodiadau tai o safbwynt argaeledd, hyfywedd a'u bod hefyd yn cydymffurfio yn effeithiol gyda strategaeth y Cynllun ac ystyriaethau cynllunio eraill. Ni ddylid cadw dynodiadau sydd yn y Cynllun yn bresennol os nad oes tystiolaeth yn dangos eu bod yn addas o ran cwrdd ag elfen o'r ffigwr twf. Bydd diweddarau'r Asesiad Capasiti Trefol yn bwysig wrth ystyried y ddarpariaeth ar hap i gyd-fynd â'r dynodiadau tai.

Tai Marchnad Leol

- 3.86 Mae caniatâd wedi ei roddi am 5 uned marchnad lleol gydag 1 uned o'r fath wedi ei gwblhau yn ystod 2019/20 (gwybodaeth hyd at ddiwedd cyfnod AMB 3). Noder fod Polisi TAI 5 mewn perthynas â Thai Marchnad Lleol wedi cyflwyno egwyddor polisi hollol newydd nad oedd yn amlwg mewn cynlluniau datblygu blaenorol. Ar sail hyn credir bod oediad amser yn parhau felly rhwng mabwysiadu'r CDLI ar y Cyd, derbyn egwyddor polisi sydd yn hollol o'r newydd yn yr aneddeuoedd perthnasol ac yna adeiladu tai o'r fath. Tra credir ei fod yn bwysig cynnal y polisi er mwyn cwrdd ag anghenion y cymunedau perthnasol, bydd angen ystyried os oes angen newid unrhyw fanylder yn y polisi er mwyn hybu caniatadau a datblygu pellach.
- 3.87 O safbwynt polisiâu tai penodol bydd yn bwysig ail-edrych ar y dystiolaeth sydd wrth wraidd Polisi TAI 5 (Tai Marchnad Leol) er mwyn ystyried ehangder yr ardal mae'r polisi yn berthnasol ar ei gyfer. Mi fydd y dystiolaeth yma yn cynnwys, er enghraifft, cymhareb fforddiadwyedd, canran o bobol sydd wedi eu prisio allan o'r farchnad, canran o ail gartrefi, tueddiadau mudo, bandiau treth cyngor yr ardal. Mae'n bosib y bydd rhaid ystyried ffynonellau eraill o dystiolaeth yn ogystal. Mae angen cynnal ymchwil hefyd i ddeall y rhesymau dros y nifer isel o unedau marchnad leol sydd wedi derbyn caniatâd cynllunio a'u datblygu. Gellir ystyried drwy hyn agweddau megis diffyg cyfleoedd posib i ddarparu unedau o'r fath ac anwybodaeth o'r polisi. Tra nad oes llawer o unedau o'r fath wedi eu caniatáu a'u datblygu ers mabwysiadu'r Cynllun, mae egwyddor a phwrpas y Polisi o ran hybu marchnadoedd tai mwy cynaliadwy yn y manau hynny ble mae problemau dwys yn amlwg, yn rhywbeth sydd yn sicr angen ei ystyried ymhellach.

Math o Dai

- 3.88 Mae'r rhan Math o Dai yn y Cynllun yn cynnwys Polisi TAI 8 (Cymysgedd Briodol o Dai) sef polisi i sicrhau fod pob datblygiad preswyl newydd yn cyfrannu at wella cydbwysedd tai ac yn diwallu'r anghenion a nodir ar gyfer y gymuned gyfan; TAI 9 (Isrannu Eiddo Presennol i Fflatiau Hunangynhaliol a Thai Amlfeddiannaeth) polisi sydd yn sicrhau fod adeiladau yn addas i'w isrannu heb gael effaith andwyol ar fwynderau cyfagos ac yn rhoi trothwy ar lefel o dai amlfeddiannaeth o fewn Wardiau; TAI 10 (Llety Arddull Campws ar gyfer Gweithwyr Adeiladu)

polisi sydd yn berthnasol i lety dros dro a ddarperir i weithwyr adeiladu sydd ei angen mewn cysylltiad â phrosiectau adeiladu ar raddfa fawr (ar wahân i Brosiect Wylfa Newydd); TAI 11 (Cartrefi Gofal Preswyl, Tai Gofal Ychwanegol neu Lety Gofal Arbenigol ar gyfer yr Henoed) polisi sydd yn amlygu ystyriaethau lleoliad cynaliadwy ac angen efo fath ddatblygiadau; TAI 12 (Llety Myfyrwyr Pwrpasol) polisi yn amlygu ystyriaethau i'w bodloni ar gyfer cefnogi llety pwrpasol ychwanegol i fyfyrwyr; TAI 13 (Ail-adeiladu Tai) polisi sydd yn amlygu ystyriaethau i'w bodloni ar gyfer cefnogi ail-adeiladu tai oddi fewn ac y tu allan i ffiniau datblygu; TAI 14 (Defnydd Preswyl o Garfanau, Cartrefi Symudol a mathau eraill o Lety nad ydynt yn Barhaol) polisi sydd fel eithriad yn caniatáu defnydd llety nad yw'n barhaol fel preswyl dros dro i weithwyr dros dro yn ystod adeiladu prosiect adeiladu penodol neu ar gyfer sefydlu menter gwledig newydd.

- 3.89 Mae Polisi TAI 8 a'r Canllaw Cynllunio Atodol 'Cymysgedd Tai' yn sicrhau fod ystyriaeth berthnasol yn cael ei roi i sicrhau fod bwriad yn darparu unedau preswyl sydd yn gwella cydbwysedd tai ac yn helpu i ddiwallu anghenion y gymuned gyfan. Cafodd cais ei wrthod ym Morfa Nefyn ar y sail nad oedd yn darparu unedau ar gyfer anghenion y gymuned leol a cafodd penderfyniad y Cyngor ei gefnogi gan Arolygydd yn ei benderfyniad o'r Apêl yn Ebrill 2021. Dylid adolygu meini prawf y polisi i sicrhau eu bod dal yn addas ar gyfer fath bolisi yn y Cynllun diwygiedig.
- 3.90 Mae Polisi TAI 9 yn gwahaniaethu rhwng safleoedd o fewn ffin datblygu ac eiddo yng nghefn gwlad. O fewn y ffin datblygu efo ceisiadau am tai amlfeddiannaeth ceir trothwy ble na ddylai'r nifer o unedau fod yn uwch na 25% o fewn 2 o Wardiau Bangor a 10% yn weddill o Wardiau ardal y Cynllun. Fe wnaeth Arolygydd Cynllunio mewn apêl yn 2017 gefnogi'r ffigwr trothwy yma yn y polisi gan wrthod cais ar gyfer newid annedd i dŷ amlfeddiannaeth. Nid oes gostyngiad sylweddol wedi bod yn y nifer o unedau sydd wedi cael ei trwyddedu fel tai amlfeddiannaeth ym Mangor fodd bynnag fe fydd yn rhaid adolygu'r sail dystiolaeth yma wrth ddiwygio'r Cynllun. Ar gyfer meini prawf unedau yn y cefn gwlad agored dylid ystyried addasrwydd rhain o ystyried pwyslais lleoliadau cynaliadwy yn PCC.
- 3.91 Nid oes unrhyw geisiadau wedi cael ei gyflwyno i'w ystyried o dan Bolisi TAI 10, gall hyn fod oherwydd oedi mewn rhai o brosiectau adeiladu graddfa fawr. Dylid adolygu'r sail tystiolaeth ar gyfer prosiectau mawr i asesu'r angen am fath bolisi yn y Cynllun diwygiedig.
- 3.92 Mae rhai ceisiadau wedi cael ei delio efo o dan Bolisi TAI 11 a ni ymddengys fod unrhyw broblem wedi cael ei amlygu efo'r polisi. Bydd y broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig yn rhoi cyfle i gael mewnbwn y sector gofal i addasrwydd y polisi presennol.
- 3.93 Cafodd Polisi TAI 12 ei baratoi gan fod yna bwysau efo nifer o geisiadau am lety bwrpasol i fyfyrwyr ym Mangor. Dros y blynyddoedd diwethaf mae yna leihad sylweddol wedi bod yn y nifer o geisiadau am y math yma o ddatblygiadau. Mi fydd angen casglu tystiolaeth gan y Brifysgol ar gyfer newidiadau disgwylidig yn niferoedd myfyrwyr ar angen am fwy o lety pwrpasol i ddiweddarau'r Cynllun. Os bydd polisi tebyg yn cael ei baratoi mewn Cynllun

diwygiedig dylid newid y cyfeiriad o fewn maen prawf (1) i gael cefnogaeth i'r bwriad gan sefydliad addysg uwch gan fod y Brifysgol wedi datgan nad oeddynt yn fodlon rhoi fath sylwadau efo datblygiadau preifat.

- 3.94 Mae yna nifer helaeth o geisiadau wedi cael ei gyflwyno o dan Bolisi TAI 13 ar gyfer ail-adeiladu tai. Mae yna angen adolygu nifer o fanylder o fewn meini prawf y polisi i sicrhau cysondeb efo polisiau tai eraill yn y Cynllun. Dylid adolygu polisi cenedlaethol ar gyfer datblygiad cynaliadwy a sicrhau cyfiawnhad efo datblygiadau o fewn ffiniau datblygu i sicrhau nad yw unedau preswyl addas yn cael ei dymchwel er mwyn adeiladu uned mwy o ran maint.
- 3.95 Nid oes fawr o geisiadau wedi cael ei ystyried yn erbyn polisi TAI 14 hyd yma. Bydd paratoi Cynllun diwygiedig yn galluogi rhoi ystyriaeth i'r angen am y math yma o bolisi yn y Cynllun diwygiedig.

Tai Fforddiadwy

- 3.96 Mae Polisi PS 18 (Tai Fforddiadwy) yn gosod targed ar gyfer yr isafswm o dai fforddiadwy i'w darparu drwy'r Cynllun; TAI 15 (Trothwy Tai Fforddiadwy a'u Dosbarthiad) yn bolisi sydd yn gosod trothwy pryd mae angen paratoi unedau fforddiadwy a canran o dai fforddiadwy y disgwylir mewn gwahanol ardaloedd pris tai; TAI 16 (Safleoedd Eithrio) yn bolisi sydd yn cefnogi bwriad am 100% tai fforddiadwy ar safleoedd yn union gerllaw'r ffin datblygu.
- 3.97 Mae PCC (2021) yn ategu fod angen cymuned am dai fforddiadwy yn ystyriaeth gynllunio berthnasol. Dylid cynnwys targed yn y Cynllun ar gyfer nifer o unedau fforddiadwy gan sicrhau fod modd cyfarch hyn a'i fod yn hyfyw. Cafodd safonau newydd 'Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru' ei gyhoeddi yng Ngorffennaf 2021 a bydd disgwyl i holl unedau fforddiadwy a ariennir yn gyhoeddus gyfarch y safonau yma efo unedau fforddiadwy drwy amod / Cytundeb 106 i fodloni'r "gofynion gofod" yn Atodiad Ac ac Atodiad B.. Mae paragraff 4.2.32 yn datgan bod rhaid i'r awdurdodau ddarparu ar gyfer safleoedd tai a arweinir gan dai fforddiadwy h.y. safleoedd efo o leiaf 50% o dai fforddiadwy.
- 3.98 Mae Dangosydd D47 yn gosod targedau pob 2 flynedd ar gyfer cyfarch y targed o 1,572 o unedau fforddiadwy erbyn 2026. Yn y cyfnod 2015 i 2021 mae yna gyfanswm o 626 o unedau fforddiadwy wedi cael ei chwblhau. Er mwyn cyrraedd y targed a noder ar gyfer 2022 bydd angen adeiladu 201 o unedau fforddiadwy erbyn diwedd Mawrth 2022. Mae lefel twf tai'r Cynllun 866 uned yn is na'r ffigwr disgwyliedig erbyn 2020/21. Mae'r mwyafrif o'r llithriad yma wedi digwydd ar safleoedd sydd wedi ei dynodi ar gyfer tai yn y Cynllun. Buasai disgwyl i'r safleoedd yma baratoi canran o dai fforddiadwy ac felly mae hyn yn rhannol gyfrifol am y lefel is na'r disgwyl o unedau fforddiadwy sydd wedi cael ei chwblhau ers 2015.
- 3.99 Mae'r trothwyon a'r canran o dai fforddiadwy y disgwylir o fewn gwahanol ardaloedd pris tai ym Mholisi TAI 15 yn seiliedig ar sail tystiolaeth o'r Asesiad Hyfywdra Tai Fforddiadwy. Mae Dangosydd D50 yn monitro newidiadau mewn gwerthoedd gweddilliol ar draws yr ardaloedd

prisiau tai. Oherwydd prinder nifer a mathau o ddatblygiadau mewn rhai o'r Ardaloedd Prisiau Tai mae'r gwaith monitro wedi bod yn edrych ar y darlun cyffredinol yn ardal y Cynllun. Y twf mewn prisiau tai yn ardal y Cynllun rhwng 2016 a 2020 oedd oddeutu 10% sydd yn dwf cymedrol o 2% y flwyddyn. Ar gyfer y cyfnod 2020 i 2021 roedd yna gynnydd sylweddol o 15.5% yng Ngwynedd a Môn hefyd yn gweld cynyddu sylweddol o 15% yn yr un cyfnod. Mewn perthynas â chostau adeiladu (ar sail newid mewn prisiau tender) mae'r rhain yn dangos cynnydd o 1.1% rhwng 2019 a 2020, fodd bynnag ceir lleihad o 1% rhwng 2020 a 2021. Yn gyffredinol mae yna gynnydd o 12.6% yn y costau adeiladu wedi bod ers 2016. Mae'r cynnydd dramatig a welir eleni i'w weld fel gwyrriad o'r drefn tymor hir ac ar sail hyn mae angen rhoi ystyriaeth gofalus i hyn wrth fynd ymlaen i 2022. Mae hwn wedi bod yn gyfnod o newid economaidd a gwleidyddol a allai fod yn draddodiadol wedi creu problemau a heriau hyfywedd. Y sefyllfa felly ar bapur yw y gall y Cyngor gynnal ei bolisiau presennol mewn trafodaethau safle-benodol, fodd bynnag, mae'r darlun tymor hir yn llai sicr. Mae'n bosibl bod prisiau'n mynd rhagddynt o ganlyniad i gyfres unigryw o ffactorau gan gynnwys y duedd a ysgogwyd gan Covid ar gyfer symud a chryfhau'r farchnad swyddi drwy 'furlough'. Bydd cynnal diweddariad i'r Aseiad Hyfywdra Tai Fforddiadwy yn galluogi adolygiad o bolisi TAI 15 i sicrhau fod y trothwyon a chanran o dai fforddiadwy y ceisir yn hyfyw i'w paratoi.

- 3.100 Mae Polisi TAI 16 yn cefnogi bwriadau am 100% tai fforddiadwy ar safleoedd sydd y tu allan ond yn union gerllaw a'r ffin datblygu os caiff y meini prawf o fewn y polisi ei bodloni. Mae Dangosydd D49 yn monitro nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir ar safleoedd eithriedig gwledig ers mabwysiadu'r Cynllun mae caniatâd wedi cael ei roi ar gyfer 79 uned fforddiadwy ar 13 safle eithrio. Cafwyd trafodaeth wrth ddelio efo ceisiadau diweddar ar gyfer maint datblygiadau o dan Bolisi TAI 16, mae'r polisi yn datgan dylai'r bwriad fod ar raddfa fach sydd gymesur â maint yr anheddle. Y cwestiwn yw os dylid diffinio yn gliriach beth yw raddfa fach ar gyfer y math yma o ddatblygiad a bydd paratoi tystiolaeth ar gyfer Cynllun diwygiedig yn gyfle i edrych ar y mater yma.
- 3.101 Mae Dogfen ymgynghorol 'Strategaeth Dai Ynys Môn 2022-27' yn datgan yn y 3 mlynedd nesaf bydd cynnydd yn stoc y Cyngor o oddeutu 175 o unedau a chartrefi Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) o oddeutu 150 uned. Mae 'Cynllun Gweithredu Tai' Cyngor Gwynedd yn datgan bydd 100 o dai Cyngor yn cael ei adeiladu yn y cyfnod 2020 i 2027 ac oddeutu 265 o gartrefi LCC yn y ddwy flynedd nesaf. Bydd trafodaethau efo Gwasanaethau Tai'r ddau Gyngor ynghyd a LCC yn rhoi ystyriaeth i adnabod cyfleoedd ar gyfer adnabod safleoedd tai a arweinir gan dai fforddiadwy.

Llety ar gyfer sipsiwn a theithwyr

- 3.102 Mae TAI 17 (Gwarchod Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr Presennol) yn bolisi sydd yn gwarchod safle Sipsiwn yn Llandygai ac unrhyw safle newydd fydd wedi cael caniatâd a'i weithredu; TAI 18 (Dynodiadau Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr) polisi sydd yn adnabod cynnydd yn nifer o leiniau ar safle Llandygai a datblygu safle newydd yn Penhesgyn ar gyfer cyfarch yr angen o'r Aseiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2016; TAI 19 (Safleoedd ar gyfer Lleiniau Parhaol

neu Deithiol neu Dros Dro i Sipsiwn a Theithwyr) polisi sydd yn gosod allan y meini prawf i'w bodloni ar gyfer darparu safleoedd ychwanegol parhaol, teithiol neu dros dro.

- 3.103 Mae PCC (2021) yn ategu'r angen i gynnal Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr gan neilltuo digon o safleoedd yn y Cynllun am unrhyw angen preswyl a/neu tramwy sydd heb gael ei ddiwallwyd yn bresennol. Yn Cymru'r Dyfodol mae polisi 19 'Polisiâu Strategol ar gyfer Cynllunio Rhanbarthol' yn rhestru beth y dylai Cynlluniau Datblygu Strategol ei gynnwys a mae'r rhestr yn cynnwys anghenion sipsiwn a theithwyr.
- 3.104 Mae Dangosyddion D56 i D59 yn monitro paratoi safle parhaol yn Penhesgyn (D56), estyniad i Llandygai (D57), safleoedd dros dro (D58) a gwersylloedd diawdurdodedig (D59). Nodi'r bod oedi yn datblygu safle Penhesgyn oherwydd newid mewn amgylchiadau ar y safle a oddefir ar Lôn Pentraeth tra bod estyniad o 5 a gwelliant i'r lleiniau presennol wedi cymryd lle ar safle Llandygai. Mae caniatâd wedi ei roi ar gyfer datblygu safle Dros Dro yng nghanol Ynys Môn fodd bynnag oherwydd cynnydd mewn costau mae oedi yn amserlen datblygu'r safle. Mae angen gwaith pellach ar adnabod safle dros dro yn ardal Caergybi tra bod Cyngor Gwynedd yn defnyddio rhan o faes parcio yng Nghaernarfon pan fydd angen safle dros dro yno. Nid yw monitro safleoedd diawdurdodedig wedi amlygu problem sylweddol o fewn unrhyw ran o ardal y Cynllun.
- 3.105 Mae'r ddau Gyngor wedi ymrwymo i gynnal asesiad o anghenion Sipsiwn a Theithwyr yn ystod 2021 efo adroddiad terfynol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn 2022.
- 3.106 Bydd y Cynllun Diwygiedig yn cymryd i ystyriaeth canfyddiadau'r asesiad yma, fodd bynnag yng ngoleuni'r arweiniad yn Cymru'r Dyfodol dylid ystyried pa fanylder y disgwyliar ei gynnwys mewn Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer materion Sipsiwn a Theithwyr o ystyried polisi 19 yn Cymru'r Dyfodol.

Adran 6.5 - Rheoli Tŵf a Datblygu – Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig

Gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol

- 3.107 Roedd y polisiâu a gynhwysir yn adran 'Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol' o'r Cynllun yn ymdrin â chadwraeth natur a thirwedd ac yn cydnabod rôl allweddol y system gynllunio wrth amddiffyn a gwella'r amgylchedd naturiol. Mae'r polisiâu hyn yn cydnabod yr amddiffyniad statudol a roddir i dirweddau dynodedig rhyngwladol a chenedlaethol, safleoedd / cynefinoedd a rhywogaethau bioamrywiaeth.
- 3.108 O ran polisiâu tirwedd dim ond datblygiad mawr o fewn AHNE sydd wedi cael ei fonitro o fewn yr AMB a daethpwyd i'r casgliad bod Polisi PS 19 a Pholisi AMG 1 yn cael eu gweithredu'n effeithiol.
- 3.109 Daeth y dangosydd perfformiad perthnasol a gafodd ei fonitro gan yr AMB i'r casgliad nad oedd unrhyw ganiatâd cynllunio a roddwyd yn tarfu ar werth bioamrywiaeth neu

geoamrywiaeth rhyngwladol / cenedlaethol y dynodiadau hyn. O ganlyniad, ystyrir bod pob caniatâd yn cydymffurfio â pholisi PS 19, a bod y polisi'n parhau i gael ei weithredu'n effeithiol. Roedd hyn hefyd yn wir am y dangosydd perfformiad sy'n ymwneud a gwerth bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth sy'n bwysig yn lleol.

- 3.110 Mae'r sylfaen dystiolaeth sy'n llywio datblygiad y polisiau sy'n seiliedig ar dirwedd yn cynnwys cronfa ddata LANDMAP, Astudiaeth Asesiad o Gymeriad Morlun Eryri a Môn, Adroddiad LUC 'Adolygiad o Ardaloedd Tirwedd Arbennig yng Ngwynedd a Môn a'r Astudiaeth Sensitifurwydd a Capasiti y Dirwedd (2014). Mae'n annhebygol bod y dystiolaeth hon wedi newid yn sylweddol ers iddynt gael eu paratoi/diweddaru.
- 3.111 Yn ogystal â chyfrifoldebau statudol, tywyswyd y polisiau bioamrywiaeth gan Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Leol a safleoedd dynodedig presennol o arwyddocâd rhanbarthol neu leol. Er ei bod yn annhebygol y bydd materion geoamrywiaeth wedi newid yn sylweddol, bydd angen diweddarau'r wybodaeth mewn perthynas â bioamrywiaeth yr ardal. Mae polisi Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth o fewn Cymru'r Dyfodol a PCC yn ymgorffori cryfhau rôl a phwysigrwydd ystyriaethau bioamrywiaeth yn y system gynllunio, yn dilyn ymlaen o Ddeddf yr Amgylchedd

Diogelu a gwella asedau treftadaeth

- 3.112 Mae polisiau Asedau Treftadaeth wedi eu hanelu at ddiogelu'r amgylchedd hanesyddol gan sicrhau hefyd ei fod yn addasu ac yn parhau i ymateb i anghenion y byd presennol. Paratowyd y polisiau yma yng nghyd-destun Deddfwriaeth, Cylchlythyrau, Rheoliadau a Chyfarwyddiadau perthnasol a pholisiau rheolaeth datblygu a oedd yn bodoli ar y pryd.
- 3.113 Roedd y dangosydd perfformiad Asedau Treftadaeth yn monitro effeithiolrwydd polisiau PS20 ac AT1, a chyhoeddi CCA ar Asedau Treftadaeth. Mae'r AMBau sydd wedi eu cyhoeddi hyd hyn yn dangos na chaniatawyd ceisiadau nad oedd yn cydymffurfio gyda PS20 a AT1, felly ystyrir fod y polisiau yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Yn ogystal, yn sgil cyhoeddi NCT 24 ynghyd a nifer o gyhoeddiadau CADW, ni ystyriwyd bod angen bellach am CCA penodol ar y mater.
- 3.114 Yn gyffredinol, ystyrir bod y polisiau yn gweithredu'n effeithiol. Serch hynny, fel rhan o'r broses o baratoi Cynllun Diwygiedig, bydd angen adolygu'r polisiau er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu unrhyw newidiadau deddfwriaethol (e.e. Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru (2016)), polisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol (e.e. PCC. NCT 24 (Yr Amgylchedd Hanesyddol)) a newidiadau cyd-destunol er enghraifft arysgrifiad Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru yn Safle Treftadaeth y Byd UNESCO.

Rheoli Gwastraff

- 3.115 Paratowyd polisiau Gwastraff y CDLI ar y Cyd yn seiliedig ar yr arweiniad polisi cynllunio cenedlaethol a rhanbarthol, gyda sylw penodol yn cael ei roddi i'r Strategaeth Wastraff Cenedlaethol Tuag at Ddyfodol Diwastraff - Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned a oedd yn

darparu'r fframwaith cyffredinol ar gyfer rheoli pob math o wastraff. Cefnogir y ddogfen hon gan Gynllun Sector Casgliadau, Isadeiledd a Marchnadoedd (y CIMSP). Yn unol â'r Cynllun hynny mae'n ofynnol fod Cynlluniau Datblygu yn adnabod y mathau o leoliadau lle byddai defnyddiau a rheoli gwastraff yn debygol o fod yn dderbyniol.

- 3.116 Er bod y dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr AMBau hyd yma yn dangos bod y polisiau gwastraff yn gyffredinol yn cael eu hystyried yn gadarn ac yn addas ei bwrpas, bydd angen ystyried yr angen am ymateb i amgylchiadau newidiol ar hyd y broses o greu Cynllun Diwygiedig. Bydd yr wybodaeth a'r dadansoddiad a gyflwynwyd yng Nghynllun Gwastraff Rhanbarthol yn llywio'r broses hon ac yn darparu sylfaen ar gyfer gweithredu ar y deilliannau gwastraff ym mhob ardal awdurdod lleol, a'r rhanbarth yn gyfan.

Mwynau

- 3.117 Fel rhan o'r broses o gynllunio ar gyfer Mwynau o fewn y CDLI ar y Cyd, y prif amcan yw sicrhau bod y cyflenwad yn cael ei reoli mewn modd cynaliadwy a sicrhau'r cydbwysedd gorau rhwng yr ystyriaethau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol. Lluniwyd y polisiau Mwynau yn seiliedig ar y Datganiad Technegol Rhanbarthol (DTRh) (Adolygiad 1af, Awst 2014). Roedd y Datganiad Technegol Rhanbarthol yn amlinellu sut caiff y galw am agregau dros gyfnod o 25 mlynedd tan 2036 ei ddiwallu ac mae'n darparu sail strategol i gynlluniau datblygu lleol. Bellach mae'r Ail Adolygiad o'r DTRh yn y broses o gael ei fabwysiadu gan y Cynghorau.
- 3.118 Mae'r Ail Adolygiad o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol (DTRh2) yn datgan, lle nad yw awdurdodau lleol yn gallu bodloni eu cyfran ddangosol unigol i ddarparu agregau mwynau, fod angen i'r holl awdurdodau lleol o fewn yr isranbarth hwnnw (Conwy, Parc Cenedlaethol Eryri, Ynys Môn a Wynedd) gydweithio a chydweithredu er mwyn sicrhau bod cyfran gyffredinol yr isranbarth yn parhau i gael ei bodloni, i ddarparu cyflenwad cyson o fwynau agregau ar draws yr isranbarth.
- 3.119 Mae'r gwaith o fonitro'r polisiau Mwynau a nodir yn y tri AMB yn dangos bod y polisiau'n gweithio'n effeithiol. Fodd bynnag, bydd angen i'r Cynllun Diwygiedig ystyried goblygiadau'r argymhellion yn yr Ail Adolygiad o'r CDRh ar gyfer y strategaeth mwynau a nodir yn y CDLI ynghyd ag unrhyw newidiadau yng nghanllawiau presennol y llywodraeth.

Mapiau Cynigion, Mapiau Mewnosod a'r Mapiau Cyfyngiadau

- 3.120 Er mwyn adlewyrchu'r newidiadau a fydd yn cael ei wneud i'r Cynllun fe fydd angen diwygio'r mapiau cynigion/mewnosod yn unol â'r diwygiadau hynny.
- 3.121 Er bod y Map Cyfyngiadau ddim yn rhan ffurfiol o CDLI ar y Cyd, ystyrir yn afr ddefnyddiol er mwyn nodi'r ardaloedd gofodol hynny a bennir gan gyrff/prosesau eraill e.e. dynodiadau tirwedd statudol. Mae'r Map Cyfyngiadau printiedig ar gyfer y CDLI yn cynrychioli pwynt mewn amser ac mae'n cynnwys nifer o ddynodiadau sydd wedi'u diweddarau ers mabwysiadu'r CDLI ar y Cyd ac felly mae wedi dyddio. Wrth symud ymlaen gobeithir y bydd y Map Cyfyngiadau

yn cael ei gynhyrchu ar ffurf electronig gyda mynediad cyhoeddus a fydd yn caniatáu iddo gael ei ddiweddarau yn ôl yr angen.

Canllawiau Cynllunio Atodol

3.122 Mae'r polisïau a gynhwysir yn y CDLI ar y Cyd wedi ei cefnogi gan ystod o Ganllawiau Cynllunio Atodol. Diben CCA yw:

- cynorthwyo'r ymgeiswyr a'u hasiantau i baratoi ceisiadau cynllunio a'u harwain mewn trafodaethau â swyddogion ynghylch sut i ddefnyddio polisïau perthnasol yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio,
- cynorthwyo swyddogion i asesu ceisiadau cynllunio, a swyddogion a chynghorwyr i wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio, a
- chynorthwyo Arolygwyr Cynllunio i wneud penderfyniadau ar apelïadau.

3.123 Er bod y Cynllun yn cynnwys polisïau sy'n galluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol i wneud penderfyniadau cyson a thryloyw ar geisiadau datblygu, ni all rhoi'r holl gyngor manwl sydd ei angen ar swyddogion a darpar ymgeiswyr i lywio cynigion yn lleol. Er mwyn darparu'r cyngor manwl hwn, mae'r Cynghorau'n paratoi cyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol i gefnogi'r Cynllun gyda chanllawiau mwy manwl ar amrediad o bynciau a materion i gynorthwyo i ddadansoddi neu weithredu polisïau a chynigion y Cynllun.

3.124 Mae Atodiad 9 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn cynnwys tabl o'r Canllawiau Cynllunio Atodol sydd wedi/neu a fydd yn cael eu paratoi ynghyd a'r amserlen a ragwelwyd ar gyfer y gwaith o'i baratoi. Mae'r rhai a fabwysiadwy bellach yn cael eu defnyddio fel ystyriaeth gynllunio faterol wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio:-

Canllaw Cynllunio Atodol	Dyddiad mabwysiadu
Cymysgedd Tai	Hydref 2018
Llecynnau Agored mewn Datblygiadau Tai Newydd	Mawrth 2019
Tai Marchnad Leol	Mawrth 2019
Tai Fforddiadwy	Ebrill 2019
Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy	Gorffennaf 2019
Ymrwymïadau Cynllunio	Medi 2019
Ail-adeiladu tai a throsi yng nghefn gwlad	Medi 2019
Newid defnydd cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, safleoedd cyflogaeth, ac unedau manwerthu	Ionawr 2021
Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid	Mawrth 2021

3.125 Bydd adolygiad o'r CCA presennol gan gynnwys rhai a ddiwygiwyd ac a fabwysiadwyd yn ddiweddar yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses o ddiwygio'r Cynllun. Ymhellach, efallai y bydd y broses adolygu'r Cynllun yn adnabod yr angen i baratoi CCA newydd.

4.0 Gofynion adolygu'r sail dystiolaeth

Casglu tystiolaeth

- 4.1 Er mwyn llywio'r Cynllun Diwygiedig bydd angen diweddarau rhai agweddau o'r sail dystiolaeth a baratowyd i gefnogi'r CDLI presennol. Yn anochel fe fydd rhai agweddau o'r sail dystiolaeth hynny wedi dyddio gyda'r angen i'w ddiweddarau/disodli er mwyn adlewyrchu'r amgylchiadau /fframwaith polisi cyfredol yn hanfodol. Mae'r tabl isod yn darparu rhestr o astudiaethau/sail tystiolaeth a ragwelir y bydd angen ei baratoi o'r newydd neu ei adolygu fel rhan o'r broses o gynnal Cynllun Diwygiedig (nodir nad yw'r tabl isod yn rhestr gynhwysfawr).
- 4.2 Ystyrir y bydd diwygio neu ddisodli'r sail dystiolaeth yn rhoi cyfle i gael gwell dealltwriaeth o'r gofynion defnydd tir y ddwy sir yn ystod oes y Cynllun Diwygiedig yn ogystal ag ystyried oblygiadau'r pandemig Covid ac unrhyw newidiadau cyd-destunol neu bolisi sydd wedi digwydd ers mabwysiadu'r cynllun presennol.
- 4.3 Rhestr o enghreifftiau o'r sail dystiolaeth angenrheidiol er mwyn paratoi Cynllun Diwygiedig:-

Testun	Eglurhad
Asesiad Safleoedd Posib	Sicrhau fod yna asesiad cyflawn a chynhwysfawr yn cael ei gynnal o'r safleoedd posib (dynodiadau) o fewn y CDLI ar y Cyd, gan sicrhau nad oes yna gyfyngiadau a fyddai'r rhwystro eu datblygiad yn ystod oes y Cynllun Diwygiedig.
Strategaethau a Chynlluniau Perthnasol	Sicrhau fod yr adolygiad o'r strategaethau perthnasol yn adlewyrchu'r arweiniad cyfredol.
Poblogaeth a Thai	Ystyried y math o ddeiliadaeth a'r galw am dai er mwyn cyfarch anghenion yr aelwydydd ar gyfer y dyfodol.
Disgrifio'r Twf Tai a Gofodol	Diwygio yn unol â'r wybodaeth ddiweddaraf er mwyn adnabod anghenion poblogaeth ac aelwydydd yn ystod oes y Cynllun Diwygiedig.
Datblygu'r strategaeth aneddeleodd	Sicrhau fod y Strategaeth yn parhau i adlewyrchu'r sefyllfa gyfredol a rôl yr aneddeleodd hynny yn y cyd-destun daearyddol ehangach.

Testun	Eglurhad
Astudiaeth Capasiti Trefol	Cynnal asesiad o faint o dir llwyd a allai gyfrannu at yr angen am dai yn ardal y Cynllun.
Manwerthu	Cynnal Arolwg manwerthu er mwyn adnabod rôl y canolfannau manwerthu yn ystod oes y Cynllun.
Twristiaeth	Paratoi papur sydd yn adnabod yr heriau yn gysylltiedig â'r cynnydd yn y galw ar gyfer llety twristiaeth a'r ymateb polisi lleol posib i hynny.
Iaith Gymraeg a Diwylliant	Diweddarau'r sail dystiolaeth bresennol.
Tai Marchnad Lleol	Cynnal adolygiad o'r Polisi presennol ac adnabod unrhyw ddiwygiadau posib er mwyn ehangu'r Polisi yn ehangach.
Adnabod Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr	Ceisio adnabod yr angen am leiniau parhaol a theithiol yn ystod oes y Cynllun.
Astudiaeth Hyfywdra Tai Fforddiadwy	Rhoi cyngor ar dargedau a throthwyon cyraeddadwy a hyfyw ar gyfer tai fforddiadwy.
Astudiaeth Tir Cyflogaeth	Asesu'r angen am dir cyflogaeth sy'n addas ar gyfer pob sector cyflogaeth a dyheadau cyflogaeth ranbarthol yn y dyfodol.
Astudiaeth Cyfleoedd Ynni Adnewyddol	Er mwyn ystyried yr adnodd ynni adnewyddadwy sydd ar gael o fewn ardal y Cynllun i helpu i lunio targed ynni adnewyddadwy.

- 4.4 Pwysleisir nad yw'r rhestr uchod yn un diffiniol ac fe allai'r angen/galw i ddiwygio'r sail dystiolaeth gan gynnwys sail tystiolaeth o'r newydd pan yn briodol ddod i'r amlwg wrth i'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fynd rhagddo **e.e. casglu gwybodaeth bellach ynglŷn â hygyrchedd a chynaliadwyedd aneddeledd a chael gwell dealltwriaeth o gysylltiadau'r**

aneddleoedd gyda'i gilydd.. Bydd deialog barhaus ag Awdurdodau Lleol eraill yn helpu i sicrhau'r arbedion effeithlonrwydd a'r cysondeb mwyaf posibl o ran casglu/rhannu tystiolaeth a chytuno ar fethodoleg lle y bo'n bosibl.

Asesiadau Effaith

- 4.5 Fel rhan o'r broses ddiwygio'r Cynllun fe fydd yn ofynnol cydymffurfio a'r gofynion Arfarniad Cynaliadwyedd. Golygai hynny y bydd angen ail-ymweld â'r fframwaith Arfarniad Cynaliadwyedd ynghyd a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol sydd wedi ei gynnwys yn y Cynllun mabwysiedig a'i ddiwygio yn ôl yr angen. Oherwydd pwysigrwydd yr iaith Gymraeg fel rhan o wead cymdeithasol a diwylliannol holl ardal y Cynllun mae'n fwriad cynnal Asesiad Effaith ar yr iaith Gymraeg yn ystod y broses o baratoi Cynllun Diwygiedig. Bydd hyn yn hysbysu'r Arfarniad Cynaliadwyedd. Mae proses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/AAS yn rhan annatod o ddatblygiad y CDLI ac yn fodd o sicrhau bod y polisiau yn y CDLI yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy drwy integreiddio'r amcanion economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol allweddol wrth ddatblygu polisiau a chynigion y CDLI ar y Cyd ac ystyried unrhyw effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd.
- 4.6 Bydd rhaid ymgymryd ag Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o'r CDLI ar y Cyd er mwyn pennu os yw'r polisiau a'r dynodiadau a gynhwysir yn y Cynllun yn debygol o effeithio ar safleoedd dynodedig Ewropeaidd.
- 4.7 Yn ogystal â gofynion yr Arfarniad Cynaliadwyedd/AAS, bydd yn ofynnol dangos sut mae'r CDLI ar y Cyd yn cyfrannu tuag at amcanion y Ddeddf Llesiant a'r 5 ffordd o weithio sydd wedi cael eu hadnabod yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn nodi fod gofynion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhan hanfodol o ddatblygiad/adolygiad y fframwaith Arfarniad Cynaliadwyedd.
- 4.8 Daeth Gorchymyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i rym ar 1 Ebrill 2016. Gan fod y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd wedi ei chyflwyno i'r Llywodraeth i'w archwilio cyn y dyddiad yma nid oedd yn ofynnol i'r Cynllun gwrdd â'r amcanion llesiant fel y nodwyd o fewn y ddeddf. Serch hynny, ystyriwyd fod y CDLI ar y Cyd yn gydnaws a'r amcanion llesiant.

5.0 Cyd-weithio a pharatoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

- 5.1 Yn unol ag Adran 72 o'r Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004) a Rheoliad CDLI 36 fe all Awdurdodau Cynllun Lleol benderfynu ymgymryd â'r gwaith o baratoi a mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Ystyrir y Llywodraeth fod yna amgylchiadau ble fo gweithio a chynllunio cynllun ar y cyd yn cynnig manteision sylweddol o ran ansawdd y cynlluniau, a mynd i'r afael â materion trawsffiniol. Pwysleisir y gallai paratoi dull polisi mwy cyfannol a chyson, yn dilyn un broses weinyddol, wneud defnydd mwy effeithiol ac effeithlon o adnoddau a darparu gwell canlyniadau cynllunio ar draws yr ardal ehangach. Amlygir y gallai CDLI ar y Cyd gynnwys dau neu fwy o Awdurdodau Cynllunio Lleol.
- 5.2 Yn 2010, cytunodd Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn i sefydlu trefniadau cyd-weithio ar gyfer darparu swyddogaeth polisi cynllunio. Arweiniodd y cytundeb cyd-weithio at sefydlu'r canlynol:-
- Creu Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (bellach yn Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd) i gyflawni'r swyddogaethau polisi cynllunio ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd ac Ynys Môn.
 - Paratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar gyfer Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol y ddau awdurdod.
 - Sefydlu Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (PPCC) fel corff gwneud penderfyniadau trawsffiniol
- 5.3 Yn dilyn cynnal adolygiad o'r trefniadau cyd-weithio yn 2017 mae'r trefniadau cyd-weithio yn parhau mewn grym. Bwriedir cynnal adolygiad arall o'r trefniadau cyd-weithio yn fuan (diwedd 2021/cychwyn 2022) er mwyn sicrhau fod yna cytundeb cydweithio yn bodoli yn ystod y broses o baratoi Cynllun Diwygiedig a thu hwnt.
- 5.4 CDLI ar y Cyd Gwynedd a Môn yw'r unig gynllun datblygu ar y cyd sydd wedi cael ei baratoi yng Nghymru. Roedd y broses o baratoi'r Cynllun gwreiddiol gan hynny'n torri tir newydd o ran yr egwyddor o gyd-weithio yn ogystal â'r swyddogaeth ddemocrataidd o baratoi a chymeradwyo'r Cynllun. Ystyrir fod y broses o baratoi'r Cynllun wedi bod yn un llwyddiannus a bod achos busnes i barhau gyda'r un trefniadau ar gyfer y dyfodol.
- 5.5 Nodir fod yna fwrriad i gyd-weithio hefo Awdurdodau Cynllunio Lleol cyfagos eraill (e.e. Parc Cenedlaethol Eryri, Cyngor Bwrdeistrefol Sir Conwy, Cyngor Sir Powys) wrth baratoi'r Cynllun Diwygiedig, gan dderbyn eu mewnbyn hwy mewn perthynas â datblygiad y Cynllun a sicrhau fod y Cynllun yn gydnaws a Chynlluniau'r awdurdodau hynny. Ymhellach, fel yn briodol, fe all fod yna cyfleoedd i gynnal astudiaethau/datblygu sail tystiolaeth ar y cyd.
- 5.6 Cyhoeddwyd Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) (Rheoliadau 2021) ar 18 Mawrth 2021 a byddem yn dod i rym ar 28 Chwefror 2022. Mae'r Rheoliadau yn nodi'r weithdrefn ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol (CDS). Yn unol â'r Rheoliadau hynny fe fydd yna ddyletswydd i baratoi Cynllun Datblygu Rhanbarthol dan oruchwyliaeth y Cydbwyllgor Corfforaethol.

- 5.7 Gan hynny, yn anorfod, fe fydd cyd-weithio rhanbarthol yn mynd rhagddi ar y cyd a'r gwaith o ddiwygio'r Cynllun. Gobeithir y bydd y broses o baratoi CDS yn sicrhau fod yna cydlyniad rhwng y Cynllun Datblygu Lleol a'r Cynllun Datblygu Strategol o ran strategaeth a gweledigaeth ar gyfer yr ardal leol ac yn rhanbarthol.

6.0 Casgliadau a chamau nesaf

- 6.1 Yn unol â chasgliadau'r Adroddiadau Monitro Blynyddol sydd wedi ei gynnal nodir fod y Cynllun ar y cyfan yn cael ei weithredu'n effeithiol a bod y polisiau a'r targedau a osodwyd ar eu cyfer yn cael ei gyflawni. Serch y ffaith fod yna ddim materion o sylwedd yn cael ei amlygu yn yr Adroddiadau Monitro Blynyddol, oherwydd newidiadau cyd-destunol ynghyd a materion sydd tu hwnt i reolaeth y CDLI ar y Cyd, megis, goblygiadau pandemig Covid, Brexit, rhagolygon poblogaeth ac aelwydydd ac yr ansicrwydd yn gysylltiedig â Wylfa Newydd ystyrir yn briodol fod yna **Adolygiad Llawn o'r Cynllun yn cael ei gynnal.**
- 6.2 Ar draul y materion cyd-destunol sydd yn cael effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol ar strategaeth y Cynllun mae'n anorfod fod y newidiadau a fydd angen eu gwneud i'r Cynllun yn mynd i fod yn rhai sylweddol.
- 6.3 Ymhellach, mae angen sicrhau fod y Cynllun yn seiliedig ar arweiniad polisi cynllunio cenedlaethol mwyaf diweddar, gan gynnwys y fframwaith cynllunio cenedlaethol, Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040.
- 6.4 Pwysleisir y bydd y gwaith o baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol (CDS) hefyd yn cael effaith ar ddatblygiad a chynnwys y Cynllun Diwygiedig. Rhagwelir bydd y cynlluniau yma yn cael ei baratoi'n gyfochrog a'i gilydd, ac y bydd gofyn i'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd rhoi mewnbwn i'r broses o lunio'r CDS.

Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn Anglesey and Gwynedd Joint Planning Policy Service



Swyddfeydd y Cyngor / Council Offices
Stryd y Jêl / Shirehall Street
Caernarfon
LL55 1SH

Gofynnwch am / Ask for: Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd/
Joint Planning Policy Service

☎ (01766) 771000

✉ polisicynllunio@gwynedd.llyw.cymru
planningpolicy@gwynedd.llyw.cymru

Ein Cyf / Our Ref: CDLID/1.1
Eich Cyf / Your Ref:

Dyddiad / Date: Tachwedd / November 2021

Annwyl Syr/ Fadam

Dear Sir/ Madam

Yng: Adroddiad Adolygu Drafft - Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn

Re: Anglesey and Gwynedd Joint Local Development Plan – Draft Review Report

Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (y Cynllun cyfredol) ar 31 Gorffennaf, 2017. Yn unol â'r canllawiau, gan fod pedair blynedd wedi mynd heibio ers i'r Cynllun gael ei fabwysiadu, mae bellach yn ofynnol bod y Cynghorau yn cychwyn ar y gwaith o adolygu'r Cynllun a pharatoi Cynllun Diwygiedig.

The Anglesey and Gwynedd Joint Local Development Plan (the current Plan) was adopted on 31 July, 2017. In accordance with the relevant guidance, as four years have passed since the Plan was adopted, the Councils are now required to commence work on reviewing the Plan and preparing a Replacement Plan.

Pwrpas yr Adroddiad Adolygu yw edrych ar yr holl dystiolaeth sydd yn berthnasol i'r CDLI ar y Cyd a dod i gasgliad ynglŷn â'r math o adolygiad bydd yn cael ei ddilyn.

The purpose of the Review Report is to look at all the evidence relevant to the Joint LDP and to draw a conclusion on the type of review that will be followed.

Pwysleisir nad diben yr Adroddiad Adolygu yw manylu ar unrhyw newidiadau y bydd yn cael eu gwneud i'r Cynllun. Dim ond wrth ddilyn y broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig a chasglu'r wybodaeth a thystiolaeth berthnasol y bydd posib adnabod manylion y newidiadau sydd angen eu gwneud i'r Cynllun.

It is emphasised that the purpose of the Review Report is not to detail any changes that will be made to the Plan. It will only be possible to identify the details of the changes that need to be made to the Plan during the preparation of the Replacement Plan and gathering the relevant information and evidence.

Mae'r Adroddiad Adolygu Drafft yn destun cyfnod ymgynghori cyhoeddus o **6 wythnos rhwng 5 Tachwedd hyd at 20 Rhagfyr 2021.**

The Draft Review Report is subject to a **6 week public consultation period from 5 November to 20 December 2021.**

Ardan Amgylchedd / Environmental Dept
Swyddfa Cyngor Gwynedd Council Office
Caernarfon
Gwynedd. LL55 1SH
(01766) 771000
www.gwynedd.llyw.cymru

Adran Rheoleiddio & Datblygu Economaidd / Regulatory & Economic Development Dept.
Swyddfa Cyngor Sir Ynys Môn / Isle of Anglesey County Council Offices
Llangefni
Ynys Môn. LL77 7TW
(01248) 750057
www.ynysmon.gov.uk
www.anglesey.gov.uk

Mae'r Adroddiad Adolygu Drafft ar gael i'w lawrlwytho gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol:-

www.gwynedd.llyw.cymru/cdlldiwygiedig
www.ynysmon.gov.uk/cdlldiwygiedig

Ymhellach mae posib archwilio copi caled o'r ddogfen yn:-

- Siop Gwynedd Caernarfon, Pwllheli a Dolgellau.
- Cyswllt Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni

Os ydych yn dymuno lleisio eich barn ar gynnwys yr Adroddiad Adolygu, mae posib gwneud hynny drwy un ai lenwi'r holiadur pwrpasol neu'r ffurflen sylwadau sydd ar y wefan neu drwy anfon e-bost i polisicynllunio@gwynedd.llyw.cymru

Os ydych yn dymuno cyflwyno sylw(adau) ysgrifenedig, dylid anfon eich sylw(adau) i'r cyfeiriad canlynol:-

Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd,
Swyddfeydd y Cyngor,
Stryd y Jêl,
Caernarfon,
LL55 1SH

Cadw mewn cysylltiad

Rydym yn awyddus i sicrhau ein bod yn lleihau'r defnydd o bapur. Os oes gennych gyfeiriad e-bost ar gyfer derbyn gohebiaeth, cysylltwch â ni hefo'r manylion.

The Draft Review Report is available to download using the following link:-

www.gwynedd.llyw.cymru/replacementldp
www.anglesey.gov.uk/replacementldp

It is also possible to view paper copies of the document at:-

- Siop Gwynedd Caernarfon, Pwllheli a Dolgellau.
- Contact Môn, Council Offices, Llangefni

If you wish to have your say on the content of the draft Review Report, it is possible to do so by either completing the dedicated questionnaire or comments form which is available on the website or by e-mailing planningpolicy@gwynedd.llyw.cymru.

If you wish to make a written representation(s), your comment(s) should be sent to the following address:-

Anglesey and Gwynedd Joint Planning Policy Service,
Council Offices.
Shirehall Street,
Caernarfon,
LL55 1SH

Keeping in touch

We are eager to ensure that we reduce the use of paper. If you have an email address which could be used to receive future correspondence, please contact us with the details.

Yn gywir / Yours sincerely

Rebeca Jones
Rheolwr Polisi Cynllunio/ Planning Policy Manager

Cwestiwn 1 – Mae Rhan 2 (tudalen 4 i 16) yn sôn am ddogfennau perthnasol (deddfwriaeth, polisiau, strategaethau) sydd wedi dod i rym ers mabwysiadu'r Cynllun presennol. A oes unrhyw ddogfen ychwanegol y dylid cyfeirio ato? Rhowch fanylion.

Enw a Sefydliad	Cyf. Person	Cyf. Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
Dafydd Griffiths	4	4/1a	Canllawiau Ddeddf Teithio Llesol Gorffennaf 2021.	<p>Derbyn y sylw</p> <p>Er bod teithio llesol yn cael ei gynnwys yn y fersiwn ddiweddaraf o Bolisi Cynllunio Cymru ym Mhennod 4 'Lleoedd Actif a Chymdeithasol', ystyrir ei bod yn berthnasol sôn hefyd am ddeddf Teithio Llesol a'r Canllawiau cysylltiedig a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2021. Rhoddir ystyriaeth i Bolisi Cynllunio Cymru a'r holl strategaethau, cynlluniau, polisiau a chanllawiau perthnasol eraill sy'n ymwneud â thrafnidiaeth a theithio llesol wrth baratoi'r CDLI ar y Cyd Diwygiedig.</p> <p>Argymhelliad Cynnwys y testun isod yn dilyn para 2.29</p> <p><u>Canllawiau Deddf Teithio Llesol 2021</u></p> <p><u>Mae'r canllawiau hyn yn rhoi gwybodaeth bwysig am sut y dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol ystyried Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol. Dylid defnyddio Mapiau Rhwydwaith teithio llesol a gynhyrchir gan Awdurdodau Lleol i lywio dyraniadau safleoedd er mwyn sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i safleoedd y gellir eu cysylltu â llwybrau teithio presennol ac yn y dyfodol.</u></p>
Dafydd Griffiths	4	4/1b	Nid oes cyfeiriad at y ddogfen anfonwyd at y Gweinidog Ynni a chyhoeddwyd gan PINS (Yr Arolygaeth Gynllunio) ar ddiwedd y broses GCD.	<p>Noder y sylw</p> <p>Mae rhan 2.63 i 2.67 yr Adroddiad Adolygu yn cyfeirio at y sefyllfa mewn perthynas â Wylfa Newydd. Mae hwn yn fater pwysig i'w ystyried wrth lunio'r Cynllun diwygiedig ac felly bydd yr holl wybodaeth gefndirol a'r dogfennau cysylltiol, gan gynnwys y ddogfen y cyfeirir ati, yn ystyriaethau</p>

Enw a Sefydliad	Cyf. Person	Cyf. Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
				perthnasol. Ni chredir fodd bynnag bod angen cyfeirio'n benodol at y ddogfen hon o fewn yr Adroddiad Adolygu. Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw hwn
Cynghorydd Robert Llewelyn	8	8/1	Rhaid i'r cynllun newydd ystyried yr holl wybodaeth newydd a roddwyd gan Lywodraeth Cymru ar yr angen i Gymru ddod yn WLAD GYFRIFOL FYD-EANG I DDIOGELU CENEDLAETHAU'R DYFODOL. MAE HYN YN GOLYGU AIL-YSGRIFENNU'R CYNLLUN YN LLWYR - NI FYDD AIL-LANSIO'R CYNLLUN SYDD WEDI DYDDIO YN CYFLAWNI'R DIBEN HWN.	Noder y sylw Nid diben yr Adroddiad Adolygu yw manylu ar unrhyw newidiadau penodol a wneir i'r Cynllun. Mae'r newid hinsawdd a datblygu cynaliadwy yn ganolog i'r broses adolygu. Rhoddir ystyriaeth i holl strategaethau, cynlluniau, polisiâu a chanllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd wrth baratoi'r Adolygiad i'r CDLI ar y Cyd. Nodir bod egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi'u nodi yn rhan 2.6 i 2.8 o'r Adroddiad Adolygu. Bydd egwyddorion y Ddeddf Llesiant yn sicr yn cael eu hystyried yn llawn wrth baratoi'r Cynllun Diwygiedig. Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw hwn
Cynghorydd Mike Stevens	12	12/1	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae CDLI 2010 a adolygwyd ond heb ei newid yn 2017 wedi dyddio'n llwyr. O ystyried y newidiadau mae'r Byd a Gwynedd wedi'u gweld ers mis Mawrth 2020 oherwydd pandemig Covid-19. Mae seilio dyfodol bywydau, gobeithion a dyheadau pobl a datblygiad Gwynedd ar gynllun sy'n 21 oed yn afresymol ac yn gwbl groes i Ddeddf Llesiant 2015.	Noder y sylw Bydd y Ddeddf Llesiant yn thema ganolog yn y broses adolygu. Mae'n ofynnol i Gynlluniau Datblygu Lleol roi sylw i'r Ddeddf yn y broses adolygu. Bydd yn ofynnol i'r CDLI ar y Cyd diwygiedig adlewyrchu dyheadau'r Ddeddf. Un agwedd allweddol o'r Ddeddf Llesiant yw iechyd y cyhoedd ac felly mae'r fersiwn ddiweddaraf o Bolisi Cynllunio Cymru yn cyfeirio at 'Adeiladu Lleoedd Gwell', sy'n nodi'r blaenoriaethau polisi a'r camau gweithredu mwyaf perthnasol o safbwynt cynorthwyo'r adferiad o bandemig Covid-19. Rhoddir sylw dyledus i gyhoeddiadau perthnasol Llywodraeth Cymru ar fynd i'r afael ag adferiad Covid-19 wrth adolygu'r Cynllun.

Enw a Sefydliad	Cyf. Person	Cyf. Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
				<p>Nodir bod egwyddorion y Ddeddf Llesiant wedi'u nodi yn rhan 2.6 i 2.8 o'r Adroddiad Adolygu. Bydd egwyddorion y Ddeddf Llesiant yn sicr yn cael eu hystyried yn llawn wrth baratoi'r Cynllun Diwygiedig.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw hwn</p>
Ifan Hughes, Cyngor Sir Ynys Môn	14	14/1a	Pwynt 2.15 o'r adroddiad – Angen newid y dyddiad TAN 15 yn dilyn y cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru.	<p>Derbyn y sylw</p> <p>Mae dyddiad mabwysiadu'r TAN 15 diwygiedig wedi'i ohirio tan ganol 2023. Bydd yr Adroddiad yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r sylw hwn.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Amnewid para 2.15 efo'r testun isod</p> <p><u>Roedd fersiwn newydd o NCT 15 i fod i ddod i rym ar 1 Rhagfyr 2021. Mae parthau llifogydd newydd yn cael ei amlinellu o fewn y ddogfen ag bydd parthau gwahanol ar gyfer risg llifogydd o afonydd, môr a dŵr wyneb. Mae'r NCT yn rhoi llawer mwy o bwyslais ar newid hinsawdd a sut i sicrhau fod y materion sydd yn gysylltiedig â hyn yn cael ei osgoi, cyfyngu neu liniaru. Mae'r ddogfen yn rhoi mwy o bwyslais ar y broses o baratoi Cynlluniau Datblygu a'r angen am asesiadau strategol o ganlyniadau llifogydd. Mi fydd mapiau cyngor datblygu yn cael ei disodli gyda map llifogydd Cymru newydd. Ym mis Tachwedd 2021 cyhoeddwyd gan Weinidog Cymru y byddai'r NCT15 newydd a Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn cael ei oedi tan 1 Mehefin 2023. Amlinellodd y Gweinidog hefyd y gofyniad i bob ACLI gwblhau gwaith i adolygu, o fewn y 12 mis nesaf, yr Asesiadau Canlyniadau Llifogydd Strategol (ACLIS) ar gyfer eu hardal, naill ai'n unigol neu'n rhanbarthol. Ar ôl cyhoeddi, bydd NCT 15 newydd a'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio bydd yn cael eu defnyddio i</u></p>

Enw a Sefydliad	Cyf. Person	Cyf. Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
				<u>Iywio'r Cynllun Diwygiedig a bydd yr ACLIS a adolygwyd yn llywio'r strategaeth, polisiau a chynigion y CDLI</u>
Ifan Hughes, Cyngor Sir Ynys Môn	14	14/1b	Pwynt 2.18 – Yn dilyn trafodaeth gydag Adran Gwastraff, pwysleisir yr angen i ddiweddarau TAN 21 yn gyson.	<p>Noder y sylw</p> <p>Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddiweddarau Nodiadau Cyngor Technegol, nid yr Awdurdod Lleol. Bydd y Cynllun Diwygiedig yn ystyried unrhyw ddiweddariadau i ganllawiau cenedlaethol.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw hwn</p>
Ifan Hughes, Cyngor Sir Ynys Môn	14	14/1c	Pwynt 2.26 – Rydym o'r farn bod angen i Gynghorau ddiweddarau eu Strategaethau Rheoli Risg Erydiad Llifogydd ac Arfordirol Lleol.	<p>Noder y sylw</p> <p>Mae diwygio'r Strategaeth Rheoli Risg Erydiad Llifogydd ac Arfordirol Lleol yn fater i'r Awdurdod Llifogydd Arweiniol (Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn). Pe byddai yno ddiweddariad yn cael ei gynnal fe fyddai'n sail tystiolaeth bwysig wrth baratoi'r Cynllun Diwygiedig.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw hwn</p>
Richard Evans-Snarr, Llywodraeth Cymru	15	15/1	A ddylai'r ddogfen adolygu Deddf Teithio Llesol Cymru a'r gwaith mapio cysylltiedig sy'n cael eu hadolygu'n ddiweddar fel rhan o'r Ddeddf.	<p>Derbyn y sylw</p> <p>Er bod teithio llesol yn cael ei gynnwys yn y fersiwn ddiweddaraf o Bolisi Cynllunio Cymru ym Mhennod 4 'Lleoedd Actif a Chymdeithasol', ystyrir ei bod yn berthnasol sôn hefyd am y Ddeddf Teithio Llesol a'r Canllawiau cysylltiedig a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2021. Rhoddir ystyriaeth i Bolisi Cynllunio Cymru a'r holl strategaethau, cynlluniau, polisiau a chanllawiau perthnasol eraill sy'n ymwneud â thrafnidiaeth a theithio llesol wrth baratoi'r CDLI ar y Cyd Diwygiedig.</p> <p>Argymhelliad Cynnwys y testun isod yn dilyn para 2.29</p>

Enw a Sefydliad	Cyf. Person	Cyf. Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
				<p><u>Canllawiau Deddf Teithio Llesol 2021</u></p> <p><u>Mae'r canllawiau hyn yn rhoi gwybodaeth bwysig am sut y dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol ystyried Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol. Dylid defnyddio Mapiau Rhwydwaith teithio llesol a gynhyrchir gan Awdurdodau Lleol i lywio dyraniadau safleoedd er mwyn sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i safleoedd y gellir eu cysylltu â llwybrau teithio presennol ac yn y dyfodol.</u></p>
Peter Nicholas Horsley, Mineral Product Association Cymru/Wales	18	18/1a	Er bod yr adran hon yn adlewyrchu newidiadau i Nodiadau Cyngor Technegol, mae'n bwysig cofio bod dogfennau fel MTAN1 hefyd yn berthnasol. Byddem hefyd yn argymhell bod yr adran hon yn cyfeirio at yr Ail Adolygiad o'r Datganiadau Technegol Rhanbarthol.	<p>Noder y sylw</p> <p>Yn sicr bydd MTAN 1 yn ddogfen bydd yn rhaid ei ystyried wrth baratoi'r Cynllun Diwygiedig. Nid yw'r ddogfen hon wedi ei ddiweddarau ers mabwysiadu'r CDLI ar y Cyd ac felly dyna'r rheswm pam nad oes cyfeiriad penodol ato yn yr Adroddiad Adolygu.</p> <p>Mae rhan 3.117 i 3.119 yn cyfeirio at Ail Adolygiad o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol a'r ffaith ei fod yn y broses o gael ei fabwysiadu gan y Cynghorau. Nodir ym mharagraff 3.119 y bydd angen i'r Cynllun Diwygiedig ystyried goblygiadau'r argymhellion yn yr Ail Adolygiad o'r CDRh ar gyfer y strategaeth mwynau a nodir yn y CDLI.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw hwn</p>
Peter Nicholas Horsley, Mineral Product Association Cymru/Wales	18	18/1b	Rydym yn nodi ac yn cefnogi'r cyfeiriadau at dynnu GCD Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd yn ôl. Fodd bynnag, byddem yn ychwanegu, fod Gogledd Cymru yn debygol o chwarae rhan bwysig yn y rôl o gyflwyno tanwyddau amgen fel hydrogen a'r cynigion ar gyfer CCUS (Rhwydwaith casglu, defnyddio a storio carbon).	<p>Noder y sylw</p> <p>Bydd yn rhaid rhoi ystyriaeth lawn i'r ddarpariaeth ynni o fewn ardal y Cynllun gan gofio hefyd gofynion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r asesiad o Adran 6.2 o'r Cynllun yn yr Adroddiad Adolygu yn cyfeirio at ynni adnewyddol a'r ffaith nad yw'r targed o 50%</p>

Enw a Sefydliad	Cyf. Person	Cyf. Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
				<p>o botensial ynni adnewyddadwy sy'n cael eu cyflawni erbyn 2021 wedi'u cyflawni (Dangosydd D21). Tra nodir bod angen ystyried agweddau megis yr hyn a nodir yn y sylw hwn wrth baratoi'r Cynllun diwygiedig, ni chredir bod angen cyfeirio'n benodol atynt yn yr Adroddiad Adolygu.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw hwn</p>
Peter Nicholas Horsley, Mineral Product Association Cymru/Wales	18	18/1c	Nodwn y cyfeirir at yr AMB. Nid yw'n ymddangos bod yr AMB yn adrodd ar nifer y ceisiadau cynllunio anghydnaws o fewn Ardaloedd Diogelu Mwynau POLISI MWYN 1, tra'i fod yn adrodd ar geisiadau a leolir o fewn y Parthau Rhagod (Polisi MWYN 5).	<p>Noder y sylw.</p> <p>Nid diben yr Adroddiad Adolygu yw manylu ar unrhyw newidiadau penodol a wneir i'r Cynllun. Gellir ail-edrych ar y dangosyddion monitro fel rhan o'r gwaith o baratoi'r Cynllun diwygiedig.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw hwn</p>
Mr & Mrs Lindsey Parry	20	20/1	Mae cydnabyddiaeth y Cyngor bod yn rhaid i'r Cynllun Diwygiedig ymateb i newidiadau deddfwriaethol, gan gynnwys mabwysiadu Polisi Cynllunio Cymru wedi'i ddiweddarau ym mis Chwefror 2021, yn cael ei gefnogi. Mae Rhan 2 o'r Adroddiad Adolygu yn nodi nifer fawr o ddogfennau Cynlluniau a Strategaeth a gyhoeddwyd ar ôl mabwysiadu'r Cynllun Datblygu ar y Cyd presennol yn 2017. Mae'r Adroddiad Adolygu yn darparu rhestr gynhwysfawr o'r dogfennau hynny y mae angen eu hystyried wrth baratoi'r Cynllun Diwygiedig, ac ni ystyrir bod unrhyw ddogfennau ychwanegol y mae angen cyfeirio atynt.	<p>Noder y sylw.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw hwn</p>
Gareth Thomas, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)	24	24/1a	Adran 2.23 - yn cyfeirio at gynhyrchu Datganiadau Ardal gan CNC. Fe nodir bod y rhain wedi eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2020. Mae Datganiad Ardal y Gogledd Orllewin a'r Datganiad Ardal Forol yn berthnasol i ardal y CDLI ar y Cyd.	<p>Derbyn y sylw</p> <p>Derbyn y sylw a'r angen i gyfeirio at y Datganiadau Ardal perthnasol ym mharagraff 2.23 o'r Adroddiad Adolygu. Noder fod rhan 2.39 i 2.41 o'r Adroddiad Adolygu yn cyfeirio at Ddatganiad Ardal y Gogledd Orllewin ond derbyn fod angen cyfeirio yn ogystal at y Datganiad Ardal Forol.</p>

Enw a Sefydliad	Cyf. Person	Cyf. Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
				<p>Argymhelliad Ychwanegu geiriad i baragraff 2.23 fel y dangosir isod:</p> <p>Bydd rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol ystyried y datganiad ardal berthnasol wrth baratoi CDLI. <u>Mae Datganiad Ardal y Gogledd Orllewin a'r Datganiad Ardal Forol yn berthnasol i ardal y CDLI ar y Cyd.</u> Bydd goblygiadau'r PAN a'r Datganiad Ardal berthnasol yn cael eu hystyried wrth baratoi'r Cynllun Diwygiedig.</p>
Gareth Thomas, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)	24	24/1b	Adran 2.25 - yn cyfeirio at Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru (CMCC). Rydym yn argymhell ei bod yn werth nodi yma fod ardal y CMCC ac ardal y CDLI ar y Cyd yn gorgyffwrdd, gyda'r CMCC yn cael dylanwad hyd at gymedr penllanw'r gorllanw.	<p>Derbyn y sylw</p> <p>Derbyn y sylw a'r angen i gyfeirio at hyn yn yr Adroddiad Adolygu.</p> <p>Argymhelliad Cynnwys newidiadau i baragraff 2.25 fel y dangosir isod:</p> <p>Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun morol cyntaf Cymru ym mis Tachwedd 2019. Mae'n nodi polisi cenedlaethol ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf ar gyfer defnyddio rhanbarthau cynllun morol Cymru a'r glannau a'r môr. Fe'i paratowyd a'i fabwysiadu o dan Ddeddf Mynediad Morol ac Arfordirol (MCAA) 2009. <u>Noder fod ardal Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (CMCC) ac ardal y CDLI ar y Cyd yn gorgyffwrdd, gyda'r CMCC yn cael dylanwad hyd at gymedr penllanw'r gorllanw.</u> Dylai ymgeiswyr ddefnyddio'r Cynllun <u>CMCC</u> a deunydd ategol i lunio cynigion a thrwyddedu ceisiadau, a gan awdurdodau cyhoeddus ac eraill i lywio'r broses o wneud penderfyniadau ac i ddeall polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu cynaliadwy yn ardal y Cynllun.</p>
Gareth Thomas, Cyfoeth	24	24/1c	Mae Adran 2.39 - 2.41 yn cyfeirio at Ddatganiad Ardal y Gogledd Orllewin,. Rydym yn argymhell ei fod yn cael ei	Derbyn y sylw

Enw a Sefydliad	Cyf. Person	Cyf. Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
Naturiol Cymru (CNC)			ehangu i gynnwys y Datganiad Ardal Forol sydd hefyd yn berthnasol.	<p>Derbyn y sylw a'r angen i gyfeirio at y Datganiad Ardal Forol yn ogystal yn yr Adroddiad Adolygu.</p> <p>Argymhelliad Cynnwys y newidiadau canlynol i baragraffau 2.39-2.41 fel y dangosir isod:</p> <p>2.39 Mae'r Datganiadau <u>hyn yn ddau un</u> o gyfres o saith Datganiad Ardal sydd wedi eu paratoi ar gyfer Cymru gyfan er cynorthwyo i ddatrys amrediad o heriau cymhleth mae'r gymdeithas, a'r amgylchedd naturiol, nawr yn eu hwynebu. <u>Dyma'r ddau Ddatganiad Ardal sydd yn berthnasol i ardal y CDLI ar y Cyd.</u></p> <p>2.40 Mae'r Datganiadau Ardal <u>hyn</u> yn amlinellu'r heriau allweddol sy'n wynebu'r ardal <u>a'r ardal forol o'i amgylch</u>, yr hyn y gellir ei wneud i wynebu'r heriau hynny a sut gellir rheoli ein hadnoddau naturiol yn well er lles cenedlaethau'r dyfodol. Bydd y Datganiadau Ardal yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd a'u gwella o un flwyddyn i'r llall wrth ymgysylltu â mwy o bobl, casglu tystiolaeth newydd, cyflwyno syniadau, a gweithio ar draws ffiniau i greu cyfleoedd.</p> <p>2.41 Mae'r Datganiadau Ardal <u>hyn</u>, ynghyd a'r <u>ehwe pum</u> datganiad arall yn ymateb cydweithredol i'r hyn a elwir yn Bolisi Adnoddau Naturiol, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2017, sy'n nodi'r prif heriau a chyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn modd cynaliadwy yn y dyfodol. Ystyrir fod cynnwys y Datganiadau Ardal yn ffynhonnell dystiolaeth bwysig wrth fynd ati i adolygu polisïau'r Cynllun.</p>
Jeremy Lambe,	25	25/1	Llywodraeth Cymru "Croeso i Gymru: Blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020-2025" a gyhoeddwyd yn 2020.	<p>Derbyn y sylw Nodi'r ddogfen yn yr Adroddiad Adolygu.</p>

Enw a Sefydliad	Cyf. Person	Cyf. Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
Lambe Planning and Design			<p>Mae'r ddogfen uchod yn gynllun pum mlynedd sydd â'r nod o helpu i dyfu'r sector, sicrhau twf economaidd a chanolbwyntio ar gryfderau Cymru - ei thirweddau, ei diwylliant a'i lleoedd.</p> <p>Mae'n bwysig cydnabod y farchnad dwristiaeth sy'n esblygu ac i allu addasu i newidiadau sydd wedi digwydd ers mabwysiadu'r CDLI ar y Cyd yn 2017</p>	<p>Argymhelliad Ychwanegu'r rhan ganlynol yn dilyn paragraff 2.33:</p> <p><u>Croeso i Gymru: Blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020-2025</u></p> <p><u>Mae'r cynllun hwn yn egluro'r blaenoriaethau ar gyfer Croeso Cymru, sef y tîm o fewn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu a hyrwyddo'r economi ymwelwyr yng Nghymru, ac yn amlinellu'r weledigaeth ar gyfer y dyfodol. Noder fod Croeso Cymru yn un o nifer o bartneriaid sydd â rhan i'w chwarae er mwyn cyflawni'r nodau hyn.</u></p> <p><u>Noder mai'r uchelgais yw i dyfu twristiaeth er budd Cymru gan olygu cyflawni twf economaidd sy'n sicrhau budd i bobl a lleoedd gan gynnwys cynaliadwyedd amgylcheddol, cyfoethogi cymdeithasol a diwylliannol a buddiannau iechyd. Prif nod y cynllun yw i ddefnyddio'r potensial ar gyfer twristiaeth i wella llesiant economaidd ehangach Cymru.</u></p>
Alwyn Gruffydd	26	26/1	<p>Mae'r Adolygiad Drafft yn gynhwysfawr o ran ei chyfeiriadaeth at newidiadau deddfwriaethol AYYB sydd wedi dod i rym ers mabwysiadu'r cynllun presennol bedair blynedd yn ôl. Ond fe ellid wedi rhoi mwy o sylw i egwyddorion y Ddeddf Llesiant a diffygion amlwg y TAN 20 a'r cynllun presennol i warchod y Gymraeg yn y cymunedau sy'n ei chynnal.</p>	<p>Noder y sylw Mae egwyddorion y Ddeddf Llesiant yn cael eu nodi yn rhan 2.6 i 2.8 yr Adroddiad Adolygu gyda chyfeiriadau at y Ddeddf hefyd yn cael ei wneud mewn rhannau megis y diweddariad i Bolisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11) a'r Cynlluniau Llesiant Lleol. Yn sicr bydd egwyddorion y Ddeddf Llesiant yn cael ei ystyried yn llawn wrth baratoi'r Cynllun diwygiedig.</p> <p>Mae cyfeiriad yn cael ei wneud yn rhan 2.16 i 2.17 o'r Adroddiad Adolygu i'r NCT 20 diwygiedig. Bydd y Cynllun diwygiedig yn ystyried ystod o wahanol ganllawiau a ffynonellau tystiolaeth mewn perthynas â'r iaith Gymraeg, gan gynnwys NCT 20.</p> <p>Argymhelliad</p>

Enw a Sefydliad	Cyf. Person	Cyf. Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
				Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw hwn
Dylan Clarke	29	29/1a	<p>Dylid cynnwys y dogfennau hyn.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Canllaw TCPA (Town and Country Planning Association) i Awdurdodau Lleol ar Gynllunio ar gyfer Newid yn yr Hinsawdd (Saesneg yn unig) - 'Build Upon Framework: an introduction for policy makers and local authorities' gan rwydwaith o Gyngorau Adeiladu Gwyrdd (Saesneg yn unig) - Taflen wybodaeth Datblygu Un Blaned ar gyfer cynllunwyr a llunwyr polisi gan y Cyngor Un Blaned (Saesneg yn unig) - 'Zero Carbon Britain: rising to the climate emergency' gan y Ganolfan Dechnoleg Amgen. (Saesneg yn unig) 	<p>Noder y sylw</p> <p>Derbyn pwysigrwydd ystyried pob math o ddogfennau a safbwyntiau o ran y materion perthnasol. Ni chredir fodd bynnag bod angen cyfeirio yn benodol at y dogfennau hyn yn yr Adroddiad Adolygu gan y credir fod Polisi Cynllunio Cymru a Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 yn darparu arweiniad o safbwynt yr agweddau dan sylw.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw hwn</p>
Dylan Clarke	29	29/1b	<p>Dylai'r polisi cynllunio gael ei lywio gan y wyddoniaeth hinsawdd ddiweddaraf felly dylech gynnwys adroddiad IPCC (Intergovernmental Panel on Climate Change) 'AR6 Climate Change 2021: The Physical Science Basis' (Saesneg yn unig)</p>	<p>Noder y sylw</p> <p>Derbyn pwysigrwydd ystyried pob math o ddogfennau a safbwyntiau o ran y materion perthnasol. Ni chredir fodd bynnag bod angen cyfeirio yn benodol at y dogfennau hyn yn yr Adroddiad Adolygu gan y credir fod Polisi Cynllunio Cymru a Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 yn darparu arweiniad o safbwynt yr agweddau dan sylw.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw hwn</p>
Dylan Clarke	29	29/1c	<p>Mae'r polisi cynllunio presennol yn canolbwyntio gormod ar dwf economaidd ar unrhyw gost felly dylid cynnwys papur trafod Kate Raworth ar "doughnut economics" (A Safe and Just Space for Humanity: Can we live within the doughnut?) (Saesneg yn unig).</p>	<p>Noder y sylw</p> <p>Derbyn bod angen i'r Cynllun diwygiedig roi ystyriaeth i ystod o wahanol ffactorau, gan gynnwys rhai economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Bydd y gwaith o baratoi'r Cynllun diwygiedig yn ceisio sicrhau balans effeithiol a fydd yn arwain at allbynnau positif ym mhob maes. Bydd y Cynllun wedi'i seilio ar egwyddorion datblygiad cynaliadwy, ni chredir fod angen cyfeirio yn benodol at y ddogfen hon yn yr Adroddiad Adolygu.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw hwn</p>

Enw a Sefydliad	Cyf. Person	Cyf. Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
Terry Williams	30	30/1	Rwyf yn ceisio deall pam mae'r ffin ddatblygu ar gyfer Cwm y Glo yn mynd o amgylch cae Bryn Cwm y Glo LL55 4DH ac yn dod yn ôl allan ar y ffordd sydd gyferbyn.	<p>Noder y sylw Bydd ffiniau datblygu yn rhywbeth fydd yn cael sylw yn ystod y broes o baratoi'r Cynllun Diwygiedig. Mae'n gynamserol ar hyn o bryd i roi ystyriaeth i'r union fanylion mewn perthynas â'r sylw hwn.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw hwn</p>
Shaun Denny	36	36/1	Er bod yr adran hon yn adlewyrchu newidiadau i Nodiadau Cyngor Technegol, mae dogfennau eraill fel MTAN1 hefyd yn berthnasol. Argymhellir hefyd y dylid cyfeirio at yr Ail Adolygiad o'r Datganiadau Technegol Rhanbarthol.	<p>Noder y sylw Yn sicr bydd MTAN 1 yn ddogfen bydd yn rhaid ei ystyried wrth baratoi'r Cynllun diwygiedig. Nid yw'r ddogfen hon wedi ei ddiweddarau ers mabwysiadu'r CDLI ar y Cyd ac felly dyna'r rheswm pam nad oes cyfeiriad penodol ato yn yr Adroddiad Adolygu.</p> <p>Mae rhan 3.117 i 3.119 yn cyfeirio at Ail Adolygiad o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol a'r ffaith ei fod yn y broses o gael ei fabwysiadu gan y Cynghorau. Nodir ym mharagraff 3.119 y bydd angen i'r Cynllun Diwygiedig ystyried goblygiadau'r argymhellion yn yr Ail Adolygiad o'r CDRh ar gyfer y strategaeth mwynau a nodir yn y CDLI.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw hwn</p>
D Parry	37	37/1	Mae 2.74 yn nodi "Er bod yr effeithiau tymor byr yn gysylltiedig â Brexit yn wybyddus, prin mewn gwirionedd yw'r wybodaeth/data gwaelodlin ynglŷn â'r effeithiau hirdymor". Hyn wedi ei ymchwilio yn wael. Does ond rhaid sefyll ym Mhwynt Lynas a chyfrif y llongau sydd yn osgoi Caergybi am Lerpwl. 43 o longau heno yn unig.	<p>Noder y sylw Mae effeithiau Brexit yn faterion y bydd angen eu hystyried wrth baratoi'r Cynllun diwygiedig. Bydd y dystiolaeth ddiweddaraf a chyfredol ynghylch effeithiau Brexit yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'r sail dystiolaeth ar gyfer y Cynllun diwygiedig.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw hwn</p>

Enw a Sefydliad	Cyf. Person	Cyf. Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
Rhys Tudur, Cyngor Tref Nefyn	39	39/1	Y polisi i gryfhau cymunedau lle mae 70% neu fwy o'r gymuned yn siaradwyr Cymraeg	<p>Noder y sylw</p> <p>Bydd angen rhoi ystyriaeth lawn i faterion ieithyddol yn ystod y broes o baratoi'r Cynllun Diwygiedig. Nid pwrpas yr Adroddiad Adolygu fodd bynnag yw nodi unrhyw newidiadau penodol fydd yn cael ei wneud i'r Cynllun.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw hwn</p>
Gruffydd Williams	40	40/1	Cynllun Rheoli'r AHNE	<p>Noder y sylw</p> <p>Nid oes adolygiadau pellach o Gynlluniau Rheoli AHNE Llŷn nag Ynys Môn wedi eu cyhoeddi ers mabwysiadu'r CDLI ar y Cyd. Bydd y GPCC yn rhoddi ystyriaeth i unrhyw ddiweddariad i'r Cynlluniau Rheoli a gaiff eu cyhoeddi yn ystod y broses o baratoi'r Cynllun diwygiedig.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw hwn</p>
Iwan Edgar	41	41/1	Dylid fod yn nodi fod disgwyl canlyniadau iaith cyfrifiad 2021 i'w gloriannu yma. Siawns y bydd y rhain ar gael yn fuan	<p>Noder y sylw</p> <p>Nid yw gwybodaeth mewn perthynas â Chyfrifiad 2021 wedi eu cyhoeddi hyd yn hyn. Rhagwelir rhyddhau'r ystadegau cyntaf o'r Cyfrifiad yn ystod Mai/Mehefin 2022. Yn sicr bydd gwybodaeth o'r Cyfrifiad yn greiddiol i'r gwaith o baratoi'r Cynllun diwygiedig.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw hwn</p>
Wendy Jakeman	44	44/1	Yr holl ddogfennau sydd yn berthnasol i geisiadau cynllunio diweddar sydd yn ymddangos i gael eu derbyn heb graffu cyhoeddus. Na i Niwclear Na i Danwydd Ffosiliau Mabwysiadu fforwm cyhoeddus fel bod y cyhoedd yn cael gwybod am yr holl geisiadau cynllunio yn y sectorau ynni,	<p>Noder y sylw</p> <p>Mae proses statudol mewn lle ar gyfer cynnal adolygiad o'r Cynllun. Bydd y GPCC yn dilyn y broses hon. Bydd cyfleoedd penodol i randdeiliaid a'r cyhoedd gyflwyno sylwadau ar gyfnodau penodol o'r broses o adolygu'r Cynllun a bydd y</p>

Enw a Sefydliad	Cyf. Person	Cyf. Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
			diwydiannol, corfforaethol neu drafnidiaeth. Mae canlyniadau yn perthyn i'r penderfyniadau hyn, yn enwedig i ardaloedd tlawd. Mwy o ymgynghori , llai o hierarchaeth, a mwy o ddemocratiaeth os gwelwch yn dda.	Cynghorau yn ystyried yr holl sylwadau hyn mewn modd tryloyw. Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw hwn
Ieuan Wyn, Cylch yr Iaith	46	46/1a	Dylid bod wedi gwneud ymchwil ar effaith codi tai newydd ar niferoedd a chanrannau siaradwyr Cymraeg yng nghymunedau'r sir rhwng Medi 2017 a Medi 2020 - ymchwil ar fodel Ymchwil Tai Newydd yng Ngwynedd (2012-2018) (Emyr Edwards, Rheolwr Ymchwil a Gwybodaeth Cyngor Gwynedd, 9 Rhagfyr 2021) - ond gan ychwanegu dadansoddiad o niferoedd a chanrannau siaradwyr Cymraeg yng nghyd-destun y cymunedau ble lleolir y tai newydd.	Noder y sylw Bydd y gwaith o adolygu'r CDLI ar y Cyd yn sicr yn ystyried unrhyw gysylltiad rhwng darpariaeth tai ac effaith ar yr Iaith Gymraeg. Wrth adolygu'r Cynllun byddwn yn ystyried perfformiad y polisiau a'r strategaeth dai presennol ers mabwysiadu'r Cynllun. Yn hyn o beth bydd yr adolygiad yn ystyried dogfennau sydd wedi eu paratoi a gwaith ymchwil perthnasol sydd wedi ei gynnal. Bydd ymgynghoriad llawn yn ogystal gydag adrannau eraill o Gynghorau Môn a Gwynedd, megis yr Uned Ymchwil, ynghyd â rhanddeiliaid allanol perthnasol. Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw hwn
Ieuan Wyn, Cylch yr Iaith	46	46/1b	Dylid bod wedi comisiynu asesiad iaith annibynnol o'r Cynllun gan arbenigwyr mewn Cynllunio Iaith/Cymdeithaseg Iaith.	Noder y sylw Mae dangosyddion mewn perthynas â'r iaith Gymraeg yn cael eu hadrodd a'u hasesu yn flynyddol o fewn yr Adroddiadau Monitro Blynyddol. Bydd ystyriaethau mewn perthynas ag effeithiau ieithyddol yn sicr yn ffurfio rhan o adolygiad y Cynllun. Gellir ystyried y mater a godir yn y sylw hwn o fewn y broses o baratoi'r Cynllun diwygiedig ond ni chredir y dylid cyfeirio'n benodol ato yn yr Adroddiad Adolygu. Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw hwn.

Cwestiwn 2 - Yn Rhan 2 (tudalen 16 i 24) fe gyfeirir at y materion sydd yn/neu gallai ddylanwadu ar y Cynllun. A oes yna unrhyw fater ychwanegol a ddylid ei gynnwys yn y rhan yma?

Enw Sefydliad ^a	Cyf Person	Cyf Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
Elen Wyn Parry	2	2/2	<p>Rwyf yn cefnogi bod angen ail edrych ar yr adroddiad ynghyd ar weithred o adolygu'r Cynllun Datblygu gan fod anghenion mewn pentrefi ynghyd ac economi wedi newid a bydd yn rhaid i'r cynllun newid gogyfer cyd fynd a dal fyny gyda'r newidiadau hyn.</p> <p>Dwi'n gryf fy marn bod angen cynnal adolygiad llawn mor fuan ag sy'n bosib o'r Cynllun gogyfer achub ein cymunedau cyn ei bod yn rhy hwyr.</p>	<p>Noder y sylw Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fe fydd angen ail-ymweld ac amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisïau'r Cynllun a bydd y materion a godwyd yn y sylw yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sail tystiolaeth.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma.</p>
Dafydd Griffiths	4	4/2	<p>Mae'r ceisiadau ar gyfer 'Annexes' wedi cynyddu. Nid oes polisi yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar hyn o bryd.</p>	<p>Noder y sylw Nid bwriad yr Adroddiad Adolygu yw manylu ar unrhyw newidiadau fydd yn cael eu gwneud i'r Cynllun. Bydd ystyriaeth yn cael ei roddi i'r mater a godwyd fel rhan o'r broses o baratoi'r CDLI ar y Cyd Diwygiedig.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma.</p>
Malcolm Brymer	6	6/2	<p>Ystyried mabwysiadu rhai neu'r cyfan o'r newidiadau a fabwysiadwyd yn system Gynllunio'r DU, ar "Newid Defnydd" a chyfyngu ar yr angen am Geisiadau Cynllunio - i gadw Gwynedd yn gystadleuol ac yn gyfredol</p>	<p>Nid yw'r sylw'n berthnasol Mae Cynllunio yn fater sydd wedi cael ei ddatganoli i Gymru a chan hynny mae'n ofynnol fod yr Awdurdod yn gweithredu yn unol â'r arweiniad cenedlaethol i Gymru.</p> <p>Argymhelliad Nid yw hwn yn fater ar gyfer Adroddiad Adolygu.</p>
Catrin Sion	7	7/2	<p>Mae pandemig Covid wedi cael effaith enfawr ar ardal Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Bydd yn rhaid i unrhyw adferiad gofio'r angen am ymagwedd brof weithredol tuag at ddatblygiadau cynllunio</p>	<p>Noder y sylw Mae effaith y pandemic yn cael ei gyfarch ym mharagraffau 2.70 i 2.73 o'r adroddiad. Fe fydd ystyriaeth bellach i'r materion hyn yn cael ei roddi wrth i'r broses o lunio'r Cynllun diwygiedig fynd rhagddi.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma.</p>

Enw a Sefydliad	Cyf Person	Cyf Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
Y Cynghorydd Robert Llywelyn Jones	8	8/2	Mae llawer o faterion megis ail gartrefi a datblygiadau enfawr fel Conygar a Land and Lakes ar Ynys Cybi a oedd ac sydd yn enghraifft o ddallineb economaidd i'r difrod sy'n cael ei gyfreithloni gan Uwch Swyddogion economaidd a Chynllunio. Cymeradwywyd y ddau pan wisgodd y Cyfarwyddwr Economaidd a Chynllunio y ddwy het a throi llygad yn ddall i'r alwad gan 5000 o drigolion lleol i achub Traeth Newry a'r ARDAL CADWRAETH rhag cael eu troi'n jyngl concriid ar gyfer fflatiau ail gartref. Sut y gallai swyddogion cynllunio roi fyny coetir cyhoeddus - Penrhos yng Nghaerdybi i fân ddatblygwr gan honni bod ganddynt y modd i greu dros 500 o swyddi - nid oedd byth yn redwr. Cannoedd o dai ar dir tir glas. DYLAI'R DDAU GYNLLUN GAEL EU GALW I MEWN A'U GWRTHOD ERBYN HYN. Bydd yn gwneud ein Cyngor yn destun siarad os caniateir i'r naill neu'r llall o'r datblygwyr hyn parhau â'u syniad doeth o wneud miliynau o bunnoedd mewn elw ar draul yr amgylchedd.	<p>Nid yw'r sylw'n berthnasol</p> <p>Nodir fod y ddau ddatblygiad a gyfeirir ato wedi derbyn caniatâd yn unol â'r fframwaith bolisi cynllunio lleol blaenorol, hynny yw nid y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd presennol.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Nid yw hwn yn fater ar gyfer Adroddiad Adolygu.</p>
Y Cynghorydd Mike Stevens	12	12/2	<ol style="list-style-type: none"> 1. Effaith pandemig Covid-19 ar weithio gartref. 2. Y newid enfawr y mae'r pandemig wedi'i gael ar werthiannau tai ar gyfer ail gartrefi. 3. Y newid enfawr y mae'r pandemig wedi'i gael ar werthiannau tai ar gyfer busnesau gosod gwyliau ac Airbnb. 	<p>Noder y sylw</p> <p>Mae'r materion a gyfeirir ato gan y sylwebydd wedi cael ei gyfarch mewn rhannau penodol o'r Adroddiad Adolygu.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Effaith y pandemig, para 2.70 - 2.73 - Effaith ail gartrefi a llety gwyliau, para 2.92 - 2.94 <p>Fe fydd ystyriaeth bellach i'r materion hyn yn cael ei roddi wrth i'r broses.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma.</p>
Ifan Hughes, Cyngor Sir Ynys Môn	14	14/2	Pwynt 2.74 – Sicrhau bod hyn ddim am effeithio ceisiadau Cynllunio sydd i'w wneud a meysydd parcio HGV's	<p>Noder y sylw</p> <p>Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fe fydd angen ail-ymweld â'r amcanion a gweledigaeth, strategaeth a</p>

Enw a Sefydliad	Cyf Person	Cyf Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
				<p>pholisiau'r Cynllun a bydd y materion fel effaith Brexit yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sail tystiolaeth.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma.</p>
Peter Nicholas Horsley, Mineral Products Association	18	18/2	Mae'n bwysig bod cadernid y polisi Ardal Diogelu Mwynau yn cael ei asesu ac, os oes angen, yn cael ei adolygu. Efallai y bydd angen i bolisiau strategol ar dechnoleg adnewyddadwy ystyried CCUS (Rhwydwaith casglu, defnyddio a storio carbon) ym Môr Iwerddon a'r datblygiad hwyluso angenrheidiol.	<p>Noder y sylw Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fe fydd angen ail-ymweld â'r amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisiau'r Cynllun a bydd y materion a godwyd yn y sylw yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sail tystiolaeth.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma.</p>
Mr & Mrs Lindsey Parry (d/o Victoria Morrison, Claremont Planning)	20	20/2	Mae'r broses o nodi newid yn yr hinsawdd yn fater allweddol y bydd angen ei ystyried drwy'r Cynllun Diwygiedig yn cael ei gefnogi'n gryf. Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) a ddiweddarwyd ym mis Chwefror 2021 yn pwysleisio rôl y system gynllunio wrth fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, gan sefydlu ym Mharagraff 3.33 mai'r penderfyniad pwysicaf y mae'r system gynllunio yn ei wneud yw sicrhau bod y datblygiadau cywir yn cael eu hadeiladu yn y manau cywir. Ym mharagraff 4.11, mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi y dylai'r system gynllunio alluogi pobl i gael mynediad at swyddi a gwasanaethau drwy deithiau byrrach, mwy effeithlon a chynaliadwy drwy gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r Adran hon yn nodi, drwy ddylanwadu ar leoliad, graddfa, dwysedd, cymysgedd o ddefnyddiau, a dyluniad datblygiadau newydd, y gall y system gynllunio sicrhau hygyrchedd mewn ffordd sy'n cefnogi datblygu cynaliadwy ac yn mynd i'r afael ag achosion newid yn yr hinsawdd.	<p>Noder y sylw Mae newid hinsawdd yn cael ei gyfarch ym mharagraffau 2.59 i 2.62 o'r adroddiad. Fe fydd ystyriaeth bellach i'r materion hyn yn cael ei roddi wrth i'r broses o lunio'r Cynllun Diwygiedig fynd rhagddi.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma.</p>
Gareth James	21	21/2	Mewn perthynas â pharagraff, bydd angen ystyried a thrafod Nodau Llesiant Cenedlaethol a Nodau Llesiant y Cyngor fel rhan o ddadansoddiad cysondeb gyda nodau'r CDLI. Awgrym	<p>Noder y sylw Mae egwyddorion y Ddeddf Llesiant yn cael eu nodi yn rhan 2.6 i 2.8 yr Adroddiad Adolygu gyda chyfeiriadau at y Ddeddf hefyd yn cael ei wneud mewn rhannau megis y diweddariad i Bolisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11) a'r Cynlluniau Llesiant</p>

Enw Sefydliad ^a	Cyf Person	Cyf Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
			Un o nodau'r Cynllun ydi i gynyddu a chynnal nifer siaradwyr Cymraeg yng nghymunedau'r Sir. Byddwn yn gofyn i arbenigwyr allanol mewn cynllunio ieithyddol a chymdeithaseg gymunedol i asesu effaith y Cynllun ar niferoedd a chanrannau siaradwyr Cymraeg yn y Sir.	<p>Lleol. Yn sicr bydd egwyddorion y Ddeddf Llesiant yn cael ei ystyried yn llawn wrth baratoi'r Cynllun diwygiedig. Bydd ystyriaethau mewn perthynas ag effeithiau ieithyddol yn sicr yn ffurfio rhan o adolygiad y Cynllun. Gellir ystyried y mater a godir yn y sylw hwn o fewn y broses o baratoi'r Cynllun diwygiedig ond ni chredir y dylid cyfeirio'n benodol ato yn yr Adroddiad Adolygu.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma.</p>
Gareth Thomas, Cyfoeth Naturiol Cymru	24	24/2a	Adran 2.82- 2.85 Bioamrywiaeth – sylw cyffredinol – awgrymir y dylai pob pwynt fod yn fwy penodol, gan sicrhau cyfeiriad at gynefinoedd daearol, arfordirol a morol a deddfwriaeth berthnasol lle bo hynny'n briodol.	<p>Noder y sylw Ystyrir fod sylw priodol wedi i roddi o fewn yr Adroddiad Adolygu i'r materion a amlygir. Bydd ystyriaeth/manwl yn cael ei roi i faterion bioamrywiaeth forol, arfordirol a daearol wrth i'r broses o Adolygu'r Cynllun fynd rhagddi.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma.</p>
Gareth Thomas, Cyfoeth Naturiol Cymru	24	24/2b	Adran 2.8.2 efallai y dylid newid cyfeiriad at 'gefnforoedd' i 'foroedd' o gofio nad oes cefnforoedd yn nyfroedd Cymru.	<p>Derbyn y sylw Newid yr adroddiad i adlewyrchu'r sylw.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Diwygio para 2.82 i ddarllen fel a chanlyn:-</p> <p>Mae bioamrywiaeth yn sail i'n bywydau a'n bywoliaeth ac mae'n cefnogi'r ffordd y mae ecosystemau'n gweithio a'u cydnherthedd mewn morroedd cefnforoedd, gwlypdiroedd, llynnoedd, afonydd, mynyddoedd, coedwigoedd a thirweddau amaethyddol.</p>
Gareth Thomas, Cyfoeth	24	24/2c	Adran 2.84 - Rydym yn croesawu'r cadarnhad y bydd y system gynllunio yn sicrhau bod bywyd gwyllt yn gallu ffynnu mewn cynefinoedd iach ac amrywiol ond dylai hyn hefyd gynnwys	<p>Noder y sylw</p>

Enw a Sefydliad	Cyf Person	Cyf Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
Naturiol Cymru			cynefinoedd arfordirol a morol a allai gael eu heffeithio gan geisiadau cynllunio.	<p>Mae paragraff 2.84 yn benodol ymwneud â chynnwys Cymru'r Dyfodol, byddai diwygio'r paragraff yn unol â'r sylw yn groes i'r hyn a nodir yng Nghymru'r Dyfodol.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma.</p>
Gareth Thomas, Cyfoeth Naturiol Cymru	24	24/2ch	<p>Mae Adran 2.85 yn nodi "Mae gwella bioamrywiaeth, gwytnwch ecosystemau a darparu seilwaith gwyrdd yn un o nodau allweddol y Cynllun Cenedlaethol, gyda chyflwyno Coedwig Genedlaethol Cymru a chreu mwy o orchudd coetiroedd yn ffordd o sicrhau ecosystem gydnerth." Noder hefyd fod hwn yn un o amcanion Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru "cynnal a gwella gwydnwch ecosystemau morol a'r manteision a ddarparant er mwyn diwallu anghenion cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol" sy'n berthnasol yma ac felly dylid cyfeirio atynt hefyd.</p>	<p>Derbyn y sylw Newid yr adroddiad i adlewyrchu'r sylw.</p> <p>Argymhelliad Diwygio para 2.85 fel a chanlyn:-</p> <p>2.85 Mae gwella bioamrywiaeth, gwytnwch ecosystemau a darparu seilwaith gwyrdd yn un o nodau allweddol y Cynllun Cenedlaethol Cymru a chreu mwy o orchudd coetiroedd yn ffordd o sicrhau ecosystem gydnerth.</p> <p><u>Ymhellach, mae gwella a gwytnwch ecosystemau morol yn un o amcanion Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru sy'n nodi'r gofyniad i gynnal a gwella gwydnwch ecosystemau morol a'r manteision y maent yn eu darparu er mwyn diwallu anghenion cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.</u></p>
Jeremy Lambe, Lambe Planning and Design	25	25/2	<p>Angen i gydbwyso materion newid hinsawdd / digwyddiadau tywydd eithafol a diogelu asedau llety twristiaeth fawr mewn ardaloedd arfordirol a allai gael eu heffeithio'n sylweddol gan lefelau'r môr sy'n codi. Gallai hyn arwain at golli llety gwyliau, lleihau hyfywedd busnes, gan arwain at ddiffyg buddsoddiad, colli cyflogaeth yn sylweddol a cholli manteision economaidd sylweddol i'r economi.</p> <p>Gallu addasu, arloesi ac aros o flaen y gystadleuaeth gyda'r arlwy twristiaeth, nid yn unig i gadw ymwelwyr presennol, ond</p>	<p>Noder y sylw Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fe fydd angen ail-ymweld a'r amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisiau'r Cynllun a bydd y materion a godwyd yn y sylw yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sail tystiolaeth.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma.</p>

Enw a Sefydliad	Cyf Person	Cyf Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
			<p>hefyd i ddenu ymwelwyr newydd a rhai yn y dyfodol sy'n dod yn llawer mwy dirnadol, sy'n chwilio am brofiadau unigryw, 'ymdeimlad o le' gyda datblygiadau, a mathau mwy nodedig o lety gwyliau o ansawdd uchel. Gall arddulliau a datblygiadau 'pwrpasol' o'r fath helpu i gynyddu lefelau defnydd a hefyd ddod â manteision economaidd a chyflogaeth bellach i'r economi leol a rhanbarthol, yn ogystal â bod yn gatalydd ar gyfer newidiadau tymor hwy sy'n fuddiol i bawb.</p> <p>Creu cyflogaeth leol yn y diwydiant lletygarwch a hamdden sydd drwy gydol y flwyddyn, yn hytrach na chyflogaeth sy'n aml yn cael ei hystyried yn swyddi tymhorol, dros dro neu 'fwlch stopio'. Mae'r Pandemig wedi tynnu sylw at y materion hyn yn y sector lletygarwch, gyda gostyngiad sylweddol yn nifer y staff medrus sydd ar gael i weithio, sy'n rhannol oherwydd bod pobl yn dewis peidio â dilyn gyrfa yn y diwydiant lletygarwch oherwydd natur dymhorol swyddi o'r fath. Mae creu cynnyrch gydol y flwyddyn yn helpu i ddenu a chadw gweithlu medrus a thalentog o fewn cymunedau lleol. Mae'r sectorau twristiaeth a lletygarwch yn hanfodol i economïau lleol.</p> <p>Yn gysylltiedig â'r uchod, yw'r angen i annog ymwelwyr i wario mwy o arian drwy gydol y flwyddyn, yn enwedig yn ystod cyfnodau oddi ar y brig, gan ganolbwyntio ar ansawdd y cynnig twristiaeth, yn ogystal â chadw ymwelwyr mynych, a denu ymwelwyr gwerth uchel newydd sy'n gwerthfawrogi ac yn parchu rhinweddau unigryw'r ardal a chymunedau lleol ac yn sicrhau manteision i'r cymunedau lleol. Annog adeiladu perthynas rhwng y sector lletygarwch a chynhyrchwyr bwyd a diod leol, er mwyn gwella'r defnydd o gynnyrch Cymreig lleol a'i gyrchu yn yr ardal pan gyflwynir cynigion ar gyfer</p>	

Enw a Sefydliad	Cyf Person	Cyf Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
			darpariaethau manwerthu / bwyd a diod yn y sector twristiaeth.	
Alwyn Gruffydd	26	26/2	Dylai argyfwng y Gymraeg fod yn greiddiol i bob agwedd o'r Cynllun hwn. Oni wneir hynny does dim diben iddo fel dogfen sydd o fod yn cynnal ein hunaniaeth a bodolaeth y Genedl.	<p>Noder y sylw Mae'r iaith Gymraeg yn cael ei gyfarch ym mharagraffau 3.9 i 3.12 o'r adroddiad. Yn unol â Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 mae'n ddyletswydd wrth wneud penderfyniad ar gais cynllunio i roi ystyriaeth i'r iaith Gymraeg. Ategir hyn ymhellach gan bara 3.25 o Bolisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11, Chwe 2021) ynghyd a Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (2017).</p> <p>Bydd Datganiad Effaith Iaith Gymraeg yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma.</p>
Eva Stevens	31	31/2	Dydw i ddim yn gwybod digon i'w ddweud ond nid yw'r ymuno ag Ynys Môn yn gwneud SYNNEWYR ac mae angen ei derfynu! Gwrandewch ar eich Cynghorwyr sydd â'r ffeithiau.	<p>Nid yw'r sylw'n berthnasol Nid yw dyfodol y Gwasanaeth Cynllunio ar y Cyd yn rhan o broses y Cynllun Datblygu Lleol.</p>
Alison Shaw	33	33/2	Dylai unrhyw gytundebau buddsoddi mawr fel y Fargen Dwf gynnwys dadansoddiad Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad . Nid yw'n ddigon i ystyried y llinell waelod ariannol yn unig	<p>Noder y sylw Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fe fydd angen ystyried cynlluniau fel y Fargen Dwf wrth lunio'r weledigaeth ac amcanion, strategaeth a pholisïau a bydd y mater yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sail tystiolaeth.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma.</p>
Nina Bentley	34	34/2	Rydym angen yr effaith amgylcheddol i fod yn ganolbwynt, a rhesymu canolog yr holl bolisi a'r holl ddatblygiadau, ac mae arnom angen mwy o atebolrwydd grŵp o fewn a thu allan i gynllunio	<p>Noder y sylw Mae rhoddi ystyriaeth i effeithiau amgylcheddol yn rhan greiddiol o baratoi'r Cynllun gydag Asesiad Amgylcheddol ac Asesiad Effaith Amgylcheddol o'r Cynllun yn cael ei baratoi i'r</p>

Enw a Sefydliad	Cyf Person	Cyf Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
				<p>perwyl hwn yn ystod pob cam o baratoi'r Cynllun Diwygiedig ac wrth baratoi'r Adroddiadau Monitro Blynyddol.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma.</p>
Rhys Tudur, Cynghorydd Tref Nefyn	39	39/2	Y peilot yn Nwyfor. Crebachiad yn yr ardaloedd efo canran uchel o siaradwyr Cymraeg. Y gyfradd uchel o fewnfudo ac o bryniannau ail dai	<p>Derbyn y sylw</p> <p>Mae effaith ail dai yn cael ei gyfarch ym mharagraffau 2.92 i 2.94 o'r adroddiad. Dylid diwygio'r adroddiad i gyfeirio tuag at y cynllun peilot ynghyd a diwygio'r Adroddiad i gyfeirio at ymgynghoriadau diweddar sydd wedi/yn cael ei gynnal gan y Llywodraeth yn y maes hwn.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Diwygio paragraff 2.94 ac ychwanegu paragraff newydd fe a chanlyn:-</p> <p>2.94 <u>Yn ystod hydref 2021 fe ymgynghorwyd y Llywodraeth ar newidiadau bosib i drethi lleol ar ail-gartrefi a llety hunan darpar. Ymhellach yn dilyn yr ymgynghoriad yma fe lanswyd ymgynghoriad sydd yn ymwneud a diwygiadau i'r weithdrefn gynllunio yn gysylltiedig â ail-gartrefi a llety hunan-ddarpar.</u> Bydd angen sicrhau fod unrhyw ddatblygiadau yn y maes hwn yn derbyn ystyriaeth yn ystod y broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig a bod ystyriaeth yn cael ei roddi i sut allai unrhyw fecanwaith rheoli sydd mewn grym neu a fwriedir ei weithredu yn gallu dylanwadu ar y polisiau a gynhwysir o fewn y Cynllun Diwygiedig.</p>

Enw a Sefydliad	Cyf Person	Cyf Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
				<p><u>2.94a Ynghyd a'r newidiadau posib yn gysylltiedig â'r weithdrefn gynllunio a'r system drethu leol mae'r Llywodraeth wedi cadarnhau fod ardal Dwyfor wedi cael ei ddewis fel ardal beilot. Bydd cam cyntaf y cynllun peilot yn adeiladu ar y cymorth ymarferol y mae Llywodraeth Cymru eisoes yn ei ddarparu i fynd i'r afael â fforddiadwyedd a faint o dai sydd ar gael a bydd yn cael ei deilwra i ddiwallu anghenion pobl yr ardal. Disgwylir i ragor o fanylion mewn perthynas â'r Cynllun peilot gael ei ryddhau yn dilyn y Gyllideb, ond yn unol â dyheadau'r Gweinidog disgwylir eu bod yn cynnwys edrych ar gynlluniau rhannu ecwiti, opsiynau rhentu, a chartrefi gwag.</u></p>
Y Cynghorydd Gruffydd Williams	40	40/2	<p>Mae'n holl bwysig ystyried a thrafod Nodau Llesiant Cenedlaethol a Nodau Llesiant y Cyngor fel rhan o ddadansoddiad cysondeb gyda nodau CDLI. Awgrym: Un o nodau'r Cynllun ydi i gynyddu a chynnal nifer siaradwyr Cymraeg yng nghymunedau'r Sir. Mae angen gofyn i arbenigwyr cynllunio ieithyddol allanol a chymdeithaseg gymunedol allanol i asesu effaith y Cynllun ar niferoedd a chanrannau siaradwyr Cymraeg yn y Sir.</p> <p>Mae angen cymryd i ystyriaeth y Cynllun Peilot yma yn Nwyfor sydd yng nghysylltiedig â newid deddfwriaethol a rheoli'r niferoedd o dai haf a llety gwyliau .</p>	<p>Derbyn y sylw yn rhannol</p> <p>Mae'r Ddeddf Llesiant yn cael ei gyfarch ym mharagraffau 2.6 i 2.8 o'r adroddiad. Fe fydd ystyriaeth bellach i'r materion hyn yn cael ei roddi wrth i'r broses o lunio'r Cynllun diwygiedig fynd rhagddi.</p> <p>Mae effaith ail dai yn cael ei gyfarch ym mharagraffau 2.92 i 2.94 o'r adroddiad. Dylid diwygio'r adroddiad i gyfeirio tuag at y cynllun peilot ynghyd a diwygio'r Adroddiad i gyfeirio at ymgynghoriadau diweddar sydd wedi/yn cael ei gynnal gan y Llywodraeth yn y maes hwn.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Diwygio paragraff 2.94 ac ychwanegu paragraff newydd fe a chanlyn:-</p>

Enw a Sefydliad	Cyf Person	Cyf Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
				<p>2.94 <u>Yn ystod hydref 2021 fe ymgynghorwyd y Llywodraeth ar newidiadau bosib i drethi lleol ar ail-gartrefi a llety hunan darpar. Ymhellach yn dilyn yr ymgynghoriad yma fe lansiodd ymgynghoriad sydd yn ymwneud a diwygiadau i'r weithdrefn gynllunio yn gysylltiedig â ail-gartrefi a llety hunan-ddarpar.</u> Bydd angen sicrhau fod unrhyw ddatblygiadau yn y maes hwn yn derbyn ystyriaeth yn ystod y broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig a bod ystyriaeth yn cael ei roddi i sut allai unrhyw fecanwaith rheoli sydd mewn grym neu a fwriedir ei weithredu yn gallu dylanwadu ar y polisïau a gynhwysir o fewn y Cynllun Diwygiedig.</p> <p><u>2.94a Ynghyd a'r newidiadau posib yn gysylltiedig â'r weithdrefn gynllunio a'r system drethu leol mae'r Llywodraeth wedi cadarnhau fod ardal Dwyfor wedi cael ei ddewis fel ardal beilot. Bydd cam cyntaf y cynllun peilot yn adeiladu ar y cymorth ymarferol y mae Llywodraeth Cymru eisoes yn ei ddarparu i fynd i'r afael â fforddiadwyedd a faint o dai sydd ar gael a bydd yn cael ei deilwra i ddiwallu anghenion pobl yr ardal. Disgwylir i ragor o fanylion mewn perthynas â'r Cynllun peilot gael ei ryddhau yn dilyn y Gyllideb, ond yn unol â dyheadau'r Gweinidog disgwylir eu bod yn cynnwys edrych ar gynlluniau rhannu ecwiti, opsiynau rhentu, a chartrefi gwag.</u></p>

Enw a Sefydliad	Cyf Person	Cyf Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
Wendy Jakeman	44	44/2	Tryloywder ar bob lefel. Cydweithredu amlasiantaethol a chyfuno adnoddau a gwybodaeth, gan gynnwys Prifysgol Bangor.	<p>Noder y sylw Bydd y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd yn gweithio gyda nifer o bartneriaid (statudol ac yn anstatudol) wrth lunio'r Cynllun. Bydd rhestr o'r Partneriaid yn cael ei chyhoeddi yn y Cytundeb Cyflawni. Mae pob cam allweddol ym mhroses creu'r cynllun yn destun ymgynghoriad cyhoeddus sy'n rhoi cyfle i bawb fod yn rhan o'r broses.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma.</p>
Ieuan Wyn, Cylch yr Iaith	46	46/2	Dylid bod wedi gwneud ymchwil ar effaith codi tai newydd ar niferoedd a chanrannau siaradwyr Cymraeg yng nghymunedau'r sir rhwng Medi 2017 a Medi 2020 - ymchwil ar fodel Ymchwil Tai Newydd yng Ngwynedd (2012-2018) (Emyr Edwards, Rheolwr Ymchwil a Gwybodaeth Cyngor Gwynedd, 9 Rhagfyr 2021) - ond gan ychwanegu dadansoddiad o niferoedd a chanrannau siaradwyr Cymraeg yng nghyd-destun y cymunedau ble lleolir y tai newydd.	<p>Noder y sylw Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fe fydd angen ail-ymweld ac amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisiau'r Cynllun a bydd y materion a godwyd yn y sylw yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sail tystiolaeth.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma.</p>
Ieuan Wyn, Cylch yr Iaith	46	46/2b	Dylid bod wedi comisiynu asesiad iaith annibynnol o'r Cynllun gan arbenigwyr mewn Cynllunio Iaith/Cymdeithaseg Iaith	<p>Noder y sylw Bydd ystyriaethau mewn perthynas ag effeithiau ieithyddol yn sicr yn ffurfio rhan o adolygiad y Cynllun. Gellir ystyried y mater a godir yn y sylw hwn o fewn y broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig ond ni chredir y dylid cyfeirio'n benodol ato yn yr Adroddiad Adolygu.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma.</p>
Ieuan Wyn, Cylch yr Iaith	46	46/2c	Gan fod sefyllfa'r Gymraeg yn ansefydlog, mae hi'n gwbl amlwg na ellir dibynnu ar asesiad iaith a wnaed flynyddoedd cyn i gais cynllunio gael ei gyflwyno. Nid yw Datganiad Iaith Gymraeg yn ddigonol. Hefyd, mae diffygion y dylid eu cywiro nid yn unig ym methodoleg yr asesiad ardrawiad iaith ond	<p>Noder y sylw Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fe fydd angen ail-ymweld a'r amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisiau'r Cynllun gan gynnwys y polisi(au) sydd yn ymwneud a'r iaith Gymraeg. Bydd y mater a godwyd yn derbyn</p>

Enw a Sefydliad	Cyf Person	Cyf Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
			hefyd yn y ffordd y defnyddir y fethodoleg a'r modd y dehonglir ystadegau wrth ddod i gasgliadau. Dylid sicrhau bod asesiadau/datganiadau iaith yn cael eu darparu a'u harfarnu gan arbenigwyr mewn Cynllunio Iaith/Cymdeithaseg Iaith.	<p>ystyriaeth fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig, casglu'r sail dystiolaeth berthnasol a pharatoi'r unrhyw ddarpar Ganllaw Cynllunio Atodol pe ystyrir yn briodol i wneud hynny.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma.</p>
Ieuan Wyn, Cylch yr Iaith	46	46/2ch	Mae'r Cynllun yn cyfeirio at yr amcan o greu cymunedau Cymraeg. Dylid cynnwys tystiolaeth sy'n dangos bod sefyllfa'r Gymraeg nid yn unig wedi ei chynnal ond hefyd wedi ei hatgyfnerthu. Mae'r Adroddiad Drafft yn nodi: 'Mae 3 Asesiad Ieithyddol wedi cael ei gyflwyno ynghyd â 81 datganiad Ieithyddol. Ers mabwysiadu'r Cynllun nid oes unrhyw gais sydd yn groes i PS 1 wedi cael ei ganiatáu.' Dylid cynnwys tystiolaeth mewn perthynas â'r datblygiadau hynny	<p>Noder y sylw Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fe fydd angen ail-ymweld a'r amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisiâu'r Cynllun gan gynnwys y polisi(au) sydd yn ymwneud a'r iaith Gymraeg. Bydd y mater a godwyd yn derbyn ystyriaeth fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig, casglu'r sail dystiolaeth berthnasol a pharatoi'r unrhyw ddarpar Ganllaw Cynllunio Atodol pe ystyrir yn briodol i wneud hynny.</p> <p>Mae dadansoddiad o gydymffurfiaeth ceisiadau gydag PS1 yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Monitro Blyneddol, ni ystyrir yn briodol i ymhelaethu ar briodoldeb Datganiadau/Asesiadau Effaith Iaith Gymraeg o fewn yr Adroddiad Adolygu yn enwedig o gofio fod hynny eisoes yn cael ei wneud drwy'r AMB.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma.</p>
Ieuan Wyn, Cylch yr Iaith	46	46/2d	3.63 Newid y frawddeg olaf i ddarllen: "sicrhau y gwarchodir ein hiaith a'n diwylliant cynhenid, a'r amgylchedd naturiol, adeiledig a hanesyddol."	<p>Derbyn y sylw Dylid diwygio'r adroddiad i gynnwys y geiriau "iaith a diwylliant".</p> <p>Argymhelliad</p>

Enw a Sefydliad	Cyf Person	Cyf Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
				Diwygio paragraff 3.63 i ddarllen fel a chanlyn:- '3.63 ...wrth sicrhau cydbwysedd priodol rhwng ystyriaethau economaidd, cymunedol (gan gynnwys yr iaith a'r diwylliant) a sicrhau y gwarchodir yr amgylchedd naturiol, adeiledig a hanesyddol.'
leuan Wyn, Cylch yr Iaith	46	46/2dd	3.67 Mae'r trothwy cyffredinol ar gyfer gormodedd a nodir yn y Canllaw Cynllunio Atodol, sef 15%, yn llawer rhy uchel. Byddai trothwy o 5%, hyd yn oed, yn golygu y byddai un annedd ym mhob ugain y tu hwnt i gyrraedd pobl leol; a golygai gosod y trothwy cyffredinol o 15% y gallai canrannau ail gartrefi/tai gwyliau gynyddu'n aruthrol mewn cymunedau nad effeithiwyd mohonynt i gymaint graddau hyn yn hyn, gan y bydd prynwyr yn prynu yn y gymuned agosaf sydd heb gyrraedd y trothwy, gan gynyddu'r ganran yno.	Noder y sylw Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fe fydd angen ail-ymweld a'r amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisiau twristiaeth y Cynllun a bydd y materion a godwyd yn y sylw yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sail tystiolaeth. Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma.
leuan Wyn, Cylch yr Iaith	46	46/2e	Mae angen moratoriwm llwyr ar ail gartrefi/llety gwyliau, gan wrthod â chaniatáu rhagor yn unrhyw gymuned, waeth pa cyn lleied yw'r ganran yno ar hyn o bryd, hyd nes y bo'r broblem yn gyffredinol o dan reolaeth.	Noder y sylw Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fe fydd angen ail-ymweld a'r amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisiau'r Cynllun a bydd y materion a godwyd yn y sylw yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sail tystiolaeth. Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma.
leuan Wyn, Cylch yr Iaith	46	46/2f	3.69 Mae datblygiadau llety amgen (glampio) yn tyfu'n broblem gynyddol, yn niffyg rheolaeth gadarn arnynt. Fel y mae achos Morfa, Clynnog Fawr yn dangos, mae caniatâd ar gyfer safleoedd o'r fath yn fater nad oes gan yr Awdurdod Lleol ddigon o afael arno, ac y mae'r Awdurdod ei hun yn gyndyn o fynd i'r afael â thor-rheolau cynllunio ar safleoedd, hyd yn oed pan dynnir sylw at y mater.	Nid yw'r sylw'n berthnasol Argymhelliad Nid yw hwn yn fater ar gyfer Adroddiad Adolygu.
leuan Wyn, Cylch yr Iaith	46	46/2ff	3.70 Dylid newid y cymal hwn i ddarllen: ' ... ystyriaeth i	Derbyn y sylw

Enw a Sefydliad	Cyf Person	Cyf Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
			faterion cymunedol gan gynnwys iaith a diwylliant, amgylcheddol a gofynion y sector gwersylla.' Mae darparu ar gyfer gor-dwristiaeth yn annog rhagor o or-dwristiaeth, ac yn gwaethygu ei sgileffeithiau: nid mater o sensitifrwydd tirwedd yn unig yw cynnydd gwersylloedd gwyliau.	<p>Dylid diwygio'r adroddiad i gynnwys y geiriau "iaith a diwylliant".</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Diwygio paragraff 3.70 i ddarllen fel a chanlyn:-</p> <p>3.70 Bydd angen ail-edrych ar y polisiau gwersylla yn y cynllun fel rhan o'r adolygiad gan roi ystyriaeth i faterion cymunedol (gan gynnwys iaith a diwylliant), amgylcheddol a gofynion y sector gwersylla.</p>
Ieuan Wyn, Cylch yr Iaith	46	46/2g	3.71 Cytunwn fod angen 'ailedrych ar y polisiau yn y CDLI ar y Cyd sy'n ymwneud a thwristiaeth ond rhaid ailedrych arnynt yng ngoleuni'r dystiolaeth gynyddol ynghylch sgil effeithiau gordwristiaeth ar gymunedau ardal y CDLI, hefyd, yn enwedig o gofio cynnydd aruthrol y pwysau ymwelwyr yn ystod y tair blynedd diwethaf. Mae Brecsit a'r argyfwng Covid wedi amlygu gwendidau sylfaenol yn y ddarpariaeth reoliadol parthed twristiaeth, a pha mor ddi-amddiffyn yw cymunedau yn wyneb cynnydd anniwall am ail gartrefi, llety gwyliau, cyfleusterau twristiaeth ac isadeiledd ychwanegol. Rhaid wynebu'r sefyllfa bresennol, mynd i'r afael â hi, gwrthweithio'r problemau presennol a rhwystro eu cynnydd.	<p>Noder y sylw</p> <p>Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fe fydd angen ail-ymweld a'r amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisiau twristiaeth y Cynllun a bydd y materion a godwyd yn y sylw yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sail tystiolaeth.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma.</p>
Ieuan Wyn, Cylch yr Iaith	46	46/2ng	Dylid cael diffiniadau clir a phendant o dwristiaeth gynaliadwy a thwristiaeth anghynladwy fel bod modd gwahaniaethu rhyngddynt wrth lunio strategaeth Yr Economi Ymweld. Dylid cael meini prawf, mesuryddion a dangosyddion gan nodi pwyntiau gorlawn - lefel gormodedd - ar gyfer pob math o ddatblygiadau twristiaidd. Mewn perthynas â strategaeth Economi Ymweld, gofynnwn i'r awdurdod cynllunio roi ystyriaeth lawn i gasgliadau'r astudiaethau canlynol: Phillips, D., a Thomas, C. Effeithiau Twristiaeth ar yr Iaith Gymraeg yng Ngogledd-Orllewin Cymru. Aberystwyth: Canolfan	<p>Noder y sylw</p> <p>Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fe fydd angen ail-ymweld a'r amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisiau twristiaeth y Cynllun a bydd y materion a godwyd yn y sylw yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sail tystiolaeth.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma.</p>

Enw a Sefydliad	Cyf Person	Cyf Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
			Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2001.Peters, P., ac eraill. Research for TRAN Committee - Overtourism: impact and possible policy responses. Brussels: European Parliament, Policy Department for Structural and Cohesion Policies, Brussels, 2018.	
Ieuan Wyn, Cylch yr Iaith	46	46/2h	3.86 Dylid ehangu'r Cynllun Tai Marchnad Leol i Wynedd gyfan a sicrhau bod ei weithrediad yn effeithiol fel ei fod yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol yn yr argyfwng tai.	<p>Noder y sylw Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fe fydd angen diweddarau'r sail tystiolaeth, sydd yn rhoi'r sylfaen i'r Cynllun. Bydd hyn yn cynnwys ail-ymweld ag Ardaloedd Tai Farchnad Leol, felly bydd y materion a godwyd yn y sylw yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sail tystiolaeth.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma.</p>
Ieuan Wyn, Cylch yr Iaith	46	46/2i	3.89 Er mwyn cael twf cytbwys a chynaliadwy mewn cymunedau gan ddiwallu gwahanol anghenion, dylid sicrhau bod y cymdeithasau tai yn gweithredu'r polisi Cymysgedd Tai drwy ddarparu tai fforddiadwy i'w gosod/ tai fforddiadwy i'w prynu yn eu datblygiadau.	<p>Noder y sylw Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fe fydd angen diweddarau'r sail tystiolaeth, sydd yn rhoi'r sylfaen i'r Cynllun. Bydd hyn yn cynnwys ail-ymweld a'r pholisi Cymysg Tai, felly bydd y materion a godwyd yn y sylw yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sail tystiolaeth.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma.</p>
Bourne Leisure (d/o Tobias Robinson, Litchfields)	47	47/2a	Er y bydd angen i'r CDLI diwygiedig adlewyrchu'r NCT15 diwygiedig, mae hefyd yn bwysig ei fod yn darparu polisïau sy'n rhoi arweiniad ar materion nad yw'r canllawiau cenedlaethol hyn yn mynd i'r afael â hwy. Er enghraifft, dylid darparu polisi lleol ar gyfer datblygiad priodol mewn parciau gwyliau presennol sydd wedi'u lleoli ym Mharth Llifogydd 3 (Afonydd a Moroedd) lle na fyddai hyn yn creu risgiau ychwanegol o lifogydd, fel y dangosir gan Asesiad Canlyniadau Llifogydd. Mae'r TAN15 sy'n dod i'r amlwg yn darparu canllawiau ar gyfer newid defnydd ond mae'n	<p>Noder y sylw Nid bwriad yr Adroddiad Adolygu yw manylu ar unrhyw newidiadau fydd yn cael eu gwneud i'r Cynllun. Bydd ystyriaeth yn cael ei roddi i'r mater a godwyd fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma.</p>

Enw a Sefydliad	Cyf Person	Cyf Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
			ddistaw ar ganllawiau ar ailddatblygu o fewn yr un defnydd dosbarth/un defnydd.	
Bourne Leisure (d/o Tobias Robinson, Litchfields)	47	47/2b	Dylai'r CDLI diwygiedig hefyd fod yn glir y dylid trin datblygiadau ar barseli heb eu datblygu o fewn ffiniau gweithredol parciau gwyliau fel pe bai wedi'i ddatblygu'n flaenorol fel y gellid caniatáu datblygiad priodol y tu allan i Barth 1. Ni fyddai paratoi polisi lleol ar gyfer datblygiadau priodol nad yw'n creu perygl llifogydd ychwanegol yn gwrthdaro ag amcanion cyffredinol y NCT diwygiedig. Byddai'r ddarpariaeth hon yn caniatáu i weithredwyr barhau i fuddsoddi yn eu parciau a'u cyrchfannau. Yn ei dro, byddai'n cyfrannu at unrhyw amcanion gan y Cyngor i gefnogi'r economi wledig a byddai'n cyd-fynd â chymorth polisi cynllunio cenedlaethol i'r diwydiant twristiaeth.	<p>Noder y sylw Nid bwriad yr Adroddiad Adolygu yw manylu ar unrhyw newidiadau fydd yn cael eu gwneud i'r Cynllun. Bydd ystyriaeth yn cael ei roddi i'r mater a godwyd fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma.</p>

Cwestiwn 3 - Mae Rhan 3 o'r Adroddiad Adolygu yn cyfeirio at y materion a fydd yn cael ei hadolygu yn y Cynllun presennol wrth ffurfio'r Cynllun Diwygiedig. A oes yna unrhyw fater heb ei gyfarch?

Tudalen 304

Enw a Sefydliad	Cyf Person	Cyf Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
Dafydd Griffiths	4	4/3	Mae esboniad sylweddol am y broses DCO a'r ymestyniadau ar gais y Gweinidog Ynni a Horizon. Does dim cyfeiriad at gyhoeddi'r ddogfen nag argymhelliad PINS.	<p>Noder y Sylw Mae rhan 2.63 i 2.67 yr Adroddiad Adolygu yn cyfeirio at y sefyllfa mewn perthynas â Wylfa Newydd. Mae hwn yn fater pwysig i'w ystyried wrth lunio'r Cynllun diwygiedig ac felly bydd yr holl wybodaeth gefndirol a'r dogfennau cysylltiol, gan gynnwys y ddogfen y cyfeirir ati, yn ystyriaethau perthnasol. Ni chredir fodd bynnag bod angen cyfeirio'n benodol at y ddogfen hon na argymhelliad PINS o fewn yr Adroddiad Adolygu.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
John Griffiths	5	5/3	Mae angen golwg ehangach ar ddatblygiadau ar hyd dwy ochr Afon Menai. Mae golwg achlysurol a chul ar bob datblygiad newydd. Dylai fod yn ofynnol i'r ddwy sir, CNC a'r cynghorau lleol perthnasol wneud sylwadau ar bob cynnig. Mae effaith gronol a niweidiol o edrych ar bob cynnig. Ymddengys nad oes strategaeth gyffredinol sydd â'i phrif nod o gadwraeth a bioamrywiaeth. Mae'r llwybr cerdded newydd a chynllunio datblygu yn Ynys y Big yn dangos diystyriad o ran diogelu bywyd gwyllt gan fod pob asiantaeth yn methu ag ymgysylltu'n ystyriol. Mae methiant i archwilio pam mae angen datblygiad. Mae cymaint o'r tai ar hyd Afon Menai yn ail gartrefi ac yn cael eu gosod allan. Mae ceisiadau'n cael eu gwneud i ychwanegu at lygredd golau a cholli coed. Mae angen i Ynys Môn yn benodol ystyried effaith datblygiad ar effaith weledol Arfon.	<p>Noder y Sylw Mae'r ddyletswydd i ymgynghori ar geisiadau cynllunio wedi'i chynnwys yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 a'r Llawlyfr Rheoli Datblygu (Diwygiad 2 – Mai 2017). Gwneir y penderfyniad i ymgynghori ag awdurdod cyfagos fesul achos.</p> <p>Mae effaith gronol unrhyw ddatblygiad yn fater pwysig i'r Cynllun. Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fe fydd angen ail-ymweld ac amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisiau'r Cynllun a bydd y materion a godwyd yn y sylw o ran yr effaith gronol o ddatblygiadau yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sail tystiolaeth.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
Malcolm Brymer	6	6/3	Ystyriaeth bosibl o "angen" lleol ar gyfer manwerthu a gwasanaethau yn dilyn y cynnydd sylweddol mewn bolisiau a chyfundrefnau o gweithio o adref. Mae'r gweithgareddau ymuno â theithiau mynd i'r gwaith bellach yn lleihau'n sylweddol, felly dylid ystyried mynediad ym mhob anheddiad i	<p>Noder y Sylw Mae effaith y pandemic yn cael ei gyfarch ym mharagraffau 2.70 i 2.73. Bydd angen rhoi ystyriaeth lawn i faterion cyflogaeth a manwerthu yn ystod y broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig. Fodd bynnag, nid pwrpas yr Adroddiad Adolygu yw</p>

Enw a Sefydliad	Cyf Person	Cyf Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
			siopa cartref a bwyd lleol. Cyfyngedig a Dewiswch nid yw ardaloedd siopa mawr bellach yn addas ar gyfer yr effaith "gwaith o gartref" newydd ar ôl Covid. Galw am Safleoedd y bydd y Cyngor yn eu gwneud maes o law, mae'n siŵr.	<p>manylu ar unrhyw newidiadau fydd yn cael ei wneud i bolisiau'r Cynllun.</p> <p>Fe fydd ystyriaeth bellach i'r materion hyn yn cael ei roddi wrth i'r broses o lunio'r Cynllun diwygiedig fynd rhagddi.</p> <p>O ran yr alwad am safleoedd newydd, nodir, yn unol â Rheoliadau'r Cynllun Datblygu Lleol, bydd y Cynghorau'n cynnal ymarfer Galw am Safleoedd Ymgeisiol lle gwahoddir cyflwyniadau gan bartïon â diddordeb sy'n dymuno cael tir i'w gynnwys yn y Cynllun Diwygiedig, naill ai i'w ddatblygu, ail-ddatblygu neu amddiffyn rhag datblygiad.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
Cyng. Robert Llywelen	8	8/3	Pam y cafodd hawl Ddemocrataidd Cynghorwyr ynys Môn ei dynnu oddi arnynt pan na chaniatawyd i'r CYNGOR LLAWN wneud y penderfyniadau ar DDATBLYGIADAU MAWR. Penderfynwyd ar ôl y datblygiad yn Nhŷ Mawr Llanfair PG ar gyfer math o OAKS SWYDD GAER datblygiad wedi arwain at alw Llywodraeth Caerdydd i mewn a'i wrthod. Fi oedd deilydd y Portffolio ar gyfer Cynllunio ar adeg ac roeddwn i yn erbyn y datblygiad ac wedi colli fy swydd fel Deilydd Portffolio. Diystyried ffiadd am yr amgylchedd gan ein Hadrn Gynllunio.	<p>Dim yn Berthnasol Nodir fod y ddatblygiad a gyfeirir ato wedi derbyn caniatâd yn unol a'r fframwaith bolisi cynllunio lleol blaenorol, hynny yw nid y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd presennol.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
Cyng. Mike Stevens	12	12/3	Rhaid i'r cydweithio ag Ynys Môn ddod i ben oherwydd y mae'n cael effaith andwyol ar gymunedau yn Ne Gwynedd. Rhoddir mwy o ffocws gan staff a Chynghorwyr Cyngor Gwynedd ar bwyllgor y JLDP i Ynys Môn nag i ardaloedd yn ne Gwynedd. Mae angen ffocws o 100% arnom gan staff a Chynghorwyr ar Wynedd heb dynnu sylw at Ynys Môn. Nid oes gan llawer o'r staff lawer o wybodaeth na phryder am unrhyw le i'r de o Borthmadog. Mae'n amlwg nad yw'r cydweithio bellach yn addas i'r diben o ystyried yr argyfwng tai enbyd sydd gennym yn ne Gwynedd erbyn hyn.	<p>Dim yn Berthnasol Nid yw dyfodol y Gwasanaeth Cynllunio ar y Cyd yn rhan o broses y Cynllun Datblygu Lleol.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>

Enw a Sefydliad	Cyf Person	Cyf Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
Ifan Hughes, Cyngor Sir Ynys Môn	14	14/3a	Pwynt 3.46 – Er nad oes adolygiad diweddar wedi bod, mae rhaid nodi bod yna 'refresh – Health Check' wedi'i gynnal yn ddiweddar.	<p>Derbyn y sylw Ychwanegu cyfeiriad tuag at archwiliad iechyd diweddar o'r Cynllun Rheoli Traethlin (CRhT) yn yr Adroddiad Adolygu.</p> <p>Argymhelliad Cynnwys newidiadau i pharagraff 3.46 fel a ddangosir isod:</p> <p>Nid oes yna adolygiad o'r Cynllun Rheoli Traethlin (SMP) 2 wedi cynnal yn y cyfnod ers mabwysiadu'r CDLI ar y Cyd <u>ond mae phrosiect adnewyddu ac archwiliad iechyd yn cael eu cynnal ar hyn o bryd. Bydd unrhyw newidiadau i'r CRhT yn dilyn y prosiect adnewyddu yn rhan bwysig o sail tystiolaeth y Cynllun Diwygiedig i lywio unrhyw bolisiau yn y dyfodol.</u> a chan hynny mae'r arweiniad a gynhwysir yn y ddogfen hynny sydd wedi ei ymgorffori o fewn y CDLI ar y Cyd yn parhau i fod yn gyfredol. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, bellach mae yna fwy o bwyslais ar Awdurdodau Lleol i fod yn ymgorffori ac yn gweithredu ar yr arweiniad a gynhwysir yn y Cynllun Rheoli Traethlin, gan hynny fe fydd yn briodol sicrhau fod y Polisi perthnasol a gynhwysir yn y CDLI ar y Cyd (Polisi ARNA 1: Ardal Rheoli Newid Arfordirol) yn cyd-fynd gyda'r arweiniad Polisi Cynllunio Cenedlaethol.</p>
Ifan Hughes, Cyngor Sir Ynys Môn	14	14/3b	Pwynt 3.84 a 3.85 – Angen cadarnhad eich bod am ymgynghori gyda ni o safbwynt dyraniadau safleoedd ayyb.	<p>Noder y Sylw Mae gan Wasanaeth Priffyrdd y ddau Gyngor ran bwysig i'w chwarae wrth ddewis dynodiadau ar gyfer y cynllun a byddant yn chwarae rhan bwysig wrth dewis safleoedd fel yr oeddent yn ystod y broses y CDLI gwreiddiol.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
Ifan Hughes, Cyngor Sir Ynys Môn	14	14/3c	Pwynt 3.125 – Rydym o'r farn bod angen adolygu'r SPG ar barcio i greu un ar y cyd.	<p>Noder y sylw Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fe fydd angen ail-ymweld ac amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisiau'r Cynllun a bydd y materion a godwyd o ran creu CCA</p>

Enw a Sefydliad	Cyf Person	Cyf Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
				newydd yn y sylw yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sail tystiolaeth. Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma
Richard Evans-Snarr. Llywodraeth Cymru	15	15/1	Byddai'r Adran Rheoli Datblygu Priffyrdd Llywodraeth Cymru yn croesawu fod yn rhan o unrhyw drafodaethau a allai arwain at adolygiad o CCA yr ACLI ar Safonau Parcio.	Noder y Sylw Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fe fydd angen ail-ymweld ac amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisïau'r Cynllun a bydd y materion a godwyd o ran creu CCA newydd yn y sylw yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sail tystiolaeth. Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma
Peter Nicholas, Mineral Product Association Cymru / Wales	18	18/3	Efallai y bydd angen polisïau strategol diwygiedig ar dechnoleg adnewyddadwy ystyried CCUS (Rhwydwaith casglu, defnyddio a storio carbon) yn adolygiad y Cynllun Lleol. Rydym yn croesawu'r cyfeiriad at yr Datganiad Technegol Rhanbarthol, 2il Adolygiad. Rydym yn pwysleisio pa mor bwysig yw adlewyrchu bod gan y ffigurau a ddefnyddir yn yr DTRh waelodlin yn 2016 ac efallai y bydd angen eu hadolygu er mwyn sicrhau faint o fwynau a weithir ers 2016 a dyheadau diwygiedig y cynllun, yn enwedig os ystyrir y CDLI diwygiedig. Gall hyn gael effaith ar y galw, yr angen am gronfeydd wrth gefn ychwanegol ac ar ddiogelu adnoddau mwynau. Mae'n bwysig bod y cynllun yn cael ei gefnogi gan sylfaen dystiolaeth gadarn, gan gynnwys adroddiadau blynyddol gan GRhGCA (Gweithgor Rhanbarthol Gogledd Cymru ar Agregau) Gogledd Cymru. Heb y datblygiad polisi hyn fe fyddai yna wagle. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at Ddatganiad o gydweithio is-ranbarthol. Nid ydym yn ymwybodol bod dogfen o'r fath wedi'i pharatoi. Byddai angen i'r GRhGCA ystyried hyn. Mae angen adlewyrchu'r ddarpariaeth mwynau yn y tabl yn Adran 4.3 o'r Adroddiad Adolygu	Noder y Sylw Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fe fydd angen ail-ymweld ac amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisïau mwynau y Cynllun a bydd y materion a godwyd yn y sylw yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sail tystiolaeth. Bydd y sail tystiolaeth yn cael ei hysbysu gyda'r wybodaeth fwyaf diweddar sydd ar gael ar y pryd. O ran y sylw ar y datganiad Isranbarthol, mae'r Adroddiad Adolygiad ym mharagraff 3.118 yn nodi'r gofyniad i Awdurdodau Mwynau Lleol gydweithio. Mae ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i'r gofyniad am Ddatganiad Is-ranbarthol o gydweithio. Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma
Sion Wyn Evans, Cyngor Tref	19	19/3a	Dylid pwysleisio pwysigrwydd gwarchod yr iaith Gymraeg, yn enwedig o ran datblygiadau mawr.	Noder y Sylw Mae'r iaith Gymraeg yn gael ei gyfarch ym mharagraffau 3.9 i 3.12 o'r adroddiad. Yn unol â Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

Enw a Sefydliad	Cyf Person	Cyf Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
Frenhinol Caernarfon				<p>mae'n ddyletswydd wrth wneud penderfyniad ar gais cynllunio i roi ystyriaeth i'r iaith Gymraeg. Ategir hyn ymhellach gan bara 3.25 o Bolisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11, Chwe 2021) ynghyd a Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (2017). Fe fydd ystyriaeth bellach i'r materion hyn yn cael ei roddi wrth i'r broses o lunio'r Cynllun diwygiedig fynd rhagddi.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
Sion Wyn Evans, Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon	19	19/3b	<p>3.17 - 3.20 - Llecynnau Agored</p> <p>O ran y safon Fields in Trust o 2.4 hectar o lecyn agored hamdden fesul pob 1000 o'r boblogaeth er mwyn diwallu'r amcan o gynyddu cyfleoedd i bobl gyfranogi mewn cymunedau gweithgar ac iach - mae'r Cyngor yn cytuno fod creu llecynnau agored yn bwysig.</p>	Noder y Sylw
Sion Wyn Evans, Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon	19	19/3c	<p>3.21 - 3.23 - Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu</p> <p>Mae'r Cyngor o'r farn ei fod yn hanfodol sicrhau fod yr isadeiledd mewn lle ar gyfer unrhyw ddatblygiad arfaethedig.</p>	<p>Noder y Sylw Mae isadeiledd yn cael ei gyfarch ym mharagraffau 3.13 i 3.16. Fe fydd ystyriaeth bellach i'r materion hyn yn cael ei roddi wrth i'r broses o lunio'r Cynllun diwygiedig fynd rhagddi.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
Sion Wyn Evans, Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon	19	19/3ch	<p>3.27 - 3.32 - Datblygiad Cynaliadwy a Newid Hinsawdd</p> <p>Mae'r Cyngor o'r farn y dylai unrhyw ddatblygiad fod yn gynaliadwy ac yn ystyried unrhyw effaith andwyol ar newid hinsawdd.</p>	<p>Noder y Sylw Mae datblygu cynaliadwy yn ganolog i bolisi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
Sion Wyn Evans, Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon	19	19/3d	<p>3.63 - 3.71 - Yr Economi Ymwelwyr - "Mae'r polisiâu twristiaeth yn y cynllun yn ceisio cefnogi datblygu'r diwydiant twristiaeth drwy gydol y flwyddyn, wrth sicrhau cydbwysedd priodol rhwng ystyriaethau economaidd, cymunedol a sicrhau y gwarchodir yr amgylchedd naturiol, adeiledig a hanesyddol." - Cytuno gyda'r</p>	Noder y Sylw

Enw a Sefydliad	Cyf Person	Cyf Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
			sylwad yma (3.63). Mae Caernarfon yn Safle Treftadaeth y Byd, ac mae angen bod yn bositif o ran twristiaeth, gan gydnabod bod rhai risgiau hefyd yn bodoli.	
Sion Wyn Evans, Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon	19	19/3dd	3.82 - 3.85 - Lleoliad Tai - Mae'r Cyngor o'r farn, efo unrhyw ddatblygiad tai newydd, a phenderfynu ar leoliad y datblygiad, dylid sicrhau bod yr is-adeiledd mewn lle o flaen llaw. Dros y blynyddoedd diwethaf mae stadau tai newydd wedi cael eu hadeiladu yng Nghaernarfon ac mae'r ysgolion yn llawn. Cyn adeiladu stadau tai o'r fath, dylid sicrhau fod digon o le yn yr ysgolion ar gyfer y plant, ac hefyd ystyried demograffi yr ardal.	<p>Noder y Sylw Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fe fydd angen ail-ymweld ac amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisïau'r Cynllun a bydd y materion a godwyd yn y sylw yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sail tystiolaeth.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
Mr a Mrs Parry d/o Claremont Planning	20	20/3	Ystyrir bod Rhan 3 o'r Adroddiad Adolygu yn nodi'n briodol y materion sydd i'w hadolygu wrth baratoi'r Cynllun Diwygiedig. Fodd bynnag, mae Claremont Planning yn mynegi pryder ynghylch cynigion y Cyngor ynghylch graddfa tai a thwf a nodir yn Adran 6.4 o'r Adroddiad Adolygu. Er ei fod yn cefnogi'r angen i sicrhau bod y Cynllun Newydd yn cael ei lywio gan asesiad cyfredol o'r angen am dai, fodd bynnag, ni ellir cefnogi honiad y Cyngor nad yw'r ffigurau twf presennol yn briodol yng ngoleuni'r ffaith bod y Cyngor yn parhau i dan ddarparu cyflenwi tai. Yn hytrach, dylai'r Cyngor roi adolygiad manylach i'w strategaeth ofodol a'u proses o ddethol safleoedd er mwyn sicrhau bod y safleoedd hynny a ddynodir yn hyfyw, ac y gellir eu cyflawni, o fewn yr amserlen a nodwyd. Os mai aneddiadau sydd eisoes wedi derbyn eu lefelau twf a ddosrannwyd yw'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy ar gyfer datblygu, yna dylai'r Cyngor gefnogi'r ddarpariaeth bellach o dwf yn yr aneddiadau hyn. Mae Adroddiad Adolygu hefyd yn nodi y bydd angen i'r Cynllun Diwygiedig ystyried addasrwydd dynodiadau tai. Mae'n hanfodol sicrhau y gellir cyflawni dynodiadau tai a bod capasiti safleoedd yn cael eu llywio gan asesiadau technegol manwl sy'n ystyried yn gywir am gyfyngiadau safle.	<p>Dderbyniwyd yn Rhannol Cydnabyddir y gellid dehongli'r ail frawddeg ym mharagraff 3.80 o adroddiad yr Adolygiad Drafft bod angen adolygiad o'r ffigwr tai oherwydd nad yw'r cynllun yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig o dwf. Mae adran Gofyniad Tai Polisi Cynllunio Cymru (PCC) (paragraffau 4.2.3 i 4.2.9) yn amlinellu'r materion y mae angen eu hystyried mewn perthynas â'r lefel twf a gynhwysir mewn cynllun datblygu. Mae gweddill y rhannau o baragraff 3.80 yn mynd i'r afael â'r materion hyn, fodd bynnag, i sicrhau cyflawnrwydd mae cyfeiriad at Bolisi Cynllunio Cymru wedi'i gynnwys yn y paragraff.</p> <p>Bydd galwad am safleoedd fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig yn cael ei chynnal a bydd addasrwydd unrhyw safleoedd yn cael ei asesu o dan y broses hon.</p> <p>Argymhelliad Yng ngoleuni hyn, argymhellir dileu'r ail frawddeg o fewn paragraff 3.80 fel y dangosir isod:</p> <p>3.80 Nid yw'r lefel datblygu blynyddol wedi cwrdd â'r ffigwr cyfatebol yn y taflwybr tai'r un flwyddyn ers mabwysiadu'r Cynllun ac mae ond wedi cwrdd â'r ffigwr datblygu cyfartalog</p>

Enw a Sefydliad	Cyf Person	Cyf Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
			Yng ngoleuni'r uchod, ystyrir bod y tir gyferbyn ag Ysbyty Tywyn yn safle addas iawn i'w ddyrannu ar gyfer datblygiad preswyl drwy'r Cynllun Diwygiedig.	unwaith yn unig (yn 2018/19). Credir felly bod angen ail-edrych ar y ffigwr twf er mwyn ystyried pa mor addas ydyw gan edrych hefyd ar y dull o sefydlu'r ffigwr hwn. Dylid ystyried os yw'r rhesymeg a'r gwahanol elfennau oedd ynghlwm a sefydlu'r ffigwr twf yn parhau'n addas gan asesu hefyd os oes agweddau o'r newydd sydd angen eu hystyried yn ogystal. Byddai'n bwysig ymgymryd â'r gwaith hwn yng nghyd-destun gofynion y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3, Mawrth 2020) <u>a PCC (Argraffiad 11 Chwe 2021)</u> , o safbwynt ystyried agweddau megis, er enghraifft, yr amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd diweddaraf, cyfraddau datblygu'r gorffennol, patrymau mudo ac ystyriaethau mewn perthynas â'r iaith Gymraeg. Byddai'n bwysig hefyd ystyried dylanwad y Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru fel hybryd yng Nghymru'r Dyfodol.
Gareth Thomas, Cyfloeth Naturiol Cymru (CNC)	24	24/3a	Nodwn ym mharagraff 3.30 o'r Adroddiad Adolygu drafft y bydd angen ystyried y TAN 15 diwygiedig fel rhan o broses y Cynllun. Cytunwn â'r datganiad hwn ond byddem hefyd yn cynghori y bydd angen Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol (SFCA) wedi'i ddiweddarau/Diwygiedig, neu dylid rhoi cyfiawnhad clir ynghylch pam nad oes angen SFCA wedi'i ddiweddarau/Diwygiedig. Rydym yn eich cyfeirio at lythyr y Gweinidog dros Newid yn yr Hinsawdd dyddiedig 23 Tachwedd 2021, sy'n nodi y dylai'r SFCA gael ei lywio gan y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio. Rydym hefyd yn eich cyfeirio at y llythyr gan Brif Gynllunydd Llywodraeth Cymru (dyddiedig 15 Rhagfyr 2021).	Noder y Sylw Bydd rhaid diweddarau'r asesiadau canlyniadau llifogydd strategol fel rhan o sail tystiolaeth y cynllun diwygiedig. Bydd y dystiolaeth yn seiliedig ar y canllawiau polisi cynllunio cenedlaethol perthnasol ar adeg ysgrifennu'r dystiolaeth. Mae dyddiad mabwysiadu'r TAN 15 diwygiedig wedi'i ohirio tan ganol 2023. Bydd yr Adroddiad yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r sylw hwn Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma
Gareth Thomas, Cyfloeth Naturiol Cymru (CNC)	24	24/3b	Mae Adran 3.3-3.41 yn trafod ynni adnewyddadwy, er bod Morlais a chynlluniau ynni adnewyddadwy eraill ar y môr y tu allan i'r JLDP, mae'r seilwaith sy'n cysylltu â'r grid yn berthnasol ac wedi'i gynnwys mewn ystyriaethau cynllunio a dylid ei grybwyll yma.	Noder y Sylw Mae paragraff 3.33 yn cyfeirio tuag at Technoleg Ynni Adnewyddadwy a Carbon Isel Arall. Fe fydd ystyriaeth bellach i'r materion a godwyd yn y sylw yn cael ei roddi wrth i'r broses o lunio'r Cynllun fynd rhagddi

Enw a Sefydliad	Cyf Person	Cyf Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
				<p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
Gareth Thomas, Cyfloeth Naturiol Cymru (CNC)	24	24/3c	3.42 – 3.46 – Rheoli Newid Arfordirol – rydym yn croesawu'r gydnabyddiaeth o rôl Cynlluniau Rheoli Traethlin yn yr adran hon i gefnogi penderfyniadau rheoli arfordirol cynaliadwy, gan gydnabod yn arbennig yr angen am ardaloedd rheoli newid arfordirol. Mae Adran 3.46 yn nodi, ers mabwysiadu'r JLDP, na fu unrhyw adolygiad o'r Cynllun Rheoli Traethlin yng nghyfnod y cynllun. Rydym yn argymhell y dylid trafod prosiect Rheoli Traethlin www.gov.uk www.gov.uk www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk yma a gwirio a wnaed unrhyw sylwadau arwyddocaol yn ystod yr adolygiad hwn	<p>Derbyn y sylw Ychwanegu cyfeiriad tuag at archwiliad iechyd diweddar o'r Cynllun Rheoli Traethlin (CRhT) yn yr Adroddiad Adolygu.</p> <p>Argymhelliad Cynnwys newidiadau i pharagraff 3.46 fel a ddangosir isod:</p> <p>Nid oes yna adolygiad o'r Cynllun Rheoli Traethlin (SMP) 2 wedi cynnal yn y cyfnod ers mabwysiadu'r CDLI ar y Cyd <u>ond mae phrosiect adnewyddu ac archwiliad iechyd yn cael eu cynnal ar hyn o bryd. Bydd unrhyw newidiadau i'r CRhT yn dilyn y prosiect adnewyddu yn rhan bwysig o sail tystiolaeth y Cynllun Diwygiedig i lywio unrhyw bolisiau yn y dyfodol.</u> a chan hynny mae'r arweiniad a gynhwysir yn y ddogfen hynny sydd wedi ei ymgorffori o fewn y CDLI ar y Cyd yn parhau i fod yn gyfredol.</p> <p>Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, bellach mae yna fwy o bwyslais ar Awdurdodau Lleol i fod yn ymgorffori ac yn gweithredu ar yr arweiniad a gynhwysir yn y Cynllun Rheoli Traethlin, gan hynny fe fydd yn briodol sicrhau fod y Polisi perthnasol a gynhwysir yn y CDLI ar y Cyd (Polisi ARNA 1: Ardal Rheoli Newid Arfordirol) yn cyd-fynd gyda'r arweiniad Polisi Cynllunio Cenedlaethol.</p>
Alwyn Gruffydd	26	26/3	Dylid mynnu fod y Gymraeg yn amod cynllunio. Hynny yw dylid caniatáu datblygiadau os y gellir sicrhau drwy amod. Mae'n digwydd mewn gwledydd eraill yna pam na ellid mabwysiadu'r un gyfundrefn yma.	<p>Noder y Sylw Mae'r iaith Gymraeg yn gael ei gyfarch ym mharagraffau 3.9 i 3.12 o'r adroddiad. Yn unol â Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 mae'n ddyletswydd wrth wneud penderfyniad ar gais cynllunio i roi ystyriaeth i'r iaith Gymraeg. Ategir hyn ymhellach gan bara 3.25 o Bolisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11, Chwe 2021) ynghyd a Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (2017). Fodd bynnag nid bwriad yr Adroddiad Adolygu ydy manylu ar amodau cynllunio penodol.</p>

Enw a Sefydliad	Cyf Person	Cyf Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
				<p>Mae gwahaniaethu ar sail ieithyddol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio fodd bynnag yn mynd tu hwnt i rym y weithdrefn gynllunio fel nodir ym mharagraff 2.6.4 o NCT20: "Rhaid gofalu nad yw polisïau'r CDLI yn gwahaniaethu yn erbyn unigolion ar sail eu gallu ieithyddol. Rhaid i bolisïau cynllunio beidio â cheisio rheoli pwy sy'n byw mewn tŷ ar sail ieithyddol."</p> <p>Gwneir Asesiad Datganiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg i asesu'r Cynllun Diwygiedig.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
Eva Stevens	31	31/3	Sefyllfa a buddsoddiad Tywyn %	<p>Noder y Sylw Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fe fydd angen ail-ymweld ac amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisïau'r Cynllun a bydd y materion a godwyd o ran statws Tywyn yn y sylw yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sail tystiolaeth.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
Nina Bentley	34	34/3	Rydym angen effaith amgylcheddol i fod yn ganolbwynt, y rhesymeg canolog yr holl bolisi a'r holl ddatblygiadau, ac mae arnom angen mwy o atebolrwydd grŵp o fewn a thu allan i gynllunio	<p>Noder y Sylw Mae pwysigrwydd yr amgylchedd yn rhedeg trwy'r adroddiad adolygu. Mae polisi cenedlaethol a lleol yn datgan bod diogelu'r amgylchedd yn angenrheidiol wrth ddelio ag unrhyw gais cynllunio. Fe fydd ystyriaeth bellach i'r materion hyn yn cael ei roddi wrth i'r broses o lunio'r Cynllun diwygiedig fynd rhagddi.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
Noel Davey,	35	35/3a	Effaith gronno - Mae'n ofynnol gwneud penderfyniadau cynllunio ar rinweddau ceisiadau unigol ar wahân ac nid ydynt	<p>Noder y Sylw</p>

Enw a Sefydliad	Cyf Person	Cyf Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
Ymgyrch Diogelu Cymru Gwledig			fel arfer yn ystyried effaith gronol caniatâd ar gyfer datblygiadau olynol o fath tebyg, er bod cynsail yn cael ei nodi'n eang mewn cefnogaeth mewn tystiolaeth mewn ceisiadau ac apeliadau. Dim ond yn rhy hwyr i atal y difrod cronol y daw effaith andwyol, yn enwedig ar y dirwedd. Cydnabuwyd hyn i ryw raddau mewn canllawiau ar gyfer safleoedd carafannau (TWR3/5) ac ynni adnewyddadwy (ADN1/2) a thrwy sensitifrwydd tirwedd ac astudiaethau capasiti. Dylai ystyried effeithiau cronol posibl fod yn ofyniad mwy cyffredinol ar gyfer yr holl ddatblygiadau perthnasol, gan gynnwys, er enghraifft, ailadeiladu tai. Gellid ei ymgorffori yn y polisiau datblygu cynaliadwy cyffredinol (ee PCYFF 3) yn ogystal ag mewn polisiau mwy penodol.	Cytuno bod effaith gronol unrhyw ddatblygiad yn fater pwysig. Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fe fydd angen ail-ymweld ac amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisïau'r Cynllun a bydd y materion a godwyd yn y sylw o ran yr effaith gronol o ddatblygiadau yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sail tystiolaeth. Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma
Noel Davey, Ymgyrch Diogelu Cymru Gwledig	35	35/3b	Polisiau Datblygu Cynaliadwy - Mae'r polisiau cyffredinol sy'n gofyn am gysondeb ag egwyddorion datblygu cynaliadwy (yn enwedig PCYFF 2,3,4) yn berthnasol i'r rhan fwyaf o ddatblygiadau cynllunio. Mae gan y rhain rywfaint o amwys a goddrychedd anochel. Maent yn disodli'r nifer fwy o bolisiau mwy rhagnodol a gymhwysir mewn CDLlau blaenorol i fathau penodol o ddatblygiad. Ymddengys i ni eu bod yn cyflwyno elfen o fympwyol mewn rhai penderfyniadau mewn meysydd lle byddai polisi mwy rhagnodol yn gadael ymgeiswyr a'r swyddfa gynllunio mewn sefyllfa gliriach. (Cyf: Adolygiad Drafft 3.31-3.32)	Noder y Sylw Er nad dim bwriad y Adroddiad Adolygu yw manylu ar unrhyw newidiadau fydd yn cael ei gwneud i'r Cynllun, fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fe fydd angen ail-ymweld ac amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisïau'r Cynllun a bydd y materion a godwyd yn y sylw yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sail tystiolaeth. Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma
Noel Davey, Ymgyrch Diogelu Cymru Gwledig	35	35/3c	Mae rheoli graddfa'r tŷ (ail gartref) yn ailadeiladu o fewn a thu allan i ffiniau datblygu aneddiadau - mae TAI 5 yn cyfyngu ar dai newydd mewn pentrefi lleol, gwledig ac arfordirol penodol i angen lleol/fforddiadwy ac o ran y maint mwyaf. Mae TAI 6 yn cyfyngu ar dai newydd mewn clystyrau gwledig i angen fforddiadwy a maint priodol. Mae TAI 13 yn nodi (#7) y dylai anheddau newydd (ailadeiladu) y tu allan i ffiniau datblygu fod o raddfa, maint ac ôl troed tebyg i'r annedd wreiddiol. Mae AT3 yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau o asedau treftadaeth sylweddol nad ydynt wedi'u dynodi gael eu trin yn briodol. Nid yw'r polisiau hyn yn rhoi rheolaeth ddigonol ar raddfa, uchder, masio, dylunio ac ati priodol: *Tai newydd o fewn ffiniau	Noder y Sylw Er nad dim bwriad y Adroddiad Adolygu yw manylu ar unrhyw newidiadau fydd yn cael ei gwneud i'r Cynllun, fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fe fydd angen ail-ymweld ac amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisïau'r Cynllun a bydd y materion a godwyd yn y sylw o ran graddfa tai yn ardal y Cynllun yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sail tystiolaeth. Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma

Enw a Sefydliad	Cyf Person	Cyf Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
			datblygu *Estyniadau i dai o fewn a thu allan i ffiniau datblygu. Caniateir datblygiadau amhriodol gydag effaith weledol andwyol ym marn llawer, yn enwedig yn achos ailadeiladu ac estyniadau yn y cartref gwyliau gan nad oes polisiâu digon cadarn, clir a chyson yn berthnasol. Mae annhegwch canfyddedig rhwng y terfynau maint llym a gymhwysir at adeiladau newydd fforddiadwy/lleol a diystyru'n aml derfynau priodol ar ailadeiladu ac estyniadau tai marchnad agored. (Cyf Adolygiad Drafft: 3.86-3.88, 3.94, 3.113)	
Noel Davey, Ymgyrch Diogelu Cymru Gwledig	35	35/3ch	Polisiâu, monitro a gorfodi safleoedd carafanau - Mae safleoedd carafanau teithiol yn gweithredu'n eang fel safleoedd 'statig' tymhorol, gan anwybyddu'r gofyniad yn TWR5 y dylid symud teithwyr o'r safle pan nad ydynt yn cael eu defnyddio (ac nid yn y gaeaf yn unig) a bod ganddynt gysylltiad corfforol cyfyngedig â'r ddaear. Dylai ystyr a bwriad y polisi fod yn gliriach. Nid yw'r CDLI ar y Cyd yn gwneud fawr ddim i annog pobl i beidio â chael tuedd i garafanau teithiol i forio i unedau statig. Ymddengys nad yw capasiti presennol gwasanaeth cynllunio Gwynedd yn ddigonol i fonitro safleoedd carafanau a gorfodi polisiâu'n effeithiol. Mae'n amheus a ellir trin safleoedd llety/unedau glampio amgen yn ddigonol o dan yr un polisiâu â safleoedd carafanau. (Cyf: Adolygiad Drafft 3.69)	<p>Noder y Sylw Nid yw polisi TWR 5 yn berthnasol i safleoedd carafanau presennol sydd wedi cael caniatâd cynllunio o dan bolisi blaenorol.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
Noel Davey, Ymgyrch Diogelu Cymru Gwledig	35	35/3d	Rheoli cartrefi ail/gwyliau yn effeithiol - Mae lledaeniad ail gartrefi a chartrefi gwyliau yn amlwg allan o reolaeth mewn rhai manau lle ceir problemau arfordirol/gwyliau. Rydym yn rhannu'r pryderon hyn. Mae'n amlwg nad yw'r polisiâu presennol yn gweithio. Cydnabyddir bod angen adolygu. Bydd angen iddo fod yng nghyd-destun ymgynghoriad a chamau gweithredu eraill y Cyngor a Llywodraeth Cymru. (Cyf: Adolygiad Drafft 2.92-2.94, 3.86-3.87).	<p>Noder y Sylw Mae rheoli niferoedd tai haf a llety gwyliau yn fater pwysig. Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fe fydd angen ail-ymweld ac amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisiâu'r Cynllun a bydd y materion a godwyd yn y sylw yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sail tystiolaeth.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
Shaun Denny	36	36/3	Mae'r cyfeiriad at y Datganiad Technegol Rhanbarthol, yr 2il Adolygiad yn cael ei nodi a'i groesawu. Mae gan y ffigurau a ddefnyddir yn yr RTS linell sylfaen o 2016 ac efallai y bydd angen eu hadolygu er mwyn sicrhau faint o fwynau a weithir ers 2016 ac unrhyw ddyheadau diwygiedig o'r cynllun gan y gallai'r	<p>Noder y Sylw Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fe fydd angen ail-ymweld ac amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisiâu mwynau y Cynllun a bydd y materion a godwyd yn y sylw yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sail tystiolaeth. Bydd y sail</p>

Enw a Sefydliad	Cyf Person	Cyf Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
			<p>rhain yn eu tro effeithio ar y galw am ddeunyddiau adeiladu. Gall hyn gael effaith ganlyniadol ar yr angen am gronfeydd mwynau ychwanegol ac ar ddiogelu adnoddau mwynau. Mae angen i'r Cynllun gael ei gefnogi gan sylfaen dystiolaeth gadarn, gan gynnwys adroddiadau blynyddol gan NWRAP.</p> <p>Mae'r adroddiad yn cyfeirio at Ddatganiad o gydweithio is-ranbarthol. Nid yw'r Cwmni'n ymwybodol bod dogfen o'r fath wedi'i pharatoi. Byddai angen i'r RAWP ystyried hyn a dylai hefyd fod ar gael i'r cyhoedd os yw am fod yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer polisi sy'n datblygu.</p>	<p>tystiolaeth yn cael ei hysbysu gyda'r wybodaeth fwyaf diweddar sydd ar gael ar y pryd.</p> <p>O ran y sylw ar y datganiad Isranbarthol, mae'r Adroddiad Adolygiad ym mharagraff 3.118 yn nodi'r gofyniad i Awdurdodau Mwynau Lleol gydweithio. Mae ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i'r gofyniad am Ddatganiad Is-ranbarthol o gydweithio.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
Rhys Tudur Cyngor Tref Nefyn	39	39/3a	<p>(i) Adolygu'r effeithiolrwydd Polisi Strategol 1 a'i addasu nes bod strategaeth i atal cwmp mewn siaradwyr mewn wardiau. Angen adolygu pa mor dda mae polisiâu strategol yn hybu'r iaith er mwyn sicrhau bod pob datblygiad yn berthynol i'r iaith a'r diwylliant lleol ac y gellir gwrthod pob datblygiad sy'n niweidiol ac yn amherthynol i'r iaith a diwylliant.</p>	<p>Noder y Sylw Er nad dim bwriad y Adroddiad Adolygu yw manylu ar unrhyw newidiadau fydd yn cael ei gwneud i'r Cynllun, fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fe fydd angen ail-ymweld ac amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisiâu'r Cynllun a bydd y materion a godwyd yn y sylw o ran effeithiolrwydd Polisi PS 1 yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r Cynllun</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
Rhys Tudur Cyngor Tref Nefyn	39	39/3b	<p>(ii) Mae angen adolygu'r methiant sydd yn cyfarch y strategaeth o gryfhau wardiau efo 70% o siaradwyr Cymraeg.</p>	<p>Noder y Sylw Bydd y broses o paratoi'r Cynllun Diwygiedig yn cynnwys ail asesu'r sail dystiolaeth cyfredol fydd yn cynnwys canlyniadau Cyfrifiad 2021. Golyga hyn y gellir ystyried newidiadau mewn % siaradwyr Cymraeg o fewn Wardiau ac felly os yw polisiâu'r Cynllun wedi cyfrannu i greu mwy o gymunedau gyda chanran uwch na 70% o siaradwyr Cymraeg yn unol gyda amcan strategol y Cynllun. Fydd angen ail-ymweld ag amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisiâu'r Cynllun a bydd y materion a godwyd yn y sylw yn cael ei hystyried wrth ddiwygio'r Cynllun.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>

Enw a Sefydliad	Cyf Person	Cyf Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
Rhys Tudur Cyngor Tref Nefyn	39	39/3c	(iii) Angen adolygu sut yr ymdrinir a gordwristiaeth a chael polisiau penodol ar eu cyfer.	<p>Noder y Sylw Mae twristiaeth yn ddiwydiant pwysig yn ardal y cynllun ac yn cael ei gyfarch yn mharagraffau 3.63-3.71 o'r Adroddiad Adolygu. Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fe fydd angen ail-ymweld ac amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisiau twristiaeth y Cynllun a bydd y materion a godwyd yn y sylw yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sail tystiolaeth.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
Rhys Tudur Cyngor Tref Nefyn	39	39/3ch	(iv) Mae angen adolygu effeithiolrwydd adroddiadau iaith gan wneud asesiad o ba mor gywir ydynt wedi bod hyd yma.	<p>Noder y Sylw Bydd y broses o paratoi'r Cynllun Diwygiedig bydd cyfle i asesu'r holl sail tystiolaeth ynglŷn â materion ieithyddol gan gynnwys asesiadau ac datganiadau ieithyddol.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
Rhys Tudur Cyngor Tref Nefyn	39	39/3d	(v) Mae angen adolygu polisi TAI 5 i'w wneud yn fwy effeithiol gyda'r golwg i'w i warchod Cymunedau Cymraeg eu iaith.	<p>Noder y Sylw Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fe fydd angen diweddarau'r sail tystiolaeth, sydd yn rhoi'r sylfaen i'r Cynllun. Bydd hyn yn cynnwys ail-ymweld ag Ardaloedd Tai Farchnad Leol, felly bydd y materion a godwyd yn y sylw yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sail tystiolaeth.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
Rhys Tudur Cyngor Tref Nefyn	39	39/3dd	(vi) Mae angen strategaeth i sicrhau bod datblygiadau newydd yn nwylo pobl leol fel bod pob un gydag amod prif breswylfa.	<p>Noder y Sylw Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fe fydd angen diweddarau'r sail tystiolaeth, sydd yn rhoi'r sylfaen i'r Cynllun. Bydd yn rhaid ystyried sut bydd unedau i gyfarch anghenion lleol yn cael ei cyfyngu i'r pwrpas yma.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>

Enw a Sefydliad	Cyf Person	Cyf Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
Gruffydd Williams	40	40/3a	Ymestyn Polisi Tai 5 drwy Wynedd gyfan Dynodi Gwynedd gyfan yn " ardal sensetifrwydd ieithyddol " Yr hawl i wrthod unrhyw ddatblygiad a fydd yn neweidiol i'r laith Cymraeg	Noder y Sylw Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fe fydd angen diweddarau'r sail tystiolaeth, sydd yn rhoi'r sylfaen i'r Cynllun. Bydd hyn yn cynnwys ail-ymweld ag Ardaloedd Tai Farchnad Leol, felly bydd y materion a godwyd yn y sylw yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sail tystiolaeth. Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma
Gruffydd Williams	40	40/3b	Mabwysiadu Polisi 7 Parc Eryri ar gyfer gwarchod tai ac adeiladau traddodiadol yn yr AHNE . Cyfyngu maint llorweddol i estyniadau anheddau fel ei fod yn adlewyrchu gofynion y niferoedd sydd yn byw yn yr eiddo . Ni ddylid rhoi caniatâd am estyniad i ail gartrefi / tai haf	Noder y Sylw Nid bwriad yr Adroddiad Adolygu yw manylu ar unrhyw newidiadau fydd yn cael eu gwneud i'r Cynllun. Bydd ystyriaeth yn cael ei roddi i'r mater a godwyd fel rhan o'r broses o baratoi'r CDLI ar y Cyd Diwygiedig. Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma
Gruffydd Williams	40	40/3c	Ehangu maint llorweddol tai fforddiadwy fel eu bod yn fwy addas ar gyfer diwallu anghenion bywyd modern. Darparu fwy o blotiau ar gyfer Cynllun Hunan Adeiladu Cymru a datrys yr anghydfod parthed Cytundeb 106 yng nghyd destyn fod Banc Cymru ddim yn gallu ariannu Hunan Adeiladu ar safle cytundeb 106	Noder y Sylw Nid bwriad yr Adroddiad Adolygu yw manylu ar unrhyw newidiadau fydd yn cael eu gwneud i'r Cynllun. Bydd ystyriaeth yn cael ei roddi i'r mater a godwyd fel rhan o'r broses o baratoi'r CDLI ar y Cyd Diwygiedig. Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma
Gruffydd Williams	40	40/3ch	Ychwanegu'r hawl i drosi beudai yn dai annedd Amod 106 . Mae hwn yn bodoli yn Lloegr o dan Permitted Development Rights a'r Localism Act	Noder y Sylw Nid bwriad yr Adroddiad Adolygu yw manylu ar unrhyw newidiadau fydd yn cael eu gwneud i'r Cynllun. Bydd ystyriaeth yn cael ei roddi i'r mater a godwyd fel rhan o'r broses o baratoi'r CDLI ar y Cyd Diwygiedig. Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma

Enw a Sefydliad	Cyf Person	Cyf Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
Wendy Jakeman	44	44/3	Oes, addysg a hyfforddiant, sgiliau, crefftau a diwylliant. Mwy o gyfleoedd cymdeithasol nad ydynt yn cynnwys alcohol. Mwy o gyfleoedd ar gyfer cerddoriaeth fyw.	<p>Noder y Sylw Nid bwriad yr Adroddiad Adolygu yw manylu ar unrhyw newidiadau fydd yn cael eu gwneud i'r Cynllun. Bydd ystyriaeth yn cael ei roddi i'r mater a godwyd fel rhan o'r broses o baratoi'r CDLI ar y Cyd Diwygiedig.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
Dafydd Ioan Hughes	46	46/3	Mae paragraff 3.8 cyferio at gwerthoedd diwylliannol dylid nodi'r glir beth yw diffiniad Cyngor Gwynedd o 'werthoedd diwylliannol' cymunedau Cymreig yr ardal, a dangos sut y bwriedir gwarchod y gwerthoedd diwylliannol hynny	<p>Noder y Sylw Nid bwriad yr Adroddiad Adolygu yw manylu ar unrhyw newidiadau fydd yn cael eu gwneud i'r Cynllun. Bydd ystyriaeth yn cael ei roddi i'r mater a godwyd fel rhan o'r broses o baratoi'r CDLI ar y Cyd Diwygiedig.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
Park Leisure Ltd d/o Litchfields	23	23/3a	Dylid cydnabod twristiaeth yn gadarnhaol o fewn y weledigaeth a'r amcanion strategol yn y cynllun newydd oherwydd ei gyfraniad sylweddol i'r economi leol a chymorth polisi cynllunio cenedlaethol i'r diwydiant twristiaeth. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn darparu cymorth i'r diwydiant twristiaeth o fewn y nodau Llesiant, mae parciau gwyliau sefydledig yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn darparu cyfleoedd cyflogaeth sylweddol i bobl leol, sydd yn ei dro yn caniatáu i bobl leol fyw'n lleol ac i'r Gymraeg fod yn rhan allweddol o fywyd o ddydd i ddydd. Mae Polisi Cynllunio Cymru hefyd yn cydnabod bod angen arallgyfeirio'r economi wledig, gan sicrhau ei bod yn wydn newid ac yn addas ar gyfer y dyfodol, mae Adeiladu Mannau Gwell (Gorffennaf 2020), sy'n eistedd ochr yn ochr â Pholisi Cynllunio Cymru, hefyd yn tynnu sylw at y gwerth a osodir gan Lywodraeth Cymru ar y diwydiant twristiaeth a'r angen i gefnogi ei hadferiad yn dilyn pandemig Covid-19	<p>Noder y Sylw Mae twristiaeth yn ddiwydiant pwysig yn ardal y cynllun ac yn cael ei gyfarch yn mharagraffau 3.63-3.71 o'r Adroddiad Adolygu. Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fe fydd angen ail-ymweld ac amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisïau twristiaeth Cynllun a bydd y materion a godwyd yn y sylw yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sail tystiolaeth.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
Park Leisure Ltd d/o Litchfields	23	23/3b	Dylai'r dyhead i Ynys Môn a Gwynedd fod yn fannau lle mae pobl yn dewis ymweld gael eu dwyn ymlaen o fewn gweledigaeth y CDLI Diwygiedig er mwyn adlewyrchu'r duedd o wyliau domestig ac i gyd-fynd â pholisi cenedlaethol.	<p>Noder y Sylw Mae twristiaeth yn ddiwydiant pwysig yn ardal y cynllun ac yn cael ei gyfarch yn mharagraffau 3.63-3.71 o'r Adroddiad Adolygu. Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fe</p>

Enw a Sefydliad	Cyf Person	Cyf Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
				fydd angen ail-ymweld ac amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisïau twristiaeth Cynllun a bydd y materion a godwyd yn y sylw yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sail tystiolaeth. Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma
Park Leisure Ltd d/o Litchfields	23	23/3c	Yn unol â pholisi cenedlaethol, dylid parhau â'r amcanion o arallgyfeirio'r economi wledig, gan adeiladu ar gyfleoedd, creu cyflogaeth a rheoli'r ardal fel cyrchfan i dwristiaid sy'n diwallu anghenion presennol ac sy'n darparu manteision drwy gydol y flwyddyn o fewn amcanion strategol y CDLI Diwygiedig	Noder y sylw Mae twristiaeth yn ddiwydiant pwysig yn ardal y cynllun ac yn cael ei gyfarch yn mharagraffau 3.63-3.71 o'r Adroddiad Adolygu. Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fe fydd angen ail-ymweld ac amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisïau twristiaeth Cynllun a bydd y materion a godwyd yn y sylw yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sail tystiolaeth. Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma
Park Leisure Ltd d/o Litchfields	23	23/3ch	Dylai'r CDLI diwygiedig nodi newid hinsawdd fel her hollbwysig a chefnogi cynnydd cynaliadwy, gan ddarparu fframwaith priodol hefyd i alluogi datblygiad a fydd yn cyflawni gweledigaeth ac amcanion newydd y Cynghorau. Yn benodol, dylai'r fframwaith hwn gynnwys polisiau sy'n chefnogi cyfleoedd ar gyfer datblygiad cynaliadwy gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â thwristiaeth ddomestig yn y DU. Bydd sector twristiaeth deniadol yng Nghymru yn hanfodol i annog gwyliau domestig. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i'r LP annog buddsoddiad gan amrywiaeth o gwmnïau	Noder y Sylw Mae newid hinsawdd yn cael ei gyfarch ym mharagraffau 2.59 i 2.62 o'r adroddiad. Fe fydd ystyriaeth bellach i'r materion hyn yn cael ei roddi wrth i'r broses o lunio'r Cynllun diwygiedig fynd rhagddi. Mae twristiaeth yn ddiwydiant pwysig yn ardal y cynllun ac yn cael ei gyfarch yn mharagraffau 3.63-3.71 o'r Adroddiad Adolygu. Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fe fydd angen ail-ymweld ac amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisïau twristiaeth Cynllun a bydd y materion a godwyd yn y sylw yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sail tystiolaeth. Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma

Enw a Sefydliad	Cyf Person	Cyf Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
Park Leisure Ltd d/o Litchfields	23	23/3d	Dylai'r CDLI diwygiedig ddarparu cyfleoedd i ddarparu seilwaith ynni adnewyddadwy mewn mannau priodol. Dylai unrhyw bolisi yn y dyfodol ar gynhyrchu ynni adnewyddadwy ddarparu diogelwch amwynder digonol ar gyfer defnyddiau sensitif, gan gynnwys llety i ymwelwyr a charafannau sefydlog, yn erbyn effeithiau andwyol annerbyniol cynhyrchu ynni adnewyddadwy, a allai arwain at ganlyniadau anfwriadol i'r economi ymwelwyr	<p>Noder y Sylw Mae'r materion a gyfeirir ato gan y sylwebydd wedi cael ei gyfarch mewn rhannau penodol o'r Adroddiad Adolygu.</p> <p>- Ynni adnewyddol, para 3.33 - 3.41</p> <p>- Twristiaeth, para 3.63 - 3.71</p> <p>Fe fydd ystyriaeth bellach i'r materion hyn yn cael ei roddi wrth i'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fynd rhagddi.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
Park Leisure Ltd d/o Litchfields	23	23/3dd	Cytuno bod tuedd gynyddol ar gyfer gwyliau domestig o ganlyniad i bandemig Covid a Brexit. Hyd yn oed wrth leddfu'r cyfyngiadau yn y flwyddyn(au) i ddod, nid yw'r gyrwyr ar gyfer mwy o "arosiadau" yn debygol o wanhau. Mae awdurdodau yng Nghymru yn adolygu sut maen nhw'n denu gwariant pwysig i ymwelwyr i gefnogi eu heconomiâu. Mae hyn yn cynnwys cefnogi busnesau i ddarparu a chynnal cyfleusterau twristiaeth o ansawdd uchel. Bydd methu â darparu fframwaith polisi cadarnhaol yn arwain at gwmnïau'n buddsoddi mewn mannau eraill ac yn eu tro mae twristiaid yn dewis cyrchfannau amgen.	<p>Noder y Sylw Mae twristiaeth yn ddiwydiant pwysig yn ardal y cynllun ac yn cael ei gyfarch yn mharagraffau 3.63-3.71 o'r Adroddiad Adolygu. Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fe fydd angen ail-ymweld ac amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisiau twristiaeth Cynllun a bydd y materion a godwyd yn y sylw yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sail tystiolaeth.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
Park Leisure Ltd d/o Litchfields	23	23/3e	Dylai'r CDLI diwygiedig fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a ddarperir gan y diwydiant twristiaeth er budd yr economi leol, gan gynnwys cymorth ar gyfer cynnydd net mewn unedau a newidiadau i fathau o leiniau. Nid yw'r polisi cyfyngol presennol yn caniatáu ar gyfer datblygiadau sydd wedi'u llunio'n dda o fewn ardaloedd o sensitifrwydd tirwedd (CLG ac AHNE). Er mai amgylchoedd hardd Gwynedd ac Ynys Môn yw un o'r prif luniau i ymwelwyr, ni ddylai hyn olygu bod yn rhaid i unrhyw ddynodiadau tirwedd arwain at waharddiad cyffredinol o unedau ychwanegol. Yn ddiaw, bydd enghreifftiau o ble y gellid datblygu o'r fath heb unrhyw effeithiau andwyol annerbyniol ar y dynodiadau hynny, yn enwedig lle mae cyfleoedd i strategaethau lliniaru a gwella wella cyd-destun	<p>Noder y Sylw Mae twristiaeth yn ddiwydiant pwysig yn ardal y cynllun ac yn cael ei gyfarch yn mharagraffau 3.63-3.71 o'r Adroddiad Adolygu. Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fe fydd angen ail-ymweld ac amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisiau twristiaeth Cynllun a bydd y materion a godwyd yn y sylw yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sail tystiolaeth.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>

Enw a Sefydliad	Cyf Person	Cyf Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
			presennol y safle. Mae'n ymddangos bod y dull polisi presennol yn mygu cyfleoedd ar gyfer datblygu cynaliadwy o ansawdd uchel. Yn hytrach, dylid llunio polisi mewn ffordd a all ddod â manteision ehangach i Wynedd ac Ynys Môn. Dylid defnyddio dull cadarnhaol hefyd i safleoedd y tu allan i ardaloedd sy'n sensitif i'r dirwedd. Ni ddylai'r polisi yn y CDLI newydd osod cyfyngiad na chyfyngiad cyffredinol ar niferoedd unedau. Yn hytrach, dylai'r fframwaith polisi nodi'r meini prawf y mae angen eu hystyried wrth gynnig a phenderfynu ar geisiadau cynllunio i'w datblygu mewn parciau gwyliau. Efallai y bydd cyfyngiadau ar y safle sy'n arwain at gynnydd cyfyngedig yn nifer yr unedau yn unig, ond dylai hyn fod o ganlyniad i asesiad priodol o'r safle ac nid man cychwyn.	
Park Leisure Ltd d/o Litchfields	23	23/3f	Gallai pryderon y Cynghorau ynghylch prynu tai ar gyfer ail gartrefi / tai gwyliau gael eu dymheru gan ddarparu mwy o lety ar barciau gwyliau. Mae galw sylweddol ar berchnogion i brynu carafanau i'w defnyddio yn ystod y gwyliau ym mhob un o barciau Haven, a lle na all Haven ddarparu manau neu os ydynt yn prynu anheddau i ddiwallu'r angen am dwll bollt penwythnos. Mae cyfleoedd yn y CDLI sy'n dod i'r amlwg i ystyried y materion hyn gyda'i gilydd ac i ddod o hyd i atebion cadarnhaol.	<p>Noder y Sylw Mae twristiaeth yn ddiwydiant pwysig yn ardal y cynllun ac yn cael ei gyfarch yn mharagraffau 3.63-3.71 o'r Adroddiad Adolygu. Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fe fydd angen ail-ymweld ac amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisïau twristiaeth Cynllun a bydd y materion a godwyd yn y sylw yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sail tystiolaeth.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
Park Leisure Ltd d/o Litchfields	23	23/3ff	Bydd diweddarau'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer darpariaeth llety i dwristiaid fod yn rhan allweddol o'r CDLI Diwygiedig. Mae cwmpas yr adolygiad a nodir ym mharagraff 4.3 yn canolbwyntio'n ormodol ar negyddion y diwydiant twristiaeth, yn hytrach na chydabod ei bwysigrwydd a nodi ffyrdd y gall gweithredwyr gwyliau helpu'r Cynghorau i gyflawni amcanion ehangach y CDLI	<p>Noder y Sylw Mae twristiaeth yn ddiwydiant pwysig yn ardal y cynllun ac yn cael ei gyfarch yn mharagraffau 3.63-3.71 o'r Adroddiad Adolygu. Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fe fydd angen ail-ymweld ac amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisïau twristiaeth Cynllun a bydd y materion a godwyd yn y sylw yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sail tystiolaeth.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>

Enw a Sefydliad	Cyf Person	Cyf Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
Park Leisure Ltd d/o Litchfields	23	23/3g	Mae'r Adroddiad Adolygu Drafft yn cydnabod y galw sy'n esblygu am lety amgen mewn parciau gwyliau ym mharagraff 3.69. Rydym yn cymeradwyo'r pwynt hwn ac yn nodi ei bod yn bwysig bod parciau gwyliau yn gallu ateb y galw am amrywiaeth o lety a chyfleusterau o ansawdd uwch. Fodd bynnag, ni ddylid cyfyngu hyn i fathau amgen o lety, a dylai'r fframwaith polisi sy'n dod i'r amlwg gefnogi gwella'r mathau presennol o lety ar barciau gwyliau gan gynnwys carafannau sefydlog a llety.	<p>Noder y Sylw</p> <p>Mae twristiaeth yn ddiwydiant pwysig yn ardal y cynllun ac yn cael ei gyfarch yn mharagraffau 3.63-3.71 o'r Adroddiad Adolygu. Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fe fydd angen ail-ymweld ac amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisiau twristiaeth Cynllun a bydd y materion a godwyd yn y sylw yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sail tystiolaeth.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
Park Leisure Ltd d/o Litchfields	23	23/3ng	Mae'r Adroddiad yn nodi ym mharagraff 3.63 fod y polisiau twristiaeth yn y CDLI mabwysiedig yn ceisio cefnogi'r gwaith o ddatblygu diwydiant twristiaeth drwy gydol y flwyddyn. Rydym yn cymeradwyo'r safbwynt hwn ac yn ystyried y dylid bwrw ymlaen â'r cymorth hwn yn y CDLI Diwygiedig	<p>Noder y Sylw</p>
Park Leisure Ltd d/o Litchfields	23	23/3h	Dylai'r CDLI diwygiedig rhoi hyblygrwydd o ran sut y gall datblygwyr sicrhau budd net bioamrywiaeth drwy gynnwys opsiynau ar gyfer darparu cynefin ar y safle neu oddi ar y safle a mecanwaith i ymgeiswyr wneud cyfraniad ariannol i raglen strategol awdurdod lleol. Byddai'r dull hwn, yn caniatáu creu cynefin mewn lleoliadau priodol, a allai ddod â mwy o fanteision cronol na'r dewis amgen tameidiog.	<p>Noder y Sylw</p> <p>Nid bwriad yr Adroddiad Adolygu yw manylu ar unrhyw newidiadau fydd yn cael eu gwneud i'r Cynllun. Bydd ystyriaeth yn cael ei roddi i'r mater a godwyd fel rhan o'r broses o baratoi'r CDLI ar y Cyd Diwygiedig.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
Park Leisure Ltd d/o Litchfields	23	23/3i	Mae paragraff 3.70 yn nodi y gallai fod angen adolygu'r Astudiaeth Sensitifrwydd a Chapasiti Tirwedd (2014) i lywio'r polisiau yn y cynllun newydd. Wrth wneud hynny, dim ond man cychwyn y gall yr Astudiaeth, tra'n darparu gwybodaeth sylfaenol ddefnyddiol i ystyried y materion, fod yn fan cychwyn wrth benderfynu ar gais. Ni all astudiaethau o'r fath edrych ar bob un safle a heb graffu ni all ddod yn gynllun dynodiadau/cyfyngiadau de facto. Bydd yn hanfodol ymgynghori ar yr Astudiaeth – yn enwedig os yw i'w defnyddio fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer ceisiadau cynllunio	<p>Noder y Sylw</p> <p>Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig bydd y sylfaen dystiolaeth, sy'n sail i'r Cynllun, yn cael ei diweddarau. Bydd hyn yn cynnwys ailedrych ar yr Astudiaeth Sensitifrwydd a Chapasiti Tirwedd, byddai'n gynamserol manylu ar unrhyw newidiadau penodol i bolisiau'r cynllun. Bydd y materion a godwyd yn y sylw yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sail tystiolaeth.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>

			<p>adolygiad llawn o'r Cynllun Lleol. Yn Adran 6 o'r Adroddiad Adolygu, mae'r Cyngor yn honni nad oes unrhyw faterion o sylwedd wedi'u hamlygu yn eu Hadroddiadau Monitro Awdurdodau, gan ganfod bod newidiadau cyd-destunol sy'n gysylltiedig â phandemig COVID-19, a Brexit yn golygu bod angen adolygiad llawn o'r Cynllun yn lle hynny. Fodd bynnag, mae Claremont Planning o'r farn bod Adroddiad yr Adolygiad yn dangos bod y Cyngor yn tanddeall tai yn gyson ac felly nid yw strategaeth ofodol y Cynllun Lleol a fabwysiadwyd yn cael ei gweithredu'n effeithiol. Mae hyn yn cael ei gyflawni yn effeithiol ar feysydd eraill o'r Cynllun a dangosyddion llwyddiant y Cynllun, megis tai fforddiadwy. Mae paragraffau 3.96-3.98 o'r Adroddiad Adolygu yn cadarnhau y bydd angen darparu cyfanswm o 201 o unedau fforddiadwy erbyn mis Mawrth 2021 er mwyn bodloni 1,572 o unedau fforddiadwy'r Cyngor yn erbyn targed 2026. O fewn y paragraffau hyn, mae'r Cyngor o'r farn bod y llithriad hwn wedi digwydd ar safleoedd a ddynodwyd ar gyfer tai yn y Cynllun lle byddai disgwyl i'r safleoedd hyn ddarparu canran o dai fforddiadwy. Felly, mae Claremont Planning yn codi pryder bod y Cyngor wedi methu â chynabod eu bod yn cael eu tangyfroleddu, ond goblygiadau ehangach hyn o ran fforddiadwyedd tai yn y Sir fel rhan o'u Hadroddiad Adolygu. Yn wir, mae Claremont Planning o'r farn y byddai gweithredu strategaeth ofodol y Cynllun Lleol a fabwysiadwyd yn unig yn ddigon i warantu adolygiad o'r Cynllun Lleol. Er bod ymateb i faterion cyd-destunol a sicrhau bod y Cynllun yn seiliedig ar y polisi cynllunio cenedlaethol diweddaraf yn berthnasol, ystyrir bod yn rhaid i adolygiad y Cynllun Lleol felly hefyd gynnwys adolygiad o ofyniad tai'r sir a chynnal dadansoddiad manylach o safleoedd a hyrwyddir i sicrhau y gellir cyflawni'r holl ddyraniadau yn yr ystyr ehangaf ond hefyd y gellir darparu lefel y tai a gynigir drwy bob dyraniad yn realistig unwaith bydd unrhyw gyfyngiadau technegol wedi'u hystyried.</p>	<p>cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sail tystiolaeth. Bydd gwaith pellach wrth baratoi'r Cynllun Diwygiedig yn adolygu cynlluniau a strategaethau wedi'u diweddarau sy'n ymwneud â thai.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma.</p>
Jeremy Lambe	25	25/5	<p>Oherwydd y newidiadau sylweddol sydd wedi digwydd ers 2020 yn bennaf oherwydd y Pandemig a Brexit, mae'n bwysig sicrhau, os cynhelir adolygiad llawn o'r cynllun, fod y Cynllun yn seiliedig ar y Canllawiau Polisi Cynllunio Cenedlaethol diweddaraf, y</p>	<p>Noder y Sylw Nid diben yr Adroddiad Adolygu yw manylu ar unrhyw newidiadau penodol a wneir i'r Cynllun. Bydd unrhyw ganllawiau polisi cynllunio cenedlaethol newydd yn cael</p>

Enw a Sefydliad	Cyf Person	Cyf Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
			Fframwaith Cynllunio Cenedlaethol, Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040, a hefyd Cynlluniau ac astudiaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n ymwneud â thwristiaeth a'r sector lletygarwch.	<p>eu hystyried ac yn ganolog i'r broses adolygu. Mae effeithiau Brexit yn faterion y bydd angen eu hystyried wrth baratoi'r Cynllun diwygiedig. Bydd y dystiolaeth ddiweddaraf a chyfredol ynghylch effeithiau Brexit yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'r sail dystiolaeth ar gyfer y Cynllun diwygiedig.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma.</p>
Alwyn Gruffydd	26	26/5	Falch iawn o weld y bydd adolygiad llawn o'r cynllun yn cael ei gynnal er uy gellid wedi ychwanegu'r gair BRYS at y cymal hwn. Falch iawn o weld hefyd y rhagwelir yr angen am newidiadau "sylweddol" i'r cynllun presennol. A dweud y gwir ni ddylid wedi cyflwyno'r cynllun presennol gwbl. O ganlyniad mae cyfle yma i ymestyn gorwelion gan gynnig polisïau cynllunio blaengar a phellgyrhaeddol sy'n adlewyrchu gwir anghenion ein cymunedau Cymraeg.	<p>Noder y Sylw Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Newydd, bydd angen ailymweld â pholisïau presennol y Cynllun gan sicrhau bod y rhain, a'r tystiolaeth fwyaf diweddar, yn parhau i fod yn berthnasol ac yn diwallu anghenion ein cymunedau nawr ac yn y dyfodol.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma.</p>

Cwestiwn 6 - Mae gofyn i ni, wrth ymgynghori ar unrhyw gynlluniau neu materion polisi, ystyried a gofyn barn am effaith posib unrhyw benderfyniadau ar y Gymraeg, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith a'r statws a roddir iddi. Os oes gennych chi unrhyw sylw am y modd y mae'r ddogfen hon yn ymdrin a'r iaith Gymraeg ac effaith posib yr adolygiad ar yr iaith, cyfleoedd i'w defnyddio a'i statws (ac nad ydynt eisoes wedi cael sylw wrth ateb y cwestiynau uchod) nodwch hynny yma. Hefyd, esboniwch sut, yn eich barn chi, y gellir llunio neu newid y ddogfen arfaethedig er lliniaru unrhyw effeithiau negyddol bosib neu er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?

Tudalen 343

Enw a Sefydliad	Cyf Person	Cyf Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
Y Cynghorydd Robert Llewelyn Jones	8	8/6	Mae'r iaith Gymraeg yn hollbwysig i'n ffordd o fyw ac eto mae cynllunwyr ystyried y Gymraeg ar ol i gael eu gwneud. Bydd yn parhau i gael ei fygu gan y Saesneg oni bai bod penderfyniadau ymwybodol yn cael eu gwneud i ddweud na wrth ddatblygiadau enfawr fel y ddau a ganiateir ar Draeth Newry a Choed Penrhos. Beth mae Cynllunwyr ar ol? Troi Ynys Cybi yn Ganolfan Butlins a beth fydd hynny wneud i'r Gymraeg sy'n weddill yng Nghaergybi. Gwrthodwch y caniatâd y maent ar ei ôl neu ei gymryd yn ganiataol i'r datblygwyr hyn mae ein tref fwyaf yn troi'n dref Saesneg - sylweddolwch fod hyn yn mynd i ddigwydd - dewch ymlaen, mae gennych y pŵer i wrthod nawr yr ydym i gyd yn deall peryglon cynhesu byd-eang.	<p>Noder y Sylw Bydd angen rhoi ystyriaeth llawn i faterion ieithyddol a.y.b. yn ystod y broes o baratoi'r Cynllun Diwygiedig. Mae'n gynamserol ar hyn o bryd i roi ystyriaeth i'r union fanylion o'r Cynllun diwygiedig.</p> <p>Nid yw'r Adroddiad Adolygu yn gyfrwng briodol er mwyn trafod rhinweddau ceisiadau/datblygiadau penodol.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma.</p>
Y Cynghorydd Mike Stevens	12	12/6	Mae gormod o siaradwyr Cymraeg ifanc yn cael eu gorfodi i symud allan o Gymru oherwydd diffyg cyfleoedd gwaith a diffyg tai fforddiadwy. Os yw'r iaith Gymraeg i dyfu a ffynnu mae angen rhoi mwy o fuddsoddiad a ffocws i drefi fel Tywyn i gadw teuluoedd ifanc.	<p>Noder y Sylw Bydd angen rhoi ystyriaeth lawn i faterion ieithyddol, tai fforddiadwy a chyfleoedd gwaith yn ystod y broes o baratoi'r Cynllun Diwygiedig. Mae'n gynamserol ar hyn o bryd i roi ystyriaeth i'r union fanylion o ran y Cynllun Diwygiedig.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma.</p>
Vida Kelly	17	17/6	Mae'n bwysig fod Cymry lleol yn gallu prynu cartrefi yn yr ardal.	<p>Noder y Sylw Bydd ystyriaeth yn cael ei roi i effeithiolrwydd polisiâu tai'r Cynllun wrth baratoi'r Cynllun Diwigiedig.</p>

Enw a Sefydliad	Cyf Person	Cyf Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
				<p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma.</p>
Sion Wyn Evans	19	19/6	Yn ôl Cyfrifiad 2011 roedd 80% o bobl yn ardal Caernarfon siarad Cymraeg, y ganran uchaf o'r holl ardaloedd ledled Gwynedd a Chymru ar y pryd. Mae Caernarfon hefyd yn Safle Treftadaeth y Byd. Mae'r dref a'i heconomi'n ddibynol ar dwristiaeth, ac mae'n bwysig parhau i ddatblygu'r sector hwnnw er mwyn creu swyddi mewn modd sy'n amddiff yr iaith a diwylliant y dref.	<p>Noder y Sylw Bydd ystyriaeth bellach yn cael ei roi i'r materion hyn wrth i'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fynd yn ei flaen.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma.</p>
Jeremy Lambe	25	25/6	Parhau i hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant unigryw Cymru ym mhob cynnig, hyrwyddo'r defnydd o arwyddion dwyieithog, lle bynnag y bo modd, cyflenwadau ffynhonnell gan fusnesau lleol a defnyddio gweithlu lleol. Mae cyfleusterau twristiaeth yn darparu gwybodaeth am siopau lleol, bwytai lleol, gwasanaethau lleol ac atyniadau i ymwelwyr, sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r ardal, pwysigrwydd y Gymraeg, ac yn annog ymwelwyr i wario arian yn yr economi leol. Annog cynigion a fydd yn lleihau mudo o'r ardal, a bydd hynny'n cynnal cyflogaeth o fewn y gymuned leol, yn cefnogi masnachau lleol ac yn cefnogi busnesau lleol, y mae llawer ohonynt yn dibynnu ar dwristiaeth fel prif ffynhonnell incwm.	<p>Noder y Sylw Mae Polisi PS 1: Y Gymraeg a Diwylliant, yn diogelu, hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg. Drwy gymhwyso'r Polisi hwn, mae'r Gwasanaethau Cynllunio yn ystyried y Gymraeg, pan fo'n briodol gwneud hynny, o fewn y gofynion polisi cynllunio cenedlaethol deddfwriaethol a pherthnasol. Yn unol â Pholisi PS 1 y Cynllun, rhaid casglu gwybodaeth a'i derbyn am fathau penodol o ddatblygiadau er mwyn dod i gasgliad am effaith y datblygiad arfaethedig, a sut mae'r datblygiad arfaethedig yn diogelu, yn hyrwyddo ac yn cefnogi'r Gymraeg, e.e. a oes unrhyw fanteision i'r iaith, a oes angen diwygio'r cynnig, a oes perygl i les y Gymraeg ac a ellir lliniaru'r effaith mewn ffordd sy'n lliniaru risg, a ellir manteisio i'r eithaf ar y manteision, a sut y gellir monitro'r sefyllfa yn y gymuned. O ran penderfyniadau a wneir ar gais cynllunio, bydd y pwyslais ar osgoi datblygiadau a fyddai'n achosi niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith o fewn cymuned. Bydd awdurdodau cynllunio yn ystyried cynigion, sy'n ceisio manteisio i'r eithaf ar y manteision lle mae'r ystyriaethau hynny'n berthnasol i'r cais. Yn achos arwyddion a hysbysebion sy'n destun rheolaeth gynllunio, mae maen prawf 5 o Bolisi PS 1 yn hyrwyddo darparu arwyddion dwyieithog mewn mannau</p>

Enw a Sefydliad	Cyf Person	Cyf Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
				<p>cyhoeddus sy'n rhan o'r datblygiad. Bydd ystyriaeth bellach yn cael ei roi i'r materion hyn wrth i'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fynd yn ei flaen.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma.</p>
Dylan Clarke	29	29/6	Byddai llawer o'r polisïau cynllunio sydd eu hangen i ddelio â'r argyfwng hinsawdd hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg. Er enghraifft, cefnogi siopau annibynnol llai mewn trefi yn hytrach na chorfforaethau mawr ar y cyrion, yn dibynnu ar geir, arian sy'n llifo allan i'r marchnadoedd yn hytrach nag ailfuddsoddi yn y gymuned leol. Prosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol. Inswleiddio gwlân defaid. ayyb	<p>Noder y Sylw Nid diben yr Adroddiad Adolygu yw manylu ar unrhyw newidiadau penodol a wneir i'r Cynllun. Bydd ystyriaethau newid yn yr hinsawdd a'i berthynas a datblygu cynaliadwy gan gynnwys ystyriaethau'r Gymraeg yn ganolog i'r broses adolygu. Rhoddir ystyriaeth i holl strategaethau, cynlluniau, polisïau a chanllawiau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd sy'n gyfredol wrth baratoi'r CDLI Newydd.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma.</p>
Catrin Sion	7	7/6	Er mwyn cynnal yr iaith mae'n rhaid i ni gael cyfleoedd gwaith a rhaid i'r cynllun gadw hyn mewn cof	<p>Noder y Sylw Bydd angen rhoi ystyriaeth llawn i faterion ieithyddol ac economaidd yn ystod y broes o baratoi'r Cynllun Diwygiedig. Mae'n gynamserol ar hyn o bryd i roi ystyriaeth i'r union fanylion o ran y sylw hwn.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma.</p>
Rhys Tudur	39	39/6	-Dadansoddiad manylach o ystadegau iaith yn hytarcach na dinbynnu yn llwyr ar y censws. Mae angen edrych ar fforddwyedd cymharol cymunedau er mwyn ystyried beth fydd	<p>Noder y Sylw Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig, bydd angen asesu unrhyw ystadegau newydd sy'n ymwneud â'r</p>

Enw a Sefydliad	Cyf Person	Cyf Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
			y dirwyiad o ran siaradwyr y Gymraeg mewn blynyddoedd. Mae angen creu forecasts o niferoedd o siaradwyr yn hytrach na dibynnu ystedagau sydd wedi ei gasglu ac sydd wedi dyddio. -Nid yw'r ddogfen yn cynnig bod angen atgyfnerthu strategaethau iaith ac mae wir angen hynny yng ngwyneb y cwmp mewn canran siaradwyr Cymraeg a methiant ein polisiau strategol cyfredol. Mae angen strategaeth well ar gyfer atal crebachiad yn ardaloedd Cymraeg eu hiaith.	Gymraeg er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn seiliedig ar y wybodaeth gyhoeddedig fwyaf perthnasol. Nodir nad rôl yr Adroddiad na'r CDLI yw cryfhau strategaethau iaith. Rhoddir ystyriaeth ddyledus i unrhyw strategaethau neu gynlluniau newydd sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn ystod y broses o gynhyrchu'r JLDP newydd. Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma.
Gruffydd Williams	40	40/6a	Hyd oni adolygir y nifer tai sydd eu hangen, gan gyfrif y rhai a godwyd yn barod, a'r rhai y rhoddwyd caniatâd iddynt, yna bod moratoriwm ar ganiatáu unrhyw anheddau pellach. (Byddai hyn wrth reswm yn tynnu ymaith y nifer a ddynodwyd ar gyfer Yr Wylfa Newydd).	Noder y Sylw Er nad diben yr Adroddiad Adolygu yw manylu a'r newidiadau penodol i'r Cynllun, fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig, bydd angen ailymweld ag amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisïau'r Cynllun, a bydd y materion a godwyd ynghylch graddfa a lleoliad tai yn ardal y cynllun yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sylfaen dystiolaeth. Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma
Gruffydd Williams	40	40/6b	Yn dilyn caniatáu datblygiadau niferus ar y sail bod asesiadau iaith yn honni na fyddai effaith negyddol ar y Gymraeg, fod y rhain yn cael eu dadansoddi i ganfod beth oedd yr effaith wirioneddol ac ystyried ai dyma'r fethodoleg orau.	Noder y Sylw Bydd y broses o paratoi'r Cynllun Diwygiedig bydd cyfle i asesu'r holl sail tystiolaeth ynglŷn â materion ieithyddol gan gynnwys asesiadau ac datganiadau ieithyddol. Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma
Gruffydd Williams	40	40/6c	Dynodi Gwynedd gyfan yn "ardal o sensitifrwydd ieithyddol". Dynodi mannau neilltuol ar gyfer sensitifrwydd arbennig lle na chaniateir codi na gosod tai cymdeithasol ond ar gyfer siaradwyr Cymraeg/pobl leol. Hefyd, ehangu'r Cynllun Tai Marchnad Leol	Nodwyd y Sylw Bydd yr adolygiad o'r CDLI yn sicr yn ystyried unrhyw gysylltiad rhwng darpariaeth tai ac effaith ar y Gymraeg. Wrth adolygu'r Cynllun byddwn yn ystyried perfformiad y

Enw a Sefydliad	Cyf Person	Cyf Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
			drwy'r sir fel bod tai ar stadau newydd sydd ar hyn o bryd yn dai marchnad agored yn dod yn rhai cyfyngedig i bobl leol/siaradwyr Cymraeg ac yn cael eu gwerthu am bris o fewn eu cyrraedd.(Byddai hyn yn osgoi denu mewnlifiad a hefyd yn nacáu cyfle i wneud ail gartrefi a thai gwyliau tymor-byr o dai newydd ar stadau. Byddai angen mecanwaith priodol i fesur y galw am Dai Marchnad Leol).	<p>polisiâu a'r strategaeth dai bresennol ers mabwysiadu'r Cynllun. Yn hyn o beth, bydd yr adolygiad yn ystyried dogfennau sydd wedi'u paratoi ynghyd ag ymchwil berthnasol sydd wedi'i chynnal. Bydd ymgynghoriad llawn hefyd ag adrannau eraill Cyngor Ynys Môn a Chyngor Gwynedd, megis yr Uned Ymchwil, ynghyd â rhanddeiliaid allanol perthnasol.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
Gruffydd Williams	40	40/6ch	Prynu/Meddiannu Tai Gweigion a phrynu tai ar y farchnad agored: Y Cyngor/Cynghorau Sir (neu asiantaethau ar ei ran/eu rhan) yn prynu eiddo gwag gyda'r bwriad o osod y tai i bobl leol/siaradwyr Cymraeg. Dylai cynllun o'r fath fod yn fwy blaengar er mwyn gwneud defnydd mwy priodol o'r stoc tai presennol.	<p>Dim yn Berthnasol Fodd bynnag, nid yw'r mater o brynu tai gan y ddau Awdurdod Lleol yn berthnasol i'r broses o lunio'r Cynllun Diwygiedig.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
Gruffydd Williams	40	40/6d	Cynllun 'Prynu Cartref – Cymru'. (Dim ond 5 ymgeisydd a gafodd fudd o'r cynllun yn 2020.) Dylai'r cynllun gael defnydd ehangach a rhoi benthyciad llawer uwch o ran canran ecwiti'r eiddo i bobl leol/siaradwyr Cymraeg.	<p>Dim yn Berthnasol Fodd bynnag, mae gwneud diwygiadau i'r Cynllun Prynu Cartref - Cymru y tu allan i gylch gwaith y broses o lunio'r Cynllun Diwygiedig.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
Gruffydd Williams	40	40/6dd	Cynllun Morgeisi. Mae gan Gyngor Gwynedd yr hawl a'r modd i ddarparu morgeisi fel cynllun i warchod a hyrwyddo cymunedau Cymraeg.	<p>Dim yn Berthnasol Fodd bynnag, mae darparu morgeisi i hyrwyddo cymunedau Cymraeg y tu allan i gylch gwaith y CDLI Newydd.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
Gruffydd Williams	40	40/6e	Sylwadau eraill: Mabwysiadu Polisi Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer gwarchod tai ac adeiladau traddodiadol a'u hatal rhag cael eu dymchwel/ailgodi/ailwampio yn sylweddol. Ehangu maint llawr tai fforddiadwy fel eu bod yn fwy addas. Darparu mwy o blotiau ar gyfer Cynllun Hunan-adeiladu Cymru. Ychwanegu'r	<p>Nodwyd y Sylw Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig, bydd angen ailymweld ag amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisiâu'r Cynllun a bydd y mater a godwyd ynghylch</p>

Enw a Sefydliad	Cyf Person	Cyf Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
			hawl i drosi beudái yn dai annedd Amod 106 i bobl leol/siaradwyr Cymraeg, yn ddarostyngedig i ofynion teuluol. Nid yw'r hawl yn rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol, ond mae gan ardaloedd yn Lloegr yr hawl o dan Hawliau Datblygiadau a Ganiateir o dan y Ddeddf Lleoliadaeth. Ychwanegu'r hawl i drosi unedau gwyliau yn dai annedd Amod 106 i bobl leol/siaradwyr Cymraeg.	maint a lleoliad tai yn ardal y cynllun yn cael ei ystyried wrth ddiwygio'r sylfaen dystiolaeth. Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma
Gruffydd Williams	40	40/6f	Cyfyngu ar hawl swyddogion y Cyngor Sir i fedru caniatáu newidiadau i geisiadau cynllunio drwy eu disgresiwn eu hunain.	Dim yn Berthnasol Nid yw hyn yn berthnasol i'r broses o lunio'r Cynllun Diwygiedig. Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma
Gruffydd Williams	40	40/6ff	Diffinio gorddarpariaeth yn y gwahanol fathau o ddatblygiadau twristaidd megis ail gartrefi, lletyau gwyliau tymor-byr, gwersylloedd pebyll/glampio, meysydd carafanau/cabanau gwyliau a datblygiadau eraill, gan osod trothwyon i'r gwahanol gategoriâu mewn cymunedau.	Nodwyd y Sylw Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig, bydd angen ailymweld ag amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisïau'r Cynllun a bydd y materion a godwyd yn y sylw yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sylfaen dystiolaeth. Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma
Gruffydd Williams	40	40/6g	Bod gosod arwyddion gwybodaeth a chyfarwyddiadau Cymraeg neu ddwyieithog (gyda'r Gymraeg o flaen neu uwchben y Saesneg) y tu allan a'r tu mewn i adeiladau busnesau yn un o amodau derbyn caniatâd cynllunio.	Nodwyd y Sylw Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig, bydd angen ailymweld ag amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisïau'r Cynllun a bydd y materion a godwyd yn y sylw yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sylfaen dystiolaeth. Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma
Gruffydd Williams	40	40/6h	Gyda datblygiadau sy'n bwriadu cyflogi, dylai cyflogaeth leol ac ystyriaeth i'r Gymraeg fel amod penodi fod yn amod caniatâd cynllunio, ac eithrio swyddi y gellir dangos yn glir nad yw'r arbenigeddau priodol ar gael yn lleol. Gyda datblygiadau sy'n cynnig cyflogaeth, dylai'r ymgeisydd gyflwyno tystiolaeth gadarn ynghylch y niferoedd y bwriedir eu cyflogi, fel nad oes modd camarwain Cyngor Gwynedd gydag addewidion gwag.	Nodwyd y Sylw Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig, bydd angen ailymweld ag amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisïau'r Cynllun a bydd y materion a godwyd yn y sylw yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sylfaen dystiolaeth. Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma

Enw a Sefydliad	Cyf Person	Cyf Sylw	Crynodeb o'r Sylw	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
Wendy Jakeman	44	44/6	Cynhyrchu dogfennau sy'n gorgyffwrdd, sicrhau ei fod ar gael mewn unrhyw iaith gan gynnwys llofnodi, braille a darlunio.	<p>Noder y Sylw Mae Polisiâu Iaith Gymraeg y ddau Gyngor yn ei gwneud yn angenrheidiol ar gyfer unrhyw ddeunydd ysgrifenedig a fwriedir at ddefnydd y cyhoedd, ac a ysgrifennwyd gan y Cynghorau eu hunain i'w cael eu darparu'n ddwyieithog. Mae hyn yn cynnwys deunydd printiedig ysgrifenedig a deunyddiau a gyhoeddir yn electronig.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma.</p>
Ieuan Wyn	46	46/6	Mae sylwadau mewn perthynas â sefyllfa'r Gymraeg fel iaith gymunedol wedi eu nodi yn y rhannau eraill o'r ffurflen	<p>Noder y Sylw</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma.</p>

Cwestiwn 7 – Unrhyw fater arall?

Enw a Sefydliad	Cyf. Person	Cyf. Sylw	Crynodeb o'r Sylwadau	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
Malcolm A Brymer	1	1/7	Rhoi blaenoriaeth i adolygiad o nifer yr dai sydd eu hangen ar gyfer y cam nesaf (2022 ymlaen) ar gyfer pob sector sy'n cynnwys tai rhent cymdeithasol, cyhoeddus a phreifat, byw â chymorth a'r sector preifat. Galwad am Safleoedd i ddelio â'r angen dybryd hwn am Dai. Galwad arall am Safleoedd i ddelio â'r angen brys i ddatblygu'r economi yng Ngwynedd gyda safleoedd busnes, twristiaeth a seilwaith modern ac addas newydd. Safleoedd o'r fath i'w cyflwyno o fewn y 1-3 blynedd nesaf (felly maent wedi'u lleoli'n dda i fodloni'r galw busnes, yn barod i'w datblygu i atal oedi megis tai ac ar lwybrau a lleoliadau teithio da i leddfu teithio ychwanegol ac i helpu i greu Gweledigaeth 2040 a 2050 a Noder yn yr Adroddiad Adolygu Drafft hwn. Dilyniant i'r holl Safleoedd Ymgeisiol a aseswyd o'r blaen ac asesiad newydd o'r rhain yn seiliedig ar yr amcangyfrifon diweddaraf ac ar y gallu i gyflawni er mwyn gwrthdroi'r diffyg presennol mewn stoc anheddau newydd a brofwyd o 2017-2021.	<p>Noder y Sylw</p> <p>Er nad dim bwriad y Adroddiad Adolygu yw manylu ar unrhyw newidiadau fydd yn cael ei gwneud i'r Cynllun, fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fe fydd angen ail-ymweld ac amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisïau'r Cynllun a bydd y materion a godwyd yn y sylw o ran graddfa a lleoliad tai yn ardal y Cynllun yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sail tystiolaeth. O ran yr angen am alwad am safleoedd newydd, Noder, yn unol â Rheoliadau'r Cynllun Datblygu Lleol, bydd y Cynghorau'n cynnal ymarfer Galw am Safleoedd Ymgeisiol lle gwahoddir cyflwyniadau gan bartion â diddordeb sy'n dymuno cael tir i'w gynnwys yn y Cynllun Diwygiedig, naill ai i'w ddatblygu, ail-ddatblygu neu amddiffyn rhag datblygiad.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
John Griffiths	5	5/7	Mae gennyf ddau bwynt a allai ymddangos yn gymharol ddibwys ar ôl ystyried yr angen i gynllunio ar gyfer dyfodol y blaned. Fodd bynnag, yr wyf wedi sylwi bod diffyg ffydd yn y prosesau cynllunio. Yn aml, gall y diffyg ffydd hwn fod yn seiliedig ar benderfyniadau sy'n cael eu dirprwyo a/neu pan ddiystyrir barn Cynghorwyr Cymunedol. Yn fy ardal i yn unig (ward Seiriol) mae llawer o bethau'n digwydd gyda diystyriad llwyr i farn y boblogaeth a hoffai weld llai o ddatblygiad a mwy o	<p>Noder y Sylw</p> <p>Mae ymgynghori a chynnwys y cyhoedd yn ofyniad deddfwriaethol yn y broses o ddatblygu Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae'n ofynnol ymgynghori â'r cyhoedd, rhanddeiliaid perthnasol ac ymgynghorwyr statudol ar wahanol gamau o'r broses o lunio cynlluniau. Mae polisi cynllunio Llywodraeth Cymru, sydd wedi'i gynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru, yn annog awdurdodau cynllunio lleol ac ymgeiswyr i drafod</p>

Enw a Sefydliad	Cyf. Person	Cyf. Sylw	Crynodeb o'r Sylwadau	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
			gadwraeth yn gyffredinol. Yr ail bwynt yw bod angen i safle Lairds ym Miwmares ddod yn flaenoriaeth ar gyfer craffu priodol. Mae ganddo'r potensial ar gyfer tai a chyflogaeth ac eto nid yw'n denu sylw ein Cynghorwyr Sir.	<p>cynigion cyn i gais cynllunio gael ei gyflwyno'n ffurfiol. Gydag unrhyw gais, rhoddir ystyriaeth i'r holl ystyriaethau cynllunio perthnasol cyn gwneud penderfyniad. Fodd bynnag, nid yw'r mater o ymgynghori cyhoeddus sy'n ymwneud â cheisiadau cynllunio unigol yn berthnasol i'r broses o lunio'r Cynllun Newydd. O ran safle Lairds ym Miwmares, nid diben yr Adroddiad Adolygu yw manylu ar unrhyw newidiadau penodol a wneir i'r Cynllun.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
Cyng Robert Llywelyn Jones	8	8/7	Mae'r adolygiad hwn wedi dod ar groesffordd i'n byd - RYDYM NAILL AI'N NEWID Y FFORDD RYDYM YN EDRYCH AR FATERION CYNLLUNIO NEU'N PARHAU I FYND AR ÔL DATBLYGWYR DIEGWYDDOR. Rwyf wedi rhoi cynnig ar fy holl fywyd cyngor (dros 40 mlynedd) i wneud i'n Cyngor Ynys Môn weld synnwyr dim ond i chwerthin ar fy mhen. Ni fyddaf yn dal fy anadl ar unrhyw newid ym meddwl y Cyngor gan fod angen dynion a menywod dewr arno i gyfaddef eu bod wedi gwneud pethau'n anghywir a newid eu hymagwedd at faterion gynllunio. Hyd yn oed nawr es i'm llyfrgell leol i weld a oedd copi o'r adolygiad i adolygiad y CDLI ar y CYD ond i gael gwybod nad oedd copi ar gael. Mae swyddogion yn dal yr holl gardiau ac rwy'n ei chael hi'n anodd gweld unrhyw newid radical yn digwydd yn eu hagwedd tuag at achub ein planed. Rwyf ar gael ar unrhyw adeg i ehangu ar fy mhrofiadau.	Noder y sylw
John Glyn Robinson	9	9/7	Hoffwn dynnu eich sylw tuag at tir sydd ganddom yn Tyn y Weirglodd, Penygroes oddeutu 1.9 hectar sydd oddi mewn i ffiniau y pentref Penygroes. Mae'r tir yn addas ar gyfer oddeutu 60 o dai a fe fydd yn mynd ar y farchnad yn yr wythnosau nesaf. Yn ogystal, fe roddais 3.25 hectar o dir sydd ganddom gyferbyn a Mynwent Macpella, Penygroes ger eich bron nol yn 2015/2016 (SP155) oedd yr adran yn ei alw bryd hynny. Mae'r tir yma yn addas am oddeutu 120 o dai. Mae hwn ar gael ar gyfer tai os y dymunir.	<p>Noder y Sylw Nid bwriad yr Adroddiad Adolygu yw manylu ar unrhyw newidiadau penodol a wneir i'r Cynllun. Bydd ystyriaeth yn cael ei roi i'r mater a godwyd fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLI newydd.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>

Enw a Sefydliad	Cyf. Person	Cyf. Sylw	Crynodeb o'r Sylwadau	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
Tom Brooks	10	10/7	Yr oeddwn yn synnu nad oedd adran yn amlinellu cyfraniad y cyhoedd drwy ymgynghori ar bynciau amrywiol ac ar wahanol gamau yn ystod yr adolygiad, o ystyried effaith fwyaf y cynllun newydd fydd ar y cyhoedd.	<p>Noder y Sylw Mae ymgynghori â'r cyhoedd yn ofyniad deddfwriaethol yn y broses o ddatblygu Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae'n ofynnol ymgynghori â'r cyhoedd, rhanddeiliaid perthnasol ac ymgynghoreion statudol ar wahanol gamau o'r broses o lunio cynlluniau gan gynnwys y Cynllun Newydd sy'n dod i'r amlwg. Mae'r Cytundeb Cyflawni, a gynhyrchwyd ar ddechrau proses y Cynllun, yn cynnwys yr amserlen a'r Datganiad o Gyfraniad Cymunedol. Mae'r Datganiad yn sicrhau bod aelodau o'r cyhoedd yn ogystal â rhanddeiliaid allweddol yn rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
Guto Gwyn	11	11/7	Yn y cynllun newydd, byddai'n ddefnyddiol cynnwys y Chwe Nod Polisi a grybwyllir yn nogfen 'Gwella iechyd a gofal cymdeithasol (COVID-19: edrych tua'r dyfodol) (2021)' Llywodraeth Cymru. Mae'r strategaeth hon yn amlinellu blaenoriaethau amrywiol gan gynnwys yr angen i adeiladu ffyrdd newydd o weithio, a datblygu cyfleoedd i wneud pethau'n wahanol yn dilyn y pandemig. Yn ogystal, bydd angen asesu a rhagweld effeithiau ac effeithiau 'Covid hir' a'u rhagweld, a fyddai yn ei dro yn helpu gyda'n gallu i feithrin gwydnwch o fewn ein gwasanaethau cyhoeddus, ochr yn ochr â rhaglen frechu gyson gadarn i ddiogelu'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.	<p>Noder y Sylw Mae'n ofynnol i Gynlluniau Datblygu Lleol roi sylw i ddeddfwriaeth perthnasol newydd. Bydd ystyriaeth yn cael ei roi i gyhoeddiadau perthnasol Llywodraeth Cymru ar fynd i'r afael a goblygiadau Covid-19 wrth paratoi cynllun diwygiedig.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
Cyng Mike Stevens	12	12/7	Ni all yr adolygiad fod yn ailwampio o'r cynllun datblygu 2010 a fabwysiadwyd yn 2017. Mae'n ymddangos bod swyddogion Cynllunio yn amharod iawn i ddod â'r cydweithio ag Ynys Môn i ben. Ni ellir cyfiawnhau parhau â'r hyn a allai fod wedi gweithio yn 2010 ond mae'n amlwg nad yw'n addas ar gyfer adeiladu Gwynedd ddeinamig ffyniannus ar gyfer y dyfodol yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r datblygiad yn Nhywyn wedi'i rwystro gan ardaloedd tir sy'n cael eu dynodi'n orlifdiroedd. Mae ardaloedd nad ydynt erioed wedi dioddef llifogydd mewn cof byw neu hanesyddol yn cael eu disgowntio i'w datblygu. Y cyfiawnhad dros hyn gan	<p>Dim yn Berthnasol Nid yw dyfodol y Gwasanaeth Cynllunio ar y Cyd yn rhan o broses y Cynllun Datblygu Lleol.</p> <p>Yr ardaloedd o lifogydd y cyfeirir atynt yn y sylw hwn yw'r rhai a nodwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru fel rhan o'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio ac felly nid yw'n gyfrifoldeb i'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.</p> <p>Argymhelliad</p>

Enw a Sefydliad	Cyf. Person	Cyf. Sylw	Crynodeb o'r Sylwadau	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
			<p>wneuthurwyr polisi cynllunio yw "modelu". Mae'r dull hwn o benderfynu ar bolisi cynllunio yn ddiffygiol gan ei bod yn rhy hawdd mewnbynnu data i roi'r ateb gofynnol. Ni roddir ystyriaeth i realiti lleoliad a hanes ffactorau naturiol. Enghraifft glir o hyn yw ardal tir o stryd fawr Tywyn sy'n arwain i'r gogledd i afon Dysynni dros filltir i ffwrdd. Mae'r ardal gyfan wedi'i dynodi'n fygythiad gorlifdir o afon Dysynni. Mae hynny'n afresymol gan fod yr afon llanw ac yn geg yr afon sy'n llifo i'r môr. Mae bron yn amhosibl i'r tir hwn orlifo o'r afon filltir i fyny i stryd fawr Tywyn ac i honni ei fod yn bosibilrwydd yn tanseilio holl wyddoniaeth modelu llifogydd.</p>	<p>Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
Gruffydd Meredith	22	22/7a	<p>1. Dylai Gwynedd/Ynys Môn a Chymru yn gyffredinol ddilyn esiampl ynys Guernsey (a nifer fawr o wledydd eraill) trwy rannu holl dai Gwynedd/Ynys Môn i ddwy garfan - 90% i garfan marchnad blaenoriaeth leol/genedlaethol i bobol Gwynedd/Ynys Môn, a'r 10% arall i garfan marchnad agored i unrhyw un arall. Byddai hyn yn golygu fod 90% o dai, boed y rheiny yn dai newydd sydd yn cael eu hadeiladu neu yn ail dai/tai haf sydd ar gael i'w prynu, yn rhoi blaenoriaeth i'r farchnad leol/cenedlaethol ar gyfer dinasyddion/preswylwyr parhaol Cymru, a byddai'r 10% arall o dai, boed yn dai newydd neu yn ail dai/tai haf, yn dai marchnad agored ac ar gael i unrhyw un ar sail y cyntaf i'r felin. Cynigir y byddai unrhyw berson sydd mewn gwaith neu wedi cael cynnig gwaith llawn amser parhaol, ynghyd a'u partneriaid/teuluoedd, yn gallu ymuno, yn ôl eu dewis, gydag unai'r rhestr prynu neu rentu tai blaenoriaeth leol - be bynnag eu statws fel arall. Byddai unrhyw rai yn gofalu am bartneriaid neu aelodau teulu sydd angen gofal parhaol neu yn cael eu gofalu amdanynt ei hunain hefyd yn gymwys ar gyfer blaenoriaeth prynu neu rentu yn lleol. Gan weithio ochr yn ochr â chynghorau a grwpiau cymunedol ar lawr gwlad mi fyddai angen i'r awdurdodau sir ar draws Gwynedd/Ynys Môn benderfynu faint o'r 90% o dai marchnad leol/cenedlaethol fydde ar gael i drigolion lleol o fewn y sir/siroedd a faint fyddai ar gael i drigolion o weddill Cymru - er enghraifft 70% ar gyfer trigolion lleol, 20% ar gyfer pobl o</p>	<p>Noder y Sylw Er nad dim bwriad y Adroddiad Adolygu yw manylu ar unrhyw newidiadau fydd yn cael ei gwneud i'r Cynllun, fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fe fydd angen ail-ymweld ac amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisïau'r Cynllun a bydd y materion a godwyd yn y sylw o ran graddfa tai yn ardal y Cynllun yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sail tystiolaeth. Bydd gwaith pellach wrth baratoi'r Cynllun Diwygiedig yn adolygu cynlluniau a strategaethau wedi'u diweddarau sy'n ymwneud â thai.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>

Enw a Sefydliad	Cyf. Person	Cyf. Sylw	Crynodeb o'r Sylwadau	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
			weddill Cymru. Mewn ardaloedd mwy trefol lle mae pobl yn symud i mewn ac allan yn fwy rheolaidd, gellid gosod y raddfa yma ar 45% / 45% neu 20% yn lleol a 70% yn genedlaethol er enghraifft. Byddai unrhyw dai newydd a adeiladir ac sy'n rhan o'r ffigwr o 90% o'r farchnad leol/genedlaethol wedyn yn cadw'r cymal blaenoriaeth perchnogaeth leol/cenedlaethol yma.	
Gruffydd Meredith	22	22/7b	2. Cynigir y byddai'r un targedau ac egwyddor blaenoriaeth lleol/genedlaethol yn cael ei osod o ran rhentu tai yn gyffredinol, gyda anghenion yn lleol yn cael ei amlygu mewn ffordd rhesymol, cymhedrol a theg. Fel soniwyd, cynigir y byddai unrhyw berson sydd wedi cael cynnig gwaith llawn amser parhaol, ynghyd a'u partneriaid/teuluoedd, yn gallu ymuno, yn ôl eu dewis, gyda unai'r rhestr prynu neu rentu tai blaenoriaeth lleol - beth bynnag eu statws fel arall, gyda unrhyw un arall sydd gyda chynnig swydd fwy tymor byr neu rhan amser yn gallu ymuno gyda'r rhestr blaenoriaeth rhentu (a gan allu prynu ar ôl deg mlynedd os nad wedi ei geni a gyda un rhiant wedi eu geni yng Nghymru). Fel soniwyd hefyd, byddai unrhyw rai yn gofalu am bartneriaid neu aelodau teulu sydd angen gofal parhaol neu yn cael eu gofalu amdanynt ei hunain hefyd yn gymwys ar gyfer blaenoriaeth prynu neu rentu yn lleol.	<p>Noder y Sylw Er nad yw'r Cynllun Datblygu yn gyfrifol am bolisi rhentu tai yn y sector gymdeithasol na phreifat wrth ail-ymweld ac amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisïau'r Cynllun byddwn yn cynnal trafodaethau efo Rhanddeiliaid yn y maes tai.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
Gruffydd Meredith	22	22/7c	3. Dyle tai cymdeithasol i'r anghenus ddilyn yr un targedau ac egwyddor blaenoriaeth lleol/genedlaethol ble'n bosib, gyda anghenion blaenoriaeth lleol yn cael eu hamlygu a'u blaenoriaethu mewn ffordd sydd yn rhesymol a theg. Dylid dod â'r holl dai cymdeithasol a'r cymdeithasau tai cymdeithasol yn ogystal â'r Parciau Cenedlaethol dan reolaeth yr awdurdodau sir (Gwynedd/Ynys Môn yn yr achos yma) a'u gwneud yn atebol i'r awdurdodau democrataidd hynny. Mae hefyd angen rhoi stop ar y sefyllfa ble mae pobl mewn carafanau gwyliau ayb yn gallu hawlio tai cymdeithasol i'r anghenus drwy ddeud eu bod yn lleol neu yn ddigartref/anghenus ar ol bod yn byw mewn carafan am gyfnod penodol heb dystiolaeth bendant o'u cysylltiad lleol.	<p>Dim yn Berthnasol Mae'r materion yma y tu allan i gylch gwaith y CDLI Newydd.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
Gruffydd Meredith	22	22/7ch	4. Dyle'r prisiau tai newydd ar gyfer pobol leol yn arbennig, gyfateb i gyflogau lleol cyfartalog yr awdurdod/au sir. Dylai 'tai fforddiadwy' olygu hynny yn llythrennol.	<p>Noder y Sylw Wrth ail-ymweld ac amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisïau'r Cynllun byddwn yn cynnal trafodaethau efo</p>

Enw a Sefydliad	Cyf. Person	Cyf. Sylw	Crynodeb o'r Sylwadau	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
				Rhanddeiliaid yn y maes tai i drafod unrhyw newidiadau sydd ei angen i'r polisiau tai fforddiadwy. Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma
Gruffydd Meredith	22	22/7d	5. Yn debyg i fodel Seland Newydd, dim ond dinasyddion Cymru (ac felly Gwynedd/Ynys Môn) ddylai allu prynu y rhan helaethaf o dir fferm a thir gwyllt Cymru (ac felly Gwynedd/Ynys Môn), gyda phobl nad ydynt yn ddinasyddion Cymru (ac felly Gwynedd/Ynys Môn) yn dal i allu prynu safleoedd tir brown/diwydiannol ar gyfer datblygu ayb a hefyd rhentu neu brydlesu tir pe dymument.	Dim yn Berthnasol Mae'r materion yma y tu allan i gylch gwaith y CDLI Newydd. Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma
Gruffydd Meredith	22	22/7dd	6. Bydd angen rhoi stop ar y nifer o wefannau ar-lein sydd yn gwerthu tai a thir Cymru (ac felly yn cynnwys Gwynedd/Ynys Môn) dros y byd heb unrhyw reolaeth, a chreu rheoliadau trwy'r ddeddf mai dim ond arwerthwyr a broceriaid tai swyddogol o Gymru sy'n cael hysbysebu a gwerthu tai a thir Cymru (gan gynnwys ail gartrefi a thai haf), fel rhan o'r ddeddf blaenoriaeth genedlaethol yma.	Dim yn Berthnasol Mae'r materion yma y tu allan i gylch gwaith y CDLI Newydd. Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma
Gruffydd Meredith	22	22/7e	7. Caniatáu i ffermwyr adeiladu o leiaf tri chartref ar eu tir ar gyfer tair cenhedlaeth o'r teulu ffermio o fewn Gwynedd/Ynys Môn/Cymru, gan helpu i gryfhau yr economi wledig a'i gwneud yn wirioneddol gynaliadwy.	Noder y Sylw Mae Polisi a Canllaw Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn Polisi Cynllunio Cymru a NCT 6 yn amlygu'r amgylchiadau pan y gellid cefnogi unedau preswyl ychwanegol ar menter gwledig. Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma
Gruffydd Meredith	22	22/7f	8. Annog y cymdeithasau adeiladu a'r rhai sy'n cynnig morgeisi yng Ngwynedd/Ynys Môn/Cymru i weithredu cynllun blaendal o 5% ar gyfer prynwyr tro cyntaf Gwynedd/Ynys Môn/Cymru, ac i Lywodraeth Cymru hefyd gynnig cronfa benthyciad blaendal llog isel flynyddol i'r un prynwyr tro cyntaf yn yr un modd.	Noder y Sylw Er nad dim bwriad y Adroddiad Adolygu yw manylu ar unrhyw newidiadau fydd yn cael ei gwneud i'r Cynllun, fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fe fydd angen ail-ymweld ac amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisiau'r Cynllun. Bydd ystyriaeth yn cael ei roi tuag at strategaethau tai Lleol, Rhanbarthol a Cenedlaethol ar gyfer helpu prynwyr tro cyntaf.

Enw a Sefydliad	Cyf. Person	Cyf. Sylw	Crynodeb o'r Sylwadau	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
				Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma
Gruffydd Meredith	22	22/7ff	9. Rhoi blaenoriaeth i'r nifer fawr o adeiladau gwag neu adfeiliedig yng Ngwynedd/Ynys Môn/Cymru i gael eu hadnewyddu at ddefnydd pobol leol yn arbennig.	Noder y Sylw Er nad dim bwriad y Adroddiad Adolygu yw manylu ar unrhyw newidiadau fydd yn cael ei gwneud i'r Cynllun, fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fe fydd angen ail-ymweld ac amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisïau'r Cynllun. Fe roddir ystyriaeth i unrhyw strategaethau perthnasol sydd gan y Cynghorau. Bydd y materion a godwyd yn y sylw o ran adeiladau gwag neu adfeiliedig yn ardal y Cynllun yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sail tystiolaeth. Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma
Jeremy Lambe, Lambe Planning and Design	25	25/7	Annog ymholiadau cynllunio cyn ymgeisio ar gyfer cynigion a gallu cael deialog agored gyda swyddogion cynllunio ynghylch datblygiadau arfaethedig.	Dim yn Berthnasol Nid yw'r mater o ymgynghori cyhoeddus sy'n ymwneud â cheisiadau cynllunio unigol yn berthnasol i'r broses o lunio'r Cynllun Newydd. Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma
Yr Awdurdod Glo	27	27/7	Nodwn fod yr ymgynghoriad presennol hwn yn ymwneud ag Adroddiad Adolygu a fydd yn edrych ar feysydd lle mae'r Cynllun Lleol yn perfformio'n dda a'r meysydd hynny lle y gallai fod angen newidiadau. Gallaf gadarnhau nad oes gan y tîm Cynllunio yn yr Awdurdod Glo unrhyw sylwadau penodol i'w gwneud ar yr Adroddiad Adolygu drafft.	Noder y Sylw
Dylan Clarke	29	29/7	Ni ddylid dirprwyo penderfyniadau cynllunio am orsafoedd pŵer nwy neu brosiectau allyriadau uchel eraill i swyddogion cynllunio unigol. Ni ddylid trin dyfodol ein systemau ynni yr un fath â newidiadau bach i estyniad! Yr adolygiad hwn o'r cynllun lleol yw eich cyfle i fynd o ddifrif ynghylch lleihau allyriadau carbon. Rydym mewn argyfwng hinsawdd, mae angen i'r cynllun newydd fod yn gynllun argyfwng nid yn unig yn fwy o fusnes fel arfer.	Noder y Sylw Fodd bynnag, nid yw'r broses o ymdrin â cheisiadau cynllunio unigol yn berthnasol i'r broses o lunio'r Cynllun Diwygiedig. Mae'r newid yn yr hinsawdd ac ystyriaethau datblygu cynaliadwy yn ganolog i'r broses adolygu. Bydd ystyriaeth yn cael ei roi i holl strategaethau, cynlluniau, polisïau a chanllawiau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd sy'n gyfredol wrth baratoi'r JLDP Newydd.

Enw a Sefydliad	Cyf. Person	Cyf. Sylw	Crynodeb o'r Sylwadau	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
				<p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
Eva Stevens	31	31/7	ar Gynghorwyr Tywyn a Gwynedd nid yn unig ar gynllunwyr sydd angen ehangu eu ffocws i gynnwys De Gwynedd, Tywyn a Gwynedd gyfan.	<p>Noder y Sylw Bydd y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd yn gweithio gyda nifer o bartneriaid (yn statudol ac yn anstatudol) wrth lunio'r Cynllun. Bydd rhestr o'r Partneriaid yn cael ei chyhoeddi yn y Cytundeb Cyflawni. Mae pob cam allweddol ym mhroses creu y cynllun yn destun ymgynghoriad cyhoeddus sy'n rhoi cyfle i bawb fod yn rhan o'r broses.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
Marie-Claire Marsden, Morlyn Guesthouse	38	38/7	Dylid mabwysiadu unrhyw beth a phopeth i gefnogi'r prif greadur swyddi, sef lletygarwch yma yn ne Meirionnydd.	<p>Noder y Sylw Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig bydd angen diwygio'r sail tystiolaeth yn y maes hwn a bydd y tystiolaeth diweddaraf yn cael ei ystyried ynghyd ag unrhyw strategaethau'r Cynghorau sydd yn ymwneud â'r economi. Bydd y tystiolaeth hwn yn cael ei ddefnyddio wrth ystyried yr angen am newidiadau i bolisiau economaidd y Cynllun.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
Rhys Tudur, Cyngor Tref Nefyn	39	39/7	<p>Mi fyddai'n fuddiol i'r Cyngor fod yn fwy hirben gan wneud rhagdybiaethau o niferoedd siaradwyr Cymraeg yn y dyfodol ac hefyd gasglu tystiolaeth o'r bobl sy'n siarad Cymraeg yn eu haelwyd.</p> <p>Rhaid cael polisiau strategol cryfach sy'n atal ceisiadau sy'n amherthynol i'n hiaith a'n diwylliant gan felly orfodi pob cais i atgyfnerthu'r Gymraeg yn hytrach na'i niweidio. Hyd yma fe ganiateir ceisiadau sydd ddim yn creu "niwed sylweddol" ac mae effaith gronnol hyn efo nifer o geisiadau yn erydu'r Gymraeg ac yn peri niwed sylweddol iddi hi.</p> <p>Oherwydd sefyllfa fregus fforddiadwyedd tai i bobl leol mae angen polisi drwy Wynedd gyfan i sicrhau bod datblygiadau tai newydd oll efo amod "principal private residence" mae hyn yn hanfodol i sicrhau nad ydi'r stoc newydd o dai cael eu defnyddio</p>	<p>Noder y Sylw Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig bydd angen asesu unrhyw ystadegau newydd sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn seiliedig ar y wybodaeth gyhoeddedig fwyaf perthnasol. Bydd ystyriaeth ddyledus yn cael ei roi i unrhyw strategaethau neu gynlluniau newydd sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn ystod y broses o gynhyrchu'r CDLI diwygiedig. Yn yr un modd, bydd yr holl bolisiau tai yn cael eu hadolygu, gan roi ystyriaeth briodol i'r ystadegau a chyhoeddiadau tai diweddaraf.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>

Enw a Sefydliad	Cyf. Person	Cyf. Sylw	Crynodeb o'r Sylwadau	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
			fel tai haf. Byddai diystyru creu polisi o'r fath yn caniatáu niwed pellach i'n cymunedau.	
Gruffydd Williams	40	40/7a	Hyd oni adolygir y nifer tai sydd eu hangen, gan gyfrif y rhai a godwyd yn barod, a'r rhai y rhoddwyd caniatâd iddynt, yna bod moratoriwm ar ganiatáu unrhyw anheddau pellach. (Byddai hyn wrth reswm yn tynnu ymaith y nifer a ddynodwyd ar gyfer Yr Wylfa Newydd).	<p>Noder y Sylw Er nad diben yr Adroddiad Adolygu yw manylu a'r newidiadau penodol i'r Cynllun, fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig, bydd angen ailymweld ag amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisiau'r Cynllun, a bydd y materion a godwyd ynghylch graddfa a lleoliad tai yn ardal y cynllun yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sylfaen dystiolaeth.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
Gruffydd Williams	40	40/7b	Yn dilyn caniatáu datblygiadau niferus ar y sail bod asesiadau iaith yn honni na fyddai effaith negyddol ar y Gymraeg, fod y rhain yn cael eu dadansoddi i ganfod beth oedd yr effaith wirioneddol ac ystyried ai dyma'r fethodoleg orau.	<p>Noder y Sylw Bydd y broses o paratoi'r Cynllun Diwygiedig bydd cyfle i asesu'r holl sail tystiolaeth ynglŷn â materion ieithyddol gan gynnwys asesiadau ac datganiadau ieithyddol.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
Gruffydd Williams	40	40/7c	Dynodi Gwynedd gyfan yn "ardal o sensitifrwydd ieithyddol". Dynodi mannau neilltuol ar gyfer sensitifrwydd arbennig lle na chaniateir codi na gosod tai cymdeithasol ond ar gyfer siaradwyr Cymraeg/pobl leol. Hefyd, ehangu'r Cynllun Tai Marchnad Leol drwy'r sir fel bod tai ar stadau newydd sydd ar hyn o bryd yn dai marchnad agored yn dod yn rhai cyfyngedig i bobl leol/siaradwyr Cymraeg ac yn cael eu gwerthu am bris o fewn eu cyrraedd.(Byddai hyn yn osgoi denu mewnlifiad a hefyd yn nacáu cyfle i wneud ail gartrefi a thai gwyliau tymor-byr o dai newydd ar stadau. Byddai angen mecanwaith priodol i fesur y galw am Dai Marchnad Leol).	<p>Nodwyd y Sylw Bydd yr adolygiad o'r CDLI yn sicr yn ystyried unrhyw gysylltiad rhwng darpariaeth tai ac effaith ar y Gymraeg. Wrth adolygu'r Cynllun byddwn yn ystyried perfformiad y polisïau a'r strategaeth dai bresennol ers mabwysiadu'r Cynllun. Yn hyn o beth, bydd yr adolygiad yn ystyried dogfennau sydd wedi'u paratoi ynghyd ag ymchwil berthnasol sydd wedi'i chynnal. Bydd ymgynghoriad llawn hefyd ag adrannau eraill Cyngor Ynys Môn a Chyngor Gwynedd, megis yr Uned Ymchwil, ynghyd â rhanddeiliaid allanol perthnasol.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>

Enw a Sefydliad	Cyf. Person	Cyf. Sylw	Crynodeb o'r Sylwadau	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
Gruffydd Williams	40	40/7ch	Prynu/Meddiannu Tai Gweigion a phrynu tai ar y farchnad agored: Y Cyngor/Cynghorau Sir (neu asiantaethau ar ei ran/eu rhan) yn prynu eiddo gwag gyda'r bwriad o osod y tai i bobl leol/siaradwyr Cymraeg. Dylai cynllun o'r fath fod yn fwy blaengar er mwyn gwneud defnydd mwy priodol o'r stoc tai presennol.	Dim yn Berthnasol Fodd bynnag, nid yw'r mater o brynu tai gan y ddau Awdurdod Lleol yn berthnasol i'r broses o lunio'r Cynllun Diwygiedig. Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma
Gruffydd Williams	40	40/7d	Cynllun 'Prynu Cartref – Cymru'. (Dim ond 5 ymgeisydd a gafodd fudd o'r cynllun yn 2020.) Dylai'r cynllun gael defnydd ehangach a rhoi benthyciad llawer uwch o ran canran ecwiti'r eiddo i bobl leol/siaradwyr Cymraeg.	Dim yn Berthnasol Fodd bynnag, mae gwneud diwygiadau i'r Cynllun Prynu Cartref - Cymru y tu allan i gylch gwaith y broses o lunio'r Cynllun Diwygiedig. Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma
Gruffydd Williams	40	40/7dd	Cynllun Morgeisi. Mae gan Gyngor Gwynedd yr hawl a'r modd i ddarparu morgeisi fel cynllun i warchod a hyrwyddo cymunedau Cymraeg.	Dim yn Berthnasol Fodd bynnag, mae darparu morgeisi i hyrwyddo cymunedau Cymraeg y tu allan i gylch gwaith y CDLI Newydd. Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma
Gruffydd Williams	40	40/7e	Sylwadau eraill: Mabwysiadau Polisi Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer gwarchod tai ac adeiladau traddodiadol a'u hatal rhag cael eu dymchwel/ailgodi/ailwampio yn sylweddol. Ehangu maint llawr tai fforddiadwy fel eu bod yn fwy addas. Darparu mwy o blotiau ar gyfer Cynllun Hunan-adeiladu Cymru. Ychwanegu'r hawl i drosi beudái yn dai annedd Amod 106 i bobl leol/siaradwyr Cymraeg, yn ddarostyngedig i ofnion teuluol. Nid yw'r hawl yn rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol, ond mae gan ardaloedd yn Lloegr yr hawl o dan Hawliau Datblygiadau a Ganiateir o dan y Ddeddf Lleoliadaeth. Ychwanegu'r hawl i drosi unedau gwyliau yn dai annedd Amod 106 i bobl leol/siaradwyr Cymraeg.	Nodwyd y Sylw Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig, bydd angen ailymweld ag amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisïau'r Cynllun a bydd y mater a godwyd ynghylch maint a lleoliad tai yn ardal y cynllun yn cael ei ystyried wrth ddiwygio'r sylfaen dystiolaeth. Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma
Gruffydd Williams	40	40/7f	Cyfyngu ar hawl swyddogion y Cyngor Sir i fedru caniatáu newidiadau i geisiadau cynllunio drwy eu disgrisiwn eu hunain.	Dim yn Berthnasol Nid yw hyn yn berthnasol i'r broses o lunio'r Cynllun Diwygiedig. Argymhelliad

Enw a Sefydliad	Cyf. Person	Cyf. Sylw	Crynodeb o'r Sylwadau	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
				Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma
Gruffydd Williams	40	40/7ff	Diffinio gorddarpariaeth yn y gwahanol fathau o ddatblygiadau twristaidd megis ail gartrefi, lletyau gwyliau tymor-byr, gwersylloedd pebyll/glampio, meysydd carafanau/cabanau gwyliau a datblygiadau eraill, gan osod trothwyon i'r gwahanol gategorïau mewn cymunedau.	<p>Nodwyd y Sylw Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig, bydd angen ailymweld ag amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisïau'r Cynllun a bydd y materion a godwyd yn y sylw yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sylfaen dystiolaeth.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
Gruffydd Williams	40	40/7g	Bod gosod arwyddion gwybodaeth a chyfarwyddiadau Cymraeg neu ddwyieithog (gyda'r Gymraeg o flaen neu uwchben y Saesneg) y tu allan a'r tu mewn i adeiladau busnesau yn un o amodau derbyn caniatâd cynllunio.	<p>Nodwyd y Sylw Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig, bydd angen ailymweld ag amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisïau'r Cynllun a bydd y materion a godwyd yn y sylw yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sylfaen dystiolaeth.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
Gruffydd Williams	40	40/7h	Gyda datblygiadau sy'n bwriadu cyflogi, dylai cyflogaeth leol ac ystyriaeth i'r Gymraeg fel amod penodi fod yn amod caniatâd cynllunio, ac eithrio swyddi y gellir dangos yn glir nad yw'r arbenigeddau priodol ar gael yn lleol. Gyda datblygiadau sy'n cynnig cyflogaeth, dylai'r ymgeisydd gyflwyno tystiolaeth gadarn ynghylch y niferoedd y bwriedir eu cyflogi, fel nad oes modd camarwain Cyngor Gwynedd gydag addewidion gwag.	<p>Nodwyd y Sylw Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig, bydd angen ailymweld ag amcanion a gweledigaeth, strategaeth a pholisïau'r Cynllun a bydd y materion a godwyd yn y sylw yn cael eu hystyried wrth ddiwygio'r sylfaen dystiolaeth.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
Iwan Edgar	41	41/7	Ystyriaeth mwy cymhwysol o'r Ddeddf Llesiant a sut mae gofynion honno'n cael eu trafod	<p>Noder y Sylw Bydd y Ddeddf Llesiant yn thema ganolog yn y broses adolygu. Mae'n ofynnol i Gynlluniau Datblygu Lleol roi sylw i'r Ddeddf yn y broses adolygu. Bydd yn ofynnol i'r CDLI Diwygiedig adlewyrchu dyheadau'r Ddeddf. Un agwedd allweddol yn y Ddeddf Llesiant yw iechyd y cyhoedd ac felly mae'r fersiwn ddiweddaraf o Bolisi Cynllunio Cymru yn cyfeirio at 'Adeiladu Lleoedd Gwell', sy'n nodi'r blaenoriaethau polisi a'r camau gweithredu mwyaf perthnasol i helpu i ddod dros effeithiau pandemig Covid-19.</p>

Enw a Sefydliad	Cyf. Person	Cyf. Sylw	Crynodeb o'r Sylwadau	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
				Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma
Wendy Jakeman	44	44/7	Cadwch Gwynedd yn Wyrdd. Trysorwch ei Harddwch Naturiol a rhowch hynny wrth wraidd EICH HOLL BENDERFYNIADAU POLISI. P.S. Rheoliadau adeiladu glanhau. Mae gennyf dystiolaeth o arferion swil, diog yn cael eu cynnal yn enw'r darparwr tai cymdeithasol mwyaf yn yr ardal.	Noder y Sylw Bydd ystyriaeth llawn yn cael ei roi i faterion amgylcheddol yn ystod y broes o baratoi'r Cynllun Diwygiedig. O ran materion rheoliadau adeiladu, nid mater i'r Cynllun Diwygiedig yw hwn. Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma
Dafydd Ioan Hughes	45	45/7	Rwyf yn cytuno yn bendant y dylid cael adolygiad llawn or Cynllun Datblygu a chael cynllun or newydd sydd yn edrych ar ddatblygu'r Ynys a'r economi er mwyn budd y bobl lleol drwy hybu busnesau newydd a darparu tai o safon. Mae Amlwch yn enghraifft berffaith lle ma potensial i ddatblygu a thrawsnewid a moderneiddio y dre, drwy ddarparu parc busnes, archfarchnad a thai newydd a thrwy hynny gefnogi a thyfu yr economi lleol a chreu swyddi safonol parhaol. Fel rhan or Adolygiad Llawn a chynllun or newydd yn benodol i Amlwch, mae gennym dir datblygu sydd a photensial euraidd yng nghanol tre Amlwch.	Noder y Sylw Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig bydd angen diwygio'r sail tystiolaeth yn y maes hwn a bydd y tystiolaeth diweddaraf yn cael ei ystyried ynghyd ag unrhyw strategaethau'r Cynghorau sydd yn ymwneud â'r economi. Bydd y tystiolaeth hwn yn cael ei ddefnyddio wrth ystyried yr angen am newidiadau i bolisiau economaidd y Cynllun. Nid bwriad yr Adroddiad Adolygu yw manylu ar unrhyw newidiadau penodol a wneir i'r Cynllun. Rhoddir ystyriaeth i'r mater a godwyd fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig. Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma
Park Leisure Ltd, d/o Lichfields	23	23/7	Er y bydd datblygu Cynllun Datblygu Strategol yng Ngogledd Cymru yn debygol o gryfhau rhyng-gysylltedd ar draws y rhanbarth, bydd datblygu'r CDS yn cymryd sawl blwyddyn. Felly, mae'n bwysig nad oes oedi wrth fuddsoddi a thwf yn y maes hwn hyd nes y caiff yr haen ranbarthol newydd hon o'r system a arweinir gan y cynllun ei mabwysiadu ac nad yw CDLI newydd Ynys Môn a Gwynedd yn cael ei ohirio o ystyried y CDS sy'n dod i'r amlwg.	Noder y Sylw Mae adolygiad o'r CDLI yn ofyniad deddfwriaethol o dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Mae'r Ddeddf yn nodi bod angen i Gynllun Datblygu Lleol cael ei adolygu ar ôl cyfnod o 4 blynedd ar ôl ei fabwysiadu. Yn unol â chanllawiau cenedlaethol, rhaid i ni adolygu'r Cynllun bob pedair blynedd a pharatoi Cynllun Diwygiedig. Mae'r gofyniad i gyflwyno'r CDS o dan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 ar wahân i'r broses o ddatblygu'r Cynllun newydd. Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma

Enw a Sefydliad	Cyf. Person	Cyf. Sylw	Crynodeb o'r Sylwadau	Ymateb y Gwasanaeth a'r Argymhelliad
Bourne Leisure, c/o Lichfields	47	47/7	<p>Er y bydd datblygu Cynllun Datblygu Strategol yng Ngogledd Cymru yn debygol o gryfhau rhyng-gysylltedd ar draws y rhanbarth, bydd datblygu'r CDS yn cymryd sawl blwyddyn. Felly, mae'n bwysig nad oes oedi wrth fuddsoddi a thwf yn y maes hwn hyd nes y caiff yr haen ranbarthol newydd hon o'r system a arweinir gan y cynllun ei mabwysiadu ac nad yw CDLI newydd Ynys Môn a Gwynedd yn cael ei ohirio o ystyried y CDS sy'n dod i'r amlwg.</p>	<p>Noder y Sylw Mae adolygiad o'r CDLI yn ofyniad deddfwriaethol o dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Mae'r Ddeddf yn nodi bod angen i Gynllun Datblygu Lleol cael ei adolygu ar ôl cyfnod o 4 blynedd ar ôl ei fabwysiadu. Yn unol â chanllawiau cenedlaethol, rhaid i ni adolygu'r Cynllun bob pedair blynedd a pharatoi Cynllun Diwygiedig. Mae'r gofyniad i gyflwyno'r CDS o dan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 ar wahân i'r broses o ddatblygu'r Cynllun newydd.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>
John Wyn Williams, Plaid Cymru Bangor	48	48/7	<p>Mae gor-ddarpariaeth o lety myfyrwyr ym Mangor ar hyn o bryd ac er bod y system gwota wedi gweithio mewn rhai ardaloedd, mae angen gwell ffordd o ddadansoddi be ydi 'r gwir angen ar draws y ddinas i'r dyfodol. Mae dipyn o ddatblygiadau tai fforddiadwy yn y ddinas, sy'n beth da. Yma eto mae angen ail edrych ar y polisau asesu angen rhag gor-ddarpariaeth o rai mathau o dai neu yn fwy penodol fflatiau sengl. Mae rhai problemau wedi bod efo cael trigolion lleol ac aelodau i dderbyn datblygiadau fforddiadwy, efallai buasai gwell tystiolaeth o'r angen lleol y help i liniaru hyn.</p> <p>Mae stryd fawr Bangor yn newid. Mae gan partneriaeth Bangor a 'r cyngor Dinas weledigaeth ar gyfer y dyfodol. Mae angen ystyried hyn a chreu polisïau llawer mwy hyblyg. Sut fydd y stryd fawr yn edrych mewn deg mlynedd?</p>	<p>Noder y Sylw Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig bydd angen diwygio'r sail tystiolaeth yn y meysydd a gyfeirir ato a bydd y tystiolaeth diweddaraf yn cael ei ystyried. Bydd y tystiolaeth hwn yn cael ei ddefnyddio wrth ystyried yr angen am newidiadau i bolisïau'r Cynllun. Nid bwriad yr Adroddiad Adolygu yw manylu ar unrhyw newidiadau penodol a wneir i'r Cynllun. Rhoddir ystyriaeth i'r materion a godwyd fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig.</p> <p>Argymhelliad Dim newid yn yr Adroddiad Adolygu yn dilyn y sylw yma</p>

Cam Allweddol		Amserlenni
Diffiniol		
Cam 1	Cytundeb Cyflawni Paratoi a chyflwyno	Hyd at bedair wythnos ar gyfer cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru (Yn fyrrach fel arfer)
Cam 2	Cyn adneuo Paratoi a chynnwys	Tua 1.5 mlynedd
Cam 3	Strategaeth a Ffefrir Ymgynghoriad cyhoeddus	
Cam 4	Cynllun adneuo Ymgynghoriad cyhoeddus	
Dangosol		Amserlenni
Cam 5	Cyflwyno	Tua 11 mis yn unol â Chanllawiau Gweithdrefnol yr Arolygiaeth Gynllunio
Cam 6	Archwilio	
Cam 7	Adroddiad yr Arolygydd	
Cam 8	Mabwysiadu	
		Cyfanswm amser paratoi'r cynllun tair blynedd a hanner (Yn ogystal ag un cyfnod llithriant o dri mis)

This page is intentionally left blank

Cyngor Sir Ynys Môn	
Adroddiad i:	Y Cyngor Llawn
Dyddiad:	10fed o Fawrth 2022
Pwnc / Testun:	Adroddiad Drafft Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru 2022
Deilydd(ion) Portffolio:	Cynghorydd Llinos Medi
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	Fôn Roberts, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Arwel Owen, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion
Awdur yr Adroddiad: Tel: E-bost:	Emma Edwards 01248 751887 Emmaedwards@ynysmob.gov.uk Arweinydd / SRO: Morwena Edwards (Cadeirydd y Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol)
Aelodau Lleol:	

A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Darparu trosolwg o Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru 2022 sydd wedi'i gynhyrchu fel un o ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Pwrpas yr adroddiad:

1. Ceisio cefnogaeth y Cyngor Llawn i gymeradwyo Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru.
2. Rhaid i'r asesiad gael ei gynhyrchu a'i gyhoeddi ar ffurf adroddiad erbyn Ebrill 2022.

Argymhelliad

Bod y Cyngor Llawn yn cymeradwyo Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru 2022

B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydy – ac yn cydymffurfio ag Adran 14 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd gynhyrchu adroddiad asesiad.

D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Mae Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal a Llesiant Gogledd Cymru wedi ariannu'r prosiect rhanbarthol sydd wedi cynnwys 2 x rheolwr prosiect rhanbarthol i gefnogi datblygu'r asesiad anghenion poblogaeth. Cafodd costau cysylltiedig, megis cyfieithu ac ymgysylltu arbenigol hefyd eu hariannu gan y bartneriaeth.

Bu cost i'r awdurdodau lleol, BIPBC ac Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran amser ac adnoddau staff i gefnogi'r prosiect. Mae hyn yn cynnwys staff i wneud gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth, staff ac aelodau etholedig a staff i gefnogi'r gwaith o ddadansoddi ac ysgrifennu'r adroddiad. Digwyddodd y rhan fwyaf o'r gwaith hwn rhwng Ebrill 2021 a Rhagfyr 2021 ar gyfer yr asesiad o anghenion y boblogaeth.

Wrth symud ymlaen bydd yr asesiad anghenion poblogaeth yn adnabod blaenoriaethau lleol a rhanbarthol, efallai bydd y blaenoriaethau hyn angen rhyw lefel o fuddsoddiad, unai ar lefel ranbarthol neu leol.




Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol):

1	Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Ydy, mae'r adroddiad yn asesu: a) I ba raddau y mae yna bobl yn ardal awdurdod lleol sydd angen gofal a chymorth b) I ba raddau y mae gofalwyr yn ardal yr awdurdod lleol sydd angen cymorth c) I ba raddau y mae yna bobl yn ardal awdurdod lleol nad yw eu hanghenion am ofal a chymorth yn cael eu cwrdd d) Ystod a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen i gwrdd ag anghenion
---	--	---

		<p>gofal a chymorth pobl yn ardal yr awdurdod lleol</p> <p>e) Ystod a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen i gyflawni'r dibenion yn Adran 15(2) (gwasanaethau ataliol) yn ardal yr awdurdod lleol</p>
2	A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut?	Bydd hyn yn cael ei ddilyn gan Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad, a fydd yn cael ei gynhyrchu'n ddiweddarach yn y flwyddyn.
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy.	Do – yn rhanbarthol ar draws Gogledd Cymru gydag Awdurdodau Lleol eraill a chydweithwyr lechyd.
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.	<p>Ydyn - Roedd ymgysylltu ar gyfer yr asesiad poblogaeth yn cynnwys: holiadur i sefydliadau sy'n gofyn am eu barn a'u tystiolaeth; canllaw hwyluso i bartneriaid ei ddefnyddio i gynnal grwpiau trafod gyda defnyddwyr gwasanaeth; gweithdai gyda staff a chynghorwyr a drefnir gan bob awdurdod lleol. Derbyniwyd cyfanswm o 350 o ymatebion holiadur yn ystod yr ymgynghoriad, ac mae'r adborth a dderbyniwyd wedi'i gynnwys yn yr asesiad anghenion. Mae adroddiad ymgynghori llawn hefyd ar gael ac mae wedi'i atodi i'r prif adroddiad.</p> <p>Mae map rhanddeiliad wedi ei gynhyrchu a'i adolygu sy'n rhestru'r holl grwpiau poblogaeth a all fod angen gwasanaethau gofal a chymorth i sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn cael cyfle i ddweud eu dweud. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd.</p>
5	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Ni fydd yn bosibl cael cymeradwyaeth gan bob un o'r chwe chyngor a Bwrdd BIPBC mewn pryd i gyhoeddi erbyn Ebrill 2022. I liniaru'r tîm prosiect, anelir at ymgynghori mor eang â phosibl cyn y broses gymeradwyo.

		Mae Llywodraeth Cymru wedi dileu'r gofyniad am AEC ar yr asesiad anghenion fel adroddiad ynddo'i hun. Mae'r asesiad anghenion yn cynnwys dadansoddiadau ac ymchwil ar gydraddoldeb, hawliau dynol a sosio-economaidd sy'n ymwneud â phob un o'r grwpiau sydd wedi'u cynnwys yn yr asesiad anghenion.
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	
7	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Y camau gweithredu sydd eu hangen i ddarparu ystod a lefel y gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

E – Gyda phwy yr ymgynghoroch?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)	Cytuno
2	Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)	Fel uchod
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)	Fel uchod
4	Adnoddau Dynol (AD)	N/A
5	Eiddo	N/A
6	Technoleg Gwybodaeth (TG)	N/A
7	Caffael	N/A
8	Sgriwtini	
9	Aelodau Lleol	

F - Atodiadau:
 <p>3c. PNA Consultation Report</p>  <p>PNA Ynys Mon Cymraeg.docx</p>  <p>North Wales Population Assessm</p>

Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):

Mae Adran 14 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd asesu'r canlynol ar y cyd:

- a) I ba raddau y mae yna bobl yn ardal awdurdod lleol sydd angen gofal a chymorth
- b) I ba raddau y mae gofalwyr yn ardal yr awdurdod lleol sydd angen cymorth
- c) I ba raddau y mae yna bobl yn ardal awdurdod lleol nad yw eu hanghenion am ofal a chymorth yn cael eu cwrdd
- d) Ystod a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen i gwrdd ag anghenion gofal a chymorth pobl yn ardal yr awdurdod lleol
- e) Ystod a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen i gyflawni'r dibenion yn Adran 15(2) (gwasanaethau ataliol) yn ardal yr awdurdod lleol
- f) Y camau gweithredu sydd eu hangen i ddarparu ystod a lefel y gwasanaethau a nodir yn unol â pharagraffau (d) ac (e) drwy gyfrwng y Gymraeg

Rhaid i'r adroddiad o leiaf drafod y themâu / grwpiau canlynol:

- Plant a phobl ifanc
- Pobl Hŷn
- Iechyd, Anabledd Corfforol a Nam Synhwyrol
- Anableddau Dysgi (Plant ac Oedolion)
- Awtistiaeth
- Iechyd Meddwl
- Gofalwyr

Yn yr asesiad rhoddwyd ystyriaeth hefyd i sefydliadau diogel, digartrefedd a chyn-filwyr. Mae'r asesiad wedi'i lywio gan y gofynion a nodir yn y cod ymarfer ar gyfer asesu anghenion y boblogaeth ac mae wedi rhoi sylw dyledus i ddyletswyddau a pholisïau eraill sy'n cael effaith sylweddol ar y grwpiau a restrir. Mae pob pennod yn cynnwys asesiad o;

- Yr Iaith Gymraeg (y 'cynnig gweithredol')
- Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Ystyriaethau sosio-economaidd
- Effaith pandemig COVID-19
- Ystyriaethau Diogelu
- Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Gwerth Cymdeithasol

Cafodd yr adroddiad asesiad poblogaeth ei arwain gan ymgysylltu. Mae'r materion a'r themâu allweddol a nodir yn seiliedig ar adborth gan staff, sefydliadau partner, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd i adnabod anghenion strategol ar gyfer gofal a chymorth. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth o

strategaethau comisiynu presennol ac asesiadau o anghenion. Casglodd tîm y prosiect dystiolaeth i herio'r damcaniaethau hyn trwy ddadansoddi data, adolygiadau o lenyddiaeth gefndir, adolygiadau gwasanaeth a gwaith ymgysylltu lleol â ffocws ychwanegol.

Mae'r gofyniad i gynhyrchu adroddiad rhanbarthol hygyrch mewn cyfnod byr wedi cyfyngu ar yr hyn y gellir ei gynnwys. Mae'r adroddiad yn darparu sylfaen dystiolaeth i gefnogi sefydliadau a gwasanaethau ar draws y rhanbarth, yn benodol mae i'w ddefnyddio ar gyfer cylchoedd cynllunio strategol sy'n sail i integreiddio gwasanaethau a chefnogi trefniadau partneriaeth.

Mae ffocws rhanbarthol i'r adroddiad ond bydd yn adnodd defnyddiol i gynllunwyr a chomisiynwyr mewn awdurdodau lleol ac iechyd. Mae angen am weledigaeth a chynllun lleol o hyd ar gyfer gwasanaethau ym mhob ardal. Wrth symud ymlaen byddai'r bartneriaeth yn ceisio parhau â'r gwaith o asesu anghenion i sicrhau bod asesu anghenion ein poblogaethau yn broses barhaus.

Rhaid cynhyrchu un adroddiad rhanbarthol ar gyfer Rhanbarth Gogledd Cymru a'i gymeradwyo gan Gyngor Llawn pob un o'r ardaloedd awdurdod lleol (Gwynedd, Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam) a Bwrdd y Bwrdd Iechyd Lleol.

Rhaid cyhoeddi'r adroddiad erbyn mis Ebrill 2022 fan bellaf. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar wefannau pob awdurdod lleol, gwefan y bwrdd iechyd a gwefan y bartneriaeth ranbarthol yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd adroddiadau cryno, plant a phobl ifanc a fformatau hygyrch eraill hefyd ar gael. Bydd copi o'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Cod Ymarfer:
<http://www.ccwales.org/codes-of-practice-and-statutory-guidance/>

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Cyngor Sir Ynys Môn
Dyddiad:	10 Mawrth 2022
Pwnc / Testun:	Cod Llywodraethu Lleol 2022-27
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	Carys Edwards Pennaeth Proffesiwn AD a Trawsnewid 01248 752502 CarysEdwards@ynysmon.gov.uk
Awdur yr Adroddiad:	Gethin Morgan Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Perfformiad 01248 752511 GethinMorgan@ynysmon.gov.uk
Natur a Rheswm dros Adrodd: Mae'r Cod Llywodraethu Lleol yn nodi dull y Cyngor o gyflawni llywodraethu da.	

Cyflwyniad

1. Er mwyn arddangos Llywodraethu da, rhaid i'r Awdurdod ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r egwyddorion craidd (ac ategol) sydd yn y 'Framework for Delivering Good Governance in Local Government' (CIPFA / Solace, 2016). Mae'r datganiad hwn wedi'i baratoi yn unol â'r egwyddorion hynny.
2. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei weithredu'n unol â'r gyfraith a'r safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrif amdano'n briodol, a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.
3. Mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am roi yn eu lle drefniadau priodol ar gyfer llywodraethu ei faterion, gan hwyluso gweithrediad effeithiol ei swyddogaethau, ac mae hynny'n cynnwys trefniadau i reoli risg, a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.
4. Defnyddir y Cod Llywodraethu Lleol fel sail ar gyfer adolygiad blynyddol o lywodraethu ar gyfer y Cyngor Sir. Mae'r ddogfennaeth sy'n deillio o adolygiad o'r fath wedi'i nodi fel y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLIB) sy'n cael ei ystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gyfrifol am gymeradwyo trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn flynyddol fel rhan o'r Datganiad Cyfrifon.

Argymhelliad

5. Bod y Cyngor Sir Ynys Môn yn mabwysiadu'r Cod Llywodraethu Lleol.



Tudalen 372

Cod Llywodraethu Lleol

2022-2027

Cynnwys

Beth yw Llywodraethu Corfforaethol?	3
Beth yw'r Cod Llywodraethu Corfforaethol?	3
Sut ydyn ni'n dangos cydymffurfiad?	5
Ymrwymadau i'r Egwyddorion Llywodraethu	7
Egwyddor A: Ymddwyn yn ddidwyll, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu'r rheol gyfreithiol	7
Egwyddor B: Sicrhau natur agored ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid	9
Egwyddor C: Diffinio canlyniadau yn nhermau manteision economaidd cynaliadwy, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol.....	12
Egwyddor D: Pennu'r ymyriadau sy'n angenrheidiol i sicrhau ein bod yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir hyd eithaf ein gallu	14
Egwyddor F: Rheoli risgiau a perfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref	20
Egwyddor G: Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio.....	23
Y Chwe Thema Allweddol.....	25


Beth yw Llywodraethu Corfforaethol?

Llywodraethu Corfforaethol yw'r system lle mae awdurdodau lleol yn cyfarwyddo ac yn rheoli eu swyddogaethau a chysylltu â'u cymunedau. Mae'n seiliedig ar egwyddorion sylfaenol didwylledd a chynwysoldeb, uniondeb ac atebolrwydd ynghyd â'r cysyniad trosfwaol o arweinyddiaeth. Mae'n system ryng-gysylltiedig sy'n dwyn ynghyd y set sylfaenol o ofnyion deddfwriaethol, egwyddorion llywodraethu a phrosesau rheoli.

Mae Fframwaith Rhyngwladol y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar gyfer Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol yn nodi:

“Er mwyn sicrhau llywodraethu da yn y sector cyhoeddus, rhaid i gyrrff llywodraethu ac unigolion sy'n gweithio i endidau'r sector cyhoeddus geisio cyflawni amcanion eu endid wrth weithredu er budd y cyhoedd bob amser.”

Mae'r Cyngor yn gweld Llywodraethu Corfforaethol fel sicrhau ein bod yn gwneud y pethau iawn, yn y ffordd iawn, i'r bobl iawn, mewn dull amserol, cynhwysol, agored, gonest ac atebol. Mae'n cynnwys y systemau a'r prosesau, a'r diwylliannau a'r gwerthoedd, sy'n cyfarwyddo a rheoli'r Cyngor a thrwyddynt, rydym yn atebol i'n cymunedau ac yn ymwneud â hwy. Y cysail sylfaenol yw:



Beth yw'r Cod Llywodraethu Corfforaethol?

Er mwyn arddangos Llywodraethu da, rhaid i'r Awdurdod ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r egwyddorion craidd (ac ategol) sydd yn y 'Framework for Delivering Good Governance in Local Government' (CIPFA / Solace, 2016). Yr egwyddorion sefydledig yw:

Egwyddor A

- Ymddwyn yn ddiwyll, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu'r rheol gyfreithiol

Egwyddor B

- Sicrhau natur agored ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid

Egwyddor C

- Diffinio canlyniadau yn nhermau manteision economaidd cynaliadwy, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol

Egwyddor D

- Pennu'r ymyriadau sy'n angenrheidiol i sicrhau ein bod yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir hyd eithaf ein gallu

Egwyddor E

- Datblygu capasiti'r endid, ynghyd â gallu ei arweinyddion a'r unigolion ynddo

Egwyddor F


- Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref

Egwyddor G

- Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio

Mae agweddau ar drefniadau llywodraethu'r Cyngor wedi cael eu cryfhau a'u moderneiddio yn ystod y blynyddoedd diweddar ar draws nifer o themâu llywodraethu. Mae [Cynllun y Cyngor](#) wedi bod yn ei le ers 2017 ac mae'n rhoddi pwyslais ar ein trefniadau llywodraethu fel modd o gyflawni allbynnau'r cynllun. Gellir alinio'r rhain â'r saith egwyddor graidd yn fframwaith CIPFA/SOLACE.

Mae'r Cyngor yn anelu at gyflawni safonau llywodraethu da drwy lynu wrth y saith egwyddor graidd uchod a hefyd wrth yr egwyddorion sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio Sylfaen Cod Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor.



Fynhonnell: Delivering Good Governance in Local Government Guidance Notes for Welsh Authorities (2016 Edition)

Sut ydyn ni'n dangos cydymffuriad?

Mae'r Cyngor yn adolygu ac yn adrodd yn erbyn ei drefniadau llywodraethu yn rheolaidd. Mae'r Swyddog Monitro yn sicrhau cydymffuriad â'r polisïau, y gweithdrefnau, y deddfau a'r rheoliadau tra bod y swyddog Adran 151 yn cynghori ar bob mater ariannol, yn sicrhau bod cofnodion ariannol cywir yn cael eu cadw a bod system gadarn o reolaeth fewnol ar waith.

Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn gyfrifoldeb am gynnal, o leiaf yn flynyddol, adolygiad o effeithlonrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y drefn rheolaeth fewnol. Mae'r adolygiad o effeithlonrwydd wedi ei siapio gan waith rheolwyr o fewn yr awdurdod sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, gan adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol, a hefyd gan sylwadau a wnaed gan archwilwyr allanol ac asiantaethau arolygu ac archwilio eraill.

Mae effeithlonrwydd y fframwaith llywodraethu wedi ei werthuso trwy gyfuniad o:-

- canlyniadau adolygiadau a monitro cyson yn ystod y flwyddyn gan swyddogion a phwyllgorau sy'n cynnwys:
 - gweithgaredd rheoli risg ffurfiol, gan gynnwys ystyriaeth benodol o'r risgiau hynny sy'n gysylltiedig â phrosesau llywodraethu;
 - archwilio mewnol, lle mae'i gwaith yn cynnwys archwilio'r risgiau uchaf a nodwyd yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol, gan gynnwys rheoli risg, yn unol â'r strategaeth archwilio fewnol flynyddol, ac sy'n cynnwys gwaith 'dilynol' i sicrhau bod uwch swyddogion yn mynd i'r afael â Materion / Risgiau y cytunwyd arnynt;
 - yr archwiliad blynyddol o Archwilio Mewnol gan archwilwyr allanol y Cyngor;
 - gwaith Pwyllgorau Sgrïwtini'r Cyngor a Phwyllgorau eraill, gan gynnwys ei bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio a Safonau;
 - barn ac argymhellion archwilwyr allanol y Cyngor, ac asiantaethau adolygu eraill ac arolygwyr;

- Monitro gwelliant a pherfformiad yn rheolaidd yn erbyn Cynllun y Cyngor a'r cynlluniau a'i strategaethau ategol gan aelodau ac uwch reolwyr;
- adolygiad o ddogfennau perthnasol a baratowyd yn ystod y flwyddyn neu yn ymwneud â'r flwyddyn;
- adolygiad o gynnydd yn erbyn y Cynllun Corfforaethol;
- adolygu adborth gan Estyn ac AGC a'r panelau sgrïwtini cysylltiedig;
- cyfres o gyfweiliadau gyda swyddogion allweddol;
- trafodaeth a derbyn sylwadau gan grwpiau o swyddogion ac aelodau gan gynnwys yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Pwyllgor Gwaith.

Cymeradwyr y polisïau allweddol, ac unrhyw ddiwygiadau iddynt gan y Pwyllgor Gwaith, ac fe'u mabwysiadir yn ffurfiol gan y Cyngor Sir fel bo'r angen.


Bydd yr asesiad cyffredinol ar gyfer yr adroddiad hwn yn dilyn y raddfa hunanasesu ganlynol —

Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arferion rhagorol yn y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Cryfderau yn gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Mae canlyniadau'r asesiad a'r adolygiad hwn, a wneir yn unol ag egwyddorion craidd y Cod, yn llywio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor, a gyflwynir fel rhan o'r Datganiad Cyfrifon.

Mae'r Cyngor hefyd yn defnyddio'r Model 'Tair Llinell' fel y dangosir yn y raffeg isod, lle gellir defnyddio pob llinell i roi sicrwydd. Yna defnyddir ystod o weithgareddau sicrwydd o bob llinell amddiffyn i ddarparu darlun sicrwydd cadarn.

Tudalen 377



Ymrwymïadau i'r Egwyddorion Llywodraethu

Egwyddor A: Ymddwyn yn ddidwyll, gan ddangos ymrwymïad cryf i werthoedd moesegol a pharchu'r rheol gyfreithiol

Rhesymeg: Mae sefydliadau llywodraeth leol yn atebol nid yn unig am faint y maent yn ei wario, ond hefyd am y ffordd y maent yn defnyddio'r adnoddau sydd yn eu gofal. Mae hyn yn cynnwys atebolrwydd am allbynnau, cadarnhaol a negyddol, ac am y canlyniadau y maent wedi'u cyflawni. Yn ogystal, mae ganddynt gyfrifoldeb cyffredinol i wasanaethu budd y cyhoedd wrth gadw at ofynion deddfwriaeth a pholisïau'r llywodraeth. Mae'n hanfodol, yn gyffredinol, y gallent ddangos priodoldeb eu holl weithredoedd a bod ganddynt fecanweithiau ar waith i annog a gorfodi ymlyniad at werthoedd moesegol ac i barchu rheolaeth y gyfraith.

Themâu Allweddol Cysylltiedig: 1) Proffesiynol a Threfnus

Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i:

Ffynonellau Sicrwydd

Ymddwyn yn ddidwyll

A1. Sicrhau bod aelodau a swyddogion yn ymddwyn gydag uniondeb ac yn arwain diwylliant lle bod gweithredu er budd y cyhoedd yn cael ei arddangos yn weladwy ac yn gyson sydd o ganlyniad yn diogelu enw da'r Cyngor

A2. Sicrhau bod aelodau'n arwain wrth sefydlu egwyddorion neu weithredu neu weithredoedd safonol ar gyfer y Cyngor a'i staff a'u bod yn cael eu cyfathrebu a'u deall. Dylai'r rhain adeiladu ar y Saith Egwyddor ar gyfer Bywyd Cyhoeddus ('Egwyddorion Nolan')

A3. Arwain drwy esiampl a defnyddio'r egwyddorion gweithredol neu werthoedd safonol hyn fel fframwaith ar gyfer penderfynu a chymau gweithredu eraill

A4. Arddangos, cyfathrebu a gwreiddio'r egwyddorion gweithredu neu werthoedd safonol drwy bolisïau a phrosesau priodol sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol

- Mae nifer o godau ymddygiad a phrotocolau ar waith fel rhan o'r [Cyfansoddiad](#) i sicrhau safonau uchel o ymddygiad – maent yn cynnwys
 - Cod ymddygiad i Aelodau
 - Cod ymddygiad i swyddogion
 - Protocolau ar gyfer cysylltiadau rhwng Aelodau a Swyddogion
 - Polisi Gwrth-fwlio ac Aflonyddu
 - Protocolau ynghylch rhoddion a lletygarwch
 - Protocolau rheolaeth wleidyddol
- Mae Aelodau'n derbyn hyfforddiant ar y codau ymddygiad cyn gynted â phosib ar ôl iddynt gael eu hethol
- Mae'r Swyddog Monitro'n gweithredu fel swyddog arweiniol ar gyfer y Pwyllgor Safonau lle mae saith o'r naw aelod yn

<p>Arddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol</p> <p>A5. Ceisio sefydlu, monitro a chynnal safonau a pherfformiad moesegol y Cyngor</p> <p>A6. Ategu ymddygiad personol gyda gwerthoedd moesegol a sicrhau eu bod yn treiddio i holl agweddau'r Cyngor o ran diwylliant a dulliau gweithredu</p> <p>A7. Datblygu a chynnal polisiâu a gweithdrefnau cadarn sy'n rhoi pwyslais ar werthoedd moesegol cytunedig</p> <p>A8. Sicrhau bod gofyn i ddarparwyr gwasanaeth allanol ar ran y Cyngor weithredu gydag uniondeb ac mewn cydymffurfiaeth â'r safonau moesegol uchel a ddisgwylir gan y Cyngor</p> <p>Parchu rheolaeth y gyfraith</p> <p>A9. Sicrhau bod aelodau a staff yn arddangos ymrwymiad cryf i reol y gyfraith yn ogystal â chadw at gyfreithiau a rheoliadau perthnasol</p> <p>A10. Creu'r amodau i sicrhau bod y swyddogion statudol, deiliaid swyddi allweddol ac aelodau'n gallu cyflawni eu cyfrifoldebau'n unol â gofynion deddfwriaethol a rheoliadol</p> <p>A11. Ymdrechu i wneud y defnydd gorau o'r pwerau llawn sydd ar gael er bydd dinasyddion, cymunedau a rhanddeiliaid eraill</p> <p>A12. Mynd ati i ddelio ag achosion o dorri darpariaethau cyfreithiol a rheoliadol mewn modd effeithio</p> <p>A13. Sicrhau bod achosion o lygredigaeth a chamddefnyddio pŵer yn cael eu trin yn effeithiol</p>	<p>benodiadau allanol, a'r gweddill yn aelodau etholedig.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwerthoedd y Cyngor – 6 Thema Allweddol (nodir uchod yn y cyflwyniad) • Cod Ymddygiad Aelodau a Swyddogion • Pwyllgor Safonau • Rheolau Gweithdrefn Ariannol • Rheolau Gweithdrefn Contract • Polisi Atal Twyll a Llygredd yn y Cyfansoddiad gyda chynlluniau ategol ar waith • Protocol ar roddion a lletygarwch a rhestr o fuddiannau • Datgan diddordebau cyn bob cyfarfod • Cynefino Staff • Polisi Chwythu'r Chwiban • Swyddog Monitro Dynodedig • Polisi Diogelwch TGCh • Seiber-ddiogelwch • Canllawiau GDPR
---	--

Egwyddor B: Sicrhau natur agored ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid

Rhesymeg: Mae llywodraeth leol yn cael ei redeg er lles y cyhoedd, felly dylai sefydliadau sicrhau eu bod yn agored yn eu gweithgareddau. Dylid defnyddio sianeli cyfathrebu ac ymgynghori clir y gellir ymddiried ynddynt i ymgysylltu'n effeithiol â phob grŵp o randdeiliaid, megis dinasyddion unigol a defnyddwyr gwasanaethau, yn ogystal â rhanddeiliaid sefydliadol.

Themâu Allweddol Cysylltiedig: 3) Canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned, 5) Wedi ymrwymo i bartneriaeth

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i:

Ffynonellau Sicrwydd

Bod yn agored

B1. Sicrhau diwylliant agored drwy arddangos, dogfennu a chyfathrebu ein hymrwymiad i fod yn agored

B2. Gwneud penderfyniadau sy'n agored ynghylch camau gweithredu, cynlluniau, y defnydd o adnoddau, rhagamcanion, allbynnau a chanlyniadau. Ein rhagdybiaeth o blaid bod yn agored. Os nad felly y mae, dylid darparu cyfiawnhad ar gyfer yr ymresymiad dros gadw penderfyniad yn gyfrinachol

B3. Darparu ymresymiad a thystiolaeth ar gyfer penderfyniadau mewn cofnodion cyhoeddus ac o fewn eglurhad i randdeiliaid a bod yn bendant ynghylch y meini prawf, y sail resymegol a'r ystyriaethau a ddefnyddir. Yn y man, sicrhau bod effaith a chanlyniadau'r penderfyniadau hynny'n glir

B4. Defnyddio ymgynghori ac ymgysylltu ffurfiol ac anffurfiol i bennu'r myriadau/camau gweithredu mwyaf priodol ac effeithiol

Ymgysylltu cynhwysfawr â rhanddeiliaid sefydliadol

B5. Mynd ati'n effeithiol i ymgysylltu â rhanddeiliaid sefydliadol i sicrhau bod y pwrpas, yr amcanion a'r canlyniadau bwriadedig ar gyfer bob

- Cynhelir cyfarfodydd y [Pwyllgor Gwaith](#) a'r Cyngor yn gyhoeddus (ac eithrio eitemau eithriedig) a chyhoeddir yr holl bapurau ar wefan y Cyngor.
- Darperir [cofnod o benderfyniadau](#) a dogfennau ategol.
- Ceir adroddiad eglurhaol i gyd-fynd â phob adroddiad pwyllgor sy'n darparu crynodeb o'r adroddiad, yr argymhellion y ceisir cymeradwyaeth iddynt a'r rhesymeg dros wneud y penderfyniad hwnnw, er mwyn dangos y rhesymeg dros y penderfyniadau a'r dystiolaeth.
- Mae [Blaen Raglen Waith](#) gyfunol ar gyfer y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgorau Sgriwtini ar gael i'r cyhoedd ac mae'n cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor.
- Mae amserlenni clir ar gyfer cyflwyno, cyhoeddi a dosbarthu adroddiadau.
- Mae cyfarfodydd y [Pwyllgor Gwaith](#), y [Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion](#) a'r [Cyngor](#) yn cael eu gweddarddedu.
- Cyhoeddir adroddiadau blynyddol gan y Pwyllgorau Sgriwtini, y Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- Cyhoeddir y [Ddogfen Gyflawni Flynyddol](#) sy'n amlinellu pa weithgareddau yr ymgymerir â nhw drwy gydol y flwyddyn yn erbyn Cynllun y Cyngor

cysylltiad â rhanddeiliaid yn glir fel bod canlyniadau'n cael eu cyflawni mewn modd llwyddiannus a chynaliadwy

B6. Datblygu partneriaethau ffurfiol ac anffurfiol i ganiatáu defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon a chyflawni canlyniadau'n fwy effeithiol

B7. Sicrhau bod partneriaethau'n seiliedig ar ymddiriedaeth, ymrwymiad a rennir i newid ynghyd â diwylliant sy'n hybu ac yn derbyn her ymhlith partneriaid a bod gwerth ychwanegol gweithio mewn partneriaeth yn elfen bendant

Ymgysylltu rhanddeiliaid yn effeithiol, gan gynnwys dinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth unigol

B8. Polisi clir o ran y math o faterion y bydd y Cyngor yn ymgynghori'n ystyrlon yn eu cylch neu'n cynnwys dinasyddion unigol, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod darpariaeth gwasanaeth yn cyfrannu tuag at gyflawni'r canlyniadau bwriadedig

B9. Sicrhau bod dulliau cyfathrebu'n effeithiol a bod aelodau a swyddogion yn glir o ran eu rolau mewn perthynas ag ymgysylltu cymunedol

B10. Annog, casglu a gwerthuso barnau a phrofiadau cymunedau, dinasyddion, defnyddwyr gwasanaeth a sefydliadau o wahanol gefndiroedd, gan gynnwys cyfeiriad at anghenion i'r dyfodol

B11. Gweithredu mecanweithiau effeithiol ar gyfer rhoi adborth er mwyn arddangos sut y cafodd eu barnau eu hystyried

B12. Cydbwysu adborth gan grwpiau rhanddeiliaid mwy gweithgar gyda grwpiau eraill o rhanddeiliaid i sicrhau eu cynwysoldeb

B13. Ystyried buddiannau cenedlaethau o drethdalwyr a defnyddwyr gwasanaeth i'r dyfodol

- Cyhoeddir yr [Adroddiad Perfformiad Blynyddol](https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Cyngor/Mesur-ein-perfformiad/Cynllun-y-Cyngor-a-pherfformiad.aspx) <<https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Cyngor/Mesur-ein-perfformiad/Cynllun-y-Cyngor-a-pherfformiad.aspx>> i ddangos cynnydd yn erbyn Cynllun y Cyngor (Dogfen Gyflawni Flynyddol) ar gyfer y flwyddyn flaenorol.
- Cyhoeddir [adroddiad monitro cerdyn sgorio](#) chwarterol i ddangos cynnydd yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn gysylltiedig â Chynllun y Cyngor ac amcanion y Gwasanaethau.
- Mae'r Cyngor yn defnyddio'r [Wefan](#) a'r [Cyfryngau Cymdeithasol](#) i gyrraedd nifer cynyddol o drigolion a rhanddeiliaid.
- Mae arferion [Rhyddid Gwybodaeth](#) ar waith er mwyn cyhoeddi ymatebion i geisiadau.
- Daeth y [Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer ardaloedd awdurdod lleol Gwynedd ac Ynys Môn](#) yn gorff statudol o dan Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Cynhelir Arolwg Staff bob 3 blynedd a defnyddir y canlyniadau i lywio gwahanol agendâu ar draws y cyngor.
- Aelodau o [Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru](#)
- Aelodau o [fwrdd GwE](#)
- Partneriaid gydag Awdurdodau Lleol eraill a'r Bwrdd Iechyd ar [Gydweithredfa Ranbarthol Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru](#)
- [Cynghorau Gogledd Cymru – Gwasanaeth Rhanbarthol Cynllunio at Argyfwng](#)
- Defnyddir y [Model Ymgysylltu Cymunedol](#) i wella'r ymagwedd gorfforaethol ar gyfer ymgysylltu cymunedol. Mae'r model hwn yn hanfodol er mwyn nodi'r cymunedau a'r grwpiau hynny fydd â diddordeb mewn derbyn cyfrifoldebau am ddarparu ar gyfer anghenion lleol yn eu cymunedau.

- Mae'r Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori yn darparu dull ar draws y Cyngor ar gyfer ymgysylltu a chynnwys rhanddeiliaid sydd yn lleihau dyblygu, yn sicrhau dull ar y cyd ar gyfer ymgysylltu ac yn gwella ein gwybodaeth seiliedig ar ardaloedd fel Cyngor.
- Mae'r bwrdd [Trawsnewid Prosesau Busnes](#) yn cynorthwyo'r Cyngor i gyfrannu at ei thema o '*ragori wrth ganolbwyntio ar gwsmeriaid, dinasyddion a chymunedau*' (6 Thema Allweddol) ac mae'n gyfrifol am bob agwedd o Wasanaeth Cwsmer ac mae'n cael ei ddefnyddio i fonitro a gwella'r profiad cwsmer i'n preswylwyr.
- Cynhelir ymarferion siopwr cudd i archwilio cydymffurfiaeth y Cyngor â'r [Safonau Iaith Gymraeg](#) a'r Siarter Gofal Cwsmer.
- Mae cyfarfodydd y Cyngor Llawn, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion yn cael eu [gweddarlledu](#) a gellir edrych arnynt ar-lein am hyd at 6 mis yn dilyn y cyfarfodydd.
- Mae croeso i ddinasyddion fynychu cyfarfodydd cyhoeddus a threfnu i siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgorau Sgriwtini a'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.
- Mae [gweithdrefn Gwynion Gorfforaethol](#) ar waith a chyhoeddir [ystadegau](#) ar y wefan yn chwarterol.
- Mae gweithdrefn gwynion ar wahân ar waith ar gyfer y [Gwasanaethau Cymdeithasol](#)
- Gall rhanddeiliaid ymateb i [ymgynghoriadau](#) ar y wefan.

Egwyddor C: Diffinio canlyniadau yn nhermau manteision economaidd cynaliadwy, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol

Rhesymeg: Mae natur ac effaith hirdymor llawer o gyfrifoldebau llywodraeth leol yn golygu y dylai ddiffinio a chynllunio canlyniadau ac y dylai'r rhain fod yn gynaliadwy. Dylai penderfyniadau hyrwyddo diben yr awdurdod, cyfrannu at y manteision a'r canlyniadau a fwriedir, ac aros o fewn terfynau awdurdod ac adnoddau. Mae mewnbwn gan bob grŵp o randdeiliaid, gan gynnwys dinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid sefydliadol, yn hanfodol i lwyddiant y broses hon ac i gydbwysu gofynion sy'n cystadlu wrth bennu blaenoriaethau ar gyfer yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael.

Themâu Allweddol Cysylltiedig: 3) Yn canolbwyntio ar y cwsmer, y dinesydd a'r Gymuned, 5) Wedi ymrwymo i bartneriaeth, 6) Cyflawni

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i:

Ffynonellau Sicrwydd:

Diffinio Canlyniadau

C1. Cael gweledigaeth glir sy'n ddatganiad ffurfiol cytunedig o bwrpas a chanlyniadau bwriadedig y Cyngor sy'n cynnwys dangosyddion perfformiad priodol sy'n darparu'r sail ar gyfer strategaeth gyffredinol y Cyngor, ynghyd â chynllunio a phenderfyniadau eraill

C2. Pennu'r effaith fwriadedig ar, neu newidiadau ar gyfer rhanddeiliaid gan gynnwys dinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth. Gall hyn fod ar unwaith neu dros gyfnod o flwyddyn neu gyfnod hwy

C3. Cyflawni canlyniadau diffiniedig ar sail gynaliadwy o fewn yr adnoddau a fydd ar gael

C4. Canfod a rheoli risgiau o ran cyflawni canlyniadau

C5. Rheoli disgwyliadau defnyddwyr gwasanaeth yn effeithiol o ran pennu blaenoriaethau a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael

- Mae [Cynllun y Cyngor](#) yn adlewyrchu gweledigaeth gyffredinol y Cyngor ac mae'n cwmpasu cyfnod yr etholiadau lleol o 5 mlynedd. Mae'n gynllun sy'n disgrifio blaenoriaethau yn eglur ac yn esbonio sut mae'r blaenoriaethau'n adlewyrchu safbwyntiau'r dinasyddion ac mae wedi ei alinio â'r strategaeth ariannol tymor canolig sy'n datblygu'n barhaus.
- Adolygir y [Strategaeth Ariannol Tymor Canolig](#) yn flynyddol, yn unol â'r blaenoriaethau corfforaethol.
- Mae pob gwasanaeth yn cynhyrchu [Cynllun Cyflawni Gwasanaeth](#) blynyddol sy'n dangos yn glir sut maent yn cyfrannu at gyflawni ein blaenoriaethau corfforaethol. Mae pob cynllun gwasanaeth yn cynnwys mesurau a meini prawf llwyddiant i dystiolaethu sut y bydd gweithredoedd yn gwneud gwahaniaeth.
- Mae Dangosyddion Perfformiad Allweddol sydd wedi'u halinio â Chynllun y Cyngor yn cael eu monitro yn chwarterol drwy'r [Cerdyn Sgorio Corfforaethol](#). Cyflwynir adroddiad ar y Cerdyn Sgorio Corfforaethol i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith lle cytunir ar gamau lliniaru i'r Gwasanaethau eu rhoi ar waith ar gyfer unrhyw DPA sy'n tanberfformio.

<p>Buddiannau economaidd, cymdeithasol ac economaidd cynaliadwy</p> <p>C6. Ystyried a chydbwyso effaith economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol polisïau, cynlluniau a phenderfyniadau ar y cyd wrth wneud penderfyniadau am ddarpariaeth gwasanaeth</p> <p>C7. Cymryd golwg mwy hirdymor o ran penderfynu, gan ystyried risg a gweithredu mewn modd tryloyw lle bo gwrthdaro posibl rhwng canlyniadau bwriadedig y Cyngor a ffactorau tymor byr fel y cylch gwleidyddol neu gyfyngiadau ariannol</p> <p>C8. Pennu budd ehangach y cyhoedd sy'n gysylltiedig â chydbwyso buddion sy'n gwrthdaro rhwng cyflawni'r amryw fuddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, drwy ymgynghori lle bynnag y bo modd, er mwyn sicrhau cyfaddawdau priodol</p> <p>C9. Sicrhau mynediad teg i wasanaethau</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae Gwasanaethau yn derbyn Adolygiadau Gwasanaeth bob chwe mis – gan edrych yn benodol ar y gyllideb a gwariant ym mis Mehefin ac ar berfformiad a chanlyniadau rhwng mis Tachwedd a mis Ionawr. Mae aelodau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac aelodau etholedig, o'r Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol, yn herio perfformiad gwasanaethau yn gadarn yn ystod y sesiynau adolygu gwasanaeth. Yna, cytunir ar gamau gweithredu yn y cyfarfod i fynd i'r afael â phroblemau neu wella perfformiad yn erbyn targedau a osodir er mwyn eu rhoi ar waith yn ystod y 12 mis nesaf. • Mae perfformiad a chynnydd yn erbyn Cynllun y Cyngor yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol a chyhoeddir gwybodaeth am berfformiad ariannol yn y Datganiad o Gyfrifon. • Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn yn 2016, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn darparu Adroddiad Blynyddol ac adroddiadau Cynnydd drwy gydol y flwyddyn. • Datganiad Llywodraethu Blynyddol • Adroddiadau Refeniw a Chyfalaf Chwarterol • Mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol gynhyrchu Adroddiad Blynyddol • Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg
--	--

Egwyddor D: Pennu'r ymyriadau sy'n angenrheidiol i sicrhau ein bod yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir hyd eithaf ein gallu

Rhesymeg: Mae llywodraeth leol yn cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd drwy ddarparu cymysgedd o ymyriadau cyfreithiol, rheoleiddiol ac ymarferol. Mae pennu'r cymysgedd cywir o'r camau gweithredu hyn yn ddewis strategol hollbwysig y mae'n rhaid i lywodraeth leol ei wneud i sicrhau y cyflawnir y canlyniadau a fwriedir. Maent angen mecanweithiau gwneud penderfyniadau cadarn i sicrhau y gellir cyflawni eu canlyniadau diffiniedig mewn ffordd sy'n darparu'r fasnach orau rhwng y gwahanol fathau o fewnbynau adnoddau tra'n parhau i alluogi gweithrediadau effeithiol ac effeithlon. Mae angen adolygu penderfyniadau a wneir yn barhaus er mwyn sicrhau bod y canlyniadau'n cael eu cyflawni yn y ffordd orau posibl.

Themâu Allweddol Cysylltiedig: 2) Arloesol, Uchelgeisiol ac Eangfrydig

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i:

Ffynonellau Sicrwydd:

Penderfynu a chynllunio ymyriadau

D1. Sicrhau bod penderfynwyd yn derbyn dadansoddiad gwrthrychol a thrylwyr o amrywiaeth o opsiynau sy'n dangos sut y byddai canlyniadau bwriadedig yn cael eu cyflawni a chynnwys y risgiau sy'n gysylltiedig â'r opsiynau hynny. Felly sicrhau bod y gwerth gorau'n cael ei gyflawni sut bynnag y darperir gwasanaethau

D2. Ystyried adborth gan ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth wrth wneud penderfyniadau am welliannau i wasanaethau neu lle nad oes angen gwasanaethau mwyach er mwyn blaenoriaethu galwadau sy'n anghyson â'i gilydd o fewn yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael, gan gynnwys pobl, sgiliau, tir ac asedau a gan gofio effeithiau i'r dyfodol

Sicrhau'r cyflawniad gorau posibl o'r canlyniadau a fwriedir

D3. Sefydlu a gweithredu cylchoedd cynllunio a rheoli cadarn sy'n cwmpasu cynlluniau strategol a gweithredol, blaenoriaethau a thargedau

- Mae'r [Cyfansoddiad](#) yn nodi'r glir sut mae'r Cyngor yn gweithredu a sut y gwneir penderfyniadau a'r gweithdrefnau y mae angen eu dilyn i sicrhau effeithlonrwydd, tryloywder ac atebolrwydd.
- [Strwythurau Pwyllgorau'r Cyngor](#) - Cyngor, Pwyllgor Gwaith, Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion, Trwyddedu, Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a'r Pwyllgor Safonau.
- Mae [Cyngor Sir Ynys Môn](#) yn gyfrifol am y fframwaith polisi a chyllideb. Mae adroddiadau llywodraethiant allweddol yn faterion i'r Cyngor, ac mae'r Cyngor yn cyntuno ar gyllideb referniw a chyfalaf flynyddol.
- Y [Pwyllgor Gwaith](#) yw'r prif gorff gwneud penderfyniadau ac mae'n cynnwys yr arweinydd ac wyth aelod portffolio arall.
- Mae'r [Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio](#) yn elfen allweddol o fframwaith llywodraethiant yr awdurdod. Mae gan y pwyllgor ddau aelod cyfetholedig sydd yn gyfrwng i ehangu gwybodaeth a phrofiad annibynnol.
- Mae'r [Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol](#) yn darparu sicrwydd ynghylch perfformiad a darparu'r holl wasanaethau. Mae'n

<p>D4. Ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol wrth bennu sut y dylid cynllunio a chyflawni gwasanaethau a chamau gweithredu eraill</p> <p>D5. Ystyried a monitro'r risgiau sy'n wynebu pob partner wrth weithio ar y cyd gan gynnwys y risgiau a rennir</p> <p>D6. Sicrhau bod trefniadau'n hyblyg ac yn ystwyth fel y gellir addasu'r mecanweithiau ar gyfer cyflawni allbynnau yn ôl amgylchiadau newidiol</p> <p>D7. Sefydlu dangosyddion perfformiad lleol priodol (yn ogystal â dangosyddion perfformiad statudol neu genedlaethol eraill) fel rhan o'r broses gynllunio er mwyn canfod sut y dylid mesur perfformiad gwasanaethau a phrosiectau</p> <p>D8. Sicrhau bod capasiti'n bodoli i gynhyrchu'r wybodaeth a fynnir i adolygu ansawdd gwasanaethau'n rheolaidd</p> <p>D9. Paratoi cyllidebau'n unol ag amcanion sefydliadol, strategaethau a'r cynllun ariannol tymor canolig</p> <p>D10. Llywio gwaith cynllunio adnoddau tymor canolig a hirdymor drwy lunio amcanestyniadau realistig o ran gwariant refeniw a chyfalaf sy'n anelu at ddatblygu strategaeth ariannu gynaliadwy</p> <p>Cyflawni'r canlyniadau bwriadedig yn y modd gorau bosibl</p> <p>D11. Sicrhau bod y strategaeth ariannol tymor canolig yn integreiddio ac yn cydbwysu blaenoriaethau gwasanaethau, fforddiadwyedd a chyfyngiadau eraill o ran adnoddau</p> <p>D12. Sicrhau bod y broses gyllidebu yn hollgynhwysol, gan ystyried cost lawn gweithrediadau dros y tymor canolig a'r tymor hwy</p>	<p>sicrhau bod y cyngor yn cyflawni ei amcanion corfforaethol ac amcanion ei wasanaethau tra'n cefnogi ac yn gwneud argymhellion ar gyfer gwelliant parhaus.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn sicrhau bod buddion dinasyddion yr Ynys yn cael eu hyrwyddo a bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o adnoddau'r cyngor, yn unol â blaenoriaethau'r Cyngor, sy'n darparu gwerth ychwanegol o weithio gyda phartneriaid. • Ceir adroddiad eglurhaol i gyd-fynd â phob adroddiad pwyllgor sydd yn rhoi crynodeb o'r adroddiad, yr argymhellion y ceisir eu cymeradwyo a'r rhesymeg dros wneud yr argynhelliad, er mwyn dangos y rhesymeg a thystiolaeth dros y penderfyniadau. • Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) a'r Penaethiaid yn sicrhau bod canlyniadau'n cael eu monitro a'u cyflawni drwy gydol y flwyddyn. • Mae Gwasanaethau yn derbyn Adolygiadau Gwasanaeth bob chwe mis – gan edrych yn benodol ar y gyllideb a gwariant ym mis Mehefin ac ar berfformiad a chanlyniadau rhwng mis Tachwedd a mis Ionawr. Mae aelodau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac aelodau etholedig, o'r Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol, yn herio perfformiad gwasanaethau yn gadarn yn ystod y sesiynau adolygu gwasanaeth. Yna, cytunir ar gamau gweithredu yn y cyfarfod i fynd i'r afael â phroblemau neu wella perfformiad yn erbyn targedau a osodir er mwyn eu rhoi ar waith yn ystod y 12 mis nesaf. • Mae gan y Cyngor Fframwaith Cynllunio a Rheoli Perfformiad ar waith. • Mae'r rhaglenni a'r prosiectau sydd wedi eu halinio â Chynllun y Cyngor yn cael eu monitro gan y Bwrdd Rhaglen Llywodraethiant Corfforaethol a'r Bwrdd Trawsnewid Gwasanaethau. • Mae Rhaglen Ynys Ynni™ Ynys Môn a sefydlwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn yn ymdrech ar y cyd rhwng nifer o randdeiliaid yn y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector sy'n gweithio mewn partneriaeth, gan roi Ynys Môn ar flaen y gad ym maes
---	--

D13. Sicrhau bod y strategaeth ariannol tymor canolig yn gosod y cyd-destun ar gyfer penderfyniadau parhaus mewn perthynas â materion arwyddocaol o ran cyflenwi neu ymatebion i newidiadau yn yr amgylchedd allanol all godi yn ystod y cyfnod cyllidebu er mwyn cyflawni canlyniadau wrth wneud y gorau o'r defnydd o adnoddau

ymchwil a datblygu, cynhyrchu a gwasanaethu ynni carbon isel, a sicrhau buddion economaidd enfawr posib.

- Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid yn y diwydiant twristiaeth er mwyn creu strategaeth twristiaeth hirdymor ar gyfer yr Ynys. [Mae Bwrdd Partneriaeth Cyrchfan Ynys Môn](#) yn monitro cyflawniadau yn erbyn y [Cynllun Rheoli Cyrchfan Ynys Môn](#)
- [Ymgynghoriad ar Gyllideb](#)
- [Cynllun Ariannol Tymor Canolig](#)
- [Llyfr Cyllideb y Cyngor](#)

Egwyddor E: Datblygu capasiti'r endid, ynghyd â gallu ei arweinyddion a'r unigolion ynddo

Rhesymeg: Mae angen strwythurau ac arweinyddiaeth briodol ar lywodraeth leol, yn ogystal â phobl sydd â'r sgiliau cywir, cymwysterau priodol a meddylfryd priodol, i weithredu'n effeithlon ac yn effeithiol a chyflawni eu canlyniadau arfaethedig o fewn y cyfnodau penodedig. Rhaid i sefydliad llywodraeth leol sicrhau bod ganddo'r gallu i gyflawni ei fandad ei hun a sicrhau bod polisïau ar waith i warantu bod gan ei reolwyr y gallu gweithredol i'r sefydliad cyfan. Gan y bydd unigolion a'r amgylchedd y mae awdurdod yn gweithredu ynddo yn newid dros amser, bydd angen parhaus i ddatblygu ei allu yn ogystal â sgiliau a phrofiad arweinyddiaeth aelodau unigol o staff. Atgyfnerthir arweinyddiaeth mewn endidau llywodraeth leol drwy gyfranogiad pobl sydd â llawer o wahanol fathau o gefndiroedd, gan adlewyrchu strwythur ac amrywiaeth cymunedau.

Themâu Allweddol Cysylltiedig: 4) Gwerthfawrogi a Datblygu ein Pobl

Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i:

Ffynonellau Sicrwydd:

Datblygu capasiti'r endid

E1. Datblygu a chynnal cynllun effeithiol ar gyfer y gweithlu er mwyn dyrannu adnoddau mewn modd mwy strategol

E2. Adolygu gweithrediadau, perfformiad a'r defnydd o asedau'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol

E3. Gwella'r defnydd o adnoddau drwy ddefnyddio technegau mewn modd priodol, fel meincnodi ac opsiynau eraill, er mwyn pennu sut y mae adnoddau'r Cyngor yn cael eu dyrannu fel bod canlyniadau'n cael eu cyflawni mewn modd effeithiol ac effeithlon

E4. Adnabod buddion partneriaethau a gweithio ar y cyd lle gellir cyflawni gwerth ychwanegol

Datblygu gallu arweinyddiaeth yr endid ac unigolion eraill

E5. Datblygu protocolau i sicrhau bod arweinyddion sydd wedi'u hethol a'u penodi yn negydu â'i gilydd ynghylch eu rolau perthnasol yn fuan yn y

- Strategaeth Datblygu Gweithlu
- Chynlluniau Datblygu Gweithlu ar gyfer pob Gwasanaeth
- Strategaeth Pobl
- Gwerthusiad Blyneddol (Adolygiad Datblygu Perfformiad)
- Cynllun Cydraddoldeb 2020-24
- Sesiynau briffio aelodau
- Fforwm Rheolwyr
- Gwobrau Staff
- Siarter ar gyfer Cefnogi Aelodau CLILC
- [Rhaglen Datblygu a Hyfforddi Aelodau](#)
- Cynllun Hyfforddai
- Cynllun Denu Talent
- Y Gronfa Ddysgu / E-Ddysgu
- Rhaglen Hyfforddi Mewnol – yn cynnwys Arweinyddion Môn, Academi Môn ac 'Twf a Datblygu'

berthynas a bod dealltwriaeth a rennir o rolau ac amcanion yn cael ei chynnal

E6. Cyhoeddi datganiad sy'n pennu'r mathau o benderfyniadau sy'n cael eu dirprwyo a'r rheiny sy'n cael eu cadw ar gyfer proses benderfynu'r corff llywodraethu ar y cyd

E7. Sicrhau bod gan yr arweinydd a'r prif weithredwr rolau sydd wedi'u diffinio'n glir ac sy'n arbennig iddynt hwy o fewn strwythur, lle mae'r prif weithredwr yn arwain yr awdurdod wrth weithredu strategaeth a rheoli'r modd y cyflawnir gwasanaethau ac allbynnau eraill a osodir gan aelodau, a bod y naill a'r llall yn darparu rhwystrau a gwrthbysau ar gyfer awdurdod y naill a'r llall

E8. Datblygu galluoedd aelodau ac uwch reolwyr o ran cyflawni arweinyddiaeth effeithiol a rennir ac i alluogi'r Cyngor i ymateb yn llwyddiannus i alwadau newidiol o ran materion cyfreithiol a pholisïau yn ogystal â newidiadau a risgiau economaidd, gwleidyddol ac amgylcheddol drwy:

- sicrhau bod aelodau a staff yn cael mynediad i sesiynau ymsefydlu priodol sydd wedi'u haddasu ar gyfer eu rôl a bod gweithgareddau hyfforddiant a datblygu parhaus ar gael sy'n cyfateb i ofynion unigol a sefydliadol a'u bod yn cael eu hannog,
- sicrhau bod gan aelodau a swyddogion y sgiliau, y wybodaeth, yr adnoddau a'r cymorth priodol i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau a sicrhau eu bod yn gallu diweddarau eu gwybodaeth yn barhaus,
- sicrhau datblygiad personol, sefydliadol a ledled y system drwy rannu dysgu, gan gynnwys
- gwersi a ddysgwyd yng ngolau gwendidau mewnol ac allanol o ran llywodraethu

E9. Sicrhau bod strwythurau yn eu lle i annog cyrfanogiad cyhoeddus

E10. Cymryd camau i ystyried effeithiolrwydd yr arweinyddiaeth ei hun a sicrhau bod arweinwyr yn agored i adborth adeiladol drwy adolygiadau cymheiriaid ac arolygiadau

E11. Dal staff yn atebol drwy adolygiadau rheolaidd o berfformiad sy'n ystyried anghenion o ran hyfforddiant neu ddatblygu

E12. Sicrhau bod trefniadau yn eu lle i gynnal iechyd a llesiant y gweithlu ac i gefnogi unigolion i gynnal eu llesiant corfforol a meddyliol eu hunain

Egwyddor F: Rheoli risgiau a perfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref

Rhesymeg: Mae angen i lywodraeth leol sicrhau bod y sefydliadau a'r strwythurau llywodraethu y mae'n eu goruchwyllo wedi gweithredu, ac yn gallu cynnal, system rheoli perfformiad effeithiol sy'n hwyluso'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cynlluniedig yn effeithiol ac yn effeithlon. Mae rheoli risg a rheolaeth fewnol yn rhannau pwysig ac annatod o system rheoli perfformiad ac yn hanfodol i gyflawni canlyniadau. Dylid ystyried risg a mynd i'r afael â hi fel rhan o'r holl weithgareddau gwneud penderfyniadau.

Mae system gref o reolaeth ariannol yn hanfodol ar gyfer gweithredu polisiau a chyflawni'r canlyniadau a fwriedir, gan y bydd yn gorfodi disgyblaeth ariannol, dyrannu adnoddau'n strategol, darparu gwasanaethau'n effeithlon, ac atebolrwydd.

Mae hefyd yn hanfodol bod diwylliant a strwythur ar gyfer craffu ar waith fel rhan allweddol o wneud penderfyniadau atebol, llunio polisiau ac adolygu. Mae diwylliant gwaith cadarnhaol sy'n derbyn, yn hyrwyddo ac yn annog her adeiladol yn hanfodol i graffu llwyddiannus a chyflawni'n llwyddiannus. Yn bwysig, nid yw'r diwylliant hwn yn digwydd yn awtomatig, mae'n gofyn am ymrwymiad cyhoeddus mynych gan y rhai sydd mewn awdurdod.

Themâu Allweddol Cysylltiedig: 1) Yn broffesiynol ac yn cael ei redeg yn dda

Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i:

Ffynonellau Sicrwydd:

Rheoli Risgiau

F1. Cydnabod bod rheoli risg yn rhan annatod o bob gweithgaredd a rhaid ystyried hyn ym mhob agwedd ar wneud penderfyniadau

F2. Gweithredu trefniadau rheoli risg cadarn ac integredig a sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol

F3. Sicrhau bod cyfrifoldebau o ran rheoli risgiau unigol yn cael eu neilltuo'n glir

Rheoli Perfformiad

F4. Monitro'r gwaith o gyflenwi gwasanaethau'n effeithiol gan gynnwys cynllunio, manylebau, cyflawni ac adolygiadau annibynnol ar ôl eu gweithredu

- Polisi a Fframwaith Rheoli Risg
- Meddalwedd rheoli risg 4Risk
- Fframwaith Rheoli Perfformiad
- [Cynllun y Cyngor](#)
- [Cynllun Cyflawni Blynyddol](#)
- [Adroddiad Perfformiad Blynyddol](#)
- Hunanasesiad (Mewnol)
- Byrddau Rhaglen Corfforaethol
- Adolygiadau Gwasanaeth – Ariannol a Pherfformiad
- Hunanasesiad Archwilio Mewnol yn erbyn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS)
- Adroddiadau Archwilio Mewnol
- Adroddiad Blynyddol yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO)
- Hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth
- Polisi Llywodraethu Gwybodaeth

<p>F5. Gwneud penderfyniadau'n seiliedig ar ddadansoddi a chyngor perthnasol a chlir gan amlygu'r goblygiadau a'r risgiau sy'n rhan annatod o sefyllfa a rhagolygon ariannol, cymdeithasol ac amgylcheddol y Cyngor</p> <p>F6. Sicrhau bod swyddogaeth graffu neu drosolwg effeithiol yn ei lle sy'n annog herio a dadlau adeiladol mewn perthynas â pholisïau cyn, yn ystod ac ar ôl gwneud penderfyniadau, gan wella perfformiad y Cyngor ac unrhyw sefydliad y mae'n gyfrifol amdano</p> <p>F7. Darparu adroddiadau rheolaidd i aelodau ac uwch reolwyr ar y cynnydd tuag at gyflawni canlyniadau</p> <p>F8. Sicrhau bod cysondeb rhwng cyfnodau pennu manylion (fel cyllidebau) ynghyd ag adrodd ar ôl eu gweithredu (e.e. datganiadau ariannol)</p> <p>Rheolaeth Fewnol Gadarn</p> <p>F9. Cysoni'r strategaeth rheoli risg a pholisïau ar reolaeth fewnol gyda chyflawni amcanion</p> <p>F10. Gwerthuso a monitro'r modd y mae risgiau'n cael eu rheoli a rheolaeth fewnol yn rheolaidd</p> <p>F11. Sicrhau bod trefniadau gwrth-dwyll a gwrthlygredigaeth effeithiol yn eu lle</p> <p>F12. Sicrhau bod yr archwilydd mewnol yn darparu sicrwydd ychwanegol o ran digonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol y fframwaith llywodraethu, rheoli a rheolaeth risg</p> <p>F13. Sicrhau bod pwyllgor archwilio neu grŵp neu swyddogaeth gyfatebol sy'n annibynnol o'r bwrdd gweithredol ac sy'n atebol i'r corff llywodraethu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yn darparu ffynhonnell bellach o sicrwydd effeithiol o ran trefniadau ar gyfer rheoli risg a chynnal amgylchedd rheoli effeithiol • y dylid gwrandao ar yr argymhellion a gweithredu arnynt 	<ul style="list-style-type: none"> • Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol • Diogelwch TGCh • Adroddiadau Refeniw Chwarterol • Adroddiadau Cyfalaf Chwarterol • Datganiad o Gyfrifon • Mae trefniadau Rheoli Trysorlys y Cyngor yn dilyn arferion proffesiynol ac maent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn. • Cynllun Ariannol Tymor Canolig • Strategaeth Gaffael • Cadarnhaodd y Dystysgrif Cydymffurfiaeth Blynyddol bod y Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau'n ymwneud ag adroddiadau ariannol, defnyddio adnoddau, cynllunio gwelliant a rheoli perfformiad.
--	---

Rheoli Data

F14. Sicrhau bod trefniadau effeithiol yn eu lle ar gyfer casglu, storio, defnyddio a rhannu data, gan gynnwys prosesau i ddiogelu data personol

F15. Sicrhau bod trefniadau effeithiol yn eu lle ac yn gweithredu'n effeithiol wrth rannu data â chyrrff eraill

F16. Mynd ati'n rheolaidd i adolygu ac archwilio ansawdd a chywirdeb y data a ddefnyddir wrth wneud penderfyniadau a monitro perfformiad

Rheolaeth Ariannol Gyhoeddus Gref

F17. Sicrhau bod rheolaeth ariannol yn cefnogi cyflawniad hirdymor canlyniadau ynghyd â pherfformiad ariannol a gweithredol yn y tymor byr

F18. Sicrhau bod rheolaeth ariannol tra datblygedig wedi'i hintegreiddio ar bob lefel gynllunio a rheolaeth, gan gynnwys rheoli risgiau a rheolaethau ariannol

Egwyddor G: Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio

Rhesymeg: Mae atebolrwydd yn ymwneud â sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau yn atebol amdanynt. Mae atebolrwydd effeithiol yn ymwneud nid yn unig ag adrodd ar y camau a gwblhawyd, ond hefyd â sicrhau bod rhanddeiliaid yn gallu deall ac ymateb wrth i'r sefydliad gynllunio a chyflawni ei weithgareddau mewn modd tryloyw. Mae archwilio allanol a mewnol yn cyfrannu at atebolrwydd effeithiol.

Themâu Allweddol Cysylltiedig: 1) Yn broffesiynol ac yn cael ei redeg yn dda

Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i:

Ffynonellau Sicrwydd:

Gweithredu arferion da o ran tryloywder ac adrodd

G1. Ysgrifennu a chyfathrebu adroddiadau ar gyfer rhanddeiliaid cyhoeddus ac eraill mewn dull dealladwy sy'n briodol ar gyfer y gynulleidfa fwriadedig a sicrhau eu bod yn hawdd cael mynediad atynt a'u cwestiynu

G2. Cyflawni cydbwysedd rhwng darparu digon o wybodaeth i fodloni galwadau o ran tryloywder a hybu craffu cyhoeddus gan sicrhau nad yw'n ormod i'w ddarparu ac i ddefnyddwyr ei deall

G3. O leiaf yn flynyddol, adrodd ar berfformiad, gwerth am arian a stiwardiaeth adnoddau

G4. Sicrhau bod gan berchnogion ac uwch reolwyr berchnogaeth dros y canlyniadau

G5. Sicrhau trefniadau cadarn ar gyfer asesu'r graddau y mae'r egwyddorion a gynhwysir yn y Fframwaith wedi cael eu gweithredu, a chyhoeddi'r canlyniadau ar yr asesiad hwn gan gynnwys cynllun gweithredu ar gyfer gwella a thystiolaeth i arddangos llywodraethu da (datganiad llywodraethu blynyddol)

- Mae pob agenda ac adroddiad ar gael ar wefan y Cyngor
- Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- Cofrestr o ddiddordebau Aelodau
- Cofrestr o ddiddordebau Cyngorau Tref a Chymuned
- Adroddiadau Archwilio Mewnol
- Sesiynau briffio misol Aelodau
- Adroddiadau Archwilio Allanol, gan gynnwys Estyn, Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru
- Adroddiadau Arolygiaeth
- Adroddiad Sgriwtini Blynyddol
- Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol

G6. Sicrhau bod y Fframwaith yn cael ei weithredu mewn perthynas â sefydliadau gwasanaeth sy'n cael eu rheoli ar y cyd neu eu rhannu fel y bo'n briodol

G7. Sicrhau bod y wybodaeth o ran perfformiad sy'n cyd-fynd â'r datganiadau ariannol y'n cael ei pharatoi mewn modd cyson ac amserol a bod y datganiadau'n caniatáu cymharu â sefydliadau tebyg eraill

Sicrwydd ac atebolrwydd effeithiol

G8. Sicrhau y gweithredir ar yr argymhellion ar gyfer camau unioni a wneir drwy archwilio allanol

G9. Sicrhau bod gwasanaeth archwilio mewnol effeithiol yn ei le gyda mynediad uniongyrchol i aelodau sy'n darparu sicrwydd o ran trefniadau llywodraethu ac y gweithredir ar argymhellion

G10. Croesawu herio gan gymheiriaid, ynghyd ag adolygiadau ac arolygon gan gyrrff rheoleiddio a gweithredu argymhellion

G11. Cael sicrwydd o ran risgiau sy'n gysylltiedig â chyflenwi gwasanaethau drwy drydydd partiön a bod tystiolaeth o hyn yn y datganiad llywodraethu blynyddol

G12. Sicrhau, wrth weithio mewn partneriaeth, bod trefniadau ar gyfer atebolrwydd yn glir a bod yr angen am atebolrwydd cyhoeddus ehangach wedi'i gydnabod a'i gyflawni

Atodiad 1

Y Chwe Thema Allweddol

Datblygwyd y Chwe Thema Allweddol gan staff a rheolwyr i gefnogi ein nodau a'n hamcanion yng Nghynllun y Cyngor. Fe'u defnyddir fel sail i bopeth a wnawn ac maent yn cyd-fynd a'r Egwyddorion Craidd a'r egwyddorion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 –

1. Proffesiynol a Threfnus

Rydym yn ymrwymo i ddatblygu partneriaeth ddemocrataidd a phroffesiynol a fydd yn darparu arweiniad effeithiol a chryf ac yn sefydlu'r ymddygiadau proffesiynol a sefydliadol sy'n angenrheidiol i sicrhau gwelliant.

2. Arloesol, Uchelgeisiol ac Eangfrydig

Byddwn yn sefydlu amgylchedd a diwylliant sy'n annog ac yn meithrin syniadau a datrysiadau arloesol a chreadigol sy'n edrych y tu draw i'r sefydliad er mwyn ceisio datrysiadau uchelgeisiol a fydd yn fanteisiol i'n cwsmeriaid, ein dinasyddion a'n cymunedau.

3. Canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned

Byddwn yn ymgysylltu'n egniol gyda chymunedau, dinasyddion a chwsmeriaid, yn mofyn eu barn, yn deall eu hanghenion ac yn ymateb iddynt gan egluro'n llawn a chyfathrebu ein gweithredoedd.

4. Gwerthfawrogi a Datblygu'n Pobl

Byddwn yn gwerthfawrogi ac yn datblygu ein pobl er mwyn sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r cymhelliant a'u bod bob amser yn broffesiynol yn y modd y maent yn gweithio. Byddwn yn cydnabod llwyddiant, arloesedd ac ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth cwsmer rhagorol.

5. Wedi Ymrwymo i Bartneriaeth

Rydym yn deall na fedrwn gyflawni'r trawsnewidiad angenrheidiol ar ein pennau ein hunain ac rydym yn ymrwymo i weithio mewn partneriaeth gyda'n partneriaid yn y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat er mwyn sicrhau twf a datblygiad cynaliadwy.

6. Cyflawni

Rydym yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac allbynnau ac yn ymdrechu i wella ein perfformiad yn y meysydd pwysig o'n gwaith.

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
CYFARFOD:	Cyngor Sir
DYDDIAD:	10 Mawrth 2022
TEITL YR ADRODDIAD:	Datganiad Polisi Tâl 2022
ADRODDIAD GAN:	Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Sicrhau bod yr Awdurdod yn cwrdd â'i gyfrifoldebau statudol dan Ddeddf Lleoliaeth 2011 i gyhoeddi Polisi Tâl erbyn 31.3.22

RHAGARWEINIAD

Dan Adran 112 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae gan y Cyngor “power to appoint officers on such reasonable terms and conditions as the authority thinks fit”. Yn unol ag Adran 38 Deddf Lleoliaeth 2011, rhaid i awdurdodau lleol yn Lloegr a Chymru gynhyrchu a chyhoeddi datganiad polisi tâl ar gyfer bob blwyddyn ariannol.

SGÔP Y POLISI

Yn unol â Deddf Lleoliaeth Act 2011, rhaid i awdurdodau ddatblygu a chyhoeddi eu polisi tâl ar bob agwedd o Gydabyddiaeth i Brif Swyddogion. Er budd tryloywder ac atebolrwydd, mae'r Cyngor wedi dewis dull mwy cyffredinol a bydd yn cynhyrchu datganiad polisi sy'n cynnwys yr holl grwpiau o weithwyr ac eithrio athrawon ysgolion oherwydd nid yw'r gydnabyddiaeth a roddir iddynt hwy o fewn rheolaeth yr awdurdod lleol. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru wedi eu cynnwys yn y datganiad.

ARGYMHELLIAD

Argymhellir bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl sydd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn fel ei Ddatganiad Polisi Tâl ar gyfer 2022/23.

Atodiad 1 Datganiad Polisi Tâl

CYNGOR SIR YNYS MÔN

DATGANIAD POLISI TÂL

CHWEFROR 2022

1. Rhagarweiniad a Phwrpas

Yn unol ag adran 112 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae gan y Cyngor “power to appoint officers on such reasonable terms and conditions as the authority thinks fit”. Mae'r Datganiad Polisi Tâl hwn (y 'datganiad') yn nodi dull gweithredu'r Cyngor o ran y polisi tâl yn unol â gofynion Adran 38 Deddf Lleoliaeth 2011, sy'n rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr i gynhyrchu a chyhoeddi datganiad polisi tâl ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Pwrpas y datganiad yw darparu tryloywder mewn perthynas â dull y Cyngor o bennu tâl ei weithwyr (ac eithrio'r rheini sy'n dysgu yn ysgolion yr awdurdod lleol) trwy nodi;

- dulliau ar gyfer penderfynu cyflogau gweithwyr;
- lefel ac elfennau y gydnabyddiaeth ariannol a roddir i'w prif swyddogion, fel y diffinnir hynny gan y ddeddfwriaeth berthnasol;
- lefel tâl gweithwyr ar y cyflogau isaf;

Mae awdurdodau lleol yn sefydliadau cymhleth, mawr gyda chyllidebau o filiynau o bunnau. Mae ganddynt amrediad eang iawn o swyddogaethau ac maent yn darparu ac/neu'n comisiynu ystod eang o wasanaethau hanfodol. O'r herwydd, gall y dull gweithredu cyffredinol o ran lefelau cydnabyddiaeth wahaniaethu o un grŵp o weithwyr i'r llall i adlewyrchu anghenion penodol ar lefel leol, lefel Cymru neu lefel y Deyrnas Gyfunol. Rhaid iddo hefyd fod yn hyblyg, pan fo angen, i roi sylw i amrywiaeth o amgylchiadau sy'n newid a rhaid iddo fod yn gyson â'r amcanion busnes.

2. Y Fframwaith Deddfwriaethol

Wrth benderfynu tâl a chydabyddiaeth ei weithwyr, bydd y Cyngor yn cydymffurfio gyda'r holl ddeddfwriaeth berthnasol o ran cyflogaeth. Mae hyn yn cynnwys Deddf Cydraddoldebau 2010, Rheoliadau Cyflogaeth Rhan Amser (Rhwystr Triniaeth Llai Ffatriol) 2000, Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth 2010 a lle mae hynny'n berthnasol, Reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006. (Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol).

3. Sgôp y Datganiad Polisi Tâl

Yn unol â Deddf Lleoliaeth 2011, rhaid i awdurdodau ddatblygu a chyhoeddi eu polisi tâl ynghylch pob agwedd ar y Gydabyddiaeth Ariannol i Brif Swyddogion (gan gynnwys cytundebau terfynu) ac i'r rheini yn yr awdurdod sy'n cael y 'tâl isaf', gan esbonio eu polisi ar y berthynas rhwng y gydnabyddiaeth ariannol i'r haen rheolaeth uwch a gweithwyr eraill ac eithrio athrawon ysgol oherwydd bod eu cydnabyddiaeth ariannol nhw y tu allan i reolaeth yr awdurdod lleol.

Nid oes dim o fewn darpariaethau Deddf Lleoliaeth 2011 yn tynnu oddi wrth y grym sydd gan gynghorau i wneud penderfyniadau ar dâl sy'n briodol i amgylchiadau lleol ac sy'n darparu gwerth am arian ar gyfer trethdalwyr lleol. Fodd bynnag, cydymffurfir gyda'r datganiad polisi hwn wrth bennu lefelau cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer yr holl grwpiau o fewn ei sgôp.

Nid yw'r polisi tâl hwn yn berthnasol i athrawon yn ysgolion yr awdurdod lleol, a fydd â'u polisi cyflog eu hunain.

4. Datblygu Strategaeth Tâl a Gwobrwyo

Prif nod y strategaeth wobrwyo yw denu, cadw a chymell staff sydd â'r sgiliau addas fel y gall yr awdurdod berfformio ar ei orau. Un o'r heriau mwyaf i'r Cyngor yw sicrhau'r effeithlonrwydd a'r cynhyrchedd mwyaf posib o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Mae'r polisi tâl yn fater o daro cydbwysedd anodd weithiau rhwng pennu cydnabyddiaeth ariannol ar lefelau priodol i hwyluso cyflenwad digonol o unigolion gyda'r sgiliau priodol i lenwi'r ystod eang iawn o swyddi yn yr awdurdod, a sicrhau nad yw'r baich ar y trethdalwyr yn fwy na'r hyn y gellir ei gyfiawnhau'n llawn ac yn wrthrychol.

Yn y cyd-destun hwn, mae'n rhaid cydnabod bod rhaid i lefelau cydnabyddiaeth ariannol, ar y lefelau uwch yn arbennig, fedru denu ymgeiswyr gydag ystod eang o ddoniau gan sicrhau hefyd y gellir cadw unigolion cymwys a chanddynt sgiliau addas unwaith y maent yn eu swyddi. Dylid cydnabod y bydd y Cyngor yn aml yn ceisio recriwtio mewn cystadleuaeth gyda chyflogwyr da eraill yn y sectorau cyhoeddus a phreifat.

Mae'r Cyngor yn gyflogwr mawr yn yr ardal a, gan hynny, rhaid iddo gadw mewn cof ei rôl o ran gwella lles economaidd pobl Ynys Môn. Mae argaeledd cyflogaeth o safon dda ar delerau ac amodau rhesymol ac am dâl teg yn cael effaith lesol ar ansawdd bywyd yn y gymuned yn ogystal ag ar yr economi leol. Mae gan y Cyngor rôl o ran pennu enghraifft meincnod o ran telerau ac amodau i gyflogwyr eraill yn yr ardal am yr un rhesymau.

Wrth ddylunio, datblygu ac adolygu'r strategaeth tâl a gwobrwyo, bydd y Cyngor yn ceisio cydbwysu'r ffactorau hyn yn briodol i sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer yr awdurdod a'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu, tra'n rheoli costau yn briodol a sicrhau digon o hyblygrwydd i gwrdd ag anghenion y dyfodol. Caiff y Datganiad Polisi Tâl hwn ei adolygu a'i gymeradwyo bob blwyddyn gan y Cyngor Llawn.

5. Y Strwythur Tâl

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r graddfeydd tâl NJC a drafodwyd yn genedlaethol fel sail ar gyfer ei strwythur tâl lleol. Hwn sy'n penderfynu'r cyflogau ar gyfer y mwyafrif llethol o'r gweithwyr nad ydynt yn athrawon, ynghyd â defnydd o'r cyfraddau cenedlaethol diffiniedig eraill lle mae hynny'n berthnasol. Yn ddiweddar cytunwyd cynnydd yn y strwythur tâl cenedlaethol i staff ar y raddfa NJC o 1.75% ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2021 hyd at 31 Mawrth 2022. Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn ymrwymedig i gydymffurfio gyda gweithdrefnau bargeinio tâl cenedlaethol mewn perthynas â'r strwythur tâl cenedlaethol ac unrhyw gynnydd blynyddol ar gyfer costau byw a drafodir yn y strwythur tâl. Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i bennu cyflogau'n deg yn unol â deddfwriaeth tâl gyfartal ac, ers 1 Rhagfyr 2015, wedi gweithredu strwythur tâl a graddfeydd Statws Sengl. Mae strwythur graddau

NJC y Cyngor yn rhedeg o Raddfa 1 (pwynt 3) hyd at Raddfa 10 (pwynt uchaf 50) gyda'r isafswm ac uchafswm cyflog fesul awr ar hyn o bryd yn £9.79 a £29.46 yn y drefn honno. Bydd y Datganiad Polisi Tâl hwn yn cael ei ddiwygio wedi hynny os cytunir ar ddyfarniad cyflog pellach o 1 Ebrill 2022.

Unwaith bydd swydd yn cael ei gwerthuso, bydd y sgôr yn penderfynu i ba raddfa neu fand tâl bydd y swydd yn cael ei gymhathu. Fel arfer, penodir i swyddi newydd ar waelod y raddfa berthnasol, er bod modd amrywio hynny lle bo angen i sicrhau y gellir penodi'r ymgeiswyr gorau, gyda chytundeb y Pennaeth Gwasanaeth – Trawsnewid ac Adnoddau Dynol. Mae cyflogau wedyn yn destun codiad blynyddol bob blwyddyn hyd nes bod uchafswm y raddfa wedi cyrraedd (fel arfer o fewn 3 blynedd).

Mae'r holl lwfansau eraill sy'n gysylltiedig â thâl yn ddarostyngedig i gyfraddau a drafodwyd yn genedlaethol neu'n lleol, a benderfynwyd o bryd i'w gilydd yn unol â'r gweithdrefnau bargeinio ar y cyd ac/neu fel y penderfynir gan Bolisi'r Cyngor.

Yn hanesyddol, nid yw'r Cyngor wedi defnyddio ychwanegiadau marchnad i gymryd y farchnad dâl allanol i ystyriaeth wrth ddenu a chadw gweithwyr gyda phrofiad, sgiliau a chapasiti penodol. Fodd bynnag, mabwysiadwyd Polisi Ychwanegiad Marchnad ac, wrth weithredu'r polisi, bydd y Cyngor yn sicrhau fod unrhyw ychwanegiad marchnad yn cael ei gyfiawnhau yn wrthrychol trwy gyfeirio at dystiolaeth glir a thryloyw o fethiant yn olynol i recriwtio i swydd, a thystiolaeth o gymaryddion perthnasol yn y farchnad, gan ddefnyddio ffynonellau data priodol sydd ar gael y tu mewn a'r tu allan i'r sector llywodraeth leol. Mae'r Cyngor, drwy ei Bolisi ar Secondiadau a Honoraria, hefyd yn gallu rhoi "honoraria" dros dro i aelodau staff sydd, oherwydd amryw reswm, yn gweithredu ar lefel uwch o gyfrifoldeb am gyfnod o amser.

Mae'r Cyngor yn disgwyl lefelau uchel o berfformiad gan bob gweithiwr ac mae ganddo Gynllun Arfarnu Blynyddol ar waith i fonitro, gwerthuso a rheoli perfformiad yn barhaus. Fodd bynnag, nid yw'r Awdurdod yn gweithredu unrhyw drefniadau tâl sy'n gysylltiedig â pherfformiad. Mae proses Werthuso'r Awdurdod yn sail i'r dull o reoli talent a chynllunio olyniaeth. Yn seiliedig ar ddadansoddiad o berfformiad a photensial gweithwyr, gall rheolwyr gynllunio gweithredoedd talent perthnasol, gan ystyried pawb fel unigolyn, y datblygiad sydd ei angen arnynt, gan wneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwobrwyo a'u galluogi i fod yn effeithiol yn eu rôl o fewn yr Awdurdod. Prif ran y broses yw'r sgwrs agored, onest ac adeiladol rhwng y rheolwr a'r gweithiwr i sefydlu ble maen nhw nawr, ble maen nhw eisiau bod a sut y gellir eu cefnogi i gyrraedd yno.

6. Buddion Eraill

Yn amodol ar amodau cymhwyso, mae gan yr holl weithwyr hawl i ymuno â Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae cyfraddau cyfraniad y gweithwyr, a ddiffinnir gan statud, ar hyn o bryd yn amrywio rhwng 5.8% a 11.4% o'u cyflog, gan ddibynnu ar y bandiau tâl sy'n ymwneud â'r cyflog cyfwerth ag amser llawn cyfatebol. Caiff cyfraddau'r cyflogwr eu pennu gan Actiwariaid sy'n cynghori Cronfa Bensiwn Gwynedd a chânt eu hadolygu bob tair blynedd er mwyn sicrhau bod y cynllun wedi ei gyllido'n briodol. Y gyfradd o 1.4.2020 fydd 21.4% ac yn weithredol hyd at 31.3.2023.

Mae gan y Cyngor ystod o delerau ac amodau eraill sy'n berthnasol i'w weithwyr, yn seiliedig yn bennaf ar delerau ac amodau'r Cydgyngor Cenedlaethol, ynghyd ag amodau a pholisïau a drafodwyd yn lleol. Mae rhai o'r telerau a'r amodau hyn yn golygu tâl ariannol, gan gynnwys benthyciadau car, talu ffioedd proffesiynol a thaliadau honoraria ar gyfer ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol. Ni thelir unrhyw fonws. Ar gyfer 'ychwanegiadau i gyflogau Prif Swyddogion', gweler paragraff 10 isod. Mae telerau ac amodau staff yn cael eu hadolygu yn rheolaidd mewn ymgynghoriad a negydu gyda'n undebau llafur cydnabyddedig.

7. Tâl Cyfartal ac adrodd ar y Bwlch Cyflog Rhyw

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r egwyddor o gyfle cyfartal a thriniaeth gyfartal i bob gweithiwr. Mae ganddo bolisi clir o dalu gweithwyr yn gyfartal am yr un gwaith neu waith cyfatebol, gwaeth beth fo'u rhyw ac mae'n gwerthuso swyddi a graddau cyflog fel bo'r angen er mwyn sicrhau strwythur teg. Mae'r Cyngor yn adrodd ar ei ffigwr Bwlch Cyflog Rhyw yn flynyddol i'r Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol. Tra bod gan y Cyngor bwlch cyflog rhyw, mae'n hyderus nad yw'r bwlch hwn oherwydd bod y Cyngor yn talu merched a dynion yn wahanol am yr un gwaith neu waith cyfwerth ac mae'r Cyngor yn falch o adrodd bod ei bwlch cyflog rhyw gymedrig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae bwlch cyflog rhyw y Cyngor yn ganlyniad i'r swyddi y mae dynion a merched yn gweithio o fewn y sefydliad a'r cyflogau y mae'r swyddi hyn yn eu denu. Tra bod y Cyngor yn cyflogi mwy o ferched na dynion, nid ydynt wedi eu gwasgaru'n gyfartal ar draws y graddfeydd. Mae unrhyw ddyfarniadau cyflog yn cael eu gweithredu ar draws yr holl raddfeydd ac felly ni fyddent yn lleihau'r bwlch cyflog rhyw yn sylweddol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wella ei fwlch cyflog rhyw drwy gefnogi merched ar bob lefel o'r sefydliad i ddatblygu eu gyrfaedd.

8. Cydnabyddiaeth Ariannol i Uwch Reolwyr

I ddibenion y datganiad hwn, mae uwch reolwyr yn golygu 'prif swyddogion' fel y diffinnir hynny yn Adran 43 y Ddeddf Lleoliaeth. Mae'r swyddi dilynol yn disgyn o fewn y diffiniad statudol o 'uwch reolwyr' yng nghyd-destun y datganiad hwn:-

- a) Prif Weithredwr/Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig - yr uwch swyddog sy'n arwain ac yn cymryd cyfrifoldeb am yr Awdurdod, gan weithio'n agos gydag aelodau etholedig i gyflawni nodau ac amcanion yr Awdurdod.
- b) Uwch Dim Arweinyddiaeth (Dirprwy Brif Weithredwr, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro), Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg, Sgiliau a Phobl Ifainc.
- c) Penaethiaid Gwasanaeth – Plant a Theuluoedd/Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Oedolion, Adnoddau & Thrawsnewid, Tai, Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo, a Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

Yn 2019 cafodd yr holl ddisgrifiadau swydd o fewn y strwythur Uwch Reolwyr eu gwerthuso yn unol â Chynllun Gwerthuso Swyddi'r Gymdeithas Llywodraeth Leol (CLIL) ar gyfer uwch swyddogion a'u dilysu'n allanol gan yr CLIL. Yna troswyd y sgorau i strwythur cyflog (a adolygwyd eto gan y CLIL ac a ddangosir isod) cyn eu cyflwyno i Banel Annibynnol Cydnabyddiaeth Ariannol Cymru (IRP) a gadarnhaodd eu cefnogaeth lawn i'r strwythur graddio a chyflog arfaethedig.

Strwythur Cyflog CLIL yr Uwch Dîm Rheoli –

Graddfa CLIL	Swydd	Cyflog 01/04/2022
LGA 1		
LGA 2	Penaethiaid Gwasanaeth	80,294
LGA 2A	Cyfarwyddwr Swyddogaeth Swyddog Monitro	81,743
LGA 3	Cyfarwyddwyr / Cyfarwyddwr Swyddogaeth Swyddog A151	90,420
LGA 4	Dirprwy Brif Weithredwr	101,058
LGA 5	Prif Weithredwr	122,334

Felly bydd tâl sylfaenol uwch reolwyr ar **1 Ebrill 2022**, (ac yn ddarostyngedig i gytundeb ar unrhyw ddyfarniadau cyflog ar gyfer 2022/23) fel a ganlyn: -

<u>Uwch Swyddog</u>	<u>Tâl</u>
Prif Weithredwr – CLILGA5	£122,334 y flwyddyn (ddim yn gynyddrannol). Mae'n ofynnol i'r swyddog weithredu fel Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig a bydd hefyd yn derbyn ffioedd ychwanegol ar gyfer dyletswyddau fel Swyddog Canlyniadau.
Arweinyddiaeth Uwch – CLIL2A-CLIL4 -	£81,743 - £101,058 y flwyddyn
Penaethiaid Gwasanaeth – CLIL2	£80,294 y flwyddyn

Nid yw'r trefniadau cydnabyddiaeth yn cynnwys unrhyw lwfansau arbennig, taliadau bonws neu incrementau eraill.

Mae Pwyllgor Penodi'r Cyngor yn cyfarfod i ystyried a darparu argymhellion i'r Cyngor ar lefelau cyflog a gwobr am y tair haen uchod o uwch swyddogion. Cwmpas y Pwyllgor yw: -

- Gwneud argymhellion ar faterion cyflog a gwobr uwch i'r Cyngor, gan sicrhau cysondeb, tryloywder a hygyrchedd.
- Gwneud argymhellion ar reoli a strwythur tâl a gwobr uwch, a sail ar gyfer dilyniant tâl.
- Gwneud argymhellion i'r Cyngor llawn ar benodiadau uwch reolwyr.

Mae Adran 143A o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn rhoi i'r Panel Cydnabyddiaeth Ariannol Annibynnol dros Gymru (yr IRP") pwerau i wneud argymhellion mewn perthynas â

chyflog y Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, neu unrhyw newidiadau arfaethedig i gyflog Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig. Bydd yr Awdurdod yn ystyried unrhyw argymhelliad a dderbyniwyd gan yr IRP mewn perthynas â thâl i'w Bennaeth Gwasanaeth Cyflogedig.

9. Recriwtio Prif Swyddogion

Mae polisi a gweithdrefnau'r Cyngor mewn perthynas â recriwtio prif swyddogion wedi eu hamlinellu o fewn y Rheolau Gweithdrefn Cyflogi Swyddogion yn Rhan 4.10 y Cyfansoddiad. Wrth recriwtio i bob swydd, bydd y Cyngor yn cymryd ystyriaeth lawn a phriodol o'i Bolisiau ar gyfer Cyfleon Cyfartal, Recriwtio a Dewis, ac Adleoli. Bydd y penderfyniad ynghylch y cyflog a gynigir i unrhyw brif swyddog a benodir o'r newydd yn cael ei wneud yn unol â'r strwythur tâl cytunedig a'r polisiau perthnasol sydd mewn grym ar adeg y recriwtio.

Lle na all y Cyngor recriwtio prif swyddogion dan gontract gwasanaeth, neu lle mae angen cymorth dros dro i gyflawni dyletswyddau swydd prif swyddog sy'n wag, bydd y Cyngor, lle bo raid, yn ystyried ac yn gweithredu trefniadau i gyflogi unigolion dan gontractau gwasanaeth. Gwneir hynny trwy broses bwrcasu berthnasol, gan sicrhau bod y Cyngor yn gallu dangos y gwerth gorau am arian o gystadleuaeth, wrth sicrhau gwasanaethau perthnasol.

Yn unol â rheoliadau Llywodraeth Cymru, mae'n bolisi gan y Cyngor bod y Cyngor llawn yn cael y cyfle i bleidleisio ar dâl ac unrhyw ailstrwythuro ar lefel uwch rheolwyr gwaeth beth yw lefelau cyflog. Mae rheoliadau Llywodraeth Gymru hefyd yn nodi fod rhaid hysbysebu'n allanol unrhyw swyddi gyda chyflog o £100,000 neu fwy os oes disgwyl i'r swydd fod am gyfnod o 12 mis neu fwy.

10. Gwobrau Cyflog

Mae'r Cyngor yn cyflogi ei Brif Weithredwr a Phrif Swyddogion dan delerau ac amodau JNC wedi eu hymgorffori yn eu contractau. Mae'r JNC ac gyfer Prif Swyddogion yn negydu codiadau tâl i gwrdd â chostau byw cynyddol ar ran y grŵp hwn ar lefel cenedlaethol, ac mae unrhyw ddyfarniad yn cael ei bennu ar y sail hon. Mae Prif Swyddogion a gyflogir dan delerau ac amodau'r JNC gyda'r hawl cytundebol i unrhyw wobrau cyflog a benderfynwyd yn genedlaethol gan y JNC a bydd y Cyngor hwn felly yn talu'r codiadau cyflog hyn fel a phan eu penderfynwyd yn unol â gofynion cytundebol cyfredol.

11. Ychwanegiadau i Gyflogau Prif Swyddogion

Mae'r un meini prawf cymhwyso a'r un trefniadau yn berthnasol i Brif Swyddogion ag sy'n berthnasol i weithwyr eraill mewn perthynas â thelerau ac amodau ychwanegol sy'n denu tâl, gan gynnwys taliadau costau teithio ac ad-dalu ffioedd proffesiynol.

12. Taliadau Terfynu

Mae dull y Cyngor o drin taliadau dewisol a statudol ar adeg terfynu cyflogaeth prif swyddogion a gweithwyr sydd o fewn sgôp y datganiad hwn, cyn iddynt gyrraedd oed ymddeol arferol, wedi ei nodi yn ei ddatganiad polisi yn unol â rheoliadau 5 a 6 Rheoliadau Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Fuan) (lawndal Dewisol) 2006 a Rheoliadau 12 a

13 Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniad) 2007. Mae unrhyw ychwanegiadau a ddarperir o fewn polisi'r Cyngor yn berthnasol i bob aelod o staff, waeth beth fo'u graddfa a'u statws.

Bydd y Cyngor llawn yn cael cyfle i bleidleisio ar becynnau diswyddo sydd dros £100,000, y cyfanswm i gynnwys tâl diswyddo, tâl yn lle rhybudd a'r gost i'r awdurdod o'r straen ar y gronfa bensiwn sy'n codi o ddarparu mynediad cynnar i bensiwn. Yn achos yr holl daliadau eraill sy'n disgyn y tu allan i dermau contractyddol, bydd angen i'r Cyngor llawn neu aelodau etholedig perthnasol, pwyllgor neu banel o aelodau etholedig gydag awdurdod dirprwyol wneud penderfyniad ffurfiol i gymeradwyo'r fath daliadau.

Ar hyn o bryd, nid yw'r Cyngor wedi ailgyflogi Prif Swyddogion sydd wedi ymddeol. Pe bai amgylchiadau yn codi lle byddai angen ystyried gwneud hynny am resymau busnes pwysig, byddai unrhyw benderfyniad o'r fath yn cael ei wneud gan y Cyngor llawn neu aelodau etholedig perthnasol, pwyllgor neu banel o aelodau etholedig gydag awdurdod dirprwyol i gymeradwyo trefniadau o'r fath, yn unol â pholisi Ailstrwythuro a Diswyddo'r Cyngor fel y nodir isod.

Mae Polisi Ailstrwythuro a Diswyddo'r Cyngor yn nodi na fydd unrhyw weithiwr sy'n gadael cyflogaeth y Cyngor ar delerau diswyddo gwirfoddol yn cael ei ail-gyflogi gan y Cyngor am gyfnod y taliad iawndal dileu swydd a dderbyniwyd, e.e. os bydd aelod o staff yn derbyn 45 wythnos o dâl dileu swydd, ni ellir ail-gyflogi gan y Cyngor am 45 wythnos ar ôl y dyddiad terfynu. Bydd y cyfnod hwn yn cael ei ymestyn i 12 mis os yw'r gweithiwr hefyd yn derbyn pensiwn y mae'r Cyngor wedi talu costau ychwanegol iddi. Byddai'n rhaid i unrhyw ail-gyflogaeth gynt na'r hyn a nodir uchod fod gydag awdurdodiad penodol yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Pennaeth Gwasanaeth - Trawsnewid ac Adnoddau Dynol a fyddai'n ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau.

13. Gweithwyr ar y Cyflogau Isaf

Mae'r gweithwyr sy'n cael y tâl isaf ac a gyflogir dan gontract cyflogaeth gyda'r Cyngor yn cael eu cyflogi ar gyflogau sy'n gyfwerth ag amser llawn 37 awr yn unol â'r pwynt cyflog isaf a ddefnyddir ar hyn o bryd yn strwythur graddfeydd y Cyngor. Ar 1 Ebrill 2022, ac yn ddarostyngedig i gytundeb ar unrhyw gynnig codiad cyflog ar gyfer 2022/23, y pwynt hwnnw yw'r pwynt graddfa 3 cyfredol a gytunwyd yn genedlaethol, sy'n £18,887 y flwyddyn, neu £9.79 yr awr, sy'n cymharu gyda'r Tâl Byw Cenedlaethol o £9.50 yr awr o 1 Ebrill 2022 a'r Cyflog Byw llawn (a osodwyd yn Hydref 2021) o £9.90 yr awr.

Mae'r berthynas rhwng y gyfradd tâl ar gyfer y rheini sydd ar y cyflogau isaf a chyflogau prif swyddogion yn cael ei phenderfynu gan y prosesau a ddefnyddir i benderfynu'r strwythurau tâl a graddfeydd fel y dangosir yn gynharach yn y datganiad polisi hwn.

Mae'r canllawiau statudol dan y Ddeddf Lleoliaeth yn argymhell defnyddio lluosyddion tâl fel ffordd o fesur y berthynas rhwng cyfraddau tâl ar draws y gweithlu a thâl uwch reolwyr, fel sydd wedi ei gynnwys yn Adolygiad Hutton o Dâl Teg yn y Sector Cyhoeddus (2010). Gofynnodd y Llywodraeth i'r adroddiad Hutton ymchwilio i'r achos ar gyfer sefydlu terfyn sefydlog o ran yr ystod tâl, trwy fynnu na all unrhyw reolydd yn y sector cyhoeddus ennill mwy nag 20 gwaith yr hyn a delir i'r sawl sydd ar y cyflog isaf yn y sefydliad. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod y berthynas gyda chyflog cyfartalog yn fesur mwy perthnasol ac

mae Côt Arferion y Llywodraeth ar Dryloywder Data yn argymhell y dylid cyhoeddi'r gymhareb rhwng y cyflog uchaf a'r cyflog cyfartalog ar gyfer y cyfan o weithlu'r awdurdod.

Fel rhan o'i drefniadau monitro parhaus o ran aliniad gyda marchnadoedd tâl allanol, y tu mewn i'r sector a'r tu allan iddo, bydd y Cyngor yn defnyddio gwybodaeth meincnodi sydd ar gael fel sy'n briodol. O'i fynegi fel lluosydd o gyflog, bydd cyflog y Prif Weithredwr yn 6.5:1 yn fwy nag enillydd isaf y Cyngor.

14. Contractwyr Allanol

Bydd y Cyngor yn defnyddio ei brosesau pwrcasu i sicrhau y mabwysiedir arferion tâl teg a moesegol gan contractwyr allanol a gomisiynwyd i ddarparu gwasanaethau.

15. Cyhoeddi

Ar ôl i'r Cyngor llawn ei gymeradwyo, cyhoeddir y datganiad hwn ar Wefan y Cyngor. Yn ogystal, ar gyfer swyddi lle mae'r cyflog cyfwerth ag amser llawn cyfatebol yn o leiaf £60,000, bydd [Datganiad Cyfrifon Blynnyddol](#) y Cyngor yn cynnwys nodyn yn amlinellu cyfanswm

- cyflogau, ffioedd neu lwfansau a dalwyd i'r unigolyn yn y flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn flaenorol neu yr oedd modd i'r unigolyn eu derbyn;
- unrhyw symiau sy'n daladwy ar ffurf lwfans treuliau sy'n denu treth incwm yn y Deyrnas Gyfunol.
- unrhyw iawndal am golli cyflogaeth ac unrhyw daliadau eraill sy'n gysylltiedig â therfynu cyflogaeth;
- unrhyw fuddion a dderbyniwyd nad ydynt o fewn sgôp yr uchod.

16. Atebolrwydd a Gwneud Penderfyniadau

Mae Adran 54 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gofyn i'r Prif Weithredwr gadw dan adolygiad parhaus y trefniadau recriwtio, tâl a graddfeydd staff y Cyngor.

17. Monitro

Bydd y Datganiad Polisi Tâl yn cael ei adolygu'n flynyddol a'i chyflwyno i gyfarfod o'r Cyngor llawn bob blwyddyn naill ai ym mis Chwefror neu mis Mawrth; yn dilyn hyn bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

Mae'r Cyngor wedi ystyried y canllawiau presennol yn natblygiad y polisi tâl hwn, ond os derbynnir canllawiau diwygiedig pellach, neu os cytunir ar ddyfarniadau cyflog pellach, gall y Cyngor benderfynu diwygio'r polisi gyda chymeradwyaeth y Cyngor llawn. Bydd y fersiwn diwygiedig yn cael ei gyhoeddi ar y wefan.

Chwefror 2022

This page is intentionally left blank